

Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

COFIANT
Y PARCH
RICHARD HUMPHREYS
DYFFRYN

2/6

Bt. from J. E. Young 3.v.1965

E Hughes

1122 e. 69

Yours truly and affectionately

Rich Humphreys

COFIANT

AM Y PARCH.

RICHARD HUMPHREYS,
DYFFRYN,

YN NGHYDA

CHASGLIAD O'I BREGETHAU A'I DRAETHODAU.

"Da wladwr, duwiol ydoedd,
A gŵr i Dduw o'r gwraidd oedd."—EBEN VARDD.

GAN Y PARCH.

GRIFFITH WILLIAMS,

TALSARNAU.

WREXHAM:
CYHOEDDEDIG GAN HUGHES A'I FAB, HOPE STREET.

BODLEIAN
P
29 MAY 1965
BRARY

AT Y DARLLENYDD.

Nis gwn a ddysgwylir i mi roddi unrhyw esgusawd dros anturio dwyn allan Gofiant am y diweddar hybarch Richard Humphreys o'r Dyffryn ai peidio: credwyf na wneir. Onid oedd y neillduolion a ddisgleirient mor amlwg yn ei gymeriad, a'r safle uchel a enillodd fel dyn, gwladwr, cristion, a gweinidog cymhwys y Testament Newydd, yn cyfiawn haeddu i'r deyrnged hon o barch gael ei thalu i'w goffadwriaeth? Buasai yn dda genyf pe syrthiasai i law rhywun mwy cymhwys na mi i osod allan mewn trefn ei hanes: ond er bod yn ymwybodol o fy annghymhwysder, yr oedd y parch dwfn a deimlwn i'w goffadwriaeth yn cymhell fy meddwl i edrych beth ellid wneyd er casglu adgofion am dano. Gwyddwn cyn dechreu fod y gwaith yn fawr, gan fod yn rhaid casglu y defnyddiau oddiar gôf y rhai a'i hadwaenai, a llawer o'r rhai hyny fel yntau wedi huno. Ond er hyny credwn fod ei sylwadau doeth a'i atebion pert—fel yr esgyrn hyny—yn wasgaredig ar hyd wyneb y Dyffryn, ac ardaloedd eraill; ac ar ol gwneyd fy mwriad o'u casglu at eu gilydd yn hysbys trwy y Cyfarfod Misol, *Y Goleuad*, a llythyrau cyfrinachol, dechreuodd asgwrn dd'od at ei asgwrn; ac fel yr oeddynt yn dyfod i law, ymdrechais i gyfodi gïau a chig arnynt, a'u gwisgo â chroen, a gwnaethum fy ngoreu i anadlu

bywyd i'r Cofiant, a thrwy hyny gael yr hen batriarch ar ei draed ar ol bod am flynyddoedd mewn tir annghof.

Y mae yn gweddu i mi gydnabod gyda'r diolchgarwch gwresocaf y cynorthwy a gefais gan y Parchn. Robert Griffith, Bryncrug; Griffith Hughes, Edeyrn; y diweddar E. Davies, Penystryd, Trawsfynydd (Annibynwr); Joseph Thomas, Carno; O. Thomas a Joseph Williams, Liverpool; D. Davies, Abermaw; R. Edwards, Wyddgrug; Dr. M. Davies, Caernarfon; Mri. Rees Roberts, Harlech; William Lewis, Llanbedr; D. Rowlands, Pennal; W. Ellis, Aberllefeni; William Williams, Tanygrisiau; D. W. Owen, Bethesda; y diweddar E. Davies, Cefnyddwysarn; Richard Owen, Machynlleth; M. Williams, Abermaw; yn nghyda lluaws mawr o'i hen gymydogion yn y Dyffryn a'r amgylchoedd. Gwnaethum hefyd ddefnydd helaeth—trwy ganiatâd yr awdwr, y Parch. L. Edwards, D.D., Bala—o'r ysgrif a ymddangosodd yn "*Maner ac Amserau Cymru*" yn fuan ar ol ei farwolaeth.

Fe wel y brodyr anwyl a fu mor garedig ag ysgrifenu yn lled helaeth eu hadgofion am dano, oddiwrth y cynllun a fabwysiadwyd genyf i drefnu y Cofiant, fod yn anmhosibl i mi roddi eu hysgrifeniadau i mewn yn un darn fel y daethant i law—er y buasai yn dda genyf allu gwneyd hyny—ond yr oeddwn dan orfod i'w dadgymalu, a gosod pob darn gyda'i debyg. Derbyniais lawer o'r un sylwadau o'i eiddo, a phan y cawn amryw yn cofnodi yr un pethau, fy rheol ydoedd cymeryd yr un y byddai Mr. Humphreys hawddaf i'w adnabod ynddo. Gallwn feddwl fod ganddo *lot* o ddywediadau ac egwyddorion, pa rai a ddefnyddiai fel y byddai amgylchiadau yn galw am danynt.

Trwy hynawsedd Mr. Hugh Jones, Draper, &c.,

Dolgellau, anrhegwyd ni ag amryw o bregethau Mr. Humphreys, pa rai a ysgrifenwyd ganddo wrth eu gwrando; a dïau genyf y cytuna y darllenydd â mi i gyflwyno y diolchgarwch gwresocaf i Mr. Jones am danynt; byddant yn chwanegiad gwerthfawr at y Cofiant.

Ar anogaeth amryw o frodyr a hen gyfeillion Mr. Humphreys yr wyf hefyd wedi casglu ei holl ysgrifeniadau, pa rai a ymddangosasant o dro i dro trwy y wasg, a chredaf y teimla y darllenydd wrth eu darllen yn debyg i minau, sef gresynu na buasid wedi llwyddo i gael ganddo ysgrifenu mwy o gynyrchion ei brofiad aeddfed ar wersi ymarferol bywyd.

Nid oes genyf bellach ond canu yn iach i'r doethwr o'r Dyffryn, ar ol bod yn eistedd uwch ei ben am dros flwyddyn a haner; ac nis gallaf lai na'i hystyried yn fraint cael rhoddi cyfleusdra i'r darllenydd trwy y gyfrol fechan hon i wrando ar un sydd wedi marw yn llefaru eto. Fy nymuniad diweddaf ydyw ar i gynwys y Llyfr Coffadwriaeth hwn fod er adeiladaeth, a chynghor, a chysur i bawb a'i darlleno.

GRIFFITH WILLIAMS.

TAL-Y-SARNAU,

Mawrth 15*fed*, 1873.

Y CYNNWYSIAD.

TUDAL.

AT Y DARLLENYDD . . . . . v—vii

PENNOD I.

Mr. Humphreys a'i Ddyddiau Boreuol 9

PENNOD II.

Mr. Humphreys a'i Dueddiadau Crefyddol 16

PENNOD III.

Mr. Humphreys a'i Helyntion Teuluaidd 22

PENNOD IV.

Mr. Humphreys yn ei Gylchoedd Cyhoeddus 34

PENNOD V.

Mr. Humphreys a'i Gymydogion 62

PENNOD VI.

Mr. Humphreys a Dirwest 83

PENNOD VII.

Mr. Humphreys a'i Gynghorion 93

PENNOD VIII.

Mr. Humphreys a Dysgyblaeth Eglwysig. 101

PENNOD IX.

Mr. Humphreys a'i Ffraetheiriau 110

PENNOD X.

TUDAL.
Mr. Humphreys a'i Sylwadau 118

PENNOD XI.

Mr. Humphreys fel Gweddïwr 130

PENNOD XII.

Mr. Humphreys yn ei Ddyddiau Olaf 135

PREGETHAU.

Pregeth I. Esaiah lv. 9 149
Pregeth II. Iago iii. 17 159
Pregeth III. Psalm xcvii. 1 166
Pregeth IV. Ezra i. 3 175
Pregeth V. Luc xiv. 22 181
Pregeth VI. Diarhebion viii. 21 187
Pregeth VII. Colosiaid i. 13 193
Pregeth VIII. Matthew xix. 6 202
Pregeth IX. Psalm cvii. 8 209
Pregeth X. 1 Corinthiaid ii. 9 217

TRAETHODAU.

Hwda i ti, a moes i minau 229
Tlodi 238
Pobl y Mawr Gam 249
Yr Hen Bobl 254
Y Bobl Ieuaingc 260
"Yr Hen a ŵyr, a'r Ieuangc a dybia" 267
Balchder 271
Prydlondeb 277
Camgyhuddiadau 285
Boddlonrwydd 292
Siampl a Dynwarediad 296

COFIANT, &c.

PENNOD I.

Mr. HUMPHREYS A'I DDYDDIAU BOREUOL.

Nid oedd yr hybarch Mr. Richard Humphreys wedi arfer cadw na chownt na chyfrif o ddim o'i fyfyrdodau, ei deithiau, na'i weithrediadau. Nid oes cymaint ag un bregeth ar ei ol, yn ei lawysgrif ef ei hun; ac mor bell ag yr ydym wedi gallu cael allan, nid oes ond ychydig o lythyrau iddo ar gael, heblaw y rhai a ysgrifenwyd ganddo at ei deulu pan y dygwyddai fod oddicartref. Oni bai fod ei bregethau, ei ffraetheiriau, a'i ddywediadau cynnwysfawr, wedi argraphu eu hunain ar feddyliau a chydwybodau y rhai a'i hadwaenai, buasem wedi ei golli o'n plith fel llong yn suddo yn nghanol y môr, heb ddim i ddangos y fan lle yr aethai i lawr. Ond buasai ein colled yn ddau cymaint, o gymaint ag y buasem wedi colli y llong a'i llwyth. Y mae y llong—a llong odidog ydoedd hefyd—wedi suddo er's dros naw mlynedd; ond y mae llawer o'r *cargo* yn parhau i nofio ar y wyneb, ac y mae sypynau gwerthfawr yn cael eu golchi i'r lan yn fynych. Yr ydym wedi bod am y misoedd diweddaf yn cerdded gyda'r glanau, o amgylch y fan lle y cymerodd y *wreck* le, a thrwy gymhorth cyfeillion yr ydym wedi llwyddo i gael llawer o sypynau i dir yn ddiogel. Mae yn wir fod rhanau o'r llwyth wedi eu golchi i dir yn mhell o lanau Gorllewinol Meirionydd, ond adnabyddai pawb hwy fel pethau perthynol i'r llong suddedig; a bu brodyr ffyddlon mor garedig a'u hanfon yn ddiogel i ni: a'n gwaith yn y gyfrol fechan hon fydd ceisio casglu a diogelu cymaint ag a allwn o'r trysorau gwerthfawr perthynol iddi. Nid oes

dim yn brawf gwell o'r rhagoriaethau oedd yn perthyn i Mr. Humphreys na'r adgofion bywiog sydd yn mysg ei gymydogion ac ereill am dano, a hyny yn mhen cymaint o flynyddoedd ar ol ei ymadawiad. Bydd ei enw yn perarogli yn hyfryd yn y Dyffryn a'r amgylchoedd am oesau lawer.

Saif Dyffryn Ardudwy ar lain o wastadedd sydd yn gorwedd rhwng y môr a mynydd y Moelfre, ychydig filldiroedd i'r gogledd o'r Abermaw, ar y ffordd i Harlech. Er na cheir yn Nyffryn Ardudwy lawer o bethau a ddysgwylir eu cael mewn *dyffryn*, etto y mae yn ardal boblogaidd a hynod o'r dymunol i fyw ynddi: y mae yn syndod ei bod mor boblogaidd, pan yr ystyriom nad oes yno weithfeydd o fath yn y byd i dynu dynion yn nghyd. Y mae yma un palas henafol o'r enw Cors-y-gedol (yr hwn a berthynai unwaith i hen deulu enwog y Fychaniaid, ger Dolgellau), ac am yr hwn y mae gan y trigolion lawer o bethau i'w dywedyd. Bu Charles yr Ail, pan yn ffoadur, yn lletya yno noson: ac y mae y gwely a'r ystafell lle y bu yn cysgu yn cael eu cadw fel yn gysegredig i'w dangos i'r cywrain hyd y dydd hwn.

Yr oedd Mr. Humphreys yn Ddyffrynwr o waed coch cyfan. Yr oedd ei dad, Humphrey Richard, yn fab i amaethwr cyfrifol o'r enw Richard Humphreys; a'i fam, Jennet Griffith, yn ferch Taltreuddyn fawr. Yr oedd hithau hefyd o deulu parchus, ac wedi cael addysg foreuol dda. Bu am dymmor yn Lloegr yn yr ysgol, yr hyn oedd yn beth tra anghyffredin yn y dyddiau hyny. Yr oedd y ddau yn aelodau eglwysig ffyddlon gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yn y Dyffryn. Yr oedd i Humphrey Richard ddau frawd a thair chwaer: Griffith Richard, y Capel (fel y gelwid ef yn y Dyffryn), a John Richards, Llanfair—tad i'r diweddar Barch. J. L. Richard, gweinidog parchus gyda'r Trefnyddion Wesleyaidd—a Mrs. Edwards, Caercethin. Ei chwiorydd oeddynt Elizabeth Richard, Uwch-glan, Llanfair; Jane Richard, Ymwlch—mam y diweddar Morgan Owen, Glynn, Talysarnau; a Gwen Pugh, priod Mr. Thomas Pugh, Dolgellau, at yr hwn y bydd genym achos i alw sylw eto. Daeth Gwen Pugh i ddiweddu ei hoes i Dŷ Capel y Dyffryn. Yr oedd yn hynod o ffraeth.

Yr oedd i Jennet Griffith hefyd frawd a chwaer: Hum-

phrey Griffith, Taltreuddyn Fawr, plwyf Llanfair—taid Mr. J. H. Jones, Penyrallt, a Dr. Griffith, Taltreuddyn Fawr. Enw ei chwaer oedd Ann Griffith: priododd Richard Roberts, Bryncoch, yr hwn oedd yn frawd i Henry Roberts, Uwchlaw'r-coed.

Bu i Humphrey Richard a Jennet Griffith bedwar o blant, dau fab a dwy ferch,—Richard a Griffith—Mary a Jane. Aeth Griffith i Lundain pan yn ieuanc, ac ymsefydlodd yno; ac ymunodd â phlaid o'r Undodiaid, a elwir y *Free Thinkers*, yr hyn a fu yn dristwch nid bychan i'w frawd Richard. Priododd, a bu iddo chwech o blant. Y mae rhai o honynt yn Llundain yn awr, a'r lleill wedi ymwasgaru. Priododd Mary gadben llong o Ddolgellau, a bu iddynt amryw blant; ond buont oll feirw yn ddibriod. Priododd Jane hefyd Richard Thomas o Benymorfa, Sir Gaernarfon, a bu iddynt saith o blant; ac y mae llawer o wyrion ac wyresau yn aros. Gellir dyweyd am y briodas hon iddi fod yn ddechreuad cenedlaeth fawr.

Ganwyd Richard Humphreys yn Mehefin, y flwyddyn 1790, yn Ngwernycanyddion, hen gartref ei dad a'i daid. Symudodd ei dad pan oedd efe yn bur ieuangc o Wernycanyddion i'r Faeldref—nid i'r Faeldref bresenol, ond i'r hen ffermdy, o'r hwn nid oes yn aros ond ychydig o'r muriau i ddangos y fan lle y safai. Nid oedd y symudiad hwn ond bychan, gan fod y ddau, Gwernycanyddion a'r Faeldref, yn yr un plwyf, ac nid oes ond o gylch milldir rhyngddynt. Saif y Faeldref ar lanerch brydferth o gylch hanner y ffordd rhwng y Dyffryn a phentref bychan a swynol Llanbedr. I'r gorllewin iddo y mae y *Cardigan Bay* yn gorwedd yn llon'd ei wely, yr hwn a ymddengys weithiau fel pe byddai wedi digio wrth yr holl fyd: "rhua a therfysga ei ddyfroedd, a chryna y mynyddoedd gan ei ymchwydd ef;" bryd arall ymddengys mor dawel, llyfn, a llonydd, fel pe byddai yn edifarhau am ei wylltineb diangenrhaid y dydd o'r blaen. Ar ddystyll, bydd Sarn Badrig i'w gweled, yn ymddolenu am filldiroedd i'r môr, a'r tonau yn ymddryllio arni. Tybia rhai fod y cadarnfur hwn yn rhan o'r môr-glawdd oedd yn diogelu Cantref y Gwaelod—sef yr un dref ar bymtheg hyny a foddwyd, fel y dywedir, yn y chweched canrif, a hyny trwy feddwdod dyhiryn a osodasid i wylied y dyfrddorau. Y mae y sarn hon, pa un bynag ai natur ai celfyddyd fu yn ei gosod

ar ei gilydd, wedi bod yn ddinystr i ddegau o longau godidog, a llawer morwr glew a gyfarfu â dyfrllyd fedd arni. Clywsom y diweddar Mr. Morgan yn dyweyd na byddai byth yn cynefino ag edrych ar y môr; a pha ryfedd? onid yw y golygfeydd yn newid mor fynych, fel ag y mae newydd-deb yn cael ei gadw arno yn barhaus?

Nid oedd i enw y Faeldref na swyn nac enwogrwydd cyn y dyddiau hyny, fel ag i roddi arno unrhyw uwchafiaeth ar ffermdai eraill y gymydogaeth. Ond y mae llawer lle digon di-nod ynddo ei hun wedi dyfod trwy ei berthynas a phersonau neu ddygwyddiadau yn fyth gofiadwy. Bydd *Waterloo* mewn cof tra y bydd dŵr yn rhedeg, a Phant-y-celyn yn mhell ar ol hyny—y cyntaf ar gyfrif y ffrydiau o waed dynol a gollwyd ar y llanerch; a'r diweddaf ar gyfrif yr "hymnau a'r odlau ysbrydol" a anadlwyd allan gan ysprydoledig awen "Per Ganiedydd Cymru." Felly hefyd y mae y Faeldref wedi dyfod yn *household word* trwy Gymru benbaladr, fel lle a fu yn drigfan am flynyddoedd lawer i ddau o arwyr "Rhyfeloedd y Groes," sef y Parchedigion Richard Humphreys ac Edward Morgan. Bychan feddyliodd ei dad, Humphrey Richard, pan yn symud o Wernycanyddion, y byddai i'r bachgen Richard gyrhaedd y fath enwogrwydd fel ag i anfarwoli enw ei gartref newydd.

Nis gwyddom beth oedd oedran Richard pan y gwnaeth ei dad y symudiad hwn. Y mae yn rhaid nad oedd ond ieuangc, oblegid bu farw ei fam yn Ngwernycanyddion pan nad oedd efe ond saith mlwydd oed. Rhaid fod colli ei fam wedi bod yn golled fawr iddo. Y mae yn haws i blentyn yn yr oedran tyner hwn fforddio colli pob peth na cholli mam; yn enwedig os bydd yn fam synwyrol, ofalus, a chrefyddol; ac yr oedd ei fam ef yn meddu y rhagoriaethau hyn. Cawsom un awgrymiad ar ei ol sydd yn dangos fod ei fam yn wraig bwyllog iawn. Dywedai wrth fyned trwy un o gaeau Gwernycanyddion gyda Mr. Harri Roberts, Uwchlaw'r-coed—yr hwn oedd yn un o hen flaenoriaid parchus y Dyffryn, ac yn ŵr a berchid yn fawr gan Mr. Humphreys,—"Yr wyf yn cofio fy hun pan yn fachgen bychan yn dyweyd wrth rhywun y gallaswn fod wedi palu y cae hwn drosodd tra y bu fy mam yn bygwth fy chwipio." "Bum yn meddwl gannoedd o weithiau," ebe fy hysbysydd—Mr. Rees Roberts, Harlech, yr hwn

oedd yn myned gyda'r ddau, yn hogyn bychan yn llaw ei dad—"fod oediad cosp fygythiol y fam yn dra nodweddiadol o dynerwch ei mab mewn cylchoedd eangach." Byddai yntau ei hun yn barnu iddo dderbyn y pwyll a'r arafwch oedd yn ei feddu, yn nghyda'r parodrwydd i gydymdeimlo â rhai mewn cyfyngder a chaledi, oddiwrth ei fam, yr hon oedd wraig dosturiol a meddylgar. Ac adroddai yr hanesyn canlynol i ddangos hyny:—"Digwyddodd i wraig o'r gymydogaeth ddyfod i'r tŷ at fy mam, a chwynai o herwydd ei hamgylchiadau isel; ond dangosai eiddigedd wrth ganfod teulu arall, heb fod yn mhell, yn glyd eu trigfan. 'O,' meddai fy mam wrth y wraig gwynfanus, 'y mae yn debyg mai doethach i ni fyned i'r Ys—ll—n i farnu ein hamgylchiadau nag i E—th—n—f—y—dd.'" Yr oedd y sylw hwn yn llawn synwyr, oblegid y mae yn llawer mwy priodol i ni fyned i farnu ein hamgylchiadau wrth ein hisradd nag wrth ein huwchradd.

Yn mhen yr wyth mlynedd ar ol colli ei fam bu ei dad farw, ac felly gadawyd ef, yn ei bymthegfed flwyddyn o'i oedran, yn fachgen amddifad o dad a mam. Y mae yr adeg hon ar oes yn ddechreuad cyfnod peryglus; a diau y gall y rhai hyny sydd wedi dinystrio cysuron bywyd, trwy fyw yn afradlon, olrhain eu dinystr i'r camrau gwyrgam a gymerasant pan o bymtheg i ugain oed. Beth bynag ydyw maint yr anfanteision sydd mewn colli gofal mam dyner, a chynghorion tad doeth, cafodd Richard Humphreys eu profi hwynt oll. Collodd eu haddysg dda, eu hesiampl rhinweddol, yn nghyda'u gweddiau taerion drosto. Ond nid yw Duw yn tori bylchau mewn teuluoedd heb fod yn barod i lenwi yr adwy ei hunan; a chafodd y bachgen Richard ef yn "Dad yr amddifad," yn ol ei addewid.

Trwy fod y teulu yn dda allan o ran pethau y byd, cafodd Richard yr ysgolion cartrefol goreu oedd i'w cael y pryd hwnw; a bu am beth amser yn yr Amwythig yn yr ysgol, ond nid hysbyswyd ni pa hyd. Daeth trwy hyn yn gydnabyddus yn ieuangc â'r iaith Saesneg, fel ag yr oedd yn gallu ei darllen, ei hysgrifenu, a'i siarad yn rhwydd; a chlywsom ef fwy nag unwaith yn pregethu yn yr "iaith agosaf atom." Byddai rhai o'r crach-feirniaid gorddysgedig yn ceisio dyweyd y byddai yn siarad Saesneg

yn rhy Gymreigaidd; ond yr oedd ef yn rhy fawr i sylwi ar y pethau bychain. Trwy ei fod o duedd fyfyrgar, ac yn ymroddi at ei wersi, yr oedd y plant oedd yn gyd-ysgoleigion ag ef yn meddwl nad oedd mor galled a hwy. Gofynai un o'i hen gyfoedion iddo, "Sut y mae hyn yn bod, Richard Humphreys? Nid oeddym ni yn eich ystyried chwi mor galled a ni pan oeddym yn blant, ond erbyn hyn dyma chwi wedi myned o'n blaen yn mhell." "Oni wyddost ti, Morris," ebai yntau, "fod pob llysieuyn mawr yn cymeryd mwy o amser i ymagor." Er mai o ddigrifwch y dywedodd hyn am dano ei hunan, ni ddywedwyd erioed well gwir. "Llysieuyn mawr" mewn gwirionedd ydoedd.

Wedi marw ei dad syrthiodd gofal y fferm yn gwbl arno ef; a daeth yn fuan i gael ei ystyried yn amaethwr da. Ei hoff waith ar y fferm ydoedd trin y tir—ei sychu, ei arloesi, a gwneuthur cloddiau o'i hamgylch; ac y mae yr olwg drefnus sydd ar gloddiau a chaeau y Faeldref heddyw yn ffrwyth llafur ei ddwylaw ef. Yr oedd yn gallu troi ei law at bob gwaith coed a cherig. Yr oedd mor hoff o saernïo fel ag y byddai ar adegau yn cymeryd tai i'w hadeiladu, a gallai weithio gyda'r crefftwyr ar bob rhan o honynt; ac yr oedd y medrusrwydd hwn yn fanteisiol iawn iddo fel amaethwr. Nid oedd mor fedrus gyda phrynu a gwerthu anifeiliaid; a byddai yn galw am help rhai o'i gymydogion at hyny. Trwy yr hyn a adawyd iddo gan ei dad, ei ymdrech ei hun, a bendith y nefoedd ar ei lafur, llwyddodd i gadw cartref cysurus iddo ei hunan, yn ngyda'i frawd a'i ddwy chwaer, tra y buont gydag ef.

Nid oedd yn proffesu crefydd am y rhan gyntaf o'i oes; etto yr oedd yn dra ystyriol o'i gyfrifoldeb fel penteulu, er mai dyn ieuangc ydoedd. Wrth weled ei weision, a gweision cymydog iddo, yn gwneuthur llawer o bethau nad oedd rydd eu gwneuthur ar y Sabboth, galwodd gyda'u meistr, yr hwn, fel yntau, oedd heb fod yn proffesu, a dywedai wrtho, "Y mae cyfrifoldeb mawr arnom ein dau, fel penau teuluoedd, a dylem gadw gwell llywodraeth ar ein gwasanaethyddion ar ddydd yr Arglwydd;" a bu yr awgrymiad yn lles mawr. Adwaenem un dyn o'r enw Richard Griffith, yr hwn a fu yn ei wasanaeth pan yn fachgen lled ieuangc, a digwyddodd fyned adref unwaith

yn feddw. Aeth ei feistr ag ef i "dir neillduaeth," ac yno "nid arbedodd y wïalen." Nid oedd Richard Griffith, mwy nag ereill, yn gweled y cerydd dros y pryd hwnw yn hyfryd, ond yn anhyfryd; er hyny, diau fod yr oruchwyliaeth hon yn un o'r rhai mwyaf bendithiol a gymmwyswyd at ei ddyn oddiallan erioed; ac nid oes neb a wyr pa faint o bethau blinderus a chwerw yn ei yrfa a ragflaenwyd trwy gerydd caredig, ond llym, ei feistr. Bob amser y cyfarfyddai yr hen feistr y gwas hwn, y peth cyntaf a ddywedai fyddai,—

"Fe wnaeth y gwrfa hono les i ti onido, Richard?"

"Do, Mr. Humphreys," fyddai ateb Richard Griffith bob amser.

Buasai moesoldeb ein gwlad yn llawer uwch pe buasai mwy o ffermwyr Cymru yn ei efelychu [trwy roddi "gwïalen i gefn yr ynfydion" a ddigwyddai fyned i'w gwasanaeth].

PENNOD II.

Mr. HUMPHREYS A'I DUEDDIADAU CREFYDDOL.

Dywedasom yn barod fod ei dad a'i fam yn aelodau eglwysig gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yn y Dyffryn; ond nid oedd yn arferiad, nac yn wir yn oddefol, i rïeni fyned a'u plant gyda hwy i'r cyfarfodydd eglwysig y pryd hwnw. Ond er hyny cafodd Richard Humphreys ei fagu yn grefyddol, mor bell ag yr oedd dangos erchylldod pethau drwg, a'r niwed oedd mewn arfer llwon a rhegfeydd yn myned; ac nis gallodd erioed gymeryd "enw yr Arglwydd ei Dduw yn ofer." Bu yn y Dyffryn—pan oedd efe o gylch deng mlwydd oed—ddiwygiad grymus, trwy yr hwn yr ychwanegwyd llawer at yr eglwys; a byddai yntau yn arfer dyweyd ei fod y pryd hwnw wedi teimlo awydd cael crefydd. Ond yr oedd yn cael ei hunan yn dywyll iawn am ei natur, a bu yn hir cyn gweled dymunoldeb a thegwch yr Arglwydd Iesu, na theimlo ei angen am dano yn Waredwr iddo. Ond pan ydoedd o gylch un-ar-hugain oed gwnaeth ei feddwl i fyny i "geisio doethineb," a bwriodd ei goelbren gyda phobl yr Arglwydd.

Derbyniasom amryw hysbysiadau am ei ddychweliad at grefydd, ac y maent oll yn cytuno mai gwaith graddol oedd yn cael ei gario yn mlaen arno. Ni ddychrynwyd ef gan na tharanau na mellt, na mynydd yn mygu, na llais udgorn, ond y "llef ddistaw fain" a'i tynodd ef allan i wneyd proffes o'r Gwaredwr. Gwnaeth yr Arglwydd âg ef, fel gydag Ephraim gynt, "Dysgodd iddo gerdded, gan ei gymeryd ef erbyn ei freichiau; tynodd ef â rheffynau dynol ac â rhwymau cariad; cododd yr iau ar ei fochgernau, a bwriodd ato fwyd." Dywedodd wrtho, "Myfi yw yr Arglwydd dy Dduw, yr hwn wyf yn dy ddysgu di i wellhâu, gan dy arwain yn y ffordd y dylit rodio." Llawer gwaith y dywedodd, os gwyddai ddim am waith yr Yspryd, mai araf iawn y dygwyd ef yn mlaen arno ef. Ond wrth ddyweyd na theimlodd bethau grymus iawn ar

ei feddwl, ni fynem i neb dybied nad oedd *yn teimlo*, ïe, yn teimlo yn ddwys a difrifol. Yr adnod a fu yn gynhaliaeth iddo yn adeg ei droedigaeth oedd, "Canys meirw ydych, a'ch bywyd a guddiwyd gyda Christ yn Nuw." Y mae yn anhawdd peidio a theimlo rhyw gysegredigrwydd at yr adnodau hyny y mae rhai wedi cael eu bywyd trwyddynt mewn argyhoeddiad. Digwyddasom fod yn agos i'r fan lle yr aeth y *Royal Charter* yn ddrylliau, yn fuan ar ol hyny, pryd y boddwyd rhai cannoedd o deithwyr oedd ar ei bwrdd. Ond fe gafodd nifer bychan eu bywyd trwy iddynt allu cyrhaedd y làn ar hyd rhaff a daflwyd iddynt; a gwelsom ddarnau o'r rhaff hono yn cael eu cadw yn ofalus, er coffadwriaeth am y waredigaeth a gafwyd trwyddi. Felly y teimlir tuag at yr adnodau hyny y cafodd trueiniaid eu bywyd ynddynt, fel ag i allu ffoi rhag y llid a fydd. A hon ydyw hen adnod Richard Humphreys, "Canys meirw ydych, a'ch bywyd a guddiwyd gyda Christ yn Nuw."

Bu am o gylch blwyddyn "yn cloffi rhwng dau feddwl," a chymerodd lawer o bwyll i ystyried gyda pha un o lwythau yr Arglwydd y byddai goreu iddo fwrw ei goelbren. Byddai yn myned rai gweithiau i'r Cutiau, gerllaw yr Abermaw, i wrando yr Annibynwyr, yn ystod y flwyddyn hon; ac wrth ei weled yn myned mor bell, yr oedd llawer wedi meddwl mai Annibynwr a fyddai. Ond o'r diwedd gwnaeth ei feddwl i fyny ar y ddau beth: dewisodd yr Arglwydd yn Dduw iddo, a'i eglwys yn mysg y Trefnyddion Calfinaidd yn gartref; ac ni bu edifar ganddo. Wedi iddo wneyd y penderfyniad hwn, yr oedd un peth wed'yn y teimlai radd o bryder yn ei gylch, sef myn'd i'r *seiat* y tro cyntaf. Galwodd gyda'i ewythr, Griffith Humphreys—yr hwn oedd yn un o hen flaenoriaid y Dyffryn—gan lawn fwriadu myned gydag ef y noson hono; ond er ei fawr dristwch nid oedd yr hen flaenor yn myned y tro hwnw, ac aeth Richard Humphreys yn ol heb amlygu ei fwriad iddo. Aeth mis heibio cyn iddo wneyd ail gais, ac yn ystod yr amser hwn fe ddaeth W. Richard, Tyddyn-y-pandy—yr hwn a fu yn flaenor ffyddlon yn y Gwynfryn, ac wedi hyny yn Llanbedr, hyd nes y lluddiwyd ef gan farwolaeth i barhau—i wybod am y trallod yr oedd ynddo. Galwodd gydag ef, ac addawodd fyned ag ef i'r cyfarfod eglwysig y noswaith nesaf. Aeth

William Richard oddicartref y diwrnod yr oedd yr eglwys i ymgyfarfod, ond ymdrechodd ddychwelyd mewn amser i allu cadw ei air â Richard Humphreys. Erbyn teithio yn ol i'r Dyffryn yr oedd William Richard yn teimlo yn rhy flinedig i fyned i'r capel; ond galwodd gyda Richard Humphreys, yn ol ei addewid, ac aethant ill dau yn nghyd; ond ni awgrymodd William Richard nad oedd am fyned i'r cyfarfod. Erbyn iddynt fyned at y capel, cawsant fod y cyfarfod wedi dechreu; agorodd Willliam Richard y drws, a daliodd ef yn agored nes i Richard Humphreys fyned heibio iddo; aeth yntau allan, gan dynu y drws yn ol, a dywedai wrtho ei hun, "Dyna fo, mi wneiff yn burion bellach." Felly gadawyd Richard Humphreys yn unig o ran William Richard, a llawer gwaith y dywedai wrtho, "Mi wnest di, William, dro digon sal â mi." Ond chwareu teg i William Richard, gwyddai ei fod yn ei ddanfon i aelwyd gynes, a bod yno frodyr anwyl i'w ymgeleddu, ac yn eu plith yr oedd y diweddar Barch. Daniel Evans—"ŵr anwyl"—yn bregethwr ieuangc,—yr hwn oedd yn cadw ysgol yn y gymydogaeth ar y pryd. Y mae yn rhaid fod yn dda gan yr eglwys fechan gynnulledig yn hen gapel y Dyffryn gael dyn ieuangc o gymeriad Richard Humphreys i'w plith; ac yr oedd yn dda iddo yntau gael cartref iddo ei hunan mewn eglwys lle yr oedd hen frodyr profiadol a ffyddlon i ofalu am dano.

Sylwa un wrth son am ddychweliad Richard Humphreys at grefydd fel hyn:—"Y mae dynion craffus yn ein dysgu fod y moddion y mae yr Ysbryd Glân yn ei fendithio er dychwelyd pechadur at Dduw yn gadael eu heffeithiau neillduol ar y dychweledig dros ystod ei oes. Os trwy foddion cyffrous yr effeithir ei droedigaeth, ond odid na fydd gan fygythion a rhybuddion y Beibl fwy o effaith ar y cyfryw na dim arall; a phan y caiff ambell i wledd ar yr Aberth mawr, yn ngodreu mynydd Sinai y bydd yn ei chael bron bob amser." Ac y mae yn cyfeirio at hanes troedigaeth y diweddar Barch. John Williams, Llecheiddior, er dangos hyn. Ei ddychrynu gan daranau a mellt a gafodd ef at Fab Duw, a byddai byth wed'yn am arwain ei wrandawyr at yr un golygfeydd dychrynllyd. Ond am Richard Humphreys, fel y sylwasom yn barod, yr olwg ar dynerwch a daioni Duw a'i denodd ef ato, ac y mae yn ddiamheu mai dyna y rheswm dros mai ceisio

meithrin meddyliau tyner am y Duw mawr mewn eraill oedd un o amcanion blaenaf ei weinidogaeth.

Nid hir y bu ar ol ymuno â'r eglwys heb dynu sylw yr hen frodyr fel dyn ieuangc gobeithiol, a dysgwylient y byddai o les mawr gydag achos yr Arglwydd yn eu plith; ac ni chywilyddiwyd hwy am eu gobaith. Yn fuan ar ol hyn yr oedd y diweddar Mr Owen Jones, Gelli, Sir Drefaldwyn, i fod yn holwyddori y plant yn yr Abermaw. Aeth yntau a'r diweddar Barch. Daniel Evans i'w ei wrando; ond er eu dirfawr siomedigaeth hwy, a degau eraill, lluddiwyd y gŵr parchedig i ddyfod; a bu yn rhaid i Daniel Evans holi y plant. Ar ol iddo ef holi, gofynwyd i Richard Humphreys ddyweyd gair wrth y plant, ond atebodd, "Nid wyf yn teimlo dim awydd i fod yn ddyn cyhoeddus, ond am Gristion, mi garwn fod yn Gristion da." Ychydig y mae yn ofnus sydd o'r un deimlad ag ef. Y mae llawer mwy yn caru *cyhoeddusrwydd* nag sydd yn caru bod yn *saint* cywir; ac y mae cyhoeddusrwydd, heb "*Gristion da*" yn sylfaen iddo, yn fwy o nychdod nag o nerth i achos yr Arglwydd. Ond pa un bynag a oedd Richard Humphreys yn caru cyhoeddusrwydd ai peidio, yr oedd yn dyfod yn fwy amlwg o ddydd i ddydd ei fod yn "llestr etholedig," a bod gwaith mawr ar ei gyfer yn ngwinllan ei Arglwydd.

Yn mhen rhyw yspaid o amser ar ol iddo ymuno â chrefydd, aeth yr eglwys y perthynai iddi i deimlo y dylent gael ychwaneg o flaenoriaid. Anfonwyd y cais i'r Cyfarfod Misol; a phenodwyd Owen Evans, tad y diweddar Barch. Humphrey Evans, gydag un arall—ni chawsom ei enw—i fyned i'w cynorthwyo. Noson yr etholiad a ddaeth, a bwriasant goelbrenau, a'r goelbren a syrthiodd ar Richard Humphreys. Wrth ddychwelyd adref dranoeth, dywedodd Owen Evans wrth gyfaill iddo, "Bu eglwys y Dyffryn yn bur hapus yn ei dewisiad neithiwr; cawsant ddyn ieuangc gobeithiol yn flaenor; ac yr wyf fi yn credu fod defnydd pregethwr ynddo hefyd." Trwy y dewisiad hwn dygwyd ef i deimlo cyfrifoldeb swydd, ac ymaflodd yn ei gwaith ar unwaith. Cyfarfodydd gweddio oedd yn y Dyffryn bob nos Sabboth y pryd hwnw, trwy fod y Gwynfryn ac Abermaw gydag ef yn daith Sabboth, a byddai rhyw un yn adrodd pennod o'r Beibl ar ddechreu y cyfarfod gweddi yn fynych. Gofynid i Richard Humphreys i'w

gwrando, a byddai yn rhoddi crynodeb o gynwys y bennod iddynt; a chan na wyddai pa bennod a adroddid yn mlaen llaw, yr oedd llawer yn rhyfeddu at eangder ei wybodaeth yn "Ngair yr Arglwydd." Aeth yn mlaen, a dechreuodd esponio rhanau o'r Beibl. Bu yr Epistol at y Rhufeiniaid ganddo am beth amser yn ei esponio, ac yr oedd ei sylwadau cynwysfawr yn argyhoeddi meddyliau ei frodyr ei fod yn "ysgrifenydd wedi ei ddysgu i deyrnas nefoedd," gan ei fod yn dwyn allan iddynt "bethau newydd a hen." Ac wrth weled hefyd fod yr "Hwn a wnaeth enau i ddyn" wedi ei wneyd yn "ŵr ymadroddus," fel ag y byddai bob amser yn siarad ei feddwl mewn iaith goeth, glir, a naturiol, yr oeddynt yn myned yn fwy penderfynol nad oedd cylch y ddiaconiaeth yn ddigon eang i'w alluoedd cryfion ymddadblygu. Fel hyn, trwy "wasanaethu swydd diacon yn dda, enillodd iddo ei hunan radd dda, a hyfdra mawr yn y ffydd sydd yn Nghrist Iesu," a theimlai swyddogion yr eglwys y perthynai iddi—ac nid plantos mohonynt—na, cewri oedd yn y Dyffryn yn y dyddiau hyny—y dylent ei annog yn ddifrifol i ymgymeryd â gwaith mawr y weinidogaeth.

Ymledodd son am flaenor ieuangc y Dyffryn trwy yr ardaloedd cyfagos, a dechreuodd pregethwyr a gweinidogion y sir gymeryd sylw neillduol o hono; a phob amser y cyfarfyddent âg ef byddent yn ei annog i ymaflyd yn ngwaith y cynhauaf mawr. Gofynai y Parch. Lewis Morris iddo, pan yn y Dyffryn un Sabboth,

"Wel, Richard, ydych chwi ddim yn dechreu pregethu bellach?"

"Nac wyf," atebai yntau.

"Sut felly, Richard?"

"Wel," ebai yntau yn ol, "pe bawn yn dechreu unwaith, ni chawn roddi i fyny, hyd yn nod pe bawn yn bregethwr pur sal."

Gofynai cyfaill i'r Parch. Daniel Evans, "A ydyw Richard Humphreys yn dechreu pregethu yn y Dyffryn accw, bellach?"

Atebai yntau, "Nac ydyw, ond gwae ni pan y dechreua, fe â o'n blaen yn ddigon pell."

Wrth weled nad oedd blaenoriaid y Dyffryn yn llwyddo i gael ganddo ymaflyd yn y gwaith, cymerodd y Cyfarfod Misol mewn llaw i'w cynnorthwyo, ac anfonasant atto i

ddymuno arno, er mwyn achos yr Arglwydd, i wrando ar lais yr eglwys. Nid oedd gan ein tadau, yn yr adeg foreuol hono ar Fethodistiaeth, ond ychydig o reolau a threfniadau gyda golwg ar y modd i dderbyn rhai i'r weinidogaeth. Os caent mewn dyn ieuangc arwyddion ei fod yn meddu crefydd bersonol, a syniad cywir am golledigaeth dyn yn yr Adda cyntaf, a'r modd i'w godi trwy yr ail Adda, ynghyd a dawn rhwydd i osod ei feddwl allan, pob peth yn dda. Y mae yn gwestiwn genym a ydyw bod llawer o ffurfiau i fyned trwyddynt yn ddiogelwch i'r weinidogaeth: braidd na ddywedem nad ydyw; oblegid gall un ddyfod i fyny â llythyren rheol, a thrwy hyny hawlio rhan yn yr apostolaeth, tra ar yr un pryd y teimla pawb ei fod yn syrthio yn fyr yn wyneb ei hyspryd.

Wedi rhoddi dwys ystyriaeth i gymhelliadau ei frodyr, cydsyniodd o'r diwedd â'u dymuniad, ac addawodd bregethu y nos Sabboth canlynol; ac felly y gwnaeth. Wedi esgyn i'r pulpud, dywedodd wrth y gynnulleidfa, "Peidiwch a dysgwyl ond yr un pethau genyf fi ag a fyddech arfer glywed genyf o'r blaen; nid wyf fi ond yr un yn y fan hon ag oeddwn ar lawr; ac nid wyf yn meddwl y gallaf foddhau eich hanner, a ffŵl ydyw y dyn a amcana foddhau pawb." Yna aeth yn mlaen. Ei destyn oedd, "Dyro drachefn i mi orfoledd dy iachawdwriaeth; ac â'th hael Yspryd cynnal fi." Pregethu yn faith y byddai ar y cyntaf. A pha ryfedd? Yr oedd ei feddwl wedi ei lenwi at yr ymylon gan ei fyfyrdodau; ac wedi i'r argae gael ei agor, yr oedd yn rhaid iddo gael llawer o amser i ymwaghau. Yr oedd un nos Sabboth wedi ymollwng i bregethu; a sylwi bod y canwyllau yn darfod ar y pulpud barodd iddo ystyried y dylasai roddi fyny. Tranoeth yr oedd yn myned a'r ordd fawr fyddai ganddo yn trwsio cerig at ei gymydog, Hugh Evans, Coed-y-bachau, i gael coes newydd, ac meddai, "Mi fyddi yn rhy hir i mi dy aros: galwaf etto am dani." "Ni byddaf mor hir ag y buost ti yn pregethu neithiwr," ebai Hugh Evans yn ol. Ond nid oedd perygl iddynt dramgwyddo eu gilydd, gan eu bod yn gyfoedion ac yn gyfeillion mynwesol. Dechreuodd bregethu pan yn ddyn ieuangc naw-ar-hugain oed.

PENNOD III.

Mr. HUMPHREYS A'I HELYNTION TEULUAIDD.

O gylch yr amser hwn teimlodd Richard Humphreys fod yn bryd iddo feddwl am newid ei sefyllfa, a syrthiodd ei lygad ar Miss Anne Griffith—merch Cadben Griffith, *Quay*, Abermaw, a chwaer Mrs. Cooper, Llangollen. Yr oedd Caben Griffith wedi bod yn dra llwyddiannus i gasglu cyfoeth lawer; ac yr oedd yn ŵr y teimlai ei gymydogion barch dwfn iddo. Bu yn ei flynyddoedd diweddaf yn ddiacon ffyddlon yn eglwys y Methodistiaid Calfinaidd, a bu ei dŷ yn agored i dderbyn gweision ei Arglwydd, y rhai a fyddent yn myned i wasanaethu yr achos i'r lle. Yr oedd yr ystyriaeth o uwchafiaeth sefyllfa y teulu yn achos o bryder mawr i feddwl Mr. Humphreys gyda golwg ar lwyddiant yr anturiaeth hon oedd ar ei chymeryd. Gwyddai yn dda fod y teuluoedd hyny ag y mae cyfoeth wedi dechreu rhedeg atynt yn dra gochelgar rhag gwneyd dim i'w droi yn ol, trwy oddef i briodasau anachaidd—mewn ystyr arianol—gymeryd lle. Ond os oedd coffrau y *Quay* yn llawnach o aur ac arian na choffrau y Faeldref, yr oedd Mr. Humphreys yn gallu teimlo fod ganddo yntau gartref cysurus, talent i drin y byd, cymeriad difrycheulyd, a lle cryf i obeithio ei fod wedi cael gafael ar "y ddoeth-ineb sydd oddiuchod." Wedi mesur a phwyso yr holl bethau hyn, a hyny gyda'r pwyll a'r arafwch oedd yn nodweddu ei gymeriad ef, daeth i'r penderfyniad i wneyd ei feddwl yn hysbys i Miss Griffith, a chafodd dderbyniad croesawgar ganddi. Dangosodd Miss Griffith, trwy roddi derbyniad i Mr. Richard Humphreys, nad oedd fel rhai o foneddigesau ieuainge o'r un dosbarth a hi, y rhai nas gallant werthfawrogi dim ond arian ac aur. Y mae llawer o honynt mor awyddus i gyfoeth fel na ryfeddem eu gweled yn priodi *delw*, pe caent gynyg arni, ond i hono fod yn ddelw *aur*. Ond dangosodd hi ei bod yn gwerth-fawrogi dynoliaeth dda, a bod yn well ganddi gael cydmar

bywyd yn meddu ar y gallu i drin y byd nag un a llawer o'r byd ganddo, a'i bod yn llawer tebycach o gael mwynhau cysuron bywyd gyda dyn oedd yn cael ei lywodraethu gan ofn Duw na phe buasai yn troi i gyfeiriad arall.

Wedi iddo lwyddo i weithio ei ffordd i'w mynwes, yr oedd ganddo etto yn aros i enill cydsyniad y tad. A hynod mor ragluniaethol y daeth hyny oddiamgylch. Digwyddodd iddo fyned gyda'r Cadben Griffith i Gymdeithasfa y Bala, ac ar y ffordd cymerodd yr ymddiddan canlynol le :—

Cadben. "Dylech gael gwraig, Richard Humphreys."

Richard Humphreys. "A ydych yn meddwl hyny, Cadben?"

Cad. "Ydwyf yn sicr. Chwi ddylech gael gwraig i ofalu am y tŷ a'r tyddyn pan y byddwch chwi oddicartref."

R. H. "Pe bawn wedi cytuno â rhyw ferch ieuangc am hyny, efallai na chawn hi wed'yn gan y teulu."

Cad. "Os byddwch chwi a hithau yn cydsynio, nid oes achos i ofni llawer am y teulu."

Wedi arwain y Cadben fel hyn i osod rhwymau am dano ei hunan, a gwneyd ei draed ef yn sicr yn y cyffion, gofynydd Mr. Humphreys, "Wel, Cadben, a gaf fi Anne genych chwi?" (Ni wyddai y Cadben fod dim rhwng y ddau yn y cyfeiriad hwn, ac ni feddyliodd, pan yn athrawiaethu ar y pwngc, y byddai galwad arno i'w droi yn ymarferol mor fuan). Ond gwelodd ei fod wedi ei ddal â rhaffau ei eiriau ei hun. Tarawyd ef yn fud gan y cwestiwn annisgwyliadwy; ond wedi i rwymau ei dafod gael eu rhyddhau, dywedodd, "Os byddwch chwi a hithau yn cydsynio, bydd pob peth yn burion gyda mi," ac ychwanegai, "Ieuangc ydyw, dyna y drwg mwyaf." "Ië," meddai Mr. Humphreys, "ond daw yn well o'r drwg hwnw bob dydd." Yr oedd pob peth wedi ei wneyd i fyny gyda Miss Griffith o'r blaen, a gwnaeth yr ymddiddan hwn i fyny â'i thad. Felly ar yr 8fed dydd o Chwefror, 1822, unwyd y ddau mewn glân briodas, ac ni chawsant byth achos i edifarhau. Manteisiodd achos y Methodistiaid yn y Dyffryn yn fawr ar y briodas hon, oblegid bu Mrs. Humphreys ar hyd ei hoes a'i thŷ yn agored i dderbyn a chroesawu gweinidogion y gair; ac yr oedd y cwbl yn cael ei wneyd ganddi gyda'r serchawg-

rwydd mwyaf, ac oddiar wir awyddfryd i wasanaethu achos yr efengyl.

Ar ol prïodi ymgymerodd Mr. Humphreys â masnach yn y Dyffryn, gan dybied y buasai hyny yn fwy cydweddol â thuedddiadau Mrs. Humphreys, gan nad oedd wedi arfer â gofalon ffermdy. Ond os ymgymeryd â masnach, yr oedd y Faeldref yn cael ei ddal ganddynt fel o'r blaen. Nid oedd ef ei hun yn teimlo dim hyfrydwch mewn masnachu, ac felly yr oedd yn gadael y gofal hwn bron yn gwbl ar Mrs. Humphreys, a gyrai yntau yn mlaen fel cynt gyda'r fferm. Ond er na fyddai ond anfynych yn y masnachdy, nid ydym yn amheu na chafodd yn yr ychydig flynyddoedd hyny fwy o adnabyddiaeth o arferion masnachol cymdeithas nag a gafodd erioed o'r blaen; ac ni ryfeddem nad y pryd hwnw y casglodd ddefnyddiau yr ysgrif benigamp ar "Hwda i ti, a moes i minnau," yr hon a ymddangosodd yn y "Traethodydd" yn mhen blynyddoedd ar ol hyny. Byddai weithiau, pan y gwelai rai o'i gwsmeriaid yn camdreulio eu hennillion, a thrwy hyny yn rhedeg i'w ddyled, yn cymeryd achlysur i roddi cyfarwyddiadau iddynt gyda golwg ar iawn drefnu eu cyflogau; ond yn lle gwrando ar gyngor y doeth, troent eu cefn arno; a chafodd yntau, fel pob masnachwr, brofi gwirionedd yr hen ddiarheb Saesoneg, "*It is better to cry over your goods, than after them.*" Wedi bod am o gylch deng mlynedd yn masnachu, daeth y ddau i'r penderfyniad o'i rhoddi i fyny, ac felly y gwnaethant.

Erbyn hyn yr oedd ganddynt dri o blant—tair merch; ond bu y ganol o'r tair farw pan yn ugain mis oed, yr hyn a fu yn achos o alar dwfn i'r teulu. Prïododd Mary Anne —eu merch hynaf, â Mr. Griffith Jones (Draper), Porthmadog, ond wedi hyny o Upper Bangor, lle y bu Mrs. Jones farw yn nghanol ei dyddiau. Yr oedd ei thad yn ei hystafell ychydig o amser cyn ei hymddattodiad, a'r diweddar Barch. Ellis Foulkes gydag ef. Wrth weled Mr. Humphreys yn methu ag ymgynal yn yr olwg ar ei anwyl Mary Anne yn nghanol ingoedd marwolaeth, gofynai ei gyfaill iddo fyned gydag ef allan. Aeth yntau; ac wedi gadael yr ystafell, ymddrylliodd mewn dagrau, a dywedodd, "O, Ellis bach, y mae fy llygad yn gam heddyw."

Prïododd Jennette, eu merch ieuangaf, â'r diweddar Barch. Edward Morgan, Dyffryn, yr hwn oedd yn breg-

ethwr poblogaidd, yn weinidog llafurus, yn arweinydd diogel, ac yn weithiwr diflino gyda phob rhan o waith yr Arglwydd.

Yr oedd Mr. Humphreys, fel penteulu, yn gwir ofalu am holl dylwyth ei dŷ. Y mae y llythyrau byrion a dderbyniasom oddiwrth ei ferch, Mrs. Morgan, y rhai a ysgrifenwyd atti gan ei hanwyl dad pan ydoedd yn yr ysgol yn Nghaerlleon, yn ddangosiad cywir o'r gofal oedd ganddo am ei blant. Rhoddwn rai o honynt yma.

Faeldref, Tach. 13, 1844.

"Fy Anwyl Blentyn,—

Y mae yn esmwythyd i fy meddwl wybod dy fod o'r diwedd wedi cymmodi â'th ran, a bod yr hiraeth annedwydd am gartref erbyn hyn drosodd. Hyderaf dy fod yn gwneuthur y goreu o'th amser—cofia na ddychwel dyddiau ieuenctyd i roi cyfleusdra i ti wneyd gwell defnydd o honynt. Fe fyddaf fi yn teimlo yn bur bryderus i dreulio yr hyn sydd yn ol o'm dyddiau yn y fath fodd fel ag y gallwyf eu hadolygu ar wely angeu heb arswyd nac ochenaid. Yr wyf yn gobeithio dy fod yn gweddio yn aml ar Dad y trugareddau am iddo dy oleuo â'i Yspryd daionus, fel y gwelych ogoniant y Gwaredwr mawr, ac y rhoddych dy hun trwy ffydd yn gwbl iddo, ac y cyflwynych dy hunan yn llwyr i'w wasanaeth. Llafuria i gael golygiadau clir am natur ei deyrnas, a phrofiad dedwydd o felusder ei ras. Bydd yn dda genym dy weled adref unwaith yn rhagor. Bydded i'r Arglwydd dy fendithio a'th gadw. Hyn yw taer a beunyddiol weddi

Dy byth serchus Dad,

RICHARD HUMPHREYS."

Ysgrifenwyd yr ail lythyr o Fanchester, mewn atebiad i lythyr a gawsai oddicartref, yn hysbysu am afiechyd un o gyfoedion ei ferch.

Manchester, Ion. 21, 1845.

"Anwyl Ferch,—

Yr oedd yn ddrwg genyf ddarllen am afiechyd L. W. Yr wyt yn gobeithio y bydd iddi wella, ac y cymer Duw drugaredd arni hi a'i rhieni, o herwydd yr wyf yn teimlo y funud yma pa mor anfoddlawn a fuasai dy fam a minnau i ymadael â thi: a pha mor bwysig ydyw bod yn barod erbyn y dygwyddiad mawr—angeu, yr hwn sydd yn ymweled â dynolryw yn mhob cyfnod o fywyd. Yr wyf yn gobeithio y bydd afiechyd L. W. yn rhybudd i ti beidio gohirio neu aros yn anmhenderfynol gyda golwg ar yr un peth angenrheidiol. Fy ngeneth anwyl, gweddia yn aml ac yn daer, a thyred yn amserol i gyfammod difrifol gyda Duw, i'w gymeryd ef yn Dduw i ti, a'i uniganedig Fab yn Waredwr, Offeiriad, Prophwyd, a Brenhin, a'i Yspryd daionus i'th sancteiddio, i'th arwain, a'th ddiddanu, a'i Air sanctaidd—yr Ysgrythyrau, yn rheol yn mhob peth o natur foesol. Ni elli wneyd hyn

yn rhy fuan nac yn rhy ddyfal. Y mae rhy arwynebol a rhy ddiweddar—y ddau yn beryglus. Anwyl Jennette, myfyria ar y pethau hyn yn aml; gweddia hwynt gyda theimlad, fel y byddont yn cael eu hargraffu ar dy feddwl. Bydded yr Arglwydd gyda thi. Bydded Duw dy Deidiau, a Duw dy Neinoedd, ïe, Duw dy Dad a'th Fam gyda thi hefyd.

Dy Anwyl Dad,

RICHARD HUMPHREYS.

Maentwrog, Mai 1af, 1845.

Fy Anwyl Ferch,

* * * * *

Gobeithiaf dy fod yn gwneuthur defnydd da o'th amser a'th gyfleusdra i wella. Bydd ostyngedig a hawdd i'th ddysgu. Cymer ofal rhag rhoddi poen afreidiol i'th athrawon. Na fydd ymhongar. Gochel fursendod o bob peth. Adnebydd dy hun, a thi fyddi ostyngedig; adnebydd Dduw yn Nghrist, ac ni lwfrhei. Myfyria ar yr hyn a ddarlleni, a gwrando; edrych i mewn i bethau: na fydd bob amser ddrwgdybus, fel rhai pobl; ac nac ymddiried ormod chwaith. Gweddia yn aml ac yn daer. Cais olygiadau clir ar y Gwaredwr gogoneddus. Byddaf yn gweddio bob dydd drosot, ac yn meddwl llawer am danat. Er i rieni duwiol weddio dros rai plant, etto fe eu collwyd; ond gwrandewir bob amser y rhai a weddiant yn daer eu hunain.

* * * * *

Ydwyf, anwyl Jennette, dy serchus Dad,

RICHARD HUMPHREYS.

Ond nid am ei blant yn unig yr oedd yn gofalu, yr oedd llwyddiant tymhorol ac ysprydol ei wasanaethyddion yn cael lle mawr ar ei feddwl. Y mae un o'i hen weision, y Parch. R. Griffith, Bryncrug, wedi rhoddi i ni yr adroddiad hwn am dano fel meistr. "Ymddiddanai â'i was yn rhydd, siriol, a chyfeillgar. Fe fyddai pob gwas yn cael yr un chwareu teg ganddo i ffurfio ei gymeriad. Gadawai y gwaith o flaen y gwas newydd, a byddai am beth amser mewn sefyllfa o brawf: ond nid oedd pob un o honynt yn deall hyny. Adwaenai bawb wrth eu gwaith, ac ni feddyliai ddrwg am yr un o honynt hyd nes y byddai rhaid iddo. Yr oedd wedi cael achos i ddrwgdybio un am ei onestrwydd; a phan yn cychwyn oddicartref i daith, dywedodd wrtho, 'Paid ti a dwyn llawer, Wil, tra y byddaf fi i ffwrdd.' Aeth ei eiriau fel brath cleddyf i galon Wil, ac ni chafodd ei feistr ei flino na'i golledu ganddo mwyach. Ond gwyn ei fyd y gwas ffyddlon; enillai hwnw barch, ymddiried, a chlod, a gwahoddid ef yn fynych i eistedd gyda phendefigion, a rhan yn holl ragorfreintiau y teulu.

Yr oedd efe, a'i anwyl briod, yn craffu ar ffyrdd tylwyth eu tŷ; gofalent am eu hiechyd, eu cysuron, ac yn neilldnol am iachawdwriaeth eu heneidiau. Byddai yn fynych yn eu cynghori i wneyd y goreu o'r ddau fyd; a llawer gwaith y dywedodd wrthynt am beidio a myned ar ol eu blysiau. Ni welais ef wedi colli ei dymmer dda erioed, i roddi mwy o ddrwg i ni na dywedyd, pan y byddem wedi dyfetha ei arfau, "Ni waeth i mi geisio taflu fy het yn erbyn y gwynt na cheisio cadw mîn ar fy arfau yn y fan yma."

Ni a ddodwn yma ymddiddan a fu rhyngddo â'r Parch. Robert Griffith pan oedd yn was gydag ef, ac a ysgrifenwyd gan Mr. Humphreys ei hunan i'r "*Methodist.*" Testyn yr ymddiddan ydoedd

SEFYLLFA PRAWF.

Ar ryw ddiwrnod hynod o haf, tua diwedd mis Mai, er's amryw o flynyddoedd yn ol, yr oedd meistr a gwas yn gweithio yr un gwaith, ac yn yr un maes, gan ddefnyddio y cyffelyb arfau a'u gilydd. Yr oeddynt yn lled ddifyrus, oblegid y mae pleser mewn gwaith na ŵyr y segur ddim am dano. Pa fodd bynag yr oedd y meistr yn dechreu heneiddio, a gorchest wedi myned yn annaturiol iddo; ond yr oedd y gwas yn mlodau ei ddyddiau, pan nad yw gwaith yn boen na blinder. Ond am y meistr nid felly yn hollol yr oedd gydag ef; canys wrth hir balu, teimlai ddolur o'i gefn, a chodai ei ben, a rhoddai yr hyn a alwai yr hen bobl yn "fron i'r rhaw," sef rhoi ei bwys arni, a'i ddwylaw ar ei phen uchaf, a phwys ei fynwes ar hyny. Ac am eu bod yn lled hoff o ymddyddan ill dau, a'r un gwaith bron wedi eu dwyn i'r un lefel, gofynai y

Gwas.—Meistr, beth mewn gwirionedd yw y sefyllfa prawf y clywaf gymaint am dani yn y dyddiau hyn?

Meistr.—Sefyllfa prawf yw sefyllfa o ymddiried, lle y gall y sawl sydd ynddi weithredu ffyddlondeb neu anffyddlondeb i'w harglwydd, ac mewn canlyniad gael eu gwobrwyo am y ffyddlondeb neu eu cospi am yr anffyddlondeb—dyna yn fyr yw sefyllfa prawf, os wyf fi yn iawn ddeall.

G.—Y mae hynyna o'r goreu gyda golwg ar ddynolryw cyn y codwm mawr, ond byth wedi hyny y mae fy Meibl yn rhoi ar ddeall i mi fod cyflwr plant dynion yn dra gwahanol. Nis gallaf fi gredu fod dyn yn awr fel

ei crewyd ar y cyntaf, mwy nag y gallaf symud yr Wyddfa.

M.—Nid oes eisieu i ti gredu hyny, sef fod dyn mal cynt. Cymer *ddyn* fel y mae, ac fel y dengys yr Ysgrythyr a ffeithiau ei fod; gan hyny gâd yr Wyddfa ar ei stôl, a chymer ddyn yr hyn *ydyw*, ac nid yr hyn *ydoedd;* ac ar yr un pryd ystyriaf sefyllfa bresennol dyn yn un brofedig.

G.—Nis gwn i pa fodd y dichon y pethau hyn fod.

M.—Ti ddylit ystyried pa bethau a gollodd dyn, trwy ei gwymp, a'r a oedd ganddo o'r blaen, a pha bethau nis collodd, y rhai sydd ganddo eto. Amlwg yw iddo golli heddwch Duw o'i gydwybod, ond ni chollodd ei gydwybod; collodd ddelw Duw oddiar ei enaid, ond ni chollodd resymoldeb ei enaid—y mae yn greadur rhesymol o hyd; collodd gymdeithas Duw, ond ni chollodd y duedd i gymdeithasu. Weithian, gan hyny, y mae cyfrifoldeb byth a hefyd yn nglŷn wrth resymoldeb, ac nid ysgerir hwynt. Y mae gwobr neu gosp hefyd yn gysylltiedig â *rhyddid* ac â *chydwybod*, yn ol fel y defnyddir y naill a'r llall. Y mae pob dyn yn brofiadol ei fod yn rhydd, a bod ganddo gydwybod. Gwir yw fod Duw yn ei brofi a diafol yn ei demtio; ond nis gall diafol ddwyn ei ryddid oddiarno, ac nis gwna Duw.

G.—Myfi a welaf fod rhyw fath o brawf yn cael ei roddi ar bob math o ddynion, pa un bynag ai cyfiawn ai drygionus, ai yr hwn a wasanaetha Dduw ai yr hwn nis gwasanaetha ef; ond, fy Meistr, pa beth yw y gwahaniaeth rhwng prawf ein tad Adda yn *Eden* a'n prawf ni, ei epil, yn yr *anialwch?* oblegid yr wyf yn deall fod ei sefyllfa ef yn sefyllfa prawf i bob amcan a dyben; ond yn mha beth y mae y gwahaniaeth?

M.—Ti wyddost yn dda ddigon pa fodd y daethost ti yn was ataf fi, a pha fodd y daeth y wasanaethferch sydd yma hefyd ataf; daethoch o bell, ac o sir arall o Gymru, ond yr oedd genych *garictor* fel gwas a morwyn gonest a ffyddlon; ond nid oedd eich bwyd a'ch cyflog yn dyfod i chwi am *fod* felly, ond am *barhau* felly. Pe buasech yn anffyddlon i'r ymddiried a roddid ynddoch, buasai raid i chwi droi allan i'r byd mawr llydan heb wobr na charictor. Wel, dyna yn gymwys oedd sefyllfa ein tad a'n mam, Adda ac Efa: yr oedd eu cymeriad yn ddifrycheulyd. Gosod-

wyd hwynt mewn sefyllfa ddedwydd iawn, a galluogwyd hwynt â digon o nerth i sefyll eu tir, ac i gadw y 'stâd wynfydedig hon, pe buasent yn ei ddefnyddio. Ond, fel y mae yn bruddaidd yr hanes, "dyn mewn anrhydedd nid erys." Wrth wrando ar y gelyn yn lle Duw, pechasant, ac aethant yn ol am ei ogoniant ef.

G.—O'r goreu, yr wyf yn deall yn lled glir hyd y fan yma; ond pa fodd i ddeall prawf dynolryw ar ol y cwymp, dyna y dyryswch sydd ar fy meddwl yn wastad.

M.—Ti wyddost am y forwyn fu yma yn ddiweddar, yr hon a ddaeth yma trwy eiriolaeth ei mam. Gwyddai ei mam ei bod wedi colli ei charictor am onestrwydd, a'i bod yn euog o amryw fân-ladradau oddiar ei rhieni. Cwynai ei mam yn galed o'i herwydd wrth dy feistres a minnau; ac erfyniai, gyda llawer o ddagrau, am iddi gael dyfod yma i dreio adenill ei chymeriad yn mhlith pobl yn proffesu crefydd o leiaf, fel y gellid dysgwyl na byddai i neb o honynt edliw iddi ddim o'i chastiau drwg; ac ni wyddys ddarfod i neb wneuthur sarhad arni wedi ei dyfod. Pa fodd bynag, fe wariwyd pob cynghor a rhybydd a phob cyfleusdra yn ofer; oblegid ymddygodd yn annheilwng o'r ymddiried a roddwyd ynddi—aeth ymaith yn lladradaidd, gan gymeryd gyda hi yr hyn nad oedd eiddo iddi. Dyma gyflwr presenol dyn: y mae darpariaeth yn yr efengyl ar ei gyfer, y mae einioes yn cael ei gosod o'i flaen, a bygythiad marwolaeth o'i ol. Gwna yr efengyl gynygiad didwyll iddo o iachawdwriaeth gyflawn, rasol, a digonol; teilwng o'r Duw a'i trefnodd, o'r Cyfryngwr yr hwn a'i gweithiodd, ac o'r Yspryd tragwyddol, yr hwn a'i cymhwysa. Y mae yr ymwared yn cael ei esgeuluso a'i gamddefnyddio hyd yma gan y rhan fwyaf sydd yn clywed am dano—â un i'w faes ac arall i'w fasnach. Y prawf ofnadwy ydyw, pa fodd yr ymddyg dyn tuag at Fab Duw a'r efengyl, oblegid yn ol hyny yr ymddyg Duw tuag at ddyn yn y farn ac i dragwyddoldeb.

G.—Wel, dyma fi wedi deall, ac ni chollaf byth mo'r syniad.

M.—Byddai o'r goreu i ti ddeall mai creadur rheswm yn unig sydd brofedig. Y mae prawf yr angylion, y mae'n debyg, wedi pasio—rhai wedi troi allan yn ffyddlawn, ac wedi eu diogelu mewn dedwyddwch, a'r lleill yn dwyn cosp eu gwrthryfel a'u hanffyddlondeb. Fe allai mai dyn yn

unig sydd yn y prawf yn awr—ac y mae dyn felly mewn gwirionedd. Goruchwyliaeth gwobr a chosp a gynwys hyny; oblegid ni chospir ond *bai*, ac ni wobrwyir ond *rhinwedd*; hyny yw, caiff anffyddlondeb ei gospi yn ol ei haeddiant, a ffyddlondeb ei wobrwyo yn llawer mwy na'i haeddiant, sef yn ol haelioni graslawn Duwdod. Y mae y prawf hwn fel y ffwrn i'r aur, a'r tawdd-lestr i'r arian; ïe, fel tân y toddydd, ac fel sebon y golchyddion; ond pwy a ddaw allan fel aur, a phwy a burir ac a gènir? Y mae ymrysoniadau Yspryd y Duw mawr â gwrandawyr yr efengyl, a'r gafael sydd gan y gwirionedd ar eu cydwybod o un tu, a llygredigaeth natur a deniadau y byd, y cnawd, a'r diafol o'r tu arall, yn cyfansoddi prawf tra phwysig. Duw yn unig a ŵyr pa fodd y gogwydd y galon ac y try yr ewyllys yn yr ymrysonfa, a thebyg yw fod yr angylion yn syllu ar hyn gyda phryder, oblegid y mae yn gof ganddynt hwy y prawf fu arnynt eu hunain. Dywed Iago nad yw Duw yn temtio neb. Gwir iawn. Ar yr un pryd y mae yn profi pawb. Noa, Abraham, a Job a ddaethant allan o'r ffwrn yn loywach nag yr aethant i mewn. Bu hir brawf ar Moses a meibion Israel yn yr anialwch am ddeugain mlynedd. "Cofia," ebe Moses, "yr holl ffordd yr arweiniodd yr Arglwydd dy Dduw di ynddi y deugain mlynedd hyn, trwy yr anialwch, er mwyn dy gystuddio di, gan dy brofi, i wybod yr hyn oedd yn dy galon, a gedwit ti ei orchymynion ef, ai nis cedwit." Cawn fod Moses yn eu rhybuddio drachefn a thrachefn o'r profion pwysig oedd i'w cyfarfod. "Pan godo yn dy fysg di broffwyd, neu freuddwydydd breuddwyd (a rhoddi i ti arwydd neu ryfeddod, a dyfod i ben yr arwydd neu y rhyfeddod a lefarodd efe wrthynt) gan ddywedyd, Awn ar ol duwiau dyeithr (y rhai nid adwaenost) a gwasanaethwn hwynt; na wrando ar eiriau y proffwyd hwnw, neu ar y breuddwydydd breuddwyd hwnw; canys yr Arglwydd eich Duw sydd yn eich *profi* chwi, i wybod a ydych yn caru yr Arglwydd eich Duw â'ch holl galon, ac â'ch holl enaid."

G.—Diolch i chwi am y cyfryw eglurhadaeth: bwriadaf gadw yr ystyriaethau hyn ar fy meddwl; a gweddiaf, trwy gymorth, am gymorth i sefyll yn y dydd drwg, ac wedi gorphen pob peth, *sefyll*.

M.—Ystyria hefyd nad yw y syniad hwn yn gwrthwynebu rhad ras yr efengyl, cyfiawnhad pechadur trwy

ffydd,—dyna efengyl. Barna y meirw wrth eu gweithredoedd, gan roddi i bob un fel y byddo ei waith ef,—dyna y prawf.

"Byddai fel hyn yn cydweithio llawer â ni ar hyd y meusydd, a chadwai ni mewn tymher dda trwy ei ymddiddanion difyrus ac adeiladol. Ni oddefai i neb o honom i arfer creulondeb at yr un o'r anifeiliaid. Pan y digwyddai i rai o honynt droseddu, trwy fyned i'r gwair neu i'r ŷd, gofynai bob amser pa un ai o fariaeth ai ynte cael bwlch a wnaeth; ac os trwy fwlch y byddai y creadur wedi myned, dywedai, 'Na chospwch ef, oblegid greddf y creadur ydyw cymeryd y tamaid goreu lle y gall ei gael.' Yn adeg y cynhauaf, dywedai wrthym, pan yn myned i'r gweir-gloddiau i ladd gwair, am adael i'r llyfaint ddiange hyd y gallent. Cofus genym ei weled, pan yn cydbalu yr ardd ag ef, yn rhoddi y rhaw yn esmwyth o dan bryf genwair a ddaethai i fyny gyda'i baliad, a danfonodd ef ychydig oddiwrtho, a dywedai, 'Byddai yn well i ti fyned y ffordd yna, yr wyf fi yn ewyllysio i ti gael chwareu teg, ac y mae y byd mor llydan i ti ag ydyw i minnau.' Arferai ddyweyd ei fod yn 'bechadurus defnyddio pryf i demtio pysgodyn i lyngcu bach.'

"Yr oedd yr addoliad teuluaidd yn cael lle mawr yn y Faeldref, a byddai rhaid i bobpeth roddi lle iddo. Mrs. Humphreys fyddai yn darllen y rhan fynychaf, a hyny am y rheswm ei bod yn darllen mor dda, a byddai Mr. Humphreys yn cael y fath foddhad wrth ei gwrando. Byddai yn rhaid i'r holl deulu ddyfod at eu gilydd yn adeg y ddyledswydd, a gallaf chwanegu fod dylanwad yr addoliad teuluaidd yn fawr yn y Faeldref. Llawer gwaith ein gorchfygwyd gan ein teimladau pan y byddai Mr. Humphreys yn ein cyflwyno i ofal y Brenin Mawr." Cawn achos i sylwi ar ei weddiau teuluaidd mewn pennod arall.

"Yr oedd ei ofal yn fawr am ddydd yr Arglwydd, ac ni chaniataai i ni wneud dim ond oedd anhebgorol angenrheidiol. Ni chaniataai i'r morwynion adael dillad allan i sychu dros y Sabboth. Cofus genyf ei weled yn troi yn ei ol un bore Sabboth, ar ol gweled hen sach ar ben y clawdd o'r tu ol i'r tŷ, a dywedai wrth y merched nas gallai fyned ymaith tra y byddai pethau yn cael eu gadael yn y wedd hono o amgylch y tŷ."

Aeth pethau yn mlaen fel hyn yn y Faeldref am amryw flynyddoedd, heb unrhyw gyfnewidiad o bwys. Gwenai rhagluniaeth arnynt, a thywynai yr haul ar eu pabell: ond yr oedd yn rhy ddisglaer i barhau yn hir. Dechreuodd cymylau duon ymgasglu uwchben y teulu dedwydd, a gwelodd Mr. Humphreys arwyddion yn yr ystorm y byddai iddo gael esponiad yn fuan ar hen air ag sydd wedi profi ei hunan yn rhy wir, sef "Fod o'r rhai sydd a gwragedd iddynt, megys pe byddent hebddynt." Dechreuodd Mrs. Humphreys gael ei blino gan hen ddolur na bydd byth bron yn methu a chyrhaedd ei nod, sef y *Cancer*. Gwnaed pob ymdrech oedd yn bosibl i gael gwaredigaeth oddiwrtho, ond ni fynai y chwydd blygu i driniaethau y meddygon; ond i'r gwrthwyneb, yr oedd yn myned waeth waeth. Pan oedd Mrs. Humphreys yn dioddef fel hyn, ysgrifenodd Mr. Humphreys—tra yn aros yn Llangollen—y llythyr canlynol ati; ac o herwydd ei fod yn ddangosiad o'i deimlad didwyll ef, a'i ofal am ei chysuron, ni a'i dodwn i lawr yma.

Llangollen, Mai 1, 1851.

Fy Anwylyd,—

* * * * *

Nid oes genyf ddim gorchymynion i'w rhoddi am y *farm* nac unrhyw beth arall. Nid wyf yn gofalu ond ychydig am ddim ond eich iechyd a'ch cysur chwi. Mewn perthynas i bwnc mwy pwysig o iachawdwriaeth eich enaid, hyderwyf ei fod oll wedi ei benderfynu, a'ch bod chwithau wedi dyfod i ddealltwriaeth da gyda Duw yn Nghrist ar y cwestiwn mawr, ïe, yn wir, yr unig un mawr sydd yn dwyn perthynas â'r holl hil ddynol, ond a deimlir i fod felly ond gan ychydig.—Yr wyf yn teimlo yn ddigon hyderus ein bod ni, trwy ddaioni gras Duw, o nifer yr ychydig hyn; er hyny yr wyf yn bryderus rhag i mi dwyllo fy hun, fel yr ofnaf y mae llawer wedi gwneyd ac eto yn gwneyd; ond am y rhai hyny a roddasent eu hunain i fyny i Dduw y maent wedi eu derbyn a'u cymeradwyo, ac wrth gwrs yn y dwylaw goreu, ac ni chânt eu gwrthod na'u hesgeuluso: a phe baem yn teimlo yn amheus yn nghylch yr ymdrafodaeth hon rhyngom ni a'r Cyfryngwr, adnewyddwn hi drachefn a thrachefn, yn enwedig gan fod pob cymdeithas yn fuddiol i i ni ac yn ogoniant iddo ef. Ni ellwch wybod na chawn eto weled amseroedd da iawn. Sonir yn rhywle am "flynyddoedd deheulaw y Goruchaf." Fe gynyrcha sancteiddrwydd gysur yn gyffredin hyd yn oed mewn henaint. Bydded Yspryd daionus Duw yn Arweinydd, Goleuni, a Dyddanydd i chwi—yr wyf yn teimlo dymuniad angherddol i gyfranu tuag at eich dedwyddwch.—Dof adref fel y penderfynwyd ddydd Llun.—Gweddiwch drosof.

Yr eiddoch hyd angau,

RICHARD HUMPHREYS.

Wrth weled y chwydd yn tyfu ac yn myned yn fwy dolurus, gwnaed cais i geisio ei ddiwreiddio, ond yr oedd y gwraidd wedi ymestyn yn rhy ddwfn i arfau y meddygon allu myned o dano. Ac ar yr 8fed o Fehefin, 1852, daeth angau rhyngddi a'i phoenau. Bu ei marwolaeth yn achos o alar mawr, nid yn unig yn y Faeldref, ond trwy y Dyffryn oll, ac i gylch eang o'i chydnabod.

Wedi colli ei anwyl briod, dymunodd Mr. Humphreys ar ei ferch a'i fab-yn-nghyfraith roddi eu tŷ i fyny yn y Dyffryn, a myned i fyw i'r Faeldref, fel y gallai yntau gartrefu gyda hwy. Gwnaeth y ddau—Mr. Morgan a'i briod—bob peth oedd yn eu gallu i'w berswadio ef i gadw y Faeldref yn gartref iddo ei hun. Ond nid oedd dim a'i boddlonai ef ond iddynt hwy gydsynio a'i gais; a rhag rhoddi tristwch ar dristwch iddo, aberthasant eu barn a'u teimladau eu hunain er ceisio ei ddiddanu ef. Chwalasent eu tŷ, oedd ganddynt wrth y capel, a rhoddodd Mr. Humphreys gymeriad y Faeldref drosodd iddynt. Wedi cyd-drigo am o gylch pum' mlynedd, dechreuodd Mr. Humphreys ystyried fod teulu y Faeldref yn lluosogi, a bod iechyd Mr. Morgan yn graddol wanhau, a'i fod yntau ei hunan yn heneiddio, a gwyddai y byddai yn rhwym o roddi llawer o drafferth iddynt cyn hir: ac yr oedd yn gweled nad oedd un lle i'r holl ofalon hyn ddisgyn ond ar ysgwyddau gweiniaid Mrs. Morgan. Gwyddai hefyd na buasai dim yn ormod gan ei ferch i'w wneyd er mwyn ei hapusrwydd; ond yr oedd Mr. Humphreys yn deall deddfau prïodasol yn dda, a bod yn ddyledswydd arni roddi y flaenoriaeth i'w gofalon am ei phrïod a'i phlant. Arweiniodd yr ystyriaethau hyn ef i farnu mai doethineb ynddo fuasai edrych am wraig. Wedi i deulu y Faeldref ddeall ei fod yn bwriadu ail-briodi, cynnygiasant y Faeldref yn ol iddo, a hyny am y rheswm fod yn well ganddynt hwy symud eilwaith nag iddo ef adael ei hen gartref. Ond ni fynai ef hyny: gan iddo gyflwyno y cwbl drosodd iddynt hwy, teimlai mai nid anrhydeddus ynddo fuasai cymeryd y fargen yn ol. Bellach nid oedd ganddo ond ceisio dilyn y golofn, ac arweiniwyd ef i Werniago — ffermdy, yn mhlwyf Pennal, Sir Feirionydd. Ar y 29ain o Mehefin, 1858, prïododd â Mrs. Evans, yr hon a fu yn ymgeledd gymwys iddo hyd ddiwedd ei oes. Ganwyd iddynt un ferch.

PENNOD IV.

Mr. HUMPHREYS YN EI GYLCHOEDD CYHOEDDUS.

Cawn ofyn i'r cynifer—adwaenai'n
Daionus dad tyner,
Dan luaws doniau lawer,
Ei fawr iawn bwyll, a'i farn bêr,

Od oedd ar y ddaear ddyn
O'i lawnach—yn hael enyn
Rhinwedd a hedd? rhanodd hwy hyd
Ein hen ddaear ni yn ddiwyd;
A ffordd bu ef, ffoi yr oedd bai
Oll o'r golwg, lle yr elai.

Gweryddon, Dyffryn Ardudwy.

Nid hwy y bu Mr. Humphreys heb dynu sylw y cynnull-eidfaoedd nag y dechreuodd dalu ymweliad â hwy yn y cymeriad o weinidog yr efengyl. Cydgyfarfyddai ynddo amryw bethau oedd yn hawlio sylw, pa bryd bynag y "cymerai ei ddameg" i addysgu y bobl. Yr oedd ei ymddangosiad personol, ei ddull serchog a chyfeillgar, ynghyd a'r cyflawnder o hanesion difyrus a dywediadau pert, yn gwneud y byddai yn dda gan bawb, yn mhob cylch lle y byddai, eistedd wrth ei draed i wrando arno. Mae Mr. Rees Roberts, Harlech, wedi rhoddi i mi y desgrifiad canlynol o hono:—

"Yr oedd Mr. Humphreys yn ddyn o ymddangosiad talgryf ac urddasol iawn; a phenderfyniad, nerth, a phwyll, yn argraphedig ar ei holl ysgogiadau; a hyny mewn llythyrenau mor freision fel y byddem ni, hogiau y Dyffryn, yn ymdeimlo'n union pan y canfyddem ei dremwedd yn y pellder, fod yn y fan hono ryw gryn lawer o "uwchder llwch y byd" yn ymsymud gyda'u gilydd. Yr oedd ei wynebpryd yn un tra awgrymiadol o bob teimlad dymunol, fel pe buasai natur, neu yn hytrach ei Dduw, wedi darparu *treat* i bob cynnulleidfa y talai Mr. Humphreys ymweliad â hi. Yr oedd pob teimlad haelfrydig a hynaws yn

daenedig ar ei wyneb llydan braf: yn ffurfio y fath *gontrast* rhyngddo ag ambell i greadur gwynebgul y teimlem yn falch nad oedd fodd dangos mwy o surni a chwerwder ar ei *frontispiece*. Ond am Mr. Humphreys ni fuasai yn waeth gan neb pe buasai ei wyneb càn lleted a'r ffenestr, o herwydd na fuasai ond gollwng ffrwd o oleuni ar deimladau mwyaf dymunol y galon ddynol. Teimlid fod cyfarchiad caruaidd Mr. Humphreys hefyd yn werth ei gael. Byddai ei '*How di do*, machgen i,' yn ymofyniad serchog a gwirioneddol, ac yr oedd ei ysgydwad llaw yn rhywbeth pur sylweddol. Nid fel ambell un yn gollwng ei bawen i'ch llaw fel rhyw lwmp o *sponge* llaith, gan edrych ffordd arall, y byddai efe; na, byddid yn teimlo fod ei galon fawr yn *throbio* yn nghledr ei law, a'i ddau lygad mawr gloew yn edrych yn eich llygaid chwithau, fel pe yn yspïo a oedd rhyw drallod a gofid yn rhyw le tua gwraidd y galon ag y gallai ef roi *plaster* wrthynt. Efelychai yn fawr yn hyn dynerwch tosturiol yr Iachawdwr bendigedig, fel ei dangosir gan y bardd Cowper yn y llinellau hyny ar 'Y Daith i Emmaus:'

> 'Ere yet they brought their journey to an end
> A stranger joined them, courteous as a friend,
> And asked them, with an engaging air,
> What their affliction was? and begged a share.'"

Er dangos yn mhellach y rhagoriaethau oedd yn Mr. Humphreys i'w gymhwyso i droi mewn cylchoedd cyhoeddus ni a ddifynwn ranau o'r ysgrif a ymddangosodd arno yn y *Faner* (yn fuan ar ol ei farwolaeth), gan Dr. Edwards. Wedi sylwi nad oedd dim yn ei wisg, na'i ddull, yn dangos pa beth oedd ei swydd, na'i alwedigaeth, na'r blaid grefyddol yr oedd yn perthyn iddi, ac y byddai yntau ei hunan yn arfer dyweyd nad oedd yn dewis i ddyeithriaid gael achos i sylwi wrth edrych arno, "Dacw bregethwr Methodist;" ond y dymunai yn hytrach iddynt ddyweyd am dano, os dywedent rywbeth, "Dacw ddyn syml yn myned heibio," â yr awdwr yn mlaen fel hyn:—

"Ond er nad oedd dim yn hynod yn ei ymddangosiad, nid cynt y dechreuai siarad ar unrhyw achlysur nag y tynai sylw pawb a fyddai yn bresenol. Yr oedd hyfrydwch i'r glust hyd yn oed yn ystwythder ei lais: ac yr ydym yn cofio fod y diweddar Mr. Sherman, o Lundain, mewn cymanfa unwaith yn Ninbych, yn gofyn i rywun yn y

cynnadleddau, Pwy oedd y gŵr hwnw oedd yn llefaru yn fwy llithrig, a'i lais yn swnio yn fwy seinber na neb arall yn y cyfarfod. Ni chafodd geiriau yr hen iaith Gymraeg eu hacenu yn well gan neb erioed na chanddo ef. Ond yr oedd pawb oedd yn deall ystyr ei eiriau yn teimlo hefyd nad oedd ei ymadroddion un amser yn cynwys sŵn heb ddim sylwedd; ac yr oeddynt wrth ei wrandaw yn barod i ddyweyd, nid yn unig 'Dacw ddyn syml,' ond, 'Dacw ddyn synwyrol.' Efallai mai ei nodwedd fwyaf arbenig oedd ei helaethrwydd o synwyr cyffredin. Byddai rhai yn gwawdio y dywediad hwnw o eiddo yr hen batriarch Lewis Morris, fod 'yn rhaid cael synwyr i arfer synwyr,' ond y mae mwy ynddo nag yr oedd llawer yn tybied. Cawsom gyfle yn ddiweddar i ddarllen hanes Irving, gan Mrs. Oliphant; ac un effaith a gafodd arnom oedd ein argyhoeddi o gywirdeb dywediad yr hen dad o Sir Feirionydd. Yr oedd Irving yn un o'r dynion mwyaf yn ei oes; ond ammharodd ei ddefnyddioldeb i raddau mawr o ddiffyg 'synwyr i arfer synwyr.' Yn hyn yr oedd yn mhell islaw Dr. Chalmers, er ei fod yn rhagori arno mewn ystyriaethau eraill. Ond yn y synwyr neillduol hwn, nid oedd Chalmers na Franklin yn rhagori ar Mr. Humphreys, o'r Dyffryn. Paham y gelwir ef yn 'synwyr cyffredin' nis gwyddom; ond pe dilynem rai o'r dysgedigion mewn achosion cyffelyb, ni a ddywedem ei fod yn cael ei alw felly am ei fod yn anghyffredin. Pa fodd bynag, y mae ei enw yn cyfateb yn berffaith i'w ddyben a'i ddefnydd; oblegid y mae yn dwyn perthynas yn benaf â phethau cyffredin. Ac yma eto y mae gwahanol ranau a rhywogaethau. Un o honynt ydyw synwyr i ymddwyn yn ddoeth yn ei berthynas â phethau cyffredin. Yn y ddau ystyr yma yr oedd llawer o wŷr a gwragedd yn Sir Feirionydd, ac mewn siroedd eraill, mor synwyrol a Mr. Humphreys, o'r Dyffryn: ac yn enwedig ni a deimlem duedd gref i efelychu yr hen weinidog hwnw, yr hwn pan yn gweddio dros Jonathan Edwards, a ddefnyddiodd y cyfle i ddadgan ei farn, er cymaint dyn oedd y duwiol hwnw, eto fod ei wraig yn rhagori arno. Ond y mae math arall o synwyr cyffredin: ac yn hwnw yr oedd Mr. Humphreys yn nodedig, sef y gallu i dynu addysgiadau buddiol oddiwrth bethau cyffredin, ac i wneuthur sylwadau buddiol arnynt.

"Y mae yn ddiau y rhyfeddai llawer pe cymharem Mr. Humphreys a'r bardd Wordsworth; ac eto er eu bod yn anhebyg iawn, ar amryw olygiadau, yr oeddynt yn gyffelyb yn y sylw a delid ganddynt i bethau cyffredin. Dangosai y naill fod yr amgylchiadau mwyaf cyffredin yn llawn prydferthwch, a dangosai y llall eu bod yn llawn o synwyr; hyn oedd yn gwneyd ymweliadau Mr. Humphreys mor ddiddanus ac mor dderbyniol mewn teuluoedd. Yr oedd y rhieni a'r plant, y gweision a'r morwynion, i gyd yn llawen pan ddeallent fod gobaith iddynt gael y fraint o'i groesawu: oblegid byddai ganddo ef air i'w ddywedyd wrth bawb, a'r gair hwnw yn addysgiadol i bawb. Dywedir yn hanes Irving iddo enill serch rhyw grydd anhywaith trwy ddangos ei fod yn deall am natur lledr. '*He's a sensible man yon; he kens about leather*,' meddai y crydd rhagfarnllyd yn Glasgow. A'r un peth ydyw y natur ddynol yn Nghymru, ac yr oedd Mr. Humphreys, yn yr un dull, yn peri i bawb gredu ei fod yn *sensible man*. Yr oedd yn llwyddo, nid trwy ddeall yn unig, ond trwy gydymdeimlad. Nid fel un yn ymostwng o ryw diriogaeth uwch yr oedd yn ymddiddan a dynion o bob crefft ac o bob gradd; ond fel un o honynt hwy eu hunain. Nid rhywbeth gwneyd oedd y dyddordeb a ddangosai yn mhob achos. Yr oedd yn caru dynion fel dynion; ac heb hyn buasai y cwbl yn aneffeithiol; oblegid y mae ffug mewn ymddiddanion am bethau cyffredin, fel mewn achosion mwy pwysig, bob amser yn creu gwrthdarawiad. Nis gwyddom yn sicr pa un yn benaf ai achos ai effaith o hyn oedd ei fedrusrwydd i dderbyn addysg iddo ei hun oddiwrth bawb, yn gystal ag i roddi addysg iddynt hwythau. Mewn hen feini, na fuasai neb arall yn sylwi arnynt, yr oedd ef yn fynych yn cael mŵn gwerthfawr; ac fel hyn y byddai ganddo ryw hanes difyr, neu ddywediad pert, i'w gymhwyso at bob amgylchiad. Os cafwyd allan gan eraill fod trysorau yn nghreigiau Sir Feirionydd, dangosodd yntau fod cyfoeth o synwyr yn ymddiddanion cyffredin y werin."

Buasai yn hawdd i ni ddwyn lliaws o enghreifftiau yn mlaen er dangos ei fedrusrwydd i egluro a phrydferthu ei ymddiddanion a'i anerchiadau trwy gymhariaethau, pa rai a gymerai o blith pethau na buasai y cyffredin yn gwneyd dim a hwy ond yr un peth ag a wnai moch a gemau, "eu

sathru dan eu traed." Ond gan y bydd genym bennod ar hyn, ni a ymattaliwn heb roddi ond un neu ddwy o honynt. Un tro yr oedd y diweddar Barch. David Jones, Treborth, yn cael ei ddysgwyl i Gyfarfod Misol i'r Dyffryn; ond wedi gweled y *Goach* fawr yn myned heibio, a'r gŵr parchedig heb ddyfod, ofnwyd yn fawr fod rhywbeth wedi ei attal, ac nid oedd neb yn teimlo yn fwy pryderus na Mr. Humphreys. Ond pan oeddynt ar fyned i'r oedfa, pwy ddaeth i dŷ y capel ond Mr. Jones. Neidiodd Mr. Humphreys ar ei draed, a dywedodd yn ei ddull serchog ei hun, "Dafydd bach, y mae yn dda genyf eich gweled; sut y daethoch?" "Wel, fe ddarfu rhyw ŵr fod mor garedig a'm cario o Borthmadog, ac y mae wedi dyweyd yr â a fi yn ol yfory." "Dyna beth ydyw bod yn ŵr mawr," ebe Mr. Humphreys. "Mi welais inau lawer yn cymeryd trafferth i'm cael inau i gymydogaeth, ond wedi fy nghael yno, gwnaent a mi fel y gwna y melinydd gyda'r dŵr: cymer gryn drafferth i gael y dwfr i gafn y felin, ond wedi ei gael yno, cymered ei siawns i fyn'd i ffordd."

Gofynwyd iddo—mewn lle heb fod yn mhell o'r Dyffryn—i roddi gair o annogaeth i rai fyn'd i'r Ysgol Sabbothol, yr hyn a wnaeth fel hyn:—"Y mae yn rhyfedd fod eisieu annog neb o honoch i fyned i'r Ysgol Sabbothol, a hithau yn sefydliad mor dda; ond er yr holl Ysgolion Sabbothol sydd yn y wlad, y mae llawer yn diangc heb fedru darllen. Gellid meddwl wrth edrych ar yr odyn galch ei bod yn un olwyn o dân; ond er yr holl dân, fe fydd ambell i gareg yn myn'd trwyddi heb losgi, ac nid oes dim yn well na'i thaflu i'r odyn drachefn. Felly chwithau, fy mhobl i, os oes rhai o honoch wedi diangc heb fedru darllen, ond i chwi fyned i'r Ysgol Sabbothol, y mae siawns dda am danoch eto."

Ni byddai Mr. Humphreys ychwaith yn ymddiosg o'i ddull naturiol ei hun pan yr esgynai i'r pulpud. Y mae rhai pregethwyr mor wahanol iddynt eu hunain pan yn pregethu, fel y gellid tybied eu bod yn cario llais a goslef yn eu *satchels*, o bwrpas i'w ddefnyddio pan yn llefaru o'r areithfa; ond am wrthddrych ein cofiant, fel y dywed Dr. Edwards yn mhellach, "Yr oedd yr un hynodrwydd i'w ganfod yn ei bregethau ag oedd yn ei ymddiddanion. Pa beth bynag oedd yn ddiffygiol ynddynt, nid oedd ynddynt byth ddiffyg synwyr, a hwnw wedi ei wisgo yn yr iaith

goethaf, a'i addurno yn fynych â'r cymhariaethau prydferthaf. Fel enghraifft, gallwn grybwyll un gymhariaeth o'i eiddo, er dangos y gwahaniaeth rhwng caru Duw a charu dynion. Dywedai, 'Ein bod wrth garu dynion yn debyg i rai yn lladd gwair mewn tir caregog, lle y mae yn rhaid i ni ofalu am gadw o hyd mewn terfynau; ond ein bod wrth garu Duw yn debyg i rai yn lladd gwair mewn doldir fras, lle y gallwn roddi ein holl nerth mewn gweithrediad.' Efallai mai diffyg chwaeth ynom ni ydyw yr achos, ond y mae yn rhaid i ni addef ein bod yn hoffi y cyfryw gymhariaethau. O'r hyn lleiaf, yr oeddynt yn llawer mwy dealladwy i'r bobl na chyfeiriadau dysgedig at y sêr a'r planedau. Ac hyd yn oed y bydoedd wybrenol a ddygid ganddo yn agos at ddeall y bobl trwy gymhariaethau cartrefol. Fe ddywedai unwaith wrth son am ddoethineb y Creawdwr, 'Na buasai yr haul yn atteb y dyben pe buasai yn llai o faint, er iddo fod yn nes atom; gan y buasai y ddaear felly yn debyg i ddyn yn y gauaf wrth dân bychan—gwres yr hwn nis gallai ei gynhesu drosto pa mor agos bynag y nesaâi atto."

Yr oedd Mr. Humphreys yn athronydd craffus; a byddai yn gwneyd defnydd mawr o Athroniaeth Naturiol yn ei bregethau. Ond er y byddai yn dra hoff o son am natur a'i deddfau, ni feddyliodd neb a arferai ei wrando yn feddylgar nad oedd efe yn dduwinydd da hefyd. Gallai y sylw a wnaeth y diweddar Barch. Henry Rees ar ei bregeth ar y testyn "Dyna y Duw," wasanaethu i ddangos ei weinidogaeth yn gyffredinol, "Wel mae y Duwinydd wedi llyngcu yr athronydd o'r golwg." Bob amser yr ymgymerai a rhai o athrawiaethau yr efengyl, byddai yn traethu ei olygiadau mewn modd goleu a chadarn, gan gadw ei olwg ar y gwirionedd cyferbyniol, ac i "brophwydo yn ol cysondeb y ffydd." Ni byddai yn proffesu fod ganddo gorph cyflawn o Dduwinyddiaeth; a byddai yn arfer dyweyd fod gwirioneddau mawrion yr efengyl yn wasgaredig trwy y Beibl fel yr esgyrn sychion âr hyd ddyffryn Ezeciel, a bod yn rhaid cael un pur fedrus i hel y rhai hyny ynghyd, a'u gosod wrth eu gilydd yn y fath fodd ag i allu gwneyd corph lluniaidd o honynt. Trwy y byddai efe yn traethu ei feddyliau ar byngciau athrawiaethol yr efengyl yn ei ddull a'i ymadroddion ei hunan, heb ofalu am y termau arferedig, fe aeth rhai o'i wrandawyr i ofni

nad oedd yn iach yn y ffydd; a byddai rhai o honynt yn meddu digon o ddigywilydd-dra i'w alw i gyfrif. Byddai yn rhaid iddo "gadw ffrwyn yn ei enau" pan yn ymddiddan a rhai o honynt, a hyny am y gwyddai nad oeddynt yn deall dim am y pethau. Aeth un atto ar ol pregethu unwaith, a gofynodd iddo, mewn dull oedd yn ymylu ar fod yn haerllug, "A wyddoch chwi, Richard Humphreys, eich bod wedi cyfeiliorni heddyw?" ac ychwanegai, "yr wyf yn dysgwyl na wnewch ddigio wrthyf, mi fyddaf fi yn caru bod yn onest bob amser." "Ië," ebe yntau, "piti na baet yn caru bod yn gall hefyd: yr wyt yn gofalu mwy am fod yn onest nag yn ddoeth, mi feddyliwn; ni byddai niwed yn y byd pe byddai i ti feddwl am fod dipyn yn ddoeth hefyd." Ond pan gofiwn mai dyddiau y dadleuon crefyddol oedd y dyddiau hyny—dyddiau ag yr oedd gwirioneddau yr efengyl yn fwy o ddefnyddiau cynhenau ac ymrysonau nag oeddynt o adeiladaeth*—nid oedd yn beth mor ryfedd fod yn rhaid i'r pregethwyr hyny oedd yn lled annibynol eu meddwl oddef cael eu galw i gyfrif gan rai llawer islaw iddynt eu hunain.

Ar ol iddo fod yn pregethu am o gylch tair blynedd-arddeg, fe ddechreuodd rhai yn y sir aflonyddu am gael ei ordeinio i holl waith y weinidogaeth. Ond gan nad oedd yn pregethu yr un fath a neb arall, petrusai eraill gyda golwg ar ei ordeinio; ac er mwyn cael sicrwydd ei fod yn iach yn y ffydd, trefnwyd iddo fyned ar gyhoeddiad gyda'r diweddar Barch. Richard Jones o'r Wern. Nid oedd Mr. Humphreys yn gwybod dim am eu hamcan, ac nid oedd ar Richard Jones ei hunan eisieu prawf yn y byd arno, oblegid yr oedd yn ei adnabod yn dda o'r blaen: ond gan fod yn rhaid i wyliedyddion yr athrawiaeth gael ei brofi, nid oedd modd iddynt syrthio ar ŵr cymwysach i fod yn feirniad arno na Richard Jones, oblegid nid wrth eu gwisgoedd y byddai ef yn adnabod gwirioneddau yr efengyl. Wedi gorphen y daith, aeth rhai o'r brodyr at Mr. Jones i ofyn ei farn am Mr. Humphreys, a'i ateb syml ydoedd, "Mae yn berffaith ddiogel i chwi ei ordeinio." Ar ol derbyn y dystiolaeth hon, meddyliodd y sir o ddifrif am ei neillduo i holl waith y weinidogaeth; ac yn y flwyddyn 1833 fe'i hordeiniwyd ef, a brodyr eraill, yn Nghymdeith-

* Gwel hanes y Dadleuon yn Nghofiant John Jones, Talsarn.

asfa y Bala, canys dyna y fan lle yr oedd yn rhaid ordeinio y pryd hwnw. "Y mae yn gofus genyf," ebe fy hysbysydd, sef y Parch. G. Hughes, Edeyrn, yr hwn oedd yn bresenol, "fod un o'r frawdoliaeth yn areithio yn faith ar bob cwestiwn a ofynid iddo, gan ei brofi a'i ddadleu allan, hyd onid oedd llawer yn dywedyd, 'Mawr allu yw hwn.' Ond ateb yn lled gwta yr oedd y dyn mawr o'r Dyffryn, ac ymddangosai yn wylaidd a difrifol. Cynhyrfwyd un o wyliedyddion yr athrawiaeth i ddywedyd, 'Wel deudwch Richard.' Gofynai yntau yn dawel, 'Beth a ddywedaf? Yr wyf wedi dyweyd fy marn ar y mater; gofynwch chwi rhywbeth yn ychwaneg, mi dreiaf eich ateb.' Pan ofynwyd iddo a oedd yn barod i wasanaethu y Corph hyd y gallai, ei ateb ydoedd, 'Dyn yn trin y byd ydwyf fi, ac yn arfer gweithio gyda'r gaib a'r rhaw, ac mi ddymunwn wneyd fel o'r blaen, yn y cylch a berthyn i mi.' Gofynwyd iddo a oedd yn caru trefn bresenol y Cyfundeb. 'Yr wyf yn caru trefn y Corph, ond nid ei annhrefn,' ebe yntau. Yr oedd yn hawdd deall ar lawer," ychwanegai Mr. G. Hughes, "mai lled ganolig yr oedd efe yn pasio gyda rhai o'r frawdoliaeth. Diau ei fod yntau ei hunan yn deall hyny; ond nid oedd yn un brofedigaeth iddo, gan na bu enill cymeradwyaeth dynion yn beth mor fawr ganddo ag y buasai yn aberthu dim o'i syniadau er mwyn hyny."

O ddechreuad ei oes weinidogaethol, hyd y cyfnod hwn, ni bu Mr. Humphreys ond yn troi mewn cylch bychan iawn mewn cydmariaeth i'r hyn a fu yn mlynyddoedd diweddaraf ei oes. Yr oedd bron yn anmhosibl cael ganddo fyned ar "daith" nac i "Gymanfa;" ac ni byddai yn myned ar y Sabbothau ond i'r teithiau y gallai fyn'd iddynt y bore a dychwelyd yn yr hwyr. Ond trwy ei fod yn ddyn heinyf a chryf, ni byddai yn llawer o beth ganddo deithio o bymtheg i ugain milldir ar ei draed ar fore Sabboth. Y rhandir a gafodd fwynhau mwyaf o'i weinidogaeth adeiladol ydoedd Dosparth y Dyffryn, yr hwn sydd yn cyrhaedd o Abermaw i Dalysarnau. Nid oedd yn y dosparth y pryd hwnw ond dwy o deithiau Sabbothol, sef Abermaw, Dyffryn, a'r Gwynfryn; Talysarnau a Harlech; a byddai yntau yn pregethu yn un o'r ddwy daith bron bob mis yn ei flynyddoedd cyntaf. Ni phregethodd yr un gweinidog perthynol i'r Cyfundeb fwy yn ei gartref ei hun na Mr. Humphreys. Heblaw y byddai yn y

Dyffryn ar y Sabbothau yn fynych, byddai hefyd yn pregethu yn nhai ei gymydogion bron bob wythnos ar ryw adegau ar y flwyddyn; ac y mae adgofion bywiog am amryw o'r pregethau hyny yn aros hyd heddyw. Dywedai cyfaill iddo unwaith, "Yr ydych chwi yn pregethu llawer mwy yn y Dyffryn acw na Mr. Morgan." "Y mae hyn yn dwyn i'm cof y ffughanes am y llew a'r llwynog," ebe yntau. "Dywedai y llwynog wrth y llew, 'yr wyt ti yn llawer cryfach na mi, ond byddaf fi yn magu tri neu bedwar o gywion am un i ti.' 'Gwir,' ebai y llew, 'ond cofia di mai llwynogod fydd genyt ti, ond mi fydd genyf fi lew pan fagwyf ef.' Felly," meddai, "ni bydd genyf fi ond llwynogod; ond pan y daw Morgan allan, fe fydd ganddo ef lew." "Ond efallai," ebe fy hysbysydd, "fod llwynogod Humphreys yn gwneyd cymaint o les a llew Morgan, o leiaf yr oeddynt yn fwy hawdd eu dal, ac y mae yn sicr mai yr hyn a ddelir o'r pregethau a wna les, a dim mwy."

Y mae un peth arall y dylem ei goffâu am dano, sef, ei fod wedi pregethu am flynyddoedd lawer yn ei gartref, a'r ardaloedd agosaf atto, heb gymeryd dim cydnabyddiaeth am ei lafur. Gellir gweled ei enw ar lyfr eglwys y Dyffryn, ac eglwysi y dosparth, ugeiniau o weithiau, heb yr un geiniog ar ei gyfer yn yr un o honynt. Yr oedd ganddo ddau amcan wrth beidio a chymeryd ei dalu fel ei frodyr; sef, peidio a phwyso ar yr eglwysi, ac er mwyn iddynt allu gwneyd yn well o'r gweinidogion oedd heb fod mor dda eu hamgylchiadau ag ef. Ond wedi i frawd oedd yn talu mwy o sylw i gynhaliaeth y weinidogaeth nag ef ddyfod i fyw yn agos ato, a deall pa fodd yr oedd yn arfer gwneyd, dangoswyd iddo mai dylanwad uniongyrchol ei waith ydoedd, nid gwella amgylchiadau ei frodyr, ond tueddu i wneyd yr eglwysi yn fwy diffrwyth, a gosod rhwystrau ar ffordd dyrchafiad y weinidogaeth. Pan y deallodd Mr. Humphreys hyny, dywedodd wrth swyddogion yr eglwysi ei fod wedi arfer eu gwasanaethu yn rhad; ond o hyny allan y cymerai efe ganddynt fel y byddent yn arfer rhoddi i'w frodyr, ac y gallai eu cyfranu at achos crefyddol fel y gwelai efe yn dda: a chlywsom gan un oedd yn gwybod ei hanes yn bur fanwl y byddai yn degymu cymaint oll ag a dderbyniai am ei lafur gweinidogaethol.

Ar ol marw y Parch. Richard Jones, o'r Wern, ymlithrodd cryn lawer o bwysau yr achos yn Ngorllewin Meir-

ionydd ar ysgwyddau Mr. Humphreys, a hyny yn bur naturiol. Feallai nad ellid ei ystyried ef yn ddiwygiwr mawr, gan belled ag y mae dwyn allan gynlluniau newyddion yn perthyn i ddiwygiwr: nid oedd ganddo flas ar wneuthur rheolau a deddfau newyddion. Braidd na thybiwn mai goruchwyliaeth debyg i oruchwyliaeth y Barnwyr a fuasai yn fwyaf cydweddol ag ansawdd ei feddwl ef—eistedd mewn barn ar bob achos fel y digwyddai. Byddai yn arfer dyweyd fod llawer yn gwneyd deddfau o bwrpas i'w tori. Ond os nad oedd yn ddiwygiwr mawr, yr oedd yn weithiwr heb ei ail, ac yn gwir ofalu am bob peth yr achos gartref a thrwy y sir; a byddai yn un o'r rhai blaenaf i gefnogi pob ysgogiad a farnai efe a thuedd ynddo i lesoli y "deyrnas nad yw o'r byd hwn."

Bu o wasanaeth mawr gydag adeiladu ac adgyweirio capelau y sir. Trwy ei fod mor fedrus gyda saerniaeth coed a cherig, ac yn ymbleseru cymaint yn y gwaith, byddai y cyfeillion yn mhob cymydogaeth yn galw am ei gyngor a'i gyfarwyddyd pan yn bwriadu adeiladu neu adgyweirio eu capelau. Efe fyddai yn eu planio, yn eu gosod, ac yn edrych am eu dygiad yn mlaen. Nid oedd yr un "Bezaleel i ddychymygu cywreinrwydd" ar gapelau y Methodistiaid, yn y dyddiau hyny. Ni ddarfu i ni erioed ddeall y byddai Mr. Humphreys yn arfer tynu plan ar bapyr o'r un adeilad, ond dywedai wrth y gweithwyr, fel y dywedodd yr Arglwydd wrth Noah, am wneyd yr Arch, "Gwna i ti Arch o goed Gopher," &c.; felly y byddai Mr. Humphreys yn dyweyd wrth y gweithwyr, "Gwnewch i mi Gapel o gerig ithfaen; ac fel hyn y gwnewch ef: deugain cufydd fydd hŷd y Capel, a deg cufydd ar hugain o led, a deg-ar-hugain ei uchder; gwnewch ffenestri arno, a gorphenwch hwynt yn bedwar cufydd oddiarnodd; a gosodwch ddrysau yn ystlys y Capel; o ddau uchder y gwnewch ef; gwnewch hefyd dŷ ac ystabl wrth ei dalcen." Ond er mai pur ddiseremoni y byddai efe yn myned at ei waith, byddai yn llwyddo i gael capelau mor gyfleus a dim rhai oedd i'w cael y pryd hwnw. Capel y Dyffryn oedd y cyntaf a wnaed ganddo; bu yn gweithio yn galed ar y capel hwn, o osodiad ei sylfaen hyd ei orpheniad; a phregethodd ynddo ar ddydd ei agoriad. Byddai yn hawdd ganddo, pan yr ymwelai â'r gweithwyr fyddai yn adeiladu capel fyddai dan ei ofal, weithio am oriau gyda hwynt.

Clywsom iddo, yn Llanuwchllyn, wedi bod yn pregethu yno un Sabboth, ac iddo sylwi fod tyllau yn nhô yr hen gapel, fyned bore Llun i chwilio am fenthyg dillad gweithio y diweddar Evan Foulk; ac wedi d'od o hyd iddynt, aeth i ben y capel a thrwsiodd ei dô cyn myned ymaith. Byddai yn cadw dau beth mewn golwg wrth eu gwneyd, sef planio capelau yn gysurus i addoli ynddynt, a gochelyd costau afreidiol, rhag tynu beichiau gormodol ar yr eglwysi. Cofus genym ei weled unwaith wedi ei wahodd i Dan-y-grisiau, i edrych a oedd yr hen gapel yn ddigon uchel i gael oriel (*gallery*) arno. Cymerodd ddau o ddynion gydag ef i mewn. Gosododd un o'r ddau yn yr eisteddle uchaf yn nghefn y capel, a'r llall ar ben maingc ar gyfer y man y buasai wyneb yr oriel yn cyrhaedd; a ffon yn ei law, yr hon a ddaliai i fyny ar ei gorwedd, yna aeth yntau ei hunan i'r pulpud. Yr oedd y dyn oedd ar ben y faingc i godi y ffon hyd nes y gwelai Mr. Humphreys a'r un oedd yn nghefn y capel eu gilydd o dani, a hyny oedd i benderfynu uchder wyneb yr oriel oddiwrth y llawr. Os nad oedd y ffordd hon yn ateb i ddarganfyddiadau diweddaraf celfyddyd, nid oedd modd cael ffordd mwy diogel. Os byddai wynebpryd siriol Mr. Humphreys yn weledig i'r rhai a eisteddai felly o dan yr oriel, nid oedd perygl am neb arall, oblegid efe oedd y talaf yn mysg y brodyr ar ol dyddiau Lewis Morris.

Yr oedd Mr. Humphreys yn gallu mawr yn Nghyfarfod Misol ei Sir; a byddai yn taflu ei holl ddylanwad o blaid pob diwygiad a ddygid i mewn iddo. Ni chafodd yr Achos Dirwestol ffyddlonach dadleuwr nag ef, fel y gwelir oddiwrth bennod arall; a bu yn gyfaill ffyddlon i'r Athrofa; a phan y dechreuodd y diweddar Mr. Morgan athrawiaethu ar bwngc y Fugeiliaeth, yn y rhan hon o'r wlad, daeth yntau allan yn gefnogwr gwresog iddo. Y mae yn wir y byddai rhai brodyr oedd yn erbyn y fugeiliaeth yn dwyn Mr. Humphreys yn mlaen fel un oedd wedi rhoddi blynyddoedd o lafur yn rhad, a gofynent, Pa reswm oedd mewn meddwl i neb gael eu talu am gadw seiat? Ond ni bu efe ddim yn fwy ymdrechgar i'w gwasanaethu yn rhad nag y bu wedi hyny i geisio eu hargyhoeddi o'u rhwymedigaeth i "gynal gair y bywyd." A phan y byddai ein hanwyl frawd Mr. Morgan yn fawr ei sêl yn llabyddio y gau-resymau a ddygid yn erbyn y Fugeiliaeth, byddai Mr.

Humphreys yn sicr o fod yn dal dillad yn rhywle gerllaw iddo. Ond nid dal dillad yn unig a wnaeth ef, ond ymdaflai i ganol y tân. Dywedai mewn Cyfarfod Misol unwaith, lle yr oedd yr achos hwn yn cael ei ddadleu, "Y mae yn rhaid i'r eglwysi ddyfod allan yn fwy haelionus os ydynt am i'r achos lwyddo yn ein plith. I mi yn bersonol nid yw o ddim pwys, ni bydd arnaf fi eisieu ond *suit* neu ddwy o ddillad yn rhagor, ac fe wna pâr neu ddau o esgidiau y tro i mi: ond beth am fy mrodyr ieuainc sydd yn y weinidogaeth, ac o dan bwysau y byd? Pa fodd y gallant wasanaethu crefydd os na bydd i'r eglwysi ddyfod allan i'w cynorthwyo?" Cofus genym ei glywed mewn Cyfarfod Misol arall yn rhoddi cyfrif o'i dderbyniadau a'i dreuliadau gyda'r weinidogaeth am flwyddyn, a hyny er dangos pa mor lleied oedd ganddo yn weddill at gynal ei hunan a'i deulu. Yr oedd yn llawer haws iddo ef wneyd hyn na neb o'i frodyr, a hyny am y gwyddai pawb nad oedd ef yn bersonol yn ymddibynu ar y weinidogaeth.

Nid mewn Cyfarfodydd Misol mewn cymoedd gwledig, rhwng mynyddoedd Gorllewin Meirion, y byddai Mr. Humphreys yn unig yn traethu ei olygiadau ar gynhaliaeth y weinidogaeth. Yr ydym yn ei gael yn yr ordeiniad yn y Bala, yn Mehefin, 1841, yn traddodi araeth ar ddyledswydd yr eglwys at y gweinidog; a chofir yn hir am dano yn adrodd hanes Mr. Pugh, Dolgellau, a'i ferlyn. Yr oedd Mr. Pugh yn cadw merlyn, yn benaf, os nad yn gwbl, er mwyn ei roddi i'r pregethwyr a fyddai yn galw yno ar eu taith i'r lleoedd o amgylch Dolgellau; a phan y deuai merlyn Mr. Pugh i'r lleoedd cyfagos, yr oeddynt yn ei adnabod, a byddent yn ei adael heb roddi bwyd nac ymgeledd iddo. O dipyn i beth fe y merlyn farw, a daeth rhyw gyfaill at Mr. Pugh i ddyweyd y byddai yn well iddo gael merlyn etto, fod yn fraint iddo gael ei roddi i wasanaethu gweinidogion lluddiedig. "Wel," ebe Mr. Pugh, "os oedd yn fraint i mi, fel yr wyf yn credu ei bod, gael rhoi benthyg y merlyn, *pity* na buasech chwithau yn gweled eich braint o roddi tamaid iddo i'w gadw yn fyw." "Wel, ïe," ebai y cyfaill drachefn, i'w gysuro am ei ferlyn, "ond mi gewch chwi eich talu yn adgyfodiad y rhai cyfiawn." "Oh!" meddai Mr. Pugh, "nid oes fawr o *ddoubt* am hyny, ond os collaf geffyl yn aml fel hyn, y cwestiwn ydyw, pa fodd yr âf fi hyd yno." Yr oedd y

ddameg hon mor eglur fel nad oedd raid i neb fyned ato i ddywedyd wrtho, "Eglura i ni ddameg merlyn Mr. Pugh." Yn yr araeth dywedai hefyd fod pennod gyfan, sef y nawfed o'r 1 Corinthiaid, nas gwyddai ef pa gyfrif i'w roddi am ei bod mor ddïeithr i'r Methodistiaid. Bu yn gwestiwn ganddo pa un ai heb gael ei darllen fel pennodau eraill y Beibl yr oedd y bennod hon, ai ynte heb dalu sylw i'w chynwysiad yr oeddynt, gan eu bod mor bell ar ol gyda golwg ar weithredu yn ol ei chyfarwyddyd. Wedi ei dwyn i sylw fel hyn, aeth yn mlaen i'w hegluro.

Yn y flwyddyn 1850, yr ydym yn cael ystadegau Sir Feirionydd yn cael eu hargraffu am y tro cyntaf, ac y mae Anerchiad rhagorol o waith Mr. Humphreys at yr eglwysi ynddo; a chan ei fod yn cynnwys ei syniadau ef ar gynhaliaeth y weinidogaeth, yn nghyda'r sylw a dalai i bob peth yr Achos, ni a'i dodwn ef i lawr yn ei eiriau ef ei hun.

"ANWYL GARIADUS FRODYR,—Wrth edrych i'r cyfrifon uchod, gwelwn fod 5,505 o aelodau yn y sir hon. Duw yn unig a wyr pa sawl morwyn ffol a gwas anfuddiol sydd yn eu plith: rhaid gadael hyn i farn y dydd mawr. Gwelwn hefyd fod 80 wedi eu diarddel, yr hyn a ddengys fod llygredigaeth natur yn ffrwd gref, er pob moddion a arferir i arafu ei rhediad. Yr ydym yn byw lle y mae Satan yn trigo, ac yn cau ar aml un o blant Duw yn y carchar o wrthgiliad am ddyddiau lawer, y rhai a oddiweddwyd ar dir anghyfreithlawn. Cofiwn bererin Bunyan, yr hwn a aeth dros y gamfa o'r ffordd, am fod y llwybr yn esmwyth i'r traed, ac ar y cyntaf yn gydfynedol â'r ffordd. Ymddengys hefyd fod 108 wedi myned i dŷ eu hir gartref y flwyddyn ddiweddaf: y rhai hyn a lefant o'u beddau, 'Gweithiwch tra mae hi yn ddydd,'—'Am hyny byddwch chwithau barod: canys yn yr awr ni thybioch y daw Mab y Dyn.' Am hyny, frawd, 'y peth yr ydwyt yn ei wneuthur, gwna ar frys,' er darparu erbyn tragwyddoldeb. Gweddia yn daerach ac yn amlach; gâd i Wrandäwr gweddi weled dy wedd a chlywed dy lais. Gwelir hefyd fod yn y rhan ddwyreiniol o'r sir o 2,799 o aelodau, 2,603 o Ddirwestwyr, gan adael felly 96 heb fod: a bod yn y rhan orllewinol o'r sir 35 heb fod. Y mae yn ddrwg genym dros y rhai hyn, a theimlwn yn bell oddiwrth fwrw ein coelbren yn eu mysg. 'Am neillduaeth Reuben y mae mawr ofal calon.' Y mae hefyd 631 yn yr eglwysi heb fod yn aelodau o'r Ysgol Sabbothol. Tebygid na raid i hyn fod. Cynghorem bawb a allo godi a cherdded, i fod yn *aelodau*, pe nas gallent fyned i'r ysgol ond unwaith yn y mis. Byddant yn debycach o weddio drosti pan yn absennol, ond iddynt weithiau fod yn bresennol; oblegid allan o olwg, allan o feddwl. Ymddengys yn mhellach fod £1,199 9s. 6c. wedi eu casglu at y weinidogaeth; ac er fod hyn yn ffyddlondeb lled fawr ar flwyddyn fel yr un a basiodd, a'r cwbl yn rhoddion gwirfoddol, eto y mae yn rhaid fod y swm uchod yn dra thenau wedi eu daenu dros gymaint o wlad. Rhaid fod

rhywrai yn aberthu llawer er cynnal gweinidogaeth mewn cymaint o fanau am flwyddyn am beth llai na cheiniog yr wythnos i bob aelod. Ysgatfydd nad ydym yn teimlo yn hollol gywir ar y pen hwn. Mae aberthu eto yn ein dyddiau ninnau yn rhan o wasanaeth y Duw mawr. Y sawl a'r na aberthant at achos Crist, nis gallant dynu lles oddiwrth ei aberth ef.

"Y mae Mr. James, yn ei '*Eglwys o Ddifrif*,' yn gwasgu y ddyledswydd hon at gydwybod yr Eglwys.—'Nid oes ond ychydig o bethau,' medd efe, 'ag y mae ysbryd haelionus yr oes hon yn gofalu llai am danynt na chynnaliaeth gysurus a chyfaddas y weinidogaeth gartref; ac, o ganlyniad, nid oes ond ychydig o rai mewn swyddau yn cael cynnaliaeth mor wael a'r gwŷr hyny, ar y rhai, yn llaw Duw, y dibyna holl achos efengyleiddio y byd. Y mae ysgrifenyddion cymdeithasau, cenadon at y paganiaid, ac ysgolfeistriaid, yn cael gwell tâl, a darpariadau helaethach yn cael eu gwneyd er eu cysur, na phregethwyr efengyl ogoneddus y bendigedig Dduw. Y pregethau a draddodir yw y pethau rhataf o bob peth rhad yr oes radlawn hon.' Ar ol desgrifio y bendithion a ddaeth yn fynych trwy un bregeth, dywed, 'Beth gan hyny a ddywedwn am holl bregethau blwyddyn neu oes? Meddyliwch am hyn, a dywedwch a ydyw deg swllt neu bunt yn ddigon o dâl i ddyn sydd yn difa ei nerth a'i oes trwy fyfyrio a llafurio er gallu cyfranu y fath fendithion a'r rhai hyn? Ai nid y nesaf peth i wyrth yw bod dyn yn nerthol, yn fywiog, ac o ddifrif yn ei weinidogaeth, a'i feddwl ar yr un pryd wedi ei lethu i'r llawr dan ofal am fara i'w deulu, gan ar yr un pryd ddarpar pethau gonest yn ngolwg pob dyn? Gristionogion! y mae arnoch eisieu i'ch gweinidogion *redeg* yn ffyrdd y gorchmynion a roddes Duw iddynt; am hyny, trwy eich haelioni, tynwch oddiarno y baich nas gall efe prin *gerdded* na *sefyll* dano. Os mynwn gael eglwysi o ddifrif, mi a wn yn dda ddigon fod yn rhaid i ni gael gweinidogion o ddifrif: ond hefyd os rhaid i ni gael gweinidogion diwyd a difrifol, rhaid i ni gael eglwysi haelionus.' Sylwer mor gynhes y mae apostol y cenedloedd yn cyfarch y Philippiaid ar y mater hwn; pen. iv. 10—19.

"Nis gellir dwyn yn mlaen achos yr efengyl heb i holl ganlynwyr yr Oen—yn esgobion, diaconiaid, ac aelodau—ymwadu â hwynt eu hunain, ac aberthu at ei achos. Gwneled pob dosbarth hyn, ni bydd gorthrymder ar neb: ond os bydd yr esgobion yn gorfod aberthu heb y diaconiaid a'r aelodau, byddant dan orthrymder mawr; neu os bydd y diaconiaid a'r aelodau yn aberthu heb yr esgobion, byddant hwythau dan orthrymder; ond aberthed pawb yn ol cyrhaedd eu llaw, try yn fendith i bawb heb orthrwm ar neb. Cadwed pob un gydwybod ddirwystr tuag at Dduw, gan gofio y bydd i'r neb a hauo yn brin, fedi hefyd yn brin. Gras ein Harglwydd Iesu Grist a fyddo gyda'ch yspryd chwi, frodyr. Amen."

Cefnogai Mr. Humphreys y fugeiliaeth hefyd mewn dull ymarferol, trwy wneyd gwaith bugail. Dysgai ei gymydogion "ar gyhoedd ac o dŷ i dŷ." Rhoddai ei bresenoldeb yn yr holl gyfarfodydd perthynol i'r gynulleidfa; ac ni ragorai yn fwy yn yr un o honynt nag yn y cyfarfod

eglwysig. Byddai ganddo Psalmau a Hymnau ac odlau ysprydol i'w hadrodd ar bob achos, a byddai y cwbl a lefarai "er adeiladaeth, a chynghor, a chysur"—er adeilaeth yr eglwys, er cyngor i'r afreolus, ac er cysur i'r rhai profedigaethus. Braidd na thybiem nad yn y gallu oedd ganddo i gyd-ymdeimlo a chysuro y rhai trallodus yr oedd cuddiad ei gryfder, ac yma y llechai ei fawr nerth. Dywed un hen gymydog iddo fel hyn, "Yr wyf yn cofio yn dda, pan yn lled ieuangc, am un tro neillduol yn seiat y Dyffryn, pan oedd Mr. Humphreys yn cysuro mam, hynod ofidus ei chalon, ar ol plentyn iddi, a ddygwyd ymaith gan angau. Darluniai yn dra effeithiol ddaioni Duw yn ei lywodraeth a'i ragluniaeth; ac fel y byddai, weithiau, yn cyflawni ei fwriadau grasol trwy oruchwyliaethau chwerwon, fel ag i roddi digon o sail i'w blant i'w garu ac ymddiried ynddo, a hyny o dan brofedigaethau miniog a llymion. Dangosai yn amlwg iawn y gorthrwm a'r baich a osodasid ar famau, pe buasai yn rhaid dwyn y boen a'r blinder cysylltiedig a magu, ac ymgeleddu eu rhai bach, ïe—

"Bod yn neffro lawer gwaith
Trwy hirnos faith annyddan,"

ac oni buasai am y cariad angerddol a blanodd y Creawdwr Mawr a doeth yn eu mynwesau, tuag atynt, mor anmhosibl oedd i'r cariad yma fod heb i ni deimlo gofid cyfartal pan eu dygid oddiarnom. Portreadai ddoethineb, daioni, a chariad yr Hollalluog yn ei lywodraeth fawr a'i ymddygiadau tuag atom ni bechaduriaid, mor oleu ac effeithiol, nes oedd llifeiriant o ddagrau cymysgedig o hiraeth am ei baban a chariad at ei Duw, yn rhedeg ar hyd gruddiau gofidus y fam drallodedig." Cymwysder tra angenrheidiol mewn bugail ydyw ei fod yn feddiannol ar y gallu i gydymdeimlo.

Cefnogodd Mr. Humphreys y Fugeiliaeth hefyd trwy gymeryd ei ddewis yn ffurfiol yn fugail. Y ffurf gyntaf ar yr ysgogiad hwn yn Sir Feirionydd ydoedd hon, sef, fod i bob eglwys ddewis rhyw weinidog i fod gydâ hwy yn y cyfarfod eglwysig unwaith yn y mis; ac yr oedd dwylaw yr eglwys yn cael eu gadael yn hollol ryddion i ddewis y neb a fynent o'r brodyr. Y tair seren ddisgleiriaf yn ffurfafen Cyfarfod Misol Gorllewin Meirionydd y pryd hyny oeddynt y Parchedigion Richard Humphreys,

Edward Margan, a Robert Williams, Aberdyfi; ac yr oedd bron yr holl eglwysi oedd yn cydymffurfio â'r cynllun hwn yn galw un o'r tri wŷr hyn. Yr oedd hyn yn ofid i'w meddyliau mewn mwy nag un ystyr; yr oedd arnynt ofn bod yn achos o dramgwydd i'w brodyr, ac yr oedd yn llafur mawr iddynt hwythau. Ond, er hyny, rhag rhwystro yr ysgogiad, yr oeddynt yn cydsynio a'r ceisiadau. Bu y diweddar Mr. R. Williams, Aberdyfi, yn myned i lawer o eglwysi dosbarth y Ddwy-afon, a Mr. Morgan a Mr. Humphreys yn myned i rai o eglwysi dosbarth y Dyffryn, Ffestiniog, a Dolgellau; ac nid oedd yr un o honynt yn ffyddlonach, tra y parhaodd yr oruchwyliaeth fisolaidd hono, na gwrthddrych ein Cofiant. Ond er fod Mr. Humphreys yn selog dros y Fugeiliaeth a chynhaliaeth y weinidogaeth, nid oedd dim yn eithafol ynddo gydâ hyn, mwy na chyda phethau eraill, ac ni byddai yn caru clywed neb arall yn myned yn rhy eithafol. Yr oedd efe ac un o flaenoriaid eglwys Pennal wedi bod yn y Cyfarfod Misol yn Nolgellau, a bu ymdriniaeth helaeth yn y cyfarfod hwnw ar yr achos hwn; teimlodd y blaenor yn ddwys, ac aeth adref a'i galon yn llosgi o zêl dros y Fugeiliaeth, ac yn y cyfarfod eglwysig dechreuodd roddi adroddiad, ac wrth ei glywed mor zelog ofnai Mr. Humphreys i'w zel wneyd niwed i'r achos, gan y gwyddai nad oedd pawb yn yr eglwys yr un deimlad â hwy eu dau; a phan y clywai Mr. Humphreys y blaenor yn poethi wrth roddi ei adroddiad, dywedai yn ei ddull tawel ei hun, "*Gently*, William, *gently*." Yna arafai Mr. James am funud; ond ail dwymnai ei yspryd drachefn, a dechreuai lefaru yn arw. Gwaeddai Mr. Humphreys eilwaith, "*Gently, gently*, William;" a dyna lle y bu y ddau—y blaenor yn gyru, ac Humphreys yn dal rhag iddo fyned ar draws y rhai oedd yn methu symud yn ddigon buan o'r ffordd.

Gwasanaethodd Mr. Humphreys ei Gyfarfod Misol hefyd trwy ei gynrychioli mewn eglwysi ar achosion neillduol. Yr oedd ei ddoethineb, ei fwyneidd-dra, a'i fedrusrwydd y fath, fel y syrthiai y goelbren yn fynych arno i fyned i ddewis blaenoriaid, ac i heddychu eglwysi lle y byddai annghydfod wedi tori allan. Gwnaeth y sylw canlynol mewn eglwys lle yr oeddynt yn dewis blaenoriaid, "Wel, y mae yma un wedi ei ddewis, ac mi allwn i feddwl eich bod wedi gwneyd yn iawn wrth ddewis y brawd hwn;

oblegid yn un peth yr wyf fi yn tybied ei fod yn feddiannol ar *common sense*. Y mae *common sense* wedi ei sancteiddio, lle bynag y bo, yn debyg iawn o wneyd lles. Y mae ffyliaid yn dda i rywbeth, bid siwr, onide ni buasai yr Hollalluog yn eu gwneyd; ond nis gwn i ddim i ba beth y maent da, os nad i brofi amynedd pobl eraill; ond pa fodd bynag nid ydynt yn dda i fod yn flaenoriaid eglwysig." Ond gan y cawn achlysur i alw sylw atto yn y cysylltiadau hyn mewn pennodau eraill ni a ymattaliwn rhag i'r bennod hon fyn'd yn rhy faith.

Nid o fewn cylch ei Gyfarfod Misol yn unig yr oedd ein gwron yn cael ei gydnabod yn fawr, ond yr oedd yn llenwi lle pwysig yn y Gymanfa hefyd. Mae yn wir iddo fod am flynyddoedd yn cadw draw o honynt; ond wedi iddo ddechreu myned iddynt, dechreuodd deimlo mai da oedd cymdeithas ei frodyr iddo; a theimlent hwythau yr un modd mai da oedd ei bresenoldeb iddynt. Yr oedd ei syniadau ef yn llawer eangach na syniadau llawer o'r cyfeillion, ac achosai hyny wrthdarawiad weithiau. Ond yr oedd ei ddull ef mor bwyllog a boneddigaidd fel na byddai galanastra mawr yn cael ei achosi trwy y gwrthdarawiad bron un amser. Rhoddodd derfyn ar ymryson lawer gwaith â gair neu ddau. "Cofus genyf," ebe y Parch. Griffith Hughes, "am Sasiwn, pryd yr oedd rhai o'r gwyliedyddion yn swnio udgorn larwm nes peri dychryn yn y gwersyll, a hyny am fod rhai yn rhoddi gormod o le i allu dyn yn eu pregethau. Ond cyfarfyddodd Mr. Humphreys, y gâd trwy ofyn, 'Beth y mae neb yn pregethu ar allu a dyledswydd dyn, heblaw ei gyfrifoldeb fel creadur rhesymol i'w Gwaredwr?' Ar hyn gofynodd John Elias, iddo, 'A fedrwch chwi gael y creadur heb y pechadur?' Atebodd Mr. Humphreys ef trwy ofyn cwestiwn arall, 'A fedrwch chwithau gael y pechadur heb ei fod yn greadur?' 'Nis gwn,' ychwanegai Mr. Hughes, 'i mi weled yr hen esgob yn cael ei orchfygu, ac yn cymeryd ei godwm, mor esmwyth erioed. Eisteddodd i lawr gan wenu yn siriol, fel y rhan fwyaf o'r frawdoliaeth. Dro arall, pan oedd ymosodiad yn cael ei wneyd gan rai o'r hen frodyr ar y pregethwyr ieuaingc,—dywedai un fod arnynt eisiau cael eu pregethwyr ieuaingc yn *bur*. Ar hyn gofynodd yr Hybarch weinidog o'r Dyffryn, 'A ydych chwi eich hunan yn bur?'" Pwy bynag oedd y brawd hwnw, a

beth bynag oedd ei syniadau am dano ei hunan, nid oedd yn gallu hòni perffeithrwydd, ac felly cafodd y gwyr ieuaingc ddiangc yn nghysgod ei anmherffeithrwydd ef."

Un tro yr oedd Cadwraeth y Sabboth yn destyn ymdriniaeth yn Sasiwn y Bala; ac yr oedd yno waharddiadau difrifol yn cael eu rhoddi rhag gwneyd dim oedd yn y mesur lleiaf yn tueddu at halogi y Sabboth. Yr oedd y gwaharddiadau yn cymeryd i fewn fwyta, gwisgo, cysgu, ymolchi, &c., a'r ymdriniaeth yn tueddu i edrych mwy ar awdurdod Duw yn sefydliad y Sabboth nag ar ei ddaioni. Mynych mynych y dywedid yn y drafodaeth y dylid cofio yn wastad mai dydd Duw ydyw. Ar hyn cododd Mr. Humphreys a dywedodd, "Ie, ïe, y mae eisiau cofio mai ein dydd ninau ydyw hefyd, 'oblegid y Sabboth a wnaethpwyd er mwyn dyn.' Y mae yn well dydd, a gwell gwaith, a pha niwed i'r bobol gael gwell dillad, a thipyn gwell bwyd hefyd." Dybenodd y cyfarfod ar hyn gydâ sirioldeb mawr. Gellid ychwanegu yma na byddai byth yn caru gweled neb mewn dillad cyffredin ar y Sabboth os byddai ganddynt rai gwell. Llawer gwaith y dywedodd pan y gwelai rai yn myned i addoli mewn dillad rhy gyffredin i'w hamgylchiadau, 'Nid yw hona yn wisg moliant, hwn a hwn."

Arno ef y disgynai y coelbren fynychaf, lawer yn y Cymanfaoedd i annog y gynnulleidfa i ymddwyn yn addas i'r achos oedd wedi eu casglu at eu gilydd, a byddai bob amser yn llwyddo i gael llygaid a chlust y dyrfa fawr fyddai o'i flaen; ac os byddai eisiau gwneyd casgliad at ryw achos cyhoeddus, efe fyddai y *beggar* bob amser. Wrth annog i haelioni, dywedai un tro fel hyn, "Yr ydych yn cael y fraint o roi i Wr Mawr, ac nis gwyddoch pa le y terfyna hyny. Pan briododd Lady Vaughan, yr oedd llawer yn myned i edrych am dani, ac yn dwyn eu hanrhegion iddi; ac yn eu plith fe aeth un hen wraig dylawd, a dywedodd wrth y Lady, 'Nis gwn beth i'w roddi i chwi, gan fod genych gymaint o bethau,' ac ychwanegai, 'dyma i chwi ddwy geiniog i brynu y peth a fynoch a hwy.' Boddhawyd y Lady mor fawr fel ag y dywedodd wrth y boneddigesau a fyddai yn arfer galw am rodd yr hen wraig; ac wedi clywed am dani, byddent yn arfer galw gyda hi, ac yn rhoddi rhywbeth iddi bob amser; ac o'r diwedd fe drefnwyd cyfran blynyddol iddi,

at ei chynnal yn gysurus weddill ei hoes. Peth fel yna ydyw rhoddi i Wr mawr." Pan y byddai y casglyddion yn arfer tramwy trwy y gynnulleidfa, arferai ddyweyd, "Hyna, brithwch dipyn ar y *boxes*, a gadewch i ni eu cael fel defaid Jacob yn fawr frithion ac yn fân frithion."

Trefnwyd iddo hefyd gymeryd rhan yn y Gwasanaeth Ordeinio amryw weithiau. Y tro cyntaf iddo oedd yn Sasiwn y Bala, Mehefin, 1841. Ei destyn y pryd hwnw ydoedd, "Dyledswydd yr eglwys tuag at y gweinidog." Drwg genym ddeall nad oes cofnodion o'r Anerchiad hwn yn argraffedig, ond y mae llawer o'r sylwadau yn aros ar gôf y rhai oedd yn ei wrandaw, at yr hyn yr ydym eisoes wedi cyfeirio. Dyna y pryd y llefarodd "Ddammeg Merlyn Mr. Pugh." Yn y flwyddyn 1851, y mae drachefn yn cael ei benodi i roddi y "Cyngor" i nifer o frodyr yn Sasiwn Caernarfon. Ysgrifenwyd y "Cyngor" wrth ei wrando gan Ysgrifenydd y Gymdeithasfa, ac am ei fod mor dda, ac mor debyg i Mr. Humphreys, ac yn cynnwys cymaint o wirioneddau ag y dylai pob pregethwr ieuangc feddwl am danynt, ni a'i dodwn ef i mewn ar ddiwedd y bennod hon. Traddododd Araeth drachefn ar "Natur Eglwys," yn Nghymdeithasfa Machynlleth, Mehefin, 1853; a thrwy ymdrech yr Ysgrifenydd y mae sylwedd hon etto wedi ei ddiogelu yn y "*Drysorfa*"; ac er mwyn y rhai nad ydyw y "*Drysorfa*" yn eu meddiant, ni a'i dodwn i mewn yn ei "Gofiant." Bu yn Nghymanfa Bangor hefyd yn Medi, 1855, yn traethu ar "Ddyledswyddau yr Eglwys at y Gweinidog," ond y mae yn ddrwg genym fod y cyngor hwn wedi myned ar goll; ond hyny sydd yn aros ar gof y rhai oedd yn bresenol. Cawsom ychydig o'r sylwadau gan gyfaill oedd yn ei wrando; dywedai—

1. Byddwch ffyddlon i'r Efengyl trwy weddïo llawer dros ei chenadon.

2. Hyd y mae ynoch, byddwch barchus o honynt bob amser. Nid ydyw yn deilwng i'r rhai nad ydynt yn rhoddi parch, dderbyn parch.

3. Byddwch garedig wrthynt; ysgydwch law yn gynes â hwy. Y mae yn hawdd deall teimlad y galon trwy ysgydwad y llaw. Yr ydych yn ysgwyd llaw gydag ambell un fel pe baech yn cydio yn nhafod *buwch wedi marw*.

4. Hefyd dylech deimlo dros gynnaliaeth y weinidogaeth. Y mae yn rhesymol ac yn bosibl i'r lluaws gynnal

yr ychydig; ond nid yw unol â natur pethau i'r ychydig gynnal y lluaws. Er enghraifft, dywedwch, mewn ardal wledig, gall ardal gynnal un crydd, neu un doctor, yn gysurus; ond ni buasai yn rhesymol, yn ol natur pethau, i'r un doctor a'r un crydd gynnal yr ardal.

Terfynwn y bennod hon gydâ llythyr a ysgrifenwyd dros y Gymanfa, gan Dr. Edwards, at Mr. Humphreys yn ei gystudd.

BALA, *Ebrill* 24*ain*, 1862.

ANWYL GYFAILL,—

Hysbysodd Mr. Morgan i'r Gymdeithasfa yn Nghorwen eich bod yn cofio atynt, yr hyn a dderbyniwyd gyda theimlad dwys o hiraeth am eich presenoldeb yn ein cyfarfodydd, a dymuniad am i'r Arglwydd eich cynnal a'ch cysuro yn eich cystudd. Penodwyd fod i mi ysgrifenu atoch dros y Gymanfa i fynegu eu cydymdeimlad â chwi, ac â'ch priod. Nid ydym yn gallu cymodi ein hunain â'r meddwl na chawn eich gweled eto yn ein cymanfaoedd; lle yr oedd eich ymadroddion synwyrlawn bob amser yn gweini addysg ac yn creu siriol deb a bywiogrwydd. Bydd llawer o'ch dywediadau mewn cof fel diarhebion yn mysg y Cymry am oesoedd; ac yn enwedig bydd y golygiadau a draethwyd genych am ddaioni Duw, ac addasrwydd y drefn fawr i gadw pechadur, yn gysur i filoedd pan y byddwch chwi wedi eich cyfarch gan eich Meistr fel "gwas da a ffyddlon," ac wedi myned i mewn i lawenydd eich Arglwydd. Diammeu genyf fod y gwirioneddau a draddodwyd genych i eraill, am gynifer o flynyddoedd, yn gynnaliaeth i'ch meddwl yn eich cystudd: oblegid y mae pethau dianwadal, trwy y rhai y gallwn gael cysur cryf.

Yr wyf yn dymuno anfon fy nghofion serchocaf atoch chwi a'ch priod.

Ydwyf, anwyl gyfaill,
Yr eiddoch yn ddiffuant,
LEWIS EDWARDS.

Sylwedd y "Cyngor" a roddwyd gan Mr. Humphreys yn Nghyfarfod yr Ordeinio yn Nghymdeithasfa Caernarfon, Medi, 1851.

PAN anfonodd Iesu Grist ei ddisgyblion allan i bregethu yr efengyl dywedai wrthynt ei fod yn eu hanfon "fel defaid yn mhlith bleiddiaid;" "byddwch chwithau," am hyny meddai wrthynt, "gall fel y seirph, a diniwed fel y colomenod." Nid yn wenwynig fel y seirph, ac nid yn meddu colyn fel y seirph, ond yn gall fel y seirph. Mae y seirph yn ddiarebol am eu cyfrwysdra; ac mae y colomenod hefyd yn dra diniwed. Maent yn dlysach ac yn ddiniweitiach na'r cigfran. Yn awr, wrth annog ei ddisgyblion i arfer synwyr y sarph, a diniweidrwydd y golomen, yr oedd ein Harglwydd am ddysgu yr angenrheidrwydd am ddoethineb, sef doethineb gyda golwg ar eu hymddygiadau. Mae doethineb arall yn bod. Doethineb yn y Duw mawr oedd edrych am ddyben teilwng, ac arfer y moddion goreu i gyrhaedd y dyben hwnw. Felly mewn dyn, gyda golwg

ar ei achos ei hunan, y ddoethineb uchaf iddo ydyw sefydlu ei feddwl ar amcan teilwng, ac arfer y moddion mwyaf priodol yn mhob amgylchiad i'w gyrhaedd.

Ond yn awr, frodyr, wedi cael fy ngalw i roddi gair o gynghor i chwi ar yr achlysur presennol, yr oeddwn yn amcanu galw eich sylw at ddoethineb fel y mae yn rhan o ymddygiad teilwng ynoch fel gweinidogion Duw. Mae gwybodaeth yn golygu pethau, a doethineb yn golygu ymddygiadau. "Yn ol ei ddeall," medd Solomon, "y canmolir gŵr;" neu yn ol y Saesoneg, "yn ol ei ddoethineb." Nid yn ol ei ddysg, ac nid yn ol ei ddoniau, yn unig, rhaid cael doethineb hefyd ynddo, onide bydd yn tynu oddiwrth hyny, ac yn dyfetha pa ddylanwad bynag er daioni a allasai fod gan y dyn trwy ei ragoriaethau eraill. Mae hyn yn angenrheidiol i bawb, ond i neb gymaint ag i weinidogion yr efengyl. Mae y ddoethineb yma yn angenrheidiol i'w harfer genych gartref ac yn mhlith eich cymydogion; yn y tai a'r cwmpeini yr ymwelwch â hwynt; yn y pulpud; ac yn eich ymdriniaeth â holl achos yr eglwys. Ond yn

I. MAE Y DDOETHINEB HON I'W DANGOS EI HUNAN GENYCH GARTREF, AC YN EICH CYMYDOGAETH. Mae pob dyn lawer iawn gartref. Yno y mae ei wir gymeriad i'w ganfod. Yr hyn yw y dyn ar ei aelwyd ei hunan, ac yn ei gymydogaeth, ydyw mewn gwirionedd. Yn awr y mae gan ddoethineb neu annoethineb fwy na dim arall tuag at sefydlu cymeriad anrhydeddus neu ddarostyngedig i ddyn yn y cylchoedd hyn. Fe ddaw y ddoethineb yma i'r golwg,—

1. *Mewn gochel anwadalwch ac ansefydlogrwydd.* Mae y doeth bob amser yn ffyddlawn iddo ei hunan. Nid ydyw byth yn llai na'i air. Nid oes odid ddim yn iselu mwy ar ddyn yn ei gymydogaeth na meddwl nad oes dim ymddiried i'w roi ynddo; wedi cael addewid ganddo na bydd wedi newid ei feddwl cyn amser ei chyflawni. Mae y parch sydd gan y doeth iddo ei hunan yn sicrhau i bwy bynag y rhoddo addewid gyflawniad ffyddlawn o honi.

2. *Daw i'r golwg mewn gochel troion bychain a budron.* Mae annoethineb yn fynych iawn yn ei ddangos ei hunan mewn pethau bychain. Ond os bydd pethau bychain yn dygwydd yn aml y maent yn myned yn bethau mawr. Nid yw dyferyn o wlaw ond peth bychan, ond y mae llawer o honynt yn dyfrhau y ddaear. Peth yn anurddo dyn yn ddirfawr ydyw tro bychan, gwael. "Gwybed meirw a wnant i enaint yr apothecari ddrewi; felly y gwna ychydig ffolineb i ŵr ardderchog, o herwydd doethineb ac anrhydedd."

3. *Daw y doethineb yma hefyd i'r golwg mewn cadw pellder priodol oddiwrth ddynion.* Mae pob dull ysgoewaidd, uchelfrydig, a thrahaus yn dra beïus. Eto y mae rhyw ddynion yn mhob cymydogaeth ag y daw doethineb y gweinidog i'r golwg mewn sefyll ar dir nas gallant hwy ddyfod ato. "Cilia oddiwrth y cyfryw," medd Paul wrth y gweinidog ieuange am ryw rai. Dylai ofalu cadw oddiwrth y dynion nas gall ef yn ddiogel wneuthur cyfeillion o honynt.

4. *Daw i'r golwg mewn gochel bod yn ysgafn gyda phethau pwysig, na gwario ein difrifwch gyda phethau dibwys.* Mae pethau pwysig yn bod:

y Duw mawr a'i briodoliaethau, enaid dyn, cyfrifoldeb dyn i Dduw, a'i gyflwr rhyngddo â Duw, &c. Nid yw y rhai hyn i gael cyfeirio atynt ond gyda'r difrifoldeb, y gwylder, a'r parch mwyaf. Mae pob ymddygiad ysgafn gyda'r pethau hyn mewn pregethwr, nid yn unig yn arwyddo diffyg teimlad priodol tuag atynt yn y galon, ond diffyg y doethineb a'i harweiniai i barchu ei swydd. Y mae genym ni hefyd bethau bychain i'w gwneyd. Nid oes galwad am yr un pwysigrwydd gyda'r pethau hyny a chyda pethau pwysig. Meddyliwch am ŵr yn darllen adnod, ac yn darllen pob gair ynddi mor uchel ag y gallai, byddai yn anmhosibl i hwnw roddi y pwyslais priodol ar yr adnod hono. Yr un modd, pe byddai dyn gyda'r un difrifwch wrth dalu swllt ag wrth addoli, byddai yn anmhosibl iddo ddangos dim gwahaniaeth rhwng pethau cyffredin a phethau cysegredig.

5. *Daw i'r golwg mewn gochel ymyraeth â phethau personol a theuluaidd dynion eraill.* Mae dynolryw yn hoffi gweled dynion yn gofalu am danynt, yn enwedig y maent yn hoffi hyny yn ngweinidogion yr efengyl. Ond nid oes neb yn hoffi i'r gofal hwnw fyned yn ymyraeth a'u materion hwy. Nid oes ffordd rwyddach i bregethwr golli ei ddylanwad ar gymydogaeth na thrwy fod yn greadur ymyrgar, cleberllyd; yn ymddangos â digon o amser ganddo i gadw gwinllanoedd pawb eraill, ond yn esgeuluso yn hollol ei winllan ei hun. Dyma un o arwyddion sicraf annoethineb.

6. *Fe ddaw y doethineb teuluaidd a chartrefol hwn i'r golwg hefyd mewn llunio y dull o fyw at y sefyllfa.* Peth yn darostwng dyn yn fawr yw ei fod yn methu byw, yn enwedig mewn amgylchiadau ag y mae eraill yn gallu. Fe allai fod rhywbeth yn ein trefn ni, fel Methodistiaid, ag sydd mewn rhyw ystyr yn anfantais i ddyn wneuthur cyfiawnder âg ef ei hunan yn ei amgylchiadau, a chyfiawnder â'r weinidogaeth hefyd. Ond, yn gyffredin, fe geir gweled mai yr anhawsdra mwyaf, yn y diwedd, ydyw y rhai y mae dynion yn ei wneyd iddynt eu hunain, trwy wastraff ac afradlonedd. Byw uchel a chostus teulu llawer un sydd wedi ei wânu â llawer o ofidiau.

II. FE ELWIR ARNOCH I YMDDWYN YN DDOETH YN Y TAI AC YN Y CWMNIAU YR ELOCH IDDYNT. Yr ydym ni, bregethwyr y Methodistiaid, yn myned yn ein tro i lawer iawn o dai, ac at amrywiol fath o deuluoedd. Mae yn beth mawr at ddyrchafu ein cymeriad i ni fod yn mhob man yn ddoeth fel dynion, fel Cristionogion, ac fel gweinidogion Duw. Fe ddaw doethineb gweinidog yr efengyl i'r golwg mewn lleoedd felly,—

1. *Trwy ymocheliad manwl rhag cymeryd gwendidau ei frodyr yn destynau ei ymddyddanion.* Pan y byddo brawd wedi syrthio i ryw bechod gwaradwyddus, nid oes eisieu i ni amddiffyn hwnw; ond y mae beiau pregethwyr yn gyffredin yn fychain. Sylwai gweinidog Americanaidd nad oedd odid un o ugain o'r gweinidogion adnabyddus iddo ef, oeddent wedi colli eu traed, wedi syrthio i ddim gwaradwyddus amlwg, ond rhyw fân feiau, yn cynnyddu yn lluosog, ac felly rhyngddynt yn andwyo eu cymeriad. Yr ydym ninnau wedi gweled rhywbeth tebyg. Y mae ysywaeth, eto, ambell un yn ein plith nad oes dim yn ei dynu i lawr ond anghymeradwyaeth o'i frodyr.

2. *Fe ddengys y doeth ei hunan felly trwy ochel, yn mhob modd, ei*

gymeryd ei hunan yn destyn ei ymddyddan. Mae dyn yn meddwl llawer, y naill ffordd neu y llall, am dano ei hun. Mae yn greadur pwysig iddo ei hunan. Mae dyn mewn cyfeillach yn agored i ymddyddan yn ddifyr, ac y mae yn hawdd iddo, heb wyliadwriaeth, lithro iddo ei hunan. Yn awr, yn hyn y daw doethineb i'r golwg. Ychydig iawn fedr dyn siarad am dano ei hunan heb fyned yn feius. Ychydig iawn, yn wir, sydd gan ddyn i'w ddangos o hono ei hunan.

3. *Byddwch ddoeth eto, fy mrodyr, trwy fod bob amser yn hawdd eich boddio.* Mae yn wrthun iawn gweled pregethwr yn edrych yn sur ac yn angharedig, yn anhawdd ei foddio ar ei ymborth, ar ei wely, ar —— yn cuchio ar y bwyd pan y bydd yn ddifai i'w ddannedd o, ac yn llawer gwell, hwyrach, na dim a allai efe gael gartref. "Mae y ddoethineb sydd oddiuchod," yn mhlith pethau eraill rhagorol a berthyn iddi, "yn foneddigaidd a hawdd ei thrin."

4. *Fe ddaw doethineb dyn i'r golwg mewn cyfeillach mewn peidio dywedyd y cwbl a wyr braidd.* Hwyrach bod eisieu dywedyd hyn wrthyf fi fy hunan gymaint a neb hefyd. Yr un pryd, y mae yn arwyddo gwendid yn mhwy bynag. Mae eisieu ystyried, nid yn unig nad oes ond y gwirionedd i'w ddywedyd, ond hefyd pa wirionedd sydd i'w ddywedyd, oblegid "y mae llawer gwir gwaethaf ei ddywedyd." Mae eisieu i ni feddwl hefyd am y gwir sydd i'w ddywedyd, ai ni a ddylai ei ddywedyd. Y mae yr un ddoethineb yn cadw ei pherchen rhag holi ac ymofyn fel pe byddai am gael gwybod cymaint ag a wyr pawb eraill.

III. Y MAE DOETHINEB HEFYD I'W DANGOS GENYCH, FRODYR, YN Y PULPUD. GWR Y PULPUD YW Y PREGETHWR. Yno yn arbenig y mae dros Grist, ac yno, yn anad un man, y mae rhaid arno wrth ddoethineb. "Hawdd," medd yr hen air, "adwaen ffŵl ar gefn ei geffyl," wedi ei godi oddiwrth y ddaear, yn ddigon uchel. Felly hawdd iawn yw adwaen yr ynfyd yn y pulpud. Daw doethineb i'r golwg yno genych,—

1. *Trwy ochel pob dull annaturiol i chwi eich hunain.* Y mae y Duw mawr wedi creu amrywiaeth yn mhlant dynion, ac y mae yr amrywiaeth hwn yn brydferth iawn. Mae yn dyfod i'r golwg yn y wyneb, yn y llais, yn y llaw-ysgrifen, &c. Mae pob un yn harddaf yn ei ddull ei hun. Nid oes dim benthyciol yn ateb cystal. Y mae y clochydd, weithiau, yn edrych yn bur dda wedi cael *coat* ar ol ei feistr, ond "Robin y clochydd," ydyw ê yn y diwedd. Felly chwi gewch rai pregethwyr yn cymeryd osgo hwn, tôn y llall, &c., ond eu hunain ydynt hwy wedi y cwbl. Y mae cryn lawer o ostyngeiddrwydd yn perthyn i'r tylwyth yma hefyd. Nid ydynt, y mae yn amlwg, yn eu meddwl eu hunain yn gynlluniau teilwng i eraill. Yr un pryd y mae yn wendid sydd yn taflu dyn yn isel iawn yn meddwl pob dyn call; am hyny, frodyr, ciliwch oddiwrtho.

2. *Daw doethineb hefyd i'r golwg yn y pulpud mewn gochel pregethu y naill wirionedd i anfantais gwirionedd arall.* Peth eithaf gwael, ac anonest, ac annoeth ydyw canmol dyn arall ar gost ei gymydog, neu ganmol un pregethwr ar draul pregethwr arall. Y mae rhywbeth tebyg yn dygwydd weithiau yn y pulpud. Pregethir cyflwr dyn weithiau fel ag i ddinystrio ei gyfrifoldeb. Dygir allan weithiau ras Duw, fel ag i wneyd yn

afreidiol ddyledswydd ddyn, a phryd arall dangosir gwaith dyn fel ag i gymylu gras Duw. Y mae eisieu cadw y ddysgl yn wastad. Y mae y gwirionedd yn llesol, megys ag y mae yn yr Iesu. "Pob gair a ddaw allan o enau Duw," sydd i'w dderbyn ac i'w bregethu genym ni, oblegid ar hwnw y gall dyn fyw. Pe torech y gwirionedd, ni allech fyw ar ei haner. Rhaid i chwi ei gael o i gyd, os ydych am fyw trwyddo, a'i bregethu i gyd os mynwch fywyd i'ch gwrandawyr ynddo.

3. *Fe ddaw doethineb i'r golwg hefyd trwy ochel eithafion gydag un athrawiaeth.* Y mae dyn, rywfodd, yn dueddol i ryw eithafion. Ond y mae doethineb yn arwain "ar hyd ffordd cyfiawnder, ac hyd ganol llwybr barn." Calfiniaid ydym ni. Nis gallwn felly lai nag edrych ar Armîniaeth fel yn tynu at eithaf tra pheryglus. Ewch ychydig pellach, a dyna chwi dros y terfyn i Phariseaeth. Felly y mae Uchel-Galfiniaeth yn tynu at eithaf llawn mor beryglus yr ochr arall. Ewch ychydig pellach. a dyna chwi dros y terfyn mewn Antinomiaeth a phenrhyddid. Y man diogelaf ydyw canol y ffordd, a than arweiniad doethineb ni a fyddwn yno.

IV. Ond hefyd, frodyr, bydd yn angenrheidiol arnoch wrth ddoethineb yn eich holl ymdriniaeth ag achos yr Eglwys. Nid yw y pregethwr bob amser yn y pulpud. Y mae rhan fawr, ac ar ryw ystyr y rhan anhawddaf, o'i waith ef, yn yr eglwys, ac er llwyddo ynddo nid oes dim yn fwy angenrheidiol na doethineb. Daw eich doethineb yn yr eglwys i'r golwg,—

1. *Mewn gochel pob math o dra-awdurdod.* Peth peryglus a niweidiol iawn i'r eglwys yw, bod y gweinidog heb awdurdod briodol ganddo. Y mae awdurdod yn perthyn i'r swydd. Y mae hono i'w chadw ganddo gydag eiddigedd priodol. Gresynus yn wir ydyw cyflwr yr eglwys hono nad oes llywodraeth yn cael ei chynnal ynddi, yn ol rheolau y Testament Newydd. Y mae y cyfryw wedi peidio a bod yn eglwys i Iesu Grist. Nis gall hôni un berthynas a "theyrnas nefoedd." Ond er fod y gweinidog yn rhyw lun o lywydd, eto nid yw i dra-awdurdodi. Os bydd yn dra-arglwydd, nid yw yn debyg o fod yn hir yn arglwydd. Ni ddylai ein llywodraeth gael ei theimlo. Yr oedd gŵr yn Llundain yn edrych ar ol ysgol Mr. Hill, a chanddo drefn ragorol arni. Gofynwyd iddo unwaith pa fodd yr oedd yn medru cadw trefn mor dda ar gynifer o blant. Atebodd yntau, "Cario y deyrnwialen yr ydwyf, a chymeryd digon o ofal rhag i neb ei gweled." Felly y dylem ninau wneyd, ac at hyn y mae doethineb yn rhagorol i gyfarwyddo.

2. *Daw i'r golwg mewn gochel pleidgarwch a derbyn wyneb.* Nis gall na bydd i ni gyfeillion, ac ond odid berthynasau yn yr un rhwymau a ni ac eraill. Ond yn yr eglwys nid ydym i adnabod neb yn ol y cnawd ac wrth ein mympwy ni. Y mae derbyn wyneb yn yr eglwys yn wfft. Nis gall odid ddim fod yn fwy o anfantais i ni i fod yn lles, nac yn fwy anhyfryd i'r rhai y byddom yn eu plith. Un o nodau "y ddoethineb sydd oddiuchod," ydyw, ei bod yn "ddiduedd."

3. *Daw i'r golwg mewn gochel difaterwch am, ac oerfelgarwch at, yr holl frawdoliaeth.* Gall fod i ni gyfeillion mwy mynwesol. Tybygid fod gan Iesu Grist ei hunan ryw hoffder neillduol yn Ioan. Eto ni ddylem fod yn

draws wrth neb. Mae yn gweddu i ni fod yn agos at yr holl aelodau, yn ystyriol o'n perthynas â hwynt, ac yn deimladol o'n cyd-ddibyniaeth ar y Duw mawr, ac o'n cyd-gyfrifoldeb iddo.

4. *Gyda golwg ar ddysgyblu y rhai afreolus, y mae mawr angen doethineb.* Ni ddylid goddef y rhai drwg. Y mae y rhai sydd yn pechu i'w ceryddu yn ngwydd pawb, fel y byddo ofn ar y lleill. Rhaid bwrw y dyn drygionus o gynnulleidfa y saint. Tŷ Dduw ydyw. Sancteiddrwydd sydd yn gweddu iddo. Ond yn ngweinyddiad y ceryddon hyn, y mae yn hawdd iawn llithro i-yspryd ac agwedd gwbl anghristionogaidd, a gwyro barn heb amcan i hyny. Y mae rhai yn dysgyblu yn hollol yn ol clywed eu clustiau, yn ol sŵn y wlad. Nid yw yn anmhosibl i ryw hen deimlad tuag at y beius ddyfod i mewn i ddrwgliwio ei drosedd a dylanwadu yn helaeth ar yr ymddygiad tuag ato. Ond y cwestiwn i ni yw, beth wnaeth y dyn? Y galon dan ddylanwad cariad, a hwnw yn cael ei gyfarwyddo gan ddoethineb, gyda sylw manwl ar reolau gair Duw, yn unig a'n ceidw rhag methu. Mewn pethau gwladol y mae cyfraith i'w chael. Ond gyda phethau teyrnas nefoedd, nid oes genym ni yr un gyfraith a nemawr rym ynddi ond cyfraith cariad mewn doethineb. Os mynwn lwyddo, rhaid i ni o hyd gael ysbryd nerth, a chariad, a phwyll.

5. *Yn olaf, fy mrodyr, coleddwch deimlad difrifol yn mhob man o'ch angen am arweiniad Yspryd y Duw mawr yn y cyfan o'i wasanaeth.* Yn mha le bynag y byddoch, ac i ba le bynag yr eloch, pa un bynag ai gartref ai oddicartref, yn y pulpud ai yn yr eglwys, cofiwch eich bod yn weinidogion Crist. Meithrinwch deimlad o'ch dibyniad ar Dduw, o'ch rhwymau i'r efengyl, ac o'r cyfrif sobr sydd yn ein haros oll ger bron gorseddfaingc Crist. A Duw yr heddwch a fyddo gyda chwi. Amen.

Sylwedd Araeth a draddodwyd gan Mr. Humphreys yn Ngwasanaeth yr Ordeinio ar Natur Eglwys, yn Nghymdeithasfa Machynlleth, Mehefin, 1853.

MAE eglwys Crist, fe dybygid wrth ddarllen y Beibl, i'w golygu yn ddirgeledig ac yn weledig. Yr eglwys ddirgeledig ydyw yr holl gredinwyr. Pawb sydd wedi derbyn Crist—wedi eu geni o Dduw—wedi eu creu yn Nghrist Iesu i weithredoedd da—maent yn perthyn i eglwys ddirgeledig Crist. Mae y rhai hyn mewn undeb bywiol â Iesu Grist ei hun—yn aelodau o hono—yn gwneyd i fynu y corph ar ba un y mae efe yn Ben. Dyma yr eglwys, yr hon y mae Duw wedi ei roddi ef "yn Ben uwchlaw pob peth" iddi. Mae yr eglwys weledig yn gynnwysedig o ffyddloniaid, ar y cyfan, y rhai sydd yn credu yr efengyl—rhai yn cydgyfarfod lle y pregethir yr efengyl, a lle yr ymarferir yn gydwybodol âg ordinhadau yr efengyl. Nyni yma heddyw, yn ol iaith y Testament Newydd, ydym eglwys i Dduw. Pa le bynag y byddo credinwyr—rhai yn gwrandaw pregethiad y gwirionedd megys y mae yn yr Iesu—yn derbyn Crist—yn ei

broffesu—ac yn ymarfer a'i ordinhadau—pe na byddai yno yr un capel na thŷ plwy'—fe fydd eglwys i Iesu Grist yn y fan hono.

I. CEISIWN DDAL Y DDWY YSTYRIAETH AM YCHYDIG AMSER AR GYFER EU GILYDD, FEL Y GALLOM GAEL GOLWG GLIR AR Y NAILL A'R LLALL.

Mae y naill *yn* [y llall—y naill yn cynnwys y llall. Mae yr eglwys ddirgeledig *yn* y weledig, ond y mae yn ofnus fod llawer o'r weledig heb fod yn y ddirgeledig.

1. *Nid yw yr eglwys ddirgeledig ond un trwy y byd.* Un corph o dduwiolion ydyw. "Yr eglwys, yr hon yw ei gorph ef, ei gyflawnder ef, yr hwn sydd yn cyflawni oll yn oll." Bydd aelodau hon ar gael byth yn un eglwys—maent wedi eu geni oddiuchod i gyd yr un modd a'u gilydd. Ond nid felly y weledig. Mae hi yn llawer o gynnulleidfaoedd—yn hanfodi dan wahanol oruchwyliaethau, mewn gwahanol oesau, a gwahanol wledydd, yn siarad gwahanol ieithoedd, ac i'w chael ymhlith llawer o wahanol enwadau crefyddol.

2. *Yn yr eglwys ddirgeledig nid oes yr un rhagrithiwr.* Nis gall hwnw ddyfod i mewn yno. Mae yr Arglwydd yn adwaen pawb sydd ynddi fel ei eiddo. Ond, fel y mae gwaethaf y modd, mae yn yr eglwys weledig ragrithwyr. Nid yw yn hanfodol i eglwys weledig Crist fod ynddi ragrithwyr; gwnai y tro yn well hebddynt; ond fel hyn y mae yn dygwydd bod. Yn gyffelyb i'r saith o wragedd yn ymaflyd mewn un gŵr, gan ddywedyd, "Ein bara ein hun a fwytawn, a'n dillad ein hun a wisgwn; yn unig galwer dy enw arnom ni;" felly y mae yn eglwys weledig Crist, yn enwedig os bydd hi yn gostymol, ac yn cael ei chysylltu âg awdurdodau gwladol. "Ni a fyddwn fyw i'n pleserau, ac a borthwn ein chwantau; eto galwer arnom enw Crist." Nid yw yn angenrheidiol iddi fod fel hyn. Yn mysg y dysgyblion cyntaf oedd gan Grist, nid oedd ond un o ddeuddeg yn troi yn ddrwg; ond dywedodd ef ei hun, "Tebyg *fydd* teyrnas nefoedd i ddeg o forwynion—pump yn gall, a phump yn ffol." Dyna yr hanner yn rhagrithwyr. Felly mae y ddammeg yn golygu amser gwaeth ar grefydd nag ydoedd yn nechreuad yr oruchwyliaeth efengylaidd. Fel hyn y mae rhagrithwyr yn yr eglwys weledig. Eto, nid oes eglwys weledig i Grist heb fod ynddi saint. Gall cynnulleidfa a chyfundeb ddwyn enw y weledig heb fod yno neb saint; ond nis gall fod eglwys i Grist heb fod ynddi rai duwiolion.

3. *Yn yr eglwys weledig y pregethir yr efengyl, ac yr ymarferir â'r ordinhadau;* ond ffrwyth y pregethu, a ffrwyth y gweddio, dan ddylanwad Ysbryd Duw, sydd yn rhoddi hanfodiad i'r ddirgeledig. Mae yn perthyn i'r weledig "gynnal gair y bywyd;" ac yn yr ystyr yma, y mae yn "golofn a sylfaen y gwirionedd:" bod yn y ddirgeledig yw meddu argraff y gwirionedd ar y galon. Peth mawr a phwysig yw bod yn perthyn i hon.

4. *Yn yr eglwys y mae dysgyblaeth i fod yn ol gair Duw.* Mae hon yn ateb yr un dyben ag ydyw cyfreithiau a chosbedigaethau mewn gwladwriaeth. Oni bai fod drwgweithredwyr i gael eu cosbi, ni allai neb ddyweyd mai hwy a biau eu henaid eu hun; elai y naill hanner yn lladron ac yn llofruddion yr hanner arall. Mae eglwys heb ddysgyblaeth yn myned yn ogof lladron. Mae dysgyblaeth eglwysig yn gynnwysedig mewn cynghori

annog, ceryddu, a thori allan os bydd eisieu. Yn y weledig y gwneir hyn; nid oes dori allan o'r ddirgeledig. Ond pan y torir allan yn y weledig, y ddirgeledig sydd yn teimlo; fel y dywedodd un, "Pan y byddo y cŵn yn cael eu ffrewyllu, bydd y plant yn crïo."

5. *Yn yr eglwys weledig y mae swyddogion, ac nid yn unig aelodau cyffredin;* ond nid oes yn y ddirgeledig ddim swyddogion fel y cyfryw. Maent ynddi hi oll yn *lefel* â'u gilydd—yn blant i'r un Tad—yn bwyta wrth yr un bwrdd—yr holl deulu yn freninoedd ac yn offeiriaid i Dduw a'i Dad ef. Ond yn y weledig y mae swyddogion eglwysig. Ac yr wyf fi yn meddwl mai dwy swydd sydd i fod yn yr eglwys: henuriaid neu esgobion, a diaconiaid. Ac nid yw eglwys yn gyflawn a pherffaith, yn ol y Testament Newydd, heb fod ynddi y ddwy swydd. Mae y fath beth yn y byd ag amlhau swyddau eglwysig, fel y mae y Pabyddion wedi amlhau y sacramentau. Yn yr Eglwys Wladol gynt, yr oedd *overseer* y tlodion, a'r warden, yn myned a swydd y diacon; ac wrth ddyrchafu un yn esgob i fod yn fugail y bugeiliaid, mae hyny yn pwyso ar swydd y Pen mawr ei hun, bugail ac esgob ein heneidiau. Yn yr eglwys dan yr hen oruchwyliaeth, yr oedd archoffeiriaid, offeiriaid, a Lefiaid; yr oedd llawer o offeiriaid a Lefiaid, ond dim ond un archoffeiriad. Ond fe ddaeth yr Arglwydd Iesu i fod yn ddiwedd diddymol ar lawer o bethau yr oruchwyliaeth hono. Efe yn awr yw yr unig Archoffeiriad ar dŷ Dduw; a digon i ni yw "fod genym y fath Archoffeiriad, yr hwn a eisteddodd ar ddeheulaw gorseddfaingc y Mawredd yn y nefoedd, yn Weinidog y gysegrfa a'r gwir dabernacl, yr hwn a osododd yr Arglwydd, ac nid dyn." Gadawn ei le iddo; ymostyngwn iddo yn ei uchel swydd; cydnabyddwn ef yn Ben, ac ef yn unig. Mae yr eglwys weledig, wrth fyned ar ol llawer o seremoniau, a gosod rhyw lawer o swyddau, yn myned yn gyffelyb i ddyn tew, cnodig iawn, yr hwn y mae yn anhawdd i chwi feddwl ymron fod enaid ynddo, gan fel y mae cymaint o gnawd yn ei orchfygu. Anhawdd cael hyd i'r eglwys ddirgeledig pan y mae y weledig wedi tewychu a phwyntio gan ddefodau a threfniadau cnawdol.

Mae o bwys fod eglwys weledig yn y byd, ac y mae eisieu i ddyn fod yn perthyn iddi; ond bydded ein gofal penaf am fod yn aelodau o'r un ddirgeledig. Ond heblaw nodi fod yr eglwys yn weledig a dirgeledig, gallwn sylwi eto,

II. Mae yr Eglwys, ar ryw olygiad, yn Eglwys Filwriaethus.

Mae pob Cristion yn filwr; rhaid iddo fyned i'r rhyfel ysprydol, a gwisgo arfogaeth ysprydol tuag at hyny. Fel hyn y dywed Paul yn ei epistol at yr Ephesiaid: "Gwisgwch holl arfogaeth Duw, fel y galloch sefyll yn erbyn cynllwynion diafol. Oblegid nid yw ein hymdrech ni yn erbyn gwaed a chnawd, ond yn erbyn tywysogaethau, yn erbyn awdurdodau, yn erbyn bydol-lywiawdwyr tywyllwch y byd hwn, yn erbyn drygau ysprydol yn y nefolion leoedd. Am hyny cymerwch atoch holl arfogaeth Duw, fel y galloch wrthsefyll yn y dydd drwg, ac wedi gorphen pob peth, sefyll. Sefwch, gan hyny, wedi amgylch-wregysu eich lwynau â gwirioneddd, a gwisgo dwyfroneg cyfiawnder; a gwisgo am eich traed esgidiau

parotoad efengyl tangnefedd: uwchlaw pob dim, wedi cymeryd tarian y ffydd, â'r hon y gallwch ddiffoddi holl bicellau tanllyd y fall. Cymerwch hefyd helm yr iachawdwriaeth, a chleddyf yr Ysbryd, yr hwn yw gair Duw: gan weddio bob amser â phob rhyw weddi a deisyfiad yn yr Yspryd, a bod yn wyliadwrus at hyn yma, trwy bob dyfalbara." Nid milwriaeth mewn enw ydyw, ni a welwn; ond y mae yma fyddin ofnadwy iawn i ymladd â hi. Rhaid i eglwys Dduw wynebu y diafol a'i luoedd, a byd a'i ddrygau. Nid oes fodd i Gristion beidio cael ei demtio; nid ei fai ef yw hyny; ond ymollwng gyda'r demtasiwn yw y drwg. Yn wyneb "tywyllwch y byd hwn," mae yr eglwys i fod yn "oleuni y byd." Mae ychydig o eglwys bur, dduwiol, a ffyddlawn wedi anfon, lawer gwaith, oleuni mawr trwy wledydd tywyll iawn. Y rhai sydd yn ymdrechwyr ffyddlawn yma a goronir eto ar ol hyn. Wedi ofni yn fynych yn y rhyfel, ceir eto lawenychu wrth ranu yr yspail.

PENNOD V.

Mr. HUMPHREYS A'I GYMYDOGION.

Nis gwyddom am yr un dyn yn meddu mwy o ddylanwad yn ei gymydogaeth ei hun na'r hybarch Richard Humphreys; ac nid gydag un dosbarth o'r trigolion yr oedd yn meddu hyny, ond gyda phob dosbarth o honynt. Yr oedd yr hen a'r ieuangc, y tylawd a'r cyfoethog, y doeth a'r annoeth am y cyntaf i dalu gwarogaeth iddo ac i eistedd wrth ei draed i gymeryd eu dysgu ganddo. Edmygai y Dyffrynwyr ef mor fawr fel ag yr oeddynt, yn ddiarwybod iddynt eu hunain, yn ymdebygu iddo. Byddai bron bawb o honynt yn amcanu gosod eu syniadau allan yn y dull doeth, pert, a philosophaidd oedd mor naturiol iddo ef. Buom am flynyddoedd heb adnabod neb o frodorion y Dyffryn ond Mr. Humphreys, ac yr ydym yn cofio yn dda ein bod yn teimlo yn hynod o wylaidd yn nhŷ'r capel y tro cyntaf y buom yno, gan mor debyg yr oeddym yn gweled pawb i'r doethawr o'r Faeldref. Yr oedd llawer o honynt yn ddynion mawr, corphorol, fel yntau, ac yn hynod debyg iddo yn eu hymddiddanion; a chan ddyfned yr argraff oedd ein gwron wedi ei adael ar ein meddwl yr oeddym, wedi myned i'r capel, bron yn methu a pherswadio ein hunain nad cynulleidfa o athronwyr oedd yn sefyll o'n blaen: ond daethom i ddeall wedi hyny mai nid Humphreys oedd pawb. Dywedai un o hen frodorion y Dyffryn — yr hwn sydd wedi gadael y gymydogaeth er's blynyddoedd—iddo ar ei ymweliad a'i hen gartref fyned i'r cyfarfod eglwysig, "Ac mewn gwirionedd," medddai, "Mr. Humphreys oeddwn yn ei glywed yn mhawb; ei sylwadau ef, ei ddull ef, ac hyd yn nod tôn ei lais ef." Yr oedd wedi ennill y dylanwad mawr oedd ganddo yn ei gymydogaeth mewn dull hollol deg a chyfreithlon; ac ni byddai byth yn ei ddefnyddio ond i'r dybenion goreu.

Pe gofynid mewn pa beth yr oedd dirgelwch ei ddylanwad, gellid ateb ei fod mewn amryw bethau. Yn un peth—

Yr oedd yn gallu ymdaflu i'w canol, a bod yn un o honynt. Nid oedd annibyniaeth ei amgylchiadau, na choethder ei feddwl, yn gwneyd iddo ymddidol, na dywedyd wrth un o honynt, Saf hwnt. Byddai yn dra gofalus rhag pasio neb o'i gydnabod ar y ffordd heb ddyweyd rhyw air siriol wrthynt. Cofus genym fyned gydag ef o'r capel i'w dŷ un noson; yr oedd yn hirddydd haf, a'r hîn yn bur hyfryd. Dywedai rywbeth wrth bob un a'n cyfarfyddai. Gwraig lwyd, deneu, esgyrniog, ond bywiog a siriol, oedd y gyntaf a'n cyfarfu, "Yn enw dyn, hon a hon," ebai wrth hono, "paham na ofyni fendith ar dy fwyd, dywed, yn lle dy fod mor ddrwg yr olwg ac mor gul o gig."

Wedi myned yn mlaen ychydig, gwelai ddyn yn gorwedd ar ben clawdd y ffordd, "Wel hai," meddai wrth hwnw, "beth yr wyt ti yn gosod dy hun ar ben y clawdd i'r gwybed bach, dywed?"

Cyn cyrhaedd y Faeldref, trodd i mewn i dŷ bychan oedd ar ochr y ffordd i gael tori ei wallt, ac meddai wrth yr *Hair Cutter*, "Paid di a bod yn hir yn sadio dy hun o'm cwmpas i."

"Gadewch lonydd, Mr. Humphreys," ebe yntau, "ni bydd neb yn canlyn arnaf i frysio ond chwi."

"A wyddost ti hyn, mai ychydig o bobol y Dyffryn yma sydd yn arfer rhoddi pris ar amser?"

Fel hyn y byddai yn rhydd a chyfeillgar gyda phawb o'i gydnabod. Ymgymysgai â hwynt gyda phob peth perthynol iddynt fel ardalwyr. Yr oedd yn gynghorwr yn eu cyfarfodydd plwyfol, a chymerai ran fel gwladwr a dinesydd gydag etholiadau seneddol. Yr ydym yn ei gael ar un adeg yn Harlech, ar ddiwrnod cynyg Marchog dros y Sir. Wedi i ryw un gynyg R. Richard, Ysw., o Gaerynwch, cynygiodd Mr. Humphreys Syr William Wynne. Yr oedd yno ryw gyfreithiwr yn meddwl tipyn o hono ei hun, a dywedodd wrtho, "Pregethwr ydych, onide?" "Ie," ebai yntau, "ond a ydyw hyny yn peri nad wyf yn wladwr a dinesydd?" Tybiodd y cyfreithiwr, mae yn debyg, y buasai yn gwneyd iddo gywilyddio a gostwng ei ben, ond cafodd weled yn lled fuan ei fod wedi methu ei ddyn. Yr oedd Mr. Humphreys yn teimlo, os oedd i gael ei drethu a'i drin gan y cyfreithiau fel pawb o ddeiliaid y llywodraeth, fod ganddo hawl i ymgymeryd â phethau gwladol, fel dinesydd arall, er ei fod yn bregethwr.

Nid oedd Mr. Humphreys wedi ei alw yn Heddynad yn y Sir, ond fe wnaeth lawer o waith y swydd yn y Dyffryn. Gwrandawodd lawer cŵyn, a thrwy ei gynghor doeth a phrydlon adferwyd heddwch rhwng llawer dau o'i gymydogion. Trwy ei fod mor agos at bawb, byddai yn hawdd gan lawer redeg ato i achwyn eu cam. Byddai rhai yn myned weithiau gyda phethau nad ystyrid ganddo ef yn bwysig, ac ni byddai efe yn arfer gwneyd pethau felly yn fwy, ond yn llai, os gallai. Aeth gwraig o'r gymydogaeth i achwyn ar ei gŵr o herwydd rhyw gam-ymddygiad o'i eiddo: "Wel aros di," gofynai Humphreys, "beth oeddyt ti yn ei wneyd i'w gythruddo." Bu y wraig, druan, yn ddigon gonest i ddyweyd y gwir wrtho. Gwelai Mr. Humphreys ei bod wedi rhoddi tramgwydd i'w gŵr, a bod bai mawr arni, a gofynodd iddi, "A ddywedaist ei fod wedi dy daro di?"

"Na, ni tharawodd fi," ebai y wraig.

"Wel, fe ddylasai wneyd," ebai yntau.

Felly bu raid i'r wraig droi allan heb lythyrau oddiwrth yr offeiriad i lusgo ei gŵr i garchar y tro hwnw.

Dro arall cyfarfu â hen chwaer ar y ffordd, yr hon oedd wedi ei chythruddo yn ddirfawr gan un o'i chymydogesau. Dechreuodd achwyn ei cham wrth Mr. Humphreys, ac wrth ei gweled mor llawn o'r yspryd dïal, dywedai wrthi,

"Gadewch iddi, hon a hon bach, fe dâl yr Arglwydd iddi."

"Mi wn hyny," ebai hithau, "ond mi fydd y Brenin Mawr yn hir ofnadwy yn talu iddi." Adroddai Mr. Humphreys yr hanesyn hwn yn aml, a hyny am y *credit* oedd yr hen wraig yn ei roddi i'r Hollalluog.

Hefyd yr oedd Mr. Humphreys yn *gallu mwynhau ei gymydogion*. Trwy ei fod yn troi cymaint yn eu plith, yr oedd yn adnabod gwahanol gymeriadau y gymydogaeth yn dda. Byddai yn arfer dyweyd fod mesurau traed pobl y Dyffryn yn lled gyffredin ganddo, ac y byddai yn gweled y mesurau hyny yn ffitio traed pawb. Hawdd ydoedd deall oddiwrth y cyfeiriadau mynych a wneid ganddo at ei gymydogion ei fod yn arfer a sylwi ar eu harferion, a mwynhau llawer arnynt. Os byddai arno eisieu cadarnhau rhyw ddywediad, neu egluro adnod neu ddiareb, odid fawr nad ymddygiadau rhai o'r Dyffrynwyr a ddygid yn mlaen ganddo i hyny. Gofynai cyfaill ieuangc iddo

wrth gyd-deithio âg ef unwaith, sut yr oedd deall y gair hwnw, "Rhyw un a wasgar ei ddâ, ac fe a chwanegir iddo: a rhyw un arall a arbed fwy nag a weddai, ac a syrth i dlodi." "Wel aros di, William," ebai yntau, "rhyw esponiad pur lythyrenol a wna dy dro di. Yr oedd dwy wraig yn y Dyffryn acw wedi myned i'r mynydd i ymofyn pawb ei faich o fawn, ac wedi dyfod adref, fe roddodd un danllwyth da ar y tân i wneyd cinio i'r teulu, ac fe wnaeth hyny yn brydlon gyda haner ei baich. Cymerodd y llall fawnen, a thorodd hi yn ddarnau, a gosododd hwy ar y tân, ac yna dechreuodd chwythu, a dyna lle y bu yn rhoddi mawnen a chwythu, mawnen a chwythu, nes y llosgodd y baich i gyd, ac heb wneyd cinio i'r teulu yn y diwedd. Yr oedd hono, ti weli, yn 'arbed mwy nag a weddai' o'r mawn, a thrwy hyny yn methu a gwneyd y cinio yn barod er llosgi y baich i gyd."

Anfarwolodd Mr. Humphreys goffadwriaeth un o'i hen gymydogion trwy ei ail adrodd, sef Richard Williams, Cors-ddol-gau. Efe oedd y cymydog agosaf i deulu y Faeldref; ac yr oedd yn hynod am ei atebion pert, ac am ei arabedd. Hen dŷ salw yr olwg oedd Gors-ddol-gau pan oedd Richard Williams yn byw ynddo, a gofynai Humphreys iddo un diwrnod,

"Oes arnoch chwi ddim ofn byw yn yr hen dŷ bregus acw, Richard?"

"Nac oes," ebai yntau, "bydd arnaf ofn marw ynddo yn aml."

Wedi i Mr. Humphreys briodi, gwahoddodd ei hen gymydog, Richard Williams, i ddyfod i weled Mrs. Humphreys. Aeth yntau, a gofynodd Humphreys iddo,

"Beth ydych yn ei feddwl o honi, Richard?"

"Wel," atebau yntau, "y mae yn debyg eich chwi yn ei *leicio* hi, ond am danaf fi, gwell gen i Betty": a'r Betty hono oedd ei wraig ef ei hun. Wedi i Mr. Humphreys adeiladu tŷ newydd, gwahoddwyd Richard Williams i'w weled. Byddai yr hen gymydog yn arfer a chael benthyg arian gan deulu y Faeldref, ac yr oedd arno ddwy bunt iddynt y pryd hwnw. Mrs. Humphreys a ymgymerodd a bod yn arweinydd iddo trwy y tŷ newydd. Aeth ag ef o'r naill ystafell i'r llall, a phan oedd yn myned i'r *pantry* dywedai Mrs. Humphreys,

"Dyma ystafell ein bara beunyddiol ni, Richard."

"O felly," ebai yntau, "Pa le y mae ystafell—Maddeu i ni ein dyledion—eto, Mrs. Humphreys?"

Yr oedd Mr. Humphreys ac yntau yn dychwelyd gyda'u gilydd un tro o'r morfa; yr oeddynt yn dyfod ar hyd lwybr gwlyb a chorsiog. Cadwai Mr. Humphreys ar y blaen, a chwiliai am y lle meddalaf ar y gors, er mwyn y digrifwch a gai gyda'i gymydog ffraeth; ac wrth fyned gofynai Humphreys yn aml,

"A aethoch chwi dros eich esgidiau bellach, Richard?"

"Naddo eto," atebai yntau.

Wedi myned ychydig yn mlaen, gofynai Mr. Humphreys drachefn, "A aethoch chwi dros eich esgidiau bellach, Richard Williams?'

"Naddo eto," oedd yr ateb drachefn. Cadwai Mr. Humphreys ar y blaen o hyd, a phan oedd efe ei hunan yn suddo yn bur ddwfn yn y gors, dywedai y drydedd waith,

"Yr ydych chwithau wedi myned dros eich esgidiau bellach."

"Naddo eto," meddai yr hen gymydog yn ei ddull cwta ei hun.

"Wel sut felly," gofynai Humphreys, gan edrych dros ei ysgwydd arno, a'i weled at haner ei goesau yn y gors,

"*Clocsiau* sydd genyf," oedd yr ateb a gafodd.

I'r Eglwys y byddai Richard Williams yn arfer a myned ar y Sabbath, a gofynwyd iddo yn y Faeldref unwaith,

"A ydych yn cael rhywbeth yn yr Eglwys, Richard?"

"Y mae yn llawer haws cael peth yno nag yn eich capel chwi," oedd ei ateb.

"Sut felly?" gofynwyd yn ol.

"Y mae yno lai yn dyfod i chwilio, ac felly nid oes cymaint o *gip* ar hyny sydd yno," ebai yntau.

Ond nis gallwn ddyfod i ben ag ysgrifenu hanes yr holl ymgomio a fu rhwng y ddau. Gwnaeth Mr. Humphreys lawer teulu yn llawen wrth ail adrodd ei hen gymydog o Gors-ddol-gau. Teimlai Mr. Humphreys yn gyffelyb gyda'i holl gymydogion, a byddai yn gallu tynu rhyw gymaint o fêl hyd yn nod o'r rhai mwyaf geirwon o honynt.

Peth arall oedd yn gwneyd fod ei ddylanwad mor fawr yn y Dyffryn ydoedd—*Ei fod yn gallu cydymdeimlo â hwy.*

Arferai fyned i ymweled â'r cleifion ac â'r rhai profedigaethus. Gallai ddyweyd ar hyn fel y gŵr o wlad Us, "Y cwŷn ni wyddwn a chwiliwn allan;" a gwnaeth i galonau llawer o wragedd gweddwon lawenychu. Ysgafnhaodd eu bronau lawer gwaith trwy ei ddull teimladwy yn gofyn sut y byddent, pan y cyfarfyddai â hwynt ar y ffordd. "Sut yr ydych chwi, hon a hon bach, a'ch tŵr plant?" Nid fel gweinidog Methodistaidd yn chwilio am Fethodistiaid y gymydogaeth y byddai efe, ond fel cymydog yn chwilio am gymydogion: a byddai ganddo air yn ei enau i'w cysuro, a cherdod yn ei law tuag at ddiwallu angen y rhai anghenus o honynt.

Gwnaeth Mr. Humphreys gais at ei gyd-ffermwyr, ar ryw auaf caled, i geisio ganddynt ffurfio math o gymdeithas tuag at gynorthwyo tlodion y gymydogaeth; ond deallodd yn fuan nad oedd modd cael digon o gyd-weithwyr i wneyd dim yn effeithiol. Wedi methu yn yr amcan clodwiw, penderfynodd ef a Mrs. Humphreys y gwnaent eu goreu i'w helpu trwy y tymmor caled hwnw. Gwahoddent y rhai mwyaf anghenus o honynt i'r Faeldref, a chyfranent yn helaeth iddynt. Gofynai ei was iddo wrth edrych ar un henafgwr yn gwegian dan y baich oedd efe wedi ei osod ar ei ysgwyddau, fel yr oedd yn myned oddiwrth y tŷ, "Tybed y gall o ei gario adref, meistr?" "Gad iddo fo, Robert," ebai yntau, "yr wyf fi yn leicio peth fel yna;" ac ychwanegai, "Na ollwng ef ymaith yn waglaw; gan lwytho, llwytha ef."

Cymerwyd *tenant* iddo yn sal, a bu am amser maith yn methu dilyn ei alwedigaeth. Byddai Mr. a Mrs. Humphreys yn ymweled ag ef yn aml, ac yn danfon rhywbeth iddo yn feunyddiol; ac wedi iddo ddechreu gwella, a myned o gwmpas, gwahoddwyd ef i'r Faeldref. Wedi iddo fyned yno, gofynai Humphreys, "Sut y mae hi rhyngot ti a'r Doctor, R. O.?"

"Nis gwn," meddai yntau, "dyna y *bill* wyf fi yn ei ofni yn fawr."

"Wel galw am dano, ni bydd iddo fyned yn fwy felly, a gad i mi ei weled," ebai ei *landlord*.

Gwnaeth yntau felly, a galwodd drachefn, a gofynodd Humphreys, "A ydyw y *bill* genyt? gad i mi ei weled." Estynwyd ef iddo, ac er ei fod yn amryw bunnoedd, dywedodd wrtho, "Gad hwn i mi, mae yn arw i mi adael i ti

ymladd â'r byd â dy faich ar dy gefn." Ni chlywodd R. O. air o son am y *bill* byth mwy.

Yr oedd Mr. Humphreys yn dyner wrth bawb ond *tramps*. Pan yr elai rhai o honynt hwy at ei ddrws, y peth cyntaf a wnai fyddai dyweyd, "Wel aros di, hen frawd, gad i mi weled dy ddwylaw;" ac os na byddai ôl gweithio arnynt, byddai yn rhaid iddo fyned ymaith yn waglaw, os na byddai yn cael lle cryf i feddwl y byddai arno eisieu bwyd.

Nis gallai edrych ar neb yn ymboeni gyda dim heb roddi help iddo, os gallai. Digwyddodd iddo, pan yn myned i'w gyhoeddiad, un dydd Sadwrn, ddod o hyd i ryw saer coed, a chanddo faich o bren trwm, ac wedi cyddeithio ychydig dywedai, "Gadewch i mi gario eich baich am ychydig,"

"Na, nid felly," ebai yntau, "nis gallaf feddwl i ŵr o'ch urddas chwi gario fy maich i."

"Wel na," atebai yntau, "rhaid i mi ei gael—'Dygwch feichiau eich gilydd' ydyw y gorchymyn." Yna cymerodd y darn pren ar ei ysgwydd gref. Teimlai ei gydymaith ei hunan yn myned yn llawer ysgafnach heb yr ysgwyddaid pren, a gadawodd ef ar yr hwyaf i Mr. Humphreys. Cyn hir dechreuodd yntau ymdeimlo â'i bwysau, a thrwy nad oedd ei gyfaill yn son am ei gymeryd yn ol, dywedodd Mr. Humphreys, "Wel, o hyn allan, bydded i bob un ei faich ei hun;" ac yna aeth i'w ffordd.

Yr oedd tynerwch ei fynwes yn myned weithiau ar y ffordd iddo weithio allan benderfyniadau ei feddwl. Gwnaeth benderfyniad un tymor na byddai iddo werthu dim o gynyrch y fferm ond am arian parod, a mynegodd y ddeddf i'w was, fel na byddai i hwnw werthu dim yn ei absenoldeb. Ond cyn machlud haul yr un dydd ag y mynegwyd y cynllun hwn, fe ddaeth dau gymydog iddo, ac aelodau o'r eglwys yr oedd efe yn weinidog arni, i ofyn am bytatws ar werth. Gofynai yntau a oedd ganddynt arian. "Nac oes, dan yr amser a'r amser," ebent hwythau. Ar hyn fe aeth yn wrthdarawiad rhwng tynerwch ei galon a phenderfyniad ei feddwl; a bu dystawrwydd tra yr oedd yr ymrysonfa yn cymeryd lle yn ei feddwl. Yn y man dywedai, "Os nad allaf werthu pytatws i chwi, heb dori fy ngair, gallaf roddi cynghor i chwi, Ewch at Ann (sef Mrs. Humphreys) a gofynwch

am fenthyg arian iddi tan y pryd a nodasoch." Aeth y dynion, a dychwelasant yn fuan, prynasant y nwyddau gan Mr. Humphreys, a thalasant am danynt gydag arian Mrs. Humphreys.

Peth arall oedd yn gwneyd i'w gymydogion feddwl mor uchel am dano ydoedd—*Gwyddent ei fod yn caru eu lleshad ac yn llawenhau yn eu llwyddiant.* Yr oedd ei ymdrechion diflino i'w hyfforddi gyda golwg ar bethau y ddau fyd yn brawf o'r fath gryfaf iddynt fod ganddo wir ofal calon am danynt. Nis gwyddom am neb a dalodd fwy o sylw nag ef i egwyddorion cyffredin bywyd; a byddai bob amser yn ymdrechgar i ddysgu ei gymydogion yn y pethau hanfodol i'w dedwyddwch fel aelodau cymdeithas. Byddai rhai o honynt, mae yn wir, bron a digio wrtho, am y byddai yn arfer dyweyd wrthynt fod y rhan fwyaf o dlodi cymydogaeth yn rhywbeth oedd yn cael ei dynu gan y trigolion am eu penau eu hunain. Dywedai wrthynt nad oedd tlodi wedi ei rwymo wrth neb fel corph y farwolaeth, fel na ellid gweled rhyw gyfleusdra i daflu y baich gorthrymus i lawr, a hyny yn gyfreithlon. Priodolai y rhan fwyaf o dlodi gwlad i'r arferiad niweidiol o brynu ar goel; a cheisiodd, pan yn masnachu, ac wedi hyny, ddysgu ei gyd-ardalwyr fod "dal llygoden a'i bwyta," er mor helbulus ydyw hyny, yn llawer hapusach i deimlad pob dyn gonest na "bwyta yr ysgyfarnog cynei dal." Yr oedd yn credu fod yn bosibl i deulu ranu ei enillion fel ag i gael angenrheidiau bywyd, ond iddo beidio gwario arian am yr hyn nid yw fara; ac yr oedd ganddo reswm da dros ei farn, sef, bod rhai tlodion yn gallu byw heb redeg i ddyled. Ac am ei fod yn credu felly, byddai yn llefaru wrth ei gymydogion, ac yn dangos y manteision a ddeuai o fabwysiadu "Hwda i ti, a moes i minau." Llawer gwaith y dywedodd na byddai yr un gath byth yn myned at gath arall i ofyn benthyg llygoden i aros iddi hi gael amser i ddal un. Gallem feddwl nad yw y traethodau byrion, ond cynhwysfawr, a ymddangosodd yn *Y Traethodydd* er's dros ugain mlynedd yn ol, ac a welir yn mysg ei ysgrifeniadau yn y gyfrol hon, ar "Dlodi," "Hwda i ti, a moes i minau," &c., yn ddim ond casgliad o'r mânwersi a roddwyd ganddo yn y Dyffryn a'i hamgylchoedd; a chynghorem y darllenydd i droi atynt a'u bwyta bob brawddeg o honynt; a gallwn sicrhau, os na fyddant yn

flasusfwyd o'r fath a garai ambell un, y byddant yn fwyd maethlon iawn, ac y byddai i gymdeithas yn fuan ddyfod yn dêg yr olwg, er mor llygredig y mae wedi myned wrth brynu ar goel.

Byddai yn teimlo rhyw fath o ofal tadol am ei holl gymydogion; a phan y byddai i rai o honynt symud i gymydogaeth arall i fyw, pryderai yn eu cylch, a galwai gyda hwy bob amser yr elai i'r cyfleusdra. Gofynai i un oedd wedi myned i gymydogaeth arall, "Sut yr wyt ti yn dyfod yn mlaen yn dy gartref newydd, hwn a hwn?" "Da iawn," ebai yntau, "y mae pawb yn ddigon diwenwyn i mi." "Y mae yn ddrwg genyf glywed hyny," atebai Mr. Humphreys, "oblegyd yr wyf yn ofni nad wyt yn llwyddo fawr," ac ychwanegai, "A wyddost ti hyn, mai ar i fyny y mae cenfigen yn cerdded, nid oes ganddi sodlau i fyned ar i waered."

Nid oedd ei ofal yn llai am danynt gyda golwg ar eu dedwyddwch ysprydol. Gallasai ddyweyd yn bur groew, "fod iddo dristyd mawr a gofid dibaid" am lawer o honynt. Yr oedd ganddo un cymydog, yr hwn oedd yn ŵr call, ac yn wladwr parchus, yn arfer diota, ac weithiau yn meddwi. Teimlai Mr. Humphreys yn ddwys yn ei achos, a gwnaeth bob peth oedd yn ei allu i'w gael oddiwrth ei arferion pechadurus. Gweddïodd lawer drosto, a rhoddodd lawer cynghor caredig iddo; ond er y naill a'r llall, parhau i ymlynu wrth ei hen arferion yr oedd efe. Pan sefydlwyd y Gymdeithas Ddirwestol yn y gymydogaeth, dywedodd Mr. Humphreys yr ardystiai efe er mwyn ei gymydog; a llwyddodd drwy hyny i'w gael yn ddirwestwr. Yn fuan ar ol hyny dechreuodd fyned i wrando ar y Methodistiaid, gan adael y capel lle yr oedd ei wraig yn aelod; ac nid hir y bu cyn ymuno â'r eglwys. Pan y clywodd y gweinidog lle yr oedd ei wraig yn aelod, a lle y byddai yntau yn achlysurol yn arfer myned i wrando, ei fod wedi ymuno â'r Methodistiaid, aeth ato, a gofynodd iddo beth oedd yr achos iddo eu gadael hwy? a'i ateb ydoedd,—"Yr oeddwn i fel dafad wedi myned i'r siglen, a chwithau o draw yn galw arnaf i godi; ond daeth Richard Humphreys ataf, ac ymaflodd yn fy llaw, gan fy nwyn i dir sych a diogel, ac mi gredaf ei fod ef yn caru lles fy enaid." Nid yw yr hanesyn hwn ond un o lawer am y dylanwad iachusol a deimlwyd gan lawer o honynt.

Byddai yn cymeryd mantais ar bob amgylchiad i gynyrchu meddyliau mawr yn ei gymydogion am ddaioni Duw tuag atynt. Gofynodd un o'i gyfeillion iddo, ar adeg o sychder a gwres anarferol—y ddaear yn cochi ac yn ymagor o dan ei effeithiau, a'r anifeiliaid yn dioddef gan brinder porfa a dwfr—"A oes genych ddim arwydd gwlaw, Mr. Humphreys." "Dim ond hyny," ebai yntau, "Duw da iawn y cawsom ni ef erioed, ac yr wyf yn credu y cawn ef yn Dduw da eto, ac y bydd i ni gael gwlaw cyn iddi fyned yn rhy bell arnom."

Yr oedd gwaith ei gymydogion yn galw am dano i bregethu i'w tai mor fynych yn dangos y meddwl mawr oedd ganddynt am dano, a'u parch dwfn iddo; a byddai yn dda iawn ganddo yntau gael myned i'w cartrefi, a dysgu iddynt ffordd Duw yn fanylach. Yr ydym trwy garedigrwydd Mr. William Lewis, Tymawr, Llanbedr, wedi cael sylwedd un o'r pregethau hyny, a dodwn hi i lawr fel enghraifft o'r lleill. Ei destyn ydoedd—

SALM XXIII.

Bugail defaid oedd cyfansoddydd y Salm hon wedi bod; ond fe'i codwyd o fod yn fugail i fod yn frenin ar Israel. Yn yr adnod gyntaf y mae yn dyweyd am yr Arglwydd, mai efe ydoedd ei Fugail, ac am hyny na byddai eisieu arno. Nid yn unig nid oes eisieu arnaf, ond ni bydd eisieu arnaf. Fe all pob un o honom ninau ddyweyd yr un fath a Dafydd, ond i ni gael yr Arglwydd yn Fugail i ni—ei gael o'n plaid i olygu trosom, ac i ofalu am danom. Cymhariaeth ydyw hon ag y byddai duwiolion y Beibl yn ffond iawn o edrych arni—y Brenin Mawr fel eu Bugail. Y mae Iesu Grist yn dyweyd am dano ei hunan, "Myfi yw y Bugail da; y Bugail da sydd yn rhoddi ei einioes dros y defaid." Y mae yn adnabod ei ddefaid ei hun i gyd, a hwythau yn ei adnabod yntau; maent yn adnabod ei lais, ac yn ei ganlyn, yntau yn myned o'u blaen hwynt ac yn eu harwain, a dyna ddywed efe am danynt, "A minau ydwyf yn rhoddi iddynt fywyd tragwyddol, ac ni chyfrgollant byth, ac ni ddwg neb hwynt allan o'm llaw i." Mi fyddwch chwi, y bugeiliaid yma, yn arfer dyweyd eich bod yn adnabod *wynebau* eich defaid, pe bae'ch heb weled y *nôd*. Ond am yr Arglwydd yn Fugail, dywedir, "Wele myfi, ïe myfi, a ymofynaf am fy mhraidd, ac a'u ceisiaf hwynt. Fel y casgl y bugail ei ddeadell ar y dydd y byddo yn mysg ei ddefaid gwasgaredig; felly y ceisiaf finau fy nefaid, ac a'u gwaredaf hwynt o bob lle y gwasgerir hwynt iddo ar y dydd cymylog a niwliog." Felly y dywed Dafydd am dano, "Adnabuost fy enaid mewn cyfyngder." Beth feddyliwch chwi am dano, mhobol i. Fel hyn y dywed am dano ei hun, "Y golledig a geisiaf, a'r darfedig a ddychwelaf, a'r friwedig a rwymaf, a'r lesg a gryfhaf." Y mae yn dda iawn i ni gofio hyn am dano.

Ein hanes ni yw *crwydro* a myned ar gyfrgoll. Felly y dywed Dafydd am dano ei hunan, "Cyfeiliornais fel dafad wedi colli;" ac un ddiamcan iawn ydyw y ddafad at ddyfod yn ol. Rhaid i'r bugail fyned ar ei hol, onide nid oes fawr o obaith am dani. Felly yn union yr wyt tithau, fy nghyddyn, mi fedrwn yn rhwydd iawn fyned o'r ffordd, ac ar grwydr; ond y mae y Bugail yma yn myned ar ol yr hon a gollwyd, hyd oni chaffo Efe hi; ac wedi ei chael, y mae yn ei dodi ar ei ysgwyddau ei hun yn llawen—yn llawenychu ei hun, ac yn galw eraill i gyd-lawenhau ag ef. "Nid yw ewyllys eich Tad yr- hwn sydd yn y nefoedd gyfrgolli yr un o'r rhai bychain hyn." Diolch iddo—rhown ein hunain iddo, a siaradwch wrth eich gilydd am y Bugail da.

Y mae ganddo *ei gorlan* hefyd, chwi gofiwch. Y mae yn dysgwyl i'w ddefaid gydgyfarfod i sôn am dano—i gynal ei enw yn y byd—ac y mae ganddo le da iddynt yn y diwedd. Cânt fyned i'r nefoedd ato i fyw. Nid rhyw chwith iawn fydd y marw yma i'r rhai hyn, na'r byd tragwyddol wedi hyny. Dywedir yn llyfr y Dadguddiad, "Eu bod ger bron gorseddfaingc Duw," a bod yr Oen yn eu bugeilio hwynt, &c. "Pwy ydyw y rhai hyn?" meddai un o'r henuriaid, "ac o ba le y daethant?" "Arglwydd, ti a wyddost," meddai Ioan. Yr oeddynt yn leicio holi eu gilydd yn eu cylch hwynt. Erbyn edrych, rhai wedi dyfod o'r cystudd mawr oeddynt, rhai fel ninau yn union, heb ragoriaeth yn y byd arnynt, ond eu bod wedi golchi eu gynau a'u cànu yn ngwaed yr Oen, ac oblegyd hyny y maent ger bron yr orseddfaingc.

Y mae ganddo hefyd ei *borfa fras*—lle iddynt orwedd mewn porfeydd gwelltog, gerllaw y dyfroedd tawel. Welsoch chwi erioed mor dda y mae y rhai hyn yn ffitio eu gilydd. Ni fedr y defaid fyw heb y borfa, na fedrant; ac fe fydd y borfa yn well o'r defaid. Mi welais i gae yn Lleyn, a darn o hono yn wyrddlas iawn, yn wahanol iawn i'r darn arall, ac mi ofynais i i'r gŵr oedd pïa'r tyddyn, "Sut y mae y darn yna gymaint yn well na'r darn acw?" "Oh," meddai y ffermwr, "cadw y defaid ddarfu i mi ar y darn gwyrddlas yna, ac nid oes dim tebyg iddyn' nhw am rywiogi tir." Felly yn union y mae gyda ninau. Ni fedri di a minau ddim byw heb yr Arglwydd Iesu Grist; trwy gredu ynddo, a'i garu, a byw iddo, dyna'r ffordd i ni i gael bywyd. Y mae yn ddigon gwir fod arnom ni i gyd ei eisieu ef; ond a wyddoch chwi beth? *y mae arno yntau ein heisieu ninau.* Y mae ganddo ef faddeuant pechodau, yr ydym ninau yn euog. Wel, ni thâl maddeuant pechodau i neb arall ond i'r euog. Ei gyfiawnder mawr, beth feddyliet ti am dano yn wisg i dy guddio? Felly y dywed un am dano, "Gwisgodd fi â mantell cyfiawnder." Wel, rhaid cael y pechadur i'w wisgo. Ar gyfer y pechadur y mae ei gyfiawnder. Fe aiff y drefn fawr yn ofer, os na cheir pechaduriaid ato. Y mae yn derbyn pechaduriaid mawr, fel y dywedir am y Manasseh hwnw, "Efe a weddiodd, ac yntau a fu boddlawn iddo." Cymododd Duw ag ef, ac wedi i'r cymod gael ei wneyd, welsoch chwi erioed fel y mae nhw yn dygymod â'u gilydd, fel y defaid a'r borfa—y naill yn canmol y llall. Felly y mae yr Arglwydd yn addaw iddynt trwy y prophwyd Eseciel, "Mewn porfa dda y porthaf hwynt," &c. Ac y mae Dafydd yn dysgwyl mewn hyder am dani, ac yn

ei chael yn helaeth. A mwy eto, "Y mae yn dychwel ei enaid, ac yn ei arwain ar hyd lwybrau cyfiawnder er mwyn ei enw." Y mae yn son am leoedd enbyd, "Glyn cysgod angau," ond nid ofnai *niwed*. Yr oedd y cwbl yn oleu o'i flaen; ac yntau wedi ei godi uwchlaw ei elynion. Fel hyn y mae yn terfynu, "Daioni a thrugaredd yn ddiau a'm canlynant holl ddyddiau fy mywyd." A dyma ei benderfyniad,—"Preswyliaf yn nhŷ yr Arglwydd yn dragywydd." Wel, beth feddyliech chwi am gael yr Arglwydd yn Fugail i chwi? Y mae yma rai yn hen; y mae efe yn dyweyd, "Hyd henaint hefyd myfi yw, ïe, myfi a'ch dygaf hyd oni phenwynoch." Y mae glyn cysgod angau o'n blaen, ac y mae yn rhaid i ni fyned trwyddo bob yn un ac un, gofelwch am y Bugail hwn yn arweinydd, ac ond i ni allu dyweyd "Yr wyt ti gyda mi," ni bydd raid i ninau "ofni niwed."

Wrth derfynu hanes Mr. Humphreys a'i gymydogion gellir dyweyd ei fod wedi cario yr un arferion yn mlaen wedi symud i gymydogaeth Pennal. Byddai yn rhoddi cyfran benodol bob wythnos i ymweled a'r cleifion a'r teuluoedd profedigaethus, a pharhaodd i wneyd hyny, hyd nes y lluddiwyd iddo gan lesgedd i barhau. Ni chafodd ond tymhor byr i droi yn mysg ei gymydogion newydd, ond gadawodd argraff ddofn ar eu meddyliau, ac y mae ei goffadwriaeth yn fendigedig ganddynt oll.

Ysgrifenodd dair o ysgrifeniadau byrion i'r *Methodist* o hanes ei henafiaid yn y Dyffryn, a chan eu bod mor ddifyrus i'w darllen ac mor llawn o addysgiadau ni a'u dodwn hwynt i mewn yma. Testynau yr ysgrifeniadau ydynt, "Enwogion Dyffryn Ardudwy yn Nyddiau Cromwell—Cynt a Chwedi," "Modryb Lowri," "Gwers ar ryddid, ac anrhydedd, o'r oes ddiweddaf i hon."

ENWOGION DYFFRYN ARDUDWY YN NYDDIAU CROMWELL—CYNT A CHWEDI.

Yn gymwys ddau can' mlynedd yn ol, yr oedd yn byw yn Uwch-law'r-coed, yn mhlwyf Llanenddwyn, yn Nyffryn Ardudwy, un Colonel Jones, yr hwn oedd yn perthyn i fyddin Oliver Cromwell; yr oedran ar un o'r trawstiau sydd mewn rhan a chwanegwyd at yr hen anedd ydyw 1654. Gellid meddwl fod yr hen adail wedi ei rhoddi ar ei gilydd er dyddiau y Freninos Elizabeth. Mae yn y darn newydd swyddfa fechan o ffawydd y Baltic, lled gryno, a gwneuthuriad llwyr arni, yn yr hon y byddai y Colonel yn ysgrifenu ac yn cadw ei gyfrifon. Dywedir ei fod yn gryf dros werinlywodraeth, ac felly yn wrthwynebwr i Charles yr ail. Y mae beddadail yn mynwent Llanenddwyn wedi ei gwneuthur iddo, ac arni yr argraff hon, E. I. 1665. Dywed traddodiad mai mewn ymddangosiad y claddwyd ef ac nid mewn gwirionedd, i ddallu llygaid y llywodraeth. Dywedir mai o'r

Iwerddon y daeth y corff marw, gan nad pwy ydoedd. Yr oedd hefyd yn cydoesi âg ef un Griffith Prys Pugh, yr hwn oedd etifedd y Benar Fawr, yn yr un ardal. Yn ol pob hanes a ddisgynodd am dano, gellir casglu ei fod yn un o wŷr ceffylau Cromwell—un o'r *ironsides*. Cof yw gan ysgrifenydd y llinellau hyn glywed ei fam yn son am yr ymladdfeydd y bu ynddynt. Yr oedd hi mor agos perthynas a neb oedd yn fyw i'r etifedd diweddaf, Griffith Pugh, yr hwn oedd yn ŵyr i'r hen filwr. Nid oes braidd rith o amheuaeth nad i fyddin Cromwell yr oedd Griffith Prys Pugh yn perthyn, canys y mae yn hysbys, drwy draddodiad, ei fod yn wrthwynebwr i deulu Cersygedol, y rhai oeddynt yn bleidwyr gwresog i'r ddau Charles. Bu Charles yr ail, pan yn ffoadur, yn lletya yno noson: y mae y gwely a'r ystafell lle y bu yn cysgu yn cael eu cadw fel pe byddent gysegredig, i'w dangos i'r cywrain, hyd heddyw. Dangosai yr hen Fychan, Corsygedol, ei fwriad i gau darn anferth o'r mynydd at ei dir; ond safodd yr hen filwr yn wrol yn ei erbyn, gan fyned a'i drosol ar ei ysgwydd at Gorsygedol (yr oedd y ffordd i'r mynydd yn arwain heibio yno), a thröai i'r gegin i danio ei bibell, gan adael ei drosol ar wàl y cwrt, ac yna i fyny ag ef i'r mynydd, a chwalai y clawdd newydd bron at ei sylfaen, ac wedi hyny adref ag ef y ffordd y daethai, ac felly ni chauwyd mo'r ffridd tra y bu yr hen filwr byw. Pan fu farw Griffith Prys Pugh, aeth rhyw un yn llawn llythyr at Mr. Fychan, i ddyweyd fod ei wrthwynebwr, etifedd y Benar Fawr, wedi marw. "Wel," ebe yntau, "fe fu farw gŵr, ond nid ydwyt ti ond ffwl." Fel y mae yn hysbys, yn fuan wedi marw Cromwell, chwalwyd ei fyddin, ac aeth yr *ironsides* bob un, neu o leiaf aeth y rhan fwyaf, i'w treftadaethau, oblegyd mân-uchelwyr oeddynt gan mwyaf—yr oedd llawer ychwaneg o'r dosparth hwn y pryd hyny nag sydd yn awr. Y mae perchenogion etifeddiaethau mawrion wedi llyncu y mân-uchelwyr, ac nis gwyr odid neb erbyn hyn fyned o honynt i'w boliau hwynt. Yn mhen enyd wedi i hen filwr Benar Fawr a'i farch ddychwelyd adref, anrhegodd gymydog tylawd a'i ddillad milwrol; wrth ba rai y gallai y cyfarwydd wybod mai dillad milwr Cromwell oeddynt. Goddiweddwyd yr hen frawd hwnw ryw ddiwrnod ar y brif-ffordd gan ddau o foneddigion ieuainge, y rhai, wrth weled y dillad oedd am yr hen ŵr, a dybiasant mai efe oedd y milwr, a buont yn dra dirmygus o hono, gan roddi pob enwau gwaeth na'i gilydd arno. Parodd hyn i'r hen ŵr chwerwi yn ddirfawr wrth y ddau; aeth ar eu hol, a deallodd eu bod wedi troi i westdŷ Llanddwywe, yr hwn nad oedd neppell oddiwrth Benar Fawr, i gael bwyd a diod iddynt eu hunain a'u meirch; aeth yntau i'r Benar, ac adroddodd yr hanes i'r hen filwr, ac er gyru y cwch i'r dŵr yn ddigon effeithiol dywedai wrtho, "Y mae yn sicr eu bod hwy yn meddwl mai chwi oeddwn i; pe bawn i yn eich lle chwi mi dalwn i'w hesgyrn, oblegyd chwi ellwch guro y ddau, gan eich bod chwi a'ch ceffyl mor gyfarwydd âg ymladd. Ar hyn, dyma waed yr hen Gymro yn dechreu twymno; cyfrwyodd ei farch, ac wedi cymeryd gwialenffon gref yn ei law, ymaith ag ef; ond erbyn cyrhaedd y dafarn, cafodd fod y ddau foneddwr wedi cychwyn i'w taith tua Glyn Cywarch, i ymwcled â rhai o'r hil dêg oedd y pryd hyny yn byw yno. Aeth yr hen filwr nerth ei garnau ar eu hol, ac yn mhen o gylch pum

milldir goddiweddodd hwynt yn Morfa Harlech, ac heb seremoni dechreuodd eu cystwyo yn ddiarbed. Gwnaethant hwythau eu goreu i'w hamddiffyn eu hunain, ond nid oedd dim yn tycio, yr oedd yr hen filwr yn eu mesur yn ddiarbed y naill ar ol y llall, ac nis gallasent hwy braidd gyffwrdd âg ef. Gwaeddai un o'r ddau arno a dywedai, "A wyddoch chwi pwy ydw' i?" "Na wn i," ebai yntau, "ac nis gwaeth genyf." "Mr. Fychan o Gaethle." "Fe allai," ebai yntau, "*ni bu hi erioed gaethach arnat ti.*" Dechreuodd y ddau waeddi *murdwr* dros yr holl gymydogaeth; daeth hyny a hen wraig allan o'i thŷ, a phigfforch yn ei llaw, a thyngodd y mawr lŵ hyllaf y rhoddai hi y bigfforch drwyddo os na pheidiai a lladd y bobl; ar hyn gadawodd y milwr iddynt fyned, canys ni oddefai ei anrhydedd iddo ymladd â hen wraig. Dywedir i'r hen wraig hon fod mewn ffafr gyda'r milwr tra y buont byw. Efallai iddi hi fod yn foddion i'w atal, rhag gwneuthur mewn awr ddrwg yr hyn ni fynasai ei wneyd mewn oriau gwell. Ni welwn yma

1. *Lewder ac annibyniaeth milwyr Cromwell;* ni bu dynion erioed yn gwisgo arfau marwolaeth oddiar egwyddorion uwch; sef, er amddiffyn rhyddid crefyddol eu gwlad, yn erbyn gormes Charles yr Ail, yn wladol ac yn eglwysig.

2. *Gwelwn yn nrych yr hanesyn hwn boethed oedd y rhagfarn yn eu herbyn yn mynwesau y mawrion*, a hyny bellach yn dyfod allan yn dra rhwydd; canys yr oedd Cromwell wedi gorphwys oddiwrth ei lafur. Fel hyn yr arfer plant dynion dalu i'w cymwynaswŷr goreu.

3. *Gwelwn wired yr hen ddiareb,* "*Yn mhob gwlad y megir glew.*" Nid ydyw Dyffryn Ardudwy ond llanerch lled anhygyrch, eto wele ddau filwr dewr wedi dyfod oddiyno i fyddin anorchfygol *ironsides* Cromwell. Yn ystlys ogledd-ddwyreiniol y Dyffryn, y ganwyd Edmwnd Prys, awdwr y Salmau Cân; yn ei ystlys ddeheuol y ganwyd William Phillip, yr hwn oedd fardd campus yn ei ddydd. Y mae pawb sydd yn gwybod dim am feirdd a barddoni yn gwybod mai y prif-fardd oedd yr archddiacon; ond y mae William Phillip yn llawer llai hysbys. Ganwyd ef yn agos i Dalybont yn mhlwyf Llanddwywe. Ei dad oedd oedranus pan ganed ef, a thybiai rhai y gellid ei

"Dadu yn fwy godidog."

Pa fodd bynag am hyny, gan nad ydym yn duo enw neb, ni adawn y traddodiad i farw. Phillip William oedd ei dad cyfrifol, gan nad pwy oedd ei dad naturiol. Trodd y bachgen allan yn fardd, er nad cystled a'r archddiacon, eto llawer gwell na'r cyffredin. Dywed traddodiad ei fod yn wrthwynebwr calonog i lywodraeth Cromwell,—yr oedd yn Llanwr cydwybodol,—deallai mai Ymneillduwr oedd Cromwell, a dichon mai hyn oedd yr achos o'i fod mor annghymeradwy o hono. Anfonwyd swyddogion unwaith i'w ddal; nid oeddynt yn ei adwaen; cyfarfuant âg ef heb fod neppell oddiwrth y tŷ, mewn gwisg tra chyffredin, a gofynasant iddo a oedd William Phillip gartref? "Yr oedd yn y tŷ pan oeddwn i yno," ebai yntau; ac aeth pawb i'w fan. Yr oedd yn dipyn o ddaroganwr, a dywedai

"Daw brenin braf i'n bro;
Ond ust William nes delo."

Y mae amryw englynion campus, debygwn i, ar ei ol, y rhai a gyfansoddodd pan y teimlai ei fod yn agoshau i'w fedd. Y mae un o honynt fel y canlyn:—

"A gym'rais, a gefais, a ga—a'r eiddo
A roddais i'r t'lota;
Ond o'r swm a adewais yma,
Ni chym'rais, ni chefais, ni cha'"

Yr oedd yn gydwybodol yn nefnyddiad ei dalent; ni chanai er dial ar neb, oddieithr un tro pan oedd rhywun wedi tori y clawdd gwrysg oedd ganddo am ei faes rhŷg du—rhŷg du oedd prif lafur y ffarmwr yn y dyddiau hyny—ac ebai'r bardd,

"Miaren neu ddraenen ddrwg,
O dan ei ael a dyno ei olwg."

Yr oedd yn ddiweddar faingc yn Eglwys Llanddwywe yn perthyn i Hendre Fechan o waith ei ddwylaw ef ei hun. Dymunai William Phillp yn un o'i englynion gael ei gladdu yn mynwent Llanddwywe, ac i'w lwch

——— "gael llonydd
Hyd ddydd y farn, a da iawn fydd."

Ond rhy brin y gwnaed hyny âg ef; clywsom ddarfod agor ei fedd, er mwyn cael cyfleusdra i gladdu rhyw un ynddo.

Y mae amryw draddodiadau am Edmwnd Prys, ond ni chaf grybwyll ond un o honynt, i ddangos, er nad ydoedd mor ofalus ag y dylasai fod i rodio yn ddiesgeulus, eto ei fod yn ddigon medrus i ddianc o'r fagl wedi ei ddal. Pan oedd yn gwasanaethu Eglwys Maentwrog, yr oedd chwedlau annymunol yn cael eu lledaenu yn ei gylch; ac yr oedd yn mysg ei blwyfolion un hen Lanwr selog, penderfynol iawn yn ei ffordd, ac yr oedd yn gryn wrthwynebwr i'r archddiacon; ond ni ddywed traddodiad pa un ai o herwydd y chwedlau a daenid yn ei gylch, ai ynte o herwydd rhywbeth arall; modd bynag, penderfynodd gymeryd mantais ar y chwedlau hyn, i roddi achwyniad yn ei erbyn mewn llys Eglwysig. Pan ddeallodd yr archddiacon hyny, teimlodd fod ei amser yntau wedi dyfod, a chyfansoddodd bregeth y Sabbath ar eiriau y goruchwyliwr annghyfiawn:—"Mi a wn beth a wnaf, fel pan y'm bwrier allan o'r oruchwyliaeth," &c.; ac wedi traethu rhyw gymaint ar y testyn, trodd i edrych ar yr hen ŵr, yr hwn a eisteddai yn lled agos i'r pulpud (nid oedd ei elyniaeth at yr offeiriad yn ei rwystro i'r Eglwys), a dywedodd amrywiol weithiau, gan bwysleisio yn ddifrifol, a chyfeirio ato, "Mi a wn beth a wnaf." "Mi a wn beth a wnaf." "Mi a wn beth a wnaf." Aeth y goruchwyliwr annghyfiawn a'r bregeth ar unwaith o feddwl yr hen ŵr, a llanwyd y lle gan yr ymryson oedd rhyngddo ef â'r offeiriad, yr oedd ei holl natur ar unwaith yn fflam o nwydau drwg, ac atebodd y pregethwr yn uchel, "Beth a wnei di yr hen ——— a gwneyd dy waetha?" Erbyn hyn yr oedd yr archddiacon yn ddiogel, a'r hen ŵr yn y fagl. Yr oedd y bregeth wedi ateb ei dyben.

Heb fod yn mhell o gymydogaeth y Dyffryn yr hanodd Ellis Wynn, awdwr penigamp Bardd Cwsg. Gŵr hynod yn ei oes, a hono yn gyffredinol yn dra llygredig. Credai pawb mai gŵr da oedd Ellis Wynn. Ac yn ddiweddaf oll, o'r un gymydogaeth yr hanodd y Dr. William Owen Pughe. Nid rhaid dywedyd dim am dano ef, y mae ei Eiriadur wedi anfarwoli ei enw, fel y cofir am dano holl ddyddiau y ddaear.*

MODRYB LOWRI.

Yr hon oedd wedi ei geni bedair blynedd cyn blwyddyn y rhew mawr, ar yr hon flwyddyn y symudodd ei rhieni o'r Farch-ynys, sydd tua chwe' milldir o Ddolgellau, i Eithin-fynydd, yn ystlys ddwyreiniol Dyffryn Ardudwy. Cerddodd hithau yr holl ffordd, sef o wyth i ddeg milldir, o'r Farch-ynys dros Fwlch-y-rhiwgur i Eithin-fynydd, yn bedair blwydd oed. Croesodd lawer bryn, a phant, a goriwared, ar ei deutroed. Yr ydoedd o gyfansoddiad cryf, cafodd ei magu mewn llawnder yn gystled ag mewn llafur. Yr ydoedd yn ddynes dal a glandeg yn ei dydd. Priododd rhwng pump a deg-ar-hugain oed (sef mewn adeg gymhwys), bu iddi bedair o ferched, tair o ba rai sydd eto yn fyw, yr oeddynt oll yn wragedd parchus, tegwedd, a threfnus. Bu iddi un mab hefyd, yr hwn sydd eto yn fyw ac iach, ac a fu yn bob cysur i'w fam tra y bu ar y ddaear; tynodd hyn fendithion nid ychydig am ei ben, yn ol yr addewid i'r rhai a anrhydeddant eu tad a'u mam, canys y mae yn llwyddiannus yn ei amgylchiadau tymhorol, yn barchus gan ei holl gymydogion, yn dda ei ddeall, yn gelfydd ei law, yn ddoeth ei gyngor—"heb absenu â'i dafod na gwneuthur drwg i'w, gymydog." Bu farw Modryb Lowri tua dwy flynedd ar hugain yn ol mewn henaint teg, ac yn llawn o ddyddiau. Yr oedd yn ei phedwaredd flwyddyn ar bymtheg a phedwar ugain pan y bu farw. Y mae ei mab a'i merched, y rhai a adawodd ar ol, yr ochr chwith i bedwar ugain, nid llawer llai eu blynyddoedd, a'u dodi yn nghyd, na dau ugain ar bymtheg; ac o ran pob ymddangosiad, gallant estyn eu dyddiau hyd yn gant—sef "os yr Arglwydd a'i myn."

Ond nid yw hyn oll ond rhagdraith i'r hyn sydd genym i'w ddywedyd am Modryb Lowri, yr hon oedd yn hynod gyflawn o synwyr *cyffredin*. Wrth hyn nid ydym yn deall cyfran gyffredin o synwyr, ond ei bod wedi ei chynysgaeddu yn helaeth â'r synwyr hwnw a elwir synwyr cyffredin. Nid oedd ei synwyr hi yn goethedig, nac yn ddyrchafedig, hyny yw, nid oedd wrth natur nac o ddygiad i fyny fel Hannah More, ond mi daerwn yn hyderus eu bod cyn gyflawned âg un ferch yn ei hoes o synwyr cyffredin—y synwyr hwnw sydd yn adwaen ei le—yn ei fesur ac yn ei bwyso ei hunan—yn canfod ei wallau a'i ddiffygion—mewn gair, y synwyr sydd fuddiol i bob peth ac i bob amcan yn y byd sydd yr awr hon, ac yn yr hwn a fydd. Nid yw talent heb synwyr cyffredin ond yn peryglu ei pherchen,

* O'r *Methodist*, Chwefror, 1855.

ac yn ei osod yn wawd i ynfydion. Ond am Modryb Lowri, ni chwarddodd neb erioed, hyd yn nod yn ei lewis, am ei phen hi; gwyddai pawb ei bod hi yn llawn llathen, ac yn un ŵns ar bymtheg trwm trwm i'r pwys. Gorfyddai i'r athrodwr a'r enllibwr gymeryd rhyw un arall yn destyn.

Ond fel nad ymddangoswn fel yn curo awyr, rhoddwn ger bron y darllenydd yr enghraifft hon o gallineb Modryb Lowri. Byddem yn yr arfer o ymweled â'r hen fam yn awr ac eilwaith. Tua blwyddyn, neu beth yn ychwaneg, cyn marw fy Modryb Lowri, ymwelsom â hi, ac wedi pasio y cyfarchiadau cyffredin, gofynasom, "Beth debygech chwi am y byd? y mae yn dda gen i gael eich barn am dano, oblegyd yr ydych yn cofio llawer am ei arferion er's pedwar ugain a deg o flynyddoedd. Y mae rhai yn taeru yn wyneb uchel ei fod yn waeth waeth er yr holl bregethu a chadw Ysgolion Sabbathol a phob moddion i'w wellhau. Ond pa beth, dybygech chwi, am hyn, canys yr ydych yn dyst llygad o'r hyn sydd, ac o'r hyn a fu?"

"Nis gwn yn iawn pa fodd i'ch hateb," meddai, "ond os da yr wy'i yn cofio, drwg iawn oedd y byd y pryd hwnw, sef pan oeddwn i yn enethig fechan. Nosweithiau llawen, canu efo'r tannau,

'Yr *interlude* aelodog
A'r cardiau dauwynebog,'

y twmpath chware, a chware tenis tô. Fel hyn y byddai yr ieuengctyd, a'r hen yn eistedd i edrych arnynt. Diwrnod canu a dawnsio oedd y Sul, pan gyntaf yr wyf fi yn ei gofio. Ac heblaw hyn, yr oedd pawb yr un fath: fel y dywed yr hen air, 'Nid oeddym oll ond moch o'r un wâl,' neu

'Adar o'r un lliw,
Yn hedeg i'r un lle.'

Nid oedd un cyfiawn i ragori ar ei gymydog."

"Ond, Modryb Lowri, beth meddwch chwi am 'stâd bresenol y byd, pa un ai gwell ai gwaēth na chynt?"

"Yn siwr, rhaid cyfaddef fod llawer o wylltineb ac afreolaeth ynddo eto, yn nghyda rhagfarn, llid, a chenfigen; ond y mae rhyw ddau fath o bobl yn ymddangos i mi yn bresenol, rhai yn ymdrechu i wellhau y byd ac i gadw ei ddrwg arferion i lawr. Y mae y 'rwan dda a drwg i'w gweled. Nid oedd pan oeddwn i yn ieuange ond *drwg a gwaeth*. Y mae bechgyn a genethod yn cael llawer o fanteision yn y dyddiau hyn ragor a geid gynt yn more fy oes i. Nid oedd y pryd hwnw nemawr ddim i atal llygredigaeth ond tylodi, cosbi lladron, a chrogi llofruddion."

Yn awr, ddarllenydd, beth ddywedi di am dystiolaeth Modryb Lowri? Nid oedd hi yn proffesu crefydd gyda'r un o'r sectau fel ei gelwir. Tybiaf y byddai yn cymuno yn y Llan, cyhyd âg y gallodd godi o'i chongl. Gwrandawodd lawer ar bregethu Crist gyda'r Methodistiaid, a darllenodd lawer ar ei Beibl, a chlywsom y byddai yn gweddio yn fynych. Ond methodd rhagfarn a'i dallu fel y rhan fwyaf o'i chydoeswyr. Yr oedd synwyr cyffredin yn fur iddi ar bob llaw, yr hwn hefyd a ddysgai iddi rodio canol llwybr barn. O mor werthfawr yw synwyr cyffredin i bawb a'i medd.

Nid yw synwyr cyffredin wedi ei ddarpar i gredu pob peth a glyw. Profa bob peth, a deil yr hyn sydd dda—yr hyn sydd resymol. Y mae synwyr cyffredin yn dysgu i bawb bwyso penau yn hytrach na'u cyfrif, gan farnu pethau wrth eu heffeithiau, a dwys ystyried eu holl ganlyniadau. Y mae yn ddigon a gwneyd i'r llygod chwerthin yn nhyllau yn y muriau wrth weled y mân 'ffeiriadon yn troi y gath yn yr haul i'r werin a'r cyffredin, gan hòni olyniad apostolaidd iddynt eu hunain, a bedydd adenedigaeth, yr hyn a ellir ei effeithio yn unig trwy eu dwylaw hwy: ond y mae synwyr cyffredin yn mhawb a'i medd yn dywedyd gyda dirmyg, "Diau mai *chwi* sydd *bobl*, a chyda chwi y bydd marw doethineb."

Nid yw holl rasau y Cristion ddim amgen na synwyr wedi ei sancteiddio gan yr hwn a anadlodd yn ein ffroenau anadl einioes naturiol, yr hwn hefyd a ddichon anadlu bywyd o ras i'n galluoedd rhesymol; ac os gras, gogoniant hefyd.

Gwel y darllenydd mor werthfawr yw mamau campus. Nid oedd ar brïod Modryb Lowri, hyd y gwyddys, na champ na rhemp. Modd bynag, mi debygwn, nad oedd ei bwysau yn dyfod yn agos i bwysau Modryb Lowri. Ond y mae ei hol hi ar ei theulu hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth: y maent yn gryfach, yn iachach, yn harddach, ac yn gallach na chyffredin, ac eto nis gwn a gyrhaeddodd un o honynt fesur a phwysau Modryb Lowri.*

GWERS AR RYDDID AC ANRHYDEDD O'R OES DDIWEDDAF I HON.

Fe ddywed diareb mai "Pa hwyaf y bydd dyn byw, mai mwyaf wêl, a mwyaf glyw." Daeth i'm clustiau inau yn ddiweddar ryw hanesyn am beth a ddygwyddodd tua phedwar ugain mlynedd yn ol, ac am ei fod yn cynwys gwersi buddiol i'r oes hon gosodaf ef ger bron y darllenydd. Daeth un Griffydd Evan o Uwchglan at Mr. Evan Fychan o Gorsygedol, ac a ddywedodd wrtho, "Y mae eich *tenant* sydd yn Mhenycerig (y ddau le gerllaw Harlech) wedi myned at y *Methodus*, ac nid oes dim daioni i'w ddysgwyl oddiwrtho mwyach; hwy a'i gwnaent cyn dyloted a llygoden eglwys, a pha beth a wna â thir nac â dim arall? Ceir gweled yn fuan na ddaw o hono, fel y dywedais, ond anhwylusdod." "Y mae yn ddrwg genyf glywed," ebai Mr. Fychan, "yr oedd Harri yn burion *tenant*." "Oedd o'r goreu," ebai Griffydd Evan, "ond y mae y cwbl drosodd er pan yr ymunodd â'r bobl yna, oblegyd ni wna bellach ddim ond crwydro a gwario ei arian; a chan na wna efe ddim â'i dyddyn, buaswn yn ddiolchgar am eich ewyllys da os gosodwch Benycerig i mi." "Wel," ebai Mr. Fychain, "nid hwyrach y gelli di ei gael, ond ni osodaf mohono i ti heddyw—caf weled Harri cyn bo hir, a chaf wybod pa fodd y mae pethau yn sefyll." Cyn hir anfonodd y gŵr boneddig at Harri i ddyweyd fod

* O'r "*Methodist*," Mawrth, 1856.

Ein hanes ni yw *crwydro* a myned ar gyfrgoll. Felly y dywed Dafydd am dano ei hunan, "Cyfeiliornais fel dafad wedi colli;" ac un ddiamcan iawn ydyw y ddafad at ddyfod yn ol. Rhaid i'r bugail fyned ar ei hol, onide nid oes fawr o obaith am dani. Felly yn union yr wyt tithau, fy nghyddyn, mi fedrwn yn rhwydd iawn fyned o'r ffordd, ac ar grwydr; ond y mae y Bugail yma yn myned ar ol yr hon a gollwyd, hyd oni chaffo Efe hi; ac wedi ei chael, y mae yn ei dodi ar ei ysgwyddau ei hun yn llawen—yn llawenychu ei hun, ac yn galw eraill i gyd-lawenhau ag ef. "Nid yw ewyllys eich Tad yr- hwn sydd yn y nefoedd gyfrgolli yr un o'r rhai bychain hyn." Diolch iddo—rhown ein hunain iddo, a siaradwch wrth eich gilydd am y Bugail da.

Y mae ganddo *ei gorlan* hefyd, chwi gofiwch. Y mae yn dysgwyl i'w ddefaid gydgyfarfod i sôn am dano—i gynal ei enw yn y byd—ac y mae ganddo le da iddynt yn y diwedd. Cânt fyned i'r nefoedd ato i fyw. Nid rhyw chwith iawn fydd y marw yma i'r rhai hyn, na'r byd tragwyddol wedi hyny. Dywedir yn llyfr y Dadguddiad, "Eu bod ger bron gorseddfaingc Duw," a bod yr Oen yn eu bugeilio hwynt, &c. "Pwy ydyw y rhai hyn?" meddai un o'r henuriaid, "ac o ba le y daethant?" "Arglwydd, ti a wyddost," meddai Ioan. Yr oeddynt yn leicio holi eu gilydd yn eu cylch hwynt. Erbyn edrych, rhai wedi dyfod o'r cystudd mawr oeddynt, rhai fel ninau yn union, heb ragoriaeth yn y byd arnynt, ond eu bod wedi golchi eu gynau a'u cànu yn ngwaed yr Oen, ac oblegyd hyny y maent ger bron yr orseddfaingc.

Y mae ganddo hefyd ei *borfa fras*—lle iddynt orwedd mewn porfeydd gwelltog, gerllaw y dyfroedd tawel. Welsoch chwi erioed mor dda y mae y rhai hyn yn ffitio eu gilydd. Ni fedr y defaid fyw heb y borfa, na fedrant; ac fe fydd y borfa yn well o'r defaid. Mi welais i gae yn Lleyn, a darn o hono yn wyrddlas iawn, yn wahanol iawn i'r darn arall, ac mi ofynais i i'r gŵr oedd pïa'r tyddyn, "Sut y mae y darn yna gymaint yn well na'r darn acw?" "Oh," meddai y ffermwr, "cadw y defaid ddarfu i mi ar y darn gwyrddlas yna, ac nid oes dim tebyg iddyn' nhw am rywiogi tir." Felly yn union y mae gyda ninau. Ni fedri di a minau ddim byw heb yr Arglwydd Iesu Grist; trwy gredu ynddo, a'i garu, a byw iddo, dyna'r ffordd i ni i gael bywyd. Y mae yn ddigon gwir fod arnom ni i gyd ei eisieu ef; ond a wyddoch chwi beth? *y mae arno yntau ein heisieu ninau.* Y mae ganddo ef faddeuant pechodau, yr ydym ninau yn euog. Wel, ni thâl maddeuant pechodau i neb arall ond i'r euog. Ei gyfiawnder mawr, beth feddyliet ti am dano yn wisg i dy guddio? Felly y dywed un am dano, "Gwisgodd fi â mantell cyfiawnder." Wel, rhaid cael y pechadur i'w wisgo. Ar gyfer y pechadur y mae ei gyfiawnder. Fe aiff y drefn fawr yn ofer, os na cheir pechaduriaid ato. Y mae yn derbyn pechaduriaid mawr, fel y dywedir am y Manasseh hwnw, "Efe a weddiodd, ac yntau a fu boddlawn iddo." Cymododd Duw ag ef, ac wedi i'r cymod gael ei wneyd, welsoch chwi erioed fel y mae nhw yn dygymod â'u gilydd, fel y defaid a'r borfa—y naill yn canmol y llall. Felly y mae yr Arglwydd yn addaw iddynt trwy y prophwyd Eseciel, "Mewn porfa dda y porthaf hwynt," &c. Ac y mae Dafydd yn dysgwyl mewn hyder am dani, ac yn

ei chael yn helaeth. A mwy eto, "Y mae yn dychwel ei enaid, ac yn ei arwain ar hyd lwybrau cyfiawnder er mwyn ei enw." Y mae yn son am leoedd enbyd, "Glyn cysgod angau," ond nid ofnai *niwed*. Yr oedd y cwbl yn oleu o'i flaen; ac yntau wedi ei godi uwchlaw ei elynion. Fel hyn y mae yn terfynu, "Daioni a thrugaredd yn ddiau a'm canlynant holl ddyddiau fy mywyd." A dyma ei benderfyniad,—"Preswyliaf yn nhŷ yr Arglwydd yn dragywydd." Wel, beth feddyliech chwi am gael yr Arglwydd yn Fugail i chwi? Y mae yma rai yn hen; y mae efe yn dyweyd, "Hyd henaint hefyd myfi yw, ïe, myfi a'ch dygaf hyd oni phenwynoch." Y mae glyn cysgod angau o'n blaen, ac y mae yn rhaid i ni fyned trwyddo bob yn un ac un, gofelwch am y Bugail hwn yn arweinydd, ac ond i ni allu dyweyd "Yr wyt ti gyda mi," ni bydd raid i ninau "ofni niwed."

Wrth derfynu hanes Mr. Humphreys a'i gymydogion gellir dyweyd ei fod wedi cario yr un arferion yn mlaen wedi symud i gymydogaeth Pennal. Byddai yn rhoddi cyfran benodol bob wythnos i ymweled a'r cleifion a'r teuluoedd profedigaethus, a pharhaodd i wneyd hyny, hyd nes y lluddiwyd iddo gan lesgedd i barhau. Ni chafodd ond tymhor byr i droi yn mysg ei gymydogion newydd, ond gadawodd argraff ddofn ar eu meddyliau, ac y mae ei goffadwriaeth yn fendigedig ganddynt oll.

Ysgrifenodd dair o ysgrifeniadau byrion i'r *Methodist* o hanes ei henafiaid yn y Dyffryn, a chan eu bod mor ddifyrus i'w darllen ac mor llawn o addysgiadau ni a'u dodwn hwynt i mewn yma. Testynau yr ysgrifeniadau ydynt, "Enwogion Dyffryn Ardudwy yn Nyddiau Cromwell—Cynt a Chwedi," "Modryb Lowri," "Gwers ar ryddid, ac anrhydedd, o'r oes ddiweddaf i hon."

ENWOGION DYFFRYN ARDUDWY YN NYDDIAU CROMWELL—CYNT A CHWEDI.

Yn gymwys ddau can' mlynedd yn ol, yr oedd yn byw yn Uwch-law'r-coed, yn mhlwyf Llanenddwyn, yn Nyffryn Ardudwy, un Colonel Jones, yr hwn oedd yn perthyn i fyddin Oliver Cromwell; yr oedran ar un o'r trawstiau sydd mewn rhan a chwanegwyd at yr hen anedd ydyw 1654. Gellid meddwl fod yr hen adail wedi ei rhoddi ar ei gilydd er dyddiau y Frenines Elizabeth. Mae yn y darn newydd swyddfa fechan o ffawydd y Baltic, lled gryno, a gwneuthuriad llwyr arni, yn yr hon y byddai y Colonel yn ysgrifenu ac yn cadw ei gyfrifon. Dywedir ei fod yn gryf dros werinlywodraeth, ac felly yn wrthwynebwr i Charles yr ail. Y mae beddadail yn mynwent Llanenddwyn wedi ei gwneuthur iddo, ac arni yr argraff hon, E. I. 1665. Dywed traddodiad mai mewn ymddangosiad y claddwyd ef ac nid mewn gwirionedd, i ddallu llygaid y llywodraeth. Dywedir mai o'r

Iwerddon y daeth y corff marw, gan nad pwy ydoedd. Yr oedd hefyd yn cydoesi âg ef un Griffith Prys Pugh, yr hwn oedd etifedd y Benar Fawr, yn yr un ardal. Yn ol pob hanes a ddisgynodd am dano, gellir casglu ei fod yn un o wŷr ceffylau Cromwell—un o'r *ironsides*. Cof yw gan ysgrifenydd y llinellau hyn glywed ei fam yn son am yr ymladdfeydd y bu ynddynt. Yr oedd hi mor agos perthynas a neb oedd yn fyw i'r etifedd diweddaf, Griffith Pugh, yr hwn oedd yn ŵyr i'r hen filwr. Nid oes braidd rith o amheuaeth nad i fyddin Cromwell yr oedd Griffith Prys Pugh yn perthyn, canys y mae yn hysbys, drwy draddodiad, ei fod yn wrthwynebwr i deulu Cersygedol, y rhai oeddynt yn bleidwyr gwresog i'r ddau Charles. Bu Charles yr ail, pan yn ffoadur, yn lletya yno noson: y mae y gwely a'r ystafell lle y bu yn cysgu yn cael eu cadw fel pe byddent gysegredig, i'w dangos i'r cywrain, hyd heddyw. Dangosai yr hen Fychan, Corsygedol, ei fwriad i gau darn anferth o'r mynydd at ei dir; ond safodd yr hen filwr yn wrol yn ei erbyn, gan fyned a'i drosol ar ei ysgwydd at Gorsygedol (yr oedd y ffordd i'r mynydd yn arwain heibio yno), a thröai i'r gegin i danio ei bibell, gan adael ei drosol ar wàl y cwrt, ac yna i fyny ag ef i'r mynydd, a chwalai y clawdd newydd bron at ei sylfaen, ac wedi hyny adref ag ef y ffordd y daethai, ac felly ni chauwyd mo'r ffridd tra y bu yr hen filwr byw. Pan fu farw Griffith Prys Pugh, aeth rhyw un yn llawn llythyr at Mr. Fychan, i ddyweyd fod ei wrthwynebwr, etifedd y Benar Fawr, wedi marw. "Wel," ebe yntau, "fe fu farw gŵr, ond nid ydwyt ti ond ffwl." Fel y mae yn hysbys, yn fuan wedi marw Cromwell, chwalwyd ei fyddin, ac aeth yr *ironsides* bob un, neu o leiaf aeth y rhan fwyaf, i'w treftadaethau, oblegyd mân-uchelwyr oeddynt gan mwyaf—yr oedd llawer ychwaneg o'r dosparth hwn y pryd hyny nag sydd yn awr. Y mae perchenogion etifeddiaethau mawrion wedi llyncu y mân-uchelwyr, ac nis gwyr odid neb erbyn hyn fyned o honynt i'w boliau hwynt. Yn mhen enyd wedi i hen filwr Benar Fawr a'i farch ddychwelyd adref, anrhegodd gymydog tylawd a'i ddillad milwrol; wrth ba rai y gallai y cyfarwydd wybod mai dillad milwr Cromwell oeddynt. Goddiweddwyd yr hen frawd hwnw ryw ddiwrnod ar y brif-ffordd gan ddau o foneddigion ieuainge, y rhai, wrth weled y dillad oedd am yr hen ŵr, a dybiasant mai efe oedd y milwr, a buont yn dra dirmygus o hono, gan roddi pob enwau gwaeth na'i gilydd arno. Parodd hyn i'r hen ŵr chwerwi yn ddirfawr wrth y ddau; aeth ar eu hol, a deallodd eu bod wedi troi i westdŷ Llanddwywe, yr hwn nad oedd neppell oddiwrth Benar Fawr, i gael bwyd a diod iddynt eu hunain a'u meirch; aeth yntau i'r Benar, ac adroddodd yr hanes i'r hen filwr, ac er gyru y cwch i'r dŵr yn ddigon effeithiol dywedai wrtho, "Y mae yn sicr eu bod hwy yn meddwl mai chwi oeddwn i; pe bawn i yn eich lle chwi mi dalwn i'w hesgyrn, oblegyd chwi ellwch guro y ddau, gan eich bod chwi a'ch ceffyl mor gyfarwydd âg ymladd. Ar hyn, dyma waed yr hen Gymro yn dechreu twymno; cyfrwyodd ei farch, ac wedi cymeryd gwialenffon gref yn ei law, ymaith ag ef; ond erbyn cyrhaedd y dafarn, cafodd fod y ddau foneddwr wedi cychwyn i'w taith tua Glyn Cywarch, i ymwcled â rhai o'r hil dêg oedd y pryd hyny yn byw yno. Aeth yr hen filwr nerth ei garnau ar eu hol, ac yn mhen o gylch pum

milldir goddiweddodd hwynt yn Morfa Harlech, ac heb seremoni dechreuodd eu cystwyo yn ddiarbed. Gwnaethant hwythau eu goreu i'w hamddiffyn eu hunain, ond nid oedd dim yn tycio, yr oedd yr hen filwr yn eu mesur yn ddiarbed y naill ar ol y llall, ac nis gallasent hwy braidd gyffwrdd âg ef. Gwaeddai un o'r ddau arno a dywedai, "A wyddoch chwi pwy ydw' i?" "Na wn i," ebai yntau, "ac nis gwaeth genyf." "Mr. Fychan o Gaethle." "Fe allai," ebai yntau, "*ni bu hi erioed gaethach arnat ti.*" Dechreuodd y ddau waeddi *murdwr* dros yr holl gymydogaeth; daeth hyny a hen wraig allan o'i thŷ, a phigfforch yn ei llaw, a thyngodd y mawr lŵ hyllaf y rhoddai hi y bigfforch drwyddo os na pheidiai a lladd y bobl; ar hyn gadawodd y milwr iddynt fyned, canys ni oddefai ei anrhydedd iddo ymladd â hen wraig. Dywedir i'r hen wraig hon fod mewn ffafr gyda'r milwr tra y buont byw. Efallai iddi hi fod yn foddion i'w atal, rhag gwneuthur mewn awr ddrwg yr hyn ni fynasai ei wneyd mewn oriau gwell. Ni welwn yma

1. *Lewder ac annibyniaeth milwyr Cromwell;* ni bu dynion erioed yn gwisgo arfau marwolaeth oddiar egwyddorion uwch; sef, er amddiffyn rhyddid crefyddol eu gwlad, yn erbyn gormes Charles yr Ail, yn wladol ac yn eglwysig.

2. *Gwelwn yn nrych yr hanesyn hwn boethed oedd y rhagfarn yn eu herbyn yn mynwesau y mawrion*, a hyny bellach yn dyfod allan yn dra rhwydd; canys yr oedd Cromwell wedi gorphwys oddiwrth ei lafur. Fel hyn yr arfer plant dynion dalu i'w cymwynaswyr goreu.

3. *Gwelwn wired yr hen ddiareb,* "*Yn mhob gwlad y megir glew.*" Nid ydyw Dyffryn Ardudwy ond llanerch lled anhygyrch, eto wele ddau filwr dewr wedi dyfod oddiyno i fyddin anorchfygol *ironsides* Cromwell. Yn ystlys ogledd-ddwyreiniol y Dyffryn, y ganwyd Edmwnd Prys, awdwr y Salmau Cân; yn ei ystlys ddeheuol y ganwyd William Phillip, yr hwn oedd fardd campus yn ei ddydd. Y mae pawb sydd yn gwybod dim am feirdd a barddoni yn gwybod mai y prif-fardd oedd yr archddiacon; ond y mae William Phillip yn llawer llai hysbys. Ganwyd ef yn agos i Dalybont yn mhlwyf Llanddwywe. Ei dad oedd oedranus pan ganed ef, a thybiai rhai y gellid ei

"Dadu yn fwy godidog."

Pa fodd bynag am hyny, gan nad ydym yn duo enw neb, ni adawn y traddodiad i farw. Phillip William oedd ei dad cyfrifol, gan nad pwy oedd ei dad naturiol. Trodd y bachgen allan yn fardd, er nad cystled a'r archddiacon, eto llawer gwell na'r cyffredin. Dywed traddodiad ei fod yn wrthwynebwr calonog i lywodraeth Cromwell,—yr oedd yn Llanwr cydwybodol,—deallai mai Ymneillduwr oedd Cromwell, a dichon mai hyn oedd yr achos o'i fod mor annghymeradwy o hono. Anfonwyd swyddogion unwaith i'w ddal; nid oeddynt yn ei adwaen; cyfarfuant âg ef heb fod neppell oddiwrth y tŷ, mewn gwisg tra chyffredin, a gofynasant iddo a oedd William Phillip gartref? "Yr oedd yn y tŷ pan oeddwn i yno," ebai yntau; ac aeth pawb i'w fan. Yr oedd yn dipyn o ddaroganwr, a dywedai

"Daw brenin braf i'n bro;
Ond ust William nes delo."

Y mae amryw englynion campus, debygwn i, ar ei ol, y rhai a gyfansoddodd pan y teimlai ei fod yn agoshau i'w fedd. Y mae un o honynt fel y canlyn:—

"A gym'rais, a gefais, a ga—a'r eiddo
A roddais i'r t'lota;
Ond o'r swm a adewais yma,
Ni chym'rais, ni chefais, ni cha'"

Yr oedd yn gydwybodol yn nefnyddiad ei dalent; ni chanai er dial ar neb, oddieithr un tro pan oedd rhywun wedi tori y clawdd gwrysg oedd ganddo am ei faes rhŷg du—rhŷg du oedd prif lafur y ffarmwr yn y dyddiau hyny—ac ebai'r bardd,

"Miaren neu ddraenen ddrwg,
O dan ei ael a dyno ei olwg."

Yr oedd yn ddiweddar faingc yn Eglwys Llanddwywe yn perthyn i Hendre Fechan o waith ei ddwylaw ef ei hun. Dymunai William Phillp yn un o'i englynion gael ei gladdu yn mynwent Llanddwywe, ac i'w lwch

——— "gael llonydd
Hyd ddydd y farn, a da iawn fydd."

Ond rhy brin y gwnaed hyny âg ef; clywsom ddarfod agor ei fedd, er mwyn cael cyfleusdra i gladdu rhyw un ynddo.

Y mae amryw draddodiadau am Edmwnd Prys, ond ni chaf grybwyll ond un o honynt, i ddangos, er nad ydoedd mor ofalus ag y dylasai fod i rodio yn ddiesgeulus, eto ei fod yn ddigon medrus i ddianc o'r fagl wedi ei ddal. Pan oedd yn gwasanaethu Eglwys Maentwrog, yr oedd chwedlau annymunol yn cael eu lledaenu yn ei gylch; ac yr oedd yn mysg ei blwyfolion un hen Lanwr selog, penderfynol iawn yn ei ffordd, ac yr oedd yn gryn wrthwynebwr i'r archddiacon; ond ni ddywed traddodiad pa un ai o herwydd y chwedlau a daenid yn ei gylch, ai ynte o herwydd rhywbeth arall; modd bynag, penderfynodd gymeryd mantais ar y chwedlau hyn, i roddi achwyniad yn ei erbyn mewn llys Eglwysig. Pan ddeallodd yr archddiacon hyny, teimlodd fod ei amser yntau wedi dyfod, a chyfansoddodd bregeth y Sabbath ar eiriau y goruchwyliwr annghyfiawn:—"Mi a wn beth a wnaf, fel pan y'm bwrier allan o'r oruchwyliaeth," &c.; ac wedi traethu rhyw gymaint ar y testyn, trodd i edrych ar yr hen ŵr, yr hwn a eisteddai yn lled agos i'r pulpud (nid oedd ei elyniaeth at yr offeiriad yn ei rwystro i'r Eglwys), a dywedodd amrywiol weithiau, gan bwysleisio yn ddifrifol, a chyfeirio ato, "Mi a wn beth a wnaf." "Mi a wn beth a wnaf." "Mi a wn beth a wnaf." Aeth y goruchwyliwr annghyfiawn a'r bregeth ar unwaith o feddwl yr hen ŵr, a llanwyd y lle gan yr ymryson oedd rhyngddo ef â'r offeiriad, yr oedd ei holl natur ar unwaith yn fflam o nwydau drwg, ac atebodd y pregethwr yn uchel, "Beth a wnei di yr hen ——— a gwneyd dy waetha?" Erbyn hyn yr oedd yr archddiacon yn ddiogel, a'r hen ŵr yn y fagl. Yr oedd y bregeth wedi ateb ei dyben.

Heb fod yn mhell o gymydogaeth y Dyffryn yr hanodd Ellis Wynn, awdwr penigamp Bardd Cwsg. Gŵr hynod yn ei oes, a hono yn gyffredinol yn dra llygredig. Credai pawb mai gŵr da oedd Ellis Wynn. Ac yn ddiweddaf oll, o'r un gymydogaeth yr hanodd y Dr. William Owen Pughe. Nid rhaid dywedyd dim am dano ef, y mae ei Eiriadur wedi anfarwoli ei enw, fel y cofir am dano holl ddyddiau y ddaear.*

MODRYB LOWRI.

Yn hon oedd wedi ei geni bedair blynedd cyn blwyddyn y rhew mawr, ar yr hon flwyddyn y symudodd ei rhieni o'r Farch-ynys, sydd tua chwe' milldir o Ddolgellau, i Eithin-fynydd, yn ystlys ddwyreiniol Dyffryn Ardudwy. Cerddodd hithau yr holl ffordd, sef o wyth i ddeg milldir, o'r Farch-ynys dros Fwlch-y-rhiwgur i Eithin-fynydd, yn bedair blwydd oed. Croesodd lawer bryn, a phant, a goriwared, ar ei deutroed. Yr ydoedd o gyfansoddiad cryf, cafodd ei magu mewn llawnder yn gystled ag mewn llafur. Yr ydoedd yn ddynes dal a glandeg yn ei dydd. Prïododd rhwng pump a deg-ar-hugain oed (sef mewn adeg gymhwys), bu iddi bedair o ferched, tair o ba rai sydd eto yn fyw, yr oeddynt oll yn wragedd parchus, tegwedd, a threfnus. Bu iddi un mab hefyd, yr hwn sydd eto yn fyw ac iach, ac a fu yn bob cysur i'w fam tra y bu ar y ddaear; tynodd hyn fendithion nid ychydig am ei ben, yn ol yr addewid i'r rhai a anrhydeddant eu tad a'u mam, canys y mae yn llwyddiannus yn ei amgylchiadau tymhorol, yn barchus gan ei holl gymydogion, yn dda ei ddeall, yn gelfydd ei law, yn ddoeth ei gyngor—"heb absenu â'i dafod na gwneuthur drwg i'w, gymydog." Bu farw Modryb Lowri tua dwy flynedd ar hugain yn ol mewn henaint teg, ac yn llawn o ddyddiau. Yr oedd yn ei phedwaredd flwyddyn ar bymtheg a phedwar ugain pan y bu farw. Y mae ei mab a'i merched, y rhai a adawodd ar ol, yr ochr chwith i bedwar ugain, nid llawer llai eu blynyddoedd, a'u dodi yn nghyd, na dau ugain ar bymtheg; ac o ran pob ymddangosiad, gallant estyn eu dyddiau hyd yn gant—sef "os yr Arglwydd a'i myn."

Ond nid yw hyn oll ond rhagdraith i'r hyn sydd genym i'w ddywedyd am Modryb Lowri, yr hon oedd yn hynod gyflawn o synwyr *cyffredin*. Wrth hyn nid ydym yn deall cyfran gyffredin o synwyr, ond ei bod wedi ei chynysgaeddu yn helaeth â'r synwyr hwnw a elwir synwyr cyffredin. Nid oedd ei synwyr hi yn goethedig, nac yn ddyrchafedig, hyny yw, nid oedd wrth natur nac o ddygiad i fyny fel Hannah More, ond mi daerwn yn hyderus eu bod cyn gyflawned âg un ferch yn ei hoes o synwyr cyffredin—y synwyr hwnw sydd yn adwaen ei le—yn ei fesur ac yn ei bwyso ei hunan—yn canfod ei wallau a'i ddiffygion—mewn gair, y synwyr sydd fuddiol i bob peth ac i bob amcan yn y byd sydd yr awr hon, ac yn yr hwn a fydd. Nid yw talent heb synwyr cyffredin ond yn peryglu ei pherchen,

* O'r *Methodist*, Chwefror, 1855.

ac yn ei osod yn wawd i ynfydion. Ond am Modryb Lowri, ni chwarddodd neb erioed, hyd yn nod yn ei lewis, am ei phen hi; gwyddai pawb ei bod hi yn llawn llathen, ac yn un ŵns ar bymtheg trwm trwm i'r pwys. Gorfyddai i'r athrodwr a'r enllibwr gymeryd rhyw un arall yn destyn.

Ond fel nad ymddangoswn fel yn curo awyr, rhoddwn ger bron y darllenydd yr enghraifft hon o gallineb Modryb Lowri. Byddem yn yr arfer o ymweled â'r hen fam yn awr ac eilwaith. Tua blwyddyn, neu beth yn ychwaneg, cyn marw fy Modryb Lowri, ymwelsom â hi, ac wedi pasio y cyfarchiadau cyffredin, gofynasom, "Beth debygech chwi am y byd? y mae yn dda gen i gael eich barn am dano, oblegyd yr ydych yn cofio llawer am ei arferion er's pedwar ugain a deg o flynyddoedd. Y mae rhai yn taeru yn wyneb uchel ei fod yn waeth waeth er yr holl bregethu a chadw Ysgolion Sabbathol a phob moddion i'w wellhau. Ond pa beth, dybygech chwi, am hyn, canys yr ydych yn dyst llygad o'r hyn sydd, ac o'r hyn a fu?"

"Nis gwn yn iawn pa fodd i'ch hateb," meddai, "ond os da yr wy'i yn cofio, drwg iawn oedd y byd y pryd hwnw, sef pan oeddwn i yn enethig fechan. Nosweithiau llawen, canu efo'r tannau,

'Yr *interlude* aelodog
A'r cardiau dauwynebog,'

y twmpath chware, a chware tenis tô. Fel hyn y byddai yr ieuengctyd, a'r hen yn eistedd i edrych arnynt. Diwrnod canu a dawnsio oedd y Sul, pan gyntaf yr wyf fi yn ei gofio. Ac heblaw hyn, yr oedd pawb yr un fath: fel y dywed yr hen air, 'Nid oeddym oll ond moch o'r un wâl,' neu

'Adar o'r un lliw,
Yn hedeg i'r un lle.'

Nid oedd un cyfiawn i ragori ar ei gymydog."

"Ond, Modryb Lowri, beth meddwch chwi am 'stâd bresenol y byd, pa un ai gwell ai gwaeth na chynt?"

"Yn siwr, rhaid cyfaddef fod llawer o wylltineb ac afreolaeth ynddo eto, yn nghyda rhagfarn, llid, a chenfigen; ond y mae rhyw ddau fath o bobl yn ymddangos i mi yn bresenol, rhai yn ymdrechu i wellhau y byd ac i gadw ei ddrwg arferion i lawr. Y mae y 'rwan dda a drwg i'w gweled. Nid oedd pan oeddwn i yn ieuange ond *drwg a gwaeth*. Y mae bechgyn a genethod yn cael llawer o fanteision yn y dyddiau hyn ragor a geid gynt yn more fy oes i. Nid oedd y pryd hwnw nemawr ddim i atal llygredigaeth ond tylodi, cosbi lladron, a chrogi llofruddion."

Yn awr, ddarllenydd, beth ddywedi di am dystiolaeth Modryb Lowri? Nid oedd hi yn proffesu crefydd gyda'r un o'r sectau fel ei gelwir. Tybiaf y byddai yn cymuno yn y Llan, cyhyd âg y gallodd godi o'i chongl. Gwrandawodd lawer ar bregethu Crist gyda'r Methodistiaid, a darllenodd lawer ar ei Beibl, a chlywsom y byddai yn gweddio yn fynych. Ond methodd rhagfarn a'i dallu fel y rhan fwyaf o'i chydoeswyr. Yr oedd synwyr cyffredin yn fur iddi ar bob llaw, yr hwn hefyd a ddysgai iddi rodio canol llwybr barn. O mor werthfawr yw synwyr cyffredin i bawb a'i medd.

Nid yw synwyr cyffredin wedi ei ddarpar i gredu pob peth a glyw. Profa bob peth, a deil yr hyn sydd dda—yr hyn sydd resymol. Y mae synwyr cyffredin yn dysgu i bawb bwyso penau yn hytrach na'u cyfrif, gan farnu pethau wrth eu heffeithiau, a dwys ystyried eu holl ganlyniadau. Y mae yn ddigon a gwneyd i'r llygod chwerthin yn nhyllau yn y muriau wrth weled y mân 'ffeiriadon yn troi y gath yn yr haul i'r werin a'r cyffredin, gan hòni olyniad apostolaidd iddynt eu hunain, a bedydd adenedigaeth, yr hyn a ellir ei effeithio yn unig trwy eu dwylaw hwy: ond y mae synwyr cyffredin yn mhawb a'i medd yn dywedyd gyda dirmyg, "Diau mai *chwi* sydd *bobl*, a chyda chwi y bydd marw doethineb."

Nid yw holl rasau y Cristion ddim amgen na synwyr wedi ei sancteiddio gan yr hwn a anadlodd yn ein ffroenau anadl einioes naturiol, yr hwn hefyd a ddichon anadlu bywyd o ras i'n galluoedd rhesymol; ac os gras, gogoniant hefyd.

Gwel y darllenydd mor werthfawr yw mamau campus. Nid oedd ar brïod Modryb Lowri, hyd y gwyddys, na champ na rhemp. Modd bynag, mi debygwn, nad oedd ei bwysau yn dyfod yn agos i bwysau Modryb Lowri. Ond y mae ei hol hi ar ei theulu hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth: y maent yn gryfach, yn iachach, yn harddach, ac yn gallach na chyffredin, ac eto nis gwn a gyrhaeddodd un o honynt fesur a phwysau Modryb Lowri.*

GWERS AR RYDDID AC ANRHYDEDD O'R OES DDIWEDDAF I HON.

Fe ddywed diareb mai "Pa hwyaf y bydd dyn byw, mai mwyaf wêl, a mwyaf glyw." Daeth i'm clustiau inau yn ddiweddar ryw hanesyn am beth a ddygwyddodd tua phedwar ugain mlynedd yn ol, ac am ei fod yn cynwys gwersi buddiol i'r oes hon gosodaf ef ger bron y darllenydd. Daeth un Griffydd Evan o Uwchglan at Mr. Evan Fychan o Gorsygedol, ac a ddywedodd wrtho, "Y mae eich *tenant* sydd yn Mhenycerig (y ddau le gerllaw Harlech) wedi myned at y *Methodus*, ac nid oes dim daioni i'w ddysgwyl oddiwrtho mwyach; hwy a'i gwnaent cyn dyloted a llygoden eglwys, a pha beth a wna â thir nac â dim arall? Ceir gweled yn fuan na ddaw o hono, fel y dywedais, ond anhwylusdod." "Y mae yn ddrwg genyf glywed," ebai Mr. Fychan, "yr oedd Harri yn burion *tenant*." "Oedd o'r goreu," ebai Griffydd Evan, "ond y mae y cwbl drosodd er pan yr ymunodd â'r bobl yna, oblegyd ni wna bellach ddim ond crwydro a gwario ei arian; a chan na wna efe ddim â'i dyddyn, buaswn yn ddiolchgar am eich ewyllys da os gosodwch Benycerig i mi." "Wel," ebai Mr. Fychain, "nid hwyrach y gelli di ei gael, ond ni osodaf mohono i ti heddyw—caf weled Harri cyn bo hir, a chaf wybod pa fodd y mae pethau yn sefyll." Cyn hir anfonodd y gŵr boneddig at Harri i ddyweyd fod

* O'r "*Methodist*," Mawrth, 1856.

arno eiseiu ei weled—aeth yntau i Gorsygedol heb oedi dim, ond nid heb ofni fod rhyw ddrwg ar droed; ac wedi i'r meistr a'r *tenant* gyfarch i'w gilydd yn eu dull arferedig, torai Mr. Fychan ato a dywedai, "Y mae Griffydd Evan o Uwchglan, yn dyweyd wrthyf dy fod wedi myned at ryw bobl, ac na wnei di mwy na thrin tir na thalu am dano; a ydyw hyny yn bod?" "Nac ydyw, Syr; os caf ffafr yn eich golwg, a chael bod yn *denant* i chwi fel cynt, triniaf fel cynt, a thalaf am dano fel rhyw dyddynwr arall; ac os methaf, mi a droaf fy nghefn, ac a âf ymaith yn ddiddig." "Wel, o'r goreu Harri," meddai Mr. Fychan, "ti elli fod yn ddiofal na chaiff neb dy dyddyn tra y triniech di ef ac y talech am dano,—*cymer di dy ffordd dy hun i fyned i'r nefoedd.*" Ni welwn yn nrych hyn o hanes fod Mr. Fychan yn deall rhyddid crefyddol yn well na llawer o foneddigion Cymru yn y dyddiau hyn. Nid yw perchenogion tiroedd yn dinystrio cyfrifoldeb y tyddynwyr, ac nid yw cyfrifoldeb y meistr yn dinystrio cyfrifoldeb y gwas, na chyfrifoldeb y feistres yn diddymu cyfrifoldeb y wasanaethferch—i'w arglwydd ei hun y mae pob un yn sefyll neu yn syrthio.—Nid ydyw yr awdurdodau gwladol yn gyfrifol dros neb o'r deiliaid, fel ag i beri i'r deiliaid beidio a bod yn gyfrifol eu hunain;—y mae yn wir fod person y plwyf a phregethwr cynulleidfaol mewn cyfrifoldeb pwysig, ond nid yw y cyfrifoldeb hwn yn lleihau dim ar gyfrifoldeb y plwyfolion a'r gynulleidfa, ac nid yw dyledswydd y naill yn gynwysedig yn nghyfyngu rhyddid y llall. Teg yw i bawb gael ei ffordd ei hun i fyned i'r nefoedd; felly y caniatäai Mr. Fychan—caniatäed eraill yr un peth ar ei ol, ac edryched pawb pa fodd y defnyddia ei ryddid.

Clywais er ys tro maith yn ol hanesyn arall am Mr. Evan Fychan, yr hwn ydoedd yn dangos ei fod o flaen ei oes mewn rhyddfrydigrwydd ac anrhydedd, ac nid o flaen ei oes ei hun yn unig, ond o flaen hon hefyd ysywaeth. Yr oedd ystâd Bodidrys wedi dyfod iddo ar ol ei fam: aeth yntau rai dyddiau cyn amser talu rhent i'r hen balas. Deallodd un o'i denantiaid fod y meistr newydd wedi dyfod i Fodidrys, a chan ei fod yn byw yn gyfagos i'r palas, aeth y prydnawn y daethai y gŵr bonheddig i mewn i gyfarch gwell iddo; gan ddatgan ei ddymuniad fod iddo gael hir oes a hir iechyd i fwynhau yr etifeddiaeth a ddaethai mor ddiweddar i'w ran. Diolchodd Mr Fychan am ei ewyllys da, a dechreuodd ei holi am lwyddiant y gymydogaeth, ac yn enwedig ei ddeiliaid ef ei hun. Atebai ei *denant*, "Mae pawb ar y cyfan yn llwyddiannus; y mae diwygiad yn nhrin y tir, a mwy o galchio nag a fyddai gynt, a llawer clwt yn cael ei glirio, diwreiddir y cyll, y drain, a'r mieri, fel y gellwch weled, ond myned oddiamgylch." "Y mae yn dda genyf glywed," ebai Mr. Fychan, "oblegyd y mae yn hyfryd gweled y ddaear yn cael ymgeledd gan ddyn, gan ei bod yn rhoi cymaint o ymgeledd i ddyn—megys ag y mae y plant a fo yn gweini ymgeledd i'w mam oedranus heb golli eu gwobr, eithr yn wastad hwy a fendithir; felly y rhai a lafuriant eu tir a ddiwellir â bara, ac ni chardotant hwy yn amser y gauaf, pan nad oes dim i'w gael." "Ond," ebai y ffarmwr, "y mae yma un dynyn gwan o denant i chwi, a chymydog i minau. Y mae hwnw yn wahanol iawn i'r tenantiaid cyffredin, y mae yn llwm a diafael, nid oes ganddo nag ewinedd na dannedd fel y cyffredin o

ddynion—y mae y tir yn tyfu yn ddrain a mieri, ac y mae y *stock* heb fod o lawer yn llawn; ac nid oes ganddo arian fel y gallo wneyd tegwch â'r tir; a phe byddai ganddo arian, ni byddai yn debyg o wneuthur y goreu o honynt." Gwrandawai y boneddwr yn bur ddifrifol ar y 'stori, a dywedai, "Y mae yn ddrwg iawn genyf glywed—yn ddrwg dros ben genyf.," "Ond," meddai y ffarmwr, "y mae tyddyn y dyn hwn yn gyfleus i mi, gan ei fod yn derfyn yn nherfyn â'r tyddyn lle yr wyf fi yn byw, teimlwn yn dra diolchgar i chwi, syr, am eich ewyllys da, os byddwch cystal a'i osod i mi, gan ei bod mor amlwg na wna y *tenant* presenol ddefnydd o hono." "Y mae yn ddrwg genyf dros y dyn gwan," ebai Mr. Fychan, "ond yn gymaint na wna fe ddim o hono, ond gadael iddo dyfu yn ddrain a mieri, ti a'i cei, gwna y goreu o hono." Aeth y ffarmwr adref, ac yn lled foreu dranoeth daeth y gymydogaeth yn hysbys fod tyddyn y dyn gwan wedi ei osod i'w gymydog, a theimlai aml un yn bryderus rhag y byddai llawer o'r fath bethau yn dygwydd. Modd bynag, daeth i glustiau y dyn, druan, fod Mr. Fychan wedi gosod ei dyddyn i'w gymydog nesaf, a than grynu ac ofni aeth at ei feistr tir, a dywedodd "ei fod wedi clywed ei fod wedi gosod y tyddyn lle yr oedd ef yn byw i'w gymydog." "Ti a glywaist y gwir," ebai y meistr, "yr wyf wedi ei osod. Onid oedd dy gymydog yn dyweyd nad oeddit yn trin mohono, ond yn gadael iddo dyfu yn anialwch, ac nad oedd genyt ddim modd i'w drin, ac nad oedd genyt ddigon o anifeiliaid arno, a pha beth a wnei di â thir felly?" A'r dyn, truan a llwfr, a atebodd, "Nid yw fy *stock* ond ysgafn, ac y mae fy arian yn brin hefyd; ond ar yr un pryd, yr wyf wedi talu am dano hyd yma, buaswn yn ymdrechu i dalu eto pe cawswn y ffafr o gael aros ynddo." "Wel," ebai Mr. Fychan, "y mae yn rhy ddiweddar bellach, yr wyf wedi ei osod, ac ni byddaf un amser yn tori fy ngair." Ar hyn, torodd y gŵr i wylo yn hidl, a dywedodd nas gwyddai pa beth i'w wneyd, fod ganddo lawer o blant, a'r rhai hyny heb eu magu, ac nad oedd ond dyn egwan i enill bara iddynt wrth weithio; yr oedd y dagrau yn treiglo ar hyd ei fochau llwydion i'r llawr wrth ddywedyd hyn. Erbyn hyn, yr oedd Mr. Fychan yn teimlo, a dywedai wrtho, "Paid a thori dy galon, mi osoda ei dir yntau i tithau; fe ddywed dy gymydog ei fod ef wedi trin ei dyddyn yn bur dda, trinia dithau ef goreu y galloch ti, fel y gallych fagu dy blant bach yn symol cysurus." Felly fe aeth hwn adref, ac a ddywedodd ei hanes, sef ei fod ef a'i gymydog yn cael ffeirio dau dyddyn. "Y mae fy meistr newydd wedi gosod fy nhyddyn i i'm cymydog, a thyddyn fy nghymydog i minau." Nid hir y bu y trachwantus heb glywed fod ei dyddyn wedi ei osod i'w gymydog gwan; ac ni feddyliodd naws am gymeryd ei dyddyn ei hunan. Ond fel y ci a'r asgwrn cig yn y chwedl, yr hwn, wrth weled ei dremwedd yn y dŵr, a ollyngodd yr asgwrn oedd mewn gafael, er mwyn cael gafael ar y cysgod oedd yn y dwfr; felly yntau, wrth drachwantu tyddyn ei gymydog, fe gollodd ei dyddyn ei hunan. Ond pa fodd bynag, aeth at Mr. Fychan a gofynodd ai gwir oedd ei fod wedi gosod ei dyddyn ef i'w gymydog? "Ie," ebai Mr. Fychan, "digon gwir, *oni osodais ei dyddyn yntau i tithau?* Pa fath ddyn oeddit ti pan gymerit dŷ a thyddyn dyn gwan uwch ei ben, a'i dwr plant heb eu magu; dyna i ti le *ffres*, ceibia a chornbridda faint a

fynech arno, gobeithio y gall pob un o honoch fyw, a byw yn well nag o'r blaen."—Yr oedd y boneddwr hwn mor llawn o anrhydedd ag ydoedd o synwyr cyffredin, a diamheu genyf ei fod yn llawn iawn o bob un o'r ddau —y mae llawer chwedl ar hyd ac ar led y gymydogaeth lle y cartrefai yn profi hyny. Y mae yr hanesyn uchod yn dangos na chai efe ddim llawer o drafferth gyda thyddynwyr a fyddent yn ceisio rhoi eu cyrn o dan rai eraill. Pwy byth a aethai ato ar y fath neges wedi clywed am y ddau denant hyn? Y mae rhai o'i fath eto yn bod yn Nghymru; gosodant eu tiroedd ar delerau rhesymol, ac os bydd y tenant yn ymadael, nid rhaid iddo adael ei feddianau ar ei ol; os bydd wedi gwneyd gwir welliant mewn sychu y tir, gwneyd magwyrydd, calchio, neu ryw gostau ereill, er gwir wellhad y lle, prisir y gwelliant gan wŷr parchus, un dros y gŵr bonheddig, a'r llall dros y tenant; ond deallaf nad llawer sydd felly yn Ngogledd Cymru; yr wyf yn ofni fod rhai yn meddwl am ba beth bynag sydd gan y ffarmwr, mai hwy a'i pïau, fel pe buasai yr anifeiliaid, yn wartheg a defaid, y ceffylau a'r moch, y naill fel y llall, yn eiddo *the Lord of the Manor*. Beth bynag yw dawn ac egni y ffarmwr a'i wraig a'i blant, eiddo y meistr yn ol ei feddwl ef ydynt oll. Os edrych y tenant rywfaint yn fwy boneddigaidd, ac os bydd ei blant wedi cael tipyn gwell dygiad i fyny na chyffredin, bydd perchenog y tir yn tybied mai o'i boced ef mewn rhyw fodd yr aeth y costau i gyd. Ond pa faint yw llôg y stock, a pha faint yw gwerth gofal, dawn, a diwydrwydd y ffarmwr a'i deulu? Ai nid ydyw yn iawn iddo gael llôg am ei arian, a thâl am ei lafur fel dyn arall? Paham y byddai raid i ffarmwr fod mor ochelgar rhag dangos yr un arwydd ei fod yn cyfoethogi ag ydoedd Gideon gynt rhag i'r Midianiaid wybod pa le yr oedd ei wenith ef? Gwelais lawer merch ieuangc yn medru chware y *piano*, ond anfynych y gwelais ferch i ffarmwr felly. Os gall ei rhieni fforddio rhoddi addysg felly iddi, paham y byddai raid iddynt hwy mwy na siopwr neu ryw fasnachwr arall wneuthur hyn? Ai merch y ffarmwr yn unig sydd i gael danod iddi ei *pharasol*, a hyny gan y meistr tir sydd wedi derbyn pob ceiniog o'i rent gan ei rhieni, a hwnw yn llawn cymaint ag ydyw y tir werth? Ond wedi i'r ffarmwr wellhau ei dyddyn trwy draul a llafur diflino, a bod y ffarm yn wirioneddol well, ac weithiau ei yru ymaith heb neb yn gwybod paham, gan adael llawer o ffrwyth ei lafur ar ol i'r sawl ni lafuriodd wrtho—gwybydded yr arglwyddi hyn fod Arglwydd y tenantiaid a hwythau yn y nefoedd, ac nad oes derbyn wyneb ger ei fron ef, ac na ddaw i ganlyn neb i'r byd mawr ond ei garacter, sef y modd yr ymddygodd yn y byd hwn,—bydd y brenin yno heb ei goron—y boneddwr heb ei deitl—yr esgob heb ei feitr, a'r holl swyddwyr heb eu swyddau—ond neb heb ei garacter, bydded dda neu ddrwg*.

* O'r "*Methodist*," Mawrth, 1856.

PENNOD VI.

Mr. HUMPHREYS A DIRWEST.

Cyfiawnder â choffadwriaeth Mr. Humphreys ydyw gosod ei enw yn un o'r rhai blaenaf ar *list* cedyrn dirwest yn Nghymru. Yr oedd wedi arfer a byw o'i ieuengctyd uwchlaw gwasanaethu chwantau, nac unrhyw flysiau. Dywedodd gwraig gyfrifol wrthym ei bod yn cofio Mr. Humphreys yn galw yn eu tŷ hwy, pan nad oedd ond dyn lled ieuangc, ac iddynt hwythau, yn ol arfer y dyddiau hyny, estyn gwydriad o win ato, ac iddo yntau wrthod ei gymeryd. "Cymerwch ef, fe wna les i chwi," meddent hwythau. Ond atebodd yn gryf a phenderfynol, "Nis cymeraf ef; nid am nad allwn ei yfed, ond nis gwnaf *rhag ofn* i mi fyn'd yn *ffond* o hono." Yr oedd hyn flynyddoedd cyn bod dirwest yn y ffurf o gymdeithas. Pan sefydlwyd y Gymdeithas Ddirwestol, daeth Mr. Humphreys allan ar unwaith yn bleidiwr gwresog iddi, a pharhaodd i'w phleidio hyd ddiwedd ei oes. Wrth edrych dros yr hen *Ddirwestydd*, a misolion eraill lle y cawn hanes Cymanfaoedd a Gwyliau Dirwestol, y mae enw y Parch. Richard Humphreys o'r Dyffryn, i'w ganfod mor aml ag enw neb o hen amddiffynwyr yr achos hwn. Teithiodd lawer trwy Dde a Gogledd Cymru i areithio ar ddirwest, a byddai ei ymweliadau yn dra llwyddianus bob amser. Digwyddodd iddo, pan ar daith yn Llandeilo-fawr, gyda chyfaill ieuangc o'i gymydogaeth, fyned i wrthdarawiad yn nhŷ'r Capel â hen ŵr, oedd eto heb ei enill i'r ffydd ddirwestol, a elwid gan y cymydogion yr "hen brophwyd." Dadleuai yr hen frawd yn wresog dros ragoriaeth y ddiod gref; ac wrth ei glywed yn siarad mor uchel o'i phlaid, dywedodd Mr. Humphreys, "Ni fynwn i er deg punt feddwl yr un fath a chwi, hen frawd, am dani." "Na fynech mi wn," atebai yntau, "a chwithau yn meddwl gwneyd can' punt wrth ddyweyd yn ei herbyn." Ar hyn chwarddodd Mr. Humphreys yn galonog wrth glywed

syniad masnachol yr "hen brophwyd," a rhoddodd haner coron iddo am ei atebiad parod.

Byddai Mr. Humphreys hefyd yn cael ei alw i ddadleu hawliau yr achos dirwestol yn y Cymanfaoedd Chwarterol a'r Cyfarfodydd Misol; a mynych y gofynid iddo ddyweyd gair, cyn neu wedi pregethu, yn y gwahanol deithiau Sabbathol y byddai yn myned iddynt. Ac nid yw yn anhawdd rhoddi rheswm am hyn. Yn un peth, gwyddai pawb y byddai Mr. Humphreys yn barod ar rybydd byr, neu heb rybydd o gwbl, i siarad ar yr achos. Hefyd, gwyddid, er ei fod yn ddirwestwr da, nad oedd yn ddirwestwr penboeth, ac am hyny nad oedd perygl iddo archolli teimladau neb o'i wrandawyr. Yr oedd yn dysgu trwy "fwyneidd-dra doethineb," ac felly yn gallu myned rhwng dynion a'u harferion pechadurus heb friwio eu teimladau. Rheswm arall ydoedd, fod ganddo gyflawnder o chwedleuon difyrus i egluro a chadarnhau ei osodiadau, fel ag y byddai pawb wrth eu bodd tra y byddai efe yn llefaru; ac er na lwyddodd i gael pawb fu yn gwrando arno oddiwrth eu harferion ffol, ni byddai un amser yn methu enill eu barn a'u cydwybod, a theimlent mai synwyr ynddynt fuasai gadael eu harferion drygionus.

Yr ydym wedi derbyn lluaws mawr o sylwadau a draddodwyd ganddo o bryd i bryd, ac ni a ddodwn amryw o honynt i lawr, fel y gallo y darllenydd weled o ba gyfeiriadau y byddai y doethawr o'r Dyffryn yn edrych ar waith dynion yn ymwneyd â'r diodydd meddwol. Dywedai y diweddar Barch. John Jones, Tremadog, yn un o Gymdeithasfaoedd Pwllhelli, "Ein harferiad er's blynyddoedd bellach ydyw cael rhyw frodyr i ddyweyd gair ar ddirwest ar yr adeg hon (sef ar ol pregethau y prydnawn cyntaf), ac nid ydym wedi annghofio dirwest eleni; ac yr ydym wedi meddwl i frodyr ddyweyd am ugain mynyd bob un, a chan fod yr amser eisoes wedi rhedeg yn mhell, y mae arnom eisieu i'ch anerch rai a fedr fyned at y pwnc heb fawr o ragymadrodd; ac i'r pwrpas yna," meddai, ar *dop* ei lais clir, "yr ydym yn galw ar Mr. Richard Humphreys o'r Dyffryn." Gyda fod y gair olaf dros wefusau Mr. John Jones, yr oedd Mr. Humphreys ar ei draed yn tynu ei het—yn dyfod ymlaen a het fawr yn ei law—yn ei gosod o'i flaen, ac meddai—

"Wel heb ragymadrodd ynte. Yr wyf fi yn ddirwetwr

bellach, er's saith mlynedd, ac ni bu yn edifar genyf am saith mynyd. Mi ymbriodais i â'r Gymdeithas Ddirwestol ar y cyntaf, fel y darfu i mi â'r wraig acw; mi gymerais y naill a'r llall 'er gwell ac er gwaeth, er tlotach ac er cyfoethocach.' Ond erbyn i mi weled, nid oedd gwaeth o honi hi gyda'r naill mwy na'r llall. Ac wrth weled peth mor dda ydyw dirwest, yr wyf fi bellach wedi ei 'dyweddio hi â mi fy hun yn dragywydd, mewn cyfiawnder, mewn barn, ac mewn ffyddlondeb.' Ac mi rown i gynghor i chwithau i wneyd yr un fath a mi, yn hyn, beth bynag. A hyny yn un peth, trwy i chwi ddyfod yn ddirwestwyr, chwi fyddwch ar *dir safe* rhag cael eich niweidio gan y diodydd meddwol. Peth pwysig iawn i ddyn ydyw bod yn *safe*, ac y mae perygl yn ddigon siwr i chwi, hyd yn nod oddiwrth arferion cymedrol o honynt. Mae y rhai sydd yn arfer llawer â hi yn teimlo fod ynddi berygl. Yr oedd yn ein cymydogaeth ni acw un ag oedd yn bur *ffond* o yfed y diodydd meddwol; byddem yn arfer ei alw F'ewythr Hugh Rhisiard Evan. Un tro yr oedd wedi bod yn yfed trwy y dydd, ac wedi iddi fyned yn nos, cymhellwyd myned i'w ddanfon adref; ond ni fynai arweinydd ar gyfrif yn y byd. Yr oedd y rhan gyntaf o'r ffordd yn un go dda, ond yr oedd gallt serth yn niwedd y daith. Pan ddaeth i waelod yr allt fe deimlodd nad oedd yn ddigon *safe:* a dyma lle yr oedd yn ceisio *sadio* ei hun, gan ddweyd wrtho ei hunan, 'Wel *voyage*, i'r allt yrwan.' Wedi un ac ail gynyg, a dyweyd wrtho ei hunan o hyd, 'Wel *voyage* i'r allt yrwan,' dyna fo yn cychwyn, a thros y llwybr, ac i lawr a fo; ond cyn iddo *rowlio* i'r afon, yr oedd rhywun wedi bod yno er's blynyddoedd yn planu onen, (ond nid ar ei gyfer ef bid siwr) a'r gwlaw wedi ei maethu, ac erbyn hyn yr oedd yn bren mawr, yr hon a'i daliodd ef yn *safe*. Oni buasai am dani hi, buasai wedi *rowlio* i'r afon a boddi yn ddigon tebyg. Ydych chwi yn gweled, fy mhobl i, nad oedd ganddo ef ei hunan yr un syniad *ei fod yn safe*, wrth gychwyn i'r allt, pan oedd yn pryderu cymaint am y '*voyage* i'r allt;' a chwaneg o lawer, nid oedd efe yn *safe*, o achos fe gwympodd dros y llwybr, ac nid dim byd ynddo ef, druan, a'i cadwodd rhag syrthio i'r afon a boddi. Yn wir, ni raid i mi ond eich adgofio chwithau, pobl dda Lleyn ac Eifionydd yma, y mae aml un o honoch chwithau wedi gwirio hyn lawer

gwaith, wrth fyned o heiriau a marchnadoedd Pwllheli yma. Cymerwch gynghor genyf fi: gadewch lonydd iddi tra y byddoch yn y Gymanfa beth bynag, ac efallai y bydd i chwi trwy hyny allu gadael llonydd iddi am byth.

'Ni wn i paham y mae eisieu perswadio cymaint arnoch i adael y diodydd meddwol. Y mae rhai o honoch yn ceisio dyfod a rhyw bethau ydych yn ei alw yn rhesymau dros eu harfer yn gymedrol: ond ni welais i lawer o rym yn rhesymau neb drostynt; ac o'm rhan i, haws fyddai genyf o lawer gredu mai ffond o honynt ydych. Ond nid hawdd genych addef hyny. Gwirionedd ydyw hwn y rhaid ei wasgu allan o honoch. Yr oedd yn ein gwlad ni acw ŵr a gwraig yn byw yn weddol gysurus. Rhyw ddiwrnod fe darawodd cymydog wrth y gŵr, ac fe ddywedodd wrtho, 'Gwraig go sal a gefaist ti, hwn a hwn.' 'Be' sydd arni hi,' meddai y gŵr. 'Wel,' meddai y cymydog, 'y mae hi yn aml iawn ar hyd tai y cymydogion.' 'O felly,' ebai y gŵr. 'Y mae hi yn ddiog iawn hefyd.' 'O felly,' meddai y gŵr drachefn. 'Yn wir y mae hi yn un fudr iawn.' 'Wel,' meddai y gŵr, 'dywed di a fynoch di am Betty Rhys, y mae yn dda gen i hi.' Yr oedd y cymydog yn dyweyd y gwir bob gair am dani, mi hadwaenwn i hi, ac un fudr ddiddaioni oedd hi. Mi fu y cymydog yn bur hir cyn cael gan y gŵr i ddyweyd fod yn dda ganddo Betty Rhys; ond wedi iddo ddyweyd, fe welodd y cymydog mai y peth goreu iddo ef, oedd rhoddi ei gerdd yn ei gôd, a gadael rhwng y ddau a'u gilydd. Ond rhywfodd nis gallwn ni yn ein byw adael llonydd i chwi, er ein bod yn gwybod fod yn dda genych am y ddiod feddwol, oblegyd y mae y drygau sydd yn perthyn iddi yn llawer gwaeth, fy mhobol i, na'r drygau oedd y cymydog yn eu rhoi yn erbyn Betty Rhys. Gadewch hwy; ac ond i chwi eu gadael, chwi gewch fanteision lawer iawn i chwi eich hunain ac i'ch teuluoedd. Byddwch fyw yn hwy ond i chwi eu gadael. Fe ellir dyweyd am 'Ddirwest,' 'Y mae hir hoedl yn ei llaw ddeheu hi, ac yn ei llaw aswy y mae cyfoeth a gogoniant.' Fe fyddai eich cael i gredu hyn yn rhywbeth;—o'm rhan i, yr wyf yn ei gredu yn fy nghalon er's blynyddoedd. Yn wir, yr oedd hen berson yn byw tua'r Bala acw, wedi dyfod i ddeall hyn, flynyddoedd lawer cyn bod son am y 'Gymdeithas Ddirwestol.' Fe aeth hen gyfaill iddo i edrych am dano, ac fe aeth y per-

son i gwyno mai degwm bychan iawn oedd yn perthyn i'r plwyf hwnw. 'Pa faint ydyw ?' gofynai y cyfaill. 'Nid yw ond hyn a hyn,' ebai y person. 'O, y mae hyny yn o lew, y mae genych gyda hyny dipyn i'w dderbyn oddiwrth briodi a chladdu,' atebai y cyfaill. 'Yn wir,' meddai yntau yn ol, 'nid oes yma neb byth yn priodi, ac ychydig iawn sydd yn marw yma hefyd: ni welsoch erioed lai.' 'Wel y mae hyn yn beth rhyfedd iawn; y mae marw yn mhobman; beth sy arnynt na farwent hwy yma ?' ychwanegai y cyfaill. 'Ond yfed dŵr oddiar y clai glas (neu fel y gelwch chwi ef yn Lleyn yma, marl glas) y maent.' Yr oedd y gŵr parchedig wedi deall y rheswm. Ewch chwithau a gwnewch yr un modd." * * * *

Dywedai unwaith yn iaith y gwrthddirwestwr, "Y mae genych lawer o swn gyda 'Dirwest;' ond nid yw fawr o beth wedi y cyfan." "Nac ydyw, o ran hyny," atebai yntau, "ond y mae yn rhywbeth i ni y dirwestwyr yma, er hyny. Er's ychydig amser yn ol, aeth tŷ ar dân heb fod yn mhell, a digwyddodd fod yno deiliwr yn gweithio; aeth yn rhy boeth arno, a neidiodd i lawr o ben y bwrdd ac allan ag ef. Ar ol myned allan, tarawodd ei law ar ben ei glun a dywedai, 'Ni buaswn yn hitio llawer pe cawswn fy arfau allan.' Pa beth, tybed, oedd ganddo ar ol? Siawns nad oedd ei nodwydd yn ei lawes, a'i wnïadur ar ben ei fys, y *scissors* yn ei logell wrth gychwyn; odid nad oedd ei esgidiau wrth droed y bwrdd; am yr haiarn *pressio* ni buasai hwnw ddim gwaeth ond gadael iddo oeri, ond hwyrach i'r *lap-wood* fyned ar dân, ac er nad oedd hono o fawr werth, yr oedd yn rhywbeth i'r teiliwr."

Dywedai fod siawns dda gan ferched ieuainge i enill dynion i fod yn ddirwestwyr. "Yr wyf fi yn siwr," meddai, "pe bai rhai o honoch chwi yn arfer meddwi, y dywedai y llangciau na fynent hwy yr un ddynes feddw yn fam i'w plant. *Returniwch* y *compliment*, a dywedwch yn benderfynol na fynwch chwithau yr un dyn meddw yn dad i'ch plant."

Arferai ddyweyd fod dyn wrth yfed yn iselhau ei hun yn fawr, ac nad ellid ymddiried i'w air pan o dan effeithiau y diodydd meddwol. Fel y llygoden hono oedd wedi syrthio i'r *breci*. Wedi iddi ddeall fod pob gobaith am dani wedi darfod, dywedai y lygoden wrth gath oedd yn sefyll yn ymyl y badell, "Os gwnei fy nghodi i fyny o'r fan hon, ti

a'm cei." Estynodd y gath ei phawen a chododd hi i fyny. Yna dechreuodd chwareu â hi, fel y gwna cathod. Ond meddai y lygoden, "Gad i mi ymysgwyd dipyn, yr wyf yn wlyb iawn." Gollyngodd y gath hi, ac yr oedd hithau yn ymysgwyd ei goreu oddiwrth y *breci*, ac wrth ymysgwyd canfu dwll yn y pared, a neidiodd iddo. "Beth y gwnaethost fel yna?" gofynai y gath, "oni ddywedaist y cawn i di ond i mi dy godi o'r *breci?*" "Do, mi ddywedais," ebe y lygoden, "ond yn fy niod yr oeddwn y pryd hwnw." Felly nid oes coel ar neb yn ei ddiod, mwy nag ar y lygoden yn y *breci.*

I ddangos fel y byddai y diodydd meddwol yn hurtio meddyliau eu hyfwyr, adroddai yr hanesyn canlynol:— "Darllenais hanes am dair boneddiges wedi myned i *ball* yn Edinburgh, ac yfodd y tair yn rhy uchel. Wrth ddychwelyd adref ar hyd un o'r heolydd, ar ochr yr hon yr oedd eglwys a chlochdy uchel arni: gan fod y lleuad ar y pryd yn tywynu, yr oedd cysgod y clochdy ar draws yr heol, a dychrynwyd y boneddigesau yn fawr, gan iddynt dybied mai afon oedd yno. Dyna lle y bu y tair yn synfyfyrio ar y lan, ac yn methu gwybod beth a wnaent. Ond o'r diwedd, fe ddywedodd un o honynt, 'mi fentraf fi drwodd yn gyntaf.' Tynodd am ei thraed, ac aeth o gam i gam, gan ofni bob cam a roddai gael ei hunan dros ei phen. Ond o'r diwedd cafodd y lan, a dywedai, '*Thank God!*' Ac yna gwaeddai ar ei chyfeillesau, '*Come my friends, I am all safe.*' Onid oedd yn ddiraddiad mawr ar y boneddigesau hyn eu gweled yn tynu am eu traed i groesi cysgod y clochdy oedd yn gorwedd ar draws yr heol?"

Mewn atebiad i waith rhai yn dyweyd fod llawer yn gwneyd crefydd o ddirwest, dywedai, "Nid ydym yn dyweyd fod dirwest yn grefydd, ond dywedwn hyn am dani, y mae yn fantais fawr i grefydd; ac y mae y Duw mawr yn gadael i ni yspïo ein mantais; ac yr ydym yn arfer gwneyd hyny gyda phethau eraill. Ni welsoch chwi neb erioed yn gwneyd cais i fyned ar gefn ei geffyl yr ochr isaf iddo, ond cymer pawb fantais ar yr ochr uchaf iddo. Byddwch chwithau synwyrol, a chymerwch fantais ar ddirwest i fyw yn grefyddol."

Anogai y dirwestwyr rhag cymeryd eu hudo gan weniaith y tafarnwyr. "Cofiwch," meddai, "ddameg y llwynog a'r frân. Yr oedd y frân wedi d'od o hyd i gŷn

go lew o gaws, ac aeth i ben coeden gydag ef. Yr oedd y llwynog wedi gweled y caws, ac yn chwenych yn fawr cael gafael arno; ond, yn anffodus i madyn, nis gallai fyned i ben y goeden; felly yr oedd yn ymddangos yn lled dywyll arno am y caws. Ond daeth cynllun i ben y llwynog, a hrwy hyny sicrhawyd y caws yn bur ddidrafferth. Eisteddodd wrth fôn y goeden, a dechreuodd ganmol y frân: dywedai mai hi oedd yr aderyn harddaf yn y goedwig,—yn ddu loyw landeg o'i phen i'w thraed, ac nad oedd ef yn amheu, pe buasai yn ymwadu ychydig â hi ei hun, na buasai yn canu mor beraidd a'r un o'r adar. Y frân, druan, ar hyn a ddechreuodd ymchwyddo, a gwneyd egni i ganu: ond wrth iddi agor ei phîg, syrthiodd y caws i safn y llwynog, a chafodd y frân, druan, ganu a dawnsio fel y mynai wedi iddo ef gael y caws. Felly chwithau, fy mhobl i, fe ddywed y tafarnwyr balch yma wrthych, 'Ni buasai raid i chwi lwyrymwrthod, ni fyddwch chwi byth yn yfed gormod; ac yr ydym yn eich gweled yn rhoddi anfri go lew arnoch eich hunain, wrth ymrwymo i'r fath gaethiwed, a chysylltu eich hunain â dosbarth o ddynion nas gallant gymeryd gofal o honynt eu hunain.' Tendiwch chwi hwy, fy mhobl i; y gwirionedd yw, am eich caws chwi y maent yn chwareu."

Anogai ieuengctyd i beidio bod yn mysg y rhai sydd yn meddwi ar wîn, rhag tynu arnynt eu hunain yr un gwaradwydd. Ac er argraffu hyn ar eu meddyliau, dywedai, "Yr oedd ffermwr yn y pen arall i'r sir, yn cael ei boeni yn fawr gan adar oedd yn bwyta ei ŷd, ac un diwrnod saethodd i'w canol, ac wrth edrych y celaneddau, canfu yn eu canol Robin Goch yn gorph marw. 'Wel, Robin, Robin,' meddai, 'nid oeddwn yn meddwl dy ladd di, ond nid oedd achos i ti fod yn eu plith hwy.'"

Dywedir fod llawer o bethau annoeth yn cael eu dyweyd gan rai wrth areithio ar ddirwest, ac er eu bod yn wir, nid yw pob gwir yn briodol i'w adrodd bob amser; ac i egluro hyn dywedai:—"Yr oedd brawd a chwaer yn cydfyw unwaith, a drwg iawn y cytunent â'u gilydd. Yn mhen amser bu y chwaer farw; ac arfer y pryd hwnw oedd hoelio yr arch ar ol rhoi y corph ynddo; a'r brawd, wrth glywed y *joiner* yn hoelio, a ddywedai, 'Hyna, hoeliwch,—da iawn—hoelen eto; gwnaeth lawer o boen i mi erioed.' Yr oedd hyny yn wir, ond nid gwir i'w ddyweyd y pryd hyny ydoedd."

"Nid oes arnoch fwy o eisieu y diodydd meddwol, mwy nag sydd ar geiliogwydd eisieu *umbrella*."

Cwynai unwaith am fod mor anhawdd cael gan ddynion gredu am y diodydd meddwol yn wahanol i'r hyn oeddynt wedi arfer gredu am danynt; ac i egluro hyn, adroddodd am hen ŵr oedd yn masnachu mewn hosanau. Byddai yn cymeryd y baich hosanau ar ei gefn ei hun, ac yna fe âi yntau ar gefn y mul; ac nid allai neb ei berswadio nad efe oedd yn cario yr hosanau, a'r mul yn ei gario yntau. Ond pe buasai yr hen ŵr yn deall, y mul, druan, oedd yn cario y ddau; ac esmwythach o lawer iddo ef fuasai iddo roddi yr hosanau oddiar ei gefn ei hunan, ac ni buasai ond yr un peth i'r mul.

"Mae rhai, wrth weled ychydig o'r rhai a fu yn ddirwestwyr wedi troi yn ol at eu chwantau, yn dyweyd fod pawb wedi myned, a bod dirwest wedi darfod am dani. Y maent yn debyg i ryw hen wraig oedd yn y Dyffryn acw yn achwyn ar y barcutan; dywedai ei bod wedi dwyn ei holl gywion bach ond saith, a naw oedd eu nifer yn y dechreu. Chwareu teg i'r barcutan, nid oedd wedi cymeryd ond dau allan o naw."

"Gadewch y diodydd meddwol yma, fy mhobol i, oblegyd y maent yn llawer rhy ddrudion. Y maent yn rhy ddrudion o ran eu defnyddiau—o ran yr amser a gymerir i'w hyfed—ac o ran eu heffeithiau yn y byd hwn, a'r hwn a ddaw."

Byddai yn bur hawdd gan Mr. Humphreys pan yn areithio ar ddirwest ddyweyd gair yn erbyn y *Tobacco* a'r *Snuff*. Ond ni byddai yn hyn yn myned mor eithafol a rhai o'i frodyr. Byddai yn arfer dyweyd "Mai tri o blant annghyfreithlon y mae natur yn ei fagu, sef Cwrw, *Tobacco*, a *Snuff*; ac fe wyr pawb mai pethau pur ddrudion i'w cadw ydyw plant felly."

Byddai yn dra gochelgar wrth gynghori y bobl ieuainge i beidio ymwneyd âg ef, rhag archolli ei frodyr oedd wedi ffurfio yr arferiad.

Gofynodd blaenor parchus iddo unwaith, mewn Cyfarfod Misol, i ddyweyd gair yn erbyn *Tobacco*. Teimlai yntau yn anhawdd ganddo wneyd, gan fod cymaint o'i frodyr oedd yn bresenol yn ei arfer; a chyfarfu â chais y blaenor trwy ddyweyd, "Darllenais yn hanes *campaign* Duke of Wellington yn Yspaen, fod y ddwy fyddin yn gwersyllu heb

fod ymhell oddiwrth eu gilydd, ac yr oedd ffynnon o ddwfr wedi ei darganfod rhwng y ddau wersyll, ond ei bod ychydig yn nes at y Ffrangcod nag at y Saeson; a phan y byddai milwyr y wlad hon yn myned i gyrchu dwfr iddi, byddai y gelyn yn cymeryd mantais arnynt, ac yn saethu llawer o honynt. Yr oedd colli ei ddynion fel hyn yn flinder mawr i ysbryd Wellington, ac nis gwyddai pa beth a wnai; yr oedd yn rhaid cael dwfr, ac nid oedd dim yn un lle arall i'w gael. Ond o'r diwedd gwelodd ei ffordd i gael dwfr, ac i arbed ei ddynion hefyd. Yr oedd ganddo ryw nifer o'r Ffrangcod yn garcharorion, a chymerodd hwy ac a'i gosododd yn gylch o gwmpas y ffynnon, fel na byddai modd i'r gelyn saethu y Saeson, heb ladd eu pobl eu hunain yr un pryd. Felly am y *Tobacco* yma, y mae *lot* o ddynion go dda yn sefyll o'i gwmpas, fel ag y mae yn anhawdd saethu ato heb eu harcholli hwy, yr hyn nas mynem er dim."

Cofus genym ei glywed yn dywedyd fel hyn, "Ni chymerwn i lawer a dywedyd fod cymeryd *Tobacco* a *Snuff* yn bechod mawr—mor fawr ag i gau y nefoedd rhagoch; ond byddaf yn teimlo felly bob amser, fod hyny y maent yn eu wneyd i ddyn yn ei ddarostwng. Ni ddywedaf fod hyny yn llawer, ond hyny ydyw,—ei dynu i lawr y maent. Cofus genym fod dau ŵr parchedig ar eu taith trwy ein gwlad; ac yr oedd un o'r ddau yn cymeryd *Snuff*, ac yr oedd wedi myned yn demtasiwn mor gref iddo fel y byddai yn rhaid cael y blwch o dan y gobenydd, fel y gallai ei ffroen yfed o hono yn y nos. Ond un noson fe annghofiodd y blwch, a chododd o'i wely i chwilio am dano; ond, wedi iddo ei gael, nid oedd dim ynddo. Wedi hyny bu yn ymbalfalu yn y t'w'llwch am y *Snuff* oedd ganddo mewn papyr, ac wrth geisio ei dywallt i'r blwch, collodd yr oll ar hyd y llofft. Wedi i'r anffawd hon ddigwydd, nid oedd ganddo ond disgyn ar ei balfau, a cheisio ei snuffio oddiar y llofft. Ni ddywedaf fod hyn yn bechod mawr ynddo, ond nis gallaf yn fy myw lai nag edrych arno yn ei ddarostwng yn fawr." Ac y mae yn ddiau fod y darllenydd yn bur barod i gydsynio âg ef.

Byddai yn bur hawdd hefyd ganddo daflu gair yn ei herbyn hithau,—"Deilen bach yr India," fel y galwai hi; a hyny am ddau reswm: credai nad oedd llawer o faeth ynddi; ac yr oedd bob amser yn barnu fod y dosbarth

cyffredin yn gwario mwy nag oedd eu hamgylchiadau yn ei ganiatai iddynt arni, heb iddynt wneyd cam â phobl eraill. Yr oedd yn teimlo yn dra gelynol i'r arferiad o fyned o'r naill dŷ i'r llall i dê, neu i wledda, fel y gelwir ef fynychaf. Yr oedd gŵr a gwraig yn byw heb fod yn mhell oddiwrtho, ac yr oedd y gwendid hwn yn y wraig; byddai yn galw yn nghyd ei chyfeillesau a'i chymydogesau yn bur aml, i gydlawenhau â hi. Ond yr oedd y gŵr yn elyn calon i hyny; yn benaf, am y gwastraff oedd yn nglyn âg ef. Un diwrnod aeth y gŵr i'r tŷ, pan oedd y chwiorydd ar ganol eu llawenydd o amgylch y ford; ac yn yr olwg ar y gwastraff, collodd ei dymher; ymaflodd yn nghynwysiad y ford, a thaflodd hwy i ryw gornel yn y ty, nes oedd y llestri yn chwilfriw mân, a chymerodd y *teapot* a chadwodd ef yn nhaflod y beudy. Pan y gwelodd Mr. Humphreys, dywedodd yr holl hanes iddo. Gwyddai yntau fod hyn yn achos o gryn annghydfod yn y teulu, a dywedodd, "Wel, y mae yn dda genyf dy fod o'r diwedd wedi dinystrio yr Amalecîaid, a chymeryd Amalec ei hun yn garcharor."

PENNOD VII.

Mr. HUMPHREYS A'I GYNGHORION.

Gŵr yn hebgor cynghor call
I rengoedd o rai angall.—Gweryddon.

Y mae un awdwr yn galw y "Diarhebion Cymreig," yn "weddillion doethineb yr hen Gymry." Yn y bennod hon yr ydym ninau yn bwriadu rhoddi gweddillion doethineb yr hybarch Richard Humphreys, fel y deuant i'r golwg yn y cynghorion a roddwyd ganddo ar wahanol achlysuron. Nid oes dim yn ddangosiad eglurach o'r adnabyddiaeth ddofn oedd ganddo o'r ddynoliaeth, ac o'r sylw manwl a dalai efe i ysgogiadau cymdeithas, na chyfaddasder ei gynghorion ar gyfer yr amgylchiadau y rhoddwyd hwynt ganddo. Y mae craffder, doethineb, a synwyr, wedi eu cerfio yn annileadwy ar yr oll o honynt. Dywed Solomon, "Lle ni byddo cynghor y bobl a syrthiant," ac mai "yr hwn a gymero gynghor sydd gall." Trwy gymeryd cyngor gall yr ieuangc ddysgu oddiwrth brofiad yr hen, a thrwy hyny ragflaenu llawer o gamgymeriadau. Ni a ddechreuwn trwy osod ger bron y darllenydd y rhai hyny sydd yn dwyn perthynas â phriodas. Nid oes yr un adeg ar oes dyn y mae yn sefyll mewn mwy o angen cynghor na'r cyfnod hwn ar ei fywyd. Gyda golwg ar yr amser i briodi dywedai fel hyn: "Y mae yn amlwg fod eisieu ystyried, nid yn unig pwy, ond pa bryd i briodi. Dylai dyn ieuangc fod am rai blynyddoedd yn gwneyd prawf ar y byd, ac o hono ei hunan, cyn priodi, fel y gallo wybod a fedr efe ei lywodraethu ei hun cyn myn'd i lywodraethu teulu; a gweled pa faint sydd ganddo yn ngweddill o'i gadw ei hun cyn addaw cadw neb arall. Nid ydyw priodi, er ei fod yn osodiad Duw, ond direidi, heb fod rhyw olwg resymol am fywioliaeth, heblaw dyweyd fod y plwyf yn ddigon cryf, a bod hwnw i bawb. Cynildeb yn moreu oes am ddeng mlynedd yn y mab ieuangc, a phum' mlynedd fe allai yn y ferch ieuangc, a fyddai bron yn ddigon i'w

diogelu rhag eisieu wedi iddynt fyned i'r ystâd briodasol. Ond yn lle hyny nid oes ond ychydig o'n pobl ieuaingc yn gwybod gwerth arian hyd oni phriodant, ac erbyn hyn deallant y dylesid gwybod yn gynt. Cânt eu hunain mewn llyn dwfn cyn dysgu nofio, pan y gallasent ymarfer mewn dwfr basach, lle nad oedd perygl iddynt."

Ond pan y gwelai ddyn yn myned i oedran mawr cyn priodi, dywedai wrth hwnw—"y mae yn rhaid i ti briodi yn bur fuan bellach, neu dalu yn ddrud i rywun am dy gymeryd."

Rhoddodd y cynghor canlynol i ferch ieuangc, yr hon sydd heddyw yn fam yn Israel, ac yn ei gofio yn dda. Yr oedd ar daith yn Lleyn, a John Williams, Llecheiddior, gydag ef; llettyent un noswaith mewn tŷ lle yr oedd nifer o blant wedi eu magu; ac ebe John Williams, "Mr. Humphreys rhoddwch gynghor i Mary yma i chwilio am ŵr, fel y rhoddasoch i Miss——."

"Ni roddais i erioed gynghor i un ferch ieuangc i chwilio am ŵr John, ond cynghor i ddewis gŵr pan y ca'i gynyg arno a roddais i." "Wel gadewch i ni ei gael," meddai y teulu. Ar hyn trodd yntau at Mary, a dywedai yn ei ddull siriol a dengar,—

"Mary bach, peidiwch cymeryd dyn diog: mae o yn ddrud iawn i'w gadw, ac ni ddwg nemawr i mewn. Gochelwch ddiottwr, canys y mae yn berygl iddo fyned yn feddwyn. Peidiwch cymeryd dyn digrefydd, rhag i'r Arglwydd ddigio wrthych, a'i adael felly; a pheidiwch er dim cymeryd ffwl, canys y mae yn anmhosibl gwneyd hwnw byth yn gall."

Adroddodd sylw hen gymydog iddo wrth deulu oedd yn gallu prisio eiddo yn hytrach na challineb a rhinwedd, ac yn dra awyddus i'w merch briodi un nad oedd mor gymeradwy ganddi hi, ac yn gofyn cynghor i'r hen wladwr, yr hwn a ddywedai—"Nid oes genyf fi ddim i'w ddywedyd rhyngoch: ond pe deuai dyn gwirion i'ch tŷ chwi, efallai nad â allan mor fuan ac yr ewyllysiech iddo fyned." Dichon y sylw hwn fod er addysg i rïeni yn gystal a phlant.

Dywedai wrth ddyn ieuangc o *joiner* oedd yn gweithio iddo—"Pan y byddi yn meddwl priodi, machgen i, gofala am gael dynes fedr wneyd gwaith; gwell i ti gael gwraig a chan' punt yn môn ei braich, nag un a chan' punt yn ei *phocked*."

Wrth briodi pâr ieuangc byddai yn arfer dyweyd, "Ym-

drechwch beidio gwario ond un-geiniog-ar-ddeg o bob swllt a enillwch."

Pan yn cyfarfod â merch ieuangc, yr hon oedd yn myned i oedran glew, dywedai, "Y mae yn rhaid i ti beidio a chodi marciau G——n, neu ni phriodi di byth."

Unwaith pan ar daith yn Sir Gaernarfon, daeth i'w ran fyned i letya i dŷ lle y canfyddai wraig mewn oed, a gwraig ieuangc yn eu galar-wisgoedd. Yr oedd y wraig ieuangc yn brysur gyda'i goruchwylion ar hyd y tŷ, a'r hen wraig yn eistedd i ymddyddan a'r pregethwr. O'r diwedd deallodd Mr. Humphreys mai merch yn nghyfraith i'r hên wraig oedd yr ieuangc, a'i bod wedi colli ei phriod er's tro bellach; a dywedai wrth yr hen wraig: "Gwelais ferched yn nghyfraith yn byw gyda'u mamau yn ein gwlad ninau; ond costiai yn lled ddrud iddynt yn gyffredin. Gofelwch am fod yn dyner wrthi." Yn mhen amser y mae yn myn'd i'r un daith drachefn, a digwyddodd iddo fyn'd i'r un fan i letya. Y pryd hyn yr oedd y wraig ieuangc wrth y drws yn ei dderbyn yn siriol dros ben, a pharhaodd yn hynod o groesawus tra y bu yno. Pan drodd yr hen wraig ei chefn, torodd y weddw ieuangc at Mr. Humphreys a dywedai: "Y mae yn dra thebyg eich bod yn methu esponio y gwahaniaeth sydd yn fy ymddygiad y tro hwn." "Yr wyf yn ei weled," meddai yntau, "ond nis gallaf ddyfalu pa beth yw yr achos o hono." "Pan oeddych yma o'r blaen," meddai hithau, "diferasoch air a greodd fyd newydd arnaf fi, ac nis gallaf ddirnad maint fy nyled i chwi. Byth er hyny y mae fy mam yn nghyfraith mor garedig tuag ataf ag y mae modd iddi fod. Nid oeddwn o'r blaen gystal fy mharch a morwyn."

Wrth roddi cynghor i swyddogion eglwys lle y cynhelid Cyfarfod Misol unwaith, dywedai, "Y mae llawer o son yn Eglwys Loegr am *dignity of the Church*, a'r peth y maent hwy yn ei ystyried yn *dignity* ydyw, cael ei ordeinio gan esgob, a bod ei gweinidogion yn wŷr bonheddig, &c., ond y mae gwir *dignity* yn gynwysedig mewn bod swyddogion yr eglwys yn dduwiolion, a'r aelodau ieuaingc yn sychedig am fod yn fawr mewn gras a sancteiddrwydd."

Dro arall wrth gynghori swyddogion eglwysig, dywedai, "Gofelwch am fod yn *flaenoriaid*. Y mae rhai yn blaenori heb fod yn flaenoriaid, a rhai blaenoriaid heb flaenori, ac o'm rhan i gwell genyf y cyntaf."

Cyfarwyddai flaenor ieuangc fel hyn, "Pan y byddi yn rhoddi achos o ddysgyblaeth ger bron yr eglwys, ymdrecha wneyd hyn heb amlygu dy farn dy hun, onide fe fydd i lawer dy wrthwynebu."

Dywedai wrth gyfaill ieuangc oedd yn ei wasanaeth, yr hwn oedd yn dechreu pregethu, "Pan y byddi yn myned i ymweled â chyfeillion mewn profedigaethau, paid byth a cheisio eu cynal trwy fychanu eu trallodion; y mae pawb yn meddwl rhywbeth o'u profedigaethau, a dangos dithau dy fod yn cydsynio â hwy am faint eu trallodau; ac ar ol i ti enill lle trwy dy gyd-ymdeimlad â hwy, byddant yn barod i gymeryd cynghor genyt."

Wrth gynghori pregethwr ieuangc a amheuid o fod yn chwyddedig ei yspryd, dywedai, "Nac annghofiwch un amser wrth bregethu i bechaduriaid mai pechadur ydych eich hunan. Dywedir am ambell i ferch ieuangc sydd yn teimlo yn agos fel ag y dylai, wedi rhyw dro anhapus yn ei bywyd, na chododd hi byth mo'i phen ar ol hyny. Y mae hen dro anhapus wedi cymeryd lle yn ein hanes ninau, a dylem ostwng ein penau mewn cywilydd wrth feddwl am dano. *Cofiwch chwithau hyny.*"

Byddai yn dyweyd wrth y rhai fyddai yn llwyddo yn y byd, eu bod mewn perygl o fyned yn gybyddion os na byddai iddynt ddysgu cyfranu; dywedai, "Mae llwyddiant heb haelioni yn gwneyd un yn gybydd, a llwyddiant heb gynildeb yn gwneyd un yn wastraffwr."

Dywedai wrth gymydog oedd trwy ei lafur, ei ddiwydrwydd, a bendith yr Arglwydd, wedi bod yn llwyddianus yn y byd, "Da iawn, hwn a hwn, yr wyt ti wedi dechreu adeiladu dy glochdy o'r gwaelod, a'i godi yn raddol o dan dy draed i'r *top*, ac y mae llawer o debyg y galli di sefyll ar ei ben. Y mae rhai yn cael eu cyfodi i ben clochdai wedi i eraill eu hadeiladu, ac yn gyffredin y maent yn rhy ben-ysgafn i allu sefyll arno. Y mae rhai sydd wedi dyfod i fyny trwy eu llafur eu hunain yn gallu trin eu heiddo yn llawer gwell na'r rhai sydd wedi ei gael ar ol i eraill lafurio am dano." A byddai wrth anog i ddiwydrwydd yn dyweyd, "Mai nid mewn *bod* yn gyfoethog y mae yr hapusrwydd, ond mewn *myn'd* yn gyfoethog; ac nid mewn *bod* yn dlawd y mae trueni, ond mewn *myn'd* yn dlawd."

Cynghorai yr eglwys yn ei gartref fel hyn, "Peidiwch a dyweyd dim am eich gilydd, os na bydd genych ryw dda

i'w ddywedyd. Peidiwch a drwgdrybio eich gilydd, a pheidiwch a bod yn rhy barod i gredu pob chwedl a glywch am eich gilydd; nithiwch hwy yn bur dda cyn rhoddi llety iddynt. Yr wyf yn cofio yn dda nad oedd ond ychydig o'r chwedlau a fyddai yn cael eu dyweyd am danaf fi, pan oeddwn yn ieuangc, yn wirionedd; ac yr wyf wedi gwneyd fy meddwl i fyny er's talm i beidio a chredu ond o gylch un ran o dair o chwedleuon cymydogaeth; a chynghorwn chwithau i rodio wrth yr un reol. Byddwch yn yspryd yr efengyl bob amser; yn debyg i'r aderyn yr hwn sydd bob amser *yn* ei adenydd, er nad yw bob amser *ar* ei adenydd, ond byddai yn barod pa bryd bynag y gwela berygl. Byddai bod felly yn fantais i chwithau i ymddyrchafu at Dduw." Pan y byddai rhai o'r frawdoliaeth yn cwyno eu bod yn oerion gyda chrefydd, dywedai, "Mai gwres gwaith oedd yr hapusaf o bob gwres."

Cwynai gwraig gyfrifol wrtho unwaith ei bod mewn profedigaeth oddiwrth ryw bersonau nad oedd fawr o foneddigeiddrwydd yn perthyn iddynt—"Na feindiwch," ebai yntau, "mae yn haws i chwi ddyoddef nag iddynt hwy dori ar eu harfer."

Pan yn tori ei farf mewn tŷ capel, cynygiwyd iddo lian glân i dderbyn y *lather* oddiar ei wyneb; ond gwrthododd ef, gan ddewis papyr yn ei le, a dywedai, "A wyddost di hyn, William, fod yn well peidio a difwyno peth, na'i olchi ar ol ei ddifwyno, fel ag y mae peidio pechu yn well na chael maddeuant ar ol pechu."

Anogai bawb i ymdrechu bod yn y canol gyda phob peth, a dywedai, "Byddaf yn gweled mantais o fod yn y canol, pe na byddwn ond yn myned trwy lidiart; y mae y cyntaf yn ei hagor, a'r olaf yn ei chau, a minau yn cael myned trwyddi heb gyffwrdd fy llaw arni."

Pan y daeth gŵr agos at grefydd o hyd iddo ar y ffordd unwaith, gofynai, "W. T. sut yr wyt ti? Ai ar y terfyn yr wyt ti o hyd?" "Ie, yn wir, eto," oedd yr ateb, "Cofia mai lle ofnadwy sydd o dan y bargod; dyna y man lle y mae y dafnau brasaf yn disgyn," meddai yntau. "Ar y rhiniog yr oeddyt pan yn fachgen, gwylia di *settlo* yn y fan yna."

Wrth edrych ar un o'i gyfeillion a golwg digalon arno, gofynai, "A oes rhywbeth yn dy boeni di, machgen i?" "Oes y mae," ebai y cyfaill. "Na *hitia* ddim, ni weli di byth ffwl yn poeni."

Byddai yn hawdd ganddo roddi gair o gynghor fel y peth diweddaf wrth adael tŷ neu gyfaill. Clywsom un masnachwr yn dyweyd ei fod ef a Mr. Humphreys wedi ffurfio cyfeillach pan oeddynt yn bur ieuaingc, ac yn ei dŷ ef y byddai yn rhoddi i fyny pan y byddai yn pregethu yn eu tref. Byddai y cyfaill yn arfer a myn'd i'w hebrwng boreu Llun, hyd rhyw fan penodol. Cerddai yntau wrth ei ochr dan dywys y march a'i cariai, ac ymddyddan. Wedi cyrhaedd y fan i'r cyfaill droi yn ol, arferai ddyweyd bob amser wrth ffarwelio, "*Good bye, my dear fellow, be sure of doing right.*" Clywsom y boneddwr hwnw, yr hwn erbyn hyn sydd yn henafgwr parchus, yn dyweyd, nas gallodd erioed fyned heibio i'r llanerch hono ar y ffordd, lle yr arferai droi yn ol heb gofio ei eiriau. Mae yr ymadroddion, "*Be sure of doing right*" iddo ef, fel pe byddent wedi eu cerfio a phin o haiarn.

Pan ar un o'i deithiau, aeth i letya at deulu parchus a charedig, ond heb fod yn proffesu crefydd. Yr oedd wedi bod yn hynod o'r difyrus i'r teulu, ac wrth fyned i ffordd dranoeth dywedai, gan edrych yn myw llygad y wraig, "*Remember the great point*, Mrs. Roberts bach." Tystiai y wraig fod ei eiriau diweddaf wedi bod fel cloch yn ei chlustiau am amser maith.

Yr oedd unwaith yn ymddyddan a gŵr ieuangc cyfrifol, ac o ddygiad da i fyny, ond yn lled ddifeddwl am grefydd, ac ar ddiwedd yr ymddyddan dywedai, "*You are a great fool, but remember I mean a moral fool.*"

Pan yn cyd-fwyta â nifer o rai ieuaingc, byddai yn hawdd ganddo ofyn, "A wyddoch chwi pa bryd y bydd yn ddiogel i chwi roddi i fyny fwyta? Pan y byddwch wedi bwyta nes teimlo na waeth genych pa un ai bwyta ychwaneg ai peidio. Os byddwch wedi bwyta nes teimlo nas gallwch gymeryd ychwaneg, byddwch wedi bwyta gormod; ac os byddwch yn teimlo awydd i ychwaneg, byddwch wedi cymeryd rhy fychan." Cofied y glwth y rheol hon.

Wrth gynghori swyddogion eglwysig i *deilyngu* parch, ac nid ei *ddisgwyl* ar gyfrif eu swydd, dywedai fel hyn, "Dylai swyddogion eglwysig fod yn ofalus iawn i ymddwyn yn y fath fodd fel ag i deilyngu parch, ac nid ei ddisgwyl oherwydd swydd yn unig. Fe allai fod rhai pregethwyr a diaconiaid heb feddu dim llywodraeth ar eu heglwysi. Ond nid yw pethau yn eu lle felly. Ni bydd yr eglwys

hono byth yn gysurus iddi ei hun lle na bydd y swyddogion yn dal llywodraeth addas ar yr aelodau. Ond y mae yn bosibl cam arfer hyn, sef fod swyddogion yn hòni llywodraeth heb ymdrechu i'w haeddu. Byddant felly yn dra thueddol i fyned i ymryson â'r aelodau, a'r aelodau drachefn â hwythau. Eu dadl hwy yna fydd, fod yr aelodau yn gwrthryfela yn erbyn y llywodraeth, pryd na bydd ond *enw* o swydd yn galw am barch ac ufudd-dod. Nid peth hoff yw clywed rhai mewn swyddau yn son llawer am eu hawdurdod a'u hawl. Er fod awdurdod ganddynt, nid yw yn weddus ei hòni bob amser; ceir ef yn naturiol os bydd pethau yn eu lle. Ni effeithiai yn dda i'r gŵr ddyweyd yn wastad wrth y wraig, "Myfi sydd i fod yn ben; rhaid i ti blygu." Er mai y gŵr yw pen y wraig, nid trwy hòni hyny y derbynia efe y parch mwyaf, ond trwy lanw ei le fel y cyfryw. "Myfi ydyw'r pen," o'r goreu; ond pa fath ben ydwyt? Ai pen papyr sydd yna, ai pen asyn, ynte ai pen dyn? "Myfi ydyw'r pen." Ie, o'r goreu: yn y pen y mae y llygaid, ac oddifewn i'r pen y mae yr ymenydd; dyna gartref y synwyr; os pen, dangos hyny trwy iawn arwain a threfnu. Mae yn bosibl mewn eglwys i swyddogion ddyrysu eu hamcanion wrth sefyll dros eu hawl; rhaid ymdrechu am y cymhwysderau, a dilyn yr ymarferiadau sydd yn cynyrchu parch oddiwrth eraill. Mae dynolryw yn gyffredin yn caru gwir ofal am danynt. Pan ymddangoso blaenoriaid yn gwir ofalu am yr aelodau mewn profedigaethau neu ar ymylon peryglon maent wrth hyny yn enill gradd dda yn eu meddyliau.

Ni a derfynwn y bennod hon trwy gofnodi y sylwadau a wnaeth mewn ffordd o gynghor i'r hen bobl yn y seiat fawr, dydd Llun y Sulgwyn, yn Liverpool, yn y flwyddyn 1856. Yn y cyfarfod hwn yr oedd y diweddar Mr. Morgan, yn rhoddi cynghor i'r bobl ieuainge; Mr. Lumley i'r canol oed; a Mr. Humphreys i'r hen bobl, yr hyn a wnaeth fel hyn: "Mae tori dyn ymaith yn nghanol ei ddyddiau yn cael ei olygu yn yr Ysgrythyrau yn beth annymunol, a'i fod drwy hyny megys yn ei ddifuddio o weddil ei flynyddoedd; ac fel bendith ar ddyn sonir am amryw o'r hen batriarchiaid eu bod wedi marw mewn oedran teg ac yn gyflawn o ddyddiau. Peth dymunol iawn ydyw gweled rhai yn myned yn hen, ond y mae y Brenin Mawr yn

gosod treth drom ar bob un sydd yn cael myned felly. Rhaid dioddef llawer gwaew yn yr aelodau, a chael ei amddifadu o'i nerth, colli ei glyw, y golwg yn pallu, a'r gwŷr cryfion yn crymu: y rhai sydd yn malu yn methu am eu bod yn ychydig; colli naw rhan o ddeg o'i gyfeillion, &c. Mae cryn lawer o drethoedd o'r natur yma i'w talu gan henaint: ond y gamp ydyw bod yn ddiddig o dan y trethoedd hyn, a pheidio a bod yn bigog, grwgnachlyd a thuchanllyd. Dywediad rhyw ŵr oedd, fod yn rhaid i duchan gael y drydedd: y mae yn llawer gwaeth na'r degwm. Yr hyn a geidw ddyn mewn henaint yn heddychol a chysurus yw cael ei lenwi â thangnefedd Duw, yr hwn sydd uwchlaw pob deall. Yn Nghrist y mae tangnefedd heddychol, dyddanwch a chysur cariad, digon i wneyd rhai yn dirfion ac iraidd mewn henaint. Nid mewn maintioli y mae cynydd henaint yn gynwysedig; eithr cynydd mewn defnyddioldeb, cynydd mewn aeddfedrwydd i'r nefoedd, cynydd mewn sylweddoldeb, fel y dywysen ar fin y cynhauaf. A glywsoch chwi y ddau ffermwr yn ymddyddan a'u gilydd y dydd o'r blaen, yn nghylch y cae gwenith. Yr ydwyf wedi sylwi, meddai un, nad yw eich cae gwenith yn tyfu dim. Os nad yw yn tyfu, ebe y llall, y mae yn aeddfedu. Felly adeg i aeddfedu ydyw hen ddyddiau. Y mae hen ddysgyblion yr Arglwydd Iesu i fod fel *balast* yn y llong, i'w chadw yn *steady* yn nghanol tymhestloedd a ddichon godi a churo arni."

PENNOD VIII.

Mr. HUMPHREYS A DYSGYBLAETH EGLWYSIG

Cyhuddid ef weithiau o fod yn rhy dyner wrth ddysgyblu. Gwyddai yntau fod hyny yn cael ei roddi yn ei erbyn, a byddai yn arfer dyweyd, "Y maent yn dyweyd fy mod yn rhy *find*, ond ni chlywais i neb erioed yn cwyno fy mod yn rhy *find* wrthyn' *nhw*." Ar ryw ymddyddan rhyngddo ef a'i hen gyfaill, y Parch. Griffith Hughes, Edeyrn, dywedai, "Y mae ar y mwyaf o bupur a halen ynot ti, Griffith, fel sydd yn Ann acw." Atebwyd ef yn ol gan Griffith Hughes, "Y mae yn dda ei fod ynddi hi ac mewn eraill, canys yr ydych chwi fel *flour-box* yn peillio pawb." Er mai o ddigrifwch diniwaid a chyfeillgar y gwnaed y sylwadau hyn ganddynt, eto yr oedd y ddau yn dyweyd wrth eu gilydd yr hyn yr oedd llawer yn siarad am danynt. Y mae rhai nad ystyriant ddim yn ddysgyblaeth ond tori allan, ac ni bydd hyd yn nod tori allan yn werth dim heb iddo gael ei wneyd mewn dull haerllug a dideimlad—dull a fydd yn caledu y troseddwr, ac yn peri i gydymdeimlad llawer yn yr eglwys fyned o'i blaid i'r fath raddau fel y cuddir y trosedd gan dosturi at y troseddwr. Pa sawl gwaith y mae nwydau drwg wedi trawsfeddianu enw sêl grefyddol: a thaiogrwydd natur afrywiog, annghoethedig, wedi cael ei alw yn *blaender* crefyddol? Ond gan y dysgwylir i ddysgyblaeth eglwysig fod yn foddion o ras i'r troseddwr, yr ydym yn credu fod y dull tyner, a'r ysbryd addfwyn, yn mha un y byddai Mr. Humphreys yn gweinyddu y cerydd yn llawer tebycach o ateb y dyben.

Dywed un o'i hen ddysgyblion (Mr. Rees Roberts, Harlech) fel hyn am dano yn y cysylltiad hwn: "Yr oedd yn geryddwr ffyddlon a chywir, yn un yn dwyn argyhoeddiad i bob calon a chydwybod mai mewn ffyddlondeb i Grist a'i achos, a chariad diledrith at y troseddwr, y byddai yn gweinyddu y cerydd. Y mae ambell un yn ceryddu yn y fath fodd ac yspryd fel ag y mae yn ddigon o waith i ddyn allu credu na fydd yn mwynhau y gwaith, trwy ei fod wrth hyny yn

cael cyfle i ollwng allan gryn lawer o chwerwder ei dymer afrywiog, a surni ei yspryd cul ei hunan; yn bur debyg i gi coch, curliog, mawr, a welais y dydd o'r blaen wrth gadwen gref; wrth lwc, mewn *yard* goed yr oedd yn chwyrnu ac yn bygwth, fel pe buasai yn eiddigeddus i'r eithaf dros bob ysglodyn o eiddo ei feistr; pryd, mewn gwirionedd, nad oedd y creadur ond gollwng allan ffyrnigrwydd a mileindod ei natur giaidd ei hunan. Gwnaethai yr un peth yn gymwys pe buasai wedi ei ystancio ar y domen ludw fwyaf diwerth yn y byd. Ond ni thybiwyd gan neb erioed fod Mr. Humphreys yn ymhyfrydu mewn gweinyddu cerydd ar undyn. Gallai efe geryddu, ond nis gallodd erioed chwyrnu; gwnai ei gaswaith yn ffyddlon ac effeithiol, mae yn wir; ond teimlem i gyd mai oblegyd yr angenrhaid a osodwyd arno y cyflawnai y gorchwyl hwn. Os byddai rhaid i'r cerydd fod yn llym a miniog, argyhoeddid ni oll mai er mwyn y dyoddefydd y byddai efe yn hogi ei arfau, a sylweddolid yn bur gyffredin gan wrthddrych y cerydd eiriau Dewi Wyn,

'Gwybydd tan law tyner Dad
Nad yw cerydd ond cariad.'"

Trwy ei fod yn ŵr o gynghor, galwyd ef gan swyddogion llawer eglwys i'w cynorthwyo pan y byddai rhyw annghydfod wedi tori allan, neu gwestiwn o ddysgyblaeth y byddai arnynt eisieu help i'w ddwyn i derfyniad. Teimlai Mr. Humphreys wrthwynebiad cryf i roddi cyhoeddusrwydd i bob achos o ddysgyblaeth, trwy ei ddwyn gerbron yr holl eglwys, os gellid mewn un modd ei derfynu mewn cylch llai, a diau fod pob swyddog o brofiad yn barod i gydnabod doethineb y cwrs hwn a gymerid ganddo. Y mae yn beth i'w ryfeddu, pan y meddylier am gynifer o gwestiynau bychain a dibwys a roddwyd ger bron eglwysi lluosog, fod can lleied o rwygiadau wedi bod ynddynt. Pan y byddai i frawd neu chwaer wneyd llongddrylliad ar ei ffydd, ei gwestiwn cyntaf ef fyddai, "Beth ydyw y peth goreu a ellir ei wneyd o'r drwg hwn?" Ni byddai byth yn ceisio chwyddo y bai; ond rhoddai bob mantais a allai, heb gefnogi y trosedd, o blaid y troseddwr. Dyma y rheswm fod y gair wedi myned ar led yn ei gylch, ei fod yn rhy dyner gyda "dysgyblaeth eglwysig." Pan y byddai Mr. Hum-

phreys yn cael ei anfon gan y Cyfarfod Misol i ryw eglwys lle y byddai achos neillduol wedi tori allan, dywedai y cymydogion mor fuan ag y clywent pwy fyddai y llysgenadwr, "Ni bydd eisieu yr un crogbren y tro hwn." Wedi bod yn trin mater rhyw frawd yn Ll—n—f—n, dywedai cyfaill wrtho ar ol myned i'r tŷ, "Yr oeddwn yn eich gweled yn trin y ddysgyblaeth a'ch menig am eich dwylaw, Mr. Humphreys." "Mi fum yn poeni lawer gwaith," ebe yntau, "am fod yn rhy chwerw, ond ni phoenais erioed am fod yn rhy dyner."

Ond efallai mai mwy dewisol gan y darllenydd ydyw i ni gilio o'r neilldu, a galw Mr. Humphreys ei hunan yn mlaen, trwy yr hanesion ydym wedi eu derbyn am dano, fel y gallont ei weled yn myned trwy y gorchwyl o weinyddu dysgyblaeth.

Digwyddodd iddo fod mewn eglwys heb fod tu allan i Sir Feirionydd pan yr oedd achos bachgen lled ieuangc yn cael ei drafod. Y trosedd ydoedd myned i làn y môr ar y Sabbath. Yr oedd yr achos yn cael ei roddi ger bron gan hen ŵr ffyddlon a chydwybodol iawn dros gadwraeth y Sabbath, ac yr oedd yn eithaf amlwg ei fod wedi bwriadu yn sicr ddiarddel y bachgen. Coffäai am y cynutwr hwnw a labyddiwyd â meini am halogi dydd yr Arglwydd, a dywedai nad oedd yr hyn a wnaeth yntau yn ddim llai pechod, nac yn haeddu dim llai cospedigaeth. Wrth weled cyfeiriad y sylwadau mor uniongyrchol i fwrw y llangc dros y drws, dywedai Mr. Humphreys:—"Gwir nad yw halogi y Sabbath yn ddim llai pechod nag oedd y pryd hwnw, ond yn hytrach yn fwy: ond cofier nad ydym ni dan yr un oruchwyliaeth ag oedd y cynutwr." Ac yna cymerodd yr ymddyddan canlynol le rhwng Mr. Humphreys a'r bachgen:—

"A fuost ti yn nglàn y môr ar y Sabbath?"

"Do, mi fum," ebe yntau.

"A ydyw yn edifar genyt fyn'd?" gofynai Mr. Humphreys.

"Ydyw yn wir, yn edifar iawn genyf," oedd yr ateb.

Yna gofynodd y gweinidog drachefn, "A wnei di beidio a myn'd byth yn ychwaneg?"

"Na, ni bydd i mi byth fyn'd eto," oedd yr ateb.

Wedi cael y gyffes hon ganddo, dywedai Mr. Humphreys wrth y frawdoliaeth, "Mi a'ch cynghorwn gyfeill-

ion i adael ar hyn o gerydd i'r bachgen y tro hwn;" a chytunodd pawb â'r cynghor, oddigerth yr hen ŵr; ond bu yntau yn ddigon doeth i dewi. Wrth fyned o'r Cyfarfod dywedai Mr. Humphreys wrth gyfaill oedd yn cydgerdded âg ef: "Yr oedd yr hen frawd wedi meddwl rhoi dau fis o garchar i'r bachgen, ond yr wyf fi yn credu fod yr hyn a wnaed yn debycach o ateb y dyben."

Yr oedd i fod yn S——m rywnos Sadwrn yn cadw seiat, ac yr oedd y swyddogion wedi darparu gwaith iddo pan y y deuai, a phan yn cychwyn i'r capel dywedai un wrtho: "Mae yma ddyn ieuangc yn cyfeillachu gydag un heb fod yn proffesu; ac yr oeddym wedi meddwl ei alw yn mlaen heno gael i chwi ymddyddan ag ef." "Nid wyf yn barnu yn briodol iawn," ebe yntau, "ymddyddan yn gyhoeddus ar bwngc fel yna, ond os ydych yn dewis, ymddyddanaf yn bersonol ag ef ar ol i'r cyfarfod derfynu;" ac felly y cytunwyd. Wedi ymddyddan ychydig a'r bachgen, deallodd Mr. Humphreys ar ei atebion penderfynol ei fod wedi gwneyd ei feddwl i fyny i briodi yr eneth, ac nad oedd un dyben ymresymu ag ef, a therfynodd yr ymddyddan trwy ddyweyd wrtho, "Wel edrych di rhag gwneyd dy botes yn rhy hallt, tydi raid ei fwyta." Ar ol hyn prïododd y bachgen, ac yn mhen yspaid o amser yr oedd Mr. Humphreys yn myned i'r un lle drachefn, ac yn mysg y rhai oedd yn myned i ysgwyd llaw â'r pregethwr, adnabu Mr. Humphreys y dyn ieuangc, yr hwn erbyn hyn oedd yn ŵr a thad, a gofynodd iddo, "Wel, sut y mae y potes yn troi allan?" "Hallt iawn, Mr. Humphreys," oedd yr ateb.

Ni byddai yn caru gweled neb yn cyffroi wrth drin achos brawd fyddai wedi colli ei le. Anfonwyd ef a'r diweddar Barch. Cadwaladr Owen i eglwys lle yr oedd achos o ddysgyblaeth, ac yr oedd yr achos wedi bod ger bron y frawdoliaeth lawer gwaith. Wedi gwrando yr achwynion, ac iddynt hwythau eu dau wneyd sylwadau, a dechreu gofyn barn yr eglwys, cododd un gŵr ar ei draed a dywedodd yn bur gynhyrfus:—"Nid oes eisieu colli ychwaneg o amser gyda'r dyn yna, yr ydym wedi arfer digon o amynedd gydag ef yn barod." "Wel, frawd bach," ebe Mr. Humphreys, "mi feddyliwn eich bod chwi wedi arfer cymaint ag sydd genych."

Edrychai Mr. Humphreys ar fai bob amser yn ei gysylltiad âg amgylchiadau a themtasiynau y troseddwr,

ac y mae y neb a farno drosedd heb roddi ystyriaeth briodol i'r pethau hyn yn y perygl o wneyd camgymeriadau, a thrwy hyny guro â llawer ffonod yr un na ddylasai gael ond ychydig, a rhoddi ychydig ffonodiau i'r un a ddylasai gael llawer. Trwy y byddai efe yn mesur a phwyso amgylchiadau fel hyn, byddai gwrth-darawiad yn cymeryd lle weithiau rhyngddo âg ambell i eglwys y byddai wedi ei anfon i'w chynorthwyo. Digwyddodd fod achos aelod yn cael ei drin mewn eglwys unwaith, ac yr oedd yr holl frawdoliaeth yn teimlo mai allan y dylasai y cyhuddedig fyned: ond cynghorodd Mr. Humphreys hwy i'w adael i mewn. Ar ddiwedd y cyfarfod dywedodd un o'r blaenoriaid wrtho: "Rhaid i chwi ddyfod i fyw at y bobl hyn, gan eich bod yn mynu eu cadw i mewn; yr ydym ni yn methu a chael dim trefn arnynt." "Mae yn ymddangos i mi," ebe yntau, "nad yw y dyn yna yn bur gall, ac yr oeddwn yn ofni os buasai i chwi dynu pob llyfethair oddiarno mai ar ei ben i ddinystr y buasai yn myned yn fuan."

Dro arall, gofynodd swyddog rhyw eglwys iddo beth a wnaent i hwn a hwn: "y mae wedi colli ei le eto," meddai. Yr oedd Mr. Humphreys yn adwaen y troseddwr yn dda, a dywedai: "Un rhyfedd ydyw, ac nis gwn beth gwell a ellir wneyd na chymysgu tipyn o gyfiawnder a thrugaredd iddo."

Cofus genym glywed swyddog eglwysig yn gofyn iddo beth oedd eu dyledswydd at aelod oedd yn eu heglwys wedi taro ei gymydog. "Wel," ebe yntau, "mae llawer o ddynion câs iawn yn bod, a byddant yn cymeryd mantais ar grefyddwyr i'w poeni yn ddiachos, gan drustio i'w crefydd; ac mi fyddaf fi bron a meddwl mai purion peth ydyw fod ambell i grefyddwr na waeth ganddo daro na pheidio, a hyny er gosod ofn ar weilch felly."

Byddai yn cael ei demtio weithiau i fod yn llym, a byddai y pryd hwnw yn llefaru yn arw. Yr oedd hen ŵr yn y G——n yn dechreu canu, ac am fod y rhan hon o wasanaeth y cysegr yn cael cam oddiar law yr hen wr, gosodwyd dyn ieuangc yn ei le. Teimlodd yr hen ŵr yn fawr. a llwyddodd i godi terfysg yn yr eglwys; a galwyd ar Mr. Humphreys a brawd arall i lonyddu y cythrwfl. Wrth weled yr un oedd wedi dechreu y terfysg mor hunanol ac anmhlygiedig, dywedai Mr. Humphreys, "Nis gwn beth ydyw

dyben y Brenin mawr yn gosod ambell un ar y ddaear, os nad i brofi amynedd pobl eraill;" ac yna trodd at yr hen frawd, a dywedai ei fod yn ofni y byddai ei ddiwedd yn waeth na'i ddechreuad.

Yr oedd yn y Dyffryn ryw henafgwr, yr hwn a fyddai a'i law yn drom ar y bobl ieuainge. Byddai yn gweled rhyw ysmotiau duon arnynt bob amser, ac ar ol iddo fod yn eu fflangellu am rywbeth a ystyriai ef yn feius, dywedai Mr. Humphreys, "Y mae pawb yn gweled y gwrthddrychau yr edrychir arnynt trwy wydr yr un lliw a'r gwydr ei hunan: os du fydd y gwydr, du yr ymddengys pob peth drwyddo;" ac wedi gwneyd y sylw trodd at y brawd a dywedodd, "Fe fyddai yn burion peth i tithau newid dy *spectol*."

Dro arall, wrth glywed y plant yn cael eu ceryddu am fyned ag afalau surion i'r capel, cymerodd Mr. Humphreys yr ochr amddiffynol, a dywedai:—"Mae yr hen bobl yn methu a gwybod beth ydyw y bwyta sydd ar y plant yn y capel, a'r plant yn methu gwybod beth ydyw y cysgu sydd ar yr hen bobl; ac o'm rhan i byddai yn well genyf eich gweled yn bwyta i gyd na chysgu: byddai rhyw obaith i chwi glywed wrth fwyta, ond dim wrth gysgu."

Byddai yn cael ei demtio weithiau i ddywedyd gair lled ysmala wrth drin achosion na byddai yn gweled pwys mawr ynddynt. Yr oedd annghydfod wedi tori allan rhwng brawd a chwaer perthynol i'r eglwys, a dywedai y brawd fod y wraig wedi ei daro. Gofynai Mr. Humphreys i'r wraig, a oedd hi wedi gwneyd hyny.

"Wel do," ebe y wraig, "mi a'i tarewais ef."

"Gyda pha beth?" gofynai Mr. Humphreys.

"Gyda'r golch-bren," ebe y wraig.

"Wel oni chefaist di beth pwrpasol iawn!" ychwanegai y gweinidog.

Collodd ei olwg ar y bai yn nghyfaddasrwydd yr offeryn a ddefnyddiodd y wraig i ddïal ei cham. Ei esgusawd dros wneyd sylwadau o'r fath fyddai nas gallai yn ei fyw arbed pêl deg pan y deuai ato.

Dengys yr hanesyn hwn am dano pa mor aeddfed ydoedd i roddi barn ar bob cwestiwn a osodid o'i flaen. Dygwyddodd pan oedd yn myned gyda chyfaill i dê un prydnawn Sabbath i'r *Mail Car* eu pasio, yr hwn a redai rhwng Dolgellau a Chorwen, ac y mae yn ymddangos fod y gŵr oedd

yn gyru y *car* yn perthyn i'r seiat yn y dref lle yr oedd yn byw; ac nid oedd yn gallu cael ond y moddion nos Sabbath yn unig. Pan oedd y cerbyd yn myned heibio, gofynai y cyfaill i Mr. Humphreys,

"A ydych chwi yn meddwl fod yn iawn i grefyddwr gyflawni gorchwyl fel hyn?"

Beth fyddai i chwi newid y cwestiwn, W. E., gofynai yntau, "A ydyw yn iawn i ddyn ei gyflawni? Ac os ydyw, mi allwn i feddwl mai crefyddwr ydyw y goreu i'w gyflawni."

Anfonwyd Mr. Humphreys a'r hen flaenor hynod William Ellis, o Faentwrog, i eglwys lle yr oedd gweinidog a chanddo gŵyn yn erbyn rhai o'r aelodau. Cwynai y gweinidog wrth y ddau fod llawer o ddynion hyfion yn cyfodi yn yr eglwysi—dynion nad ofnent Dduw ac na pharchent ei weision. "Wel D. bach," ebe W. Ellis, "nid oes dim i'w wneyd ond ceisio dringo yn uwch i'r mynydd, gael i'n gwynebau ddysgleirio gormod i ddynion cnawdol fel yna allu gwneyd yn hyfion arnom." "Nis gwn a ydych yn iawn ai peidio, William," ebe Mr. Humphreys, ac ychwanegai, "ni bu gŵr erioed yn llenwi ei gadair yn well na Moses, ond yr oedd rhyw Jannes a Jambres i'w cael yn ddigon hyfion i godi yn ei erbyn ef."

Yn Nghyfarfod Misol Corris flynyddoedd yn ol galwyd sylw at achos yr hen frawd Owen Williams, Towyn. Yr oedd wedi arwain ei hunan ac eraill i brofedigaeth wrth gloddio y ddaear am ei chyfoeth mwnawl. Credai fod llawer o hono ar ei gyfer, a gobeithiai ei fod yn ei ymyl. Llawer gwaith y dywedodd ei fod o fewn "*tew* cosyn" i'r wythïen y chwiliodd gymaint am dani; ond nis gwyddom pa le y gwelodd gosyn a'r fath drwch ynddo. Rhoddwyd llawer o rybuddion difrifol iddo, ac yr oedd rhai o'i frodyr yn llefaru yn galed wrtho. O'r diwedd cododd Mr. Humphreys ar ei draed, a dywedodd, "Derbyniwch y cwbl yn garedig Owen Williams, a chredwch mai nid am eich gyru i'r ddaear yr ydym, ond am eich cadw *o'r* ddaear."

"Yn wir, Humphreys bach," ebe yntau, "nid yw y cwbl sydd yn cael ei ddywedyd am danaf yn wir; ni chaf fi fyned â na chaib na phâl na rhaw ar fy ysgwydd, na byddant yn dyweyd mai myn'd i chwilio am fŵn y byddaf."

"O," meddai Mr. Humphreys, "mi fyddaf finau a chaib

a rhaw ar fy ysgwydd weithiau, ond ni chlywais neb erioed yn dyweyd fy mod i yn myn'd i chwilio am fŵn."

Y mae hanesyn arall am dano yn ei berthynas âg Owen Williams y gallwn ei osod yn ddiweddglo i'r bennod hon. Yn Nghymdeithasfa Caernarfon, yn y flwyddyn 1851, bu sylw ar achos adferiad yr hen frawd Owen Williams, Towyn, wedi rhyw gymaint o attaliad arno. Yr oedd Mr. Humphreys ei hunan yn lled drwm arno, ac fe ddywedodd bethau hallt iawn wrtho. Ond nid oedd yn foddlawn i neb arall fod yn rhyw lawer felly—tra yr oedd cryn nifer yn tueddu at fod, yn enwedig o'r blaenoriaid, o rai o'r siroedd. Yr oedd y diweddar Mr. Hugh Jones o Lanidloes, yn teimlo yn gryf iawn yn ei erbyn, ac yn siarad yn dra gwrthwynebol i'w adferiad. "'Does dim rheswm," meddai, "gadael i ddyn fel yna fyned ar draws y wlad; yn dangos lwmpiau o lô, a darnau o gerig mŵn yn ei bocedau; yn dangos y rhai hyny yn nhai y capelau, ac yn perswadio pobl dlodion i roi eu harian, ac i gymeryd *shares* mewn rhyw weithiau, a'r rhai hyny yn troi allan heb ddim ynddyn' nhw: a'r bobl druain yn colli eu harian. 'Does dim synwyr gadael y pulpud i ddyn fel yna."

"Yn wir," meddai Mr. Rees, "y mae pethau fel yna, os ydynt yn wir, yn bethau tra difrifol."

"A hyn a fu i rai o honoch chwi, Henry," meddai Mr. Humphreys, "y mae gormod o rywbeth fel yna yn sicr wedi bod: ond credu yr oedd Owen Williams fod rhyw doraeth o gyfoeth ar ei gyfer o yn yr hen ddaear yma yn rhywle, pe cawsai o afael arno; ac yn wir yr oedd yn ddigon rhaid i'r truan wrtho; oblegyd ni chafodd o ddim rhyw lawer erioed gan yr hen Fethodistiaid yma."

"Nid oedd y dyn," meddai Mr. Hugh Jones drachefn, "yn gofalu dim am ei gyhoeddiadau. Yr oedd cyhoeddiad ganddo gyda ni yn Llanidloes acw, ac yr oedd son mawr am dano, a dysgwyliad mawr wrtho. Yr oedd y dyn wedi bod mewn *print:* ac yr oedd y bobl—fel y mae nhw—yn meddwl llawer iawn o ddyn felly. Fe ddaeth y boreu Sabbath, a llon'd y capel o bobl; ond nid dim hanes Owen Williams o Dowyn. A dyna lle lle y buom ni trwy y dydd heb neb. Ond yn fuan

ar ol hyn, clywem bod Owen Williams, y diwrnod hwnw, yn Aberteifi, neu Gaerfyrddin. Beth dâl dyn fel yna na ellwch chwi ro'i dim ymddiried y daw o i'w gyhoeddiad?"

"Ydyw yn siwr," meddai Mr. Humphreys, "y mae Owen Williams wedi bod yn feius iawn yn hyn yna. Fe fyddai rhyw yspryd yn myned ag o i rywle yn bur fynych. Ond beth a wnewch chwi yn son? Felly y byddai fo yn cipio Phylip:—'A Phylip a gaed yn Azotus,' heb neb am a wyddom ni yn ei ddysgwyl o yno."

PENNOD IX.

Mr. HUMPHREYS A'I FFRAETHEIRAU.

Y mae pawb oedd yn gwybod dim am Mr. Humphreys yn dra adnabyddus o'r ystôr ddihysbydd o'r arabedd ffraethbert a'i nodweddai mor arbenig; ac yn y bennod hon ni a anrhegwn y darllenydd ag ychydig o'i ddywediadau pert a'i atebion parod. Yr oedd mor llawn o *humour* fel ag y byddai ei wrandawyr yn cael eu llwyr orchfygu ganddo, a byddai ambell i hen sant nad allai fwynhau yr hyn sydd yn naturiol i ddyn yn poeni ei enaid cyfiawn wrth weled y gynulleidfa yn gwenu. Ar ol iddo fod yn pregethu yn agos i'w gartref un bore Sabbath, aeth un o'r frawdoliaeth ato, yr hwn oedd yn dra adnabyddus fel un hynod o'r drwg ei dymer, a dywedodd: "Yn wir, Mr. Humphreys y mae yn rhaid i chwi beidio ag arfer yr holl eiriau digrif yna sydd genych; nid yw reswm yn y byd fod y bobol yn chwerthin cymaint wrth wrando arnoch yn pregethu."

"Beth sydd arnat ti, Dick," ebe yntau, "maent mor naturiol i mi ag ydyw natur ddrwg i tithau."

Dro arall, pan mewn lle heb fod yn mhell oddi cartref, canai wrtho ei hunan ar ol myned i dŷ y capel:

"O Cusi, Cusi, newydd trwm
'Am Absalom.'"

"Ai canu yr wyt ti, dywed," gofynai hen flaenor lled bigog oedd yn y lle.

"Ie, beth am hyny?" gofynai Mr. Humphreys.

"Ymddygiad go ysgafn wyf yn ei gyfrif newydd fod yn pregethu," atebai yr hen frawd.

"Gallaf fod yn ysgafnach na hyn, a bod yn drymach na thi wed'yn, Edward," ebai yntau.

Y tro cyntaf yr aeth i Aberystwyth i bregethu dywedai un brawd wrtho: "Yr ydych yn fwy dyn o lawer nag yr oeddwn i wedi dychymygu am danoch."

"Y mae pob creadur mawr yn ddigon diniwed os caiff lonydd," ebai yntau; "y mae yr Elephant yn greadur

mawr, ond y mae o dymer naturiol hynod o'r addfwyn."

Gofynai i gymydog unwaith pa fodd yr oedd o ran ei amgylchiadau: "Pur dŷn ydyw hi arnaf fi, Mr. Humphreys, yr wyf bron yn methu a chael dau ben y llinyn yn nghyd yn aml," meddai yntau, dan ysmocio ei oreu.

"Wel sut yr wyt ti yn disgwyl cael y penau at eu gilydd, a thithau yn eu llosgi yn barhaus fel yna?" gofynai yntau.

Gofynai rhywun i Lewis Morris yn ei glywedigaeth unwaith pa faint oedd o'r gloch. "Hyn a hyn," ebe Lewis Morris, ac ychwanegai, "Byddaf fi yn cadw fy *watch* mor agos i'r haul ag y gallaf."

"Y mae yn haws i chwi wneyd hyny na llawer un," atebai Mr. Humphreys, gan gyfeirio at hŷd Lewis Morris —yr hwn oedd rai modfeddi dros ddwy lath o daldra.

Pan y clywai fod ar feddwl rhyw ddyn ieuangc fyned i bregethu, byddai yn hawdd ganddo ofyn, "A ydyw yn gufydd oddiarno?"

Wrth weled rhai o'i gymydogion yn trin gwair, wedi iddi fyned yn bur bell ar y flwyddyn, gan iddynt esgeuluso gwneyd hyny yn ei adeg, dywedai wrth fyned heibio iddynt: "Ysgol ddrud ydyw ysgol profiad; ond gadewch iddi, ni ddysg ffyliaid yn yr un arall."

Yr oedd Mr. Morgan ac yntau wedi addaw myned i daith gyda'u gilydd unwaith, a'r diwrnod cyn iddynt gychwyn yr oedd yn wlaw mawr. Teimlai Mr. Morgan yn bur bryderus trwy y dydd, cerddai i ben y drws yn fynych, ac yn ol i'r tŷ drachefn, a llawer gwaith y dywedodd, "Nid yw ddim *ffit* meddwl cychwyn i daith ar y fath dywydd a hyn, Mr. Humphreys."

"Byddwch dawel, Morgan, gwlaw yfory a'n rhwystra ni."

Pan oedd Mr. Morgan yn holi plant yn y seiat un nosON, gofynodd gwestiwn nad oedd y plant yn gallu ei ateb, ac wedi peth distawrwydd, dywedai: "Atebed rhai o honoch chwi sydd mewn oed." Ar hyn atebodd Mr. Humphreys y cwestiwn; "Nid oeddwn yn meddwl i chwi ateb," ebe Mr. Morgan.

"Paham, Morgan," atebai yntau, "yr wyf mewn oed."

Aeth i'r capel un tro a choryn ei het wedi colli, a phan

hysbyswyd ef o hyn, cyn myned allan, dywedai, "Na feindiwch, wêl neb mo'ni ar ol i mi ei rhoddi am fy mhen."

Yr oedd wedi cael ei anfon dros y Cyfarfod Misol i ryw eglwysi i gynnorthwyo i ddewis blaenoriaid, ac fe syrthiodd y coelbren ar un o'r brodyr. Wrth ymddyddan a'r brawd, dywedai yn ostyngedig iawn nad oedd efe wedi meddwl am y swydd, a bod yr Hollwybodol yn gwybod hyny. "Ie, ïe," meddai Humphreys, "yr wyt tithau wedi dod i ddeall fod y Brenin Mawr yn un da am gadw *secret*." Y gwir distaw oedd hyn, yr oedd y brawd yn chwenych y swydd, ac yr oedd yntau yn gwybod hyny.

Byddai yn hawdd ganddo fwyta a'i het am ei ben, a gofynodd cyfaill iddo unwaith paham na buasai yn ei thynu; a'i ateb oedd, "nad oedd dim drwg yn yr het ond pan y byddai y pen ynddi."

Canmolai un o'i gymydogion am ganu, ac atebodd y cymydog nad oedd ef ond canwr pur fychan. "Ie, ïe," meddai yntau, "bum yn sylwi ar yr iar gyda'r nos yn ymddangos yn bur ben-isel, ond ar y neu-bren y byddai ei golwg hi."

Fel yr oedd arwerthwr yn canmol rhyw nwyddau oedd ganddo yn eu gwerthu, dywedai am rywbeth oedd dan ei forthwyl: "Dyma i chwi beth a bery byth."

"Hir ydyw byth, Mr. E——," meddai Humphreys.

"A ddarfu i chwi ei fesur, Mr. Humphreys?" gofynai yr *auctioneer*.

"Naddo, neu buasai hyny yn brawf nad ydyw yn hir," oedd yr ateb.

Pan oedd y Parch. E. A. Owen yn gwasanaethu y ddwy eglwys—Llanenddwyn a Llanddwye—cyfarfu Mr. Humphreys a Lewis Evans âg ef un bore Sabbath, a mynai Mr. Owen mai yn Llanenddwyn yr oedd y gwasanaeth i fod y bore hwnw, ond dywedai L. Evans mai yn Llanddwye: ac ar ar ol peth dadl coffäodd L. Evans ryw ffaith barodd i'r person adgofio pa le yr oedd y gwasanaeth bore Sabbath blaenorol, a dywedai, "Chwi sydd yn eich lle, Lewis, chwi sydd yn eich lle." Wedi i'r gŵr parchedig adael y ddau, "Wel, Lewis Evans," meddai Humphreys, "dyna beth ydyw dyweyd pader i berson."

Yr oedd ganddo achos i alw yn y Gwynfryn gyda Major Nanney, ac yr oedd wedi gwneyd ystorm fawr y noson

cynt, fel y dadwreiddiwyd un o'r coed mawr oedd o flaen y palas. Wrth fyned heibio, gofynodd y boneddwr: "Sut y mae y gwynt mor nerthol fel ag yr oedd yn gallu codi y fath bren o'r gwraidd?" "Ho," ebe Mr. Humphreys, "y mae ei drosol yn hir iawn."

Sylwai cyfaill wrth edrych arno yn sychu ei draed wrth fyned i'r tŷ un diwrnod: "Yr ydych yn ofalus iawn, Mr. Humphreys." "Yr wyf wedi dysgu ufudd-dod trwy y pethau a ddioddefais," ebe yntau.

Yr oedd brawd dïeithr yn pregethu yn y Dyffryn unwaith, ac aeth hen ŵr o gylch pedwar ugain oed i dŷ y capel i ofyn am y pregethwr. Wedi iddo fyned allan sylwodd y pregethwr: "Onid yw yr hen ŵr yna yn dal yn syth iawn ac ystyried ei oedran?" "Ydyw," meddai Humphreys, "ond tynwch chwi yn ei fwa fe sytha fwy."

Dywedai ei was wrtho unwaith fod rhyw un yn ei feio am ryw syniadau oedd wedi eu traethu mewn pregeth. "Felly," ebe yntau yn bur dawel, "ni wiw i mi mwy na dyn arall, ddisgwyl cael chwareu teg gan bawb; ond gad iddo, mi gaf chware' teg rhwng pawb."

Gofynai un o'i frodyr iddo a oedd efe yn hoffi trefn y Methodistiaid; a'i ateb ydoedd, "Ydwyf yn y pethau y mae trefn arnynt."

Pan ofynwyd iddo yn Nolwyddelen ryw Sabbath yr oedd yno, a fu efe erioed yn y Cyfyng, (gan feddwl y capel bach sydd yn rhan o'r daith). "Na, ni bum yn y Cyfyng," ebe yntau, "ond bu yn gyfyng arnaf lawer gwaith."

Dywedai Mrs. Humphreys wrtho fod rhwygiad yn ei *drousers*. "Peth rhyfedd na buasai mwy pan ystyrir fod dau yn ei wisgo," atebai yntau.

Pan yn dyfod o'r capel un tro, dywedai Mrs. Humphreys, "Richard, onid ydych yn gweled hwn a hwn yn gallu bod yn gas iawn, nid oes dim tua'r capel yna wrth ei fodd." "Gwyddoch chwi o'r goreu, Ann," ebai yntau, "mai gwaith llô ydyw brefu."

Dywedai am ryw ddyn oedd yn tybied ei fod wedi darganfod rhywbeth a'i galluogai i ehedeg, ac wedi gwneyd pob peth yn barod aeth y doethawr i ben craig, heb fod yn uchel iawn, ac ymdaflodd ar ei ddyfais, "ac os ydych yn y fan yna," ebe Mr. Humphreys, "fe fuasai wedi ehedeg, pe buasai ei gorph gan ysgafned a'i ben."

Pan yn eistedd ar gyfer y tân mewn tŷ lle y lletyai un

nos Sadwrn, cododd ei droed ar y *fender;* sylwodd Mrs. Jones, gwraig y tŷ, arno, a dywedodd, "*Dear me,* mae genych droed mawr, Mr. Humphreys," "Oes," ebe yntau gan godi y llall i fynu, "y mae genyf ddau."

Digwyddodd ef a brawd arall fod gyda'u gilydd yn adeg y diwygiad yn cadw cyfarfod pregethu: pregethodd ei gyfaill yn hwyliog, fel arfer, ac yr oedd yno orfoledd mawr. Cododd Mr. Humphreys ar ei ol a dywedodd yn bur dawel, ar ol darllen ei destyn, "Wel, gyfeillion, yr ydych wedi yfed yn bur uchel, beth fyddai i minau geisio tafellu tipyn o fara y bywyd i chwi eto.

Yr oedd rhyw ddyn bychan hunanol yn ymddyddan âg ef unwaith, yr hwn nad oedd Mr. Humphreys yn gwybod dim am dano o'r blaen; ac wedi i'r dyn fyned ymaith, gofynodd cyfaill iddo, "Beth yw eich barn am dano, Mr. Humphreys?" "Wel," ebe yntau, "y mae yn rhy fawr fel nad ellir ychwanegu dim at ei faintioli."

Yn fuan wedi iddo symud i Bennal teimlai yr eglwys awydd cael ychwaneg o swyddogion, ond cynghorai yntau hwy i aros ychydig—y deuai pethau yn fwy aeddfed cyn hir. Ond yn mlaen yr aethant, ac aeth cenadon dros y Cyfarfod Misol yno; ar ol bwrw coelbrenau cafwyd nad oedd yno neb wedi eu dewis. Pan hysbyswyd hyny, cododd Mr. Humphreys ei ddau lygad glân, ac edrychodd o amgylch, a dywedai, "Ha wŷr, chwi a ddylasech wrando arnaf fi, a bod heb ymadaw o Creta, ac enill y sarhâd yma a'r golled."

Wrth ymddyddan am ryw frawd pur siaradus, dywedai cyfaill wrtho, "Diau ei fod yntau yn aelod o'r corph mawr cyffredinol." "Oh ydyw," ebe Humphreys. "Pa aelod ydych chwi yn ei feddwl ydyw, Mr. Humphreys?" gofynai y cyfaill. "Ei dafod, 'rwy'n credu," oedd ei ateb.

Yr oedd wedi myned i'r Gwynfryn un bore Sabbath i wrando ar gyfaill iddo yn pregethu, a gofynodd Mrs. Jones iddo aros i giniawa gyda hwy. "Na," ebe yntau, "y mae fy nghyhoeddiad yn y Faeldref am giniaw, a gwell i mi dori cyhoeddiad gyda phawb na chydag Ann." "Ie," ebe John Jones—un o hen flaenoriaid y Gwynfryn—"y mae merched yn burion nes yr ânt i suro." "Ho," meddai Mr. Humphreys, "ni bydd Ann byth yn suro, ond bydd weithiau yn *sharpio*, a gallaf fi yfed diod *sharp*, ond nid diod sur."

Wrth fyned o Faentwrog i Ffestiniog un Sabbath,

cafodd wlaw hynod ddwys. "Wel, beth ydych yn ei ddyweyd am yr hin yma, Mr. Humphreys?" ebe rhywun wrtho yn y pentref wedi cyrhaedd pen y daith. "Dyweyd," atebai, "nid oes genyf ond dyweyd mai gwir yw yr adnod, 'A chnawd arall sydd i bysgod;' y mae eu cnawd hwy wedi ei wneyd i fod yn y dŵr, ond yr wyf yn teimlo mai nid felly fy nghnawd i."

Yr oedd un Sabbath yn pregethu mewn capel bychan 'rhwng y Ddwy Afon,' lle yr oedd pregethwr poeth ei ysbryd, rhwydd ei ymadrodd, ond tueddol i fod yn isel, ac yn erwin o ran ei ddull, yn pregethu, wedi bod yn cadw odfa y nos Sadwrn blaenorol. Ar ol oedfa Mr. Humphreys dywedai y blaenor wrtho, "Rhyfedd iawn! yr oedd yma fwy yn gwrando ar ——— neithiwr, nag arnoch chwi, Mr. Humphreys, ar fore Sabbath braf fel hyn." "Na, nid mor rhyfedd," meddai yntau; "pregethwr gododd yr Hollalluog o bwrpas ar gyfer ffyliaid ydyw ———; a chwi a ddylech wybod fod mwy o lawer o ffyliaid yn y byd nag o bobl gall."

Aeth un o'r dosbarth hwnw a elwir y "grwgnachwyr" ato unwaith i gwyno yn erbyn y blaenoriaid, a dywedai na wnaent wrando ar ddim a ddywedai efe wrthynt. O'r diwedd blinodd Mr. Humphreys ar ei faldordd, a dywedai, "Nid yw ryfedd yn y byd eu bod yn gwrthod gwrando arnat, os wyt ti yn siarad cymaint o ynfydrwydd wrthynt hwy ag yr wyt ti gyda mi."

Dywedai Mrs. Humphreys wrtho unwaith ei fod yn pregethu hen bregethau; "Os byddaf yn rhoddi adgyfodiad i rai o honynt, nis gwyddoch chwi, Ann, â pha ryw gorph y deuant," ebe yntau.

Rywbryd mewn Cymdeithasfa yn Aberystwyth, yr oedd yno un brawd yn enwi rhyw frodyr at orchwylion y cyfarfod: ac yn mhlith eraill yr oedd y diweddar Lewis Morris i wneyd rhywbeth. "'Does dim o Lewis Morris wedi d'od," ebe William Rowland, Blaenyplwy'. "Fe ddaw o yma i gyd yn fuan, William Rowland," meddai Mr. Humphreys, "ac fe gewch chwi wel'd y bydd cryn swm o hono pan y daw o."

Cwynai un hen frawd mewn Cyfarfod Misol unwaith, am fod rhyw gwestiynau ffol yn cael eu gofyn, megys, "A ydyw y diafol yn berson?" Er mwyn cael gwared o'r mater dywedai Mr. Humphreys, "Buasai

yn o lew iddo fo fod yn glochydd, chwaethach yn berson."

Pan ar daith yn y Deheudir un tro, digwyddodd iddo gyfarfod â brawd yr hwn oedd yn un o wyliedyddion yr athrawiaeth yn y Gogledd, ac am yr hwn yr oedd rhyw chwedlau isel yn cael eu lledaenu. "Y maent yn dyweyd i mi," ebe y brawd hwnw, "nad ydych chwi, Humphreys, yn pregethu athrawiaeth iachus." "Y maent yn dyweyd i minau," atebai Mr. Humphreys, "na byddwch chwi yn pregethu athrawiaeth yn y byd yn fuan."

Yr oedd cymydog yn syrthio yn fynych i ryw feiau, a thrwy hyny yn peri gofid a blinder mawr i swyddogion yr eglwys lle yr oedd yn aelod; ac un tro fe aeth Mr. Humphreys ato a dywedodd wrtho, "Nid wyf yn ameu nad wyt ti, Dick, yn rhyw lun o Gristion, ond y mae yn arw o beth fod y cythraul yn gwneyd ffwl o honot, a dy yru o'i flaen fel berfa olwyn i bob drwg."

Pan oedd yn eistedd mewn tŷ capel unwaith, daeth dyn mawr tew a chorffol i mewn dan chwythu a thagu, a deallodd Mr. Humphreys ar yr olwg arno y buasai mwy o waith yn lles iddo, ac ebe fe wrth y blonegawg, "Ni waeth i ddyn ddarfod wrth dreulio na darfod wrth rydu."

Pan yn pregethu rhyw noson waith yn Nolwyddelen, ar y ffordd i Gymdeithasfa Llanrwst, lle yr oedd yn myned ar ei draed, gofynodd un o'r cyfeillion iddo, "Sut y mae gŵr o'ch safle chwi yn myned i'r gymanfa ar eich traed?" "Wel," meddai yntau, "yr wyf yn meddwl fod yn well ganddynt weled pobol yno na cheffylau."

Terfynwn y bennod hon gyda hanesyn am Mr. Humphreys a'r diweddar Mr. Robert Griffith, Dolgellau, yr hwn a gawsom gan y Parch. Owen Thomas, Liverpool. "Yn Nghymanfa y Bala, yn y flwyddyn 1835, yr oedd Mr. James Hughes, o Leyn, Mr. Robert Griffith, Dolgellau, Mr. Humphreys, a minau, yn cysgu yn yr un ystafell, a dau wely ynddi. Yr oedd math o drawst dros yr ystafell, uwch ben y gwely lle y gorweddai Mr. R. Griffith a Mr. Humphreys, a phan yr oedd yr hen frawd o Ddolgellau yn myned i'r gwely, fe darawodd ei ben yn drwm yn erbyn y trawst hwnw, nes yr ofnem ei fod wedi cael cryn niwed. 'Yn wir, Robert Griffith bach,' meddai Mr Humphreys, 'mi allaswn i ddysgwyl eich bod wedi cyrhaedd digon o

oedran bellach i wybod y gallai dyn trwy blygu tipyn ysgoi llawer dyrnod yn yr hen fyd yma; ond nid ydyw deddfau y Duw mawr, mewn natur mwy na gras, yn arbed na hen nac ieuangc a'u toro hwynt.' Gyda hyny, pan oedd Mr. Humphreys ei hunan yn myned i'w wely, dyna yntau yn taro ei ben, fel yr hen frawd o'i flaen, ond nid yn llawn can waethed. 'Wel dyna hi,' meddai Robert Griffith, 'dyna chwi yn ffolach na minau, chwi ddylasech ddysgu rhywbeth ar fy anffawd i, yn enwedig newydd i chwi fod yn pregethu i mi.' 'Ië, ïe,' meddai Mr. Humphreys, 'ond, ysywaeth, yr wyf wedi bod fel yna lawer gwaith o'r blaen: yn pregethu i eraill, ac yn annghofio fy nyledswyddau fy hunan.'"

PENNOD X.

Mr. HUMPHREYS A'I SYLWADAU.

Dywedasom yn barod nad oedd Mr. Humphreys yn arfer ysgrifenu ei bregethau, nac hyd yn nod fraslun o honynt. Hysbysir ni gan y Parch. Robert Griffth, Bryncrug, yr hwn a fu am flynyddoedd yn ei wasanaeth, a'r hwn oedd wedi craffu ar ei arferion gyda phob peth, mai ei ddull cyffredin fyddai cymeryd rhyw fater i fyny, a'i droi yn ei fyfyrdodau, a'i wneyd yn destyn ei ymddyddanion, a thrwy y dull hwn y byddai yn toddi y gwirionedd yn ei *fold* ei hunan; yna edrychai am adnod briodol yn destyn, a phregethai yn rhwydd a blasus oddiwrthi. Y mae yr hanesyn canlynol, yr hwn a dderbyniasom gan gyfaill oedd yn adnabyddus iawn o Mr. Humphreys, yn cadarnhau yr hyn a ddywedwyd yn barod. Ni a'i dodwn ef i lawr yn ngeiriau ein hysbysydd. "Yr argraff benaf sydd ar fy meddwl am Mr. Humphreys ydyw y modd y byddwn yn teimlo ar ol bod yn ei gymdeithas, y byddai genyf rywbeth gwerth i'w gofio, ac i feddwl am dano. Y mae yn gofus genyf am un tro neillduol y bum gydag ef yn Bethesda. Yr oedd yn teimlo yn bur wael, ac oblegyd hyny arhosodd yn y tŷ yn lle myned i'r ysgol, a gofynodd i minau aros gydag ef. Mor fuan ag y cawsom y lle i ni ein hunain, dechreuodd ofyn cwestiynau i mi, a'r cyntaf a ofynodd oedd, 'Pa un ai peth mawr ai peth bychan oedd y cryfaf?' Fel y gellid tybied yr oedd yr ateb yn barod genyf, 'Y mawr ydyw y cryfaf.' 'Nage,' meddai yntau, 'Y bychan o ddigon. Pe byddai i lygoden syrthio o ben ysgubor ar y llawr, mi redai ymaith mor fuan ag y gallai gael ei thraed dani; ond pe byddai i fuwch gael codwm felly, yno y byddai hi. Y mae plant bychain yn cael codymau pur enbyd weithiau. Pe byddai i ddyn trwm syrthio felly, mi fyddai yn ddigon i dori ei esgyrn ef. Meddwl di eto fod cwch bychan cryf iawn, a gwisg haiarn am ei flaen ef: pe byddai i hwnw fyned ar ei ergyd i'r graig, ni byddai un *pin* gwaeth; ond pe byddai i long

fawr, a phob peth ynddi wedi ei wneyd yn y modd cryfaf, fyned yn erbyn craig felly, fe fyddai i hono fyned yn ddrylliau yn y fan. Dyma y wers, ychwanegai: 'Y mae natur defnydd y fath fel nad oes modd ychwanegu cryfder yn ol cyfartaledd y maintioli.' Yna âi yn mlaen: Dyma wers arall y dymunwn i ti ei deall, 'Fod yr Arglwydd wedi cadw rhyw bethau o'i weithredoedd yn eiddo iddo ei hunan, fel nas gall dyn eu cyffwrdd hwy. Dyna un peth, *rhoddi tyfiant yn ei waith.* Duw bïa hyny yn hollol. Os bydd ar ddyn eisieu llong, rhaid iddo ei gwneyd yn llong; ni wiw iddo wneyd cwch bach, a disgwyl iddo dyfu yn llong mewn rhyw bedair neu bump o flynyddoedd. Ond dyma gymal pen dy lin di yn tyfu yn ei le fel y mae ef. Gall saer pur gelfydd wneyd cymal fel yna, a'i wneyd hefyd i weithio fel dy lin di; ond gormod o gamp i'r saer beri iddo dyfu. Ond y mae dy gymal di yn tyfu heb i ti deimlo poen ynddo. Duw yn unig bïa rhoddi tyfiant yn ei waith. Peth arall y mae Duw wedi ei gadw iddo ei hunan ydyw y *gallu sydd gan greadur i genhedlu ei ryw.* Y mae dyn yn gallu gwneyd pethau cywrain iawn: dyna *watch*—y mae llawer o gywreinrwydd ynddi; ond ni feddyliodd yr un *Watchmaker* erioed am geisio gwneyd *watch* i fagu *watches* bach; na, y mae yna ryw bellder nas gall dyn mo'i fesur. Ond at hyn yr oeddwn yn cyfeirio," ebe fy hysbysydd, "Nos Sabbath yr oedd yn pregethu ar y geiriau, 'Uwch yw fy ffyrdd i nâ'ch ffyrdd chwi, a'm meddyliau i nâ'ch meddyliau chwi;' a bron yr un oedd materion y bregeth a thestun yr ymddyddan, ond eu bod wedi eu cyfaddasu mor hapus ganddo yn iaith yr efengyl, fel nad oedd yno un gair anweddus i symlrwydd y pulpud."

Y mae yr eglurhad hwn yn esponiad am y modd y byddai yn gallu pregethu ar adnodau na byddai wedi meddwl am danynt ond am ychydig amser cyn myned i'r capel. Yr oedd yn aros un noswaith gyda'r Parch. William Davies, Llanegryn—pan oedd Mr. Davies yn byw yn Llanelltyd—ar ei ffordd i'r Bala at y Sabbath, ac wrth gychwyn i ffordd boreu Sadwrn, gofynai, "Pa le mae yr adnod hono, (——) William, edrych am dani i mi," ac ychwanegai, "Yr wyf yn meddwl dyweyd ychydig arni yfory yn y Bala." Yr oedd dro arall yn myned gyda Mrs. Humphreys a'r teulu i gapel y Dyffryn i bregethu rhyw

noson waith, ac ar riw Dolgau, gofynai, "A oes genych yr un testun i mi at heno." "Nid yn awr yr ydych yn holi am destun," meddai Mrs. Humphreys; "Bum yn bwriadu gofyn i chwi bregethu ar yr adnod hono (——) lawer gwaith, ond nid heno Richard Humphreys," ychwanegai. Ond er ei mawr syndod dyna yr adnod a gymerodd yn destun y noson hono, a phregethodd yn dda oddiarni. Y mae yn ymddangos ei bod yn nghanol y wythïen y byddai ef yn arfer gweithio arni. Y mae hanesyn arall pur darawiadol am dano ar hyn. Digwyddodd iddo fod yn Nolgellau ddau Sabbath yn bur agos i'w gilydd; ac wrth ddarllen ei destun bore yr ail Sabbath o'r ddau, fe feddyliodd mai yr un ydoedd ag oedd ganddo y Sabbath o'r blaen; ond wedi iddo ei ddarllen, yn hytrach na chymeryd ail destun, ymdrechodd i fyned i'w daith ar hyd ffordd arall. Ar ol myned i'w lety, gofynodd i Mr. Williams, "A glywsai efe ef yn pregethu ar y gair yna o'r blaen?" "Do," ebe Mr. Williams, "dyna yr adnod oedd genych y tro diweddaf, ond nid yr un oedd y bregeth." "Meddyliais wrth *echo* yr adnod pan y darllenais hi mai dyna oedd genyf, felly mi geisiais am ryw lwybr newydd i draethu arni." Clywais Mr. Williams yn dyweyd nas gwyddai pa un o'r ddwy bregeth oedd yr oreu; ac y mae hyn yn dangos pa mor gyflawn yr oedd ei feddwl wedi ei ddodrefnu â gwirioneddau yr efengyl.

Bellach ni a ddechreuwn gofnodi rhai o'i sylwadau, a gellir dyweyd am danynt, os nad oeddynt mor boblogaidd yn y traddodiad o honynt ag y dylasent fod, er hyny y maent yn nwyddau sydd yn gwisgo yn dda ragorol. Dywedai un blaenor, yr hwn erbyn hyn sydd yn henafgwr parchus, ac a fu am dymor yn America, "Byddwn yn cael mwy o bleser ar y pryd yn gwrando ar hwn a hwn yn pregethu nag ar Mr. Humphreys; ond pethau Mr. Humphreys a nofiodd gyda mi i dir y Gorllewin pell:" ac ychwanegai, "Ni byddai fawr ddiwrnod yn pasio na byddai rhai o'i ddywediadau ef yn myned trwy fy meddwl."

"I'r pant o edifeirwch y rhêd y dwfr o faddeuant."

"Y mae parch yn beth i'w enill ac nid i'w *ddemandio*."

"Bendith fawr ydyw cael rhan o'r byd hwn; ond cael y byd yn rhan sydd yn felldith drom."

"Ni raid i ni ofyn i'r Duw mawr am gyfiawnder ni a'i cawn; ond am drugaredd rhaid gofyn am dani."

"Yr oedd ein rhieni yn Eden ar y cyntaf yn dirwyn dedwyddwch oddiar bellen sancteiddrwydd; ond daeth pechod i mewn a dyrysodd y *pricied*."

"*Heb gyfrif*.—Ni welaist ti neb erioed yn dy ffitio yn well na Iesu Grist, 'Cymodi heb gyfrif' ag un heb ddim i dalu."

"Mae eisieu i ni fyned at Iesu Grist heb ddim; ond i'r byd mewn gwisgoedd o ogoniant."

"Mae mwy o ddarllen ar grefyddwyr nag ar y Beibl."

"*Rhoddwch fodrwy ar ei law, ac esgidiau am ei draed*.—Ac mi ddywedaf i chwi beth, mhobol i, nid aeth y mab afradlon byth ar hyd yr hen lwybrau ar ol iddo gael esgidiau newyddion."

"*Gwaedoliaeth*.—Nid yw gwaedoliaeth ddim ond cyfoeth yn aros yn hir yn y teulu."

"*Addoli*.—Y mae addoli yn cynwys tipyn o wybodaeth ac o anwybodaeth am y gwrthddrych. Nis gallwch addoli gwrthddrych os na byddwch yn gwybod rhywbeth am dano; ac nis gellwch addoli os na bydd y gwrthddrych yn rhy fawr i chwi allu gwybod yr oll am dano."

"*Neb i'w addoli ond Duw*.—Y mae plant yn greaduriaid pur hawdd i'w hoffi, yn enwedig tra yn fychain; ond os â y rhieni i'w haddoli, hwy a droant allan yn dduwiau seilion yn wir; gwell fyddai addoli duwiau o bren a maen, canys ni byddai i'r rhai hyny fyned yn waeth wrth eu haddoli. Ac er y dylai gwraig garu ei gŵr, eto ni wna efe ond duw gwael iddi; ac er y dylai y gŵr garu ei wraig, ni wna hithau well dduwies iddo na Diana. Yr ydym i addoli Duw yn unig, am mai ef yn unig sydd yn werth ei addoli."

"*Duw a digon*.—Creadur bychan yw dyn mewn cymhariaeth, ond y mae wedi ei wneuthur i gynwys llawer. Er nad yw ei angenion amserol ond ychydig, y mae ei ddymuniadau yn fawrion ac eang. Y mae yn hawdd digoni natur, ond nis gellir boddloni chwant. Gwaedda gwag bleserau o hyd, Melus, moes, mwy. Pe yr addolid y bachgen gan Asia, a'r byd oll, efe a ddymunai ychwaneg o anrhydedd. A pha le y gwelwyd y cybydd yn dyweyd, Digon? Pa beth? Ai nid oes ganddo ddigon o aur ac arian i brynu ei angenrheidiau? Oes, a llawer yn weddill. Paham nad ymfoddlonai ar hyny? Dyma y paham, am ei fod yn gallu dymuno ychwaneg. Ond y

neb a gafodd Dduw a gafodd ddigon, am nas gall ddymuno mwy. Nis gellir llanw y lle a gadwodd Duw iddo ei hunan yn nghalon dyn â dim, nac â'r oll a greodd efe. Pe rhoddid i ddyn haner ymerodraeth yr Hollalluog, byddai arno eisieu iddo ei hun yr haner arall; a phe caffai y cwbl, fe deimlai ei wagder er hyny, nes iddo gaffael Duw ei hunan. Ond yr enaid a all ddywedyd fod yr Arglwydd iddo yn rhan, a all ddyweyd, Digon yw! Nefoedd fechan ar y ddaear yw dechreu mwynhau Duw, a'r nefoedd fawr a pherffaith a fydd ei weled yn Nghrist fel y mae, a bod byth yn gyffelyb iddo."

"*Nis gall ond dyn addoli.*—Y mae adar a all siarad a chanu, ond dyn yn unig sydd yn gallu addoli."

"*Cofia yn awr dy Greawdwr.*—Yn eich gwaith yn ei gofio yr ydych mewn bod iddo ef. Y mae dynion ieuaingc yn bur hapus cyn priodi; ond wedi iddynt briodi, a chael plant, nid ydynt yn leicio eu colli. Felly yr oedd y Duw mawr yn berffaith ddedwydd ynddo ei hunan cyn gosod y gogledd ar y gwagle, na chreu yr un creadur, ond wedi iddo roddi bod i chwi, nid yw yn leicio eich colli: cofiwch ef."

"Nid oes dim drwg mewn duwioldeb serch fod drwg mewn duwiolion. Purdeb ydyw hi, ac ni bydd wedi gorphen ei gwaith nes cael ei pherchenog yn gwbl yr un fath a hi ei hunan. Nid yw gras yn ymgymysgu â llygredd."

"*Y rhai sydd wedi eu galw yn ol ei arfaeth ef.*—Y mae rhai yn meddwl fod arfaeth Duw ar ei ffordd hwy i fyn'd i'r nefoedd. Maent yn debyg iawn i'r ŵydd yn myned o dan y bont, bydd yn rhaid iddi gael gostwng ei phen pe byddai yr *arch* gan' llath yn uwch na hi."

"*Ac ni ddwg neb hwynt allan o'm llaw i.*—Nid oes myned i fewn ac allan o drefn gras. Yn y *Zoological Gardens*, yn Llundain, mae yno un ffordd i fyned i mewn, lle y derbynir rhai trwy dalu, a *gates* eraill i fyned allan pan y myno dyn, ond nid i ddychwelyd i mewn trwy y rhai hyny drachefn. Y mae teyrnas gras yn agored i rai ddyfod i mewn iddi, ond nid i fyned ymaith o honi. Wedi y delo yr enaid i mewn unwaith, allan nid ä mwy."

"*Pechod yn aflendid.*—Y mae pechod wedi myned yn aflendid y natur ddynol: hen ystaen ofnadwy ydyw, ac y mae yn anhawdd iawn i'w gael i ffordd. Yn gyffredin, po

neisiaf y byddo peth, aflanaf fydd wedi ei ddifwyno, ac anhawddaf ei olchi. Y mae careg aflan yn fwy anhardd nag un lân: y mae anifail aflan yn wrthunach: y mae dyn aflan yn anmhrydferthach eto: ac y mae merch aflan yn wrthunach fyth: ond o bob peth aflan, enaid neu yspryd aflan yw yr hyllaf, gan ei fod wedi ei wneyd yn fwy *refined* na dim arall. Ond y mae yn nhrefn iachawdwriaeth fodd i olchi yr enaid oddiwrth ei aflendid: ac y mae miloedd eisoes wedi eu golchi, yn moli am eu cànu yn yn ngwaed yr Oen."

"*Manteision heb yr anfanteision.*—Nid oes yn y byd hwn yr un fantais heb anfantais yn ei chanlyn. Y bobl sydd am fyned i'r America, meddwl myned yno er eu mantais y maent. Y mae y tir yno yn rhad, a phris uchel ar lafur: ond y mae anfantais yn nglyn â hyny. Os oes yno dir bras, y mae effeithiau annghyfanedd-dra llawer oes ar y ffordd i'w fwynhau. Felly y mae yn y byd hwn, y mae pwll o flaen y drws, neu gareg lithrig o flaen tŷ pob un. Ond yn nheyrnas Dduw ceir y manteision heb yr anfanteision gyferbyn â hwy. Ceisiwch 'deyrnas Dduw;' yn wir, pe byddech wedi ymfudo yma ni chwynech byth am yr 'hen wlad.'"

"*Ymrysonau.*—Y mae yn y byd yma lawer iawn o groesdynu, fel cŵn yn ymryson am yr un asgwrn, a dim modd ond i un ei gael. Y neb sydd o duedd ymrafaelgar, rhaid iddo fod a'i gleddyf a'i fwa yn ei law o hyd; caiff ddigon o waith i amddiffyn ei hun o ryw gŵr yn barhaus. A pheth pur ddienill ydyw ymrafaelio. Clywais fod y *Dutchmen* yn rhoddi yn arwydd *(sign)* ar eu tafarndai lun buwch, a Sais yn tynu yn un corn iddi a Ffrancwr yn y llall, a *Dutchman* yn ei godro. Nid yw y bobl gwerylgar yn cael dim ond y cyrn i'w dwlaw, ac hwyrach y cânt eu cornio hefyd: pobl eraill a gaiff y llaeth."

"*Mwyneidd-dra yr Efengyl.*—Dywedir fod modd trin pawb ryw sut, naill ai trwy deg neu trwy hagr: eithr nid oes ond yspryd yr efengyl a fwyneiddia bawb yn rhwydd. Gobaith gwlad well yn mhen draw y daith a dymhera ddyn i ddygymod a llawer peth cas ar y ffordd."

"*Dyn wedi gogwyddo.*—Peth syth ydyw sancteiddrwydd, ond y mae y natur ddynol wedi gogwyddo trwy bechod; ac at hunan y mae ei ogwydd. Wedi i ddyn lawer pryd geisio barnu pethau yn o uniawn, mae y duedd gref sydd yn ei natur yn ei gario ato ac iddo ei hun bron yn ddiar-

wybod iddo. Wrth drin y byd gwnewch *allowance* fod tipyn glew o duedd mewn dynion yn gyffredin atynt eu hunain."

"*Os yr Arglwydd sydd Dduw ewch ar ei ol ef; ond os Baal ewch ar ei ol yntau.*—Ni chawn ni ddewis ein Creawdwr; ond am ein Duw, cawn ddewis hwnw. Y mae yn bwysig iawn pwy a ddewiswn yn Dduw, oblegyd bydd delw y Duw a ddewiswn yn sicr o fod arnom. Oes, fy mhobl i, y mae gan Dduw fodd i roddi ei ddelw ar ei blant. A ddarfu i chwi sylwi ar y *Manufacturers* mawr yna yn Llundain a Birmingham: ar ol gwneyd eu nwyddau a'u harfau, maent yn rhoddi *stamp* arnynt gael i bawb wybod pwy a'u gwnaeth. Felly yn union y mae y Duw mawr yn gwneyd; wedi iddo greu y greadigaeth a'r cwbl sydd ynddi, cyn ei gadael rhoddodd yntau ei *stamp* arni i ddangos pwy yw ei hawdwr. Ond nid ei *stamp* a'i enw y mae yn ei roddi ar ei blant, y mae yn gosod ei ddelw arnynt hwy."

"*Twyll pechod.*—Po fwyaf a fydd ein cymdeithas a Duw ac a dynion, mwyaf oll fydd ein hadnabyddiaeth o honynt; ond po fwyaf oll fydd ein cymdeithas a phechod, lleiaf oll fydd ein hadnabyddiaeth o hono."

"*Cusenwch y Mab rhag iddo ddigio.*—Nid y dosbarth anhawddaf eu digio yw y merched, ac fel merched yn gyffredin bydd Ann yn digio weithiau. Ond yr wyf wedi darganfod meddyginiaeth anffaeledig, ni raid i mi ond gafael yn un o'r plant, a'i anwylo, na fydd pob peth yn dyfod i'w le ar unwaith. Fy mhobl i, os mynwch fyned at galon Duw, cusenwch ei Fab ef."

"*Plesio Duw.*—Yr wyf yn gwybod i mi bechu llawer yn erbyn Duw, ond yr wyf yn bur siwr fy mod wedi gwneyd un peth sydd yn ei blesio yn fawr—yr wyf wedi derbyn ei Fab Ef."

"Mae genym Dduw galluog—gall wneyd dyn o bren mawnog; ond beth y gwnaf son am hyny? rhyfeddach lawer, gall wneyd sant o bechadur."

"Nis gallaf ddyweyd fawr am y nefoedd, ond dywedaf hyn, 'Mae yno ddigrifwch yn dragywydd.'"

"*Ofni yr hyn sydd anocheladwy.*—Peth ffol iawn i ddyn ydyw ofni yr hyn sydd anocheladwy. Doethineb dynion gyda phethau felly ydyw ymbarotoi ar eu cyfer. Waeth i chwi heb ofni y gauaf, oblegyd, ofni neu beidio, dyfod a wna. Felly am angeu, waeth i chwi heb ei ofni, eich doethineb ydyw parotoi ar ei gyfer."

"Oni buasai Yspryd Crist i weithredu ar bechaduriaid buasai marw Crist dros bechaduriaid yn ofer."

"Os nad oes lle i bob rhinwedd yn dy grefydd, ni thâl hi ddim."

"*Ymostwng i Frenin Sion.*—Y mae yn ofid i bobl gall a gwybodus ymostwng i gael eu barnu gan benau gweiniaid; ond nid yw yn ddarostyngiad i neb ymostwng i Frenin Sion—un mawr yw."

"*Gwylder.*—Y mae gwir wylder yn tarddu oddiar deimlad cydwybod fod peth o'i le, ond gau wylder sydd yn tarddu oddiar fod peth o'r ffasiwn."

"Os nad aiff gras rhyngot ti a'th fai, nid aiff maddeuant rhyngot ti a'r gosb."

"*Byw i'r Arglwydd.* —Mae byw i'r Arglwydd yn cynwys llafurio am ei adnabod, ei garu, ufuddhau iddo, ac ymddiried ynddo."

"*Marw i'r Arglwydd.*—Marw i'r Arglwydd a gynwysa, marw yn ngwasanaeth yr Arglwydd—marw yn deimladwy o dangnefedd yr Arglwydd—a marw dan dywyniad neillduol o wedd wyneb yr Arglwydd."

"*Y saint yn eiddo yr Arglwydd.*—Fel gwobr ei lafur yn ei ddarostyngiad—trwy roddi ei hunan yn bridwerth drostynt—trwy fuddugoliaeth. Nid oedd eisieu talu i'r diafol—trwy eu gwaith hwythau yn rhoddi eu hunain i'r Arglwydd."

"*Cariad brawdol.*—Cariad at Dduw yw y cariad uchaf mewn bod—dyna y daioni penaf. Nid oes dim teimlad uwch yn y nefoedd. Caru brawd, am fod delw Duw arno, yw y tebycaf iddo, ac y mae yn brawf ein bod yn caru Duw. Y mae gan gariad ei *companions*—ewyllys da—tosturi—cydymdeimlad, a chyffelyb i'r rhai hyn: ac y mae y rhinweddau hyn yn tyfu yn nyffryn gostyngeiddrwydd a hunan-ymwadiad. Ond ni thyfant ar leoedd uchel, ar fynyddoedd balchder a hunanoldeb: rhaid iddynt gael eu daear a'u hawyrgylch eu hunain."

"*Diffyg mewn crefydd.*—Os bydd rhywbeth yn ddiffygiol yn ein crefydd yn myned oddiyma, ni bydd modd gwneyd y diffyg i fyny yn y byd arall. Fel pan y mae plentyn yn cael ei eni i'r byd hwn, a rhyw ddiffyg arno, nis gellir gwneyd y diffyg hwnw i fyny. Y mae y baban yn cael ei gymhwyso i hwn cyn dyfod iddo, ac i'r byd arall yn hwn."

"*Dammeg yr hauwr.*—Gosod allan wahanol gymeriadau

y mae ein Harglwydd yn y ddammeg hon. 'Min y ffordd' yw dynion o feddyliau bychain, nas gellir rhoddi ond ychydig ynddynt. Y 'Creigleoedd,' dynion o feddyliau gweiniaid, ac anwadal, nas gellir hyderu ynddynt am eu parhad gyda dim; rhai hawdd argraffu arnynt, ond yn colli yr argraff hono yn fuan. Y 'Tir-dreiniog,' dynion o feddyliau galluog ac anturiaethus. Rhai felly fydd yn ymlwytho â gofalon bydol, os heb ras. Ond mewn rhai felly, os cânt ras, y ffrwytha yr 'had ar ei ganfed.' Yn y 'Creigleoedd' wedi cael gras, ar 'ei dri-ugeinfed;' ac yn 'Min y ffordd' ar 'ei ddegfed ar hugain.' "

"Mae y diafol wedi cael *goruchafiaeth* ar ein natur ni, ond nid oes ganddo *hawl* arni."

"*Yr hwn a'n symudodd ni.*—Nid yw bod dyn yn bechadur yn un prawf y bydd yn uffern; y mae y Duw mawr o'i ras yn symud. Os nad yw pechod yn llywodraethu, yr wyt yn ddiogel, ac nis gall y diafol ond *vexio* y dyn duwiol."

"*Chwilod o ddynion.*—Y mae y Brenin mawr wedi cyfranu cryn lawer o synwyr i'r creaduriaid direswm; dyna y ceffyl, y fuwch, a'r ci, y mae pob un o honynt wedi cael digon o synwyr i gydnabod dyn: ond am y chwilen bach sydd yn y llwch wrth eich traed, mae hi mor fechan fel nas gall weled dim allan o honi ei hunan; ni welodd hi neb mwy na hi ei hun: y mae hi mor hyf ar y brenin ac ar y *beggar*. Wel, mhobol i, y mae rhyw chwilod o ddynion felly i'w cael ar hyd y byd yma, na welson' nhw neb erioed mwy na hwy eu hunain, ac mi a'ch marchogant chwi byth a hefyd, os cânt lonydd."

"*Dewis y gwir Dduw yn Dduw.*—Gwnewch mor gall, mhobol i, ag y gwnaeth Æsop, wrth fyned gyda mintai i ben y mynydd; yr oedd yno lawer o glud-gelfi ac ymborth yn cael eu darparu ar gyfer y daith, a phawb yn dewis ei faich: ond dewisodd Æsop y baich bwyd i'w gario; ac fel yr oeddynt yn esgyn i fyny, yr oeddynt yn gorphwys ac yn ymborthi; ac wedi hyny cychwyn a phob un a'i faich ei hun, ac yr oedd baich pawb yn cadw ei bwysau, neu yn hytrach yn trymhau fel yr oeddynt yn dringo, ond baich Æsop; yr oedd ei faich ef yn ysgafnach bob tro y gorphwysent, a mwy na hyny yr oedd baich Æsop yn rhoddi nerth adnewyddol bob tro i ail gychwyn. Felly chwithau, fy mhobol i, dewiswch yr Arglwydd yn Dduw i chwi,

cewch y bydd ei iau yn esmwyth a'i faich yn ysgafn, a chewch fwrw eich baich arno, ac efe a'ch cynal chwi a'ch beichiau."

"*Un drwg ydyw pechod.*—I gael golwg ar ddrwg pechod yn iawn, dylem edrych, nid yn unig ar yr hyn a wnaeth yn y byd yma, ond ar yr hyn a wnai pe cai."

"Nid yw Duw yn ddim i neb er mwyn Iesu Grist, ond i'r pechadur edifeiriol."

"*Heb gyfrif iddynt eu pechodau.*—Nid yw heb wybod eu bod yn bechaduriaid, a gwneyd iddynt hwythau wybod, ond heb gyfrif euogrwydd eu pechodau yn eu herbyn."

"*Gwybodaeth gartrefol.*—Mae yn gymwys fod y wybodaeth sydd genym yn wybodaeth gartrefol—gwybod ein hanes ein hunain yn gyntaf. Dyn cloff, diffygiol, fyddai hwnw a allai ddyweyd hanes ei gymydogion, ac heb ei adnabod ei hun; ynfytyn a fyddai er pob peth."

"*Calon newydd.*—Mae rhoddi calon newydd i bechadur yn beth na ddichon neb ond Duw ei wneuthur, ac am hyny y mae efe yn addaw, 'Rhoddaf i chwi galon newydd;' ond y mae arfer y moddion trwy ba rai y mae Duw yn gwneyd hyny yn ddyledswydd ar ddyn, ac am hyny y mae Duw yn gorchymyn, 'Gwnewch i chwi galon newydd.'"

"*Trefn i gadw.*—Peth mawr a rhyfedd oedd cael trefn i gadw pechadur colledig, ond nid cymaint o beth yn awr yw ei gadw trwy y drefn a luniwyd. Yr oedd yn grynbeth gwneyd a gosod *crane* i ddechreu; ond nid cymaint o beth yw i hwnw godi tunellau o bwysau ar ol ei osod yn ei le."

"*Yr iachawdwriaeth yn ffitio pawb.*—Nid yw dynion wedi eu ffitio i bob peth. Mae gan ambell ddyn lympiau o ddwylaw tewion, na thalent ddim i wneyd *watch*. Ond y mae pawb yn ffitio i'r iachawdwriaeth, a'r iachawdwriaeth yn eu ffitio hwythau; hi a achub frenin a chardotyn yn ddiwahaniaeth."

"*Iachawdwriaeth fawr.*—Mae Duw yn y greadigaeth wedi darparu lluosogrwydd a digonolrwydd o'r pethau yr oedd eisieu helaethder o honynt. Ni wnewch chwi byth Gader Idris o aur y byd: ychydig bach, mewn cymhariaeth, sydd o aur i'w gael. Ond y mae cyflawnder o ddwfr yn y môr, canys yr oedd ei eisieu yn fawr iawn. Bum i, pan yn fachgen, yn meddwl y buasai yn well fod y môr sydd rhwng y Dyffryn a Sir Gaernarfon yn dir braf, er mwyn

i blant dynion gael digon o hono. Ond erbyn i mi ddeall, y mae eisieu i'r môr fod yn fawr fel y mae, gan mai o'r môr y dyfrheir y ddaear, a phe buasai yn llai, ni buasai yn ddigon i'r perwyl ei hamcanwyd. Y mae hefyd ryw doraeth o oleuni a gwres yn yr haul, ac yr oedd eisieu iddo, fel canolbwynt cymaint o fydoedd, fod ei wres a'i oleuni yn fawr. Wel, fel hyn hefyd y mae yr iachawdwriaeth sydd yn y Cyfryngwr. Gwyddai Duw fod angen y pechadur yn fawr, ac efe a drefnodd iachawdwriaeth fawr, Iawn mawr yw yr Iawn; canys yr hwn sydd uwchlaw pawb, 'Efe yw yr Iawn.' "

"*Bywyd a bery.*—Mae etifeddiaethau y ddaear yn myned yn llai wrth eu rhanu. Wrth i blant Israel ranu gwlad Canaan i'w plant, a'u plant hwy drachefn i'w plant hwythau, yr oedd eu hetifeddiaethau yn myned yn llai o hyd. Ond er i lawer o'r newydd gael Duw yn rhan ac yn etifeddiaeth, nid yw rhan neb a'i hetifeddo yn myned yn llai, y mae holl gyflawnder y Duwdod yn eiddo pob credadyn. Mae bara wrth ei ddefnyddio yn darfod, ond nid yw Bara y bywyd yn lleihau dim wrth ei fwyta; 'bwyd a bery i fywyd tragwyddol' ydyw."

"*Dilyn o hirbell.*—Byddaf yn gweled rhai gyda chrefydd yn bur debyg fel y bydd cymydogion mewn claddedigaeth; gwelir rhai yn cerdded llwybrau cyfochrog a'r ffordd—am y gwrych a hwynt, eraill yn tori cyfarfod iddynt yn lle rowndio y tröad oedd yn y ffordd; ond bydd yno ryw nifer bach yn cadw o amgylch yr elor, a'u hysgwyddau yn aml o dan yr arch."

"*Ac i ti er yn fachgen.*—Y mae tref yn Lloegr lle y mae llawer yn byw ar wneyd hoelion, a bydd y plant yn chwareu gwneyd hoelion; ond fel y byddant yn tyfu i fyny, fe fydd gwneyd hoelion yn myned yn fywioliaeth iddynt; a phe gofynid pa bryd y darfu iddynt ddysgu, nis gwyddant. Felly y mae llawer o'r plant a fagwyd yn ein heglwysi, y maent wedi ymarfer â phethau crefydd er yn blant, ond fel y maent yn tyfu i fyny y maent yn dyfod i ymdeimlo â'u rhwymedigaeth fel rhai yn proffesu, ond pe gofynid iddynt pa bryd y daethant i ymdeimlo felly, nis gallant ddyweyd."

"Y mae rhai pethau nad oes arnaf eisieu newid dim arnynt—y Duw mawr—y Cyfryngwr mawr—a'r drefn fawr—y maent wrth fy modd."

"*Wele yr wyf yn sefyll wrth y drws ac yn curo.*—Fe ddaw i mewn ond agor iddo. Cofiwch fod yn rhaid agor y galon i Fab Duw, ni wna efe byth *fyrstio* y drws, ond y mae yn rhaid dy gael di yn barod i'w dderbyn yn gynes a chroesawgar."

"*A ranwyd Crist?*—Pan yr ydym yn lladd oen, neu ryw anifail arall, y mae gan bawb eu *taste* at ryw ran neu gilydd o hono: ond am Oen y Pasg yma, sef Crist, y mae yn rhaid i bawb ei ddefnyddio ef i gyd neu fod yn ol o hono. Nis gellir rhanu Crist."

"*Efe a roddes allu iddynt i fod yn feibion i Dduw.*—Nid gallu i fod yn greaduriaid Duw, o ran y mae hyn gan bawb; 'Efe a'n gwnaeth, ac nid ni ein hunain, ei bobl ef ydym a defaid ei borfa.' Nid yw yr un peth bod yn greaduriaid Duw a bod yn feibion Duw, oblegyd y mae delw Duw ar ei blant—y mae y plant yn wrthddrychau ei neillduol ofal—y mae braint y plant yn fawr dros ben—beth bynag gaiff y plant ni ddaw yr un *bill* byth ar eu hol; ond bydd *bill* ofnadwy i'r annuwiol ryw ddydd a ddaw—ac y mae y plant ag etifeddiaeth yn eu haros. Nid yw cyfraith Lloegr ond yn rhoddi etifeddiaeth i'r cyntaf-anedig; ond yn America rhanu yr etifeddiaeth rhwng y plant i gyd; felly am blant Duw, 'os plant etifeddion hefyd.'"

"Os nad ellwch ddiolch am eich bod yn dduwiol, diolchwch am fod gan Dduw drefn i'ch gwneyd yn dduwiol."

"*Rhoddwch eich hunain i Dduw.*—Mae gan ddyn ryw hawl na fedd neb arall mo honi; gall roddi ei hunan i'r neb y myno—i'r diafol neu i Dduw."

PENNOD XI.

Mr. HUMPHREYS FEL GWEDDIWR.

Gellid meddwl ei fod yn bwngc gan Mr. Humphreys i beidio a gwario ei ddifrifwch gyda phethau dibwys yn ogystal a gochelyd ysgafnder gyda phethau cysegredig. Y mae rhai dynion yn ddifrifol gyda phob peth, ac eraill yn gwneyd y cwbl mewn dull ysgafn a chellweirus. Cofus genyf glywed am un brawd—yr hwn nad oedd ganddo ond yr un pwyslais i'w roddi ar bob peth—yn dyweyd yn yn nghlywedigaeth Mr. Humphreys, " Y mae yr eglwys acw wedi colli dau o'i blaenoriaid; aeth un i fyw i L———n, a'r llall i dragwyddoldeb;" a thrwy nad oedd yn gwneyd dim gwahaniaeth rhwng y ddwy daith, dywedai Humphreys, " Y mae cryn wahaniaeth rhwng y ddau symudiad yna, John." Os ydyw y darllenydd wedi ein dilyn gyda'i hanes hyd yma, y mae wedi deall ei fod yn llawn o ddigrifwch naturiol; ond er hyny, ni welsom neb erioed a golwg mwy defosiynol arno pan yn ymwneyd a phethau cysegredig crefydd, na Mr. Humphreys o'r Dyffryn. Cynyrchai yr olwg addolgar fyddai arno ddifrifwch mawr bob amser y gweinyddai y sacramentau—Bedydd a Swper yr Arglwydd. Arferai ddyweyd wrth y cymunwyr am iddynt fod mewn agwedd briodol wrth dderbyn yr elfenau: tynu eu menyg, estyn eu llaw ddehau, a gwneyd ffordd i'r gweinidog i fyned heibio iddynt; ac ychwanegai, nas gallai ef addoli a dillad ei gyd-greaduriaid o dan ei draed, a bod addoli yn beth *nice* iawn. Byddai yn gyffelyb wrth fedyddio; cynyrchai barchedig ofn yn mynwesau y gynulleidfa wrth ddefnyddio enwau y Drindod Sanctaidd. Dywedai wrth fedyddio yn debyg i hyn, " Y mae rhieni y bychan hwn yn chwenych ei alw yn——, a galwer ef felly, ac nid wrth yr un enw arall. Yr wyf fi, gan hyny, yn bedyddio —— yn enw y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân; a'r Duw hwn sydd yn Dad, Mab, ac Yspryd, a fyddo yn Dduw i'r bychan hwn; eglwys

Dduw fyddo ei gartref, pobl Dduw fyddo ei bobl tra byddo yr ochor yma, a nefoedd Duw fyddo yn gartref iddo wedi myned oddiyma." Byddai yr erfyniadau hyn yn cael eu gwisgo gyda'r fath ddifrifwch, a'u llenwi a'r fath deimlad, fel y byddai yn dwyn argyhoeddiad i bob mynwes fod ei galon ar ei wefus; a dïau fod yr erfyniadau taerion hyn wedi eu gwrando ar ran llawer o fabanod a gymerodd yn ei freichiau. Clywsom wraig o Sir Aberteifi yn dyweyd ei fod pan yn bedyddio baban iddi wedi prophwydo y byddai y bychan yn ddefnyddiol gydag achos yr Arglwydd, a gweddïodd yn daer am iddo gael bod felly; ac y mae y baban hwnw erbyn hyn yn weinidog parchus yn Neheudir Cymru, gyda'r Trefnyddion Calfinaidd.

Y mae llawer o'r rhai a fu mor garedig ag anfon yr adgofion oedd ganddynt am Mr. Humphreys yn gwneyd cyfeiriadau mynych at ei weddïau. Nid ato fel gweddïwr doniol; yr oedd efe yn ddoniol yn gweddïo fel yn pregethu. Y mae llawer siaradwr hyawdl yn afrwydd iawn pan yn ceisio gweddïo; ond cyfeiriant ato fel gweddïwr difrifol, doeth, a gafaelgar, ac at ei weddïau fel rhai eang, manwl, a chynwysfawr. Ni byddai yn rhy brysur a'i enau, ac ni frysiai ei galon i draethu dim ger bron Duw, canys yr oedd yn ystyried fod Duw yn y nefoedd, ac yntau ar y ddaear, am hyny byddai ei eiriau yn anaml. Gallem feddwl oddiwrth y gwahanol gyfeiriadau a wneir ato, yn nghyd a'n hadgofion ein hunain am dano yn gweddïo, y byddai yn cael defnydd ei weddïau yn ei fyfyrdodau. Credwn y cytuna y darllenydd—os yw yn arfer gweddïo—mai gwaith anhawdd iawn ydyw gweddïo, os na bydd defnydd y weddi yn y myfyrdod. Y mae y Parch. R. Griffith, Bryncrug, yn ei adgofion am ei hen feistr, yn dyweyd fel hyn am dano fel gweddïwr. "Yn Sassiwn Pwllheli, yn dechreu yr oedfa ddau o'r gloch, y gwelais i Mr. Humphreys y tro cyntaf i mi ei adnabod, ac fe dynodd fy sylw i edrych a gwrando arno yn y modd mwyaf astud. Yr oeddwn yn ei weled yn un o'r dynion harddaf a welswn erioed, ac yn uwch o'i ysgwyddau i fyny na neb o'i frodyr oedd gydag ef ar yr esgynlawr. Yr oedd tegwch ei wedd a glendid ei lygaid yn nodedig, canys yr oedd yn mlodeu ei ddyddiau, yn llawn deugain mlwydd oed. Yr oedd ei lais yn dyner a soniarus, ac eto yr oedd yn darllen yn ddigon uchel i'r dyrfa fawr ei

glywed heb iddo waeddi dim. Nis gallaf ddesgrifio mor ddyfal ac effeithiol yr oedd yn gweddïo y tro hwn. Nesäai at orsedd-faingc y gras mewn llawn hyder ffydd. Siaradai a'r Arglwydd fel yr ymddyddanai gŵr gyda'i gyfaill, ac er hyny yn wylaidd, gyda pharchedig ofn. Yn y weddi hon, fel pob amser, cydnabyddai yr Arglwydd am yr amlygiadau a roes efe o hono ei hunan yn nghreadigaeth pob peth, ac am ei fod a'i orseddfaingc yn y nefoedd yn ddigon uchel i lywodraethu ar bob peth, ac yn neillduol fel Duw pob gras, yn mawredd ei gariad yn anfoniad ei uniganedig Fab i'r byd, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol. Ac wrth son am fawredd cariad Duw, cynhyrfodd ei yspryd, newidiodd tôn ei lais, a chyda rhyw wên siriol ar ei wyneb, gogwyddodd ei ben, ac estynodd ei law yn arafaidd a dywedai yn llawn serchogrwydd, "Bendigedig a fyddo dy enw sanctaidd byth ac yn dragywydd;" a'r holl bobl o dan ddylanwad yr un yspryd a ddywedasant, "Amen." Mewn cŵr arall o'i adgofion y mae yn cyfeirio at ei weddïau yn y teulu,—a dywedasom mewn pennod arall, fod dylanwad yr addoliad teuluaidd yn fawr yn y Faeldref.—A ein hysbysydd yn mlaen fel hyn, "Gorchfywyd ni lawer tro ganddo, yn enwedig pan y byddai yn ein cyflwyno i ofal y Brenin Mawr, gan ddymuno iddo fod yn Dduw i ni i gyd, fel yr oedd yn Greawdwr a Chynhaliwr i ni. Ie, dywedai, 'Duw Abraham, Duw Isaac, a Duw Jacob; Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, bydd yn Dduw i ninau. Yr ydym wedi dy adael yn foreu iawn, ac y mae arglwyddi eraill lawer heblaw tydi a arglwyddiaethasant arnom ni. Yr ydwyt yn ewyllysio bod yn Dduw i dy greaduriaid, yr ydym ninau yn ewyllysio dy gael yn Dduw i ninau. Nid oes dim a leinw dy le, ond os cawn ni di yn dy Anwyl Fab, fe gawn ddigon am amser a thragwyddoldeb, 'Gwyn eu byd y bobl y mae yr Arglwydd yn Dduw iddynt.' Yna ychwanegai gofio Hâd Abraham, yr hen genedl, gan ddywedyd, 'Y maent yn garedigion i ni oblegyd y tadau, brysied yr amser iddynt gael eu himpio i mewn yn eu holewwydden eu hun, cyflawnder y cenhedloedd a ddelo i mewn i dy dŷ yn fuan, a holl Israel yn gadwedig.' Ni byddai Mr. Humphreys un amser yn annghofio yr hen genedl; pa un bynag ai yn ei dŷ ei hun, ai yn y capel, ai ar y maes ar ddydd y

gymanfa, y plygai efe ger bron Duw, byddai hiliogaeth Jacob yn sicr o gael eu gosod yn daclus ganddo ger bron yr orsedd; ac nid oedd dim yn brawf gwell mai nid rhywbeth ffurfiol ynddo oedd hyn na'r newydd-deb gwastadol a deimlid yn ei erfyniadau ar eu rhan; ac ni buasai dim yn cadw y fath newydd-deb ynddynt ond y teimlad byw fyddai yn ei daflu i'w erfyniadau. Clywsom fod rhyw hen ŵr wedi myned i Gymdeithasfa Pwllheli yn methu a chofio pwy oedd y gweinidog oedd yn dechreu yr oedfa: teimlai y dylasai ei adnabod, ond yn ei fyw ni allasai ei gofio; ond o'r diwedd dechreuodd y pregethwr weddïo dros yr hen genedl, ac yn y fan fe gofiodd yr hen ŵr mai Mr. Humphreys, Dyffryn, ydoedd. Dywed un cyfaill wrth gyfeirio at ei waith yn gweddïo dros hiliogaeth Jacob, na buasai yn anhawdd ganddo ef gredu—os ydyw arferion y nefoedd rywbeth yn debyg i eiddo y ddaear—nad oedd Abraham, Isaac, a Jacob, Moses, a'r holl brophwydi yn brysio i'w gyfarfod yn llu ardderchog, a'u telynau aur yn eu dwylaw i'w groesawu a diolch iddo—fel y diolchai nefolion—am gariad ei fynwes tuag at eu cenedl hwy pan ar y ddaear.

Byddai rhyw arogl esmwyth yn dilyn ei waith yn cydnabod Duw am ei drefn, a'r dadganiad fyddai yn ei wneyd o'i ymorphwysiad arni. Yr oedd yn dechreu yr oedfa o flaen y Parch. Joseph Thomas, Carno, yn Mhennal unwaith, a hyny yn lled agos i ddiwedd ei oes. Dywedai gyda llewyrch mawr, "Y mae genyt drefn i gadw, y mae yn *hen* drefn. Diolch i ti am dani. Nid oes fawr o amser er pan glywsom ni son am dani. Yr ydym wedi ei *leicio*. Nid oes arnom eisieu yr un drefn arall, a phe buasai trefn arall yn bod, gwell genym hon." Ond efallai mai yr hyn a adawodd yr argraffiadau dyfnaf ar feddyliau y gynulleidfa ydoedd, taerni ei erfyniadau am gael Duw yn Dduw iddynt, a rhoddai ei hunan yn y *troop* bob amser. Dywedai yn debyg i hyn, "Diolch am fod genyt drefn i fod yn Dduw i ni. Nid ydym yn gwybod ond ychydig am danat, y Duw Mawr, ond ni chymerem y byd am yr hyn a wyddom," yna ychwanegai, "Bydd yn Dduw i ni; yr wyt yn Greawdwr i ni, bydd yn Dduw i ni. Ein Creawdwr fyddo yn Dduw i ni, a'n Barnwr a fyddo i ni yn Waredwr," a diweddglo ei weddi bron bob amser a fyddai, "Bydd yn Dduw i ni oll, a bydd yn Dduw i ni byth."

Pan y coffawyd yn y weddi ar lan y bedd, ddydd ei gladdedigaeth, ei hen erfyniad ef ei hunan, "Bydd yn Dduw i ni," yr oedd rhyw effeithiau nerthol yn eu dilyn ar feddyliau y dyrfa fawr oedd wedi ymgasglu i'w osod yn "nhŷ ei hir gartref," a hyny yn cael ei achosi yn ddiau gan yr adgofion bywiog oedd yn eu mynwesau am ei waith yntau yn gofyn yr un pethau ar eu rhan, ac oddiar y grediniaeth ddiysgog oedd yn eu mynwesau ei fod ef ei hunan wedi cael Duw yn Dduw iddo, ac wedi dechreu ar dragwyddoldeb o fwynhau Duw yn Nghrist, a'i holl erfyniadau wedi eu troi yn dderbyniadau.

Byddai yn dangos chwaeth dda bob amser yn netholiad yr Hymnau a roddai allan i'w canu; ac yr oedd ganddo ei hoff bennillion; byddent yn hollol ysgrythyrol ac efengylaidd o ran syniadau, a byddant yn Fawl-eiriau. Ni chafodd Salmau yr Archddiacon Prys eu hacenu erioed yn well na chan Mr. Humphryes, ac ni a ddodwn un o'i hoff Salmau i lawr, er mantais i'r darllenydd i'w hadgofio.

"Da wyt i'th dir, Jehofah Ner,
Dychwelaist gaethder Iago,
Maddeuaist drawsedd dy bobl di,
Mae'n camwedd wedi ei guddio."

PENNOD XII.

Mr. HUMPHREYS YN EI DDYDDIAU OLAF.

Buasai pawb oedd yn adwaen Mr. Humphreys yn tybied, oddiwrth yr olwg gadarn a heinyf oedd arno yn ei flynyddoedd goreu, y buasai yn bur ddidrafferth yn gallu cyrhaedd ei bedwaredd ugeinfed flwyddyn, ac na buasai ei nerth yn llawer o boen a blinder iddo am dymor wedi iddo fyned heibio iddynt. Astudiodd ddeddfau iechyd yn fanwl, a byddai yn dra gofalus i'w cadw. Ymwrthodai bron yn hollol â moethau bywyd, a dewisai yn hytrach yr ymborth mwyaf iachus a maethlon. Yr oedd teulu y Faeldref yn myned at eu boreufwyd unwaith, pryd yr oedd ar y bwrdd dê wedi ei barotoi ar gyfer y mwyafrif o honynt, a chwpaned o *gruel* wedi ei wneyd iddo yntau, yn ol ei ddymuniad: wedi i bawb eistedd o amgylch y bwrdd, dywedai Mr. Humphreys, "Wel, dowch Morgan, gofynwch fendith ar y tê yna, y mae bendith yn fy mwyd i." Byddai yn cymeryd digon o ymarferiad corphorol, trwy y gorchwylion a gyflawnai yn barhaus o amgylch y fferm; a chlywsom y byddai ar ryw adegau yn myned o dan gafn yr olwyn ddŵr oedd ganddo, yr hwn a wasanaethai yn lle *shower-bath* iddo. Ond er fod pob peth yn rhoddi lle i obeithio y buasai yn "cael ei ddigoni â hir ddyddiau," dangoswyd ynddo yntau, fel pawb a fu o'i flaen, mai gwir yw y gair, "Pob cnawd sydd wellt, a'i holl odidowgrwydd fel blodeuyn y maes: . . . yr hwn sydd heddyw, ac yfory a fwrir i'r ffwrn." Cydnabyddai yn ei gystudd ei fod wedi cael oes o iechyd da, ac nid ydym yn cofio clywed am ddim salwch neillduol arno, ond unwaith, sef yr amser y cymerwyd ef yn glaf wrth ddychwelyd o Lundain, pryd y bu yn gorwedd yn yr Amwythig am rai wythnosau. Yr oedd hyn o gylch y flwyddyn 1825. Achosodd yr afiechyd hwn bryder mawr i'w deulu a'i gymydogion yn y Dyffryn a'r amgylchoedd, a byddai llawer o weddïo drosto ac o holi yn ei gylch. Pan y gwellhâodd fel ag i allu dychwelyd adref, byddai llawer yn cyrchu i'r Faeldref i edrych am

dano, ac i gyd-lawenhau â'r teulu am ei adferiad. Gofynodd i un cymydog, yr hwn oedd yn ffermwr parchus, ond heb fod yn proffesu, a oedd efe wedi bod yn gweddïo drosto? Atebwyd ef trwy ddyweyd, "Os nad oeddwn yn gweddïo fy hunan, yr oeddwn yn cadw gwas i weddïo am eich adferiad."

Mae hanes Mr. Humphreys a'i gystudd yn gysylltiedig bron yn gwbl â chymydogaeth Pennal, ac yr ydym wedi derbyn defnyddiau y bennod hon gan Mrs. Humphreys, a'i hen gyfaill Mr. David Rowlands, yr hwn sydd yn flaenor defnyddiol gyda'r Methodistiaid yn Mhennal. Symudodd Mr. Humphreys yno, fel y dywedasom o'r blaen, yn Mehefin y flwyddyn 1858, a chafodd y derbyniad mwyaf croesawgar gan yr eglwys, a pharhaodd yn ngwres ei chariad cyntaf hyd y diwedd. Ond nid hir y bu yn eu plith cyn i'w natur ddechreu llesgau. Ei anhwyldeb oedd y *bronchitis*, oddiwrth yr hwn y dyoddefodd lawer yn amyneddgar ac ymostyngar. Yr oedd llawer yn barnu hefyd ei fod wedi cael tarawiad ysgafn o'r parlys, ac mai dyna oedd wedi gwaethygu ei gof, a niweidio ei barabl. Nis gallodd deithio ond ychydig wedi symud i Bennal. Bu ar gyhoeddiad trwy Sir Ddinbych, a'r diweddar Barch. Robert Thomas yn gwmni ganddo. Rhoddodd ddau Sabbath, a'r wythnos rhyngddynt, yn Sir Aberteifi, ar gais ei anwyl gyfaill y diweddar Barch. Thomas Edwards, Penllwyn. Y daith olaf y bu ynddi oedd trwy ran isaf Sir Drefaldwyn, gyda'i hen gydymaith, y Parch. E. Price, Llanwyddelen. Yr oedd yn teimlo yn hynod o'r llesg ar hyd y daith hon, a bu raid iddo ddychwelyd cyn ei gorphen. Ni soniodd mwy am fyned oddicartref. Ond wedi methu a myned o amgylch i wneuthur daioni fel cynt, bu am dymor wed'yn yn gallu myned i'r capel i fwynhau cymdeithas ei frodyr. Bu yn hynod o ymdrechgar i ddilyn moddion gras, a phan y byddai yn cael ei orfodi i gadw gartref am dymor, byddai yn dyweyd ei fod yn myned yn bagan heb fod yn y moddion cyhoeddus. Arferai gychwyn yn brydlon i'r capel, er mwyn cael gorphwys gyda David a Mary Rowlands. Bu y ddau hyn yn hynod o'r caredig iddo. Cofus genyf fy mod yn myned un boreu Sabbath o Gwerniago i Bennal, a Mr. Humphreys yn dyfod gyda mi, ac yn ol ei arfer trodd i mewn atynt; ac ar ei fynediad i mewn, dyma y ddau ar eu traed yn barod

i weini arno; a thra yr oedd un yn datod ei gôt fawr, yr oedd y llall yn dad-fotymu ei *overalls;* ac ar ol iddo eistedd dywedais: "Y mae y cyfeillion hyn yn ymddangos yn hynod o'r caredig i chwi, Mr. Humphreys." "Ydynt," ebe yntau, "fel hyn y maent er pan wyf yn y gymmydogaeth, a byddaf yn gofyn i mi fy hunan weithiau, am ba hyd y bydd i'w caredigrwydd barhau." Ond nid oedd un perygl iddo ddarfod, gan fod y ddau yn cael y fath fwynhad yn ei groesawu. Byddai yn hynod siriol gyda hwy. Dywedai un tro wrth ysgwyd llaw â hwynt,

"A wyddoch chwi am ba beth yr oeddwn yn meddwl wrth ddyfod yma heddyw?"

"Na wyddom ni, Syr," ebai y gŵr.

"Wel, meddwl pa un oreu ydyw Dafydd i Mari, ai Mari i Dafydd."

Yna gofynodd, "Sut mae eich *temper* heddyw, Mari bach?"

"Gwelais hi yn well lawer gwaith," ebe Dafydd.

"Dim anair am Mair i mi,"

ebe yntau.

Os byddai yn gweled gan David Rowlands amser, gofynai iddo weithiau ddarllen cyfran o ryw lyfr iddo; ac un tro fe ddarllenodd ei gyfaill bregeth o'r "*Pregethwr*" o waith Mr. Humphreys ei hunan iddo, ond heb ei hysbysu o hyny. "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu," oedd y testyn, ac ar ol ei darllen gofynodd,

"Wel, beth ydych yn ei feddwl o honi, Mr. Humphreys?"

"Wel," ebe yntau, "y mae yn dyweyd pethau digon tebyg i'r hyn a fuaswn yn eu dywedyd fy hunan am lywodraeth y Duw mawr."

Nodweddid ei wythnosau olaf gan ddifrifwch, tynerwch, a nawseidd-dra yspryd. Yr oedd rhywbeth tra neillduol yn ei bregethau olaf, er nad oeddynt yn cael eu traddodi yn y dull rhwydd a phert yr arferai efe gynt; ond er hyny yr oedd yno ryw eneiniad oedd yn gwneyd i fyny am bob diffyg. Y mae y Parch. Joseph Thomas, Carno, yn yr adgofion a gawsom ganddo am dano, yn dyweyd fel hyn: "Clywais ef yn pregethu mewn Cyfarfod Misol yn Llanfaircaereinion, a hyny yn lled agos i ddiwedd ei oes, gyda llewyrch anarferol. Ei destyn ydoedd, 'Ceisiwch yr

Arglwydd tra galler ei gael.' Esaiah lv. 6, a dyma y penau :

I. Fod dyn wedi colli Duw.

II. Nas gall dyn ddim gwneyd heb Dduw.

III. Fod Duw i'w gael.

IV. Fod yr Arglwydd yn *leicio* bod yn Dduw i bechadur o ddyn.

Ni pharhaodd ond am o gylch haner awr. Yr oedd efe a phawb eraill yn ymdoddi o flaen y gwirioneddau."

Pan yn bur llesg, aeth i Gyfarfod Misol Machynlleth ; ac yn un o'r cyfarfodydd yr oedd gwŷr ieuaingc oedd yn ymgeiswyr am y weinidogaeth yn cael eu holi, ac un o faterion yr arholiad ydoedd, " Tragwyddol gospedigaeth." Pan oedd yr arholwr yn holi am brofion dros " dragwyddol gospedigaeth," dywedai Mr. Humphreys rywbeth mewn llais gwanaidd ac aneglur ; trodd yr arholwr ato, a gofynodd yn dyner, " A oeddych yn dyweyd rhywbeth, Mr. Humphreys ?" " Dim ond hyny," ebe yntau, " ni buaswn yn *leicio* ei mentro, rhag ofn ei bod yn dragwyddol." Achosodd y sylw ddifrifwch mawr trwy yr holl gyfarfod.

Wedi iddo fyned yn rhy lesg i fyned allan o'i dŷ, nid oedd dim yn sirioli mwy ar ei feddwl nag ymweliadau ei gyfeillion. Galwodd y diweddar Barch. Foulk Evans, Machynlleth, gydag ef amryw weithiau ; a llawer gwaith y dywedodd Mr. Humphreys wrtho, fod yn dda ganddo gael bod yn yr un byd ag ef, a gwell drachefn ganddo ei fod yn gymydog iddo. Cwynai yr hen dad fod y byd yn ddrwg iawn, ond ni fynai Mr. Humphreys achwyn arno, a chydnabyddai ei fod ef wedi ei gael yn fyd go dda ar y cyfan. Aeth y diweddar Gapten Lewis Griffith, o Bortmadoc, i edrych am dano : yr oedd y ddau wedi bod mewn cysylltiadau â'u gilydd am faith flynyddoedd, un fel cadben, a'r llall fel *owner* a *ship's husband* y " Mary Ann." Nid oedd terfyn ar barchedigaeth y Cadben i'w hen feistr : a pha ryfedd ? Yr oedd wedi ei gael yn garedig a ffyddlawn yn mhob profedigaeth y bu ynddi ; ac nid ychydig oedd y rhai hyny. Y Sabbath yr oedd ef yn Mhennal oedd yr olaf i Mr. Humphreys allu myned i'r capel, ac yr oedd mor wael y tro hwnw fel y bu raid i'r Cadben ei gario o'r *gig* i'r tŷ ; ac yr oedd yn dda ganddo gael gwneyd hyny fel ad-daliad am ei gymwynasau lluosog iddo. O gylch yr un adeg fe aeth ei fab-yn-nghyfraith, Mr.

Morgan, i ymweled ag ef, a chymerodd Richard Humphreys Morgan, ei fab hynaf, gydag ef; ac ar ol ymddyddan ychydig, dywedai Mr. Morgan wrtho, "Yr wyf wedi d'od a'ch ŵyr, Richard Humphreys, gyda mi atoch, fel yr oedd Joseph yn myned a'i feibion at Jacob i'w benditho; ac ychwanegai, "dywedwch air wrtho." Y mae yn *bity* na fuasai geiriau y fendith genym; yr oedd R. H. Morgan yn rhy ieuange i'w cofio, ac y mae ei anwyl dad

"A'r tafod ffraethbert hwnw'n fud."

Ond gallem deimlo yn dra sicr fod yr olygfa yn un wir batriarchaidd. Galwodd ei hen gyfaill, y diweddar Barch. T. Edwards, Penllwyn, gydag ef, wrth ddychwelyd o gyfarfod pregethu oedd mewn cymydogaeth gyfagos. Byddai yn dyweyd am Mr. Edwards ei fod yn un o'r rhai tebycaf i Iesu Grist a welodd ef erioed. Gofynai Mr. Humphreys pwy oedd yno gydag ef, ac enwodd Mr. Edwards hwy. Yr oedd yn eu plith un nad oedd yn cael ei ystyried gan y wlad yn un o'r *great guns*. "Wel," ebe Mr. Humphreys, "y mae y gynau bach yn lladd mor *amled* a'r gynau mawr 'rwy'n coelio."

Dangosodd ei hen gyfeillion lawer o gydymdeimlad âg ef trwy ysgrifenu ato, a byddai derbyn eu llythyrau yn sirioli ei feddwl yn fawr. Bu Mrs. Humphreys mor garedig ag anfon i ni lythyr a dderbyniodd oddiwrth y diweddar Mr. Rees, ac ni a'i dodwn ef i mewn.

91, *Everton Terrace, Liverpool,*
Mai 8, 1861.

ANWYL GYFAILL,—

Pan yn Aberystwyth derbyniais lythyr, yr hwn a ysgrifenwyd ataf yn eich enw chwi, ac ynddo yr ydych yn gofyn am gyhoeddiad genyf oddeutu Cymanfa Machynlleth. Y mae ansicrwydd eto o barth fy nyfodiad i Fachynlleth, fel mai cwbl ofer a fyddai i mi wneyd un math o addewid. Ond os deuaf i'r Gymdeithasfa, gobeithiaf eich gweled yno, a bydd yn dda genyf, os bydd yn bosibl, eich gweled yn eich tŷ eich hunan.

Drwg genyf glywed mai parhau yn llesg a gwanaidd yr ydych o ran eich iechyd: onid hyfryd yw, er llygru y dyn oddiallan gan gystuddiau, fod y dyn oddimewn yn cael ei adnewyddu o ddydd i ddydd—cysuron ysprydol yn cryfhau, a'r meddwl trwy hyny yn cael ei weithio i ddarfod â'r byd, ac i ymgymodi â'r bedd; ac yn troi i ddyheu am y

fuchedd dragwyddol. Yr wyf yn clywed eich bod yn profi gradd o'r pethau hyn, a gobeithio yr wyf, os bydd eich cystuddiau yn amlhau, y bydd eich dyddanwch trwy Grist yn amlhau hefyd.

Dywedech, yn Nghymdeithasfa Dolgellau, y byddai arnoch ofn weithiau cael eich rhoddi i fyny i bechu, "pechu *byth byth.*" Mor hyfryd, yr ochr arall, yw meddwl am gael sicrhau y galon yn ddiargyhoedd mewn sancteiddrwydd ger bron Duw:—"caru *byth byth.*" Y meddwl wedi ei feddyginiaethu oddiwrth ei holl ynfydrwydd, a chwedi ei sefydlu mewn ansawdd bur ac iachusol—yn mwynhau daioni, yn canfod gwirionedd, ac yn synu gogoniant, *byth byth.* Gobeithio mai hyn fydd eich rhan chwi a minau: a chan fod yn rhaid marw, bydded i'r Duw mawr, yn lle ein gadael i ymladd â'r hyn nas gellir ei ochelyd, weithio ein meddwl yn hyf, ac i weled yn dda yn hytrach fod oddicartref o'r corph, a chartrefu gyda'r Arglwydd.

Yr wyf yn dymuno fy nghofio at Mrs. Humphreys.

Ydwyf, Anwyl Gyfaill,

Eich Brawd a'ch Cydymaith mewn cystudd,

Ac yn Nheyrnas ac Amynedd Iesu Grist,

HENRY REES.

Yr oedd yn parhau i deimlo y dyddordeb mwyaf yn llwyddiant achos yr Arglwydd, er methu a chael myned i blith ei frodyr fel cynt; a chymerai gyfleusdra ar ei ymweliadau i gael gwybod helynt yr eglwysi yn y sir. Bu Cyfarfod Misol yn Nghorris yn adeg ei gystudd, ac yr oedd y brawd David Rowlands wedi myned yno, a mawr oedd disgwyliad Mr. Humphreys am ei weled yn dychwelyd. Gofynai yn aml i Mrs. Humphreys a oedd hi yn meddwl ei fod wedi cychwyn adref; a thrachefn a oedd ef wrth gapel Pantperthog, neu y Penrhyn, ac a oedd hi yn meddwl fod y *messenger* yn agos; a phan y daeth, llawenychai â llawenydd mawr, nid am fod yno ddim byd neillduol i fod o dan sylw, ond fel y gallai glywed am helynt yr achos yn gyffredinol.

Yn yr adeg yr oedd ef yn glaf y bu farw ei gyfaill mynwesol y diweddar Barch. Robert Williams, Aberdyfi, ac effeithiodd ei farwolaeth yn fawr arno. Cadwyd y newydd galarus am ei farwolaeth oddiwrtho am rai dyddiau, a byddai yntau yn gofyn bob dydd a fyddent yn clywed pa fodd yr oedd efe; ac o'r diwedd dywedodd Mrs. Hum-

phreys wrtho fod Mr. Williams yn y nefoedd er's dyddiau rai, ac atebodd yntau, "Nid oeddwn yn meddwl y buasai Robert yn cael myned adref o'm blaen." Wedi hyn dechreuodd bryderu yn nghylch claddedigaeth ei anwyl frawd, ac ofnai yn fawr i Mrs. Humphreys—gan fod y daith i Bryncrug mor bell, a'i phryder hithau mor fawr am dano—droi yn ol, cyn fod pob peth drosodd. Dywedai wrthi pan oedd yn cychwyn, "Peidiwch, da Mrs. Humphreys, a gwneyd tro cwta ar y fath achlysur;" a'r peth cyntaf a ofynodd wedi iddi ddychwelyd ydoedd, "A roddasoch chwi Robert bach yn nhŷ ei hir gartref? a basiodd pob peth yn anrhydeddus?" Dengys y pryder hwn mor bur ydoedd i'w gyfeillion, a'i fod yn parhau felly hyd y diwedd.

Yr oedd ganddo barch mawr i'r Sabbath bob amser, ac ni byddai byth yn hoffi gweled neb mewn dillad cyffredin ar ddydd yr Arglwydd. Byddai yn rhaid iddo gael ei ddillad goreu am dano bob Sabbath, er nad oedd yn gallu myned allad o'r tŷ; a llawer gwaith y dywedodd Mrs. Humphreys wrtho, wedi ei wneyd ef i fyny, "Dyna chwi, Mr. Humphreys, yn gymwys i gychwyn i Gymanfa." Treuliai lawer o amser i ddarllen y Beibl, a llyfrau da ereill, tra y parhaodd ei nerth; a byddai yn gofyn seibiant ar ol tê y prydnawn i weddïo. Galwai yr adeg hono yn "awr weddi." Tynodd lawer o gysur i'w feddwl yn ei gystudd o'r Philippiaid, pen. ii.; a iv., o'r 4ydd hyd y 10fed o adnodau; ac hefyd o ddiwedd y bennod gyntaf o'r Colossiaid, dechreuai ddarllen yn y 12fed adnod. Byddai yn galw y rhai hyn yn adnodau mawr, a byddai yn rhaid i'w gyfeillion ddarllen yr adnodau hyny iddo pan y galwent i edrych am dano; a chawsant wledd fras a dant-eithiol gydag ef uwch ben yr adnodau hyn lawer gwaith. Byddai yn dyweyd y geiriau, "Y Duw mawr;" "Y Cyfryngwr mawr;" a'r "Iachawdwriaeth fawr;" gyda'r fath deimlad nes cynyrchu yspryd addoli yn mhawb fyddai yn y lle.

Amlygodd ddymuniad i gael gweled ei gyfaill David Rowlands, un diwrnod, a dywedai fod arno eisieu gofyn iddo a wnai efe aros yno gyda hwy adeg ymadawiad yr enaid. Gwnaed y cais hwn yn hysbys i D. R., ac aeth yntau yno ar unwaith, a bu yno ddydd a nos am amryw ddyddiau, ac y mae wedi bod mor garedig a rhoddi i ni

hanes ei ddyddiau olaf. Dywedai, "Yr oeddwn yn teimlo yn mhresenoldeb Mr. Humphreys fel Pedr gynt yn nghymdeithas ei feistr mawr, ac yr oeddwn yn mwynhau llawer o'r un yspryd ag yntau: a buaswn yn foddlawn i aros gydag ef am lawer mwy pe buasai hyny yn angenrheidiol. Yr oedd yno rywbeth neillduol nas gallaf roddi cyfrif am dano na'i ddesgrifio. Y mae arnaf gymaint o ofn marw a'r un dyn ar y ddaear, ond teimlwn ar adegau gydag ef na buasai waeth genyf farw na pheidio. Yr oedd yn hynod dawel a dirwgnach, a dywedais wrtho fy mod yn rhyfeddu ei weled mor hynaws a thirion, a hyny yn wyneb gwaeledd mor fawr.

'Yr wyf,' ebe yntau, 'wedi penderfynu, er pan yn ddyn ieuangc, os cawn i byth fyw i fyned yn hen ŵr, am fod yn hen ŵr hynaws.'

Y tro diweddaf y bu yn ein tŷ ni, yr oedd Mary Rowlands, fy ngwraig, yn ei gynorthwyo i ddiosg ei *coat*, gael iddo fyned i orphwys; ac wrth ei weled mor wael, dywedodd wrtho,—

'Buasech yn ddedwydd iawn, Mr. Humphreys bach, pe buasech yn y nefoedd.'

'Yn wir, Mary bach,' meddai yntau, 'mae arnaf ofn y nefoedd; pe buasai rhyw le canol, hwnw fuasai yn fy ffitio i.' Ond pan aeth Mary Rowlands i edrych am dano ar ol hyn, dywedai—

'Wel yr wyf yn gallu dyweyd wrthych heddyw fy mod yn siwr o'r nefoedd.'

Daeth hen chwaer arall i ofyn am dano, a gofynodd iddo pa fodd yr oedd yn teimlo?

'Hapus iawn,' meddai yntau, 'mae fy holl ddymuniadau yn dderbyniadau heddyw.'

Dro arall pan y gofynem iddo pa fodd y byddai?

'Da iawn, yr wyf yn gallu diolch heddyw,' fyddai ei ateb yn aml. Nid annghofiaf byth yr agwedd addolgar fyddai arno; rhoddai ei ddwylaw yn mhleth, a chyfodai hwy i fyny yn aml, a pharhaodd i wneyd hyny hyd nes aeth yn rhy wan i'w cynal. Bum lawer gwaith yn ei gynorthwyo i'w dal i fyny, fel Aaron a Hur gyda Moses, a byddwn yn dyweyd wrtho y byddai i mi ei gynorthwyo hyd nes y byddai iddo orchfygu. O! y ddau lygaid glân a wnaeth arnaf y pryd hwnw. Yr ydych yn credu y byddwch yn orchfygwr,

onid ydych Mr. Humphreys ? meddwn wrtho un diwrnod.

'O ydwyf yn sicr,' oedd ei ateb.

Byddai yn ateb pob cwestiwn yn nghylch diogelwch ei gyflwr yn gryf a phenderfynol. Pan y gofynodd cyfaill iddo sut yr oedd un diwrnod, dywedai,—

'Byddaf gydag Abraham, Isaac, a Jacob yn nheyrnas nefoedd yn bur fuan bellach.' Dywedai yn orfoleddus iawn un diwrnod—

'Amser canu, diwrnod nithio,
Eto'n dawel heb ddim braw.
Y gŵr sydd i mi yn ymguddfa
Sydd a'r wyntyll yn ei law.'

Y dyddiau olaf aeth nad allem ei ddeall yn dyweyd yr un gair. Darfu i'r *jaw-bone* ymryddhau, a thrwy hyny aeth ein cymdeithas ni âg ef yn llai. Nid oedd gan y teulu a minau ddim i'w wneyd bellach ond wylo uwch ei ben. Dywedodd Mrs. Humphreys wrtho—gan nad allai ddyweyd dim byd wrthynt—a allai efe ddim gwneyd yr un arwydd arnynt fod pob peth yn dda, a'i fod yntau yn teimlo felly ar y pryd. Estynodd yn tau ei law—er gwaned ydoedd—a throdd hi gylch ei ben fel bwa, ac yna disgynodd hi yn drwm ar y gwely i beidio a chyfodi mwy. Yr oedd y llefaru hwn trwy yr arwydd yna yn anesgrifiadwy, ac nis gallaf ddarlunio ein teimladau ar y pryd. Yr oedd fel morwr wrth adael y tir yn gwneyd arwydd i'w gyfeillion fydd yn sefyll ar y lan. Felly ar y 15fed o Chwefror, yn y flwyddyn 1863, 'Cwympodd y gedrwydden,' ac agorwyd pyrth marwolaeth i Mr. Richard Humphreys i fyned trwyddynt i lawenydd ei Arglwydd. Yr unig wahaniaeth oedd rhyngddo wrth farw ag oedd ar hyd ei oes ydoedd fod ei hyder yn Nghrist wedi tyfu yn llawn sicrwydd. Bu farw yn y ddeuddegfed flwyddyn a thriugain o'i oedran. Er na chyrhaeddodd ddyddiau blynyddoedd einioes rhai o'i dadau, cafodd fyw digon i weled iachawdwriaeth Duw, ac i fod yn offeryn yn llaw ei Yspryd i ddwyn eraill i'w gweled."

Ysgrifenodd ei fab yn nghyfraith, y diweddar Parch. Edward Morgan *hanes ei gladdedigaeth* i'r "*Faner*," ac ni a'i dodwn ef i lawr yn ei eiriau ef ei hun.

"Claddwyd ef yn y Dyffryn, dydd Mawrth, Chwefror 25ain, mewn bedd a ddarparasai iddo ei hun, yn ol arfer y patriarchiaid gynt, er's blynyddoedd. O herwydd fod y pellder yn fawr—33 o filldiroedd—yr oedd yn rhaid cychwyn o Bennal am 6 o'r gloch y boreu; ac yr oedd tywyllwch mawr a thawelwch dwfn y boreu hwnw yn chwanegu llawer at brudd-der yr amgylchiad. Wedi i'r Parch. T. Edwards, Penllwyn, gyfarch y gynulleidfa mewn ychydig eiriau, a gweddïo, cychwynwyd: y pregethwyr yn mlaenaf, yna yr elor-gerbyd, yn nghyda cherbydau eraill; ar ol hyny, rhai ar geffylau. O herwydd y pellder, yr oedd yn rhaid myned yn rhy gyflym i neb ddilyn, ond rhai mewn cerbydau, neu ar feirch; er hyny daeth tyrfa luosog o'r cymydogion yn nghyd yr awr blygeiniol hono i edrych arnom yn cychwyn.

Erbyn cyrhaedd at bont Machynlleth, yr oedd nifer yn disgwyl ar y bont. Arafwyd am ychydig ffordd, er iddynt gael y pleser pruddaidd o ddilyn am ychydig funudau un a barchent mor fawr, tua thŷ ei hir gartref. Gadawsom gyfeillion Machynlleth yn canu: ond daeth rhai o honynt, yn flaenoriaid ac eraill, gyda ni i Ddolgellau.

Ni oddefai yr amser i ni arafu wrth fyned drwy Gorris, ond yr oedd y creigiau a llethrau y mynyddoedd yn cael eu britho gan y gweithwyr: y rhai oeddynt wedi gadael eu gorchwylion i gael golwg ar y cerbyd yn mha un yr oedd yr oll ag oedd farwol o'r hwn y bu golwg arno yn goleuo eu hwynebpryd â llawenydd am flynyddoedd meithion, pan y gwelent ef ar y Sadwrn yn cyfeiria tua Chorris.

Pan oeddym gerllaw Dolgellau, daeth canoedd o drigolion y dref a'r gymydogaeth, yn nghyda nifer mawr o'r Dyffryn, Ffestiniog, a lleoedd eraill, i'n cyfarfod. Pan aethom i mewn, yr oedd yr holl dref wedi ei gwisgo â dillad galar, y lleni ar bob ffenestr, holl fasnachdai y dref, oddieithr UN, wedi eu cau, pob gwaith wedi sefyll, a'r ystrydoedd yn llawn o bobl fel ar amser cymanfa. Yr oedd yr olygfa yn gyfryw fel nas gallai ymdeithydd lai na deall wrth ei gweled, a sylwi ar yr elor-gerbyd a'r cerbydau eraill oeddynt yn rhes ar yr heol, fod 'Tywysog a gŵr mawr wedi syrthio!'

Wedi aros yn Nolgellau am awr a haner i orphwyso, cychwynasom oddiyno am haner awr wedi un-ar-ddeg, yn

yr un drefn ag o'r blaen. Cychwynwyd yn araf am y chwarter milltir cyntaf o'r ffordd, er mwyn y canoedd oeddynt yn dymuno cael dilyn am ychydig. Canodd y cantorion am yr ysbaid hyny, pan ymwahanodd y dyrfa o bob tu y ffordd i ni fyned yn mlaen. Yr oedd y cerbydau a'r meirch erbyn hyn yn lluosog iawn.

Cyrhaeddasom yr Abermaw erbyn 2 o'r gloch, ac yr oedd yr olygfa yma yn gyffelyb i Ddolgellau—yr holl fasnachdai wedi eu cau, pob tŷ—bychan a mawr—hyd yn oed i fyny, fel y clywsom, i gesail uchaf y graig, âg arwyddion galar arno, oddieithr UN tŷ mawr, yr hwn, gan amlygrwydd ei sefyllfa, a dynai sylw cyffredinol.

Cerddwyd y 5 milldir olaf o'r saith, sef o'r Abermaw i'r Dyffryn, a chwanegwyd yn awr gannoedd lawer at y fintai. Cyrhaeddasom Gapel y Dyffryn ychydig cyn 4 o'r gloch—y capel a gynlluniwyd ganddo ef ei hun, er's tros 43 o flynyddoedd, ac ar goed a cheryg pa un y gweithiodd yn galed lawer awr (ei hyfrydwch drwy ei oes oedd trwsio a naddu ceryg).

Dechreuwyd y gwasanaeth trwy ddarllen a gweddio gan y Parch. Rees Jones, Felinheli, a phregethwyd gan y Parch. L. Edwards, M.A., Bala, oddiar Matth. xxiv. 45, 46, a 47. Cyfarchwyd y gynulleidfa ar lan y bedd gan y Parchn. E. Price, Llanwyddelen, a Rees Jones, Felinheli, a gweddïodd y Parch. John Griffith, Dolgellau. Darlunid cymeriad yr ymadawedig yn dra tharawiadol, ond yn gwbl gywir, gan y brodyr a fuont yn cyfarch y gynulleidfa. Er ei fod yn cael gair da y tu hwnt i'r cyffredin ganddynt oll, tystiai pob mynwes fod y gwirionedd ei hun yn cael ei roddi iddo. Nis gallwn roddi—ni cheisiwn—ond crynodeb tra amherffaith o'r hyn a ddywedwyd, ac yr ydwyf wedi cymeryd gormod o le eisoes i ddisgwyl i chwi ei roddi i mewn pe yr anfonaswn hyny. Ond gallwn ddyweyd hyn, fod eneiniad oddiwrth Y Sanctaidd hwnw ar yr holl wasanaeth, a bod pawb yn teimlo, er mai claddedigaeth ydoedd, mai da oedd bod yno. Yr oedd rhywbeth dïeithr yn cerdded drwy y gynulleidfa pan y cyflwynwyd yn y weddi ar ran y rhai oeddynt yn bresenol, ac yn enwedig ei deulu a'i berthynasau, ei ddymuniad gwastadol ef ei hun yn mhob gweddi o'i eiddo, "Bydd yn Dduw i ni!" Ac wedi canu y pennill—

"Mae'n brawd wedi gorphen ei daith,"&c.,

gwasgarodd y dyrfa, gan deimlo, mi obeithiaf, werth cymeriad da, ac mai crefydd yn unig a all ei ffurfio—mai hyny oedd, yn ngeiriau un o'r brodyr ar lan y bedd, wedi gwneyd Dyffryn Ardudwy yn ddyffryn galar o ben-bwy-gilydd.

Nis gwn pa nifer oedd yn bresenol, ond nis gallasent fod nemawr, os dim, yn llai na mil. Yr oedd pob pregethwr perthynol i'r Cyfarfod Misol yno, oddieithr un brawd a luddiwyd gan henaint a llesgedd. Yn chwanegol at hyny yr oedd y Parchn. T. Edwards, Penllwyn; E. Roberts, D. Williams, a J. Hughes, (W.) Machynlleth; E. Price, Llanwyddelen; Rees Jones, Felinheli; T. Owen, Porthmadog; L. Edwards, M.A., Bala, a J. Jones (A.) Abermaw. Hebryngwyd ni am ychydig gan y Parchn. C. Jones (A.), a H. Morgan (B.), Dolgellau. Yr oedd holl eglwysi Ffestiniog yn cael eu cynrychioli gan rai o'u blaenoriaid, ac amryw o'r aelodau. Daethant i'r cyfarfod dros 20 milldir o ffordd, ac nid oedd ond ychydig iawn o eglwysi y sir heb rywrai o honynt wedi dyfod, fel y gellir ei ddarlunio fel claddedigaeth Jacob—'Aeth i fyny gydag ef gerbydau a gwŷr meirch hefyd, ac yr oedd yn llu mawr iawn!' Ac nid rhyfedd hyn, oblegyd teimlai pawb, a'i gymeryd oll yn oll, mai nid yn fuan y cleddid ei gyffelyb!"

Terfynwn ein hadgofion am dano gyda diwedd ysgrif a dderbyniasom gan Mr. Rees Roberts, Harlech, o'r hon yr ydym wedi dyfynu darnau o'r blaen. "Heddwch i'w lwch—y mae ei yspryd wedi diangc i'r 'Aneddle Lonydd' nad aflonyddir byth arno: ond y mae ei gorph eto yn aros yn mysg y pethau a ysgydwir; ac er fod ei lwch yn rhwymyn y cyfammod: er hyny y mae wedi ei ddodi mewn daear ag sydd yn ddarostyngedig i gynhyrfiadau mawrion ac amrywiol; a phe gallwn fe ffrwynwn yn dŷn bob rhuthr chwildroadol mewn teyrnasoedd, a holl gynhyrfiadau naturiol anian, a ddeuant yn agos i'r fan: ïe, y mae genyf y fath barch i'w enw a'i goffawdwriaeth fel y tynghedwn y ddaeargryn ei hunan, pe meddwn awdurdod, ar iddi siglo yn esmwyth y llanerch lle y gorwedd gweddillion Richard Humphreys."

Os bydd i ti ddarllenydd dalu ymweliad a'r Dyffryn, a myned i'r hen fynwent sydd wrth gapel y Trefnyddion

Calfinaidd, gelli yn hawdd ganfod lle beddrod yr hybarch Mr. Humphreys. Y mae y geiriau hyn yn gerfiedig ar gareg ei fedd—

YMA Y CLADDWYD

Y PARCHEDIG RICHARD HUMPHREYS,

O'r Dyffryn.

Bu farw Chwefror y 15ed, 1863,

YN 72 MLWYDD OED.

Wedi gwasanaethu Duw yn Efengyl ei Fab am 43ain o flynyddoedd.

Yr oedd hynawsedd ei dymher, ei synwyr cryf, a'i arabedd, yn tynu sylw pob gradd atto, ac yn enill iddo gymeradwyaeth gyffredinol fel dyn, ac yr oedd ffyddlondeb, a chywirdeb tryloyw ei fywyd gweinidogaethol, yn enill iddo y radd o Wr Duw a Gweinidog cymwys y Testament Newydd yn nghydwybodau pawb a'u hadwaenent: Efe a fu ar hyd ei oes yn fab tangnefedd, a gorphenodd ei yrfa mewn tangnefedd.

"*Ac yr oedd iddo ef heddwch o bobparth iddo o amgylch.*"

"*Meddyliwch am eich blaenoriaid y rhai a draethasant i chwi air Duw: ffydd y rhai dilynwch, gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt.*"

PREGETHAU.

PREGETH I.

FFYRDD DUW YN UWCH NA FFYRDD DYN.

"Canys *fel* y mae y nefoedd yn uwch na'r ddaear, felly uwch yw fy ffyrdd i na'ch ffyrdd chwi, a'm meddyliau i na'ch meddyliau chwi." —ESAIAH lv. 9.

MAE yr Hollalluog yn *claimio* hawl i uwchafiaeth yn mhobpeth ar ei greaduriaid. Gall ddywedyd hyn wrth yr angelion, y cerubiaid, y seraphiaid, y thronau, yr arglwyddiaethau, a'r tywysogaethau, a'r meddianau, cystal ag wrthym ninau, trigolion y ddaear. Mae gan y rhai hyn eu ffyrdd: medr yr angelion esgyn a disgyn, a medr yr adar wneyd mwy na ni yn y ffordd hyny, ond ni fedrant hwy fyn'd yn uwch na chan uched a'r awyr—maent yn rhy drymion i ehedeg i'r awyr uchaf; ond y mae yr angelion yn medru myn'd i'r nefoedd o'r ddaear; ni fyddant yn hir chwaith, tramwyant y meusydd meithion o dawch sydd heb awyr ynddynt. Ond y mae ffyrdd Duw yn uwch na ffyrdd y rhai hyn, ac y mae ei feddyliau ef yn uwch na'u meddyliau hwynt. Pa faint mwy na ffyrdd ac na meddyliau dyn? Mae dyn wedi ei gaethiwo i'r hen ddaear *yma*,—gall ef ryw geisio at y bydoedd uwchben, ond ni wyr ryw lawer am danynt.

Yr ydym wedi dechreu bod ar y ddaear yma, ond nid ydym wedi bod mewn un byd oddiyma eto; yn unig gallwn dremio yn ein myfyrdodau ar ranau eraill o greadigaeth Duw. Ond creaduriaid y ddaear yma ydym *ni*—iddi y ganwyd ni, ei ffrwyth a'n magodd, ei chynyrch sydd yn ein cynal, ac y mae hi yn bur dirion wrthym; hefyd yn o fuan bydd mor garedig a lapio ein gweddillion

marwol yn ei mynwes, wedi i ni fyn'd yn rhy lygredig ein gwedd, ag y dywed ein perthynasau agosaf, "Cleddwch ein marw allan o'n golwg." Ond y mae ffyrdd Duw yn ffyrdd y dylid cydnabod eu bod yn uwch na'n ffyrdd ni; dylem yn mhob modd a man gydnabod hyny. Yr oedd un o'r duwiolion dan ysprydoliaeth yn dyweyd, "Nid oes fel tydi yn mysg y duwiau, o Arglwydd, na gweithredoedd fel dy weithredoedd di." Mae gwaith pawb yn dangos pa fath un yw. Yr ydych yn gwybod o'r goreu pan weloch nyth yr aderyn mai efe a'i gwnaeth, er nad oedd o ddim yno nac yn ehedeg o hono. Byddwn yn adwaen pawb i ryw fesur wrth eu gwaith. Y mae rhai creaduriaid a wnant dai go ryfedd—*beavers*—yn curo rhyw bolion i'r ddaear, meddant, a'u heilio â gwrysg, a'u *plastro* â chlai, a gwneyd rhyw fath o lofftydd ynddynt, ond digon hawdd gwybod mai y *beaver* a'u gwnaeth, dyna ei ffordd: felly y mae gweithredoedd dyn yn profi yn bur eglur mai yntau fu yno. Pe digwyddech wneyd siwrnai fawr i gyrion pell y ddaear, a chael eich bwrw ar ryw ynys, yr hon oedd yn annghyfaneddol, am a wyddech chwi; pe buasech yn gweled y peth hyn ac arall, ac yn eu mysg hen fasged wedi haner pydru, buasech yn gweled yn y fan fod dyn wedi bod yno; buasai ol erfyn ar hono, ac ni fedr un creadur ei ddefnyddio ond dyn: ond pe gallasech weled *watch*, gallasech weled, nid yn unig fod yno ddyn, ond dyn wedi ei wareiddio, a'i ddysgu mewn celfyddyd. Felly ffyrdd Duw; y maent nid yn unig yn profi ei fod Ef, ond yn profi ei fod yn uchel iawn—yn annhraethol ddyrchafedig uwchlaw pawb o'i greaduriaid. Mae gan ddyn ei ffyrdd—mae i Dduw ei ffyrdd, ond y mae ffyrdd Duw yn uchel iawn, a ffyrdd dyn yn isel o'u cymharu a'i eiddo Ef. Dyna un gwahaniaeth mawr sydd rhwng ffyrdd Duw a ffyrdd dyn, y mae *gair* Duw yn effeithio pob peth. Dyna y dull mawreddog a gawn gan Moses yn adrodd hanes creadigaeth y byd, i Dduw ddywedyd, "Bydded, ac felly y bu." Galwodd y bydoedd mawrion i fod a dyma hwy yn dywedyd, "Wele ni, canys gelwaist arnom." Mae dynion wedi bod yn *demandio* ac yn dwrdio yr elfenau, ond nid oeddynt yn meindio mo ddynion. Nid ydyw deddfau mawr y nefoedd ddim yn hidio beth a ddywed dyn; ond y mae gwneyd yn nweyd Duw—mae yn gorchymyn, a hyny yn sefyll. Nid oes dim troi yn ol ar ei eiriau; pa sut y

mae fel yna? am ei fod yn uwch yn ei ffyrdd na'n ffyrdd ni.

Hefyd, y mae yn uwch o herwydd y mae Duw yn ei weithredoedd yn *anweledig*. Pe buasai bosibl ei weled yn gweithio, ni buasai yn Dduw. Mae dynion lawer gwaith wedi gallu gwneyd pethau pur rhyfedd, ac y mae y naill ddyn yn gallu gwneyd pethau nad ydyw y llall yn eu deall, hyd yn nod wrth eu gwel'd *wedi* eu gwneyd. Peth go fawr ydyw gweled pont ar Fenai, a gwneyd y *Tube* a'i godi; ond beth er hyny, yr oedd yno ddynion gweledig lawer iawn wrthi, a phawb yn defnyddio arf i'w waith, a *phower* nerthol a phwrpasol iawn i'w godi; nid oedd yno ddim dirgelwch, o ran hyny, i ryw un oedd yn perchen tipyn bach o ddeall am bethau o'r natur hyny: ond y mae y Duw mawr yn gweithio ar y naill law, ond nid ydyw i'w weled—y mae yn cuddio ei hunan â chwmwl, y mae yn gweithio o hyd ddydd a nos, ond welodd dyn erioed mo hono, ac nis dichon ei weled, y mae "ei ffyrdd ef yn y môr, a'i lwybrau yn y dyfroedd dyfnion." Clywsoch son am ambell un yn penderfynu gwneyd *perpetual motion*, rhywbeth i symud yn barhaus, ond pwy a ai i wneyd peth nad oedd yn bosibl i neb ond Duw? Ond y mae efe wedi gwneyd hyny. Y mae calon pob un yn *perpetual motion*, y mae yn myn'd bob dydd a nos, ac yn taflu y gwaed dri ugain neu ddeg a thriugain o weithiau bob mynyd, a hyny er pan wyt yn y byd yma,—dyna i ti *berpetual motion!* Y mae y greadigaeth, y môr a'r tir, a'r holl gyfundrefn, a holl wahanol *systems* yr *universe* yn *berpetual motions* bob un. Mae yma *berpetual motions* beth afrifed wedi eu gwneyd gan Dduw. Pa'm y mae wedi gwneyd hyny, a ninau yn methu? nid ydyw ffyrdd dyn cyfuwch a hyny —"uwch yw ffyrdd Duw na'n ffyrdd ni."

Hefyd, y mae y Duw byw yn rhoddi *bywyd* yn ei ffordd. Medr Ef roddi bywyd—nid yn unig rhoddi *motion* yn y greadigaeth, ond y mae yn medru rhoddi bywyd hefyd yn y creadur, ïe aneirif luaws o greaduriaid. A fedr dyn wneyd hyny? Na fedr, ac ni fedr gynyg—ni ŵyr yn mha le i ddechreu. A dyweyd y gwir am holl ddoethion y ddaear, ni wyddant beth yw bywyd; ond am Dduw, "oni wel yr hwn a luniodd y llygad:" pe buasai Ef heb weled, pa fodd y gallasai lunio llygad? Ni ŵyr dyn pa beth ydyw bywyd yn iawn; y mae yn anhawdd gwneyd un darluniad

o hono, na chael amgyffred am dano; ond y mae y Duw anfeidrol yn heigio bywyd mewn miliynau o greaduriaid bob mynyd o'r dydd. Mae gan lawer iawn fywyd yn y byd hwn: nid dyn yn unig sydd yn byw, nid yr anifail yn unig; ond y mae pryfaid, bwystfilod, a chwilod, beth afrifed o amrywiaethau yn bod, ond y maent oll wedi derbyn eu bywyd gan Dduw. Ni fedr dyn nac angel, heb gymorth gan Dduw, wneyd cymaint a bywyd mewn gwybedyn. Rhywbeth ydyw bywyd na ŵyr neb beth ydyw ond Duw, ac na fedr neb ei roddi ond Duw.

Hefyd, mae cynydd gweithredoedd Duw yn dangos fod ei ffyrdd yn uwch na'n ffyrdd ni. Y mae creadigaeth Duw yn cynyddu tan ei dwylaw. A ydyw y ddaear yn myned yn fwy ag yn drymach na phan ei crewyd, nis gwn, ond pa fodd bynag y mae yn waith llaw Duw—y mae cynydd rhyfeddol ar y creaduriaid sydd ynddi—dyn, yn feibion ac yn ferched. Yr ydym rhyw dair rhan o bedair o honom wedi cyrhaedd ein llawn faint, ond yr ydym wedi bod yn fychain iawn: daethost i'r byd ar y cyntaf yn egwan fychan ŵr,—cynyddu a ddarfu i ti i ddyfod i'r maint yma. Edrychwn ar y planhigion, y mae cynydd wedi bod arnynt hwy: y dderwen fawr gauadfrig, nad all dau neu dri o ddynion gyrhaedd o'i hamgylch, gellwch fod yn siwr y gallasai bachgen oes neu ddwy yn ol, ei thori yn wialen gyda'i gyllell fach; pa fodd yr aeth mor fawr? Gwaith Duw yw'r achos—cynyddu a wnaeth. Yr Elephant—ychydig iawn unwaith fuasai yn ei ladd—ni fuasai perygl i'r dyn gwanaf ei gyfarfod; ond cynyddu ddarfu iddo nes myn'd yn dunelli o bwysau. Y llew a'r teigr sydd yn greulawn a chryf—y maent hwythau wedi bod yn fychain iawn. Felly hefyd y lefiathan anferth yn mesur o haner cant i gant o droedfeddi o hyd, y mae yn fawr iawn, ond bu yn fychan iawn. Y mae yr hen ddaear yn cynyrchu o hyd y naill flwyddyn ar ol y llall, ac y mae creaduriaid Duw yn filoedd yn heolydd y greadigaeth, ac yn cynyddu o hyd. Pa le y mae dyn a all wneyd hyny: os yn fychan y gwna y crydd yr esgid, bychan a fydd i'r troed; os bychan y gwna y *carpenter* y llong, nid aiff ddim mwy—yr un faint fydd hi o hyd; os gwna y saer y drws yn rhy fychan i'r frame, nid gwiw ei adael gan ddysgwyl iddo dyfu. Er fod y gragen can galeted a'r gareg, y mae hi yn cynyddu o gwmpas y pysgodyn, a'r pysgodyn yn cynyddu ynddi

hithau fel yn ei amddiffynfa; ond os gwna dyn amddiffynfa, hi erys byth yr un faint ag y gwnaeth hi; pa fodd y mae hyny yn bod? y mae ffyrdd Duw yn uwch na'n ffyrdd ni.

Hefyd, y mae creaduriaid yn *cynyrchu* o hyd yn heolydd y greadigaeth, a hyny yn wastad. Addefwn fod y *watch* a'r *clock* yn bur gyffredin yn awr; ond er eu bod yn waith celfydd, y maent yn dyfod yn annhraethol fyr i'w cymharu â chreadigaeth Duw. Y maent yn dangos yr awr o'r dydd, mae'n ddigon gwir, ond beth pe gwelem *watch* yn gwneyd peth tebyg i'r iâr—yn dodwy wyau, un *watch* yn dodwy rhai eraill, tybiech yn y fan eich bod yn gweled rhyfeddodau Duw. Ond beth ydyw cywreinrwydd dyn yn ei gwneyd o dipyn o *steel*, a phres, ac arian, a gwydr,—pa beth ydyw hyny yn ymyl y llall? Gwnaiff yr iâr hyny, am mai gwaith llaw Duw ydyw hi; ac nid yn unig gwna hyny, ond y mae yn medru teimlo, a chofio, a gofalu dros ei rhai bychain. Gwelais aderyn bach unwaith wedi ei wneyd o waith celfyddyd yn canu, ond âi ei gân heibio, a rhaid oedd ei *windio*; ond cân y ceiliog bach gyda'r wawrddydd, a pharhâ i wneyd hyny heb ei *windio*. Ond y mae dyn yn anfeidrol bell o wneyd dim i'w gydmaru am foment â gweithredoedd Duw. Rhyfeddodau ydyw gweithredoedd Jehofa ar y rhai yr edrych dyn. Beth wyt yn ymyl y Duw mawr? Y mae ar ddyn drafferth fawr gydag ychydig, ond am y Duw mawr nid oes arno efe ddim trafferth gyda llawer iawn. Pa beth ydyw eangder y greadigaeth? Nid oes neb ond Duw, neu yr angelion, a ŵyr rifedi y bydoedd a'r sêr, a gallai fod llawer nas gwelodd yr un angel mo honynt. Ond y mae Duw yn Frenin ar y cwbl, ac yn eu llywodraethu oll; ni "ddiffygia ac ni flina Duw tragwyddoldeb," mae yn anfeidrol uwchlaw pawb. Yr helynt sydd ar ddyn yn codi un peth ac yn tynu peth arall i lawr—llawer o helbul sydd arno gydag ychydig; ond y mae Duw yn gallu gwneyd rhyfeddodau aneirif, a hyny heb drafferth yn y byd. Y mae dynion yn gallu gwneyd llawer o bethau, ond trwy anhawsderau mawr y maent yn eu gwneyd—uwch ydyw ffyrdd Duw na'n ffyrdd ni. Y mae ei feddyliau yn uwch na'n meddyliau ni. Yr ydym ni yn meddwl o'r naill beth i'r llall. Ein dull ni o feddwl ydyw cydmaru pethau a'u gilydd, a thynu casgliadau oddiwrth hyny. Yr ydym yn meddwl am yr achos wrth edrych ar yr effaith. Yr ydym ni yn gwel'd bob yn dipyn, o *step* i

step, ond y mae y Duwdod mawr yn gweled y cyfan ar unwaith, yr effaith a'i achos, *un* meddwl Duw ydyw pob peth sydd mewn bod. Hefyd, nid ydyw ein meddyliau ni ond dychymygion. Y mae ein meddyliau yn feddyliau ofer, ac yn dra dychymygol. Y mae ffordd y meddwl yn ymddangos yn uniawn yn ngolwg dyn, ond pan â dipyn yn mlaen, ymddengys yn ffol iawn; ond gwirionedd ydyw meddwl Duw am bobpeth. Fel y mae Duw yn meddwl am bobpeth, felly *y mae* pob peth. Y mae pob peth yn ymddangos iddo Ef fel y mae yn gymwys—nid ydyw nac uwch nac îs, na gwell na gwaeth, yn ol nac yn mlaen, na'r hyn mae Ef yn ei feddwl am dano. Nid ydyw yn edrych yn ogwyddedig ar ddim, ac nid oes tuedd yn y meddwl Dwyfol ond at yr hyn sydd yn ei le; ond nid felly y mae gyda ni. Ein doethineb ni ydyw amcanu gwybod beth ydyw meddwl Duw am y pethau y mae wedi eu dadguddio i ni. Y mae yn afreidiol i ddyn wybod pob peth y mae y Duw mawr yn ei wybod. Ni chanlynit mohono am foment yn ei wybodaeth, byddai swm ei feddyliau wedi dy ddryllio, ac ni wnait ddim a *holl*-wybodaeth Duw hyd yn nod pe byddet wedi dy amgylchu âg anfarwoldeb; ond y mae wedi rhoddi i ni ei wybodaeth mor bell ag y mae arnom ei heisieu yn y fuchedd hon; cuddiodd y dirgeledigaethau oddiwrthym, a rhoddodd bethau amlwg i ni ac i'n plant. Y mae ganddo Ef ddeall clir iawn am ei deyrnas fawr a'i lywodraeth. Byddwn ni yn petruso yn ddirfawr, ac yn edrych yn aml ar y cwbl bron a myned yn bendramwnwgl, ond nid ydyw Duw felly, y mae ganddo Ef feistrolaeth berffaith ar ei holl waith i'r hon y mae y greadigaeth yn dalaeth o honi. Ni wyddom ni beth ydyw nifer talaethau ei deyrnas fawr, ond y mae Duw yn ei chynwys ynddo ei hunan. Mae gan deyrnasoedd y ddaear eu brehinoedd, a'u deiliaid i'w hamddiffyn a'u cadw, ond am y Duw anfeidrol y mae Efe yn cynal ei ymerodraeth i gyd, ac nid ydyw yn ymddibynol ar neb. Y mae pawb yn derbyn oddiwrtho Ef, ond nid ydyw Duw yn derbyn oddiwrth neb, ond o hono ei hunan. Yn holl drefn fawr iachawdwriaeth dyn y mae rhyw feddwl uchel, uwch na'i holl feddyliau gan Dduw. Y mae hon yn uchel iawn, ac yn deilwng o hono Ef ei hun. Nid oedd ar Paul ddim cywilydd o hon, "doethineb Duw mewn dirgelwch" ydyw. Y mae cant a mil o feddyliau wedi bod trwy feddwl

dyn am y ffordd i fod yn ddedwydd; ond ni buasai neb wedi ei gweled, oni buasai i Dduw ei dadguddio. Ni bu neb mor amcanus ac mor lwcus a dyfod o hyd iddi, ond darfu i Dduw ei dadguddio, ac erbyn iddi ddyfod i'r golwg y mae yn ymddangos yn hynod o ogoneddus. Yr oedd Paul yn ei gwel'd yn glir iawn, ac yr oedd yn ei chanmol yn rhyfedd, ac yn cyfrif pobpeth yn dom ac yn golled yn ei hymyl—yr oedd ardderchowgrwydd gwybodaeth Crist Iesu ei Arglwydd wedi peri iddo fod yn barod i'w golledu ei hun mewn pobpeth er ei mwyn. Mae dynolryw wedi bod yn synu yn rhyfeddol wrth edrych ar weithredoedd Duw. Yr oedd un yn dychymygu fel hyn, a'r llall fel arall, am y *system* yr ydym ni yn trigo mewn rhan o honi; o'r diwedd, deuwyd o hyd i drefn y rhod yn y *system* yma yn lled gywir—tybiwyf eu bod yn agos i fod yn gywir—ac erbyn i'r gwirionedd ddyfod i'r golwg, yr oedd yn annhraethol gysonach ynddi ei hunan na'r un meddwl fu gan ddyn erioed am dani, a hyny am y rheswm ei fod wedi dyfod i feddwl yn debyg fel yr oedd Duw wedi gwneyd y *machine* mawr.

Mae ei feddyliau Ef yn uwch na'n meddyliau ni am *natur drwg a da* a *rhinwedd a bai.* Ychydig a wyddom ni am ddrwg a da. Medrwn ddyweyd y gair a'i gyfeirio at un ei fod yn ddrwg, ac at un arall ei fod yn dda; ond nid oes genym ni ond amgyffred anmherffaith am y naill na'r llall. Ychydig a wyddom ni am y pethau hyn, ond y mae y Duw sydd yn y nefoedd yn adwaen natur drwg a da yn drylwyr; y mae Efe yn gweled eu hegwyddorion, ac yn gweled drwg yn ei holl adgasrwydd. Gwel ddrwg yn ei ddrygedd a'i ganlyniadau i ddynion ac angelion drwg. Ni ŵyr Cain a Judas fawr am ddrwg pechod eto. Y maent yn uffern, ac y mae gwae ar ben y dyn fradychodd yr Arglwydd Iesu, "mai gwell fuasai iddo ef pe nas ganesid ef;" ond nid ŵyr y ddau fawr am ddrwg pechod: ond y mae Duw yn gwybod am ei ddrwg a'i ganlyniadau i dragwyddoldeb. Mae y Duw yma wedi ei wahardd i ti yn ei ddeddf lân: y mae hono yn gwahardd drwg i gyd. Meddwl Duw am ddrwg yn ei berthynas a'i greaduriaid rhesymol ydyw, ei fod yn beth i'w wahardd iddynt, oddiar y duedd sydd ynddo i'w gwneyd yn dragwyddol druenus, ac yn wrthddrychau casineb yr Hollalluog.

Y mae ei feddyliau yn uwch na'n meddyliau ni am ei fod yn adwaen yr hyn sydd dda hefyd. Gŵyr Duw yn berffaith

y foment yma y fath beth i ti—y fath nefoedd yn dy fynwes di—ydyw cael calon i'w garu Ef ei hunan. Ychydig a wyddom ni am Dduw ac am ei gariad; ond gŵyr Ef y cyfan. Gwel Ef werth y nefoedd fechan sydd o gariad Duw o fewn y Cristion; a gŵyr y bydd y Cristion hwnw o fewn y nef, ac o fewn y nef am byth, ac y câr ef fwy fwy i dragwyddoldeb. Y mae Duw yn gweled yr hyn sydd ynddo ei hunan yn dda yn ei natur yn berffaith glir a thrwyadl, ac yn ei ganlyniadau i ddyn ac angel yn berffaith glir am dragwyddoldeb. Y mae arnaf eisieu i chwi feddwl yn fawr am ei wybodaeth. Y mae Efe yn gyfoethog o drugaredd, ac yn oludog o ddaioni tuag at feibion dynion.

Mae ganddo feddyliau uwch na'n meddyliau ni, oblegyd y mae ganddo feddyliau uchel iawn am y Cyfryngwr. A oes eisieu i mi feddwl mor uchel? Nac oes, ond y mae eisieu i ti, fy nghyd-ddyn, dynu dipyn ar ei ol. Y mae Efe yn gwybod am undeb y ddwy natur yn mherson y Cyfryngwr mawr, ac fel yr oedd y natur Ddwyfol yn *droppio* rhyw gynwys anfeidrol o ddyoddefiadau y natur ddynol yn y fath fodd nas gwyddom ni ddim am danynt. Mae pob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear gan Dduw; paham ynte yr oedd eisieu aberth, offrwm, ac iawn? Yr oedd efe yn gwybod fod pechod mor ddrwg nad allasai ei faddeu heb iawn, ac yn gwel'd y canlyniadau a ddaethai i'r llywodraeth ddwyfol iddo faddeu heb iawn, a'r rhai hyny y fath na wnaethai byth heb hyny.

Maent yn feddyliau wedi eu dyweyd yn *blaen* iawn wrthyt yn y gwirionedd. Tyred i *gollege* yr Iesu; medr ef ddysgu i ti ostyngeiddrwydd fel y dysgodd y Tad ei Fab. Y mae meddyliau Duw yn uwch oblegyd y mae ganddo rhyw ddeddf fawr yn ngolwg ei feddwl tragwyddol, at yr hon trwy bobpeth y mae yn cyrchu—rhyw ben draw mawr a gogoneddus iawn. Beth sydd yn ngolwg y geiriau hyny, "Yr hwn a ddichon wneuthur yn dra rhagorol, y tuhwnt i ddim yr ydym ni yn ei feddwl," dyna ergyd go bell, y mae dyn yn meddwl, ac yn dychymygu, ac yn cynllunio llawer iawn, ond y mae y *step* nesaf yn uwch o lawer—"neu yn eu dymuno." Medr dyn ddymuno daioni anamgyffredadwy, a daioni diderfyn; y mae rhywbeth yn nymuniadau naturiol dyn, nad oes dim ond Duwdod a'u lleinw, ond medr Duw wneuthur y tuhwnt i'r hyn yr ydym ni yn eu meddwl neu yn eu dymuno. Nid oes gan

ddyn nac angel amgyffred am y meddyliau hyn. Rhaid dy amgylchu âg anfarwoldeb i gynal tragwyddol bwys gogoniant sydd wedi ei bwrpasu ganddo Ef i'r hwn sydd wedi goddef cystudd tros a chyda'r efengyl yn y byd yma. Rhyw olwg digon a stracio dyn ydyw gweled dynolryw—cymaint sydd yn cyfeiliorni ar y ddaear; cymaint sydd yn dyweyd am y da mai drwg yw; rhai yn troi gras ein Duw ni i drythyllwch, a rhai yn gwadu yr Hwn a'u prynodd, a llawer yn llithro i chwantau ynfyd a niweidiol ag sydd yn boddi dynion i ddinystr a cholledigaeth. Ond y mae gan Dduw ryw ben draw anamgyffredadwy o ddaioni i'w holl feddyliau, ac y mae yn siwr o ddwyn hyny i ben, ac yn bell iawn y tuhwnt i'n deall ni. A wnewch chwi beidio ag ymryson â'r Duw mawr? Yr wyf yn greadur iddo, ond yr wyf yn bechadur hefyd, ond er hyny y mae y Duw mawr a'th wnaeth yn ddigon mawr i faddeu i ti. "Tosturiol iawn yw yr Arglwydd." A wnei di beidio a thynu yn groes iddo? Gŵyr yn gan' mil gwell na thydi beth sydd oreu i ti, a wnei di gymeryd ei ewyllys yn rheol? Y mae yn dyweyd y gwir, a'r holl wir mor belled ag y mae eisieu i ti ei wybod, beth fyddai i ti ei gredu? "Duw gwirionedd ac heb anwiredd" ydyw. Mae ei ewyllys yn dy les a'th gysur di, beth pe bait yn cael ei feddwl mawr Ef i'th feddwl bach dy hunan am Gyfryngwr y Testament Newydd, ëangai dy feddwl at Dduw a thuag at greaduriaid Duw nad oes dim arall a'i gwna. Y mae cael rhyw radd o feddwl Duw am ei Fab y meddyliau uchaf allwn gael. Mor wael ac isel a dyddim ydym o'n cydmaru â Duw. Ni leiciwn daflu un diystyrwch ar fawrion y byd, ond wrth edrych ar y Duwdod mawr yn Drindod o bersonau, nid ŵyr y dysgedicaf ddim o'i gydmaru âg Ef, ond gŵyr Duw y cyfan sydd mewn bod. Nid ydyw gallu pawb ond gwendid yn ymyl gallu Duw. Nid wyt ond rhyw ysmotyn yn ymyl Duw tragwyddoldeb. Gadewch i Dduw gael eich holl feddyliau, y mae yn gweddu fod ein holl fyfyrdodau ar Dduw. Nid oes eisieu i ti feddwl mor uchel ag Efe; ond nid oes eisieu chwaith i ti feddwl yn groes iddo; ti a gei feddyliau wedi i ti fyned i'r byd mawr nad elli eu cynwys yn y byd yma. Y mae genym Dduw anamgyffredadwy mewn daioni, "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu, gorfoledded y ddaear, a llawenyched ynysoedd lawer."

Gallai fod yma ambell un yn elyn i Dduw. Cofia, y mae genyt elyn rhy drech. Yr wyt yn ymryson ag un rhy gadarn i ti, na welir di ar dy draed i dragwyddoldeb. Pan mae dyn yn ymaflyd codwm a'i Luniwr, mae yn hawdd i bob dyn *guessio* pwy fydd isaf. Fel Pharaoh—dacw y Môr Coch wedi ei foddi ef a'i lu yn y fan. Na fydded gwae uwch ein pen o ymryson â'n lluniwr; ond pa beth bynag a ddywedo, gwnawn; beth bynag a orchymyn, cadwn; pa beth bynag y mae yn ei gynyg, cymerwn; a bydded yn dda genym ei gael; beth bynag y mae yn ei addaw, credwn ei addewid; a pha beth bynag y mae yn ei orchymyn, gwnawn â'n holl egni; ni welir achos i edifarhau am hyny i dragwyddoldeb. AMEN.

[Cofnodwyd mewn llaw fèr wrth ei gwrandaw, gan Mr. Hugh Jones, Dolgellau, Chwefror 1, 1850.]

PREGETH II.

Y DDOETHINEB SYDD ODDI UCHOD.

"Eithr y ddoethineb sydd oddi uchod, yn gyntaf pur ydyw, wedi hyny heddychlawn, boneddigaidd, hawdd ei thrin, llawn trugaredd a ffrwythau da, diduedd, a diragrith."—IAGO iii. 17.

NID oes dim son yn yr adnod hon am na chredo na phader dyn duwiol; nid oes yma son am ei gyffes ffydd, nac am ei ddefosiynau; nid oes yma son am ei gwymp yn Adda, nac am ei lygredigaeth ymarferol trwy ei waith yn pechu yn ei berson ei hun, nac am ei gyfodiad yn y Cyfryngwr. Nid oes dim o'r gwirioneddau a osodir allan mewn lleoedd eraill o'r pwys mwyaf i'w credu yn cael llefaru am danynt yn yr adnod hon; ond y mae yn cynwys effeithiau y gwirionedd ar y cristion. Dangosir yma agwedd yspryd a thymher gwir grefyddwr; neu ddoethineb, uniondeb, a boneddigeiddrwydd crist'nogol y dyn hwnw sydd yn feddianol ar wir grefydd.

Mae gwir grefydd yn cael ei galw yma yn "*ddoethineb.*" Rhywbeth anhawdd ei gablu yw doethineb. Ni chlywsoch chwi gablu neb am ei fod yn gall, er y clywsoch feïo un am ei fod yn rhyw sarph ddichellgar. Nid oes achos i neb feïo crefydd gan mai doethineb ydyw. Yn llyfr Job, a'r Diarhebion, ac mewn lleoedd eraill, cawn dduwioldeb yn myned dan yr enw hwn. A "dechreuad doethineb yw ofn yr Arglwydd." Y peth sydd yn grefyddol i'w wneyd, y mae yn ddoeth ei wneyd; a'r peth sydd yn synwyrol i'w wneyd, y mae yn ddoethineb ei wneyd. Mae ambell un yn ei feddwl ei hun yn gall am wneyd drwg, ac y mae yn arfer ei holl ddoethineb tuag at hyny, ond callach yw peidio. Mae ambell un yn arfer ei ddyfais i ddyweyd celwydd, ond doethach yw dyweyd y gwir. Mae ambell un yn cynllunio pa fodd i gymeryd ei gymydog i fewn, ond callach tro yw bod yn help iddo. Doethineb yw crefydd, a ffolineb yw bod hebddi. Da fyddai genyf i genedl y Cymry ddyfod i ddeall mai bod yn wir ddoeth yw bod yn

wir dduwiol. Yn hyn y mae gwir ddoethineb yn gynwysedig ; dewis y da, a gwrthod y drwg.

Gelwir crefydd yn "ddoethineb sydd *oddi uchod*" mewn cymhariaeth i ddoethineb y byd hwn. Mae plant y byd hwn yn gall yn eu cenhedlaeth, sef yn gall yn eu pethau hwy ; ond y mae rhyw dwyll yn eu doethineb er hyny. Yn yr olwg ar bethau byd arall, nid ydyw ond "gwâg dwyll." Oddi uchod y mae y ddoethineb nefol yn dyfod, ac yno y mae ei nôd.

Yr oeddwn yn meddwl sylwi ar y ddoethineb sydd oddi uchod yn yr amrywiol bethau a briodolir iddi yn y testun. Edrychwch arni yma, a chwi a'i gwelwch yn dra hardd a phrydferth. Nid ysgerbwd mo honi ; nid tebyg i esgyrn sychion Ezeciel ydyw ; ond y mae wedi ei gwisgo â gïau, a chig, a chroen ; a bywyd yn ei hysgogi ; a rhyfedd genyf fi os, wedi edrych arni, na syrthiwch mewn cariad â hi.

I. Pur ydyw. Nid hardd oddi allan, ac ystŵff gwaeth oddi fewn ; na : "pur ydyw." Mae yn aur pur drwyddi. "Puredd a gaed ynof ger ei fron ef," meddai Daniel. Gwerthfawr bob amser yw cael rhywbeth yn bur a chywir. Mae yn wir fod peth drygioni mewn pobl dduwiol. "Nid oes dyn cyfiawn ar y ddaear a wna ddaioni ac ni phecha." Mae yma ryw ddeddf arall yn yr yr aelodau yn gwrthryfela yn erbyn deddf y meddwl ; ac nid y peth y mae y duwiol yn ei ewyllysio, y mae yn ei wneuthur bob amser : mae yn llithro mewn llawer o bethau. Ond nid oes drwg mewn duwioldeb serch fod drwg mewn duwiolion. Purdeb ydyw hi ; ac ni bydd wedi gorphen ei gwaith nes cael ei pherchen yn gwbl yr un fath â hi ei hun. Nid yw gras yn cymysgu a llygredd.

II. Heddychlawn. Mae y dymher hon yn werthfawr iawn. Mae yn y byd yma lawer o groes-dynu ; fel cŵn yn ymdynu am yr un asgwrn, a dim modd ond i un ei gael. Y neb sydd o duedd ymrafaelgar, rhaid iddo fod a'i gleddyf a'i fwa yn ei law o hyd : ceiff ddigon o waith i amddiffyn ei hun rhag ymosodiad o ryw gŵr yn barhaus. A pheth pur ddiennill yw ymrafaelio. Clywais fod y *Dutchmen* yn fynych yn rhoi yn arwydd (*sign*) ar eu tafarndai, lun buwch, a Sais yn tynu yn un corn iddi, a *Frenchman* yn y corn arall, a *Dutchman* yn ei godro. Nid yw pobl gwerylgar yn cael dim ond y cyrn i'w dwylaw, a hwyrach y cânt

eu cornio hefyd; pobl eraill a gaiff y llaeth. Ond heddychlawn yw gwir grefydd. Mae y Cristion, y mab tangnefedd hwn, yn dyweyd am heddwch mai da yw. Cafodd brofiad ei hunan o hyn. Mae tangnefedd Duw, yr hwn sydd uwchlaw pob deall, wedi ei wneyd yn dangnefeddus ac yn dangnefeddwr. Duw a roddo y ddoethineb hon i ninau oll.

III. Boneddigaidd. Nid bod yn ŵr boneddig o berchen ystâd a feddylir yma; nid oes ond ambell un o'r boneddigion yn yr ystyr hwn wedi eu galw; ond bod yn meddu tymher foneddigaidd. Gallwch yn yr ystyr hwn fyned yn ŵyr boneddigion ac yn *ladies* i gyd; a *noble* a fyddai i chwi oll fyned felly ar yr un diwrnod. Wele, mae yn bosibl cael hyn. "O bydd ar neb o honoch eisieu doethineb, gofyned gan Dduw, yr hwn sydd yn rhoi yn haelionus i bawb, ac heb ddanod; a hi a roddir iddo ef." Nid peth *shabby* mo dduwioldeb; boneddigaidd yw. Mae ambell i ŵr tlawd yn *right* ŵr boneddig yn ei ffordd ef; mae heb ystâd, na thenantiaid, na meirch a cherbydau; eto mae yn foneddigaidd yn ei ffordd; yn pasio dros gamwedd, yn hoffi byw arno ei hun hyd eithaf ei allu, ac heb fod am gymeryd mantais ar neb o'i gydgreaduriaid.

Mae boneddigeiddrwydd yr efengyl yn cynwys,—

1. Rhyw *yspryd rhydd a diragfarn.* Yr oedd Paul a Silas wedi bod yn pregethu yn Thessalonica, ac fe gododd erlid arnynt yno, ac i Berea yr aethant. Yr oedd pobl Berea yn gwrando arnynt yn astud ac yn ewyllysgar iawn; eto ni ddarfu iddynt ddyfod yn broselytiaid ar unwaith y pryd hwnw; ond hwy a wnaethant yn foneddigaidd: aethant adref i chwilio yr ysgrythyrau, a oedd y pethau hyn felly. "Y rhai hyn," meddai yr hanes, "oedd foneddigeiddiach na'r rhai oedd yn Thessalonica." Yr oedd yspryd ac agwedd y bobl hyn yn uwch na'r cyffredin o'r byd. Yn lle barnu a chablu y pregethwyr ar un llaw, na chymeryd pob peth ar goel ar y llaw arall, aethant i gymharu ysgrythyr âg ysgrythyr; a chawsant wybod fod y pethau hyn felly.

2. *Bod yn ddiddïal.* "Nac ymddïelwch, rai anwyl." Mae yn anhawdd iawn peidio digio wrth lawer peth yn y byd hwn; ac ni wn i a oes eisieu hyny yn gwbl; mae cynhyrfiad yn erbyn drwg yn naturiol i'r goreu o ddynion. Ond y mae peidio dïal am drosedd yn foneddigaidd. Fel

hyn yr oedd ar Dafydd pan gafodd gyfleusdra i ddïal ar Saul. Yr oedd Saul yn erlid ar ei ol, fel un yn hela petris ar hyd y mynyddoedd; ond ar ryw adeg, dyma Dafydd yn cael cyfle i frathu ei gleddyf yn ei galon; ond arbedodd enaid Dafydd eneiniog yr Arglwydd. Ar dro arall, yr oedd un o feibion Serfiah yn gofyn cael taro Saul unwaith, ac ni cheisiai ei ail-daraw. "Na:" meddai Dafydd, "na ddifetha ef." Dyna i chwi yspryd boneddigaidd. Tri dïal cristion ar ei elyn:—gweddïo drosto, maddeu iddo, a gwneuthur daioni iddo. Ond ar yr un pryd, nid oes rwymau arnaf i'w gymeryd yn gyfaill. Eithr dylwn gofio, pa fodd bynag, nad oes genyf ryddid i ddïal ar yr un o greaduriaid Duw.

3. *Peidio cymeryd mantais annheg ar ein gillydd.* Ni ddylech chwi, y plant bychain, wneyd hyny wrth chwareu. Chwithau, y bobl ieuainge sydd heb briodi, ni ddylech gymeryd mantais annheg ar wendid y naill a'r llall, os gwelwch hyny. Peth pur anfoneddigaidd yw cymeryd mantais ar wendid. Mae y Beibl yn sôn am y rhyw fenywaidd fel "y llestri gwanaf;" ond pe byddai y meibion yn sôn am hyny o hyd o hyd, byddai hyny yn annheg arnynt; ac yn wir y mae llawer o ferched yn gallach na'r meibion. Wrth drin y byd hefyd, nid yw Duw yn caniatâu i neb gymeryd mantais annheg ar ei gyd-greadur, mwy nag y mae tad yn hoffi gweled y naill blentyn yn cymeryd mantais ar y llall.

Fel hyn y mae y ddoethineb sydd oddi uchod yn foneddigaidd. Onid yw yr efengyl yn dyfod â dyn i lawr? Ydyw: ond y mae hi yn ei godi i fyny hefyd; mae yn codi y tlawd o'r llwch, ac yn dyrchafu yr anghenus o'r domen, i'w osod gyda phendefigion, ïe, gyda phendefigion pobl Dduw. Mae gostyngeiddrwydd a boneddigeiddrwydd yn byw yn nghyd.

IV. Hawdd ei thrin. Un hawdd i ymwneyd âg ef yw perchenog y ddoethineb sydd oddi uchod. Mae ambell un, os bydd i chwi â ymhelioch âg ef, mae yn rhaid i chwi *gonsid'ro* llawer iawn pa fodd i'w foddâu. Ond y mae hyna yn beth cwbl wrthwyneb i yspryd yr efengyl. Mae dynolryw yn cael trafferth ryfeddol i drin eu gilydd. Mae plentyn bach hawdd ei drin yn ddymunol iawn; ac felly plentyn mawr yr un modd. Mae bod y gŵr yn hawdd ei drin yn dra dymunol i'r wraig, yn lle bod fel

ambell un yn cadw ei gôd yn ei gydyn; ac felly y mae gwraig hawdd ei thrin yn ddymunol i'r gŵr. Mae y dymer fenywaidd yn gyffredin yn fwy bywiog a *thouchy*; ond y mae gras yr efengyl yn gwneyd y naill a'r llall yn llariaidd ac yn addfwyn. Dywedir fod modd trin pawb ryw sut, naill ai trwy deg neu trwy hagr; ond nid oes ond tymer yr efengyl a fwyneiddia bawb yn hawdd. Bod y mater mawr wedi ei *settlo* rhwng dyn â Duw, a wna ddyn yn garuaidd a thirion at bawb a phobpeth. Gobaith gwlad well yn mhen y daith a dymhera ddyn i ddygymod â llawer peth câs ar y ffordd. Pe baech yn trafaelu wedi y nôs ar hyd ffordd arw i ymweled â chyfaill hoff, gan wybod fod ganddo dŷ cysurus; tân, bwrdd, a gwely; os bydd yn wlyb, fod yno ddillad sychion i'w newid; ni byddai càn waethed arnoch ar y ffordd: felly mae yr enaid sydd a'r gobaith hwn ynddo ef yn ei buro ei hun oddiwrth yr yspryd *peevish* ac anfoddog. Mae yr hwn a gafodd y ddoethineb hon yn bur annhebyg i ryw ddraenog o ddyn, na wyddoch pa ochr i ymhèl âg ef. Hawdd ei drin yw hwn; nid oes ganddo bigau yn un lle. Ni wna byth godi ei law ond i'w amddiffyn ei hun. Yr efengyl a'n gweithio ni i'r dymer hon.

V. Llawn Trugaredd a Ffrwythau da. Cofiwn fod yn rhaid i ni gael crefydd fel hyn. Beth a feddylir wrth hyn? Ai bod dyn yn llawn arno o ran trugareddau tymhorol? Nage: ond fod yr enaid a gafodd ei fywyd yn nhrugaredd Duw yn Nghrist wedi ymgymeryd â'r egwyddor a'r teimlad o drugaredd; aeth i'r un dymer â'r Duw mawr ei hunan. Yr wyf yn cofio hen feddyges yn y gymydogaeth yr wyf yn byw ynddi; byddai pobl wedi eu hanafu yn myned ati yn aml, a hithau yn eu gwella yn o lew; ac fe fyddai hi a'r claf wedi myned yn ffrindiau bob amser; yr oedd hi yn hoffi gwneyd trugaredd, ac yntau yn hoffi cael trugaredd. Mae y pechadur sydd wedi derbyn trugaredd yn a thrwy y Cyfryngwr, yn hoffi ymarfer trugaredd. "Dangosodd efe i ti, ddyn, beth sydd dda, a pheth a gais yr Arglwydd genyt; gwneuthur barn a hoffi trugaredd;" ymgymeryd â'r dymer drugarog. Mae y dymer hon yn myned yn gryfach gryfach wrth gael myned allan a gweithio

"A ffrwythau da;" ffrwythau trugaredd; gweithredoedd da. Mae gweithredoedd da bob amser yn dilyn crefydd

dda; a pheryglus yw hoffi meddwl y gellir gwneuthur hebddynt. Pan welo y dymer drugarog wrthddrych truenus, hi a dosturia ac a gynorthwya. Llestri trugaredd yn rhedeg dros yr ymyl yw hyn. Mae llawer o bethau yn gofyn am ein hymdrech; mae yr amrywiol gymdeithasau crefyddol yn gofyn am ein haelioni. Ac os ydym yn *llawn* trugaredd, hi a rêd dros yr ymyl mewn cyfraniadau. "Ffrwyth yn amlhau erbyn dydd y cyfrif" yw hyn. Bydd cyfrif eto o weithredoedd da y duwiol. Mae ei bechodau wedi eu dileu, ond bydd ei weithredoedd da ar gael i gyd. Dyma y bobl sydd yn trin y byd yn iawn: nid y rhai sydd yn ei garu; mae y byd wrth ei garu yn myned yn felldith; ond y bobl sydd yn medru ei drin i fod yn *account* o'u tu erbyn dydd y cyfrif. Bendigedig fyddo Duw! "Canys nid yw efe yn annghyfiawn, fel yr annghofio eich gwaith, a'r llafurus gariad, yr hwn a ddangosasoch tuag at ei enw ef, y rhai a weiniasoch i'r saint, ac ydych yn gweini."

VI. Diduedd. Anhawdd iawn yw cael dyn heb dipyn o osgo ynddo ryw ffordd; ond peth syth yw duwioldeb; i fyny ac i lawr, mae hi yn bur dêg. Mae y natur ddynol wedi gogwyddo trwy bechod; ac at hunan y mae ei gogwydd. Wedi i ddyn lawer pryd geisio barnu pethau yn o uniawn, mae y duedd gref sydd yn ei natur yn ei gario i'w hunan yn ddiarwybod iddo. Mae cael y farn ddiduedd yn beth mawr. Wrth drin y byd, gwnewch *allowance* fod tipyn glew o duedd mewn dynion yn gyffredin i dynu atynt eu hunain. Fel hyn y mae gyda barnu eraill, ac yn ngwaith y naill barti crefyddol yn llefaru am y llall. O am fod yn wastad dan ddylanwad y ddoethineb sydd yn ddiduedd.

VII. Diragrith. Mae pawb yn casâu rhagrith, a pheth doeth bob amser yw ei roddi heibio. Mae duwioldeb yn ymwrthod âg ef. Doethineb yw bod yn ddiragrith, o herwydd nid oes bosibl rhagrithio yn iawn. Os mynech fod yn iawn, ymofynwch am y peth ei hunan. Mae ambell un yn paentio yn dda, ond nid neb cystal â natur. Ac y mae yn haws cael y gwir beth o lawer. Nid yw rhagrith yn werth dim wedi ei gael; hawsach cael y gwir beth na chael dawn i ragrithio yn llwyddianus. Ni thycia gyda Duw ond gwirionedd; ac y mae Duw yn foddlawn i roi i ti y gwir beth, os âi ato i ymofyn am dano. Anhawdd

rhagrithio cariad at Dduw; ond y mae Duw yn foddlawn i roi i ni galonau i'w garu. Tâl y grefydd dda i'w defnyddio; deil i'w gwisgo. Gall y peth a fyddo wedi ei wisgo âg arian ac aur edrych yn dda am ryw yspaid; ond wrth ei rwbio, mae yr hen ddefnydd yn dyfod i'r golwg. Daw rhywbeth i roi crap arnom o hyd; trwy ryw foddion, fe gripir y croen, a mynir gweled lliw y gwaed. Daw y peth ydym i'r golwg ar fyrder. Os mynem ymddangos yn grefyddol, ymofynwn am grefydd wirioneddol rhyngom a Duw. Daw crefyddd dda gyda ni i bob man.

Wele, fy anwyl bobl, ymofynwch am y grefydd iawn yma. Mae hi yn awr i'w chael; ond y mae perygl i chwi fyned i'r byd arall hebddi. Ei gwir ddymuno yw y gamp. O am grefydd â'n gwnelo o nifer rhai llednais y tir, rhai llariaidd y ddaear; crefydd a fyddo yn dyweyd yn dda am ei Hawdwr mawr, yn ein gwneyd yn bobpeth drosto ac iddo tra y byddom yn y byd, ac yn ein cymhwyso i fyned ato yn y diwedd. Adnabod Iesu yn iawn a gaffom nes ein cyfnewid i'r unrhyw ddelw.*—AMEN.

* Gwel y "*Pregethwr*," Ebrill, 1842.

PREGETH III.

LLYWODRAETH DUW YN DESTUN LLAWENYDD.

"Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu; gorfoledded y ddaear: llawenyched ynysoedd lawer."—PSALM xcvii. 1.

NID yw yn adnabyddus i feibion dynion ëangder creadigaeth Duw; mae hi yn fawr iawn, fe wyddis; ond ni wyddis pa mor fawr. Ond hyn sydd hysbys i ni,—y mae llywodraeth Duw mor fawr a'i greadigaeth; ei amherodraeth ef ydyw oll. Crëodd fydoedd lawer, ac y mae y cwbl dan ei lywodraeth. Y mae holl lu y nef a'r holl bethau sydd ar y ddaear yn myned yn mlaen wrth reolaeth Duw. Edrychwch ar sêr y nefoedd; "dyrchefwch eich llygaid i fyny, ac edrychwch pwy a greodd y rhai hyn, a ddwg eu llu hwynt allan mewn rhifedi; efe a'u geilw hwynt oll wrth eu henwau; gan amlder ei rym ef, a'i gadarn allu, ni phalla un," ac ni ufuddâ un i'w lywodraeth. Nid oes un llwchyn yn yr holl greadigaeth heb fod dan lywodraeth Duw. Beth yw hyny i ni? meddai rhywun. Mae yn fwy peth nag yr ydych yn feddwl. Gallasai rhyw fydoedd ddyfod ar draws ein byd ni, fel y gwelwyd cerbydau yn taro yn erbyn eu gilydd ar y tir, a llongau ar y môr, oni buasai fod yr Arglwydd yn teyrnasu. Dyma sydd yn ein sicrâu am ddydd ar ol nos, a haf ar ol gauaf. Nid oes wybod pwy o honom a wêl y dydd yfory, ond y mae yn sicr o wawrio. Ni wyddom pwy a fydd byw galanmai nesaf, ond y mae haf hyfryd yn sicr o ddyfod; a dyna'r pa'm:—"Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu." Y mae ei lywodraeth ef yn hyn yn achos gorfoledd.

Y mae Duw hefyd yn llywodraethu ar y greadigaeth afresymol. Rhoddodd ryw ddeddfau priodol i'r creaduriaid heb reswm ganddynt, ac y mae y rhai hyny yn anian ynddynt. Mae dynion yn gallu eu defnyddio wrth ddeall y deddfau hyny; maent yn cael gwasanaeth oddiwrthynt; ac y mae hyn yn destun diolchgarwch. Dylem gydnabod daioni Duw yn hyn.

Y mae gan Dduw lywodraeth eto ar y greadigaeth resymol. Pa le bynag y mae creadur rhesymol, y mae o dan lywodraeth Duw fel y cyfryw. Y duwinyddion yn gyffredin a alwant hon yn llywodraeth foesol, sef am yr un rheswm ag y galwant y ddeddf yn ddeddf foesol. Gelwir y ddeddf felly, nid am fod deddf anfoesol yn bod, ond i'w gwahaniaethu oddiwrth y deddfau seremoniol, naturiol, a gwladol. Felly gelwir llywodraeth Duw ar berchenogion meddwl a rheswm yn llywodraeth foesol, i'w gwahaniaethu oddiwrth lywodraeth Duw ar y byd naturiol ac ar y greadigaeth ddireswm. Mae y llywodraethau hyny yn wahanol iawn i'r llywodraeth hon. Y mae creaduriaid yn myned yn mlaen yn ol eu deddfau, ond nid ydynt yn gwybod paham; maent yn adwaen eu tymhorau rywsut, ond nid oes ganddynt reswm, pe medrent siarad, i'w roddi am hyny. Nid ydynt yn meddwl am Ddeddfroddwr, nac yn meddu modd i feddwl am dano. Ond y mae gan Dduw lywodraeth foesol ar ddyn. Yn y llywodraeth hon, y mae Duw yn dodi o flaen dynion einioes ac angeu, bywyd a marwolaeth; addewidion am ufuddddod, a bygythion ofnadwy am anufudd-dod; mae yn dangos y lles mawr o gydffurfio â'r llywodraeth, a'r perygl mawr o wrthryfel; mae yn cosbi bai, ac yn gwobrwyo rhinwedd a daioni. Ni wn pa fodd i ddyweyd yn well ar hyn: mae y Beibl yn dyweyd pethau fel yna.

Y mae y llywodraeth hon yn destun gorfoledd i'r ddaear, oblegyd y mae Duw yn gwneyd yn dda ac uniawn â phawb. "Ni orthryma efe neb." "Nid yw yr Arglwydd yn gweled yn dda wneuthur cam â gŵr yn ei fater." Er ei fod yn uchel, a dynion ger ei fron fel locustiaid, eto "ni ddiystyra efe neb." Yr oedd yn werth ganddo ein creu i ddyben uchel, ac y mae yn werth ganddo ein cynal a gofalu am danom. Ac mor fanwl yw sylw y Jehofah mawr ar ei ddeiliaid fel y dywedir ei fod yn rhifo eu camrau. Mae yn sylwi ar bawb fel pe na byddai ond un, ac yn sylwi ar un fel pe byddai yn bawb. Er mor fawr ydyw, y mae yn hollol gyfiawn. Er ei fod yn Unbenaeth tragwyddol, yn gwneuthur a fyno â llu y nefoedd, ac â thrigolion y ddaear, nid yw yn gwneuthur dim ond yr hyn sydd uniawn. Da yw y peth sydd yn dda yn ngolwg Duw; y goreu yw yr hyn a wêl yn oreu. Peth drwg yw ewyllys dyn yn rheol, ond gwerthfawr iawn yw

ewyllys Duw yn rheol; a Duw a blygo ein hewyllysiau ni i'w ewyllys ef.

Y mae pawb yn ddeiliaid i'r llywodraeth hon; er nad yw dynolryw yn gyffredin yn teimlo eu rhwymedigaeth i'r Llywydd mawr. Mae y byd yn meddwl mai pobl grefyddol sydd dan rwymau i ufuddhau i Dduw. Gweddus iawn i grefyddwyr yw bod yn gyson â hwy eu hunain; ond dylai pawb wasanaethu Duw. Y mae llywodraeth Duw ar ddyn fel y mae yn greadur rhesymol, ac am ei fod yn greadur rhesymol. Mor hawdd a fyddai i ddyn fyned o lywodraeth Duw yn yr ystyr yma ag a fyddai iddo fyned yn ddim. Ni all fyned allan o rwymau i ufuddhau i Dduw mwy nag y gall ddiddymu ei hunan. Y mae bod dan rwymau i ufuddhau i Dduw yn anrhydedd i bob dyn. I ba le bynag yr elych, ni elli fod yn rhydd o lywodraeth Duw. Beth pe rhoddid i mi adenydd y wawr, a phe trigwn yn eithafoedd y môr? Ni byddai hyny ond yr un peth yn hollol; byddai llywodraeth Duw yn y fan hono. Beth pe esgynwn i'r nefoedd? Byddit yno yn y breninllys ei hunan. Beth pe cyweiriwn fy nyth yn uffern? Ei garchar ef ydyw, lle y mae y Brenin yn rhoddi rhai rhy ddrwg i fod a'u traed yn rhyddion. Er i rai fod yn garcharorion yn *Newgate* oblegyd troseddau, nid ydynt allan o lywodraeth Victoria yno; y mae hwnw yn nghanol y brifddinas. Felly am drigolion Gehena; nid ydynt allan o'r llywodraeth fawr. Y maent allan o ffafr eu Tywysog, ond y maent i gyd yn ddeiliaid. "Gorfoledded y ddaear," oblegyd llywodraeth Duw. Mae yn well gan ddyn feddwl mai yr Arglwydd sydd yn llywodraethu na neb dynion. Un ferch ddigrefydd a ddywedodd, "Mae yn bur sobr genyf feddwl mai Duw sydd yn fy marnu; ond gwell genyf hyny nag i un dyn fod fy marnwr; caf chwareu teg ganddo ef."

Y mae gan Dduw lywodraeth eto mewn ystyr wahanol; llywodraeth gras Duw yn y Cyfryngwr. Mae y Beibl yn son llawer am hon; gelwir hi yn fynych yn deyrnas, a theyrnas Dduw. "Ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw, a'i gyfiawnder ef." Yr Apostol a ddywed, "Fel megys y teyrnasodd pechod i farwolaeth;" dyna deyrnasiad sobr iawn; nid gwiw gwaeddi gorfoledded y ddaear am hono. Ond dyma y testun gorfoledd,—"felly hefyd y teyrnasai gras trwy gyfiawnder, i fywyd tragwyddol, trwy Iesu

Grist ein Harglwydd." Mae pechod wedi teyrnasu yn gyffredinol yn y byd. Ni wyddis yn iawn pa sut y daeth pechod i mewn yma; ond ni a wyddom iddo ddyfod. Fe ddaeth trwy un dyn, ac fe deyrnasodd i farwolaeth yn y natur ddynol. Ond dyma deyrnasiad arall; teyrnasiad i fywyd; teyrnasiad gras yn y Cyfryngwr ar lwybr anrhydeddus i ddeddf a phriodoliaethau Duw. "Teyrnas ei amynedd ef."

Beth sydd i ni ddeall wrth lywodraeth gras? Y mae hon, mae yn wir, yn llywodraeth foesol, ac nid yr un peth a llywodraeth Duw ar y greadigaeth ddifywyd neu ddireswm. Y mae addewidion mawr iawn a gwerthfawr yn hon o bethau annhraethol fawr a gogoneddus. Nid yw gwobrwyon am ddaioni a cheryddon am anwiredd wedi eu cymeryd allan o honi. Yr un yw y Llywydd, a'r un yw y ddeddf. Ni ddaeth Crist "i dori y gyfraith ond i gyflawni." "Haws i nef a daear fyned heibio, nag i un tipyn o'r gyfraith ballu." Beth yw y gwahaniaeth? Yn nhrefn gras y mae Duw yn derbyn yn ol bechaduriaid oedd wedi gwrthryfela yn erbyn ei lywodraeth fel un gyffredinol ar yr holl greadigaeth. Pan aeth y dyn cyntaf i lawr, aeth y cyfan i lawr. "Megys deilen y syrthiasom ni oll," ac o hyny hyd yn awr, "ein hanwireddau megys gwynt a'n dug ni ymaith." Er fod pechod yn beth ffol a difantais iawn, mae y natur ddynol yn myned ar ei ol i farwolaeth. Ond yn y Cyfryngwr y mae Duw wedi sylfaenu rhyw deyrnas o ras, yn yr hon y mae anfeidrol ogoniant iddo ei hun ac anfeidrol gyfoeth o drugaredd i bechaduriaid. I ddangos ei ras y mae Iesu, y Llywydd mawr, wedi dyoddef a marw, fel y cai holl ddeiliaid ei deyrnas rasol fywyd yn ei angeu. Mae y Person gogoneddus hwn wedi ei osod gan Dduw yn iawn, "i ddangos ei gyfiawnder ef; fel y byddai efe yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu."

Y mae pawb yn ddeiliaid llywodraeth gyffredinol Duw; ond y mae rhagor mawr rhwng y cyfiawn a'r drygionus. Nid yw y gwahaniaeth mewn bod yn ddeiliaid; ond y mae y gwahaniaeth mewn cyflwr, tuedd, ac amgylchiad. Mae yn y nefoedd ddau fath o ddeiliaid i Dduw. Mae yno un math heb wrthryfela erioed yn ei erbyn; meibion henaf Duw, y rhai ni throseddasant un amser ei orchymyn; safasant hwy yn ffyddlawn pan fu gwrthryfel yn y

nef. Math arall yw rhai wedi bod yn wrthryfelwyr, ond a gymodwyd â Duw yn ngwaed ei Fab; nid oes y radd leiaf o wrthryfel at Dduw yn eu meddyliau yno. O! y mae yn hapus arnynt yn awr yn y mwynhad perffaith o Dduw a'r Oen. Mae yn uffern hefyd ddau fath. Un math wedi gwrthryfela yn foreu; yr angylion syrthiedig, y rhai a gadwodd Duw mewn cadwynau tragwyddol, dan dywyllwch, i farn y dydd mawr, heb gyhoeddi na chynyg trugaredd iddynt erioed. A'r lleill yw pechaduriaid o'r ddaear, y rhai a fuant unwaith yn y byd lle yr oedd Duw yn maddeu, ond a aethant o hono heb dderbyn maddeuant. Dyna ddau ddosbarth sobr iawn; maent yn eithaf truenus, ond y maent er hyny yn ddeiliaid llywodraeth Duw. Mae ar y ddaear hefyd ddau fath. Mae un *sort*, a gwyn fyd na byddem oll o'r *sort* hono, wedi eu symud i deyrnas anwyl Fab Duw. Nid ydynt yn hollol yr un fath a'r teulu sydd yn y nefoedd; mae yma ddeddf yn yr aelodau yn gwrthryfela yn erbyn deddf y meddwl; mae yma ryw anhwyldeb yn eu blino, ond y mae eu bywyd yn ddiogel; maent eto yn sŵn y rhyfel, ond ni chyfrgollant byth. Y dosbarth arall sydd yn para yn wrthryfelgar yn erbyn Duw, er clywed am y cymod; maent yn troi yn glustfyddar i holl alwadau Duw ar eu holau, yn myned yn mlaen gan gyflawni pob aflendid yn un chwant. Nid yw holl fygythion y ddeddf yn eu dychrynu, na holl addewidion yr efengyl yn eu denu. Mae y byd, y cnawd, a'r diafol yn cau eu clustiau nes eu byddaru i bob lleisiau eraill. Wele dyma yr annuwiol. A ydyw ef yn ddeiliad Duw? Ydyw, ond deiliad gwrthryfelgar ydyw, heb ei gymodi â'i Frenin; deiliad yn rhedeg yn y gwddf i Dduw; deiliad yn gwrthod cymod, a hyny am ei fod yn gymod rhad. Mae y naill wedi dyfod i deyrnas anwyl Fab Duw, allan o feddiant y tywyllwch, a'r llall yn aros o hyd yn y fyddin ddu wrthryfelgar. Y mae bod mewn cyflwr gwrthryfelgar yn sefyllfa beryglus iawn. Y pwnc mawr i ni yw,—pa le yr ydym ni yn sefyll gyda golwg ar y deyrnas? A dderbyniasom ni yr efengyl? Mae Duw wedi gosod ei Fab yn Frenin ar Sïon, ei fynydd sanctaidd; ond efallai dy fod ti yn para i ddywedyd, Ni fynaf y dyn hwn i deyrnasu arnaf. Os felly, yr wyt yn diystyru golud daioni Duw.

Edrychwn yn awr ar ragorfreintiau teyrnas gras. Y

mae arnaf eisieu eich cael iddi bob un. Ni wiw i ni droseddwyr *bledio* cyfiawnder Duw; nid oes dim am dy fywyd, bechadur, ond teyrnas gras Duw. Wel, a oes rhyw fantais i'w gael ynddi? Oes: oblegyd, yn un peth, "maddeuir anwiredd y rhai a drigant ynddi." Onid yw hyn yn ffafr fawr iawn? "Trugarog fyddaf wrth eu hannghyfiawnderau," meddai Duw; "a'u pechodau hwynt a'u hanwireddau ni chofiaf ddim o honynt mwyach." Mae gwynfydedigrwydd yn gyhoeddedig uwch ben y rhai hyn. "Gwyn ei fyd y neb y maddeuwyd ei drosedd, ac y cuddiwyd ei bechod." Ond nid yw y gwyn fyd yna yn perthyn i neb ond i ddeiliaid teyrnas gras. Rhaid dy gael i fewn i dir Emanuel i ddechreu. Ni phregethir maddeuant ond yn enw Brenin y deyrnas.

Mae yn ngoruchwyliaeth y deyrnas hon eto, nid yn unig faddeu yr anwiredd, ond iachau y llesgedd. Mae Haul cyfiawnder yn codi ar bechaduriaid yma, â meddyginiaeth yn ei esgyll; byddant yma wedi gwella yn dda. Mae triagl yn y Gilead yma i wellâu iechyd merch y bobl. Dichon Iesu yn y drefn hon gwbl iachâu y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw.

Y mae yma fodd i olchi yr aflan hefyd. Mae pechod wedi myned yn rhyw aflendid ar y natur ddynol. Hen staen ofnadwy ydyw sydd yn anhawdd iawn i gael i ffordd. Po *neisiaf* y byddo llawer peth, aflanaf fydd wedi ei ddifwyno, ac anhawddaf ei olchi. Mae careg aflan yn fwy anhardd nag un làn; mae anifail aflan yn wrthunach; mae dyn aflan yn anmhrydferthach eto: ond y mae merch aflan yn wrthunach fyth. Ond o bob peth aflan, ysbryd neu enaid aflan yw yr hyllaf, gan ei fod ef yn fwy *refined* na dim arall. Ond y mae yn nhrefn gras fodd i olchi yr enaid oddiwrth ei aflendid. Mae ffynon wedi ei hagor o bwrpas i olchi pechaduriaid oddiwrth eu pechodau. Y mae miloedd eisoes wedi eu golchi, yn moli am eu cànu yn ngwaed yr Oen.

Yn mhellach, y mae deiliaid gras wedi eu hysgrifenu yn mhlith y rhai byw; maent wedi dyfod oll i ddiogelwch o ran eu sefyllfa. Ni bydd colled am einioes yr un o honynt byth mwy. Efallai fod ganddynt lwythi o ryw bethau mewn perygl; ond ni bydd perygl am eu heinioes; o herwydd "eu bywyd a guddiwyd gyda Christ yn Nuw." Gwelwyd llawer un, wedi bod mewn sefyllfa led gysurus

yn y byd, yn cael ei chwythu i lawr oddiyno. Ond nid ydyw felly yn nheyrnas gras. "Nid yw ewyllys y Tad yr hwn sydd yn y nefoedd gyfrgolli yr un o'r rhai bychain hyn." "Y mae yn ddiogel genyf," meddai Paul, "na all nac angeu, nac einioes, nac angylion na thywysogaethau, na meddiannau, na phethau presenol, na phethau i ddyfod, nac uchder na dyfnder, nac un creadur arall, ein gwahanu ni oddiwrth gariad Duw, yr hwn sydd yn Nghrist Iesu ein Harglwydd." Nid oes myned i fewn ac allan yn y deyrnas hon. Yn y *Zoological Gardens* yn Llundain, y mae yno un ffordd i fyned i mewn, lle y derbynir rhai trwy dalu, a *gates* eraill i fyned allan pan y myno dyn, ond nid i ddyfod i mewn trwy y rhai hyny drachefn. Ond y mae teyrnas gras yn agored i rai i ddyfod i mewn iddi, ond nid i fyned ymaith o honi. Wedi y delo yr enaid i mewn unwaith, allan nid â ef mwyach.

Y mae holl ddeiliaid hon ynddi o egwyddor. Mae Brenin y deyrnas wedi ysgrifenu ei gyfraith yn eu calonau, a'i dodi yn eu meddyliau. Buont unwaith yn meddwl mai cryn garchar oedd byw yn dduwiol; ac y mae arnaf ofn fod llawer eto yn meddwl yr un fath; ond am bobl Dduw, y mae wedi dyfod yn naturiol iddynt i fyw yn dduwiol; maent oll yn caru eu Brenin, ac y mae ei gyfraith wrth eu bodd. "Gweddïant drosto ef yn wastad, a beunydd y clodforir ef" ganddynt; maent yn barod i hoelio eu clust wrth ei ddôr; mae ei wasanaeth yn dyfod yn fwy boddhaol iddynt o hyd. Ni byddant yn wrthryfelwyr mwyach. Y maent yn ewyllysgar i oddef cystudd megys milwyr da i Iesu Grist. Maent wedi cael eu bywyd tragwyddol yn angeu Crist, a hwy a roddant eu bywyd naturiol drosto os bydd achos. Deddf eu Duw sydd yn eu calonau, am hyny eu camrau ni lithrant.

Y mae pob mantais i'w chael yn nheyrnas gras. Nid oes yn y byd yma yr un fantais heb fod anfantais yn ei chanlyn. Y bobl sydd am fyned i'r America, meddwl myned yno er eu mantais y maent. Y mae y tir yno yn rhad, a phris uchel ar lafur; ond y mae anfanteision yn nglŷn â hyny. Os oes yno dir brâs, y mae effeithiau anghyfanedd-dra llawer oes ar y ffordd i'w fwynhau. Felly y mae yn y byd yma; mae pwll o flaen y drws, neu gareg lithrig wrth dŷ pob un. Ond y mae teyrnas gras Duw yn fanteisiol o ben bwygilydd. Ceir yma fanteision

heb yr anfanteision gyferbyn â hwy. Wele, ceisiwch deyrnas Dduw. Yn wir pe byddech wedi mudo yma, ni chwynech byth am yr hen wlad. Cyhoeddir yma dangnefedd i bell ac i agos, a hwnw yn dangnefedd Duw, yr hwn sydd uwchlaw pob deall, i gadw y meddwl a'r galon yn Nghrist Iesu. Bendigedig a fyddo Duw am ei sylfaenu. "Gorfoledded y ddaear." Os rhaid i gythreuliaid genfigenu, iawn yw i ddynion lawenychu. Mae llawenydd mawr i'r holl bobl o sylfaenu y deyrnas hon.

Daw amser y bydd y deyrnas hon yn cael ei rhoddi i fyny; pa bryd ni wn, ond y bydd yn y diwedd. "Yna y bydd y diwedd, wedi y rhoddo efe y deyrnas i Dduw a'r Tad." Bydd y deiliaid ffyddlawn yn cael eu cyflwyno i Dduw, a'u gosod ger bron ei ogoniant ef yn ddifeius mewn gorfoledd. Yna plygir y deyrnas fel llen; ni bydd yn bod fel y mae yn awr. Er y bydd Crist yn y natur ddynol yn ben ar ei Eglwys yn oes oesoedd, ni bydd gweinyddiad ei deyrnas yn y dull y mae yn bresenol. Caiff ei chau i fyny yn y fath fodd ag na bydd *admittance* iddi byth mwy; ni dderbynir neb yn ddeiliaid newydd o hyny allan. Fy ngwrandawyr, gall angeu gau ar y deyrnas yma i chwi yn mhell iawn cyn hyny. Y meirw ni welant ei gogoniant; y bedd ni foliana am dani. Deuwch i mewn iddi cyn i angeu eich dal.

Dymunwn ddywedyd wrth y rhai sydd allan o deyrnas gras, mai peth sobr iawn yw para yn wrthryfelwyr. Bechadur, os gwrthryfela a wnei am dipyn eto, bydd yn rhaid i ti sefyll holl ganlyniadau dy wrthryfel; cei dy ffordd ar dy ben dy hun. Os byddi allan o drefn rasol Duw, rhaid i ti ddwyn yn dy gorff a'th enaid am dragwyddoldeb holl ganlyniadau truenus dy wrthryfel diachos. Bydd yn rhaid i ti fyw byth gyda chydwybod euog, yr hon a fydd yn dyweyd i ti fod yn ymyl trugaredd Duw, a gwrthod ei derbyn.

Wel, meddai rhywun, hwyrach y bydd holl drefn gras wedi myned yn ofer; efallai na chymer plant dynion eu perswadio i roddi eu hunain i Frenin Sïon; hwyrach y bydd Iesu farw yn ofer, ac na ddaw neb o'r gwrthryfelwyr i ymostwng yn wirfoddol iddo. O na: "o lafur ei enaid y gwêl (yr Iesu), ac y diwellir ef." Mae addewidion Duw i'w Fab yn sicrhau y bydd iddo gael rhan gyda llawer, neu y llawer yn rhan iddo. Ni cheiff neb ddywedyd, Y

Duw hwn a ddechreuodd adeiladu teyrnas, ac ni allodd ei dwyn yn mlaen. Mae etholedigaeth a chyfamod Duw yn sicrhau nad â marwolaeth Iesu yn ofer. Anfonir yr efengyl adref gan Yspryd Duw i galonau miloedd dirifedi, nes eu gwneyd yn ufudd iddo. Mae y deyrnas yn sicr o fyned yn mlaen; ond dyma y pwnc, a ddeui di i mewn iddi. Mae ei phyrth yn agored nos a dydd. A ddeui di i mewn, bechadur? Mae yn beryglus iawn aros allan. Gwylia rhag i angeu dy ddal o'r tu allan i'w muriau.

Yn awr dyma destun gorfoledd, a'r gorfoledd mwyaf i'r ddaear;—mae yr Arglwydd yn teyrnasu yn ei ras. Pe na byddai y deyrnas hon, ni byddai yn werth i ni fod ar y ddaear; ni byddai y ddaear ond agorfa i uffern. Ond yn awr y mae gobaith i bechadur, a galwad arno i ddyfod i mewn a bod yn ddedwydd. Mae llawer wedi dyfod; ond y mae eto ddigon o le. Mae Duw yn barod i faddeu, ac nid oes cofio beiau yn nheyrnas gras. Tuedder ni oll i ddyfod i mewn iddi. AMEN.*

* Gwel y "*Pregethwr*," Ebrill, 1841.

PREGETH IV.

DYNA Y DUW!

"Dyna y Duw."—EZRA i. 3.

MAE y testun yn rhan o eiriau Cyrus wrth anfon y caethion adref o Babilon. Un o'r dynion hynotaf yn mhlith y rhai hynod oedd Cyrus. Yr oedd yn ddyn talentog fel llywodraethwr gwladol; a champ fawr arno oedd ei fod yn llawn o'r hyn a elwir yn synwyr cyffredin, ond yr hwn, ysywaeth, yw y mwyaf annghyffredin o bob synwyr. Rhoddodd Duw hysbysrwydd am dano cyn ei eni.

Ymddengys fod Cyrus yn gwybod rhywbeth am y gwir Dduw. Mae yn ei gyhoeddiad am ollyngiad yr Iuddewon i'w gwlad, ac am adeiladu y deml yn Jerusalem, yn galw Duw Israel yn "Arglwydd Dduw y nefoedd," ac yn dywedyd mai Efe a roisai iddo deyrnasoedd y ddaear; ac medd efe yn ein testun, "Arglwydd Dduw Israel,—dyna y Duw!" fel pe dywedasai, "Nid oes un Duw yn y nefoedd na'r ddaear yn werth ei addoli na'i enwi ond Duw Israel. Clywais am lawer o dduwiau; ond un yn unig yw yr iawn Dduw: Arglwydd Dduw Israel,—dyna y Duw!"

Dylem ninau ystyried mai ein peth mawr ni yw cael Duw. Gan Dduw y cawsom ein crëu. Mae perthynas creaduriaid â Chrëawdwr yn bod rhyngom âg Ef; nis gall lai na bod, ac ni phaid byth. Ond peth arall yw cael ein Crëawdwr yn Dduw i ni. Mae perthynas llywodraethedig a llywodraethwr rhyngom â Duw; ond y mae hyny hefyd yn wahanol oddiwrth ei fod yn Dduw i ni. Mae Efe yn Dduw mawr, ond gallwn ni fyned trwy y byd heb ei adnabod. Mae yn "Frenin mawr ar yr holl ddaear." Yr wyf yn tybied mai dyna ddylai fod pwnc mawr pob crëadur rhesymol; cael ei Grëawdwr yn Dduw iddo. Bu efe unwaith yn Dduw i'r angelion ni chadwasent eu dechreuad, ond nid yw felly yn bresenol. Y mae ar ddyn, cofier, angen Duw. Yr ydym wrth natur "heb

obaith genym, ac heb Dduw yn y byd." Dyna ddesgrifiad gresynus iawn o'n tlodi.

Arganmawl Duw sydd yn y testun: "Dyna y Duw." Rhaid i lawer o berffeithiau gogoneddus ymddangos yn y gwrthddrych cyn y gellwch ddyweyd am dano, "Dyna y Duw."

I. RHAID EI FOD O RAN EI BRIODOLIAETHAU NATURIOL,—

1. *Yn dragywyddol; yn ddiddechreu a diddiwedd* Nid oes yr un crëadur fel hyn, ac am hyny ni ddichon y crëadur fod yn Dduw. Nid ydym ni ond newydd ddechreu byw. Mae miloedd wedi hanfodi o'n blaen. Pe meddyliech am hen ŵr pedwar ugain mlwydd oed, nid yw efe mewn cymhariaeth ond megys newydd ddechreu bôd; eithr nid ä byth bellach allan o fôd. Er na pherthyn anfarwoldeb i'r crëadur yn hanfodol, eto y mae Duw wedi ordeinio fod dynion i fyw byth; ac am ein bod i fyw byth, mae yn rhyw haws genym gydnabod fod Duw i barhau i dragwyddoldeb, na'i fod erioed o dragwyddoldeb. Mae y meddylddrych o Fôd diddechreu yn ein dyrysu. Duw yn bôd, ac erioed heb ddechreu bôd! Nid all y meddwl dynol amgyffred hyny; ac y mae yn chwilio am ryw le i ffoi rhag ei addef. Hwyrach yr ä i feddwl i Dduw ddechreu bod rhywbryd draw, draw, ei fod yn hen iawn—yn henach na'r ddaear—cyn gosod ei sylfaeni yn mhell! Ond nis gall hyny fod,—fod Duw wedi cael dechreuad. Os cafodd Duw fôd gan rywun arall, rhaid i ni briodoli Duwdod i'r neb a roddodd fôd iddo. Gan hyny, os nad yw Duw yn ddiddechreu, nid yw yn deilwng o gael ei alw yn Dduw. Ond ni ddechreuodd y Duw mawr hanfodi erioed. Crëawdwr digrëedig yw efe; Gwneuthurwr diwneuthuredig. Efe a wnaeth bobpeth a phawb; eithr efe ei hunan ni wnaed gan neb. Mae y meddwl dynol yn chwanog o fyned i chwilio ai ni ddarfu iddo Ef ryw ddiwrnod roddi bôd iddo ei hunan. Pe tybiech i Adda roddi bôd iddo ei hunan, chwi dybiech yr Adda hwnw o'i flaen ei hunan, yr hyn dyb sydd yn afresymol. Gan hyny, rhaid i'r neb y gellir dywedyd am dano, "Dyna y Duw," fod yn Dduw o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb, heb ddoe nac yfory yn perthyn iddo, ond yn llon'd y tragwyddoldeb tu ôl i ni, a'r tragwyddoldeb tu blaen i ni hefyd. Un felly yw Duw y Beibl; gan hyny, "Dyna y Duw."

2. *Rhaid ei fod yn Hunanddigonol*—yn un na bydd arno eisieu dim gan neb. "Nid â dwylaw dynion y gwasanaethir" y cyfryw Dduw, "fel pe byddai arno eisieu dim, gan ei fod Ef yn rhoddi i bawb fywyd ac anadl, a phob peth oll." Nid oes neb fel hyn ond Duw. Yr ydym ni yn ymddibynu ar Dduw mewn modd llwyr a hollol, ac i ryw fesur ar ein gilydd. Cewch weled y plant yn ymddibynu ar eu rhieni, ac weithiau y rhieni ar y plant. Ni wyddom ni yn y byd pa bryd y bydd arnom eisieu cymhorth y mwyaf dirmygedig. Ond am Dduw, nid oes arno ef angen am help neb. Nid oes arno eisieu help neb i fod yn ddedwydd. Mae yn ddigon o hono ei hunan iddo ei hunan. Mae yn gyflawn o bobpeth. Rhaid gan hyny ei fod yn hollol *independent*. Wele, "Dyna y Duw." Dewiswn yn Dduw i ni yr hwn sydd yn ddigon erioed iddo ei hunan.

3. *Rhaid ei fod yn Hollalluog*—un a allasai â'i air wneyd yr holl grëadigaeth, nefoedd a daear, y môr, a'r hyn oll sydd ynddynt; a gwneuthur y bydoedd o ddim, heb bethau gweledig yn ddefnyddiau iddo; un a all reoli yr elfenau mwyaf afreolus gyda phob hawsder; un na flina ac ni ddiffygia, pa beth bynag a wnelo; un nad oes derfyn ar ei allu,—"Dyna y Duw." Ac un fel yma yw ein Duw ni. Gall ddywedyd yn hyf yn nghlyw pawb oll—"Myfi yw Duw Hollalluog."

4. *Rhaid ei fod yn Hollbresenol.* Mae Duw felly. Ped esgynem fr nefoedd, mae Duw yno; pe cyweiriem ein gwely yn uffern, mae Efe yno:

"Mae'n llon'd y gwagle yn ddi-goll."

Pe meddyliech am rywle yn y gwagle diderfyn nad yw Duw yno, ni fedrai y meddwl ddim ymdawelu ei fod yn Dduw. Rhaid ei fod yn Anfeidrol, heb derfynau iddo. Pe meddyliech y gallai rhywun fyned o'i gwmpas, a phe gallai crëadur ei amgyffred, nis gallai fod yn Dduw. Rhaid ei fod yn anfeidrol fawr—yn uwch na'r nefoedd, yn ddyfnach nag uffern, yn hwy na'r ddaear, ac yn lletach na'r môr, onidê nis gallai ein meddwl ddywedyd, "Dyna y Duw."

5. *Rhaid ei fod yn Hollwybodol.* Pe gellid dywedyd fod rhywbeth nad yw Duw yn ei wybod, ni byddai yn Dduw. "Goleuni yw Duw, ac nid oes ynddo ddim

tywyllwch." Mae ychydig o oleuni yn rheswm dyn, ond y mae ynddo lawer o dywyllwch hefyd. Ond am Dduw, nis gellwch briodoli un math o anwybodaeth iddo. Mae nid yn unig yn gwybod yr hyn sydd yn bod, a'r hyn sydd wedi bod, ond yr hyn oll a fydd, ac a allasai fod. Rhaid i'r perffeithiau hyn gyd-gyfarfod yn ngwrthddrych ein haddoliad. A'r hwn a'i medd, "Dyna y Duw."

II. HEBLAW Y PRIODOLIAETHAU NATURIOL HYN A NODWYD, Y MAE PRIODOLIAETHAU MOESOL YN PERTHYN IDDO.

1. *Am yr hwn sydd yn Dduw, rhaid ei fod yn gyfiawn.* Nis gellwch feddwl am Dduw ac annghyfiawnder. Gall angel fod yn annghyfiawn, a dyn fod, ïe, yn "farnwr annghyfiawn;" ond nid oes annghyfiawnder gyda Duw. Mae tybied ei fod felly yn rhoddi *shock* i'r meddwl dynol. "Duw cyfiawnder yw yr Arglwydd." Chwi ellwch gysgu yn bur dawel gyda'r meddwl na chewch byth un cam oddiar law Duw. Gellwch gael cam oddiar law eich cydgrëaduriaid; er, ar y cyfan, nid wyf yn tybied y cei ryw lawer o gam; canys os cei gam oddiar law y naill ddyn, ti a gei fwy na chyfiawnder oddiar law y llall. Ond doed a ddelo ni chei di ddim cam oddiar law Duw. Ie, fe gaiff y cythreuliaid gyfiawnder oddiar ei law Ef. Ni fedrwn ni gydnabod neb yn Dduw nad yw yn gyfiawn. Yn wir, nis medrwn ni gydnabod neb yn ddyn iawn os na bydd yn gyfiawn; llawer mwy nis gallwn gydnabod Duw os na bydd yn berffaith gyfiawn. "Oni wna Barnydd yr holl ddaear farn?" Gwna i'r manylrwydd eithaf; am hyny, "Dyna y Duw."

2. *Rhaid ei fod yn sanctaidd;* sef, yn gwbl wrthwyneb i halogedigaeth a drygioni; "yn lânach ei lygaid nag y gall edrych ar ddrwg." Dyna ddywed Duw, "Byddwch sanctaidd, canys sanctaidd ydwyf fi." Nis gall dyn, er bod yn bechadur, lai na chasâu yr halogedig. Mae Duw mor bell oddiwrth halogedigaeth ag ydyw oddiwrth annghyfiawnder; un fel yna y rhaid iddo fod cyn y gall fod "Y Duw." Priodoledd yr holl briodoliaethau yw ei sancteiddrwydd.

3. *Rhaid iddo fod yn un doeth.* Nis medrwch chwi ddim cydnabod un ynfyd yn Dduw. Mae pawb yn canmawl y doeth. Mae ffynonell doethineb yn y Duw sydd yn y nefoedd. "Yr unig ddoeth Dduw" yw. Nid doeth neb fel Efe. Mae doethineb pawb arall yn

gymysgedig â ffolineb; eithr yn Nuw ceir doethineb pur a digymysg.

4. *Rhaid ei fod yn anfeidrol ddaionus.* Dyna yw daioni neu haelfrydedd yn Nuw,—yr hyn sydd yn ei ogwyddo trwy bobpeth y mae yn ei wneuthur i gyrchu at ddedwyddwch ei greaduriaid. Y mae Duw yn anfeidrol ddaionus, yn dwyn oddiamgylch ryw ddaioni mawr nas gall neb ond Efe ei hunan ei amgyffred. Pan orpheno Duw adeiladu Sïon, y da mawr hwn, "y gwelir Ef yn ei ogoniant." Am y cristion, gallwn ddyweyd fod peth da ynddo, a thipyn o ddrwg, ar y goreu. Ac am y pechadur, y mae rhywbeth dymunol ynddo, tra mae ynddo lawer o ddrwg. Nid oes dim drwg yn yr angel nefol, ond y mae efe fel creadur o hono ei hun yn agored i ddrwg. Drwg yw y cythraul heb ynddo ddim ond drwg. Nid wyf yn dywedyd mai drwg yw ei hanfod; pechod yn unig sydd felly; ond yr wyf yn dywedyd nad oes dim da ynddo. Eithr y Duw mawr, daioni anfeidrol sydd ynddo —heb ddim drwg na dim posiblrwydd i ddrwg. Mae Duw yn anfeidrol bell oddiwrth ddrwg. Mae mor anmhosbl iddo fod yn ddrwg, neu newid oddiwrth dda i ddrwg, ag yw iddo ddihanfodi ei hunan. Daioni yw, ac nid oes ynddo ddim ond daioni.

Wel, rhaid yw fod y perffeithiau gogoneddus yna yn y Duw mawr cyn y gallasem ei gydnabod yn Dduw. Mae y Duw hwn yn raslawn a thrugarog tuag atom ni sydd bechaduriaid. Mae arnom angen Duw daionus i faddeu i ni. A dyma y Duw sydd yn cyfiawnhau yr annuwiol, ac yn derbyn pechaduriaid; yn "maddeu anwiredd a chamwedd a phechod." Duw yn medru maddeu, ïe, "Duw parod i faddeu" yw ein Duw ni. Yn awr, bechadur, os wyt ti yn deimladol o'th fod yn bechadur, "Dyma y Duw" i ti droi ato; medr daflu dy bechodau o'r tu ôl i'w gefn; mae yn Dduw cyfiawn ac yn Achubwr yn ei Fab, ac yn Dduw sydd yn sancteiddio yn a thrwy ei Yspryd. Mae arnat angen ei ddelw, ac y mae Efe, trwy ei Yspryd, yn ei rhoddi i'r rhai sydd hebddi. Pan ollyngo Duw ei Yspryd, yr adnewyddir wyneb y ddaear; gall beri i'r ddaear dyfu mewn un dydd. Medr dywallt dyfroedd ar y sychedig, a ffrydiau ar y sychdir.

Yr ydym ni wrth natur heb y Duw hwn, "Heb obaith, ac heb Dduw yn y byd." Dyma dy gyflwr; ond yr wyt

heddyw mewn amgylchiadau yn mha rai mae Duw i'w gael. Mae yn bosibl i ni gael y Duw mawr hwn yn ei dangnefedd a'i heddwch. Y pechadur caled, onid oes arnat ddim ofn gwrthryfela yn erbyn y Duw mawr hwn? Gall efe arfogi yr holl greadigaeth i'th erbyn; ni raid iddo ddim ond edrych arnat i'th ddyrysu. Mae yn beth ofnadwy bod yn elyn iddo. Ond yn y Cyfryngwr mae yn "cymodi y byd âg ef ei hun, heb gyfrif iddo ei bechodau;" nid heb wybod eu bod yn bechaduriaid, nac heb wneyd iddynt hwythau wybod, ond heb eu *chargio* âg eu ogrwydd eu pechodau. Dyna y Duw! ac y mae hwn i'w gael yn Dduw i chwi. Mae eraill wedi ei gael. Fe gymerodd ei Fab ein natur, ac fe ddaeth i'n deddfle. Derbyn dithau ei Fab, a thi a gei Dduw yn Dduw i ti. Dyna fel y dywedai Crist wrth y rhai a'i derbyniasant, "Fy Nuw i a'ch Duw chwithau." Mae hyn yn ymddangos i mi yn gysurus iawn. Mae yn y Duw mawr hwn barodrwydd i fod yn Dduw i'w greadur; mae yn hoffi cael bod yn Dduw i'n *sort* ni. Sut y gwyddoch chwi? Wele, y mae yn cyhoeddi nad oes neb arall a wna'r tro yn ei le Ef; ac y mae yn galw arnat i'w dderbyn yn Dduw i ti. Gan iddo dy wneuthur i fyw arno ef ei hunan, yr wyf yn tynu y casgliad fod yn bwrpas ganddo fod yn Dduw i'w greadur tlawd. Mae Duw yn ewyllysio yn dda i'w greaduriaid; yr holl ffrae sydd o herwydd pechod. Dewis di Ef yn Dduw i ti, ac Efe a'th gyfiawnhâ ac a'th sancteiddia. Dewis di Ef yn Dduw i ti ar y ddaear, a thi a'i cei yn Dduw i ti am dragwyddoldeb. Os oes ganddo Ef ryw bwrpas i fod yn Dduw i greaduriaid, a oes genych chwi ryw bwrpas i'w gael Ef? O'i gael ef yn Dduw, chwi fyddwch wedi cael digon. O fewn corph y dydd hwnw, ti gei ddigon am dragwyddoldeb. Dyna'r Duw! Llefwch ac ymdrechwch am ei adnabod. Mae yn foddlawn i fod yn Dduw i chwi: "A mi a fyddaf yn Dduw iddynt hwy, a hwythau a fyddant yn feibion ac yn ferched i mi, medd yr Arglwydd Hollalluog."

Mae yr hyn neu yr hwn sydd yn Dduw gan bawb yn effeithio arnynt. Mae duw pawb naill ai yn eu gwneuthur yn waeth neu yn well. Os credi i Arglwydd Dduw y nefoedd a'r ddaear, os gwasanaethi Ef yn ffyddlawn, tiwnei dy *fortune* am dragwyddoldeb. Gan fod y Duw hwn i'w gael yn Dduw i chwi yn awr, mynwch afael ynddo oll.*—AMEN.

* Y "*Drysorfa*," Chwefror, 1867.

PREGETH V.

ETO Y MAE LLE.

"A'r gwas a ddywedodd, Arglwydd, gwnaethpwyd fel y gorchymynaist; ac eto y mae lle."—Luc xiv. 22.

Y mae yr Arglwydd Iesu, fel y cawn hanes yn nechreu y benod yma, wedi myned i dŷ Pharisead i fwyta bara. Yr oedd dyn yn glaf o'r dropsi yno, ac yr oeddynt yn gwylio yr Iesu a iachäai Efe ef ar y dydd Sabbath: ond iachau y dyn ddarfu yr Arglwydd, ac ateb yn bur fyr iddynt hwythau, pa un oedd yn iawn gwneuthur da ai drwg ar y dydd Sabbath.

Dywed wrthynt hefyd am beidio eistedd yn y lle uchaf, ac astudio pa fodd i ddyrchafu eu hunain; mai nid dyna y ffordd iddynt gyrhaedd hyny.

Hefyd pan wnelont wledd, am beidio a gwahodd y cyfoethogion, am fod modd ganddynt hwy i dalu yn ol; ond am iddynt wahodd y tlodion. Yr oedd yno ryw ddyn nad oedd yn perchen llawer o'r byd, mae'n debyg, ac yn meddwl wrth glywed hyn y byddai yn bur hapus pe oyddai wedi dyfod fel yna, ac atebodd yn bur hŷf, "Gwyn fyd y neb a fwytao fara yn nheyrnas Dduw"—y byddai cyfle i bawb i gael eu lle a'u rhan. Ond y mae yr Arglwydd Iesu yn dangos mai nid felly y mae dynolryw yn gyffredin yn edrych. Gallech feddwl gan fod gwledd wedi ei darpar, fod yr efengyl yn gwahodd pawb iddi, y buasai pawb yn rhedeg at yr Arglwydd Iesu i'w derbyn. Ond a fynet ti ddyn wybod pa sut y mae? "Rhyw ŵr a wnaeth swpper mawr,"—wel yr oeddynt yn dyfod am y cyntaf—yr oedd y tŷ yn fawr, ac nid oedd eisieu dim ond eu cael hwy i'r wledd. "Ond hwy a ddechreuasant yn unfryd ymesgusodi." Esgusodi ydyw dyn yn ceisio taflu y bai oddiar ei ysgwyddau ei hunan ar ryw rai eraill,—peth ag y mae y natur ddynol yn bur chwanog iddo. Ond y mae brethyn eu hesgusodion hwy yn bur deneu—gwelir drwyddo yn bur hawdd. Yr oedd un yn dyweyd ei fod

wedi prynu tyddyn a bod arno eisieu myn'd i'w weled. Pe buasai y cyfryw dyddyn ar werth y dydd hwnw, buasai ryw esgus iddo; ond buasai y wledd yn fwy o werth iddo pe hyny fuasai yn bod; ond yr oedd y dyn wedi ei weled, oblegyd nid oedd wedi ei brynu, mae'n debyg, heb roddi rhyw olwg arno; ond y gwir oedd fod y tyddyn yn gymaint yn ei olwg fel nad allai ddyfod—esgus gwael iawn.

Yr oedd y llall wedi prynu pum' iau o ychain, a rhaid myned i'w profi, meddai y dyn. Pe buasai y ffair arnynt y dydd hwnw, buasai ryw fath o esgus iddo; ond balch o'i fargen, a diystyr o'r wledd, oedd efe. A'r trydydd yn dyweyd ei fod wedi priodi gwraig, ac am hyny nas gallasai ef ddyfod. Nid oedd hwn yr un olwg a llawer. Y mae llawer yn dewis peidio dyfod at grefydd nes priodi, i gael maes dipyn helaethach; ond yr oedd bryd hwn ar ei gydmares, a'i esgus yn wael iawn: onid allasant ddyfod eu dau? Yr oeddynt yn bur gynes ac heb dynu yn groes ond ychydig iawn eto; paham na allasai y wraig ddyfod? Y maent yn dyweyd fod mwy o'r merched yn dduwiol nag o'r gwŷr—esgus gwael iawn. Ond a feddyliech chwi na byddai gŵr y tŷ wedi digio? Yr oedd wedi teimlo, gan y rhoddodd orchymyn i'r gwas i fyned i heolydd ac ystrydoedd y ddinas, a gwahodd pawb—y tlodion, a'r anafus, a'r cloffion, a'r deillion; ac yna y mae y gwas yn dyfod yn ol, ac yn dywedyd, "Arglwydd, gwnaethpwyd fel y gorchmynaist; ac eto y mae lle." Y mae y tŷ yn fawr, a'r wledd yn helaeth; dos allan, bellach i'r prif-ffyrdd a'r caeau at y cenhedloedd, gwahodd hwy i ddyfod i mewn fel y llanwer fy nhŷ. Wel, bellach, nid ä gwaed y groes yn ofer.

"Ni chollwyd gwaed y groes,
Erioed am ddim i'r llawr."

Yr oedd gŵr y tŷ wedi digio. Y mae Duw yn digio wrth bob drwg—ac yn benaf wrth y drwg sydd yn gwrthod y daioni sydd yn y Cyfryngwr—esgeuluso bod yn gadwedig. Y mae yma le i bechadur droi ei wyneb; "eto y mae lle."

Yn un peth, y mae lle yn ngalwedigaeth yr efengyl i ni bob yr un. "Arnoch chwi wŷr yr wyf fi yn galw, ac at feibion dynion y mae fy llais." Y mae galwedigaeth yr efengyl at

bechadur fel y cyfryw. "O deuwch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno." "Trowch eich wynebau ataf fi holl gyrau y ddaear, fel y'ch achuber." "Cymerwch fy iau arnoch a dysgwch genyf; canys fy iau sydd esmwyth, a'm baich sydd ysgafn." "Deuwch ataf fi bawb sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythaf arnoch." Y mae galwad yr efengyl nid yn dy alw i'r farn i'th gospi, ond i dderbyn trugaredd, i'th "gyfiawnhau yn rhad trwy ei ras ef;" yn nhrefn yr efengyl, i dderbyn "maddeuant pechodau a chyfran ymhlith y rhai a sancteiddiwyd." Ai tybed y byddai yn fai i ni dynu dipyn o gysur yma? Y mae efe yn dy alw di. Nis gwn pa mor halogedig yr wyt wedi bod; "cymer gysur y mae Efe yn dy alw di." Y mae y diafol am dy rwystro, a chwantau yn sefyll ar y ffordd, ond cymer galon, y mae Efe yn dy alw di; y mae yma le i bechadur fel y mae.

Y mae yma le hefyd yn nhrugaredd Duw. Y mae "trugaredd yr Arglwydd ar ei holl weithredoedd;" y mae yn mhob man wedi ei thaenu dros y cwbl, a gwelwch hi bob amser. Y mae gan Dduw galon fawr, a'i llon'd o faddeuant. Y mae ei drugaredd yn nhrefn yr efengyl yn dyfod o werth mawr. Ymgeledda di yn y fath fodd, ag y byddi yn well i dragwyddoldeb o honi. Y mae trugaredd Duw yn ddiderfyn; y mae yn hoffi tosturio, ac yn ymofyn am le i drugarhau. Pwy a ŵyr pa beth a dal trugaredd Duw yn wyneb angen pechadur?

Nis gallaf fostio fy henafiaid; ond byddaf yn falch o'm Crëawdwr Hollalluog—Hollwybodol. Pa faint a dal trugaredd Crëawdwr i'w greadur? nis gwyr neb ond y Crëawdwr ei hunan. Yn erbyn y Duw mawr yr wyf wedi pechu, ac y mae ganddo drugaredd yn ateb i'w fawredd. Y maent yn dyweyd mai dynion bach iawn ydyw y rhai anhawddaf ganddynt faddeu o bawb: ond am y dyn sydd a rhywbeth yn fawr ynddo, y mae maddeu yn hwnw os caiff ymostyngiad. Felly am y Duw mawr, y mae yn ymhyfrydu mewu maddeu i bechadur mawr.

Y mae yma le hefyd yn arfaeth Duw. Gyda pharch ac ymostyngiad sanctaidd y dylem son am hon; ond byddaf yn meddwl nad ydyw wedi ei heilio mor glos nad oes yma le i bechadur droi ei wyneb; o herwydd yn nhragwyddoldeb cyn bod y ddaear, penderfynodd Duw faddeu i bob pechadur edifeiriol, a chyfiawnhau pwy bynag a gredo. Y

mae yma ddrws wedi ei agor na ddichon neb ei gau, os na chauwch chwi ef yn eich erbyn eich hunain. Nid oes dim wedi ei benderfynu yn erbyn pechadur mawr yn nhragwyddoldeb pell, ond y mae yma barotoad tuag at dy dderbyn di: y mae yn dy alw, cymer gysur.

Y mae yma le i ni yn haeddianau mawr y Cyfryngwr. Iawn mawr ydyw ei Iawn Ef; y mae yn "offrwm i Dduw o arogl peraidd." Y mae

"Wedi talu anfeidrol Iawn,
Nes clirio llyfrau'r nef yn llawn;
Heb ofyn dim i ni."

Y mae y drefn wedi gwneyd y diffyg o'n tu ni i fyny. Buasai y cwbl wedi darfod, buasai pawb yn dyweyd ei bod yn rhy ddiweddar, pe buasai treulio ar anfeidroldeb; ond nid oes dim darfod ar beth felly, ac ni welir haeddianau y Cyfryngwr yn myn'd yn llai byth. Dyna fel y gwelwn ni fod Duw yn gwneyd yn mhob peth. Lle y mae angen mawr, y mae rhyw helaethrwydd mawr ar ei gyfer. Yr oedd eisieu awyr lawer ar y byd; y mae Duw wedi rhoddi deugain milldir o drwch o amgylch y ddaear. Paham yr oedd eisieu cymaint? Yr oedd eisieu llawer o awyr i'w anadlu, ac i'w buro wedi ei anadlu. Y mae y môr yn fawr iawn: byddwn i yn arfer meddwl ystalm ei fod yn ormod, y buasai yma le braf i gael gweirgloddiau. Y mae o yn llon'd ei wely bob amser ar wlyb a sych; buasai yn rhaid gwlawio rhyw fôr bach i gael digon hyd yn oed o leithder i'r hen ddaear yma. Y maent yn dyweyd am yr haul ei fod yn fawr iawn; yr oedd eisieu un mawr, ac i ddiwallu anghenion mawr y mae Duw wedi ei wneyd; y mae yn ffynnonell ddihysbydd o wres a goleuni, a bydd felly holl ddyddiau y ddaear. Dyna fel y mae Haul mawr y Cyfiawnder, y mae yn anfeidrol ac annherfynol yn gystal a thragwyddol; y mae yma helaethrwydd mawr yn ei Aberth, a gwiwdeb sydd allan o derfyn ei fesur a'i bwyso gan blant dynion. Y mae yma helaethrwydd hefyd heb i ddim fyned yn ofer. Y mae wedi darparu ar gyfer dy eisieu di. Y mae genym Greawdwr yn Iawn.

Hefyd y mae yma le i ni yn ngweddïau yr eglwys. Y mae y duwiolion yn gweddïo dros eu cymydogion yn wastad. Y mae yma rai heb feddwl fawr iawn am grefydd; ond y mae eraill wedi dyrchafu gweddi drostynt. Dymuniad

calon llawer hen fam yn Israel ydyw, gweled ei holl gymydogion yn dduwiol." "Y mae y briodasferch yn dywedyd, tyred." Nis gwn a roddwn ddim am grefydd neb na byddai rhywbeth ynddi yn gwahodd.

Hefyd y mae lle o fewn muriau eglwys Dduw. Y mae meddu crefydd yn beth mawr iawn, a Duw yn unig a ŵyr pa mor fawr. Y mae ei phroffesu hi yn beth go fawr. Nis gwn pa fodd y gallwch ei meddu heb ei phroffesu: y mae eisieu bod yn ddysgybl i'r Iesu—nid yn ddirgel rhag ofn yr Iuddewon. "Pwy bynag fyddo cywilydd ganddo fi am geiriau; bydd cywilydd gan Fab y dyn yntau hefyd, pan ddel yn ngogoniant ei Dad." Ymofyn am aelodaeth eglwysig. Mynydd Duw sydd fynydd cribog fel mynydd Basan, ac yn gofyn am ddigon o ymdrech i'w ddringo. Arafaidd iawn y daethum i at grefydd, ond teimlwn fod rhyw blwc rhyngof a hi nes daethum at y broffes. Daethum i deimlo bob yn dipyn nad oedd arnaf eisieu Crist heb ei bobl. Dyma borth y nefoedd; trwy hwn y mae myned i'r eglwys orfoleddus fry.

Hefyd y mae digon o le i chwi yn y nefoedd. Y mae yr Arglwydd Iesu Grist yn dyweyd fod yn nhŷ ei Dad "lawer o drigfanau," a'i fod Ef yn myned i barotoi lle i'w bobl. Ac wrth feddwl am yr Arglwydd Iesu, teimlwn y gwna Efe bob peth yn iawn, o herwydd nid oedd Ef, ac nid ydyw, yn arfer gwneyd dim heb ei fod yn iawn. A sicr ydyw y bydd y lle i'r pwrpas uchaf: nis gwn a oes lle yn uffern i chwi; beth bynag ni bydd yno *welcome home* gan undyn, gan nad oes yno gariad at neb. Bydd holl ddihiriaid y byd wedi myned yno. Nid yw y lle wedi ei ddarparu i ddynion. Ond bydd *welcome home* i ti yn y nefoedd. Bydd Abraham, Isaac, a Jacob yno, ac y maent wedi llawenhau filoedd o weithiau wrth weled rhai yn dyfod adref. Bydd digon o le a chroesaw i ti yn y nefoedd. Nid dim byd ydyw myned i uffern a cholli y nefoedd hefyd. Y mae uffern yn ofnadwy o le i feddwl i un-dyn fyned yno.

Ni fedr y diafol fyned a thi i uffern heb dy *gonsent* ti dy hun; ac nid ydyw Duw chwaith am fyned a thi i'r nefoedd yn groes i'th ddymuniad. Yr oedd y rhai hyn wedi ymesgusodi; a gŵr y tŷ o'r herwydd wedi digio,—teimlodd ac ni ddaeth ato ei hunan—y mae wedi digio er ys deunaw cant o flynyddoedd wrth

y genhedlaeth hono: yr ydym yn disgwyl fod yr amser i drugarhau bron a dyfod. Bod yn ddifater am fod yn gadwedig ydyw y bai mawr. Gwyliwch esgeuluso, ond derbyniwch yr efengyl, onide bydd y Duw mawr wedi digio wrthych yn y fath fodd, na chymoda â chwi i dragwyddoldeb.*

* Ysgrifenwyd gan Mr. HUGH JONES, *Dolgellau*, wrth ei gwrandaw.

PREGETH VI.

ETIFEDDION SYLWEDD.

"I beri i'r rhai a'm carant etifeddu sylwedd: a mi a lanwaf eu trysorau.—DIAR. viii. 21.

SYLWEDD i greadur rhesymol yw yr hyn a'i gwna yn ddedwydd, a gyflawna ei holl raid, ac a leinw ei ddymuniadau. Gall gwellt y maes wneyd yr anifail mor ddedwydd ag y mae yn alluadwy iddo fod, oblegyd nas gall ddymuno ychwaneg; ond ni ddichon cynyrch y ddaear wneuthur dyn felly, am y gall ddymuno ychwaneg. Lleferydd doethineb am dani ei hun yw y geiriau hyn, wedi ei phersonoli gan y gŵr doeth fel pendefiges; ac at ddynion o bob oedran a sefyllfa y mae ei lleferydd. Yn yr adnod flaenorol, dywedir, "Ar hyd ffordd cyfiawnder yr arweiniaf, ar hyd canol llwybrau barn." Ffordd cyfiawnder yn unig sy ffordd ddyogel ac anrhydeddus, ac y mae gwir ddoethineb yn arwain ar hyd-ddi. "Ar hyd canol llwybrau barn." Nid yw doethineb yn arwain i'r eithafion hyd yn nod ar "ffordd cyfiawnder" a "llwybrau barn;" ond y mae yn gynwysedig yn ngochel yr eithafion ar bob llaw, a dewis y canol, gan gadw y naill eithaf mor bell oddiwrthi a'r llall. Mae doniau a thalentau yn fynych yn rhedeg i'r eithafion; ond ni chanlyn doethineb hwynt, oblegyd gwell ganddi y "canol."

Ond "rhagoriaeth gwybodaeth yw fod doethineb yn yn rhoddi bywyd i'w pherchenog," pâr i'r rhai a'i carant etifeddu sylwedd.

1. *Mae yr hwn sydd yn caru doethineb yn etifeddu sylwedd, yn un peth, oblegyd fod cariad at ddoethineb yn wir rinwedd yn y meddwl.* Nid yw cariad at ddedwyddwch—at fwynhad—yn rhinwedd moesol, oblegyd y mae hwnw yn y drwg a'r da, yn y cyfiawn a'r drygionus, yn gyffelyb: iaith calon holl ddynolryw yw, Pwy a ddengys i ni y daioni hwn? Ond y mae cariad at ddoethineb yn dyogelu i ddynion fwyniant a dedwyddwch. Caru doethineb yw caru Duw—

caru ei gyfraith a'i lywodraeth—caru Crist a'r efengyl—caru ei achos a'i bobl—caru yr hyn sydd dda a'i *wneyd*. Ond y mae cariad dynion yn fynych at ddedwyddwch fel "deisyfiad y dïog, ac ni chaiff ddim; oblegyd ei ddwylaw a wrthodant weithio."

2. *Mae yr hwn sydd yn caru doethineb yn etifeddu sylwedd, oblegyd cyfaddasrwydd pethau doethineb i natur ac amgylchiad dyn.* Mae doethineb a daioni y Creawdwr i'w gweled, nid yn unig yn nghreadigaeth pethau, ond yn nghyfaddasiad pethau i'w gilydd. Mae doethineb mawr i'w weled yn nghyfansoddiad yr aderyn, ac yn nghyfansoddiad y pysgodyn; ond y mae doethineb mwy i'w ganfod erbyn i ni ystyried cyfaddasrwydd cyfansoddiad y naill a'r llall o honynt i'w helfenau. Ac O! mor gyfaddas y mae cylla dyn ac anifail wedi eu gwneyd i wahanol ffrwythau y ddaear. Doethineb a wnai y naill ar gyfer y llall mewn canoedd o amgylchiadau cyffelyb. Felly, yr un ffunud, y mae cyfaddasder perffaith yn y Duw mawr a chynyrch ei ras i wneyd i fyny holl ddiffyg dyn fel creadur ac fel pechadur. Mae yn naturiol i ddyn garu. Tŷn bron ei holl fwyniant o'r gwrthddrychau a gâr, ond y mae sylweddoldeb a pharhad y mwyniant hwnw yn ymddibynu ar gyfaddasrwydd a theilyngdod y gwrthddrychau. Nis gall y gwrthddrychau teilyngaf fod yn hapusrwydd iddo, heb eu caru; ac nid oes mwyniant sylweddol mewn gwrthddrychau annheilwng, er eu caru. Gall merch ieuangc rinweddol garu a gwir garu gŵr ieuangc o ymddangosiad teg oddiallan, a myned ag ef i'r cyfamod prïodasol, a theimlo yn ddedwydd yn ei gwmnïaeth dros yspaid; eithr os glwth a meddw, dïog a diddefnydd, fydd efe, gwywa cicaion ei dedwyddwch yn fuan—nid am nad oedd yn caru, ond am nad oedd y gwrthddrych yn deilwng a chyfaddas. Ond pe byddai i ddau cyfaddas i'w gilydd fyned i'r sefyllfa hono heb gariad, nis gallent fwynhau dedwyddwch y sefyllfa. Y mae miloedd yn caru pechod, ac yn llawen yn ei gariad dros fŷr amser—dros yr *honeymoon*—ond y mae yn berffaith amddifad o ddefnyddiau gwir ddedwyddwch. Ond am ddoethineb a'i phethau, y maent yn gwbl gyfaddas; nid oes eisieu ond eu caru, a thi a etifeddi sylwedd. Mae yma faddeuant i'r euog, ffynon i'r aflan, meddyginiaeth i'r afiach, gwisg i'r noeth, cyfoeth i'r tlawd, goleuni i'r tywyll—mae yma, mewn

gair, ddyn yn Iachawdwr i'r pechadur, a'r Creawdwr yn Dduw i'r creadur.

3. *Mae yr hwn sydd yn caru doethineb yn etifeddu sylwedd, oblegyd fe gaiff ei wrthddrych.* Nis gall fod yn glaf o gariad at ddoethineb a marw o'r clefyd hwnw, oblegyd efe a feddiana wrthddrych ei serch, "Y sawl a'm carant i," medd doethineb, "a garaf finau." Gall y cybydd garu aur ac arian, a methu eu cael; y balch garu parch ac anrhydedd, a hwythau yn cilio oddiwrtho. Câr llawer y rhai hyn fel y carai Paul y Corinthiaid, yr hwn a gwynai ei fod "yn caru yn helaethach, ac yn cael ei garu yn brinach;" eithr nis gellir caru doethineb felly—y mae hi yn eiddo pawb a'i caro. Gwelir dynion weithiau yn gwywo i angeu gan wres eu serchiadau at wrthddrychau nas gallant eu meddinau; ond ni ddigwydd hyn i garwyr doethineb, oblegyd mwynhânt eu gwrthddrych, ac "etifeddant sylwedd."

4. *Mae yr hwn sydd yn caru doethineb yn etifeddu sylwedd, oblegyd fod yn natur caru Duw a'i bethau reoleiddio gweithrediadau y serchiadau at bob îs-wrthddrychau.* Mae y byd hwn yn llawn o wrthddrychau y gellid, ïe, y dylid eu caru. Nid yn unig y mae yn gyfreithlawn, ond fe ddylai y gŵr garu ei wraig, a'r wraig y gŵr; y rhieni y plant, a'r plant y rhieni; ac nid oes yr un o greaduriaid Duw na ddylid eu caru i ryw fesur yn ol eu teilyngdod ynddynt eu hunain, a'u perthynas â ni; ond dyn, wedi colli delw Duw fel prif wrthddrych ei serchiadau, yr hwn y dylai ei garu â'i holl galon, i'r hyn hefyd y lluniwyd ac y gwnaethpwyd ef, sydd yn naturiol yn myned i garu rhywbeth â'i holl galon; ond nid oes teilyngdod mewn un gwrthddrych heblaw Lluniwr y galon:—er y dylai y wraig garu ei gŵr, eto ni wna, pa mor dda bynag, ond duw gwael iddi; ac er y dylai y gŵr garu ei wraig, ni wna hithau fawr gwell duwies iddo yntau na Diana; er y dylai y rhïeni garu eu plant, eto i ymddiried ynddynt, a rhoddi yr holl galon arnynt, nid ydynt fawr well na phren a maen. Fe ddylid caru trugareddau Duw. Pe byddai un mor ddifater am drugaredd y bywyd hwn nad gwaeth ganddo pa un ai llwm ai llawn fyddai, deuai "tlodi arno fel ymdeithydd, a'i angen fel gŵr arfog," ac ni byddai ond canlyniad naturiol ei ddifaterwch; ond ni theilynga pethau y ddaear eu caru â'r holl galon, ac ni wna aur ac

arian dduw, ac nid gwell ymgrymu iddynt nag i foncyff o bren. Eithr yr enaid sydd yn caru Duw â'r holl galon a etifedda y sylwedd sydd yn ngwrthddrych ei serch, ac a ochel y gofid sydd mewn caru pethau eraill yn annghymedrol. Mae y dyn sydd yn caru y byd yn cael ei sychu i fyny fel na chai ddim ond y byd; ond nid yw y dyn sydd yn caru Duw felly, oblegyd y mae perthynas rhwng Duw a phob peth arall y dylid eu caru, a theimlad cynhes yn yr enaid sydd yn caru Duw â'i holl galon at bob gwrthddrych yn ol graddau eu teilyngdod yn y berthynas hono. Nid yw y gŵr a'r wraig sydd yn caru eu gilydd o flaen pawb eraill, oblegyd hyny yn ddiserch at eu plant a'u teulu, cymydogion a pherthynasau; ond carant hwynt yn burach, a gweinyddant unrhyw garedigrwydd iddynt gymaint a hyny yn gynt.

5. *Mae yr hwn sydd yn caru doethineb yn etifeddu sylwedd, oblegyd fod y gwrthddrychau y mae yn eu caru yn wrthddrychau disiomedig ac annghyfnewidiol.* Mae llawer iawn o drueni y byd hwn yn gynwysedig mewn siomedigaethau i rai yn ngwrthddrych eu serchiadau. Mae y ffynon sydd yn rhoddi dwfr cysur yn rhoddi dyfroedd chwerwon gofid hefyd. Mae y gwŷr a'r gwragedd yn gorfod rhoddi y naill y llall yn y bedd, y plant a'r rhieni yn claddu eu gilydd, y gŵr a alara am ei wraig a'r wraig am ei phriod, a'r rhieni, fel Rahel, a wylant am eu plant, ac ni fynant eu cysuro am nad ydynt. Gwelir y cybydd weithiau wedi colli ei arian cyn ei farw, a chyfoeth wedi cymeryd ei adenydd ac ehedeg fel eryr tua'r wybr oddiar y rhai fu yn ei fwynhau gyda hoffder. Bydd y cybydd yn sicr o fod hebddynt yn y byd tragywyddol, ond nid heb ei gybydd-dod, a'r balch yno heb ei anrhydedd, ond nid heb ei falchder; ond "iachawdwriaeth a fydd byth," "cyfiawnder ni dderfydd." "Gwynfyd y gŵr a gaffo ddoethineb, ac a ddyco ddeall allan;" oblegyd y rhai hyn a fyddant etifeddiaeth iddo dros byth. Dywedai un wraig a adwaenwn am dŷ oedd ganddi ar *lease*, "Ni bïau hwn tra byddwn ni byw; ond," gan gyfeirio at dŷ arall oedd ganddi trwy bryniant, dywedai, "ni bïau hwn acw byth." Nid pethau ar *lease* yw pethau doethineb, ond eiddo tragwyddol i'r sawl a'u caro. "Y Duw hwn fydd ein Duw ni byth ac yn dragywydd." Yr ydym ni yn cyd-ofidio â'n cyfeillion mewn gofid, ac felly i raddau yn gyfranog o'u gofidiau; ond y

mae Duw uwchlaw gofid. Y mae trueni iddo ef, ac iddo ef yn unig, yn anmhosibl, oblegyd hyny nis gallwn fod yn druenus yn nhrueni prif wrthddrych ein serchiadau, os byddant wedi eu sefydlu arno ef, oblegyd dedwydd byth a fydd efe. I Dduw hefyd y perthyn anfarwoldeb. "Iesu Grist ddoe a heddyw yr un ac yn dragywydd." Nis gall yr hwn sydd yn caru Duw fel ei Dad fod yn amddifad, na'r hwn sydd yn caru Crist fel ei Briod fod yn weddw. Gwraig weddw unwaith yn galaru am ei phrïod, ac yn ocheneidio yn drom ei chalon gyda'i phlentyn amddifad, wrth yr hwn y soniasai lawer am ei Duw, a ofynwyd iddi gan ei phlentyn, "Paham yr ydych mor bruddaidd, fy mam?" "Dy dad a fu farw, fy mhlentyn." Gofynai yntau, "A ydyw Duw hefyd wedi marw, fy mam?" "Nac ydyw, fy mhlentyn," meddai, a dygai gofyniad y plentyn i'w chof fod prif wrthddrych ei serchiadau yn aros wedi i'r gŵr drengu i ofalu am dani. Y mae Duw yn werth i'w garu â'r holl galon, ac yn cynal ei garu â'r holl galon, a nefoedd ar y ddaear yw rhoddi y lle mwyaf iddo yn y serch. Nid oes dim ond efe na byddwn ni yn waeth o roddi y lle mwyaf iddo yn ein serchiadau; ond etifeddu sylwedd ydyw ei garu ef.

"A mi a lanwaf eu trysorau." Wrth drysorau yma yr ydwyf yn golygu *lle* y trysor. Er mai creadur bychan yw dyn, y mae yn cynwys llawer. Er nad yw ei anghenion amserol ond bychain, y mae ei ddymuniadau yn fawrion ac yn eang. Y mae yn hawdd digoni natur; ond nis gellir boddloni chwant. Ni ddywed y cybydd byth "digon," am nas gall aur ac arian lenwi ei ddymuniadau. Y mae gwŷr y pleser yn gwaeddi "Melus, moes eto." Tybia y meddwon y tynant yr Iorddonen i'w safn pe byddai ddiod gref. Pe byddai "Asia a'r byd oll" yn addoli y balch, gallai ddymuno ychwaneg o anrhydedd. Pa beth, ai nid oes gan y cybydd ddigon o aur ac arian i brynu ei angenrheidiau? Paham nad ymfoddlonai ar hyny? Yr ateb yw, y mae yn gallu dymuno ychwaneg. Ymddengys nas gellir llanw y lle a gadwodd y Duwdod iddo ei hunan yn nghalon ei greadur â dim ar a grëodd Duw—nid oes a'i cyflawna ond holl gyflawnder Duw. Mae cyfoethogion y byd yn nghanol eu cyfoeth yn aml yn annedwydd, am eu bod yn gallu dymuno yr hyn nid yw ganddynt; ond y neb a gafodd Dduw a gafodd ddigon, am

nad oes arno eisieu ychwaneg, ac am nas gall ddymuno mwy. "Holl lafur dyn sy dros ei enau: eto ni ddiwellir ei enaid ef â dim a welo." Traffertha dyn yn y fuchedd hon —y mae blinder arno wrth ymgyrhaedd am wrthddrychau ei ddymuniadau; ond yn y nefoedd, bydd y saint wedi eu diwallu yn berffaith o'u holl eisieu, ac wedi cael cymaint nas gallant ddymuno mwy. Dywedant, pan welant Iesu fel y mae, a phan byddant gwbl debyg iddo, "Wele, digon yw." "Mi a lanwaf eu trysorau."*

* Gwel y "*Geiniogwerth*," Hydref, 1850.

PREGETH VII.

Y DDWY DEYRNAS.

"Yr hwn a'n gwaredodd ni allan o feddiant y tywyllwch, ac a'n symmudodd i deyrnas ei anwyl Fab."—COLOSSIAID i. 13.

AR ryw olwg nid oes dim ond un deyrnas yn bod, a Duw yn fendigedig ac unig benaeth y deyrnas hono. Oblegyd y mae Ef yn llywodraethu ar bob peth a greodd. Er lluosoced y bydoedd ac amled rhifedi y ser a'r planedau, nid oes yr un o honynt wedi eu gwneyd gan neb ond Duw. Y mae y cwbl a wnaed gan Dduw dan lywodraeth Duw. Nid oes na dyn, nac anifail, nac angel, na chythraul, na chymaint ag un llwchyn o'r greadigaeth nad ydyw dan ddeddf i Dduw. Ond y mae y testun hwn yn amlwg yn golygu rhyw ddwy deyrnas, sef meddiant y tywyllwch a theyrnas anwyl Fab Duw. Y mae y ddwy deyrnas yna yn golygu rhywbeth gwahanol i lywodraeth fawr gyffredinol Duw. Yn gymaint a bod Duw yn anfeidrol ddoeth a da, galluog ac uniawn, yn gwneyd fel y mae yn gweled yn dda yn y nefoedd ac ar y ddaear, yn mhlith llu y nef fel trigolion y ddaear, y mae yn beth pur rhyfedd fod llywodraeth na dim meddiant gan neb ond Efe. Pa fodd y goddefodd i'r diafol wrthryfela a denu dynion i wrthryfela? Pa fodd y cymerodd llywodraeth pechod le, neu pa fodd y goddefodd Duw i'r llywodraeth yma fod yn ei deyrnas, sydd gwestiynau pur anhawdd ei hateb; y maent yn gorwedd yn ddwfn yn mynwes y Duw mawr. Ond y mae yn bur amlwg fod meddiant y tywyllwch yn bod, a bod pechod wedi cymeryd lle: ond y mae hefyd yn bod deyrnas anwyl Fab Duw. Nid ydyw y deyrnas yma ddim yn groes i lywodraeth gyffredinol Duw, ond yn berffaith wrthwynebol i feddiant y tywyllwch. Y mae meddiant y tywyllwch yn cynwys plaid wrthwynebol i lywodraeth gyfiawn ac uniawn y Jehofah—ac y mae teyrnas anwyl Fab Duw yn cynwys gwrthdarawiad nerthol i holl amcanion y diafol, teyrnas yr

hwn yma a elwir yn "feddiant y tywyllwch." Y mae yr Arglwydd Iesu yn cydnabod fod ganddo deyrnas, pan y cyfeiria, pe buasai diafol yn bwrw allan ddiafol, neu gythraul yn bwrw allan gythreuliaid, nad allasai ei deyrnas ddim sefyll i fyny. Y mae ganddo ef ryw le mawr yn y byd; gelwir ef "Tywysog llywodraeth yr awyr;" ac y mae llawer, fel y mae gwaethaf y drefn, yn meddiant y tywyllwch. Sylwn—

I. MEDDIANT Y TYWYLLWCH.

II. Y WAREDIGAETH, neu y symudiad o'r meddiant hwnw.

III. RHAI SYLWADAU AR DEYRNAS ANWYL FAB DUW, fel y mae hi wedi ei hamcanu i fod yn atalfa ac yn feddyginiaeth i'r rhwyg mawr o wrthryfel angylion a dynion yn erbyn Duw.

I. MEDDIANT Y TYWYLLWCH. Nid ydyw yn golygu fod ganddo wir hawl, yr ydym yn deall. Y mae yn golygu rhyw beth, ond nid fod ganddo hawl deg a chyfiawn yn y meddiant. Y mae diafol yn ei wrthryfel wedi fforffetio hawl ac ewyllys da Duw; ac o ran hawl wirioneddol i bethau, nid oes ganddo ddim. Nid ydyw yn greawdwr i neb; o ran hyny, gallwch fod yn bur ddiofal nad oes arnoch ddim rhwymau gwasanaeth i'r diafol. Ni chreodd neb o honoch, temtiodd chwi bob un, a chyd-ffurfiodd llawer mae'n debyg ag ef mewn temtasiynau pur ofnadwy: ond ni chynaliodd erioed mo honoch am funyd. Nid wyt wedi derbyn dim gwirioneddol dda oddiar ei law erioed. Y mae llawer wedi byw a marw, yr wyf yn ofni, yn ei wasanaeth, ond ni chawn fod neb yn derbyn y cyflog yn gysurus. Ond pa beth ydyw y meddiant? Yn

1. *Y mae ganddo feddiaut wedi ei enill ar ddynolryw.* Enillodd ryw *fattle* ar blant dynion—clywsoch am dani—ar ein rhieni cyntaf, ac yr ydym ninau yn canlyn wedi myn'd i'r un ochr ag ef; nid ydym yr un fath ag ef yn hollol, ond y mae wedi ein henill ni drosodd. Nid ydyw y *right of conquest* bob amser yn deg. Nid ydyw yn deg-wch i'r naill deyrnas oresgyn y deyrnas arall am fod y naill yn gryfach na'r llall, neu am fod arfau gwrthryfel gan un ac heb ddim gan y llall. Pe buasai Napoleon yn darostwng Ynys Prydain, ni fuasai yn fuddugoliaeth deg; ac nid oedd y buddugoliaethau a enillodd yn rhoddi lle teg iddo deyrnasu ar lawer o deyrnasoedd Ewrop:—

felly nid ydyw y gongcwest y darfu y diafol ei henill ar ddynolryw ddim yn un deg iddo deyrnasu.

2. *Y mae hon yn feddiant o hunan-ymroddiad i'r diafol.* Nid oes gan ddyn ddim hawl i roddi ei hunan i neb yn groes i ewyllys ei Greawdwr: ond, ar yr un pryd, y mae ganddo ryw lun o allu i wneyd hyny. Y mae Duw wedi rhoddi i ddyn ryw feddiant arno ei hunan sydd yn gosod gallu ynddo i roddi ei hunan at y gwasanaeth a glywo ar ei galon. Gall roddi ei aelodau yn "arfau annghyfiawnder i bechod;" pa fodd y gwyddoch hyny? Y mae yn gwneyd hyny, am hyny pa fodd y rhaid fod neb heb wybod. Ond nid oes ganddo ddim hawl, y mae yn troseddu cyfraith cyfiawnder wrth wneyd. Nid ydyw hynyna chwaith ddim yn *sound*, ond dyna ydyw meddiant y tywyllwch. Mae gan y diafol orsedd yn y byd, a gorsedd ar galonau plant dynion, cynifer ag sydd yn ei feddiant.

II. Y Waredigaeth. Ond pa beth ydyw y waredigaeth? "Yr hwn a'n gwaredodd ni o feddiant y tywyllwch." Wel y peth mawr, mawr, sydd arnom ni eisieu yn y byd, cyn myn'd o hono ydyw, y peth a alwai yr hen bobl y "tro mawr," ein "troi ni o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw." Dyma ydyw, diangfa gyfreithlon oddiwrth y condemniad sydd ar satan ac ar holl ddeiliaid ei lywodraeth, a diangfa hefyd o'r *slavery* caled o wasanaeth y diafol a phechod: ac y mae hyn yma yn beth mawr iawn. Os marw wneir yn meddiant y tywyllwch ni bydd genym ddim i etifeddu ond yr un lle a'r diafol yn y pen draw. Y lle sydd wedi ei barotoi i ddifol a'i angylion fydd ein lle, os marw wnawn yn ei feddiant. Y mae yn cael ei alw yn "feddiant y tywyllwch," o herwydd fod y diafol yn ffeindio po dywyllaf fydd ei deyrnas ef, diogelaf fydd ei deiliaid. Mae rhyw gydwybodolrwydd yn ei feddwl ef nad ydyw pethau ddim yn iawn—nad ydyw pethau ar sail gyfiawn ac uniawn, ac nad oes neb sydd yn ei wasanaeth ef ar eu mantais; am hyny y mae yn ofalus iawn rhag i neb gael y goleuni, rhag iddynt deimlo yn anesmwyth, oblegyd gŵyr ef nad all eu cadw yn ei wasanaeth ond waethaf yn eu gên. Pan deimlant nad ydyw pob peth yn dda, am hyny y mae am eu cadw mewn digon o dywyllwch ac anwybodaeth. Y mae teimlad cyffelyb mewn dyn gyda golwg ar ei bechod. Dywed yr Arglwydd Iesu Grist, "A hon yw y ddamnedig-

aeth, ddyfod goleuni i'r byd ;"—na dyna y waredigaeth,—ond, " a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni." Pa fodd y mae dynion yn *actio* mor afresymol ? Yn wir, nid yw dynolryw ddim yn eu cof yn iawn gydag un peth: y mae pechod—y gwâll yma—yn wallgofrwydd ar ddyn. Dywedir fod rhyw *mono-mania* yn bod, hyny ydyw, yn wallgof mewn rhyw un peth ; bydd rhai weithiau felly. Dyma un peth y mae plant dynion yn wallgof ynddo oll, " caru y tywyllwch." Y mae dyn yn naturiol yn caru y goleuni, " Melus yn ddiau ydyw y goleuni, a hyfryd ydyw i'r llygaid weled yr haul." Beth ydyw y gwall sydd ar ddyn, ynte, ei fod yn caru pechod ? Y mae mewn ystyr foesol yn caru y tywyllwch ac yn casau y goleuni. Pa fodd y mae yn *actio* mor afresymol ac annghyson ag ef ei hun? Dyna ydyw yr achos, " o herwydd fod ei weithredoedd yn ddrwg." Y mae gan ddyn gydwybodolrwydd mai un hagr a drwg ydyw pechod, ac mai melus ydyw yn ei enau, ond y mae am gael y lle tywyllaf i'w gyflawni.

III. Hefyd y mae yma Deyrnas anwyl Fab Duw. Pa beth yw hon ? Y mae yn cael ei galw weithiau yn " Deyrnas Dduw ;" " Teyrnas amynedd Duw ;" " Teyrnas Dduw a'i gyfiawnder Ef." Mae yn beth rhyfedd iawn i'r Duw mawr oddef pechod i gymeryd lle, a goddef y gwrthryfel, ac na buasai yn peidio a chreu creadur rhesymol a welai y Duw mawr a wrthryfelai. Yr wyf yn meddwl na chawsai gymeryd lle, ond y mynai Duw ogoneddu ei ras mewn cadarnhau gorsedd-faingc a theyrnas ei Fab i wrthsefyll holl niweidiau teyrnas y tywyllwch. Beth a wnaeth, ond sefydlodd, sylfaenodd hon yn gyfiawn ac uniawn yn Nghyfryngwr mawr y Testament Newydd, ac y mae hon mor nerthol ag y bydd iddi wrthsefyll holl allu meddiant y tywyllwch. Mae Mab Duw wedi ymddangos yn y byd i "ddattod gweithredoedd diafol," a bydd ei deyrnas wedi ei dinystrio bob yn dipyn. Teyrnas anwyl Fab Duw aiff rhagddi ac a lwydda. Ni bydd brenin y deyrnas ddrwg yma ddim yn frenin o hyd,—ni chaiff y *sway* y mae yn gael yn awr yn hir. Bydd wedi ei orchfygu a chau arno yn fuan. Y mae yn awr yn gwneyd llawer iawn o orchestion, ac y mae yn cael llawer at ei wasanaeth na fuasai yn cael y degwm oni bai ei fod yn cael y dyn at y gwaith. Ond mae Duw wedi

sylfaenu teyrnas gras ac amynedd Duw, ac wedi ei sylfaenu yn ei gyntaf-anedig, ac yn ei unig-anedig y bydd yn gosod ei phyrth hi. Y mae y deyrnas yn deyrnas i Dduw; arferir amynedd mawr at y deiliaid gwrthryfelgar. Teyrnas ydyw i'r deiliaid gwrthryfelgar i ffoi iddi, ac nid oes neb yn *safe* ond wedi ffoi yma. Rhaid dy gael i dir Emanuel. Nid yw yn groes i lywodraeth fawr y Jehofah. Trefn y llywodraeth fawr ydyw fod i'r enaid a becho farw, sef fod i'r neb fyddo yn euog o fai ddioddef ei gospi yn ol haeddiant y bai hwnw; ond yn nhrefn teyrnas gras Duw, y mae yr euog yn diangc, y mae y diniwed wedi ei ddal, "y Cyfiawn yn lle yr annghyfiawn." Teyrnas odidog iawn yw hon. Y mae Brenin y deyrnas wedi marw, i'r deiliaid i gyd gael eu bywyd; ffo yma, a byddi yn *safe*. Nid oes neb o ddeiliaid teyrnas gras wedi ufuddhau yn berffaith i'r gyfraith yn eu personau eu hunain; y mae y Brenin wedi gwneyd hyny. "Efe a fawrhaodd y gyfraith, ac a'i gwnaeth hi yn anrhydeddus." Ie, y mae y Duw mawr yn maddeu, a phasia heibio i fyrdd o feiau yn y rhai sydd yn ffoi yma am eu bywyd—diangant byth gan eu Barnwr:—*act* ydyw hon sydd yn agor drws o obaith i bechadur tlawd; yma y maddeuir iddo ei ddrwg, ac y derbynir ef i heddwch a ffafr Duw.

Mae amrywiol iawn o ragorfreintiau yn perthyn i'r deyrnas hon nad ydynt i'w cael un ffordd arall. Yma y mae Duw "yn gyfiawn ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu." Byddi dan gondemniad cyfraith Duw byth yn mhob man arall, nes dy ddyfod i deyrnas anwyl Fab Duw. Tu allan i'r deyrnas yma yr wyt yn gondemniedig gan yr unionaf o gyfreithiau, ac yn wrthryfelgar yn erbyn y llywodraeth unionaf sydd bosibl; ond yn nheyrnas anwyl Fab Duw y mae dy fywyd i ti i'w gael. Dywed cyfiawnder, "Gollwng ef yn rhydd, myfi a gefais Iawn gan Frenin y deyrnas." Dywed y ddeddf wrtho, "Nid wyf finau yn dy gondemnio," yr wyf wedi cael boddlonrwydd yn Nhywysog iachawdwriaeth y creadur tlawd:"—"Yr wyf finau," meddai Duw, "yn foddlawn er mwyn cyfiawnder fy anwyl Fab."—Mae wedi diangc byth gan ei Farnwr.

Hefyd, y mae y fendith fawr o faddeuant pechodau yn cael ei hestyn i ddeiliaid y deyrnas yma. Gellir dywedyd am hyny, "Maddeuir anwiredd y rhai a drigant ynddi."

Nis gellir dyweyd hyny am ddynion y ddaear. Er fod yr Arglwydd yn drugarog iawn, er ei fod yn hoffi maddeu a chuddio bai, ac yn Dduw parod i faddeu, ni faddeua i bawb. Y mae miloedd, a miliynau hefyd, mae'n ofidus meddwl, yn perthyn i deyrnas fawr y Duwdod na fyn Duw faddeu iddynt; ni ddaethant i'r drefn—i gyd-ffurfiad â'r *plan*. Nid oes edifeirwch na maddeuant y tu allan i deyrnas anwyl Fab Duw. Ond y mae Brenin y deyrnas hon yn Dywysog wedi ei ddyrchafu, "i roddi edifeirwch i Israel a maddeuant pechodau:" ond rhaid dy gael i dir Emanuel er hyny. Mae hyn yn beth mawr i ni ddynion. Peth difrif i ddyn ydyw bod yn bechadur; nid ydyw y cythraul ond pechadur; y mae yn bechadur hên, mae'n wir, a brwnt iawn. Nid oes dim dymunol ynddo; y mae rhywbeth go ddymunol mewn llawer o ddynion er eu holl ddrwg; ond un atgasrwydd ydyw y diafol; ond, ar yr un pryd, nid ydyw plant dynion ddim yn dduwiol nes y byddont wedi derbyn maddeuant pechodau. Y mae eu hachos yn ddrwg, a'u cyflwr yn anaele, nes dyfod i deyrnas anwyl Fab Duw. "Gwyn fyd y neb y maddeuwyd ei drosedd ac y cuddiwyd ei bechod; gwyn fyd y dyn ni chyfrif yr Arglwydd iddo anwiredd." Nid oes yr un o'r gwynfydedigion hyn i'w cael ond yn nheyrnas anwyl Fab Duw; ac os oes rhywbeth a fynoch a maddeuant, dyma y fan am dano. Y mae ychydig o bethau mewn rhyw fanau penodol o'r byd, ond y mae pethau eraill i'w cael yn mhob man. Dwg Duw fara allan o'r ddaear bron yn mhob man, ond y mae rhai pethau na cheir ond mewn rhyw un cŵr o'r byd. Felly maddeuant pechodau, y mae i'w gael yn unig yn nheyrnas anwyl Fab Duw, a rhaid dy gael yno cyn y ceir ef, "Maddeuir anwiredd pawb a drigant ynddi;" ac ni faddeuir anwiredd neb ond a drigant yno.

Sancteiddir hwy yno. Y mae Yspryd Duw yr hwn a'u gwnaeth, ac anadl yr Hollalluog yr hwn a'u bywiocaodd; yn eu bywhau yn holl bethau teyrnas Dduw; acyn wir mae cael Yspryd Duw i'n mendio yn beth mor fawr ynddo ei hunan a chael Duw i'n cyfiawnhau. Y mae dyn wrth natur nid yn unig wedi ei gondemnio i farw, ond y mae afiechyd marwol wedi cymeryd gafael yn ei natur ef, ac heb i Yspryd Duw ei feddyginiaethu trwy rinwedd y feddyginiaeth sydd yn yr efengyl, bydd hwnw yn ddigon am ei

fywyd. Nid ydyw Duw yn cyfiawnhau neb ond y rhai sydd o ffydd Iesu, ac nid ydyw ffydd Iesu yn neb heb ei chwmpeini. Ni buasai ond haner peth i ti gael dy gyfiawnhau, ond mae Iesu Grist yn feddyg a "ddichon hefyd yn gwbl iachâu y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw, gan ei fod ef yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy."

Hefyd y mae arweiniad i'w gael yn y deyrnas hon. Addewid fawr iawn ydyw hon. Dywedir am Ysbryd Duw ei fod yn tywys i bob gwirionedd, a'i fod yn arwain hyd y diwedd hefyd. Nid afraid i neb o greaduriaid rhesymol Duw ydyw dylanwad yr Yspryd mawr. Nid oes na dyn nac angel yn *safe* yn eu nerth eu hunain. Rhaid i bob creadur rhesymol sydd mewn bod, cyn y bydd yn ddyogel, fod yn llaw Duw. Dyn wedi colli Duw a gwrthryfela yn ei erbyn—dyn anianol heb fod ag Yspryd Duw ganddo—sydd mor siwr o fyn'd o'i le ag iddo ysgogi; ond y mae Yspryd y deyrnas yn tywys y pererinion i bob peth da, a hyd y diwedd hefyd. Os oes rhyw le lawer gwell ar yr hen ddaear yma na'i gilydd, ni ryfeddech wel'd dynion yn gwerthu y cyfan i feddianu hwnw; ond nid oes ond manteision ac anfanteision i'w cael yma ar y goreu; ond dyma le eang iawn yn llywodraeth y Duwdod mawr wedi ei neillduo i ddwylaw y Cyfryngwr, y mae yn lle i enill ynddo mewn pob modd heb golli dim sydd yn werth ei gadw. Mae dy fywyd yn *safe*, bydd dy obaith wedi ei seilio yn dda, bydd saig dy fwrdd yn saith mwy—ti gei lawenydd yn dy galon "mwy na'r amser yr amlhaodd ŷd a gwin" yr annuwiol.

Hefyd, y mae yr amddiffyn i'w gael yn nheyrnas anwyl Fab Duw. Y mae yn beryglus iawn yn mhob man arall. Nid oes ond rhyw gam rhyngot ag uffern yn mhob man arall; nid oes ond anadl einioes rhyngot a myn'd i dragwyddol wae yn mhob man arall; ni byddai ond i'th droed lithro ar ryw lethr, neu i'th geffyl drippio danat, na byddet mewn tragwyddol wae. Ond am y cyfiawn caiff bob peth gydweithio er daioni iddo, a chaiff fod yn fwy na choncwerwr ar ei holl elynion.

Hefyd, y mae y deyrnas hon yn arllwys ei deiliaid i gyd i'r nef. Rhaid dy gael i hon, cyn y gweli deyrnas gogoniant. Pe cawn i fyn'd i ogoniant wedi darfod a'r fuchedd hon, byddai yn dda iawn; wel, rhaid dy gael i

deyrnas gras yn gyntaf: felly y mae nid yn unig *yn* bod, ond felly y mae *i* fod. "Yr Arglwydd a rydd ras a gogoniant, ni atal Efe ddim daioni oddiwrth y rhai a rodiant yn berffaith." Y mae teyrnas gras yn arllwys ei ei deiliaid i ogoniant o hyd; fel y delont yn aeddfed, y maent yn *slippio* i ogoniant. Y mae y saint yn diangc yn filoedd o deyrnas gras. Ac os dymunet fyned i'r hen deml fawr —tŷ dy dad—"lle mae llawer o drigfanau"—rhaid dy gael i'r porth yma.

Hefyd, y mae peth fel hyn yn dyweyd fod deiliaid y deyrnas yma yn *safe* o ran eu bywyd. Y mae symud a gwaredu yn bod o feddiant y tywyllwch i deyrnas anwyl Fab Duw; ond nid oes rhai yn llithro o deyrnas anwyl Fab Duw i deyrnas y tywyllwch. Gwelais ryw dro *gate* yn agoryd i fyned allan o ardd bwystfilod: agorai i barc oedd o amgylch yr ardd—ond unwaith yr aech allan drwodd, nid oedd modd dyfod drwy yr un *gate* yn ol. Nid ydyw y porth sydd yn derbyn pechaduriaid i mewn i deyrnas Mab Duw yn agor i ti fyned allan, nid ydyw hyny yn ol rheol y deyrnas. Y mae dy fywyd yno yn ddiogel yn rhwymyn y bywyd gyda Christ yr Arglwydd.

Hefyd, nid ydyw y deyrnas yma ddim yn bod erioed. Er pan y mae gan Dduw grëadigaeth y mae ganddo lywodraeth; ond nid ydyw teyrnas anwyl Fab Duw yn bod erioed. Cynlluniodd Duw hi er tragwyddoldeb, ond nid oedd deiliaid ynddi cyn y dyn cyntaf a edifarhaodd. Yr oedd Duw yn nhragwyddoldeb wedi gosod ei Fab i fod yn ben arni yn y natur ddynol, cyn cymeryd ein natur ni. Nid ydyw i fod yn dragwyddol fel y mae—y mae symudiadau i fod iddi. Y mae y Brenin yn myned i roddi y deyrnas i fyny i Dduw a'r Tad, wedi dileu pob pendefigaeth, a phob awdurdod, a nerth, a bydd Duw oll yn oll. Ni bydd dim ond un deyrnas yn bod wedi hyny. Bydd Duw yn ngoruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd yn crynhoi yn Nghrist yr holl bethau sydd yn y nefoedd ac ar y ddaear ynddo ef; bydd dynion ac angylion, cerubiaid a seraphiaid wedi eu casglu at eu gilydd yn un deyrnas ddedwydd, a'i holl wrthryfelwyr wedi eu rhoddi yn y carchar tywyll—nid hyd y dydd mawr—ond o hyny allan. Beth am hyny? Wel, anwyl gyd-ddyn, rhaid i ti dendio yr adeg, rhaid dy gael ynddi cyn y bydd Mab Duw yn dywedyd, "Wele fi a'r plant a roddes Duw i mi." Y mae

ein hadeg i ddyfod i'r deyrnas yma yn fŷr iawn. Caua angeu y drws yn fuan arnynt yn y bedd, lle nad oes moddion, nac ordinhadau, na gweithrediadau, ar feddyliau neb gan Yspryd Duw ; ni byddi mewn sefyllfa i'th enill i'r deyrnas os profi angeu unwaith; na, y mae hwnw yn dy drosglwyddo i afael marwolaeth dragwyddol.

Pechaduriaid ydym oll ; ond y mae yma noddfa yn nheyrnas anwyl Fab Duw y tâl i ti droi dy wyneb yma. "Yr wyf fi wedi gwrthryfela llawer yn erbyn anwyl Fab Duw," meddai rhywun. "Tro dy wyneb yma ; maddeuir i ti y cwbl, ac ni chei faddeuant ar gyfrif neb ond yn enw yr hwn sydd Dywysog maddeuant ;" tro dy wyneb yma, ac ymddygir yn anrhydeddus iawn ; un *honourable* iawn ydyw Duw—maddeua i ti yn llawn—maddeua i ti o'i galon heb edliw beiau ; pe baet yn dechreu cyffesu yn dy erbyn dy hun dy anwireddau i'r Arglwydd, maddeua i ti heb son am yr un. Teyrnas a ddeil y goleuni ydyw hon, y mae wedi ei sylfaenu mewn cyfiawnder, ac wedi ei chadarnhau mewn barn.*

* Ysgrifenwyd wrth ei gwrando gan Mr. Hugh Jones, *Dolgellau.*

PREGETH VIII.

YSGARU YR HYN A GYSYLLTODD DUW.

O herwydd paham, nid ydynt mwy yn ddau, ond yn un cnawd. Y peth gan hyny a gysylltodd Duw, nac ysgared dyn.—MATTH. xix. 6.

Y FFORDD y mae rhai yn ei chymeryd i golledigaeth ydyw ceisio cysylltu y pethau na chysylltodd Duw, ond y ffordd a ddewisa ereill ydyw ysgaru y pethau a gysylltodd Efe—ac nid rhyw lawer o ddewis sydd rhwng y naill a'r llall; y mae y naill fel y llall yn arwain i ganlyniadau tra anhyfryd.

Y mae y Phariseaid yn gofyn i'r Arglwydd Iesu, yn yr adnodau blaenorol, a oedd yn gyfreithlawn i ddyn ysgar á'i wraig ar bob achos. Yr oeddynt hwy yn ysgar â'u gwragedd; Moses wedi caniatâu hyny iddynt o herwydd calon-galedwch. Ond yr oedd dadl yn eu plith pa mor lleied oedd yr achos i fod: a oedd yn iawn ysgar â gwraig ar gyfrif pethau lled ddibwys.

Y mae Iesu Grist yn dyweyd mai yn wrryw a benyw yr oedd Duw wedi eu creu hwynt, ac nad oedd gan Adda ddim cyfleustra i gael llawer o wragedd; a phe buasai yn ysgar âg Efa, na buasai yr un iddo gael yn ei lle—mai un gŵr ac un wraig oedd wedi eu creu. Dywed hefyd eu bod yn un cnawd. A chan fod y peth hwn felly, mai peth pechadurus iawn oedd i ddyn ysgar y peth oedd Duw wedi gysylltu. Y mae dynolryw wedi bod yn *treio* pob ffordd yn lle yr iawn ffordd, ond nid oes neb yn llwyddo trwy amrywio o drefn yr Hollalluog. Y mae i chwi sydd yn ieuangc ryddid i ystyried cyn gwneyd beth yr ydych yn myned i'w wneyd. Yr ydych yn rhydd i beidio a phriodi am eich hoes, os ydych yn dewis; ond os eir i'r undeb a'r cyfamod yma, nid ydyw i'w dori. Gallai fod yn fyd digon anniddig rhwng ambell bâr, o herwydd rhyw fai o un ochr os nad o'r ddwy; ond drwg mwy a ddeuai o'r ysgariaeth—tyfai pob rhyw ymryson yn ffrae fawr. Y mae y mawrion yma yn cael rhyw ysgariaeth,

ond ar y cyfan meddwl yr wyf fi ein bod ni y tlodion yn byw yn fwy cysurus na hwynt.

Y mae llawer iawn o gysylltiadau yn y byd yma i'w gweled rhwng gweithredoedd Duw. Y mae rhai o'i greaduriaid yn wahanol ddosbarthiadau, ond y mae rhyw *link* i'w cysylltu wrth eu gilydd i'w chanfod o hyd. Y mae y pysg yn y môr yn ddosbarth pur wahanol i greaduriaid y tir sych; ond y mae ychydig o greaduriaid a fedrant fyw yn y dwfr ac ar y tir sych; deuant allan o'r môr yn heigiau, a byddant byw ar y làn am dipyn. Y mae rhyw wahaniaeth mawr rhwng adar a physgod, ond y mae rhai o'r pysgod yn gallu ehedeg am amser, ac y mae llawer o'r adar yn gallu nofio gyda hyfrydwch, ac yn gallu byw yn mhell oddiwrth y làn am hir amser.

Y mae *distance* go fawr rhwng y bwystfilod a'r adar, ond y mae yma gysylltiad rhwng y rhai hyn. Y mae yr ystlum yn gallu ehedeg. Y mae yn debyg i'r aderyn ac i'r llygoden, yn *link* rhwng dau ddosbarth, felly hefyd y mae gwahaniaeth mawr iawn rhwng yr angel a'r anifail. Y mae yr angel yn greadur uchel dysglaer, heb gnawd ac esgyrn, fel y gwelwn fod gan yr anifail. Y mae yma *ddistance* pur fawr, ond y *link* sydd yn cysylltu yma ydych chwi eich hunain—dyn: o herwydd y mae ganddo gorff tebyg i'r anifail o ran llawer o bethau, a galluoedd rhesymol tebyg i'r angel. Y mae yr anifail a'r angel fel yma wedi cyfarfod yn y dyn; a chan fod dyn yn meddu ar gnawd ac esgyrn, y mae yn bur gyfaddas i wneyd gwas o'r anifail. Y mae dynion wedi bod yn siarad lawer gwaith â'r angelion, ac yn gallu gwneyd yn bur hapus nes i'r neges gael ei darfod. Y mae y Duw mawr ei hunan wedi rhyw nesâu yn rhyfedd at ddyn, yn mherson ei anwyl Fab. Y Cyfryngwr mawr ydyw y *link* sydd yn cysylltu yn y fan yma, o herwydd y mae ganddo natur ddynol yr un fath yn union a'n natur ninau, a natur Ddwyfol yr un fath a'r Tad a'r Ysbryd Glân. Cewch mai un mawr iawn ydyw ein Creawdwr. Pe bae'ch yn meddwl llawer am y Duw mawr, collech y gwahaniaeth sydd rhwng y naill ddyn a'r llall, wrth i chwi ystyried y gwahaniaeth sydd rhwng yr uchaf—Duw, a dyn. Uchaf y rhaid iddo fod, o herwydd rhaid fod y gwneuthurwr yn anfeidrol uchel, uwchlaw y gwneuthuredig.

Rhaid fod gwahaniaeth anfeidrol rhwng dyn a dim fedr

ingenuity dyn wneyd. Dywedir fod dyn wedi gwneyd *watch* yn llygad modrwy y frenhines, ond nid oedd hono yn ddim byd at y dyn a'i gwnaeth; felly hefyd y mae gwahaniaeth anfesuredig i bawb rhwng Duw a'r uchaf o'i greaduriaid. Ond y mae yn ymddangos yn dirion iawn yn y Bod goruchel chwenych codi creadur yn nes ato ei hunan nag yr oedd yn bosibl iddo ei grëu. Yr oedd y natur ddynol yn nes at y Duwdod nag un natur grëedig, ond nid oes yr un natur grëedig yn un â Duw fel y mae y natur ddynol yn un â'r Ddwyfol, yn mherson yr Immanuel mawr: dyma beth a gysylltodd Duw. Beth ydyw yr ymyraeth sydd yn y natur ddynol am *dreio* dattod yr hyn a gysylltodd Duw? Am na fedr dyn ddeall y cysylltiadau yna, y mae yn chwanog i'w dattod. Na, paid â'r direidi o *dreio* dattod yr hyn a gysylltodd Duw, a phaid â'r direidi o geisio cysylltu yr hyn na chysylltodd Duw. Ac os mynwch lwyddo yn eich neges mawr sydd eisieu ei wneyd cyn myned i'r byd arall, peidiwch ag ymryson â'r Holl-alluog yn hyn, ond cymerwch bob peth yn y cysylltiad y mae i'w gael.

Ond heblaw ei bod fel hyn yn mhlith y creaduriaid, ac yn y greadigaeth, y mae gwirioneddau fel hyn hefyd wedi eu cysylltu. Y mae genym ni gorph o wirioneddau yn yr Ysgrythyr, ac y mae gwirioneddau y corph yma yn gysylltiedig â'u gilydd. Y mae angen y naill wirionedd ar y llall, ac ni fedrant wneyd heb eu gilydd. Y mae pob un yn ei le yn angenrheidiol. Y mae y gwirionedd, fel oen y Pasg yn yr Aipht, nid oes dim o hono i'w weddillio. Y mae arnat eisieu y gwir, a'r holl wir. Bydd cloffni yn ein crefydd, ac ni bydd yn fywyd, hebddo. Nid oes arnom eisieu dim ond gwir—y gwirionedd yn ei effaith ddaionus ar y meddwl sydd arnom ni ei eisieu yn ein siwrnai trwy y byd hwn. Y mae gwirioneddau mawr yr efengyl yn ymddangos i mi yn bârau, neu yn gyplau; y mae y naill a'r gyfer y llall, a rhyw gysylltiad rhyngddynt. Y mae cyfiawnhâd a sancteiddhâd yn wahanol; ond nid ydynt i'w gwahanu: nis gallwch byth gael y naill heb y llall. Pe meddyliech mai bod yn gyfiawn yn nghyfiawnder Crist ydyw pob peth, a bod yn ddifater am sancteiddrwydd, ni bydd yn werth dim. Nid ydyw gwir sancteiddhâd i'w gael ychwaith heb gyfiawnhâd. Pe byddai y fath beth yn bod ag i ddyn gael ei sancteiddio oddiwrth ei bechodau,

byddai y condemniad o herwydd yr hen bechodau yn aros ar ei berson; ac o'r ochr arall, pe byddai modd i un fyned "trwodd o farwolaeth i fywyd," ac heb gael ei sancteiddio, byddai hyny yn ei wneyd yn anhapus byth. Nis gall un Cristion byth ddyweyd wrth Gristion arall, "Tydi, ffydd sydd genyt," minau sancteiddrwydd sydd genyf; na, y mae pob Cristion yn meddu y naill a'r llall. Y mae ar bob gwirionedd eisieu ei gydmar o hyd, ac er i ti wneyd cyfrif mawr o un heb wneyd cyfrif mawr o'r llall, nid wyt yn iawn yn yr un. Gwna Duw bob peth "wrth gynghor ei ewyllys ei hun." "Fy nghynghor a saif, a'm holl ewyllys a wnaf." Y mae etholedigaeth gras yn cael son am dani fel yna. Nid oes modd gwadu nad ydyw yn bod. Rhyw ystyriaethau troednoeth rhyfeddol ydyw bod heb drefn ac heb fwriadau. Y mae daioni Duw yn ymddangos yn fwy wrth ystyried ei fod wedi bwriadu hyny er tragwyddoldeb. Y mae ambell un wedi gwneyd tipyn o dda am ei fod wedi dyfod yn ei ffordd, ond y mae Duw wedi bwriadu daioni er tragwyddoldeb. Ni wnaeth Efe ddim daioni damweiniol erioed, ond y mae yr holl ddaioni a wnaeth ac a wna byth wedi ei fwriadu ganddo. Ond o'r ochr arall, y mae natur rhyddid a chyfrifoldeb dyn yn wirionedd eglur. Y mae wedi gadael ewyllys ei greadur yn rhydd; nid ydyw ei arfaeth yn rheol i ti, ac nid oes eisieu ei bod; yr wyt yn gyfrifol i Dduw mewn ffordd uniawn a theg, ac nid elli fod yn gyfrifol heb fod felly. Y mae yn rhaid i ddyn fod yn berchen deall, ac ewyllys, a hono yn rhydd, i fod yn gyfrifol. Y mae y Beibl yn gosod hyny allan yn ei waith yn dangos y gosodir dyn "ger bron brawdle Crist," ac y derbynir yn y corph "yn ol yr hyn a wnaeth, pa un bynag fyddo ai da ai drwg." Y mae yn dyweyd y gelwir ni "i farn am hyn oll." Nid ydyw cadernid arfaeth y Duw anfeidrol yn lleihau dim ar dy ryddid di fel creadur rhesymol. Y mae y cyntaf yn wirionedd, ac y mae y llall yn wirionedd hefyd. Y mae holl wirioneddau y gair eisieu y naill y llall. Y mae ar athrawiaeth y Drindod eisieu athrawiaeth yr Undod, onide aiff y Drindod yn dri Duw. Felly y mae athrawiaeth Undod y Duwdod yn sefyll mewn angen am athrawiaeth y Drindod, ynte rhaid i chwi wadu y Gair. Os wyt am y fantais o honynt, derbyn y naill fel y llall. "Nid trwy fara yn unig y bydd

byw dyn, ond trwy bob gair a ddaw allan o enau Duw."

Y mae bendithion yr iachawdwriaeth yn dibynu ar eu gilydd fel y mae athrawiaethau yr efengyl. Y mae maddeuant pechodau yn un o'r bendithion, ond mor wir a hyny nid oes maddeuant pechodau i neb heb "gyfran yn mhlith y rhai a sancteiddiwyd." Y mae "edifeirwch tuag at Dduw" yr un fath a "ffydd tuag at ein Harglwydd Iesu Grist" yn angenrheidiol. A phan y mae y meddwl yn dyfod i wneyd derbyniad o'r gwirionedd "megys y mae yn yr Iesu," y mae bob amser yn dyfod i mewn gyda'u gilydd. Os myni di edifeirwch, os gweli fod yn dda, tro dy wyneb i edrych ar ddaioni Duw, ar uniondeb a daioni ei gyfraith, yspïa i mewn i ddrwg pechod fel y mae yn y byd ac yn dy galon di dy hunan,—os myni edrych i mewn i'r pethau yna, a dyfod i alaru am dano, myn Duw roddi maddeuant i ti yn nglŷn â hwynt. Y mae dynolryw yn aml yn croesawu y naill heb y llall. Y maent yn barod i ddyweyd eu bod yn dipyn o bechaduriaid, ac ni dda gan neb mor gosp; ond beth sydd am hyny? Wel, o herwydd hyny y mae dyn yn hoffi cael maddeuant i ochel y gosp. Nid oes mo bawb yn hoffi y peth sydd yn nglŷn—nid ydym yn hoffi ymostwng, ond dyna y gwirionedd, nid â y ddwy fendith yma ond gyda'u gilydd. Ni buasai yn deilwng i Dduw faddeu i'r edifeiriol ond mewn iawn, ond nid ydyw yn deilwng iddo faddeu i'r un pechadur heb iawn, ac ni chai edifarhau byth heb faddeuant.

Dyna fel y mae y moddion yn gyffredin, y mae gras y moddion a modion gras wedi eu cysylltu â'u gilydd. Y maent wedi eu cysylltu allan o'n golwg ni; ond pan welwch bechadur yn dyfod i ddysgwyl wrth yr Arglwydd am ras trwy y moddion, cewch weled yn fuan na chaiff ddisgwyl yn ofer.

Y mae eisieu gwylio a gweddïo, a darllen a myfyrio, defnyddio y gair, a gweddïo am Yspryd Duw; nid y gair heb yr Yspryd, na'r Yspryd heb y gair.

Y mae Duw wedi cysylltu rhinwedd â'i wobr, a phechod â'i gosp. Ni chai wneyd dim drosto yn y byd yma na bydd yn siwr o'th wobrwyo. Gallai fod y duwiolion yn gwneyd tipyn dros Dduw yn eu dydd a'u tymor heb feddwl llawer am y wobr; ond pe mynent wneyd llawer

dros Dduw, ac heb feddwl dim am y wobr, ni chânt ddim bod felly, mae Duw yn "wobrwywr," fel y dywed y prydydd,—

"Mae arnaf eisieu zel
A chariad at dy waith,
Ac nid rhag ofn y gosb a ddêl
Nac am y wobr chwaith."

Ond y mae Duw yn anfeidrol anrhydeddus. Edrychwch ar yr Arglwydd Iesu Grist ei hunan. Y mae Duw wedi penderfynu gwobrwyo gwir rinwedd a weithredir, yn y byd yma. Y mae pechod a chosp wedi eu cysylltu yn y fath fodd fel nad oes modd eu dattod. Gellir dyweyd fod rhinwedd yn rhyw lun o wobr iddo ei hun; y mae pechod hefyd yn rhyw lun o gosp iddo ei hunan. Pe buasai y Duw mawr ddim ond yn troi dyn i uffern, a gadael rhwng y dyn a'i gosp, byddai yn gosp fwy nag y gallwn ni ei hamgyffred. Y mae drwg a'i ganlyniadau yn anwahanol. Y mae yn anmhosibl, ar ryw olwg, i Hollalluowgrwydd wneyd dyn yn ddedwydd yn ei bechod. Yr unig ffordd i wneyd y meddw yn ddedwydd ydyw ei wneyd yn sobr, ac onide bydd ei bechod ei hun yn ei gospi, a'i wrthdro yn ei geryddu.

Y mae gras a gogoniant hefyd wedi eu cysylltu. Y mae pethau i'w cael yn y byd yma sydd wedi eu cysylltu yn y byd arall â sefyllfa o ogoniant. "Yr Arglwydd a rydd ras a gogoniant; ni attal Efe ddim daioni oddiwrth y rhai a rodiant yn berffaith." Beth bynag ydyw y daioni mawr sydd yn y nef,—pa beth bynag ydyw y daioni sydd yn cael ei fwynhau gan drigolion y ddinas lle na ddywed y preswylwyr, "Claf ydwyf"—y mae sancteiddrwydd a hapusrwydd, yn ol natur pethau, ac yn ol ewyllys Duw, wedi eu cysylltu â'u gilydd; ac nid oes neb fedr eu hysgar. Y mae holl drefn yr efengyl felly. Y mae efengyl gras Duw, "a'r ddeddf a roddes efe i fil o genedlaethau,"—y mae y naill yn cydfyned â'r llall yn hollol. Pe dygit ti fawr zel dros yr efengyl, ac yn ddisylw o'r gorchymyn, ni wnai y tro. Y mae holl fendithion yr efengyl i'w cael yn y cysylltiadau y mae Duw yn eu dwyn iddo yn ei air sanctaidd. Y mae holl fendithion yr efengyl fel y clo a'r agoriad yn bârau hefo eu gilydd; ac os myni y pâr, y mae i ti gan' croesaw o

hono. Nis gelli eu dymuno gan Dduw a bod hebddynt. Na fyddwch yn euog o'r ynfydrwydd yma, o geisio dattod yr hyn a gysylltodd Duw. Y mae rhai yn meddwl y cânt y dedwyddwch tu draw i'r bedd a byw mewn pechod yn y byd hwn ; ond " na thwyller chwi, ni watwarir Duw ; pa beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fêd efe."

PREGETH IX.

MOLIANU YR ARGLWYDD.

"O na folianent yr Arglwydd am ei ddaioni, a'i ryfeddodau i feibion dynion.—SALM cvii. 8.

DAIONI Duw yw y peth hwnw yn ei natur sydd yn ei dueddu i gyrchu yn wastadol yn mhob goruchwyliaeth at ddaioni a dedwyddwch ei greaduriaid. Y mae daioni diderfyn yn natur y Duw mawr: nid yw yn hoffi cystuddio a blino plant dynion. Mor fawr yw daioni Duw, fel nad oes un creadur yn bod a'r nad yw yn neu wedi profi ei ddaioni. Feallai nad oes un creadur yn bod nad *yw* yn profi daioni Duw ond y rhai sydd wedi ei *abusio*—wedi camddefnyddio ei ddaioni;—rhai felly yw y rhai sydd yn uffern; nid oes un drugaredd yno; ac ni fydd yno ddim croesaw i tithau os ei yno. Ond y mae y byd yma yn llawn iawn o ddaioni Duw. Yma, beth bynag, ei "drugaredd" sydd i'w gweled "ar ei holl weithredoedd." Y mae ymwared o gyfyngderau yma; a'r amser hwnw y gwelir daioni Duw werthfawrocaf. Y mae ymborth a dillad yn annghyffredin werthfawr; ond hwyrach nad ydym ni yn eu teimlo mor werthfawr; pe byddai i newyn a noethni ein cyfarfod, gwelem werth annghyffredin ynddynt yr amser hwnw. Un o feiau dynolryw yw eu bod heb weled hyny. Nid oes eithriad i ddaioni Duw yn yr ystyr hyn. Er ei fod yn ceryddu, nid yw efe yn peidio a bod yn Dad da er hyny; ac er ei fod yn barnu, nid yw hyny yn rhwystro iddo fod yn Llywodraethwr da. Nid yw Duw yn peidio a bod yn Dduw da, er ei fod yn cospi yr annuwiol yn uffern. Nid wyf yn dyweyd mai lles yr annuwiol yw ei gospi yn uffern; eto nid oes modd peidio. Y mae pechod mor ddrwg fel y mae yn *fit* i'w gospi; ac nid oes gan y Duw da ddim lle gwell i yru yr annuwiol ar ol marw nag i uffern. Y mae yr annuwiol yn gorfod cartrefu yn uffern ar ol marw; pe cai ef rodio yn y byd yma, 'does wybod pa ddrwg a wnai efe; ond ar ol iddo

farw, y mae y Duw mawr yn ei anfon i uffern, ac y mae yn dda i ni hyny. Y mae y Salmydd yn cydnabod nad yw dyn yn cydnabod daioni Duw: *pity* garw yw hyny. Mae un digymwynas yn bur gâs; y mae peidio cydnabod cymwynas, ar dir uniondeb, yn gam. Nid ellir parchu Duw heb ystyried ei ddaioni. Gellir dychrynu rhagddo am ei fod ef yn Dduw Hollalluog; ond nid ei barchu ond gyda'r syniad o ddaioni. Gellir cydnabod gŵr boneddig am ei fod yn ŵr boneddig ag y gellwch gael rhywbeth oddiar ei law; ond os gwir barch, am ei ddaioni y mae. Y mae daioni yn *demandio* parch. Clywais am un yn gorchymyn i un arall ddyweyd celwydd; ryw ŵr boneddig yn gofyn i rywun a fedrai efe ddyweyd celwydd? Medra i, meddai hwnw, ac fe ddywedodd gelwydd; ond am a wn i, nad yw efe ddim mwy ei barch er hyny. Felly nid oes modd parchu y Duw mawr heb ystyriaeth glir o hono, fel y gosodir ef allan yn y Beibl, yn Dduw da. Ond yr hyn y sylwaf fi arno yn bresenol a fydd *mewn perthynas i ddaioni yr Arglwydd; a bod hwnw yn destyn priodol i foliant pob dyn.*

Y mae daioni Duw yn mhob man yn y byd yma. Fel Creawdwr, Duw da ydyw. Y mae efe yn cyrchu at les ei greaduriaid yn eu ffurfiad. Y ddaear, y byd yma, y maent hwy yn *suitio* eu gilydd yn dda. Pe buasem ni mewn rhai o'r bydoedd eraill, ni wn pa fodd y buasem ni: pe buasem ni yn y lleuad, hono yw y byd nesaf atom, meddant hwy, ni wn i ddim pa fodd y buasai hi arnom ni; ond y mae hon yn addas iawn i ni, yn awyr i anadlu, ac yn bob peth cymhwys i ni. Beth pe buasai efe yn un câs, fel ambell i *dyrant* fu yn y byd yma, yn ein gwasgu a'n gorthrymu nes y buasai yr holl greadigaeth yn ochain o'r naill ben i'r llall? Ond nid un felly yw. Y môr a'i luoedd lluosog—y maent yn lluosog iawn yno, yn fwy lluosog na lluoedd y byd yma—y maent yn hapus iawn, y maent wedi eu llunio i chwareu yn y moroedd. Nid ydynt wedi eu crëu i amgyffred mohono, ond crëodd Duw hwynt mewn rhyw drefn fel ag y maent yn hapus iawn. Yr adar asgellog hefyd, y maent hwythau yn canu rhywbeth fel moliant i'w Creawdwr, o'r gwybedyn lleiaf i'r aderyn mwyaf. Y mae yr adar yn un côr yn canu ei foliant. Nid oes neb yn medru canu ond adar a dyn.

Y mae daioni Duw i'w weled yn ei holl weithredoedd.

Wrth ystyried ei drugareddau y mae efe i'w weled yn amlwg. Ei drugareddau ef sydd yn gyffredin, a *pity* garw na folianem ni ef am ei ddaioni a'i ryfeddodau i ni. Anifeiliaid y tir, y gwartheg, y maent yn chwareu ar y tir, y maent yn ymborthi ar laswellt, ac ar ol eu digoni, y maent fel yn ymsynied nad oes eisieu dim yn ychwaneg. Y maent yn ddigon hapus, o'r fath ag y mae ymsyniaeth creadur direswm.

Felly yr ydym ninau yn mwynhau daioni Duw. Ai pobl dduwiol sydd yn ei fwynhau? ïe, yr annuwiol hefyd; a phe byddet ti heb fwynhau ei ddaioni, fe roddwn i gyngor i ti beidio ei folianu. Ond y mae pob creadur yn y fan yma yn ei fwynhau, er hwyrach nad yw yn ei adnabod. "Yr ŷch a edwyn ei feddianydd, a'r asyn breseb ei berchenog;" ond hwyrach nad ydym ni yn gwybod "pan ddêl daioni," "Israel nid edwyn, fy mhobl ni ddeall." Es. i. 3. Yn ein creadigaeth y mae ynom ranau lluosog, a gwahanol orchwylion i'r gwahanol ranau yn y corph; ond nid oes yno ddim wedi ei wneyd o bwrpas i'n gofidio. Y mae yn bosibl i waew fod yn dy ddant, ond nid i hyny y gwnaed ef; ond i falu dy ymborth, er mwyn iddo dreulio yn dy gylla. Nid oes dim wedi ei wneyd i dy ofidio, ond i dy gysuro, ac ar yr un pryd, dylit ystyried y gallasai efe dy grëu fel arall—i anadlu, ond eto yn llawn poen; i agor dy lygaid, a hyny nid yn ddiofid i ti, ond ei agor ef fel dattod briw. Y mae y cwbl wedi ei wneyd er dy les; ac onid yw yn *bity* na folianit ef am ei ddaioni? Gallasai yr hen ddaear yma fod yn annghysurus iawn i ni—ein llygaid yn gorfod edrych arni, eto hyny yn gâs iawn genym; ond nid felly y mae hi, ond "hyfryd yw i'r llygaid weled yr haul." Ond y mae pob peth wedi ei wneyd ganddo yn rhyfeddol at gysur a lles ei greaduriaid yn ei ragluniaeth. Yn llywodraethu y byd, mae efe yn dangos ei ddaioni, ac mor gywir yw ei amcan wrth geisio at les ei greadur fel nad yw un amser yn methu." "Coroni yr ydwyt y flwyddyn â'th ddaioni, a'th lwybrau a ddiferant frasder." Rhyfeddol yw ei drugareddau yn ei holl weithredoedd yn y byd; ac onid yw yn *bity* na welem ni ef ynddynt? O, mor fawr yw y daioni y mae Duw yn ei ddangos i ddynolryw yn mhob oes o'r byd; a thrueni nad ellir ei ddesgrifio yw—bod dyn heb gydnabod ei ddaioni, ond yn ei ddefnyddio i wrthryfela i'w erbyn.

Y mae llywodraeth Duw yn dda. Da iawn yw deddf Duw—ei reol i lywodraethu wrthi, y mae hon yn dda iawn. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng fel y mae Duw yn llywodraethu pethau yn awr rhagor fel y buasai efe yn llywodraethu pe buasai dynolryw yn aros yn y cyflwr y crëodd efe hwynt. Ni fuasai y gofid a'r poenau sydd arnom, pe yr arosasem ni yn y cyflwr y crëwyd ni ynddo. Ond gwïalen o herwydd ein bai yw; y mae gwïalen i gefn yr ynfyd yn gweddu. Ond y mae efe yn gwneyd yn awr mor dda ag y gallesid. Nid oedd modd i anfeidrol ddoethineb allu gwneyd yn well nag y mae Duw yn gwneyd. Daioni yw ei amcan yn mhob peth, a'i folianu ef am ei ddaioni yw ein dyledswydd ninau. Y mae Duw yn Frenin da; ac y mae ganddo gyfraith dda; a hyn yw y gamp ar gyfraith, ei bod hi yn tueddu at les ei deiliaid hyd y byddont yn cydffurfio â hi. Felly y mae cyfraith Duw—ei *phlan* hi yw dedwyddwch ei deiliaid; ond y mae pechod yn ei dyrysu, yn gwneuthur dyryswch yn y *system*, ac yn dwyn gofid i mewn yn achos hyny; ond ei hamcan hi yw eu dedwyddwch. Y mae deddf Duw yn dyfod i mewn yn uniongyrchol at ddaioni, ac onid yw yn gywilydd i ni droseddu deddf Duw; a *chonsidero* ei bod hi yn tynu at bob peth goreu i ni, yr un fath a'r eneth hono ar ol iddi *gonsidero* mai ei lles yr oedd ei thad a'i mam yn ei geisio. Beth pe byddai i chwithau *gonsidero* ai onid eich lles y mae Duw yn ei geisio wrth eich galw i ufuddhau i'w gyfraith ddaionus? Ni raid i chwi fod yn *philosophers* annghyffredin i wybod hyn. Y mae Paul yn dyweyd bod deddf Duw yn gyfiawn, yn sanctaidd, a da. Peth o bwys annghyffredin yw hyn; ni bydd dim yn iawn heb fod yn gyfiawn, nid oes dim a gyfyd *garictor* i fyny heb hyn. Y mae deddf Duw yn gyfiawn a sanctaidd, ac o ganlyniad y mae hi yn dda.

Y mae rhai yn digio wrthi o herwydd ei bod yn melldithio ei throseddwyr. Os condemnir unrhyw beth ag y dichon ei fod yn ddrwg wrth ambell i ddyn, hwyrach mai digio yn annghyffredin a wna efe wrthych. Felly y mae llawer gyda deddf Duw. Y maent yn digio yn annghyffredin wrthi, am ei bod yn condemnio pethau y maent hwy yn yn eu caru, er eu bod yn ddrwg. Ond y mae deddf Duw yn ceisio eu lles o hyd. Oblegyd y mae pechod yn dra phechadurus yn ei goleu hi, a rhinwedd yn dra chysurus. Ond

hyn yw y perygl, i ni fyned o dan lywodraeth rhagfarn, a myned yn erbyn deddf ddaionus Duw, tra mai cariad at bechod yw yr achos. Pa fodd y mae hyn yn bod? Wel, y mae yr holl ddrwg yn dy fai di. Beth yw y felldith sydd gan y ddeddf am hyny? Wel, y mae mor onest a dyweyd natur y drwg yr wyt yn ei wneyd; ac ystyried hyn, onid yw yn dda, yn enwedig am fod diangfa i'w chael, ac onid yw yn *bity* na folianem yr Arglwydd am ei ddaioni a'i ryfeddodau i ni feibion dynion? Y mae ei ddeddf yn dda, ïe, yn hynod dda; prawf o hyny yw, bod dedwyddwch dyn i'w fesur yn ol graddau ei gyd-ffurfiad ef â hi. Ac os ydym heb gyd-ffurfio â'r ddeddf, y mae yn anmhosibl i ni fod yn hapus iawn; ond lle y mae cyd-ffurfiad ehelaeth a'r ddeddf, y mae yno gryn lawer o hapusrwydd. Y mae graddau hapusrwydd dynolryw yn cydraddoli mwy â chyd-ffurfiad â deddf Duw nag y maent yn cydraddoli â'r pethau bydol y maent yn eu meddu. Pe byddai ein meddwl yn gydffurf a deddf Duw, ac a llywodraeth y Jehofah, byddai y ddaear yn fuan wedi troi fel teml i addoli yr Arglwydd, a byddai llais cân a moliant yn ein holl byrth.

Arwydd arall mai un pur ddaionus ydyw Duw—ei fod wedi gofalu am fod rhyw gysur pur sylweddol yn gysylltiedig â chyflawniad pob dyledswydd. Y mae pechod yn felus i'r genau rywfodd, y mae pechod yn fwyn dros y pryd: ond y mae y canlyniad yn wastad yn chwerw. Nid rhaid i ti fyw yn y byd yma yn hir, na cha yr annuwiol weled mai drwg a chwerw yw byw felly dros amser. Felly o'r tu arall, nid oes un ddyledswydd a orchymynir i ti fel creadur, ac fel pechadur hefyd, nad oes ryw gysur pur sylweddol wedi ei gysylltu â hi. Ein dyledswydd ni yw gweithio ein galwedigaeth a'n dwylaw. A phe yr ystyriech y fath bleser sydd i'w gael wrth lafurio y ddaear yma, chwi a synech. Nid wyf yn meddwl nad oes ryw gysur yn mhob llafur—chwareu i'r plant, y maent yn cael ryw gysur rhyfedd; ond y mae cysur hefyd wrth weithio. Y mae y Duw mawr wedi gofalu am fod ryw gysur i'w gael yn yr ymarferiad a phob dyledswydd. Pe buasai dyledswydd yn gas i ni, fel y mae i ddynion diog: y mae hi yn gas iawn i'r rhai hyny, oblegyd nid ydynt yn cydffurfio a'r drefn. Y mae llawer o lafur i'r fam hefo ei phlant, ond y mae yno ryw gysur rhyfeddol hefyd.

Mae pob dyledswydd tuag at Dduw hefyd â llawer o gysur yn gysylltiedig â hwy. Caru Duw, ni welsoch chwi erioed beth mor gysurus a hyny. Teimlo y galon yn llawn o gariad tuag ato—cysur yw hwn na wyr y byd ddim am dano. Y mae cysur teimladol i'w gael wrth edifarhau. Y mae'n wir nad oes dim gofid yn y byd yn gysurus; ond y mae y gofid sydd yn hwn rywfodd felly. Hwyrach nad ellir dyweyd fod dim cysur ynddo ef ei hunan; ond y mae yn ei ymyl, oblegyd cysylltir maddeuant ag ef. Nid yw edifeirwch yn gwir ddarostwng dyn, ond ei fai sydd yn gwneuthur hyny. Nid yw edifeirwch yn ei ddwyn yn îs, ond ei ddwyn i deimlo y peth oedd y mae. Y mae ef yn bur isel, ydyw—ond nid yn îs. Y mae yn gweled ei fod yn isel, ac y mae o gymaint a hyny yn gallach heddyw nag o'r blaen, ac y mae yma ymgais am ddiwygiad hefyd. Nid oes dim ychwaith yn nghrefydd Mab Duw nad oes yno gysuron yn yr ymarferiad â hwy.

Y mae daioni Duw i'w weled yn benaf yn ei drefn i gadw pechadur mewn Cyfryngwr. Y mae ei ddaioni i'w weled yn ei lywodraeth—yn ei waith yn trefnu pob peth, ond yn ei drefn i gadw pechadur y mae rhagorol olud ei ddaioni yn ymddangos; oblegyd fe amlygodd Duw ddaioni annherfynol ei natur yn anfoniad ei Fab i'r byd. Y Duw mawr! yr hwn a greodd y bydoedd i gyd. Beth a wnaeth? Anfon ei Fab i'r byd. Cododd ein natur yn anfeidrol uchel mewn cysylltiad ag ef. Cododd natur dyn i undeb a'i natur ei hun yn mherson y Mab. Dyma oludoedd daioni y Jehofah. Nid oes digon o ddaioni i'r pechadur tlawd yn y ddarpariaeth ar gyfer angen ei gorph yn y byd. Mae Duw yn dymuno cael dyn yn nes ato nag fel y crëodd efe ef. Wrth greu yr oedd efe yn crëu o rîs i rîs, yn agosach ato o hyd. Creaduriaid direswm yn uwch na'r llysieu, oblegyd fod bywyd ganddynt. Creaduriaid rhesymol wedi hyny yn fwy na'r direswm. Y cerubiaid ac angelion sanctaidd y gogoniant yn uwch na dyn. Ond nid digon agos yn y fan yna feddyliwn i; ond cododd ein natur grëedig ni i undeb a'i natur ei hun. Y mae amlygiadau o'i ddaioni yn myned bellach, bellach yma. Nid yn unig fe ddarfu y person bendigedig yma ymuno a'r natur ddynol, ond fe ddaeth i barthau isaf y ddaear hefyd, "Canys yr hyn ni allai y ddeddf o herwydd ei bod yn wan trwy y cnawd, Duw a ddanfonodd ei Fab ei hun, yn

nghyffelybiaeth cnawd pechadurus." Nid cnawd pechadurus oedd, ac nid cyffelybiaeth cnawd, ond cyffelybiaeth, neu yn debyg i gnawd pechadurus. Yr oedd pechaduriaid yn bur anmhlygedig ac anhawdd eu trin; ond fe ddaeth er hyny, "Ac am bechod, a gondemniodd bechod yn y cnawd." Y mae daioni Duw yn ymddangos yn y fan hon gyda digyffelyb ogoniant yn anfoniad ei Fab i'r byd i ddyoddef trosom. Pa fodd y mae yr Arglwydd yn gorchfygu calon galed y pechadur? Yn gymhwys fel y gorchymynir i ninau, "Na orchfyger di gan ddrygioni, ond gorchfyga di ddrygioni trwy ddaioni." Felly Duw, nid ellir ei orchfygu gan ddrygioni. Beth a wna ynte? Gorchfyga galon galed pechadur trwy rym goludoedd daioni yr efengyl. Bydd gwaith gras Duw i'w ryfeddu yn dragwyddol. Y mae person y Cyfryngwr yn rhoi rhyw gyfleusderau i weled mwy o'r Duwdod, fel y mae yn Gyfryngwr, na phe buasai heb fod felly. Y mae y daioni hwn o bwrpas i ddynolryw. Y mae yn amheus genyf a oes greadur rhesymol îs yn ei greadigaeth na dyn. Braidd na feddyliwn nad yw yr angelion i gyd yn uwch na dyn. Ond mi wn hyn, fe anfonodd Duw ei Fab atom ni, "Canys ni chymerodd efe naturiaeth angelion: eithr hâd Abraham a gymerodd efe." Y mae yma oludoedd digyffelyb o ddaioni yn cael ei ddangos i blant dynion. Byddai yn dda genyf pe gallwn argraffu ar eich meddwl rwymau pob dyn i Dduw, fel y mae efe yn Dduw da. Pe yr adnabyddem ni Dduw yn iawn, byddai yn anhawdd ryfeddol i ni beidio ei barchu. Ni wn pa fodd y gallech lai na'i garu pe cymererch y darluniad a roddir yn yr Ysgrythyr o hono—Anfeidrol ddaioni. Peidiwch a meddwl ei fod ef yn dal dîg. Llywodraeth anfeidrol dirion yw llywodraeth y Jehofah. Eto nid oes dim mwy ei berygl na syrthio i ddwylaw Duw. Y mae perygl *abusio* daioni Duw. Y mae Duw yn darpar ar dy gyfer bob moment, yn darpar ar dy gyfer fel ei greadur. Duw a'th gadwodd, ac a'th ddyogelodd hyd heddyw, a Duw a ddarparodd drefn i'th gadw trwy ras. Gochel ei ddiystyru. Y mae i ddirmygu doniau rhagluniaeth Duw ryw *gonsequences* mawr. Os dirmygi ddaioni Duw iachawdwriaeth, beth ddaw o honot. Mae ei ddaioni ef yn siwr o gario argraff arnat ar ol myned oddiyma. Os yn uffern y byddi, byddi yn siwr o gofio dy fod di wedi mwynhau daioni Duw, "Ha

fab, coffa i ti dderbyn dy wynfyd yn dy fywyd." Coffa i ti gael yr amlygiadau mwyaf grymus o ddaioni Duw. Y mae yn enbyd i ti *abusio* ei drugareddau. A oes dim yn y Duwdod yn *demandio* parch? Y mae yr amlygiadau disgleiriaf o ogoniant Duw wedi eu rhoddi yn y Cyfryngwr. Y mae amlygiadau digon grymus ynddo i'th wneyd i'w garu, a digon grymus i dy dywys i edifeirwch. Gresyn yw eu camddefnyddio. Efe a'th wnaeth—gwaith ei ddwylaw ef ydwyt. Nid oes diffyg ewyllys da ganddo. Tybed na chymeri yr iachawdwriaeth a drefnodd? Gochel drci cefn ar ei ddaioni mewn dirmyg, ond yn hytrach, ei ddaioni a'th dywyso i edifeirwch. Os gwrthryfela yn ei erbyn yr wyt yn awr, tafl dy arfau i lawr. Os dibrisio ei ddaioni a wnest hyd yn hyn, moliana ef o hyn allan. Yn nhrefn iachawdwriaeth y mae rhyfeddodau gras; ac y mae yn werth sefyll tipyn i edrych arnynt. Safodd Job i edrych ar ryfeddodau Duw—rhyfeddodau ei ras a'i drugaredd fel Cyfryngwr. Fe ddaw Mab Duw "i'w ogoneddu yn ei saint, ac i fod yn rhyfeddol yn y rhai oll sydd yn credu" ynddo. Dïau y bydd iachawdwriaeth yn egluro ei rhyfeddodau yn dragwyddol; "Ar yr hyn bethau y mae yr angelion yn chwenychu edrych." Peidiwch a chau eich llygaid ar ddaioni Duw yn achub dyn, heb ddiolch. Pe byddech heb ddiolch am eich bod yn bobl dduwiol, diolchwch am fod ganddo drefn i wneyd yn dduwiol. Y mae yn medru achub. Y mae edrych ar ei ddaioni yn duedd hynod gref i'th dywys i edifeirwch; ac os deui i lawr, nid aeth neb erioed ddaeth at ei draed, o dan ei draed. Y mae ef yn medru "sathru balchder meddwon Ephraim." Y mae ef yn rhoi y rhai na ddaethant at ei draed, o dan ei draed; ond yr hwn a ddaeth at ei draed, ni roes hwnw erioed o dan ei draed. Diolch iddo am drefn yr iachawdwriaeth. A'i ddaioni fyddo yn ein gyru at ei draed mewn edifeirwch am i ni bechu i'w erbyn.

PREGETH X.

CARIAD DUW.

"Eithr fel y mae yn ysgrifenedig, Ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn, y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef."—1 Cor. ii. 9.

Y mae cariad nid yn unig yn cadw y byd wrth eu gilydd—cadw y greadigaeth yn un, ond cariad sydd yn ysgogi y cyfan. Cariad sydd yn gyru dynolryw yn eu holl sefyllfaoedd. Byddai hwn yn fyd marwol ac oerllyd, a'i waed wedi rhewi i fyny, oni bai cariad. Y mae gwaith ffydd, a llafur cariad, ac ymaros gobaith, yn ei ysgogi ac yn ei gadw yn fyw.

Y mae y testun hwn yn son am y cariad uchaf sydd mewn bod—y cariad goreu sydd mewn creadur, sef cariad Duw. Nid ydyw y galon ddynol yn alluog at yr un ddyledswydd mwy ysbrydol nac uwch yn ei natur na charu Duw. Hyd y gallaf fi weled a dirnad, y mae pob cariad a blanodd Duw yn dda yn ei le. Y mae hyn heb eithriad iddo ond un, sef cariad dyn at ei bechod a'i fai. Y mae hynyna yn felldith dôst; tostach na hon nid oes yn uffern ei hunan. Nid oes neb yn myned i uffern yn unig o herwydd eu bod yn bechaduriaid. Y mae llawer o bechaduriaid wedi myned i'r nefoedd; o blant y codwm nid aeth neb i'r nef ond pechaduriaid; ond dyma sydd yn seilio colledigaeth dyn, iddo garu ei bechod ac aros felly yn anedifeiriol: myned ar ol ei fai a chofleidio ei chwant, caru yr hyn sydd gas gan Dduw, sydd yn myned ag ef i uffern.

Ond edrychwch ar gariad yn y man y mynoch chwi, y mae yn werthfawr ac yn dlws. Ni fedrwn edrych arno yn un man yn beth isel iawn. Y mae yn ymddangos yn beth pur odidog fod y Duw mawr wedi rhoddi cariad yn yr hên tuag at yr ieuanc, yn mhlith y creaduriaid direswm. Nid ydyw yn hawdd i ni feddwl gymaint o fendith i ddyn ydyw fod y ddafad yn caru ei hoen bach.

I ba beth y soniwch chwi am beth fel yna ar bregeth? Beth a wnewch *chwi* yn bod yn ddifeddwl am beth fel yna, a'r greadigaeth yn pregethu i chwi o hyd? Oni buasai ei bod fel yna, buasai y rhyw yna wedi myned o'r byd mor llwyr a'r bleiddiaid o'r deyrnas yma. Y mae cariad tad at ei blentyn yn fwy gwerthfawr, o herwydd fod y naill a'r llall yn uwch yn eu natur. Y mae llawer o draul a thrafferth i fagu y plant, er fod yn dda gan y rhieni am danynt, ond pwy fuasai yn talu i chwi pe heb fod yn eu caru? Ond gwna cariad hyny heb ei gymhell. Y mae ambell i bagan yn caru ei blentyn â rhyw fath o gariad angerddol. Cewch weled y fflam hon yn cynesu yn rymus iawn mewn annuwiolion yn gystal a duwiolion. Cariad y pâr priodasol, y mae hwn yn werthfawr iawn. Cariad cymydogion at eu gilydd, mae hyny yn werthfawr hefyd. Y mae tipyn go lew o hono, er fod cymaint o natur rhoddi corn y naill o dan y llall ynom ni ddynion. Y mae yn debyg eich bod chwi yma yn ddigon parod i farnu a beio eich gilydd; ond, er hyny, y mae genych fwy o ffafr i'ch cymydogion nag ydych yn ei feddwl: y mae yn debyg pe byddem haner y ffordd i'r America, y cofiem gyda chariad am ein cymydogion. Yr wyf yn meddwl y buaswn yn annghysurus iawn pe buaswn heb ewyllys da i neb, na neb i minau; ac ni waeth i mi pa mor fuan yr aethwn o'r byd. Y mae cariad y duwiolion at eu gilydd hefyd yn dda iawn. Y mae yn arwydd dda iawn o beth mwy.

Ond sylwn ar gariad pechadur at Dduw a'i Fab, neu at Dduw yn ei Fab. Dyma y cariad uchaf sydd mewn bod. Dyma y cariad goreu. Nid ydyw mor gyffredinol ag y byddai yn dda iddo fod, ond y mae yn annghyffredin o dda.

Y mae y Beibl yn son yn aml am gariad Duw at ddynion. "A chariad tragywyddol y'th gerais, am hyny y tynais di a thrugaredd." "Felly y carodd Duw y byd fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab." Y mae yr apostol Paul yn dyweyd nad oedd "Nac uchder, na dyfnder, nac un creadur arall, a allai ein gwahanu ni oddiwrth gariad Duw,"—yr hwn sydd yn ein calonau ni; *na*, "yr hwn sydd yn Nghrist Iesu ein Harglwydd." Y mae y Beibl yn son yn aml am gariad Duw, cariad y creadur at y Creawdwr, cariad y cristion at Grist, ac at yr holl Dduwdod yn Nghrist. "Ni a wyddom," meddai yr

apostol, "fod pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw." Nid yn unig eu caru gan Dduw, ond y rhai sydd yn caru Duw. "Yr ydym ni yn ei garu ef, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni." Nid ydyw cariad Duw at ddyn ddim wedi cael ei neges gyda dyn nes enill y dyn i garu Duw yn ol. Y mae yma ddarpariaeth fawr, a hono wedi ei darparu ar gyfer y rhai sydd yn caru Duw. "Ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn, y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef." Y mae yn arfer gyffredin genym ddyweyd ein bod wedi gweled llawer ychwaneg nag a gawn, a chlywed llawer mwy nag a allem gofio; ond am bob cristion, ni welodd gymaint o ryfeddodau gras ac o ddaioni trugaredd ag a gaiff weled. Y mae mwy yn nghadw i'r rhai a'i hofnant ef nag y mae neb o'r saint wedi ei weled yn y fuchedd hon, "Ni welodd llygad," &c.

Sylwn ar NATUR Y CARIAD HWN—a'r ARWYDDION O HONO—ac ar Y BENDITHION ANNGHYDMAROL A'R GWERTH SYDD YN GYSYLLTIEDIG AG EF.

NATUR Y CARIAD HWN. Pa beth ydyw caru Duw.

Yn un peth, debygem ei fod yn gynwysedig mewn *rhyw oruchel barchedigaeth iddo*, mewn ein bod yn *bowio* i'r Holl-alluog am fod enw a charictor y Duw mawr wedi enill parchedigaeth ein calon nes ei addoli. Y mae parch, gan mwyaf, tra y byddo at ein huwchradd neu ein cydradd, yn sylfaenedig ar gariad. Gellir parchu, y mae yn wir, heb garu, a gallai nad aiff y parch yma byth yn gariad o herwydd nad oes un gymdeithas. Ond deliwch sylw, nis gallwch garu Duw heb barch i Dduw. Nid oes modd i wraig garu ei gŵr yn iawn heb barchu ei gŵr, nac i'r gŵr garu ei wraig yn iawn heb barchu ei wraig. Nid oes modd i'r naill frawd crefyddol garu y llall heb fod ganddo barch iddo. Gellwch garu plentyn a gelyn heb eu parchu, ond y mae cariad at gydradd ac uwchradd yn wastad yn sylfaenedig ar barchedigaeth; ac os mynwch chwi, wŷr a a gwragedd, ymddwyn tuag at eich gilydd yn ol cyfraith cariad, peidiwch a gwneyd na dyweyd dim a ddarostynga eich parchedigaeth, o herwydd nis gellir parchu bob peth. Gellir parchu rhai o herwydd rhyw bethau da, ond nid ellir parchu gwallau neb. Ond y mae cariad at Dduw yn gynwysedig mewn graddau o barch i'r Jehofah mawr. Bydded fod genym ras fel y

gwasanaethom Dduw gyda "pharchedig ofn." Felly y gwnaeth Noah; darparodd arch, gyda pharchedig ofn, i achub ei dŷ. Y mae pob teilyngdod yn y Duw mawr i barchedigaeth.

Y mae yn anhawdd i chwi feddwl am ddyn îs na hwnw na fedr barchu neb, na dim. Isel iawn ydyw y creadur hwnw. Iselder mawr ar greadur ydyw yr ystyriaeth fod y Duwdod goruchel yn anfeidrol deilwng o barch, ond nad ydyw efe yn parchu mo hono. Y mae yn isel, ac yn isel iawn. Y mae mawredd Duw a'i ddoethineb, y mae daioni a chariad Duw, ac uniondeb ei natur, yn berffeithiau sydd yn y Duwdod mawr; a dylit yn mhob modd ei barchu; nid wyt yn dy le, nac yn agos, heb fod felly.

Y mae caru Duw yn cynwys ynddo hefyd *gymeradwyaeth o oruchwyliaethau a gweithredoedd Duw.* Y mae Duw, yn yr hyn oll y mae yn ei wneyd, yn dda yn ngolwg y dyn sydd yn ei garu: y mae yn cymeradwyo ffyrdd yr Arglwydd, y mae Duw wedi ei blesio, wedi rhyngu ei fodd ef. Y mae y Beibl yn dyweyd pethau fel yna. Dyna a geir yn ngenau y duwiolion am Dduw. "Da y gwnaeth efe bob peth." Dywedodd am weithredoedd Duw, "Ti a'u gwnaethost hwynt oll mewn doethineb." Dywed mai rhyfeddodau Duw ydyw gwaith ei ddwylaw, ar y rhai yr edrych dyn. Y mae creadigaeth Duw wrth ei fodd: y mae mewn heddwch ag anifeiliaid y maes, ac ehediaid y nef, a physg y môr, ac â cherig y ddaear o ran hyny. Y mae yn barod i ddyweyd, yn mhob peth, "Da ac uniawn yw yr Arglwydd." Y mae ei ddeddf wrth ei fodd, a'r efengyl wrth ei fodd. Y mae Duw yn gymwys wrth ei fodd. Y mae yn dyweyd fod ei orseddfaingc wedi ei chadarnhau mewn barn. Y mae Duw wedi enill cymeradwyaeth y dyn sydd yn ei garu; nid ydyw yn dymuno cyfnewidiad ar Dduw pe byddai hyny yn bosibl. Y mae plant dynion wedi dangos y gwendid hwnw yn mhob oes a gwlad, pan aent i wneyd duw, gwneyd un at eu pwrpas y byddant. Nid ydym ni yn gwneyd delw o un math, mae'n wir, ond yr ydym ninau yn llunio tipyn ar Dduw yn ein dychymyg. Clywir ambell i hen bagan yn dyweyd fod Duw yn well na'i air, ond nid oes dim modd iddo fod felly; fel y dywedwn am ambell un fod y gair gwaethaf yn mlaen ganddo; ond nid yw yr Hollalluog yn debyg i hynyna.

Hefyd, y mae caru Duw yn cynwys *parodrwydd i ganmol*

Duw, i "ddyweyd yn dda mewn gair am dano." Y mae pobl dduwiol y Beibl yn son am Dduw dan ei ganmol yn wastad. Canmolant ef pan yn son am ei farnedigaethau, "Tithau ydwyt gyfiawn, a ninau yn annuwiol." A phan nad ydyw trallodion yn gwasgu arnynt, felly y dywedant, "Profwch a gwelwch." Pa bethau sydd genyt? O! caniadau i ddangos "mor dda yw yr Arglwydd: gwyn ei fyd y gŵr a ymddiriedo ynddo." "Fy enaid bendithia yr Arglwydd, ac nac annghofia ei holl ddoniau ef: yr hwn sydd yn maddeu dy holl anwireddau; yr hwn sydd yn iachau dy holl lesgedd." Cân fy ngogoniant iddo ef. Y mae yn felus ei fyfyrdod am dano, ac y mae yn bur naturiol i air o ganmoliaeth ddyfod o'i enau i'r Duw mawr. Y mae hyn yn brofiad genym mai nid yn aml y mae'r un gŵr neu wraig ag y mae yn dda genym am danynt, sydd yn gwneyd llawer o ddaioni, na ddaw rhyw air o glod dros y tafod am danynt. Fel yna y mae duwiolion; y maent yn canmol Duw ac yn dyweyd yn dda am dano, fel pe byddai yn dyfod heb iddynt geisio, fel y mae y dwfr yn dyfod o'r ffynon. "Fy enaid bendithia yr Arglwydd," meddai Dafydd, "a chwbl sydd ynot ei enw sanctaidd ef."

Hefyd, *Ewyllys da i Dduw ydyw*. Y mae rhai eisieu gwneyd rhyw un peth o'r cariad yma, ond ni fedrwn i yn fy myw wneyd hyny. Cariad mam at ei phlentyn, nid ydyw o'r un natur a chariad at ei gŵr. Y mae rhyw ychydig o *ddifference* mewn cariad yn mhob mam o'r bron. Cariad y tad at ei blentyn, a'r plentyn at ei dad; cariad Duw a dyn, nid ydynt o'r un fath yn union. Nid ydyw dy ewyllys da i Dduw yr un fath a'th ewyllys da i gymydog. Y mae y duwiol yn ewyllysio gweled llwyddiant mawr ar deyrnas y Cyfryngwr, a bod ei ewyllys yn cael ei wneyd ar y ddaear megys y mae yn y nef. Nid oes dim modd caru Duw â chariad o dosturi. Y mae yn bosibl caru gelyn felly, ond nid oes modd caru Duw fel hyny. Y mae yn bosibl caru y claf, y tylawd, a'r truenus, â chariad o dosturi, ond nid ydyw yn bosibl caru Duw felly. Gorchymyn Duw ydyw i ni garu ein gelynion; nid cymeradwyo gelyn fel y mae yn elyn, ond caru gelyn, sef tosturio wrtho ac ewyllysio yn dda iddo, a rhoddi hwnw mewn gweithrediad pan fydd cyfleustra. Ond y mae y Duw mawr wedi rhoddi ei gariad yn y fath fodd ag y gelli di

ddangos dy ewyllys da. Y mae cyd-darawiad ewyllys y Creawdwr a'r creadur yn gyffredinol ar y byd. Nid ellwch garu Duw heb ddymuno fod plant dynion oll yn cydnabod un Duw, a'i enw yn un.

Hefyd, y mae caru Duw yn cynwys *ymhyfrydiad enaid yn Nuw.* Beth ydyw bod dyn yn ei garu ei hunan, ac yn caru arian? Gormod o hyfrydwch sydd ganddo ynddo ei hunan ac mewn arian. Beth sydd yn peri i ddyn ymhyfrydu llawer mewn clod a pharch? Gormod o *delight* sydd ganddo ynddo. Dyna ydyw caru Duw, bod yr enaid yn ymhyfrydu yn Nuw—"yn ymhyfrydu yn nghyfraith Duw o ran y dyn oddimewn." Yn mhob man lle y mae heddwch, tegwch, a dymunoldeb mawr, y mae yr enaid dynol yn ymhyfrydu yn hwnw. Pan edrych un ar greadigaeth Duw, a'i gweled yn deg odiaeth, y mae rhyw ymhyfrydiad yn hyny. Y mae gweithredoedd Duw yn deg iawn yn eu lle. Gwnaeth y ddaear yn hynod brydferth, cododd ei chefnau, a dyfrhaodd ei rhychau, gwnaeth i'r afonydd redeg trwy ei dyffrynoedd, paentia yr wybren uwch ein pen bob boreu a phrydnawn yn wahanol o'r bron; ond y mae tegwch y greadigaeth yn diflanu yn ymyl tegwch Duw ei hun. Y mae efe yn anfeidrol hawddgarach na'r pethau a greodd, ac na'u holl hawddgarwch wedi dyfod yn nghyd. Y mae hollalluawgrwydd Duw yn cael ei lywodraethu gan anfeidrol ddoethineb, daioni, a thrugaredd. Adlewyrcha holl briodoliaethau y Duwdod hawddgarwch a dymunoldeb ar eu gilydd. Y mae hynyna mewn cariad. Gelli fod yn annedwydd yn y plentyn goreu a feddi, gall y gŵr fod yn annedwydd yn ei wraig, gall ei hafiechyd neu ei marwolaeth fod yn chwerw iawn iddo, gelli fod yn annedwydd mewn meddianau, gelli eu colli a theimlo hyny. Ond nid all neb fod yn annedwydd yn Nuw, y mae ef uwchlaw cyfnewidiadau y greadigaeth, ac uwchlaw pob adfyd a pherygl; byth ni byddi yn annedwydd yn y Duw a'th wnaeth, ond ei gael yn Dduw. "Er i'r ffigysbren na flodeuo, ac na byddo ffrwyth ar y gwinwydd; gwaith yr olew-wydd a balla, a'r meusydd ni roddant fwyd; torir ymaith y praidd o'r gorlan, ac ni bydd eidion yn eu beudai." Pa sut y bydd hi arnat, yn enw pob rheswm, os colli hwynt oll? "Eto, mi a lawenychaf yn yr Arglwydd; byddaf hyfryd yn Nuw fy iachawdwriaeth." Y mae holl ddymunoldeb a

hawddgarwch y greadigaeth i gyd yn myned yn llen deneu iawn wrth y doraeth sydd ynddo ef.

Yr arwyddion sydd o'r cariad hwn lle y mae. Lle bynag y mae cariad at Dduw, *y mae y meddwl wedi ei sefydlu ar Dduw*—y mae y meddwl wedi *centro* arno fel y daioni mwyaf—fel y ffynon ddwfr yr hon ni phalla ei dyfroedd. Nid wyf yn dyweyd ei fod yn meddwl am dano bob amser, ac am ddim ond efe; nid ydyw Duw yn ceisio genym felly; y mae hyny yn beth sydd ynddo ei hunan yn anmhosibl, am hyny, nid ydyw dyledswydd neb yn gynwysedig ynddo. Beth ydyw gan hyny? Y mae dy feddwl, wedi cael tipyn o lonydd, yn dyfod o bob man at Dduw. Y mae y meddwl fel cwmpas y morwr, yn y byd yma; y mae tynfa hwnw tua'r gogledd, ond nid yw *staunch* yn y byd, nid ydyw yr *attraction* yn gryf iawn, o herwydd gellwch ei droi o amgylch ogylch, y mae yn beth pur wanllyd; ond gadewch lonydd iddo, daw ei bîg at y pwynt, y mae yno ddigon o at-dyniad i'w dynu y ffordd hòno. Felly nid ydyw cariad Duw moi gryf yn y duwiolion nas gall neb ei *ddisturbio* a'i alw oddiwrth Dduw. Nis gellwch wneyd dim yn iawn heb fod y meddwl yn o glòs gyda'r peth, y mae yn esgyn i'r nefoedd, ac yn disgyn i'r dyfnder, ond gadewch lonydd iddo am dipyn bach, daw i feddwl am Dduw os ydyw ei gariad yno. Y mae gan y cadben ar y llong ar y môr yn yr ystorm gymaint i'w wneyd fel nad ydyw yn meddwl llawer am ei wraig a'i blant gartref; rhaid iddo arfer ei nerth a'i ddoethineb i gadw y llong ar y wyneb, ac heb fyned yn erbyn y creigiau; ond bwriwch fod yr ystorm wedi tawelu, a'i fod wedi dyfod i rhyw *safe harbour*, gwarantaf fi y rhed ei feddwl at ei wraig a'i blant bach oedd gartref. Nid oedd amser iddo feddwl am danynt yn nghanol yr ystorm, ond erbyn cael tipyn o dawelwch, yr oedd y meddwl yn dyfod yn naturiol atynt. Felly y milwr hefyd, nid oes ganddo yntau ond ufuddhau i'r hwn sydd mewn awdurdod, gan ymgais am fywyd, y rhai sydd yn ceisio am ei fywyd ef. Ond wedi i'r frwydr fyned drosodd, meddylia am ei ffrindiau yn fuan iawn. Wedi i'r drafferth fyned trosodd i'r cristion, daw ei feddwl at ei Dduw. Pa le y bydd dy feddwl yn myned yn dy wely, pan y byddi yn dawel ac esmwyth? Pa le y byddi yn cael dy feddwl yn y boreu pan ddeffroi? Y mae y Salmydd yn dyweyd,

"Pan ddeffrowyf, gyda thi yr ydwyf yn wastad." A ydyw y Duwdod mawr yn ei ddaioni, a'i briodoliaethau dwyfol, wedi myned yn ganolbwynt i'th feddwl di? Nid y cwestiwn ydyw a wyt yn caru Duw, a neb ond Efe, ond a wyt yn caru Duw o flaen pawb a phob peth arall? A wyt yn gweled ei deilyngdod y fath ag y mae i'w garu o flaen pawb, ei ddoniau yn fwy, a'i drugaredd yn well na phawb a phobpeth?

Hefyd, Os ydym yn caru Duw, yr ydym *yn caru gair Duw*. Nid oes dim yn y byd yma a chymaint o ddelw Duw arno a'r Beibl. Y mae duwiolion y Beibl yma yn eu profiadau yn dangos i ni eu bod yn bur *fond* o hono. Dywed Dafydd fod ei air "fel mêl, ac fel diferiad y diliau mêl," a'i fod wedi ei gymeryd "yn etifeddiaeth dros byth," efe oedd ei "fyfyrdod beunydd." Yn y bedwaredd Salm ar bymtheg ar ol y cant, y mae yn mhob adnod yn ei ganmol. Os nad ydyw yn bur dda genym am y Beibl, nid ydyw yn dda genym am Dduw. Os nad ydyw tystiolaethau Duw yn werthfawr, yn fwy dymunol na'r "holl olud," nid wyt yn caru Duw; oblegyd y mae ef wedi "mawrhau ei air uwchlaw ei enw oll."

Hefyd, Os ydym yn caru Duw, yr ydym *caru ei ordinhadau a thrigfanau ei dŷ*. "Yn mhob man," meddai yr Hollalluog wrth Moses, "lle bynag y rhoddaf goffadwriaeth o'm henw, y deuaf atat, ac y'th fendithiaf." Gwell oedd gan y Salmydd "gadw drws yn nhŷ ei Dduw na thrigo yn mhebyll annuwioldeb." Y mae "diwrnod yn nhŷ Dduw" yn well "na mil" yn un man arall. Cenfigenai wrth aderyn y tô a'r wenol; yr oeddynt hwy yn cael gwneyd eu nythod yn agos iawn at allor Duw. Hiraeth mawr oedd arno pan oedd yn alltud o'i dŷ. Ffrindiau mwy na chyffredin, cyfarfyddant hwy a'u gilydd yn rhyw le. Gwelwch eich cariad a'ch câs braidd yn mhob man. Y mae Duw yn caru "pyrth merch Sïon, yn fwy na holl breswylfeydd Jacob." Dichon rhai dan ryw amgylchiadau fyw yn dduwiol heb addoliad cyhoeddus, ond nis gwn pa fodd y gallwn yn ngwlad y breintiau. Os nad oes yma yr un sect y gallwn yn gydwybodol farnu fod achos y Duw mawr yn eu plith, dylem geisio codi rhywbeth newydd; y mae dyn i fod a'i le yn addoliad Duw, ac y mae Duw wedi gosod ei dŷ yn y byd, ac y mae yn fan cyfarfod Duw.

Hefyd, os ydym yn caru Duw, *yr ydym yn caru yr Arglwydd Iesu Grist, Mab Duw, y Cyfryngwr.* Y mae rhyw gwestiwn rhyfedd iawn yn cael ei ofyn gan Ioan, "Yr hwn nid yw yn caru ei frawd yr hwn a welodd, pa fodd y gall efe garu Duw yr hwn nis gwelodd?" Yr hwn nid ydyw yn caru Mab Duw, yr hwn a welodd yn y natur ddynol yn cerdded y ddaear, ac sydd i'w weled yn y natur ddynol yn y nefoedd eto, pa fodd y gall garu y Duwdod byth sydd yn anweledig?—Y Duwdod mawr sydd yn hanfodi erioed, yn llenwi y nefoedd a'r ddaear? Y mae creadigaeth aneirif o fydoedd yn ymsymud a bod ynddo—ni chreodd ddim tu allan iddo ei hunan. Y mae y cyfan yn symud a bod ynddo ef—ond ar yr un pryd nis gellir ei ganfod: y mae yn gweithio ar bob llaw, ond ni fedri gael gafael arno; ychydig iawn a wyddost am dano: ond y mae holl gyflawnder y Duwdod yn yr amlygiadau uchaf o hono i'w weled yn y Cyfryngwr; y mae efe yn Dduw yn y cnawd—"Y gair a wnaethpwyd yn gnawd," ac y mae llawer o blant dynion wedi gweled ei ogoniant. Pa fath o ogoniant oedd? "Gogoniant megis yr unig-anedig oddiwrth y Tad." Y mae Crist yn y natur ddynol yn "ddelw y Duw anweledig," ac "yn wir lun ei berson ef." Nid oes dim mwy o Dduwdod i'w weled, i ddynion nac angelion, nag sydd yn Iesu Grist. Y mae y natur ddynol ganddo ef yn berffaith yn ei thegwch heb ei hanfri. Y mae efe yn gariad, ac ynddo ef y mae yr amlygiadau uchaf o gariad Duw, ac nid oes modd caru Duw heb ei garu ef.

Hefyd, os ydym yn caru Duw, *yr ydym yn caru pobl Dduw.* "Yr hwn sydd yn caru yr hwn a genedlodd, y mae yn caru yr hwn a genedlwyd o hono." Y mae cariad brawdol yn wahanol i bob un arall. Caru delw Duw ar dy gydgreadur—caru delw Duw ar y tlawd am ei fod ef yn caru Duw, ydyw cariad brawdol. Y mae hwnyna yn arwydd o dduwioldeb, "Wrth hyn y gwyddom ein bod ni o Dduw, am ein bod yn caru y brodyr." Nid cariad at enw, sect, neu blaid, ond cariad at ddelw Duw, gan nad yn mha le y gwelir. Cariad at y rhai sydd yn caru Duw ydyw cariad brawdol.

Hefyd, os wyt yn caru Duw, *yr wyt yn casau pechod.* Y mae Duw a phechod, nid yn unig yn annghymodlawn, ond yn annghymodadwy. Nid oes i bechod ddim hanfod ond

drwg. Nid oes i'r Duwdod ddim hanfod ond daioni. Nid oes dim lle i obeithio y cymodir Duw byth â drwg; y mae y naill mor wahanol a gwrthwynebol i'w gilydd, fel nad oes modd eu cymodi. Ond y mae modd cymodi pechadur â Duw er hyny. Y mae modd i Dduw gondemnio pechod a chyfiawnhau y pechadur yn nhrefn yr efengyl. Ac i'r graddau yr wyt yn caru Duw a'i barchu, yr wyt yn casau pechod, ac yn digio wrtho.

Sylwn yn nesaf ar y DARPARIAETHAU SYDD AR GYFER YR HWN SYDD YN CARU DUW.

Yn un peth, Nid oedd trefn yr efengyl wedi ei hamlygu yn amlwg iawn nes dyfod Iesu Grist yn y cnawd. Nid oedd y disgyblion yn deall llawer am ei deyrnas; yr oeddynt wedi credu mai efe oedd yr un a waredai yr Israel; ac mai efe oedd y Messiah; ond er hyn i gyd, ni wyddent pa fodd y gwaredai efe hwynt. Yr oedd trefn fawr iachawdwriaeth fel *system* yn anadnabyddus i'r rhai duwiol yn yr amser hwnw. Ond wedi gogoneddu yr Arglwydd Iesu, a rhoddi yr Ysbryd, daethant i weled yn eglur ac o bell.—Hefyd, y mae y nefoedd a'i holl ogoniant a'i mawredd yn anadnabyddus i ddynolryw. Y mae un o'r apostolion yn dyweyd "Nid amlygwyd eto beth a fyddwn, ond ni a wyddom pan ymddangoso efe y byddwn gyffelyb iddo." Bydd cael ein hunain yn y byd arall heb gosp yn yn beth rhyfedd, ac heb gorff y farwolaeth yn beth rhyfeddach na hyny;—agor ein llygaid yn y byd mawr, a chael ein hunain ar wastadedd tragwyddoldeb, fydd yn beth rhyfedd iawn; cael ein hunain yn mhlith y saint a phatriarchiaid a merthyron; cael dy hunan yn iach ac yn berffaith,—

"Pob gwahanglwyf ymaith,
Glân fuddugoliaeth mwy."

Mae y duwiolion yn canu yma

"Wrth gofio'r bore
Na welir arnynt glwy'."

Yma nid oes nemawr ddyn yn berffaith iach—y mae mesur o anhwyl ar *system* y rhai iachaf, weithiau yn bruddaidd bron wedi eu bwrw i lawr, mae awyr y wlad yma sydd yn cynal yn fyw yn eu gwisgo i farwolaeth yr un pryd; nid felly yn y nef, mae awyr y wlad hono y fath

na chai yr anwyd byth yno,—ni chai y *relapse* i'r gwahanglwyf byth yno. Ni bydd yno un gelyn chwaith, ac ni bydd raid i ti weithio âg un llaw a dal cleddyf â'r llaw arall; ond ti gei y ddwy law i ganu y delyn, ac eistedd tan dy ffigysbren heb neb i'th ddychrynu. Cei fyw heb angeu hefyd: y mae hwn a'i ddwrn ar ein danedd o hyd yma; y mae y bobl, mawr a bach, ieuanc a hen, yn marw. Y mae yr ieuanc yn marw yn aml, ond nid i gyd; ond y mae yr hen yn marw oll bob yn dipyn: ond yn y nef byddant "fel angylion Duw." Prïodi a phlanta sydd yn llanw y bylchau sydd yn cael eu gwneyd gan angeu yma, ond yn y nef, byddant fel angelion Duw, "uffern a marwolaeth ni bydd mwyach," tragwyddoldeb o'th flaen. Ar yr hen ddaear yma, nid ydyw tymor dyn arni ond ychydig—nid oes gan ddyn hamdden i ddysgu llawer o ieithoedd y byd, ond yn y nef cai amser neu dragwyddoldeb digon o hyd yno. Byddi yn cael edrych yn mlaen yno heb weled terfyn. Nid ydyw Duw wedi gosod terfyn yn nhragwyddoldeb i ddyn fyned ato a dim yn mhellach. Y mae felly yn y byd yma, "Oni osodaist derfyn iddo fel gwas cyflog?" Hefyd, bydd yn brâf iawn yno, holl rai llednais y tir wedi hel at eu gilydd. Yn y byd mawr ni bydd "Ephraim yn cenfigenu wrth Judah, ac ni chyfynga Judah ar Ephraim," ond oll yn cydredeg at yr un daioni. a hyny am dragwyddoldeb. Ni wyddom fawr am y byd mawr. Y mae llen rhyngom â'r byd tragwyddol; nis gallasem wneyd dyledswyddau y fuchedd hon pe buasai y llen yn rhy agored. Ond pa beth a gaf yno? Cei gorph "yr un ffunud a'i gorph gogoneddus ef;" cei weled yr Arglwydd Iesu Grist fel y mae, a "bod yn debyg iddo;" cei gwmni saint ac angelion yn un, a thragwyddoldeb i'w mwynhau; cei garu Duw, a Duw i'th garu dithau, heb ddim ymsen tan y fron; bydd hyny yn hyfryd iawn. Nid rhyfedd i Paul ddyweyd, "Byw i mi yw Crist a marw sydd elw." Meithrinwch feddyliau mawr a theilwng am Dduw. Nid gwaith ydyw caru Duw ag y gall dyn ei *forcio* iddo, ond y mae yn codi oddiar syniadau uchel am y Duw mawr. Gweddïa am i Ysbryd Duw dy oleuo am Dduw, dy barch fyddo fwy fwy iddo, a dy gydwybod fyddo yn gymeradwy o Dduw a'i berffeithiau. Ymhyfryda yn yr Hollalluog, dyna ddigon o waith i ti. Nefoedd fach ydyw caru Duw yn y galon; ac y mae y nefoedd fach ynot

ti yn dy roddi dithau yn y nefoedd fawr wedi marw. Dyna wna nefoedd i ti—caru Duw â'th holl galon, a theimlo fod Duw yn dy garu dithau. Peidiwch a meddwl fod gan Dduw ryw falais i'ch rhoddi yn uffern; na, Duw da ydyw Duw, ac y mae yn anfeidrol ddaionus. Ei gael yn Dduw ydyw y peth mawr; cael dy Frenin yn Geidwad. Y mae arnaf ofn myned i uffern, meddai rhywun. Nid rhaid i ti, nid ydyw yn lle y *rhaid* i ti fyned yno. Nid ewch byth yno yn y byd mawr heb fyned ag uffern gyda chwi o'r byd hwn. Y mae arnaf ofn fod uffern wedi dechreu cyneu: nac ydyw, dy uffern di. Y mae hi wedi cyneu ar Cain a Judas, ond y mae dy uffern di heb ddechreu fflamio eto, ac os peidi a myned a thân euogrwydd o'r byd yma gyda thi yno, ni chyneua byth; ond os ai yno, ac euogrwydd yn dy gydwybod, y mae yno ddigon a'i rhydd ar dân—y mae yno ddigofaint yr Arglwydd fel afon o frwmstan i enyn dy euogrwydd. Bydd pob meddwl am Dduw yn dy roddi ar dân. Nis gwn yn iawn pa beth ydyw uffern. Nid oes un man esmwythach i'r annuwiol yn bod nac uffern; y mae yn well lle i'th gadw oddiwrth Dduw nac un man, os âi di yno dan wrthod ei Fab, a barnu yn aflan waed y cyfamod. Paid a myned yno. Paid a myned o'r byd yma yn wrthodwr o'r unig Waredwr drefnodd Duw. Y mae ganddo ef le yn llawn i'th waredu. Dyma y nefoedd y mae y duwiolion yn myned a hi gyda hwy, ac y mae yn esgor yn y byd mawr ar nefoedd fawr. "Gronyn noeth" ydyw nefoedd yn y byd yma, ond bydd yn ddaioni aeddfed o ogoniant yno.

TRAETHODAU.

HWDA I TI, A MOES I MINAU.

Felly y dywedai yr hen Gymry am dalu am bob peth wrth ei gael. Hwda i ti yr eiddo (gan nad beth a fyddai), a dyro i minau yr arian. A thyna y cwbl drosodd, heb eisieu son am amod yn mhellach, dydd tâl, na choflyfr. Wrth brynu unwaith, a thalu ar y pryd, ni thelir ond unwaith, ac ni phalla tâl; pan y mae y gŵr gonest wrth brynu ar goel, yn talu lawer gwaith mewn bwriad, ac efallai yn methu gwneyd mewn gweithred yn yr amser apwyntiedig: a'r twyllodrus, er addaw yn deg, heb gymaint a bwriadu yn ddichlyn dalu byth. Dywedir fod dau dalu drwg, sef talu yn mlaen, a thalu rywbryd wedi yr amser yr oedd tâl yn ddyledus. Ychydig sydd ddigon gonest, os telir yn mlaen, i werthu i'w gofynwyr heb grog-bris; ac nid oes nemawr ychwaneg wedi prynu ar goel yn ddigon penderfynol i dalu yn yr amser. Ond y mae talu am eiddo wrth ei gael yn gyfrwng dedwydd rhwng y ddau eithafion uchod.

Nid hwyrach nad oes genedl ar y ddaear yn prynu ac yn gwerthu mwy ar goel, yn ol eu rhif, na chenedl y Cymry; na'r un genedlaeth o'r Cymry wedi bod felly gymaint a'r genedlaeth hon. Yn awr, gan hyny, feibion a merched Cymru, gwrandewch arnom yn ddyoddefgar, pan y dywedom fod llawer o'ch gofidiau a'ch gofalon, eich petrusder a'ch ofnau, eich tlodi a'ch cywilydd, a lluaws o'ch siomedigaethau yn tarddu yn uniongyrchol oddiwrth gyfundrefn y coelio. Y mae temtasiynau y drefn hon yn rhy gryfion i'r rhan amlaf o blant Adda. Awydd y masnachwr a'r crefftwr i werthu eu nwyddau, a chadw eu

cwsmeriaid, a bair iddynt anturio mwy nag sydd ddyogel i'w hamgylchiadau. Ond, ysgatfydd, yn gyffredinol y mae y temtasiynau yn llawer mwy i'r prynwr; ac felly sylwer yn astud ar y pethau canlynol:—

1. *Y mae yn temtio i drefn ry gostus o fyw—i wario mwy nag sydd yn dyfod i mewn.* Ac os treulir tair-ceiniog-arddeg am bob swllt sydd yn cael ei enill, neu ryw ffordd yn dyfod i mewn, suddir i ddyled yn gynt nag y mae llawer yn ystyried. Bydded fod y llyn wrth y felin cyhyd, can lleted, a chan ddyfned ag y byddo, os bydd rhywfaint yn ychwaneg yn myned o hono nag sydd yn dyfod iddo, fe â yn wâg yn gynt na'r dysgwyliad. Y mae awydd mewn dyn i feddianu, ac y mae cael eiddo heb roddi ei gydwerth yn ei le ar y pryd yn brofedigaeth nid bechan iddo. Y dydd tâl, dydd drwg ydyw; ac y mae y natur ddynol yn dra chwanog i'w bellâu. "Prophwydo y mae efe am amser pell."

2. *Pob peth a brynir ar goel sydd o angenrheidrwydd yn ddrutach.* Nid oes fodd i'r rhai sydd yn rhoddi coel werthu heb ychwaneg o enill na phe cawsent arian parod. Y mae yr arian yn cymeryd cymaint yn ychwaneg o amser i droi fel hyn, fel y gellid troi yr un arian bedair gwaith am un ond cael arian parod. Gŵyr pawb fod yn rhaid i'r masnachwr fyw. Heblaw hyny, y mae rhyw nifer yn prynu ac heb dalu byth. Pwy sydd yn y golled? Atebwn, mai y bobl onest sydd yn prynu ac yn talu ar y pryd, neu cyn pen blwyddyn. Dyma y gonest yn talu dros yr anonest, y sobr dros y meddw, y llafurus dros y dïog, a'r gofalus dros y diofal. Nid ydym yn dywedyd fod y masnachydd neu y crefftwr yn ddigolled oddiwrth y rhai sydd heb dalu. Ond dylid ystyried fod yn rhaid i'r rhai hyn eu cael cyn y gallont eu colli. O ba le, gan hyny, y maent yn eu cael? Yr ydym yn ateb mai o ddwylaw y rhai sydd yn prynu ganddynt, ac yn talu, ac yn benaf o law y rhai sydd yn talu yn brydlawn. Tybier fod y crydd yn gweithio mewn tref neu bentref, ac yn gwerthu esgidiau ar goel; tybier hefyd fod un pâr o bob ugain yn myned heb dâl am danynt byth, na gobaith ychwaith; yn awr, allan o reswm yw tybied y gall y crydd fforddio colli cymaint ag un pâr o bob ugain drwy ei oes. O ba le ynte y daw tâl am yr ugeinfed? O ddwylaw y rhai a brynasant y pedwar-pâr-ar-bymtheg eraill, ac a dalasant am danynt.

Wrth fod y crydd yn rhoi chwe' cheiniog yn ychwaneg nag a wnaethai y tro, fel enill i gynal ei deulu, ar bob un o'r pedwar-ar-bymtheg, talasant am yr ugeinfed dros y cnâf a ddiangodd heb dalu. Tybygem nad oes dim yn amlycach.

3. *Y mae yn gwneuthur llafur yn flin, ïe, yn flinach nag y byddai raid ei fod; am ei fod yn llafur am a fwynhäwyd, yn lle am a fwynhëir.* "Nid cof y bara a fwytäwyd;" ac oblegyd hyny eilwaith, "Nid yw y fudd yn lladd y lludded." Mae yn lled hysbys i bawb fod talu neu weithio am yr hyn a fwytäwyd ac a yfwyd, neu a wisgwyd, er's blwyddyn, yn beth a wneir fynychaf mewn teimlad anhyfryd. "Dal llygoden a'i bwyta," a ddarlunia sefyllfa o gryn dlodi. "Byw o'r llaw i'r genau" ydyw hyny, sef byw heb weddill. Ond y mae y cyfryw yn byw fel tywysog o'i gymharu â'r neb sydd yn "bwyta ysgyfarnog cyn ei dal," sef yn bwyta ei fara cyn ei enill; ac os bydd yn ddyn gonest, mae yn ddiamheu yn dwyn ofn ac yn petruso. Nid oes tlodion yn mysg dynion anwar, ond tlodi dydd yn ei ddydd; ond y mae y neb sydd yn suddo i ddyled yn ei drethu ei hun â thlodi mewn amser i ddyfod.

4. *Mae hyn yn peri fod gofynwyr yn fynych yn gofyn eu dyledwyr pan nad oes ganddo fodd i dalu, yr hyn yn lled gyffredin a bair deimlad chwerw o'r ddeutu.* Cryn ruthr ar amynedd dyn ydyw gofyn arian iddo yn gynt nag y mae yn dysgwyl, ac efallai y swm gofynedig yn fwy nag y mae yn ei feddwl; oblegyd cofier o hyd fod gofynwyr yn llawer gwell eu cof na dyledwyr. Dywed y dyledwr, "A oes arnoch eisieu arian can gynted a hyn? Nid oeddwn yn meddwl chwaith fod arnaf yn agos gymaint a hyn yma." Y mae yn hawdd gweled teimlad y gofynwr oddiwrth y fath iaith. Pethau o'r cyffelyb a ddygwyddant yn dra mynych; ac y maent yn terfynu yn aml mewn yspryd ac iaith annedwydd.

5. *Canlyniad cyffredin y dull hwn o drin y byd yw, tori addunedau a siomedigaethau heb rif.* Tori adduned mewn amgylchiad lled ddibwys a arwain i dori rhai pwysicach, yr hyn, bob yn ronyn, a wna ddyn yn annheilwng o'i goelio mewn dim. Siomedigaethau, drachefn, pan y cyfarfyddir â hwynt yn fynych, a chwerwant neu a suddant yr yspryd, ac a barant surni ar y tymherau. Y pethau hyn dros yr amser presenol ydynt anhyfryd, ac ni roddant

heddychol ffrwyth cyfiawnder i'r rhai sydd wedi cynefino â hwynt.

6. *Y mae y drefn hon yn peri y cywilydd o geisio eiddo ar goel a chael gomeddiad, yr hyn sydd dra anhyfryd i deimlad pawb.* Ond er anhyfryted, y mae y sawl a dreulio gymaint ag a gaffo ar goel, yn sicr o'u profi. Gellid meddwl mai tlodion y bobl yw gwrthddrychau hyn o linellau; ond y mae can rheitied i'r cyfoethogion glywed a'r tlodion: y mae llawn cymaint o'r rhai hyn, yn ol eu rhif, yn byw yn uwch na'u henill. Gwelsom unwaith fab i ŵr urddasol yn cael ei omedd i dorth chwe'cheiniog ar goel, er fod ei heisieu, dybygid, erbyn *tea* brydnawn i'w dad a'i fam. Yn marn pawb, onid oedd hyn yn beth diflas, heblaw ei fod yn gadael y cylläon yn weigion? Mae yn debyg, medd rhywun, mai tipyn o gynghorwr tlawd o ryw enwad neu gilydd oedd y gŵr hwnw. Nage, nage; yr oedd ei fywioliaeth ar y dechreu yn werth, meddynt, o bump i saith gant o bunau yn y flwyddyn: y drwg i gyd oedd gwario tair-ceiniog-ar-ddeg ar swllt. Nid oes diwedd byth ar y benbleth a'r cywilydd sydd yn canlyn ar goel tra ceffir. Clywsom am hen bulpudwr oedd yn byw lawer o ugeiniau o flynyddoedd yn ol, ac yn arfer bwyta ac yfed yn uwch na'i foddion. Un boreu Sabbath, gorchymynodd i'w was fyned at Dafydd y cigydd i geisio *leg o futton*, fel y gallai y forwyn ei thrwsio erbyn ei ddyfod o'r addoliad. "Ac," ebe wrth y bachgen, "yna tyred dithau i'r gwasanaeth." Y bachgen, wedi derbyn y cyfryw orchymyn, a aeth ymaith nerth ei draed at Dafydd y cigydd; a'r hen weinidog dawnus (canys nid y dylaf o'r plant oedd efe), â'i yntau i'r addoliad. Pa fodd bynag, daeth y gwas o dŷ y cigydd, ac aeth i'r gwasanaeth. Erbyn hyn yr oedd yr hen barchedig frawd wedi cymeryd ei destyn yn hanes y cawr Goliah a Dafydd; ac wrth fyned dros yr ymddyddan rhwng Dafydd a'r cawr, gofynodd y pregethwr mewn llais uchel a phendant, "A pha beth a ddywedodd Dafydd?" Y bachgen, gan feddwl mai iddo ef yr oedd yn gofyn, gan ei fod o bosibl yn edrych arno ar y pryd, a atebodd, "Efe a ddywedodd na chaech chwi ddim cig at eich ciniaw, hyd oni thalech am y llall!" Mae pob synwyr yn dywedyd fod yn ddigon anhawdd gorphen y bregeth wedi cael pelen feddygol mor chwerw a hono ar adeg mor anfanteisiol i'w llyngcu. Effeithiai yr un drefn yn gyffelyb

ar bob pregethwr, pa un bynag ai cydffurfiwr ai annghydffurfiwr a fyddo, sydd yn euog o ymollwng gyda'r brofedigaeth o brynu ar goel.

7. *Y mae y dull hwn yn groes i rediad cyffredin yr Ysgrythyrau.* "Na fyddwch yn nyled neb o ddim, ond o garu bawb eich gilydd:" dyma yr iaith a arfer y Beibl yn wastadol. Ac onid yw bod yn ddrwg am dalu yn gŵyn dra chyffredin yn erbyn crefyddwyr yn ein dyddiau? Mae yn rhy wir ei bod. Nid yw egwyddorion a phenderfyniadau proffeswyr yr oes bresenol yn ddigon nerthol i wrthsefyll temtasiynau sydd mewn cael eiddo ar goel. Nid ydym yn gwadu nad oes ambell eithriad anrhydeddus i'r rheol hon; eto dyma y rheol.

Yn awr, dyma amryw o'r anfanteision sydd yn dilyn prynu ar goel. Bellach rhoddwn rai anogaethau i dalu am bob peth wrth ei gael. Ni a'u cymerwn oddiwrth y manteision sydd yn dilyn hyn.

1. *Nid hwyrach y byddai yn well ceisio dangos yn gyntaf oll fod hyn yn ddichonadwy.* Er prawf, y mae amryw yn gwneyd hyn. Fe geir rhai tlodion yn talu i lawr am y cwbl a brynant, a hyny pan y cawsent eu coelio; a cheir eraill wedi colli eu coel, fel na chânt ddim at eu hangen ond am arian parod. Rhai cyfoethogion hefyd ydynt yn arfer o dalu ar y pryd am y cwbl o'r draul, fel nad oes *bill* yn d'od i'r tŷ yn oed y flwyddyn. Y peth sydd yn gyrhaeddadwy i ddyn fel y cyfryw, sydd trwy ryw foddion neu gilydd yn gyrhaeddadwy i bob dyn. Os oes eisieu, ac os gwell talu am bob peth wrth ei gael, diamheu fod rhyw ffordd i wneyd hyny.

2. *Arferer pob cynildeb a diwydrwydd tuag at gyrhaedd modd i dalu.* Nid yw angenrheidiau natur ddim yn llawer. Mae yn hen ddywediad y gwna natur y tro ar ychydig, a gras ar lai, ond nad oes dim digoni ar chwant. Dynolryw yn fynych a gyfrifant eu hangenion wrth yr hyn sydd gan eu cymydogion, ac nid wrth eu gwir eisieu eu hunain. Nid oes arnom ni ddim gwir angen am balas i'w breswylio, am fod rhyw nifer fechan o blant Adda yn byw mewn lleoedd o'r fath. Etyb tŷ cyffredin yr un dyben, ïe, i raddau helaeth, "y bwth bach a'r mwg main." Nid yw bod

> "Rhai mewn cerbydau, yn gwisgo porphor a sidanau,"

byth yn peri fod y pethau hyn yn wir angenrheidiol i neb.

Yr un modd, nid yw tŷ mawr, dodrefn costus, a dillad gwychion, yn angenrheidiol chwaith. Addefwn fod tŷ glân, ac ymborth iach, a dillad trefnus a glanwaith, nid yn unig yn ddymunol, ond hefyd yn angenrheidiol. Ond gall fod bwth y wraig dlawd lanwaith yn dra chysurus yr olwg arno, er nad yw ei gynwys werth ond ychydig, ïe, pe'i gwerthid i'r uchaf ei geiniog. Felly hefyd gellir gweled llawer gwraig a geneth yn dra chryno, o'u coryn i'w sawdl, er fod pâr o glocsiau am eu traed, a'u dillad o'u gwneuthuriad eu hunain. Yr oll o gysur a pharch sydd yn digwydd i ddynion (pa un bynag ai meibion ai merched), a dardd oddiwrth eu glanweithdod a'u crynoder, ac nid oddiwrth eu bod yn dreulfawr. Na cheisiwch, gan hyny, bethau sydd ar ryw gyfrifon yn gysurus ac yn gyfleus eu bod mewn tŷ, hyd onid alloch yn gysurus eu fforddio. Darllenasom am un wraig newydd briodi, a chanddi ryw swm o arian tuag at ddodrefnu ei thŷ. Yr oedd *Miss* yn llawn awydd i wychder; prynodd amryw ddodrefn hardd, ac yn mhlith pethau eraill, prynodd *garpet* costus dros ben. Erbyn talu am y cwbl, yr oedd yr arian wedi myned i *gered*, fel y dywed pobl y Dê; a chafodd y fûn dirion, cyn i un lleuad basio, fod ei thŷ yn ddiffygiol tua'r gegin, a lleoedd o'r fath, a lluaws o bethau llwyr angenrheidiol. Nid oedd yno fath yn y byd o gafn tylino; na chymaint a chrochan i ferwi cawl. Yr oedd y *carpet* o'r goreu i'r sawl a allasai ei gostio; ond y mae yn hawdd i blentyn wybod fod yn haws gwneyd hebddo mewn tŷ na heb gafn tylino. Y mae yn wir ei wala hefyd nad yw diodydd costus yn angenrheidiau natur. Ni bu Cymru erioed yn llawnach o dystion eu bod yn afraid nag ydyw yn y blyneddau hyn. Miloedd o bob rhyw, ac oedran, ac amgylchiadau, sydd yn byw hebddynt yn ddigon diddig a chysurus. Addefir hefyd, hyd yn nod gan y rhai sydd yn ei ddefnyddio, nad ydyw y *tybacco*, er difyred yw y dial arno wrth ei gnoi a'i losgi, ddim yn dyfod i restr angenrheidiau natur, er yr haerir ei fod yn un o'i chysuron a'i difyrau diniwed. Fe ŵyr pawb na cheir mor tair ceiniog a elo am dano at ddim arall, pa faint bynag fyddo y galw am danynt: ni ddeuant yn ol mwy na'r meirw yn eu beddau. O ganlyniad, diogelach peidio a'i arfer, hyd nes y byddo yn amlwg fod rhagluniaeth yn rhoi modd i'w gael. "Gwell gwasgu y

feg" ar chwant nag ar natur; a gwell peidio cynyrchu y chwant na hyn. Ar y pen hwn hefyd rhaid dywedyd, er fod y gorchwyl yn anhyfryd, nad yw *tea* a siwgr chwaith yn angenrheidiau bywyd. Maent yn ddiau yn gysurol ac adfywiol, ïe, yn fwy felly nag yn wir gynaliaethol: ar yr un pryd daethant i ymarferiad tra chyffredin yn ein gwlad gyda phob dosbarth; ac er eu bod yn îs nag y buont, y maent eto yn ddrudion. Can' mlynedd i heddyw, nid oedd nemawr o ddefnyddio arnynt ond gan foneddigion yn unig. Mae miloedd heddyw yn Nghymru yn fyw nad oedd na *theakettle* na *theapot* yn y tŷ ddydd prïodas eu teidiau a'u neiniau. Nid diogel, er hyny, yw dywedyd yn eu herbyn, gan eu bod yn ganghenau helaeth o fasnach, ac archwaeth llawer wedi dyfod mor llwyr atynt, nes y maent yn y drws nesaf i fod yn angenrheidiau. Eto, gan nad ydynt wir angenrheidiau, cynghorem bawb i dreio gwneyd hebddynt, hyd oni allont dalu arian parod am danynt. Ond dywed rhywun, nas gall ef byth gael arian parod i dalu, a bod yn rhaid iddo ef gael *tea*, a siwgr i'w felysu. O'r goreu, nid ydych yn meddwl peidio talu am dano rywbryd, efallai cyn pen blwyddyn; ac os telir y *bill* yn llwyr yn mhen y flwyddyn wedi iddo ddechreu rhedeg, y mae hyny ar y cyfan yr un peth a chael coel am chwe' mis. Wel, yn awr, cosber y blys am *dea* am haner blwyddyn, a bydd genych, o ran y *tea*, arian parod i dalu am dano am eich oes, pe byddech byw cyhyd a Thomas Parr.

3. *Y mae yn dra chysurus meddwl fod yr hyn sydd yn y tŷ ac allan wedi talu am dano; ni raid ofni pwy a ddelo i mewn, nac â phwy y cyfarfyddom.* Mae dyn gonest yn gwelêd ei ofynwr yn mhob cynulliad, er efallai nad yw y gofynwr yn meddwl am dano ef. Ond am y neb sydd yn talu am eiddo wrth ei gael, gall hwnw fod yn ddiofal, er fod ei ddiwyg yn gyffredin, a'i fwyd heb fod yn ddanteithiol, y mae yn iachus, a'i hûn yn felus. "Diofal y cwsg potes maip."

> "Cael pryd o gawl erfin, heb neb yn fy ngofyn,
> Mi a gysgwn yn sydyn, mor esmwyth ag undyn.

O'r tu arall, pe byddai dyn yn cymeryd byd da helaethwych beunydd, ac yn ddyledog, y mae ei enaid yn chwerw a'i gydwybod yn ofnus; ac y mae yn ddïareb mai "an-

hawdd cysgu ar obenydd y dyledog." Yr un ffunud am y bachgen a'r lodes sydd yn talu am eu dillad wrth eu cael; er nad yw eu cyflog ond ychydig, y mae yn ddigon; ac am ei fod wedi ei enill trwy hir wasanaeth, y mae yn cyrhaedd yn mhell. Nid oes arnynt ben tymhor ofn y siopwr, na'r crydd ychwaith. Dygant eu hunain i arfer dda, yr hon ond odid nad ymadawant â hi am eu hoes. Ni wna rhïeni tlodion yn fynych waeth gwaith na dysgu eu plant i brynu ar goel pan yn dechreu gwasanaethu, ac felly eu cynefino â dyled am eu holl ddyddiau. Addefwn y gall y mwyaf cynil a diwyd dan ryw amgylchiadau fyned yn dlawd; ond eithriad yw hyn ac nid y rheol; ac anfynych iawn yr arosant yn hir cyn y cânt ryw ymwared. O fabwysiadu yr egwyddor hon, ni a fyddwn sicr o beidio colledu neb arall; ac y mae hyny yn gysur mawr i gydwybod onest.

4. *Edrych ar roddi yr eiddo Caesar i Caesar, a'r eiddo Duw i Dduw.* Fe allai fod gormod o edrych ar grefydd ar wahan oddiwrth wneyd yr hyn sydd gyfiawn. Gwir fod adnabod pla ein calon ein hun, a dyfod i ymofyn, "pa fodd y cyfiawnheir dyn gyda Duw, a pha fodd y bydd yr hwn a aned o wraig yn lân," i'w gwahaniaethu oddiwrth rodiad ac ymarweddiad da. Eto, nid ydynt mewn un modd i'w gwahanu y naill oddiwrth y llall. Y dyn sydd yn ddrwg am dalu ei ffordd, heb roddi yr eiddo dyn i ddyn, y mae yn fwy na thebyg fod hwnw heb roddi yr eiddo Duw i Dduw. Ac y mae bron bawb sydd yn hoff o gael eu coelio yn troi allan bob yn dipyn yn ddrwg am dalu.

Gan hyny, anwyl ddyn, os gwerthfawr genyt dy barch a'th gysur, dy enw da fel dyn gonest, a'th gymeriad fel dyn crefyddol, na fydd yn nyled neb o ddim. Na thriged cyflog y gweithiwr gyda thi hyd y boreu. Ac i'r dyben o gyrhaedd hyn, na phryn ddim ar na fo eu heisieu arnat, pe ceit hwynt am haner a dalont. Na âd ddim yn îs na'th sylw. Na âd tan yfory yr hyn a ddylit ac a ellit ei wneyd heddyw. Na chais neb i wneuthur yr hyn a ellit ac a ddylit ei wneyd dy hun. Na fachnïa dros neb am bris yn y byd. Na ddos ychwaith i gyfraith â neb dros dy flingo yn fyw: yma mae yr enillwr yn golledwr. Bydd gymydogol. Dod elusen. Bydd dosturiol. Bydd gymwynasgar. Gwasanaetha dy genedlaeth. Ac uwchlaw y cwbl, gwas-

anaetha dy Dduw. Ymdrech am ci adnabod; derbyn ei Fab; cred ac ymddiried ynddo; ymostwng iddo; cymer ei Yspryd yn arweinydd, a'i air yn rhëol dy ymarweddiad yn mhob peth. Gwna hyn oll mewn cariad, a dedwydd fyddi yn dy fywyd; byddi farw hefyd o farwolaeth yr uniawn, a bydd dy ddiwedd fel yr eiddo yntau.*

* Gwel "*Trethodydd*," Ionawr, 1848.

TLODI.

Tlodi sydd amgylchiad yn mha un y ceir y rhan lïosocaf o'r teulu dynol. Nid yw rhai breision y ddaear a chyfoethogion y bobl onid ychydig rifedi mewn cymhariaeth. Er hyny, nid yw tlodi yn dynged anocheladwy, efallai, i neb o'i febyd i'w fedd, na chyfoeth chwaith yn etifeddiaeth ddiddiflanedig i'r hwn a'i medd. Dywed y doethaf o ddynion, "Fod un wedi ei eni yn y freniniaeth yn myned yn dlawd," ac y mae arall wedi ei eni yn nghanol tlodi yn eistedd ar yr orseddfaingc cyn cyrhaedd canol-ddydd ei oes.

"Mae llawer fel finau, âg ychydig yn dechreu,
Yn dyfod o'r goreu cyn diwedd eu hoes;
Ac eraili o'u llawnder yn myned ar brinder,
Cyn darfod mo haner eu heinioes."

Ymddengys nad oes un ddeddf o eiddo Duw na dynion yn rhwymo baich o dlodi ar gefn un,—ac yn gosod coron o gyfoeth ar ben y llall, yn y fath fodd, fel nad all y cyntaf weled rhyw gyfleusdra i daflu ei faich gorthrwm i lawr yn gyfreithlawn, a'r olaf golli ei goron trwy esgeuluso yr adeg i gadarnhau yr orseddfaingc trwy gyfiawnder. Rhai o ddeddfau y Duw mawr ydynt sicr a diymod, y rhai nad oes gan greadur ddim llaw ynddynt oll; nid amgen deddfau y nefoedd a'r ddaear, trwy y rhai y mae efe yn dwyn eu llu hwynt allan mewn rhifedi, ac yn eu galw hwynt oll wrth eu henwau; a chan fawr rym y deddfau hyn nid oes neb na dim yn anufuddhau. Rhoddodd ef hefyd ddeddf i'r môr, ac nis troseddir hi; nid yw ei lanw na'i drai yn ymddibynu dim ar ewyllys neb ond ewyllys ei Grëawdwr. Nid rhaid dangos i'r wawrddydd ei lle, na hysbysu yr haul pa bryd y dylai gyfodi neu fachludo. Eithr nid yw holl ddeddfau Duw felly, er eu bod mor wirioneddol ddeddfau iddo ef a'r lleill. Y ddeddf trwy ba un y mae efe yn dwyn bara allan o'r ddaear, sydd yn galw am gydymffurfiad dyn, a llafur yr ŷch; a'r ddeddf

sydd yn yr ardd, yr hon sydd yn peri i'w hadau egino, ac i'w choed ffrwytho, sydd yn galw hefyd am athrylith a diwydrwydd y garddwr er dwyn yr amcan i ben. A'r ddeddf foesol, er fod o'i chadw wobr lawer, nid yw sicr o wobrwyo pawb o greaduriaid Duw, oblegyd rhaid iddi gael ufudd-dod gan y creadur a wobrwya. Am efengyl gras Duw hefyd, er bod ynddi awdurdod deddf, ïe, deddf ysbryd y bywyd yn Nghrist Iesu, ni dderbyn neb ei bendithion tra y byddont anufudd i'r alwedigaeth nefol. Yr un modd y mae deddfau yn Rhagluniaeth Duw ar y byd hwn, y rhai, os anufuddheir iddynt, nis gellir cyrhaedd digonoldeb na diogelu meddianau wedi eu cael. Hanesion cywir a ddangosant y gall un, wrth wasgar ei dda a byw yn afradlawn, wario etifeddiaeth deg a helaeth; ac arall, o iselder tlodi, trwy lafur diflin, cynildeb, a rhad y nef, ddyfod i feddianu cyfoeth mwy nag a ddifethodd y llall. Y mae cyfoeth yn newid llaw weithiau. Nid oes un gagendor wedi ei sicrhau rhwng y tlodion a'r cyfoethogion, fel nad all y naill dramwy at y llall.

Nid yw tlodi ychwaith yn dyfod y rhan hanfodol o neb o ddynolryw mwy na'u gilydd, "Gwnaeth Duw o'r un gwaed bob cenedl o ddynion i breswylio ar wyneb yr holl ddaear," Crëwyd hwynt gan yr un Duw; yr un llaw a'u lluniodd, ac o'r un defnydd—holl ddeddfau eu natur sydd unrhyw,—eu perthynas hefyd a Duw fel eu Tad a'u Brenin, a'u cyfrifoldeb iddo fel crëaduriaid rhesymol, sydd yr un yn ddïeithriad. Rhaid fod y gwahaniaeth rhwng y ddau ddosbarth hwn, gan hyny, yn amgylchiadol, arwynebol, a chyfnewidiol. Os edrychir ar y baban noeth ar ei ymddangosiad yn y byd, nis gallai neb wybod, pe byddai cyn ddoethed a Chatwg, pa un ai mewn palas ai mewn bwthyn ei ganed, na pha un ai tywysog ai cardotyn yw ei dad. Nid oes un arwydd o'i goryn i'w sawdl pa un ai tlodi ai cyfoeth yw ei dynged. Y mae pawb fel eu gilydd hefyd yn agored i holl ddamweiniau bywyd. Y tân, a'r dwfr, a'r haint, yn nghyda'r cleddyf ac arfau eraill marwolaeth, a gymerant ymaith rai o bob gradd ac oedran. A phan y byddo y Duw mawr yn agor pyrth marwolaeth, ac yn gwneuthur i ddyn "rodio cilfachau y dyfnder," gwna hyny heb dderbyn wyneb y cyfoethog o flaen y tlawd. Yn y farn fanol, canys bydd "barn wrth linyn a chyfiawnder wrth bwys," ni sonir am gyfoeth na

thlodi, amgen na pha fodd y defnyddiodd y cyfoethogion gyfoeth, a pha fodd yr ymddygodd y tlawd yn ei dlodi; a dyry Duw i bob un fel y byddo ei waith ef.

Hefyd, y mae galluoedd eneidiol yr iselradd yn gyffelyb i'r uwchradd. Gwir fod gan yr uwchradd fanteision addysg na fedd y tlawd, eto gwelwyd ambell un o sefyllfa isel yn tori trwy bob anhawsder nes dyfod i enwogrwydd a dyrchafiad a barodd i'w cydgreaduriaid edrych arnynt gyda syndod er's miloedd o flyneddau bellach. Bachgen tlawd oedd Æsop; ïe, mor dlawd na feddai mo'i gorff a'i aelodau ei hun, yn ol cyfrif ei gydwladwyr, oblegyd caethwas oedd efe; ond yr oedd ei feddwl mor ddysglaer, a'i ddeall mor dreiddgar, fel na ddïangai dim na neb rhag ei sylw. Anifeiliaid y maes, bwystfilod yr anialwch, ehediaid y nef hefyd, a physg y môr, a gaent ganddo ef iaith ac ymadrodd i ddysgu gwersi buddiol i ddyn; mor fanwl y traethai efe i ddynion eu breuddwyd a'i ddëongliad, fel yr aeth ei leferydd trwy yr holl ddaear a'i eiriau hyd derfynau y byd. Martin Luther hefyd oedd fachgen tlawd; cardotai ei fara i'w gynal tra yn yr ysgol pan yn ieuanc; ond wedi tyfu i fyny, gwnai daranau â llais ei hyawdledd, nes y crynai tyrfa afrifed o offeiriaid, esgobion, cardinaliaid, a'r Pab o Rufain hefyd, gan eu harswyd. Melancthon ddysgedig, a gwir foneddigaidd ei yspryd, hoff gyfaill Luther, oedd fel yntau o sefyllfa isel yn y byd. Eurych oedd Ioan Bunyan wrth ei gelfyddyd; eto yr oedd yn ddyn tra meddylgar; ysgrifenodd lawer o lyfrau, ac yn enwedigol "*Taith y Pererin*," yr hwn, meddynt, a gyfieithwyd bron i holl ieithoedd Ewrop. Gwir fod yn mhlith yr arglwyddi, yr ieirll, y duciaid, a'r tywysogion, ddynion tra enwog wedi bod ac yn bod; cawsant fanteision, a gwnaethant ddefnydd o honynt; ond y mae yn amlwg mai nid o'r dosbarth hwn yn unig y mae Duw yn codi rhai i fod yn oleuadau yn y byd. Ceir yn mhlith y tlodion feirdd heb rif, a dynion dysgedig yn mhob iaith ac yn mhob gwybodaeth; a gweithiant yn mhob rhyw gelfyddyd fuddiol a chywrain ar dir a môr. Y mae arferion isel, megys meddwdod, godineb, a'r cyffelyb, yn enwedig o'u hir arfer, yn gwanychu ac yn pylu y galluoedd: eithr ni wna iseldra sefyllfa niwed yn y byd iddynt, ond ysgatfydd, o'r tu arall, ei bod yn well er peri grymusder corph a meddwl.

Drachefn, ni ddichon sefyllfa isel mwy nag uchel roi nodweddiad moesol i neb. Megys nad yw cyfoeth ynddo ei hunan yn rhinwedd, felly nid yw tlodi ynddo ei hun yn fai. Dichon fod mewn dinas aml ŵr tlawd doeth; ac nid oes nemawr yn ystyried gymaint y mae y rhai hyn yn ei wneuthur tuag at waredu y ddinas yn mhob oes. Gwelir hefyd Nabal, cyfoethog ac ynfyd, yn dwyn dinystr arno ei hun yn gynt na phryd. Job berffaith ac uniawn, yn ofni Duw ac yn cilio oddiwrth ddrygioni, yr hwn oedd unwaith yn gyfoethocaf o holl feibion y dwyrain, a welwyd wedi hyny yn dlawd ac yn afiach, yn eistedd yn y lludw wedi colli ei blant, a dyeithriaid wedi ei yspeilio o'i feddianau, a'i gyfeillion am ei yspeilio o'i gywirdeb; ond Job oedd efe drwy y cwbl, yn ofni Duw ac yn ymddiried ynddo. Dafydd hefyd, yr hwn a eisteddodd ar ei deyrngadair, ac a deyrnasodd ar holl Israel, o Dan hyd Beersheba, a fu am flynyddau yn bugeilio defaid ei dad; cafodd grefydd yn fachgen, a pharhaodd ei gymeriad yr un trwy bob cyfnewid, o'r fugeiliaeth hyd y freniniaeth. Weithiau gwelir duwioldeb heb dlodi ar ei chyfyl, a thlodi heb naws o dduwioldeb yn agos ato; ond ar yr un pryd, canfyddir tlodi gonest a duwioldeb yn preswylio dan yr un gronglwyd yn Nghymru, ac yn aml i fwth yn mhendryfan byd. Gallai nad yw eithafion tlodi nac eithafion cyfoeth yn fanteisiol i wir grefydd, eto fe'i gwelir yn dra dysglaer weithiau yn y ddau amgylchiad hwn. Gweled y cyfoethog yn ostyngedig, yn drugarog, ac yn ddiorthrwm, yn cydnabod ei ymddibyniad ar ei Greawdwr a'i gyfrifoldeb iddo, a'i fod yn wrthryfelwr yn erbyn ei lywodraeth, gan ddysgwyl ei drugaredd a'i ras fel ei unig ymwared, sydd yn olygfa dra dymunol. A gweled y tlawd yn y cŵr arall, a'i yspryd can ised a'i sefyllfa, heb duchan na grwgnach yn erbyn Duw na dyn—heb genfigen na rhagfarn yn erbyn y rhai sydd mewn llawnder,—yn bwyta pryd o ddail yn llawen gyda chariad Duw yn ei galon, gan gyfrif ei dlodi a'i gystudd onid byr ac ysgafn, yn gweithredu tragwyddol bwys gogoniant iddo—byw i'r hwn yw Crist, a marw sydd elw, a bâr i ni lefain, O! ddedwydd ddyn! Gwelwn gan hyny nad yw bywyd neb yn sefyll ar amlder y pethau sydd ganddo; ac ni thycia cyfoeth yn nydd digofaint, ond cyfiawnder a wared rhag angeu. Gellir byw yn dduwiol yn nghanol cyfoeth, er yr holl demtas-

iynau a'r maglau sydd ynddo. Ac y mae gras Duw yn dysgu i fod mewn prinder, ac yn peri i'r Cristion allu pob peth trwy Iesu Grist yr hwn sydd yn ei nerthu ef. Ymdrech yw byw yn dduwiol mewn unrhyw gylch: uchelgamp ydyw: nid yw hawdd i neb yn y fuchedd hon mewn un sefyllfa; nac ychwaith yn anmhosibl i neb yn nghymhorth gras, gan nad pa fath fyddo ei amgylchiadau; pe amgen, byddai ei amgylchiad yn ei esgusodi.

Wel, ddarllenydd, tlawd neu gyfoethog, neu ynte yn rhywle yn y canol, na fydded gwaeth genyt dy fod; gwel mai cyfoethogion a thlodion a fu, y sydd, ac a fydd yn y byd hwn: ac ni waeth i ddyn daflu ei gap yn erbyn y gwynt na cheisio rhanu cyfoeth yn wastad rhwng pawb a'u gilydd. Pe mynai y doeth galluog wneuthur hyn, eto nid allai ei ddwylaw ddwyn hyny i ben. Buddugoliaethodd Alexander y ffordd y cerddodd, a rhoddodd y Rhufeiniaid gyfreithiau i lawer o deyrnasoedd y ddaear; eto ni wnaethant mo'r byd ronyn gwastadach. Pe byddai pawb trwy y byd yn gydwastad â'u gilydd mewn cyfoeth foreu dydd Llun nesaf, byddai rhai yn dlodion ac eraill yn gyfoethogion cyn y nos Sadwrn cyntaf ar ei ol. Nid arosant yn gydwastad, mwy nag y safai y dwfr ar gefn ceiliogwydd; ïe, hyd yn nod ar y dybiaeth o fod iddynt beidio ag yspeilio eu gilydd, dim ond prynu a gwerthu wrth eu hewyllys. Y mae lliaws o ryw rith-ddiwygwyr, mewn amryw oesoedd a gwledydd y byd, wedi ymddangos, gan amcanu gwneuthur y byd can wastated a'r geiniog; a rhai dan liw o grefydd hefyd, gan dynu rheol gyffredin oddiwrth amgylchiadau anghyffredin yr eglwys yn Jerusalem. Y mae y dynion hyn gan mwyaf wedi bod ac yn bod yn haner-cof a haner-call, a'u canlynwyr y rhan amlaf yn segurwyr, diogwyr, ac oferwyr, fel y mae'n hawdd gweled nad allant gael mwy o effaith ar ddynolryw yn gyffredinol nag ôl troed dyn ar dywod y môr: gadawant y byd yn gwbl mor anwastad ag y cawsant ef. Pwy a all unioni y peth a gamodd Duw? Gan hyny na ddyweded y tlodion wrth y cyfoethogion, Nid rhaid i ni wrthych; ac na ddyweded y cyfoethogion wrth y tlodion, Nid oes arnom mo'ch eisiau; yr ydym yn gwbl annibynol. Camgymeriad hollol: y mae gwas da mor angenrheidiol i'r meistr tir ag ydyw y tyddyn i'r tenant. Tröer gan hyny galonau y naill ddosbarth at y llall, a bydd pob peth

o'r goreu yn y byd hwn, ag i bawb gadw ei sefyllfa; a thröer pawb at Dduw, a gwell-well am amser a thragwyddoldeb fydd eu helynt.

Bellach rhoddwn ar lawr rai o'r achosion o dlodi fel y maent yn ymddangos i ni.

1. *Yr achos cyntaf a enwn yw rhagluniaeth Duw*, yr hon, er bod y ddaear yn llawn o'i chyfoeth, a'i bod yn diwallu pob peth byw o'i ewyllys da ef, eto nid yw yn rhanu yn berffaith wastad: rhydd fodd i bawb fwyta, ond caiff rhai ddigon, a llawer yn ngweddill. Pe buasai pawb yn gydradd, ni buasai le i haelioni, tosturi, a thrugaredd weithredu; nis gallai neb nac ymostwng i'w gilydd na chydnabod yn ddiolchgar am gymwynas a wnai y naill i'r llall, yr hyn ni buasai gymhwys mewn sefyllfa brofedig, y fath ag yw anialwch y byd hwn; yr hon sefyllfa a luniaethodd Duw i'n profi ac i wybod pa beth sydd yn ein calonau. Yn y rhagluniaeth hon y mae yr un peth yn digwydd i bawb fel eu gilydd; yr un peth a ddigwydd i'r da, i'r glân, ac i'r aflan—yn yr hon y mae cosp bai, a gwobr rhinwedd, i raddau mawr, yn anweledig; gan y gwelir weithiau rinwedd yn gystal a thlodi, a'r beiau mwyaf anferth yn ymrwysgo mewn cyfoeth—eto dyma y drefn; a threfn ydyw, ac nid annhrefn; oblegyd nid yw yr hyn sydd yn ymddangos i ni yn gam, ddim felly yn wirioneddol; na'r hyn sydd yn ymddangos i ni yn annhrefn ddim ond trefn uwchlaw ein cyrhaedd.

2. *Gorthrymder sydd achos arall o dlodi;* ac nis gwelir tlodi truenus yn fynych ond lle y byddo yr îs-radd yn cael eu gorthrymu. Dyna yn gymhwys sefyllfa y werin yn yr Iwerddon. Gorthrymder ysprydol y grefydd Babaidd, a thymhorol y mawrion ar yr iselradd, yw yr achos o'u tlodi yn lled gyffredin. Felly i raddau mwy neu lai mewn manau eraill. Pan y byddo annghyfartalwch rhwng pris llafur y gweithiwr, a phris angenrheidiau natur er ei gynal ef a'i deulu, y mae yn llwfrhau ac yn colli ei annibyniaeth. Y mae hyn yn digwydd yn fynych pan y mae mwy o weithwyr nag o waith.

3. *Y mae y modd y cynelir y tlodion* sydd yn methu byw arnynt eu hunain, trwy lunio cyfraith i'w cynal, yn lle trugaredd wirfoddol y llawn at gynorthwyo yr anghenus, yn peri i lawer o'r dosbarth isaf deimlo fod treth y tlodion, fel arian y deyrnged, mewn cyfiawnder yn

ddyledus iddynt hwy, ac mai gweithredoedd da tros ben a orchymynwyd ydyw bod iddynt geisio byw arnynt eu hunain. Ni ddymunem eto weled diddymiad y cyfreithiau hyn, am fod cymaint o dlodi wedi ei gynyrchu fel y mae amheuaeth a fyddai eluseni gwirfoddol yn ddigon i gyfarfod âg angen y tyrfaoedd sydd yn mhob rhan o'r deyrnas yn dysgwyl wrth y dreth. Lled gyffelyb yw y cyfreithiau sydd yn rhoddi y tai a'r tiroedd i'r cyntafanedig; a thrwy briodasau, ac amryw amgylchiadau eraill, y mae maes yn myned at faes, ac etifeddiaeth at etifeddiaeth, hyd onid ydyw tiroedd y deyrnas wedi myned yn berchenogaeth ychydig ddwylaw rhagor y bu, ac y byddai cymhwys ei fod eto. Er na bydd ond ychydig ar gyfer y cangenau isaf o deuluoedd y pendefigion hyn, y mae ganddynt ddylanwad digonol gyda'r tywysog, y swyddog, neu yr esgob, i gael swydd a lle yn yr eglwys, y fyddin, neu y llynges, neu rhyw nyth led gynhes tan y llywodraeth yn rhyw gŵr neu gilydd. Bydded eu hafradlonrwydd y faint y byddo, y mae yn nesaf i anmhosibl iddynt fod yn dlawd. O'r tu arall, y mae y rhai sydd wedi eu dysgu o'u mebyd i ddysgwyl wrth gyfraith y tlodion am gynorthwy, bron yn sicr o fod yn dlodion, genedlaeth ar ol cenedlaeth.

4. *Prïodi yn rhy ieuanc.* Y mae yn amlwg bod eisieu ystyried, nid yn unig pwy, ond hefyd pa bryd i brïodi. Dylai pawb fod am rai blyneddau yn gwneyd prawf o'r byd ac o hono ei hun, wedi tyfu i fyny, cyn prïodi, fel y gallo weled a all efe lywodraethu ei hun cyn myned i lywodraethn teulu, a gweled pa faint sydd ganddo yn ngweddill o'i gadw ei hun cyn addaw cadw neb arall. Nid yw prïodi, er ei fod yn osodiad Duw, ond direidi, heb fod rhyw olwg resymol am fywioliaeth, heblaw dywedyd fod y plwyf yn ddigon cryf, a bod hwnw i bawb. Cynildeb yn moreu oes am ddeng mlynedd yn y pâr prïodasol a fyddai bron yn ddigon i'w diogelu rhag llawer o eisieu wedi myned i'r ystâd hon. Ond yn lle hyny nid oes ond ychydig o'n pobl ieuainc yn gwybod gwerth arian hyd oni phrïodant, ac erbyn hyny deallant fod eisieu gwybod yn gynt. Cánt eu hunain mewn llyn dwfn cyn dysgu nofio, pan y gallasent ymarfer mewn dwfr basach lle nad oedd perygl boddi.

5. *Afradlonrwydd.* Y mae meddwdod a phob afrad arall yn dwyn tlodi yn uniongyrchol ar bobl o sefyllfa

gyffredin. Dull rhy uchel o fyw, a cheisio dilyn y rhai sydd uwchlaw i ni mewn bwyta, yfed, ac ymwisgo, a gynyrcha y naill haner o dlodi ac eisieu ein gwlad. Ar a wyddom nid oes cymaint a botwm corn, nodwydd ddur, na phin bach yn cael eu gwneyd yn Nghymru. Daw y cwbl o Loegr. Yn yr amser gynt pan oedd Elizabeth yn teyrnasu, yr oedd pawb yn nyddu ac yn gardio iddynt eu hunain, a phawb yn byw ar gynyrch ei dyddyn—talent i'r teiliwr, i'r gwehydd, ac i'r panwr, a'r rhai hyny yn y gymydogaeth; a thyna fyddai yr holl draul. Nid oedd y pryd hyny na thybaco, na thê, na siwgr, yn cael eu defnyddio, yn gyffredin o leiaf. Yr ydym yn cofio hen bobl yn ein cymydogaeth, y rhai a fedrent ddywedyd pwy oedd y rhai cyntaf a gafodd gynaliaeth o'r plwyf. Bu farw hen ŵr yn Meirion, tuag ugain mlynedd yn ol, yn agos i gant oed: pan oedd yn ddyn lled ieuanc, cymerodd dyddyn; a'r tro cyntaf y talodd dreth y tlodion, chwe' cheiniog y bunt oedd yn y flwyddyn; ond cyn ei farw bu yn talu yn yr un tyddyn, a'r trethiad yr un faint, bedwar-swllt-ar-bymtheg; hyny yw, yr oedd y dreth yn niwedd ei oes gymaint a'i ardreth, o fewn swllt, yn nechreu ei oes. Ac yn gymaint a bod pawb, o'r mwyaf hyd y lleiaf, yn cyrchu bron bob peth o'r shop, a'r siopwyr yn cael y cyfan o bell, aeth yr arian mor anhawdd eu cael a rhinwedd da ar grachfoneddig. Nid ydym am daraw ar fasnach, ond dylai pawb gymhwyso y gwadn at y troed. Pe byddai afrad y werin yn Nghymru wedi ei gasglu yn nghyd, byddai yn swm dychrynllyd.

6. *Rhyfyg ac anturiaeth afresymol* sydd lawer gwaith wedi achosi tlodi;—awydd myned yn gyfoethog mewn un-dydd-un-nos; fel y ci yn y ddameg, yn myned dros y bontbren, âg asgwrn yn ei geg, ac wrth weled cysgod yr asgwrn yn y dwfr, o wir awydd i'r hyn nid oedd ganddo, fe gollodd yr hyn oedd ganddo, wrth ollwng y sylwedd er dal y cysgod. Anaml y mae cŵn can ffoled a hyn, ond mynych yr abertha dyn i'w ddychymyg.

7. *Dïogi a difaterwch* a achosant dlodi pa le bynag y byddont. Dywed Solomon, "Y dïog a ddeisyf ac ni chaiff ddim, am fod ei ddwylaw yn gwrthod gweithio: felly y mae tlodi yn dyfod arno fel ymdeithydd, a'i angen fel gŵr arfog," sef yn annisgwyliadwy ac anwrthwynebol. Gwelir rhai fel pe baent wedi cael y parlys a gwywdra

tros eu holl gorff. Siaradant am bawb ac am bob peth, a gadawant lafurio i'r sawl a glywo ar eu calon. Y mae eraill mor ddifater, fel nas gwaeth ganddynt ffordd y cerddo y byd, llwm a llawen ydynt hwy; ni waeth ganddynt, ac ni waeth iddynt, beth yw pris y farchnad na chyflog y gweithiwr. Yr oedd gŵr a gwraig, lawer o flyneddau yn ol, yn arfer crwydro parthau o Ogledd Cymru, a elwid "Ned Leban" a "Chadi Libni." Yr oedd y ddau wedi ymgael i'r dim, y naill mor ddiymadferth a'r llall: nid oedd ganddynt ddim i'w edliw i'w gilydd; y ddau mor ddiwaith a dilun ag y gallent fod. Dyn lled dàl oedd Ned, ond ni safai byth yn syth; esgidiau baglog fyddai am ei draed, a'i goesau yn haner noeth: rhoddai gymaint ag a feddai am dano (fel Twmdwncyn), a llawer amlach twll na botwm ar ei wisg. Anfynych yr ymolchai, a phrin y tynai grib trwy ei wallt unwaith bob lleuad. Nid oedd Catrin, druan, ddim gwell: y cyfan ar a oedd yn ei chylch oeddynt ar ehedeg, heb rwym, trefn, nac ymgeledd. Cyfarfu holl ddefnyddiau tlodi yn y ddau hyn yn y fath fodd, fel pe buasai tlodi wedi ymgnawdoli ynddynt. Ond gwaethaf y modd, yr oeddynt yn epilio; ac y mae llïaws o'r rhywogaeth eto yn cerdded bryn a bro yn Nghymru.

"Bod plant gan blant methiantlyd,
Dyna'r bai sy'n diwyno'r byd."

Y mae tuedd fegerllyd a chardotlyd yn dra chynyrchiol o dlodi, ac odid gwelid neb a ddysgo yr arferion hyn byth yn eu rhoi heibio. Mynych y gwelir genethod o ddeuddeg i bymtheg oed yn cardota; wedi hyny ânt i wasanaethu am rai blynyddoedd. Ceir eu gweled yn eu *boots* a'u 'sanau gwynion, siwr;—yn fuan clywir eu bod yn feichiog. Yn lled fynych y mae y dynion a'u tynodd o'r ffordd yn eu prïodi, rhag ofn melldith Duw neu waradwydd dyn. Tua phen blwyddyn dechreuant ar yr hen grefft eilwaith, ac odid y peidiant tra gallont roi y naill droed heibio y llall. Y mae yn wirionedd anhyfryd i'w adrodd fod y fath yma yn blaid lïosog. Trugaredd fod, efallai, y rhan fwyaf, yn llawer gwell yn mhlith y rhai sydd yn gwasanaethu.

8. *Cynildeb dibwrpas ac annghredinioi.* "Un a wasgar ei dda, ac efe a chwanegir iddo; ac arall a arbed fwy nag

a weddai, a syrth i dlodi." Y mae y fath rai yn bod ag a elwid gynt, Gwrach y Cribsin; cynildeb wedi ei gario dros ei derfynau ydyw. Dywedir am wraig a aeth i geisio cawellaid o fawn, ac am fod y ffordd yn bell a'r baich yn drwm o'i hir gario, teimlodd y dylasai ddefnyddio ei baich mawn yn dra chynil; dododd hwynt ar y tân bob yn ddwy neu dair mawnen, a chymerth y fegin i chwythu y tân, a llosgodd y baich i gyd cyn berwi y pytatws; pryd y buasai chwarter y baich yn ateb y dyben pe rhoisid ef ar unwaith.

9. *Prinder gwaith* hefyd a gynyrcha dlodi yn dra mynych. Y mae yn olygfa annedwydd ddigon weled pobl weithgar yn methu cael gwaith. Gallai pawb iach ac o oedran cyfaddas enill rhywfaint ond cael gorchwyl at y pwrpas. Pe byddai iawn ddeall rhwng perchenogion tir-oedd a'r tenantiaid, gallai fod gwaith i bob math; oblegyd nid yw tir Cymru eto wedi ei haner amaethu. Y mae llawer o ucheldiroedd da, nad ydynt yn dwyn ond ychydig heblaw grug, crawcwellt, a brwyn, y rhai nid oes ynddynt nemawr at gynhaliaeth un anifail; llawer o dir lled isel hefyd sydd ry wlyb; peth yn rhy garegog i'w aredig; drain a mieri ac eithin y gath a orchuddiant erwau afrifed o dir Cymru. Pe byddai y boneddigion oll yn gwneyd fel y gwna ambell un, sef gwario eu rhenti i wellâu eu hetfeddiaethau, byddai digon o waith am oesoedd; a phe ceid gwaith i bawb, a phawb yn gweithio, a thâl cymhesur am lafur, tybygid na byddai raid cwyno llawer oblegyd tlodi yn ein gwlad. Er nad yw rhagluniaeth yn rhoi cyfoeth ond i rai, y mae yn gwasgar ei bendithion i bawb, a mwyniant y naill a'r llall a ymddibyna lawer ychwaneg ar eu hymddygiadau nag ar eu hamgylchiadau.

10. *Diffyg addysg a gwybodaeth* a bair i ddynion ymostwng i dlodi, heb wneyd nemawr ymdrech yn ei erbyn. Anwybodaeth a ddarostwng ddyn, i raddau, i agwedd yr anifail, ac y mae yn fynych yn ymlithro i dlodi heb wybod iddo ei hun. Teimla gwybodaeth oddiwrth orthrymder, ac a'i gwared ei hun o'i law ef. Gorthrymwyr ysprydol a thymhorol a garant gadw y gorthrymedig mor anwybodus ag asynod, rhag iddynt anesmwytho a thaflu yr iau oddiar eu gwarau. Y mae gwarth ar dlodi a dynom arnom ein hunain, yr hyn y mae gwybodaeth yn mhob modd am ei ochelyd. Pan y mae rhagluniaeth

yn uniongyrchol yn dwyn tlodi ar y weddw a'i thŵr plant, y gŵr neu y wraig yn colli eu hiechyd, un yn cael ei eni yn ddall neu anafus—y mae yn esgusodol, ac y mae awdwr ein natur wedi planu ynddi dosturi at y cyfryw wrthddrychau, fel y teimla mai dedwydd yw rhoddi yn hytrach na derbyn.

Bellach, ddarllenydd, beth bynag yw dy sefyllfa, gochel duchan yn erbyn rhagluniaeth y nef, oblegyd medd diareb, "Rhaid i duchan gael y drydedd;" hyny yw, fe'th ymddifada o lawer o'r cysuron a ellit eu mwynhau yn yr un amgylchiad, ond cael tymher well. Os myni ochel tlodi, gochel yr achosion o hyny, gan gofio fod achos ac effaith yn gysylltiedig anwahanol â'u gilydd; oblegyd er nad ydwyt wedi dy rwymo i dlodi, y mae pawb yn ddiwahaniaeth yn rhwym i ddwyn canlyniadau yr hyn a wnelont. Llwm ydyw pawb sydd yn treulio mwy nag sydd yn dyfod i mewn iddynt, pa faint bynag fyddo eu cyfoeth; a llawn yw pawb sydd yn gwario llai na'u henill, pa can lleied bynag y bo. Arfer lafur cywir, cynildeb a threfniant doeth, a gwyliadwriaeth gydwybodol yn erbyn pob afrad; gochel falchder, ac ymryson, a phorthi blys; dechreu yn ieuanc ar hyn; ac un i gant y gwna tlodi i ti ddim niwed*.

* Gwel "*Traethodydd*," Ebrill, 1849.

POBL Y MAWR GAM.

Y MAE rhyw gynifer o blant dynion, yn mhob gwlad ac oes, yn tybied o leiaf eu bod yn cael y dirfawr gam, a hyny yn fwy na'u cymydogion yn gyffredinol. Gwir yw fod yn rhaid i bawb ddyoddef rhyw gymaint o gamwri tra y byddont yn y byd hwn, pa un bynag ai saint ai pechaduriaid fyddont. Cyfraith Duw a wahardd bob cam ac a orchymyn bob uniondeb, eto amlwg yw fod rhagluniaeth Duw yn goddef i'r naill o feibion dynion orthrymu ar y llall. "Gwelais ddagrau y rhai gorthrymedig," medd y gŵr doeth, "a hwythau heb neb i'w cysuro; ac ar law eu treiswyr yr oedd gallu, a hwythau heb neb i'w cysuro." —"Edrych ar orchwyl Duw, canys pwy a all uniawni y peth a gamodd efe?" Nid oes dim yn wirioneddol gam yn ngoruchwyliaethau Duw, eto y mae llawer yn ymddangos i ni felly. Yr annhrefn a ymddengys i ni yn rhagluniaeth y Duw mawr—nid yw ond trefn allan o'n cyrhaedd ni. Ond i ni ddyfod at y pwnc, sef achos pobl y mawr gam. Y rhai hyn a dybiant eu bod yn cael cam beunydd: pan y mae y byd yn ymddwyn yn weddol tuag at eraill, ni chânt hwy ond ei waethaf. Tybiant fod y pen trymaf i'r ferfa arnynt hwy yn wastad, a bod eu gwaith yn galetach a'u gwobr yn llai na'r eiddo eraill. Os byddant yn mhlith llawer o weithwyr, byddant yn sicr o gael mwy na'u rhan o'r gwaith. Yr oedd gynt gan Mr. Fychan, o Gorsygedol, hen weithiwr a elwid Huw Cefn-y-dre, ac yr oedd yn un o'r dosbarth sydd yn cael y mawr gam. Cwynai o herwydd aml fath o gamwri, megys yn ei swydd; ond yn y cynhauaf medi, byddai Huw yn cael y grwn lletaf bob amser, nes ei fyned yn ddïareb, os cwynai rhywun wrth fedi fod ei rwn yn llydan, dywedid ei fod fel Huw Cefn-y-dre. Y mae cryn lawer o'r tuchanwyr hyn yn barod i gyhuddo y crydd, y gwëydd, a'r panwr, ac ni ddïanc neb ganddynt—siopwr na chrefftwr o ba gelfyddyd bynag y bo; neu os masnachwr neu grefftwr fydd y tuchanwr, bydd ei gwsmeriaid yn saith waeth na'r eiddo neb arall. Yr oedd hen glochydd unwaith yn

dygwydd bod o'r dosbarth cwynfanus. Ar gladdedigaeth y marw, cwynai ei fod yn cael llawer llai o offrwm ar yr achlysuron hyn na pherson y plwyf, a bod ei lafur ef yn llawer mwy yn tori y bedd na llafur ei feistr yn darllen uwch ei ben, a bod cau y bedd yn fwy o ffwdan o gryn lawer na chau y llyfr. Un tro aeth yr hen frawd hwn a'r gaib a'r trosol i'r efail i'w blaenllymu, a dywedai wrth y gof, "A wnewch chwi drwsio y rhai hyn (arfau y plwyf ydynt), fel y byddont yn barod i dori bedd os daw arnaf byth eu heisieu, oblegyd ni fu dim achosion o'r fath yn y plwyf er's llawer dydd bellach." Y mae yn anhawdd rhoddi ar bapur y dymher gwynfanus yn yr hon y dywedai y clochydd ei neges wrth y gof, ond amlwg yw ei fod yn cwyno na buasai angeu yn llithricach ei law yn danfon hen bobl a phlant i dragwyddoldeb (parod neu anmharod) fel y caffai efe rywbeth i'w wneyd, er lleied oedd ei dâl—

"A'i gaib a'i raw fe geibiai rych."

Darparai y tŷ rhagderfynedig i bob dyn byw, heb feddwl fawr fod y dyn yn fyw a ddefnyddiai yr un arfau i dori bedd iddo yntau.

Y mae aml un hefyd yn teimlo nad ydynt yn cael eu caru na'u parchu fel yr haeddant. Cwynant fod eu brodyr heb eu gweled, a bod hyn yn brofedigaeth iddynt gydol eu hoes. Os dygwydd fod pregethwr o'r dymher hon, cwyna fod ei wrandawyr yn oerllyd, yn gysglyd, ac yn anaml; fod bydolrwydd wedi ymdaenu dros wlad ac eglwys, ac nad oes bris gan y naill na'r llall ar weinidogaeth yr efengyl. Tebyg yw fod aml un yn yr Ysgol Sabbathol yn teimlo ei fod yn cael cam na buasai yn arolygwr arni er's llawer dydd, a bod aelodau cyffredin yn yr eglwys weithiau i'w cael yn teimlo pe cawsent gyfiawnder y buasent yn flaenoriaid er's rhai blynyddau. Gall fod eraill hefyd yn teimlo mai rhagfarn, gorthrymder, a cham, yw yr achos na buasent hwythau yn y pulpud yn mhell cyn hyn. Ymddengys fod ambell un yn teimlo yn dost, ac yn achwyn yn dost, ar eu cydgreaduriaid yn galed, am nad ydynt yn foddlawn i gymeryd eu golygiadau hwy fel rheol anffaeledig i'w ffydd a'u hymarferiad yn mhob dim. Teimlant eu hunain yn goddef cam, am na osodai dynolryw hwynt yn nghader anffaeledigrwydd yn Rhufain,

y naill ar ol y llall. Yn awr, gan fod yn eglur mai yn ansawdd y meddwl y mae prif achos y duchanfa hon, a'i bod yn anffawd y dynion hyn yn gystal a'u bai, ni a gynygiwn at y feddyginiaeth; ac

Yn gyntaf, *Gocheled y cyfryw yspryd hunanol y rhai sydd a'u serch arnynt eu hunain*, gan hòni hawl i fwy nag sydd ddyledus oddiwrth Dduw na dynion, ac yn barod i gondemnio pawb am na chydnabyddent eu hawl; oblegyd ped ai yr yspryd hunanol a thuchanllyd hwn i'r nef ei hun, i blith y cyfiawnion eu hunain, gellid dysgwyl ei glywed yn cyhuddo Noah, Daniel, a Job, o wneyd rhyw gam âg ef; ac ni ddïangai Moses a'r prophwydi ddim rhagddo,—barnai yr hwn sydd gyfiawn odiaeth yn annuwiol.

Yn ail, *Ystyrier nad yw y cam yn wirioneddol oddieithr yn anfynych iawn*. Nis gallai fod grwn Huw y lletaf bob tro, ac nid oedd rheswm i'r hen glochydd ddysgwyl cymaint tâl a'i feistr, am nad oedd ei ddygiad i fyny wedi costio ond tipyn mewn cymhariaeth i weinidog y plwyf. Anwybodaeth ac anystyriaeth a barant i ddynion dybied eu bod yn cael cam pryd na byddont. Clywsom am deiliwr, yr hwn oedd yn byw yn swydd Ceredigion, er's yn agos i gan' mlynedd yn ol—yr oedd y tê y pryd hyny yn bur annghyffredin—clywsai *Jack* (oblegyd felly y gelwid y teiliwr) son am y tê er's cryn dro, ond nid oedd erioed wedí gweled nac archwaethu dim o hono; ond am fod *Jack* yn arfer cael bara càn, a chroesaw yn mhob tŷ, aeth yn hoff o ddanteithion, a charai amrywiaeth ac amheuthyn; ond yr oedd y tê o hyd yn ddyeithr iddo. Ac wedi hir ddysgwyl, cafodd ei wahodd i dŷ gwraig barchus, o fewn cylch ei gydnabyddiaeth, i weithio iddi ar ei grefft fuddiol a pharchus fel teiliwr. "Wel, hon a hon," ebe fe wrth ei wraig, "fe gaf finau dê: yr wyf yn myned i weithio at Mrs. hon a hon, o'r fan a'r fan, ac y mae hi yn yfed tê." "Cawn glywed," ebe y wraig. Pa fodd bynag, daeth yr amser i *Jack* fyned at ei job; ac wedi darfod, dychwelai at ei wraig. "Wel, Jack, a gefaist ti dê?" ebe hi. "Do," meddai *Jack*, yn edrych yn lled siomedig, "mi gefais dipyn o ddwr oddiarno; ond mi gymerodd y wraig dda ddigon o ofal am gadw y dail iddi ei hunan." Ac, meddwch chwi, wŷr a gwragedd Cymru, onid oedd y teiliwr yn achwyn heb achos? Oni

ŵyr holl wragedd y Dywysogaeth erbyn hyn mai yn y drwyth y mae y boddhâd, ac nid yn y dail; ond chwareu teg i'r hen deiliwr, yr oedd tywyllwch yr oes yr oedd yn byw ynddi yn ei esgusodi i raddau mawr, pan y mae goleuni yr oes hon yn condemnio y rhai sydd yn cwyno heb achos, oblegyd eto

"Rhyw bwnio mae rhai beunydd,
A llunio bai lle na bydd."

Cofied pawb, gan hyny, wrth achwyn ei gam, rhag ei fod yn gyffelyb i'r teiliwr o swydd Ceredigion.

Yn drydydd, *Cofier yn wastad mai y cam mwyaf a ga dyn ydyw y cam a wna ag ef ei hun.* Enaid pob cam yw gwneuthur cam âg enaid. Meddai doethineb, "Y neb a becho yn fy erbyn, a wna gam â'i enaid ei hun." Y mae yn llawer gwell dyoddef cam na'i wneuthur. O! mor ofnadwy yw y cam a wna rhai dysgawdwyr âg eneidiau eu gwrandawyr, y rhai a ddysgant orchymynion a dychymygion dynion iddynt yn lle dysgeidiaeth Duw; ac nid llai arswydus ydyw y cam a wna gwrandawyr yr efengyl â'u heneidiau wrth wrthod ac esgeuluso unig iachawdwriaeth yr unig enaid sydd ganddynt. Dyma gam a wneir gan ddynion â hwy eu hunain—cam na ddichon neb arall wneyd ei fath. O ddyn! na wna i ti dy hun ddim niweid.

Yn bedwerydd, *Gydag ychydig wyliadwriaeth gellir gochel cam oddiar law ein cydgreaduriaid mewn pethau tymhorol yn lled weddol.* Ac er fod ein gair da a'n talentau yn agored i gam oddiar law ein cymydogion, yn mhlith y rhai y cenfigena ambell un wrth ein llwyddiant, ac y byddwn yn wrthddrychau rhagfarn rhai eraill; eto ar y cyfan, ni a gawn ein hawl gan y corff cyffredin o'r ddynoliaeth. Os bydd rhai yn atgas tuag atom, bydd y lleill yn dirionach tuag atom na'n haeddiant; os bydd rhai am ein gorthrymu, bydd eraill yn barod i'n hamddiffyn; os bydd rhai yn ein beio pryd na bydd bai, bydd eraill yn ein canmol yn uwch na'n teilyngdod; os cyhuddir ni weithiau o ffolineb, priodolir i ni bryd arall fwy o ddoethineb nag a feddianwn. Felly, wrth fwrw ol a blaen, nid oes nemawr berygl y cawn lawer o gam. Yn gyffredinol, os bydd ffordd gŵr yn rhyngu bodd i'r Arglwydd yn dda, fe bair

i'w elynion, bob yn dipyn, fod yn heddychol âg ef. Yn ddrwg, fel y mae y byd, eto fe gydnabyddir "rhai llariaidd y ddaear, a rhai llednais y tir," a pharchedigaeth, y rhai geirwir a gonest âg ymddiried, a'r doeth a'r gwybodus âg ymostyngiad. Y mae rhyw gyfiawnder ofnadwy a thragwyddol yn bod, yr hwn y mae dynolryw mewn rhyw fodd a rhyw raddau yn ei deimlo yn eu gorfodogi i dystiolaethu y gwir. Cafodd Cromwell gam dirfawr gan lawer o'i gydoeswyr, a'r oesoedd canlynol;—cyfrifid ef yn ormeswr mewn llywodraeth, ac yn rhagrithiwr mewn crefydd; ond yn ein dyddiau ni y mae haneswyr o'r talentau dysgleiriaf yn rhoddi iddo ei wir gymeriad—talant iddo yr eiddo ei hun gyda llôg. Yr Arglwydd Iesu hefyd, pentywysog a pherffeithydd ein ffydd, cafodd yntau ei gamgyhuddo, ond ni lynai ei gamgyhuddiadau wrtho; y mae ei *garacter* nid yn unig yn uchel, ond yn berffaith, a bydded ei elynion yn farnwyr. Yn fuan, fuan, fe ddaw y Barnwr cyfiawn i sefyll uwch ben ein hachos, a gallwn fod yn berffaith ddïofal na chawn gam oddiar ei law—bydd barn wrth linyn a chyfiawnder wrth bwys. "Yr hwn sydd yn gwneuthur cam, a dderbyn am y cam a wnaeth, ac nid oes derbyn wyneb. Canys cyfiawn yw ger bron Duw dalu cystudd i'r rhai sydd yn eich cystuddio chwi; ac i chwithau, y rhai a gystuddir, esmwythdra gyda ni yn ymddangosiad yr Arglwydd Iesu o'r nef gyda'i angelion nerthol."*

* Gwel "*Traethodydd*," Ionawr, 1852,

YR HEN BOBL.

Dyn ydyw dyn yn holl dymorau ei oes. Ceir gweled prif ddeddfau ei natur yn gweithredu o'i febyd i'w fedd. Câr ei ddedwyddwch ei hun, a chymeradwyaeth ei gydddynion, gydol ei daith trwy byd. Y mae yn wir er hyny fod rhyw bethau yn fwy tueddol iddo yn blentyn, a phethau eraill yn ganol oed; ac odid, os gwel ddyddiau henaint, na bydd ganddo deimladau gwahanol i'r hyn oedd ganddo yn nechreu a chanol oes. Efallai nad yw y rheol hon heb ryw gymaint o eithriadau iddi fel rheolau cyffredinol eraill. Gwelir weithiau fachgen yn synied ac yn teimlo fel dyn mewn oed, ac ambell henafgwr yn parhau yn ieuengaidd ei yspryd, ac yn cydgerdded â'r oes bresenol, er fod ei gyfoedion naill ai yn y bedd neu fel y llong y mordwyai Paul ynddi i Rufain, pen blaen yr hon a lynodd ac a safodd yn ddiysgog, nes i'r pen ôl ddattod a myned yn chwilfriw.

Hawdd gan henaint erioed feio ar yr amser presenol, ac megys yr oedd yn y dechreu y mae yr awr hon. Gellir barnu oddiwrth eu cân fod y byd yn myned yn waeth bob oes wedi y dylif. Mae hyd yn nod natur ddifywyd yn newid er gwaeth. 'Nid yw yr hîn càn deced,' medd yr henŵr, 'a phan yr oeddwn i yn ieuanc. Byddid y pryd hwnw yn gollwng yr ychain am oriau lawer ganol dydd wrth hau haidd yn niwedd Ebrill a dechreu Mai: a phrin y gellid codi eu penau o'r glaswellt gan y tyfu yr oedd y braenar; ond yrŵan, y mae yn oer ddigon bymthegnos o hâf.' Un o'r hen dadau hyn a ddywedai fod cyfnewidiadau rhyfedd yn cymeryd lle yn y byd, fod y bobl yn y dyddiau hyn yn siarad yn îs, yn cerdded yn gyflymach, ac yn bwyta yn gynt; a bod y cerig yn drymach; 'ac hyd yn nod y tân,' meddai, 'mae yntau yn altro; mae yn llawer oerach na phan oeddwn i yn fachgen.' Gwaith ofer yw dywedyd wrth 'y gwŷr hên, sydd o flaen y tŷ,' mai ynddynt hwy y mae y cyfnewidiad, sef eu bod wedi colli y gallu i fwynhau pethau fel y buont gynt; nad oes ganddynt

mo yr archwaeth at degwch a phrydferthwch fel pan oeddynt yn ieuainc; eu bod yn clywed yn drymach; ac ar ol colli mwy na haner eu danedd, eu bod yn hwy yn bwyta; a'u bod yn wanach i gerdded yn gyflym i ganlyn y fintai. 'Nage,' medd fy ewythr, 'y byd sydd yn newid; nid wyf fi ond yr un un.' Mae yn drwm genyf weled pob peth yn myned ar ei hên sodlau: pa beth a ddaw o'r byd, ni's gwn.

Yr oeddwn yn gwybod am un hen gyfaill oedranus, pur *independent*—nid oedd waeth ganddo pwy na pha beth a fyddai neb. Yr oedd tua phymtheg-a-thriugain oed, yn iach a sionc. Yr oedd ganddo hefyd arian a gasglasai ef ei hun, llôg y rhai oedd yn llawn ddigon i'w gadw yn gysurus, càn belled ag y gwna arian hyny. Yr oedd, pa fodd bynag, wedi dyfod er ys tro i ddosbarth yr Hen Bobl. Efe oedd gynghorwr ar bob achos yn mron yn y pentref lle yr oedd yn byw. Yr oedd yn hynod lân ei drwsiad o'i goryn i'w sawdl, a gallai y gath weled ei chysgod wrth edrych ar ei esgidau, gan mor ddysglaer yr oeddynt wedi eu *blackio* â'r *blacking* goreu oedd i'w gael am arian. Nid oedd bin o'i le mewn unman, na chymaint a botwm yn eisieu. Ei grys oedd càn wyned a'r eira, a'i hosanau yn lanach na chadach gwddf llawer un. Ni welid ysmotyn ar ei *goat*, na tholc yn ei het; ac am hyny o wallt oedd ganddo, yr oedd yn ei gribo a'i osod mewn trefn bob dydd càn sicred a chodi haul. Am eirwiredd ac onestrwydd cyffredinol, nid oedd neb yn sefyll yn uwch mewn un gymydogaeth o Gaergybi i Gaerdydd. Ni ddeallasom ei fod yn gofidio oblegyd dryllio Joseph, nac yn pryderu oblegyd ei bechod; ac am nad yw y byd yn meddwl llawer am hyny, yr oedd yr henwr, fel yr oedd, yn hynod o barchus a mawr ei ddylanwad. Eisteddai mewn cadair freichiau yn yr un parlwr bob amser yn y gwest-dŷ mwyaf yn y pentref lle y trigai; ac mor gymeradwy oedd ei berson yn ngolwg y tafarnwr, nes y mynodd gael tynu ei lun, a'i osod yn y mur uwch ben y tân yn y parlwr mawr. Yr oedd ganddo air i'w ddywedyd ar bron bob peth a ddygwyddai ddyfod o'i flaen; ac yr oedd llyfr coffawdwriaeth yr amseroedd yn dra hysbys iddo ef; ac os dygwyddai rhyw bethau weithiau gael eu taflu i lawr yn yr ymddyddan ar nad oedd efe yn ei ddeall, cymerai arno ei fod; ac yr oedd hyny yn ateb bron yr un dyben gyda'r

cwmni yr oedd ef yn eistedd yn benaf yn eu mysg a phe buasai yn eu gwybod yn drwyadl.

Yr oedd, pa fodd bynag, yn barnu fod doethineb wedi marw gyda'r hen bobl, heblaw oedd yn aros ynddo ef; ac fe dyngai nad oedd nac areithwyr na phrydyddion yn awr fel cynt; a bod adfeiliad a malldod ar bob peth yn mhob man, o'r orsedd i'r bwthyn. 'Pa le,' meddai, 'y mae swyddogion gwladol fel Fox a Pitt? Ac am brydyddion, y mae yr oes wedi myned yn ei gwrthol tu hwnt i fesur. Pa le y cewch neb yn y dyddiau hyn cyffelyb i Goronwy Owen o Fôn, a llawer o'i flaen; ac nid hwyrach un neu ddau ar ei ol?' Dywedai ambell un wrtho, 'Onid oedd Dafydd Ionawr, awdwr Cywydd y Drindod, yn fardd campus, ac yn gwario ei dalent ar y goreu? A pheth am Dewi Wyn, y bardd o'r Gaerwen, awdwr yr Awdl ar Elusengarwch, ac Englynion Pont Menai, a llawer o gyfansoddiadau eraill, nerthol a chyffrous? Llewyrchodd y rhai hyn, a llawer eraill yn fy oes i, ac y mae yn fyw brydyddion campus.' 'Lol i gyd,' ebe yntau, 'nid oes genych farn am brydyddiaeth, onide ni siaradech fel yna. Mae yn wir ddarllenais i mo waith y prydyddion a enwasoch; oblegyd nid ydynt yn werth eu darllen, mwy na bagad o'u cyffelyb sydd yn rhyw rigymu yn y dyddiau hyn. Mae un linell o waith Goronwy Owen yn werth y cwbl. Prydyddion, yn wir, yn yr oes yma! na choeliaf fi, na dim yn debyg chwaith. Ni waeth i chwi un gair na chant; mae gogoniant Prydain yn ymadael.' 'Ond, fy hen gâr,' meddai rhywun, 'gadewch i hyny fod; y mae celfyddyd yn myned rhagddi yn hynod. Y mae llawer peth y gellir dywedyd am dano, Edrych ar hwn dyma beth newydd.' 'Ho, mi welaf eich bod yn cyfeirio at yr agerdd-longau, agerdd-gerbydau ar y ffyrdd haiarn, a'r cyffelyb bethau. 'Rwy'n dyweyd yn hyf mai melldith gwlad a thref yw y pethau hyn oll. Siaradwch chwi am lestr agerdd os mynwch; ond rhowch i mi long dda, a hwyliau da arni, a gwynt teg, a mawr dda i chwi ar eich llongau tân, hefo eu boilers mawrion, yn y perygl o dori a chwythu pawb i ddinystr bob mynyd. Ac am y ffyrdd haiarn, nid oes i mi a wnelwyf â hwynt, mwy na'r agerdd longau. Cefn y ffordd fawr i mi, cerbyd a cheffylau, tafarndai yma ac acw ar bob llaw, trôlyn o goachman gwridgoch, a chàn dewed a'r facrell, y guard a'i gornet a'i chwibanogl, a'r ddau càn

hapused a phe baent dywysogion. *Steam Coaches* yn rhodd! pwy a all ymddiried nad allent redeg eu gilydd, a dryllio naill y llall càn faned ag y gallai yr hen wragedd glywed arnynt hel y coed i fyned adre i ferwi y *tea-kettle;* heblaw yr enbydrwydd y sydd i'r teithwyr gael dryllio eu holl esgyrn, a chwythu aelodau rhai o honynt i fyny i'r cymylau yn ddisymwth fel mellten? Dywedir hefyd eu bod yn teithio mor gyflym ag y bydd y maesydd a'r coedydd yn ymddangos yn troi fel chwrligwgan. Pa gysur yw teithio fel hyn? Ni bum i mewn *steam coach* erioed, ac nid âf yn fy oes. Gwaith ffol i'r oes hon fostio o'i *steam*, ni ddaw dim daioni oddiwrtho fo beth bynag.' 'Ond, syr,' ebe un wrtho, 'bernwch fod teithio fel hyn yn beryglus, eto, gan ei fod yn gyflym, mae yn dwyn y dynol deulu yn nes at eu gilydd, ac y mae dynolryw drwy hyny yn llyfnhau rywfaint ar eu gilydd fel ceryg yr afon wrth ymrwbio y naill yn y llall.' 'Syr,' ebe yntau, 'nis caniatâf fi fod unrhyw ddaioni yn cael ei wneyd trwy hyny. Gwir ein bod yn cario ein gwareidd-dra i blith cenhedloedd anwar; ond yr ydym yn cario ein drwg arferion a'n hafiechyd hefyd i ganlyn hyny, fel y mae yn anhawdd dywedyd a ydynt ronyn gwell gyda ni nag hebddom ni. Cyn ein dyfod, yr oeddynt yn rhydd, yn gryfion, ac yn iach; ac nid oedd arnynt ond ychydig eisieu; a'r peth mwyaf a wnawn ni yw gweithio angen i'w natur ar nad oedd o'r blaen. Ac wedi hyny, maent yn methu diwallu yr anghenion gwneuthuredig; a thrwy hyny, maent yn cael eu gwneyd yn fwy truenus. Na; gwell iddynt ein lle na'n cwmni.' Ddarllenydd, y mae yr hen frawd hwn wedi marw er ys tro bellach, ond y mae llawer o'i gyffelyb eto ar y ddaear.

Nid yw y gyfrinach a berthyn i'r dymher hon yn anhawdd ei chael allan. Sonia ein hen gyfeillion am lygredigaeth yr oes, a chymerant yn ganiatâol na lygrasant hwy i ganlyn yr oes; a disgwyliant fod eraill yn synied yr un peth. Y mae hunanoldeb y natur ddynol yn ddeddf gref, ac ni bydd farw yn yr hen ŵr heb i ryw egwyddor well ei threchu; ac yn wir, er ei marweiddio, y mae heb farw yn y goreu o ddynion tra byddont byw. Yn nyddiau henaint, y mae dynion yn gadael yr esgynlawr lle y mae llawer math o orchestion, ac oddiar lawr edrychant i fyny gyda rhyw gymaint o ragfarn, mwy neu lai, wrth fel y maent yn bleidiol i'w cyflawniadau eu hunain. Mae

yn anhawdd gochel pleidgarwch yn yr achosion hyn o herwydd grymusder y ddeddf o hunanoldeb yn ein natur. Côf genym glywed am un hen fenyw yn rhoi gorchymyn nghylch ei hwylnos a'i chynhebrwng: 'Gwnewch,' meddai hi, 'y ddiod boeth yn dda, a rhowch ddigon o *spices* ynddi, a gofalwch am ei chadw yn gynhes; rhowch y bwrdd mawr yn y gegin oreu, a'r llian bwrdd goreu arno erbyn ciniaw; a byddwch siwr o wneud cacenau wylnos dda, beth bynag; *ond o ran hyny, ni bydd fawr o drefn ar ddim, oni buasai fy mod i yno fy hunan.*'

Arferiad maith unrhyw beth a bair weithiau fod gwahaniaethu oddiwrtho yn ymddangos yn fai erchyll. Soniai rhywun wrth hen ddysgybles o Faptist, er ys tro yn ol, fod lle i fedyddio yn cael ei wneyd oddifewn i lawer o'u capelydd y dyddiau hyn. 'Mae hyny yn burion gan ryw fath,' ebai hi, 'ond *afon i mi.*' Nid yw henaint yn gyffredin yn hoffi nemawr ddim o'r newydd. Hen dŷ lle y treuliodd ganolddydd ei oes i'r hên ŵr, yn hytrach na phalas newydd; yr hen gongl iddo ef, hyd yn nod pe byddai yr huddygl yn disgyn yn fynych am ei ben ac weithiau i'w fwyd. Hen ddodrefn, a hen bobpeth, i hen ddyddiau. Gan rym rhagfarn, gwrthodai yr holl feddygon oedd dros ddeugain oed, meddir, ddarganfyddiad y Doctor Harvey am gylchrediad y gwaed yn y corph dynol, yr hyn a barodd i'r Doctor golli ei barch fel meddyg i raddau mawr. Fel hyn, i raddau, y mae mewn crefydd: hen gapel, hen bulpud, hen benill, ac yn enwedig hen fesurau, i'r hen bobl. Dywedai un na chlywodd ef neb erioed yn gorfoleddu ar fesur newydd. Y mae yn rhaid hefyd pregethu yn ngeiriau a dull yr unfed-ganrif-ar-bymtheg, os amgen bydd y pregethwr yn gyfeiliornwr, pe byddai cân iachused ei gredo â'r deuddeg apostol. Bu rhagfarn enbyd yn erbyn yr Ysgol Sabbothol yn y dechreu. Dirwest, hithau a dderbyniodd gyfryw ddywedyd yn ei herbyn gan rai henafgwyr, yn unig am ei bod yn beth newydd.

Dedwydd benwyni a fo mewn ffordd cyfiawnder! Gwyn ei fyd yr hên ŵr mwynlan a fyddo mor ddoeth a deallus a chadw ei ben yn agored i dderbyn pob gwir, ïe, pe byddai mewn rhyw ddull yn newydd; ac y byddo ei galon mor rasol a gonest fel y gwrthodai bob drwg, pe byddai càn hened a Methusaleh. Ond garw amled y mae yn y gwrthwyneb!

Nid ydym byth yn blino wrth glywed canmawl ein hen

dadau, a'u gwenidogaeth nerthol a gwlithog. Ond paham y gwneir hyny er diraddu y rhai sydd yn fyw? Nid yw hyny ond moli y sawl a fu ar draul y rhai sydd. Rhoddodd Duw i'n tadau at eu hamser hwy, ac atebodd y dyben mewn gradd helaeth; a hyderwn ei fod yn rhoddi yn ein dyddiau ninau genadwri addas i'r amgylchiadau presenol. Ar yr un pryd, pell ydym oddiwrth feddwl nad oes arnom wir angen am ychwaneg o ddawn ac yspryd y weinidogaeth; ac O! disgyned graddau eraill o'r eneiniad oddiwrth 'y Sanctaidd hwnw' ar ei weinidogion yn y dyddiau hyn, i wybod pob peth a berthyn i waith eu tymmor hwy! Ffroër hefyd galonau y tadau at y plant, fel trwy hyny y troër calonau y plant atynt hwythau, rhag i ni gael ein taro â melldith, o eisieu rhodio mewn cariad y naill tuag at y llall.

O! morhyfryd yw gweled henafgwr wedi ei goroni â gwallt gwyn yn ngwasanaeth ei Arglwydd, ac wedi ei ddigoni a hir ddyddiau, yn dirf ac iraidd yn ei henaint, ac yn blodeuo eto yn nghynteddau ein Duw ni, ei fronau yn llawn llaeth i'r rhai ieuainc, â'i esgyrn yn iraidd gan fêr. Cofiwch, henaint, pa faint bynag yw y cyfnewidiadau y sydd, ac er fod rhai pethau fe allai er gwaeth, fod Duw yr un. 'Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd.' Ni bu yr efengyl erioed yn fwy gogoneddus ynddi ei hun nag ydyw heddyw. Y fraint o wasanaethu Duw sydd lawn cymaint ag erioed, a pho hwyaf y byddom byw, mwyaf yw ein dyled iddo.

Hen frawd, a hen chwaer! deuwn ninau yn lled fuan i'ch plith, os arbedir ein bywyd ond am ychydig o flynyddoedd. A chyfarfod da i ni. Yn y diwedd ein gollwng a gaffom mewn tangnefedd, â'n llygaid yn gweled iachawdwriaeth Duw.*

* Gwel "*Traethodydd*," Gorphenaf, 1845.

Y BOBL IEUAINGC.

Clywsom ddywedyd gan y rhai gynt, "Unwaith yn ddyn a dwywaith yn blentyn." Enillodd y wir ddïareb hon, fel eraill o'i chyffelyb, gydsyniad dynolryw, yn unig am ei bod yn cynwys gwirionedd digon eglur i dynu sylw pawb sydd yn edrych i bethau, heblaw arnynt. Ond nid yw yn canlyn fod dyn unwaith yn ŵr, a dwywaith yn ddyn ieuangc. Nac ydyw: ni fwynheir ac ni threulir y tymhor hwn, mwy na chanol oes, onid unwaith. Pa beth bynag sydd o werth, ac nad oes onid un cynyg arno, y mae o bwys gwneyd y goreu o'r cyfryw amgylchiadau, pa bryd bynag eu cyfarfyddom. Dyddiau ieuengctyd sydd yn un, ac yn un pwysig, o'r amgylchiadau hyn; oblegyd y mae ieuengctyd yn cymysgu a berwi cawl yn moreu eu bywyd yr hwn a bâr rhagluniaeth fawr y nef trwy ddeddf dragwyddol iddynt yfed o hono yn nghanolddydd a phrydnawn eu hoes, pa un bynag a fydd at eu harchwaeth ai peidio. Cyweirio eu gwelyau y mae y rhai ieuaingc hyn, a hwy *raid* orwedd ynddynt. Dyma dynged pob math ar ddyn, ac nid oes ymwared. Mae chwantau a nwydau y natur ddynol ar ol y cwymp yn dyfod i'w grym flynyddoedd o flaen rheswm a barn; a'r lle y mae y nwydau a'r tueddiadau yn llywodraethu, yr hyn nad amcanwyd hwynt iddo, odid dan y cyfryw amgylchiadau y gweithreda na rheswm na barn yn ddiduedd, nac i ateb un dyben daionus; oblegyd dan lywodraeth chwant pa bynag, mae gwirionedd yn cwympo yn yr heol, ac ni chaiff barn na chyfiawnder ddyfod i mewn. Dichon hefyd fod tuedd gref mewn dyn ieuangc yn enwedig, yn ddiarwybod iddo ei hun; megys pan y mae dyn mewn neu ar ben cerbyd ag sydd yn symud yn ol ugain milldir yn yr awr, y mae ysgogiad yn ei gorph a barai fod neidio o'r cerbyd ar y pryd yn dra enbyd, rhagor pe buasai y cerbyd yn llonydd: ond nid yw dynion yn gyffredin yn teimlo hyn. Felly yn gymhwys, gall fod ffrydiau natur yn rhedeg yn gryfion iawn, yn ddiarwybod i'r dyn sydd yn myned gyda'r lli. Yn awr gan hyny, gan fod y pethau hyn felly, efallai na

chymer y dosbarth hwn o ddarllenwyr y "*Traethodydd*" (nid amgen yr ieuengctyd) yn anngharedig arnom nodi rhai pethau yn eu natur sydd yn gwneuthur y rhan hon o'u taith yn fwy peryglus nag un ran arall o dir eu hymdaith.

Yr oedd hen ddysgybl yn nghymydogaeth y Bala, a elwid Abram y Ceunant, yr hwn oedd hynod am undeb mewn egwyddor a gweithred. Ar ryw foreu teg yn y cynhauaf, aeth Abram i roi help llaw i gymydog parchus ganddo; ond troes y boreu teg yn brydnawn gwlawog; ac mor gymeradwy oedd yr hen frawd, ac mor anmheuthyn ei ddull a'i ddawn, fel y mynai y teulu iddo gadw addoliad teuluaidd ganol dydd. Wedi diolch am adferiad iechyd y wraig, a gweddio am estyniad iechyd a hir oes i'r gŵr a'r wraig, yn gystled ag am ras ac arweiniad Yspryd Duw iddynt lanw lle penteulu, erfyniai am i'r Duw mawr gadw y plant rhag cael niwed trwy demtasiynau y diafol, "yn enwedig," ebai Abram, "y rhai sydd o bymtheg i bump-ar-hugain oed—*amser gwan ar ddyn, ti wyddost Arglwydd.*" Tybiem fod ein tad Abram yn hyn yn *good authority*, yn gymaint a'i fod yn effaith sylw manwl a maith; oblegyd yr oedd Abram y pryd hwn yn oedranus, ac yn llefaru ïaith natur mor anmhleidgar ag un dyn wedi y dylif. Yr oedd meddwl drwg am ei gymydog, neu draethu gweniaith wrtho, can belled oddiwrth Abram ag yw y dwyrain oddwrth y gorllewin. Ond, ieuengctyd, os nad ydych yn teimlo eich hunain yn cydsynio yn rhwydd â chyffes yr hen Gristion hwn, ond yn barod fel y goludog i ddywedyd, "Nage, y tad Abraham;" y mae yn rhaid i ni gael lleferydd rhywrai o blith y meirw, onide nis credwn ddim. Wele, attolwg, ieuengctyd, wrth bwy ac am bwy y llefarai Solomon, y doethaf o'r holl ddynion, yn y chweched a'r seithfed o'r Diarhebion? "Fy mab, cadw orchymyn dy Dad, ac nac ymâd â chyfraith dy fam. Canys canwyll yw y gorchymyn, a goleuni yw y gyfraith, a ffordd i fywyd yw ceryddon addysg; i'th gadw rhag y fenyw ddrwg, a rhag gweniaith tafod y ddyeithr. Na chwenych ei phryd hi yn dy galon; ac na âd iddi dy ddal â'i hamrantau." Eilwaith: "Canys a mi yn eistedd yn ffenestr fy nhŷ, mi a edrychais trwy fy nellt, a mi a welais yn mysg y ffyliaid, ïe, mi a ganfûm yn mhlith yr ieuengctyd, ddyn ieuangc heb ddeall ganddo, yn myned ar hyd yr heol gerllaw ei chongl hi; ac wele fenyw yn cyf-

arfod âg ef, a chanddi ymddygiad putain—hi a ymafaelodd ynddo, ac â'i cusanodd ef, ac âg wyneb digywilydd hi a ddywedodd wrtho fod arni aberth hedd, heddyw y cywirais fy adduned"—dernyn o'r rhagrith perffeithiaf a draethodd un *santmantes* er dyddiau Adda. Modd bynag, "Hi a'i troes ef â'i haml eiriau teg, ac â gweniàith ei gwefusau y cymhellodd hi ef; ac efe a'i canlynodd hi ar frys, fel yr ŷch yn myned i'r lladdfa, neu fel yr ynfyd yn myned i'r cyffion i'w gosbi; hyd oni ddryllio y saeth ei afu ef, fel yr aderyn yn prysuro i'r fagl, heb wybod ei fod yn erbyn ei einioes ef." Anerchiad arall a gyfeirir atoch chwi yn uniongyrchol gan frenin Israel: "Fy mab, os pechaduriaid a'th ddenant, na chytuna. Os dywedant, Tyred gyda ni, cynllwynwn am waed, ymguddiwn yn erbyn y gwirion yn ddïachos; nyni a gawn bob cyfoeth gwerthfawr; ni a lanwn ein tai âg yspail: fy mab, na rodia y ffordd gyda hwynt, attal dy droed rhag eu llwybrau hwynt." Unwaith eto, y brophwydoliaeth a ddysgodd mam un gŵr ieuangc iddo, "Na ddyro i wragedd dy nerth, na'th ffyrdd i'r hyn a ddifetha freninoedd. O Lemuel, nid gweddaidd i freninoedd yfed gwin, nac i benaduriaid ddiod gadarn; rhag iddynt yfed ac ebargofi y ddeddf, a newidio barn yr un o'r rhai gorthrymedig." Onid yw yr Ysgrythyr Lân mewn amryfal fanau yn cyfeirio at ieuengctyd yn uniongyrchol? A phaham? Onid am fod eu perygl yn fwy yn y pethau hyn a nodwyd? Yn awr, gan hyny, O, feibion a merched ieuaingc, gwrandewch arnom, ac ystyriwch eiriau ein genau, pan y traethom am rai pethau yn eich natur ag sydd yn eich gosod mewn perygl nid bychan. Nid i'ch gwaradwyddo y dywedir dim. Nage. Ni a fuom ieuaingc, ac yr ydym yn hen, ond yn cofio y temtasiynau a fu arnom pan yn eich oedran chwi. Buom o fewn ychydig at bob drwg yn nghanol y gynulleidfa a'r dyrfa yr ydych chwithau ynddi.

Yn gyntaf oll, gan hyny, *Gochelwch dybied fod genych ryw dymhor maith o amser yn y byd, fel y galloch ei wario yn ofer.* Ystyriwch ei fod yn werthfawr, ac nad oes dim o hono i'w gamdreulio. Y mae dyn ieuangc yn dueddol i feddwl fod pedwar ugain mlynedd bron cyhyd a thragywyddoldeb. Cafodd ei hun yn y byd, fel wedi dyfod o'r niwl, heb nemawr o feddwl pa bryd y cafodd fod; ond wedi treulio

blynyddoedd meithion, tybygai efe, yn ei fabandod, y mae yn cael tystiolaeth sicraf ei dad a'i fam nad yw eto ond deg oed. Y mae y deg, ïe, y pymtheg, mlynedd cyntaf o dymhor dyn ar y ddaear yn ymddangos yn llawer meithach nag ydynt mewn gwirionedd. Ac nid yw dyn yn teimlo nac yn synied yn gywir am fyrder ei oes nes iddo dreulio yn fyfyriol bymtheng-mlynedd-ar-hugain o honi; ac yna gwel, os na bydd fel march neu ful heb ddeall, ei fod eisoes wedi cyrhaedd tua haner y ffordd, os nid ychwaneg; a theimla nad yw y pymtheg-ar-hugain nesaf ddim hwy; y rhai, os bydd i ddyn eu cyrhaedd, a'i gwnant yn hen ŵr; ac y mae yr ieuangc yn sicr o ysgrifenu y *titl* hwn uwch ben ei holl achòs yn Hebraeg, Groeg, a Lladin, neu ryw iaith arall.

Yn ail, *Y mae ieuengctyd yn gyffredin yn chwanog i redeg i eithafion peryglus gyda phob peth a ddygwydd fod yn wrthddrychau eu hymofyniad.* Fel y lloi ar galanmai, newydd ddyfod allan o'r beudy, heb weled nac wybr na daear, ond a oedd o'u polyn hwy at bolyn eu mam; ond yn awr dyma y maes mawr o'u blaen, a'r dydd goleu teg i gampio a chwareu ynddo. Mae yr olygfa yn berffaith newydd; ond y mae terfynau iddynt i bori o'i fewn, ac nis gallant fyned trwy y gwrychoedd a thros y cloddiau, ond dan berygl o dori eu cymalau; hwythau, er eu bod yn gweled, nid ydynt yn defnyddio bron ddim ar y synwyr hwnw, fel ag i wybod pellder unrhyw wrthddrych yr edrychant arno. Felly y dyn ieuangc, y mae yn agor ei lygaid ar y byd mawr llydan, lle y mae gwrthddrychau heb rifedi, bychain a mawrion. Cyfoeth, parch, a phleserau y byd a dynant ei sylw. Sylla arnynt heb wybod pa un i'w ddewis. Ond cymaint yw ei frys a'i awyddfryd, fel nad erys yn hir yn yr esgoreddfa hon, a dacw ef nerth ei garnau ar ol pleser y byd; ac nid yw yn gweled y terfynau a osododd Duw i'w fwyniant, y rhai nad â neb drostynt ond ar ei golled. Ac felly dan boen a pherygl o dori ei esgyrn, y mae yn myned tros y terfynau, heb wybod y canlyniad. Am na wneir barn ar yr anferthwch yn fuan, y mae calon yr oferddyn ieuangc yn llawn ynddo o awydd i fwyniant; ac ni chymer amser i ystyried pa un ai cyfreithlawn ai annghyfreithlawn. Ond

> "Cymerwch gynghor, ie'ngctyd ffol,
> Mae tragwyddoldeb maith yn ol!"

Ystyriwch fod gormod o'r hyn sydd angenrheidiol yn ddrwg. Cofiwch fod diareb yn dyweyd, "Gormod o ddim nid yw dda."

Doethineb, medd Solomon, a arwain ar hyd ffordd cyfiawnder, ar hyd canol llwybrau barn. Eithafion ydynt yn gyffredin yn bechadurus; ac nid oes ond ychydig o feiau nad ellir canfod mai pethau cyfreithlawn wedi eu cario tros eu terfynau ydynt. Felly y gwelwn gyfeiliornwyr y byd yn cario rhai gwirioneddau tros eu terfynau priodol fel na bydd lle i wirioneddau eraill yn eu credo; am hyny gwrthodant a gwadant hwynt er eu bod yn rhanau eglur o'r Dadguddiad dwyfol, a bod cymaint o eisieu eu dylanwad ar y meddwl âg unrhyw wirioneddau eraill.

Yn drydydd, *Y mae yr ieuaingc yn dra chwanog i roddi uchelbris ar bob peth newydd, gan gymeryd yn ganiataol fod pob newidiad yn ddiwygiad.* Tybiant fod y byd wedi myned yn ddoeth o'r diwedd, ond nad yw ond newydd fyned. Anhawdd ganddynt gydnabod fod gwybodaeth mewn hir ddyddiau, a bod henafgwyr yn deall barn. Fel y brenin Rehoboam, gwrandawant ar gynghorion y gwŷr ieuaingc, gan wrthod cynghor yr henafgwyr oedd yn nyddiau ei dad ef. Anhawdd cael ganddynt gydnabod gwirionedd yr hen-air a ddywed, "Yr hen a ŵyr, a'r ieuangc a dybia." Y mae lliaws o bethau mewn bri am dro fel pethau newyddion, y rhai yn y dyddiau a ddaw a ollyngir dros gof, am nad oes ynddynt y cyfryw werth ag a dalai am eu cadw mewn cof ac ymarferiad. Pell ydym oddiwrth feddwl fod newydd-deb unrhyw beth yn ddigonol achos i'w daflu o'r neilldu, heb ei brofi; ond ni wna brawf o'i ddefnyddioldeb chwaith. Nid oes dim ond amser a barn a rydd brawf; ystyr barn a genfydd duedd y peth, ac amser a ddengys ei effeithiau.

Yn bedwerydd, *Y mae tuedd gref mewn dyn ieuangc i obeithio gormod am ddaioni yn y byd hwn, yr hyn sydd yn arwain i siomedigaeth.* O! y mae yr ieuengctyd yn llawen iawn mewn gobaith, ond y mae y canol oed a'r henaint yn ddifrif wedi eu siomi, am obeithio yn ddisail pan yn moreu eu hoes. Y bachgen a dybia, pe byddai wedi tyfu i fyny, y byddai mor hapus ag Adda yn Mharadwys; a thybia y llangc, pe byddai wedi myned i'r ystâd briodasol, na byddai ond ychydig yn fyr o ddedwyddwch y nefoedd

ei hun; pan mewn gwirionedd na wneir ond newid un rhyw o ofidiau am y lleill; ffeirio rhai profedigaethau am rai eraill llawn mor ofidus, er hwyrach nad mor niweidiol. Clywsom am un yn myned i briodi, heb ganddo ddigon i dalu i'r person a'r clochydd; aeth at gymydog i ofyn am fenthyg deunaw; dywedodd fod ganddo ry fychan i dalu am ei briodi, ond ei fod yn gobeithio na byddai arno ddim eisieu arian byth ond hyny. Mae yn ddigon clws gweled y natur ddynol mor obeithiol, yr hyn sydd dros yr amser presenol mor hyfryd; ond y mae y siomedigaeth ddyfodol yn anhyfryd pan y delo. Pa fodd bynag, tra angenrheidiol i ddedwyddwch yw peidio gobeithio yn ddisail, a chadw y dymuniadau o fewn terfynau priodol, fel y galler yn rhesymol ddysgwyl y bydd i'r drefn fawr eu diwallu yn lle eu twyllo.

Yn bumed, *Mae ieuengctyd yn dueddol i geisio cario pob peth yn mlaen trwy boethder yspryd a nerth braich ac ysgwydd.* Tybiant y dwg y rhai hyn hwy trwy bob dyryswch ac anhawsderau, heb ystyried mai perffeithrwydd y ddynoliaeth yw cysylltu ymbwylliad âg egni corph ac yspryd a'u gilydd. Ond y mae yn anhawdd i'r ieuangc wneyd hyn, gan ei fod yn myned yn gryfach bob blwyddyn. Y mae fel y llew ieuangc yn tybied na bydd arno eisieu ysglyfaeth. Oblegyd hyn y mae manyldra yn bur annaturiol i'r oed yma, a dibrisdod yn brofedigaeth. Rhoddant dafliad i'r naill beth a hergwd i'r llall. Os llyfr a roddir o law, rhaid ei daflu; yr un dynged a ddygwydd i'r het; os cribin, pigfforch, rhaw, neu gaib, cânt dafliad, torant neu beidiant; neu os dodant gareg yn y clawdd wrth gau yr adwy, rhaid ei thaflu nes bo y cwbl yn crynu, pan y dywed yr hen saer maen fod yn well rhoi y gareg ar y mur fel rhoi plentyn yn ei gryd; a bod y rhan fwyaf o bethau i'w gwneyd fel godro buwch, yn ddwys a dygn; y gwneir felly fwy o waith â llai o lafur; y bydd y gorchwyl wedi ei wneyd a'r taclau heb eu tori.

Yn awr, ieuengctyd, nid ydym yn meddwl fod y pethau a nodwyd yn gap sydd yn ffitio pen pob un o honoch. Addefwn fod eithriadau i'r dosbarth dan sylw. Gwelir weithiau hen ben ar ysgwyddau ieuangc; er hyny, yn gyffredin y mae y pen a'r ysgwyddau yr un oed; a thra angenrheidiol yn wir yw gwylio yn erbyn y tueddiadau sydd yn ein natur yn ein harwain ar gyfeiliorn.

Gadewch i'r un peth angenrheidiol gael ei le priodol yn eich calonau. Ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, a'r holl bethau hyn sydd gysurus i natur a roddir i chwi yn ychwaneg. Cofiwch fod duwioldeb yn fuddiol i bob peth, a chanddi addewid o'r bywyd sydd yr awr hon, ac o'r hwn a fydd. Gwybyddwch a theimlwch lygredigaeth eich natur, eich ymddibyniad ar Dduw, a'ch cyfrifoldeb iddo, yn nghyd a'ch rhwymedigaeth annattodadwy i'w wasanaethu. Bydded i chwi glywed Crist, a chael eich dysgu ynddo, fel y mae y gwirionedd yn yr Iesu. Na thybiwch mai cymhwys i hen bobl yn unig yw crefydd; nage, y mae yn rhaid i chwithau wrthi, ac y mae yn rhaid i'r Arglwydd wrthych chwithau.*

* Gwel "*Traethodydd.*" am Ionawr, 1846.

"YR HEN A WYR, A'R IEUANGC A DYBIA."

Y MAE càn hâf bellach o leiaf er pan ymadawodd hen wladwr clodwiw â'r byd hwn: preswyliai mewn rhyw gymydogaeth yn Ngogledd Cymru, ond nis gwn pa blwy', na pha sir, ac nid yw hyny o bwys i'r ysgrifenydd na'r darllenydd. Yr oedd yn wladaidd o ran ei ddullwedd, ac eto yr oedd rhyw fawredd arno fel yr oedd pawb yn ei barchu, ïe, yn ei wir barchu. Nid oedd na chybydd nac afradlon, nid oedd chwaith na diotwr na dirwestwr (oblegyd nid oedd Dirwest wedi ei geni yn y dyddiau hyny). Yr oedd yn uchelwr, fel y gelwid gŵr o berchen tir yn yr amser gynt; yr oedd fel llawer eraill y pryd hwnw, yn byw yn ei dyddyn ei hunan, yn llawn arno, ar yr un pryd nid oedd, fel y goludog yn y ddameg, wedi ei wisgo â phorphor a llïan, ac yn cymeryd byd da yn helaethwych beunydd; ac erei fod yn fwy disyml, yr oedd yn mwynhau cysuron y bywyd hwn, efallai, yn helaethach na'r rhai oedd yn gwneuthur ymddangosiad gwychach. Yr oedd hefyd yn cefnogi llafur, diwydrwydd, a gonestrwydd, yn nghydag ymddygiadau da eraill. Traed oedd i'r cloff, llygaid i'r dall, a chwyn y weddw a'r amddifad a ddeuai ato, ac a wrandewid ganddo, a bendith yr hwn oedd ar ddarfod am dano a ddisgynai ar ei ben. Ymgynghorid âg ef hefyd mewn pethau pwysig, ac anfynych y byddai neb yn edifarhau am ddilyn ei gynghorion. Fe ddywedir fod gŵr tirion yn well er lles iechyd gwraig dyner, na saith o ddoctoriaid; felly yr oedd tuedd heddychlon a chynghorion pwyllog yr hen uchelwr hwn yn fwy effeithiol er cadw cymydogaeth dda, na phe buasai haner dwsin o ustusiaid heddwch yn byw ynddi; ac am fod yr hen oracl hwn mor barchus yn ngolwg y goror lle y preswyliai, nid oedd nemawr o groes-ymgyfreithio yn eu plith, canys âi bron bawb, os byddai ymrafael yn dygwydd bod, ato ef i ofyn ei farn ar y mater. Am ryw bethau bychain a ddygwyddai rhwng pobl a'u gilydd, ac os byddai un blaid yn son am gyfraith, dywedai yr hen oracl, "*Ni thal cam bychan mo'i wrthod.*" Os byddai rhyw bethau pwysicach, y cynghor

fyddai, "Cytunwch, cytunwch." Y mae y cytundeb *gwaethaf*, yn well na'r gyfraith *oreu*. Cymaint oedd ei ddylanwad, fel na byddai ond anfynych iawn neb yn myned i'r llysoedd gwladol i benderfynu achosion. Braidd nad ystyrid pawb ar na wrandawai ar y prophwyd hwn yn gyndyn, torid ef allan o restr pobl onest a chywir, a gosodid nôd cnâf arno, yr hwn ond odid a lynai wrtho weddill ei oes. Meddai synwyr cyffredin da a helaeth, a chafodd oes hwy na chyffredin (oblegyd yr oedd agos yn bedwar ugain a deg oed cyn marw); tymhor maith i syllu ar helyntion dynolryw. Sylwai ar lyfr Diarhebion Solomon, (oblegyd yr oedd yn ddarllenwr ei Feibl), gwelai fod y byd o'i amgylch yn ateb i'r drych gan y gŵr doeth, ac felly yr oedd ganddo gywirach barn am *ddynion* a *phethau* o lawer na chyffredin. Hyn, yn nghyda buchedd ddifrycheulyd ac anrhydeddus, a sefyllfa annibynol, oblegyd yr oedd yn *uchelwr* heb *uchelgais*, a'i gwnelai yn fwy-fwy parchus hyd ei fedd. Hawdd yw meddwl fod colled ar ei ol pan fu farw, oblegyd er ei fod yn hen, yr oedd yn henaint têg yn gystled ag yn llawn o ddyddiau, yr oedd llawer yn fyw ac yn cofio mor wasanaethgar a chymwynasgar a fuasai iddynt, ac i'w tadau a'u teidiau o'u blaen. Ond y mae yn bryd bellach ddyfod at yr hanes a achlysurodd y sylwadau uchod. Yr oedd gan yr hen gyfaill hwn amryw denantiaid, a chyfaill oedd efe i bob un o honynt. Yr oedd yn gwybod gwerth tenant da i'w feistr tir cyn gystled a gwerth meistr tir da i'r tenant. Cwynai un o'i denantiaid wrtho un tro, "fod ganddo gymydog hynod o anhawdd bod yn ddigolled oddiwrtho, ei fod yn hanos ac yn cnoi ei ddefaid; ac os dygwyddai i'r gwartheg neu y ceffylau dori ato, fel y mae yn dygwydd yn mhob cymymydogaeth weithiau, da y diangent, os caent eu hesgyrn yn gyfain a'u cymalau yn eu lle. Y mae ei anifeiliaid yntau yn tori ataf finau, ambell dro, a byddaf yn eu troi tuag adref heb eu peryglu." "Y mae yn ddrwg genyf dy brofedigaeth; nid oes modd na thyr anifeiliaid at eu gilydd weithiau," ebe y meistr tir; "ond, hwn a hwn, a fedri di berswadio dy gymydog i ddyfod gyda thydi ataf fi, fe allai y gallwn gyfryngu rhyngoch a'ch cael i well teimlad." "Nid hwyrach y gallwn," ebe y tenant, "ar ryw dro, ond hitio ar y cymal: y mae rhyw awr yn well na'i gilydd arno yntau fel pawb eraill." "Wel," ebe yr hen ŵr, "deuwch at eich cyfleusdra eich hunain, byddaf

fi yn debyg o fod adref, am fy mod yn rhy hên bellach i fyned lawer oddiamgylch." "O'r goreu," ebe y tenant, "mi a'i treiaf yn dêg." Pa fodd bynag, wedi llawer o ddyddiau, dyma y tenant a'i gymydog yn cnocio wrth ddrws yr henafgwr; cawsant eu galw i mewn, ac i eistedd i lawr; a'r hên ŵr boneddig, wedi eu cyfarch, a ddechreuodd osod yr achos o'u dyfod ger bron. Ebe fe, "Y mae fy nhenant i, yr hwn sydd yn ddyn heddychol, mi a'i gwn, oblegyd y mae yn denant i mi er's llawer blwyddyn, a'i dad o'i flaen, yn cwyno dy fod yn hanos ei ddefaid, a'th gŵn yn cnoi aml un i farwolaeth; ac os tyr eidion neu geffyl atat, mai ar berygl tori ei esgyrn y bydd hyny. Y mae arnaf fi eisieu i ti altro, a pheidio a bod yn rhyw ddyn blin fel yr ydwyt wedi bod hyd yma." "Nid wyf yn malio," ebe yntau, "ffyrling goch yn un o honoch, chwi na'ch tenantiaid, ac os daw llwdn, eidion, neu geffyl 'mi rof fi iddynt da y do'nt allan o'u cut.'" "Wel," ebe yr henafgŵr, "gwell i ti wrando, a chymeryd dy gynghori, fe fydd yn rhatach i ti yn y diwedd." "Eich gwaetha' chwi a'ch tenant yn eich gên, nid oes ar eich llaw wneuthur dim yn y byd i mi; nid gwaeth genyf eich gwaethaf na'ch goreu." "Gwell, a llawer gwell," ebe yr henafgwr, "i ti gymeryd cynghor; oblegyd, er nad wyf yn bwriadu myned at y gyfraith i geisio amddiffyniad, yr wy'n ddigon sicr, cyn sicred a'th eni yn droednoeth, mi ddof fi a'th ben di i lawr, ryw ffordd neu gilydd." "Eich gwaethaf yn eich dannedd. Pa beth a wnewch i mi?" ebe'r dyn blin. "Mi ddywedaf i ti beth," ebe yr hên ŵr, "y mae genyf dyddyn arall a allaf ei osod i'th gymydog, a gosodaf ei dyddyn yntau i gythraul saith gwaeth na thi dy hunan; ac os tori di goes anifail iddo ef, fe dor e' goes dau i ti; ac os cnoi di un ddafad iddo ef, fe dâl adref i'th ddefaid dithau yn bedwar dwbl. Mi fynwn i ti ystyried mai gwell i ti fod yn gymydog heddychol a diniwaid i'm tenant presenol na byw am y terfyn a dyn blin, a saith ryw gyndynrwydd yn ei galon. Cofia fod 'bran i frân, a dwy frân i frân front.'" Ar hyn tybiodd y dyn blin y gallai gyfarfod â'i waeth, ac addawodd fod yn fwy hynaws rhag llaw, a chofiodd ddechreu yr ysgrif, "Yr hên a ŵyr, a'r ieuangc a dybia."

Y mae llawer o synwyr yn ymddangos yn llwybr yr hên frawd hwn. Yr oedd tuedd i liniaru peth ar deimlad y

cymydog wrth gydnabod fod rhai gwaeth, ïe, saith gwaeth nag ef ei hun, i'w cael ond chwilio tipyn am danynt. Yr oedd ystyriaeth o un gwaeth nag ef ei hun yn byw yn ei ymyl, yn dyfod yn nes at ei galon. Y mae rhai o'r diawliaid yn ddiawledicach na'u gilydd; ac felly dynion, y mae rhai blin ac eraill blinach, ac y mae rhyw ddosbarth y blinaf oll—"gosod dithau un annuwiol arno ef" sy' weddi drom. "Syrthio a wnelwyf yn llaw yr Arglwydd, ac na syrthiwyf yn llaw dyn."*

* O'r "*Methodist*," Mehefin, 1855.

BALCHDER.

Nid bob amser y bydd pethau, mwy na phersonau, yn cael eu henwau eu hunain. Weithiau fe elwir cynildeb yn gybydd-dod, a llafur yn drafferth, diwydrwydd a darbodaeth yn fydolrwydd; ac felly llawer o'r cyffelyb. Ac yn gymaint a bod pawb yn gydwybodus fod balchder wedi gwreiddio yn ddwfn yn natur dyn, y mae y naill yn drwgdybio y llall yn euog o hono, pryd na byddo. Os bydd dyn yn teimlo mesur o annibyniaeth ynddo ei hun, er iddo deimlo ei ddibyniaeth ar Dduw, dywed yr hwn sydd yn amddifad o'r teimlad annibynol hwnw, fod y cyfryw un yn falch, oblegyd ei fod yn fwy gofalus am ymgadw ar ei gorddyn ei hun nag ef. Ond a ydyw hyn yn falchder mewn gwirionedd? Nac ydyw: oblegyd heb fesur o'r annibyniaeth hwn, byddai y naill ran o'r teulu dynol yn gwneyd osgo barhaus i bwyso ar y rhan arall; a buan y byddai yn glwydaid annyoddefol. Y teimlad o fod uwchlaw cadw cwmni pob math, a ystyrir gan rai yn falchder, pan y mae y byd yn fwy na haner llawn o ddynion o gymeriad drwg, a'r cynghor apostolaidd, "Cilia oddiwrth y cyfryw," yn dra phriodol. Y teimlad o uwchafiaeth creadigaeth dyn fel creadur rhesymol—fel llwch y byd—nid balchder mo hwn ychwaith. Bod uwchlaw ymddwyn yn isel, a gwneyd troion budron, a byw mewn arferion ffiaidd a llygredig, gan roddi ei aelodau yn arfau annghyfiawnder yn ngwasanaeth y diafol—gwasanaeth cwbl annheilwng o greadur rhesymol:—edrych arno ei hun wedi ei ffurfio i ddyben mor uchel, fel nas gall fod ei uwch, nid amgen mwynhau a gogoneddu ei Greawdwr, edrych ar ei ryfeddodau, ac ymhyfrydu yn eu berffeithiau—nid balchder yn wir mo hyn. Nid balchder mewn dyn yw teimlo fod gwasanaethu chwantau ynfyd a niweidiol yn sarhad arno—ni fyn yr Arglwwdd i neb o'i greaduriaid fod mor isel eu swydd.

Ond beth yw balchder? Y mae yn gâr agos â hunan a thrachwant. Hunan yw yr uchel-bris a rydd dyn arno ei hun, a'r difyrwch y mae yn ei gael yn yr ystyriaeth ei fod

yn meddu ar gampau, rhinweddau, a phethau da na fedd ei gymydogion mo honynt. Balchder a deimla yn gwbl fel hunan, ond gyda hyn o chwanegiad, ei fod yn diystyru eraill, gan edrych arnynt gyda dirmyg. Trachwant, drachefn, sydd deimlad awyddus i ychwanegu yr uwchafiaeth ar ragoriaeth dybiedig. Nid yw hunan haner cyn gased a balchder, eithr y mae yn llawer gwell ei foes, yn fwynach a haws ei ddyoddef, ac a fedr ymostwng er mwyn clod; eithr y mae y balch yn chwyddedig a llon'd pob man, ac yn ddïystyr o bawb o'i gwmpas, ac i raddau mwy neu lai yn peri i bob dyn gwylaidd deimlo yn llethedig. "O! mor uchel yw ei lygaid, a'i amrantau a ddyrchafwyd." Tybygid fod ei gyfoeth, ei dalentau, a'i orchestion yn rhyw Babilon fawr, yr hon a adeiladodd efe yn frenindŷ, yn nghryfder ei nerth ac er gogoniant ei fawrhydi. Y mae yr hunanol yn peri i blant dynion chwerthin am ei ben, a gwneyd yn hyf ar ei gymeriad; ond y mae y balch yn peri i Dduw a dynion ei ffieiddio, gan ei fod yn ffrom a hyderus. Par i'r gwan ei feddwl ei ofni—ond nid ei garu,—y galluog ei enaid ei ddirmygu—ac i bawb ei gasàu.

Y mae yr hunanol yn wastad yn drachwantus: ni ddywed efe byth "digon" mwy na'r bedd. Y balch hefyd a geir yn gyffredin felly; ond y mae y balch weithiau yn teimlo fel wedi cael cymaint fel mai ofer fyddai chwanegu ato. Yr hunanol a saif ar ei ddoniau a'i gampau, ond y balch a ymeifl mewn unrhyw beth a'i cyfyd rîs yn uwch, oblegyd y mae yn annyoddefol iddo feddwl ei fod yn gydradd â'i gyd-ddynion. Y teimladau hunanol hyn, sef trachwant, hunan, a balchder, sydd raff deir-caingc o ddryggioni, yr hon na thorir ar frys. Maent yn tori allan mewn pob math ar gyflafan, ac yn abl llanw y byd â galar, gruddfan, a gwae. Eu gweithred sydd fel llifddwfr yr hwn ni âd luniaeth. Awydd Nebuchodonosor am awdurdod, balchder Alexander a'i awydd am glod milwraidd, yn y dyddiau gynt, a thrachwant Napoleon yn ein dyddiau ninau, a lanwasant heolydd dinasoedd lawer â gwaed gwirion; ïe, cyrff eu lladdedigion hwy a fuont yn dail i'r ddaear mewn llawer gwlad.

Peth priodol i ddyn yw y teimlad o uwchafiaeth fel creadur rhesymol; ond wedi colli Duw, ac mewn annghof o hono, dirywiodd y teimlad hwn i falchder, gan roddi coel i yspryd cyfeiliornus, ac i athrawiaeth y cythraul—"Chwi a

fyddwch megys duwiau." Dyn, wedi cwympo yn isel o ran ei gyflwr, a roes naid hollol wrthwyneb o ran ei ddychymyg. Mor dueddol ydyw dyn i falchder fel y cymer bob achlysur i ymgodi; ac y mae yn waith anorphen nodi yr holl achlysur iddo; ond cawn grybwyll amrywiol. Ac y mae yn syndod fod dynolryw yn gallu tynu boddhad iddynt eu hunain oddiwrth y cyfryw bethau. Ceir plant dynion yn chwanog i falchïo o'u genedigaeth —tegwch pryd—nerth corphorol—talent—dysg—swydd—cynydd cyfoeth—llwyddiant mewn unrhyw beth—a dyfais. Ie, y maent yn chwanog o falchïo o'u dillad, o'u tai, ac o'u dodrefn, a'u trefn o fyw. Tueddol ydynt i falchïo yn eu diwydrwydd a'u medrusrwydd, eu hymddygiadau doeth, eu haelioni, eu duwioldeb; ie, ïe, ni a falchïwn hyd yn nod yn ein gostyngeiddrwydd a'n hedifeirwch! Y peth a dybiwn ni ein bod yn rhagori ynddo, yn hwnw yr ymfalchïwn.

Ond wedi y cwbl, y mae ein rheswm, ac Ysgrythyr, yn dyweyd fod hyn oll yn anfad ynfydrwydd. Fe ddywed yr Ysgrythyr mai "o flaen dyrchafiad yr ä gostyngeiddrwydd (y rhinwedd gwrthwyneb i falchder), ac uchder yspryd o flaen cwymp." Y mae y Duw mawr yn ffieiddio y balch. Y mae gan ragluniaeth Duw wïalen i gefn yr ynfyd hwn. Dynolryw hefyd ydynt wïalenau ar eu gilydd. Penderfynodd Duw ddarostwng y rhai a rodiant mewn balchder. Bydd i ragluniaeth ddoeth, â barn gyfiawn, yn sicr o gael y balch i lawr o'i fawredd.

"Nid rhaid dofi y difalch
Ond fe bryn byd benffrwyn i'r balch."

Nid yw balchder fawr ond gair arall am ynfydrwydd. Edrychwn ar falchder yn y man y mynom, y mae yn berffaith ffolineb. Nid mynych y gwelir dyn synwyrol yn ysgoegyn bach. Profedigaeth ffyliaid gan mwyaf ydyw. Gallodd Cyrus enwog gynal oes gyson o lwyddiant anarferol heb falchïo, pan nad allodd Alexander gynal ychydig heb geisio gan ei filwyr ei addoli; ac er fod llawer o gampau ar yr arwr hwn, eto amlwg yw na feddianodd y ddegfed ran o'r synwyr cyffredin a gafodd Cyrus. Balchder teulu, er engraifft, neu falchder gwaed, fel

y galwai yr hen bobl, sydd ddisail. Nid oes fawr er pan oedd yr holl deulu dynol yn un Adda ac Efa.

"Gwnaeth Duw holl blant dynion o'r un gwaed;
A pha le y caed boneddigion?"

Onid yw yn amlwg nad yw uchel waedoliaeth ddim ond hir feddiant o gyfoeth yn yr un teulu? Balchïo mewn tegwch pryd, a nerth gewynawl, sydd yr un ffunud yn ynfyd. Yn mhen ychydig flynyddau, o'r hyn pellaf, bydd tegwch gwedd wedi gwywo, a nerth wedi newid am boen a blinder; ïe, ysgatfydd mai ychydig fisoedd neu ddyddiau o gystudd a fydd yn ddigon i'n hamddifadu o'r naill a'r llall; a pha fodd y gall neb yn ei iawn bwyll ymfalchïo ynddynt? Talentau a doniau ydynt roddion Duw; a pha beth sydd gan neb ar nas derbyniodd? ac os derbyniodd, paham y gorfoledda ac yr ymfalchïa, megys pe byddai heb dderbyn? Y mae yn fath o wallgofni ein bod heb ystyried mai am y pethau hyn oll y rhoddwn gyfrif i'r hwn a roddes ei dda atom.

Balchder swydd sydd hefyd yn gymaint ffolineb a dim a aller edrych arno; oblegyd yn fuan byddwn heb ein swyddau yn rhoddi cyfrif i Dduw am y modd yr ymddygasom ynddynt. Cyfoeth yr un modd sydd anwadal a damweiniol; yn fynych cymer adenydd, ac eheda ymaith fel eryr tua'r wybr. Galwai yr hen bobl hwn yn falchder pwrs, am fod pawb sydd dan ei lywodraeth yn llawnach eu pyrsau na'u penau.

Ceir pobl cyn waned a balchïo yn eu dillad, er nad oes gan na brenin na deiliad ond dillad ar yr ail law. Bu y ceirw yn y coed, anifeiliaid y maes, a bwystfilod yr anialwch, a hyd yn nod y pryfed a llysieu y ddaear, yn eu defnyddio o'u blaen fel eu haddurn a'u clydwch, a hyny heb falchïo o honynt, fel y gwna dyn yr hwn sydd yn eu cael ar eu hol.

Wedi y cwbl, dybygid mai balchder ysprydol yw y gwrthunaf o bob balchder,—balchïo ein bod yn ffafr Duw. Y mae balchder swyddau sanctaidd yn dra ffiaidd: y mae y lefain hwn yn lefeinio yr holl does, ac yn gwneuthur yr holl ymarferion rhith sanctaidd yn fwg yn ffroenau yr Hollalluog, yn dân yn llosgi ar hyd y dydd. O! yr anfad ynfydrwydd sydd yn hyn oll! Y mae yspryd

balch chwyddedig yn berffaith wrthwyneb i'r efengyl, ac i'r ymostyngiad edifeiriol tuag at Dduw, a'r ffydd sydd tuag at ein Harglwydd Iesu Grist. "Yr annuwiol gan uchder ei ffroen ni chais Dduw, ac nid yw Duw yn ei holl feddyliau ef."

Fe allai fod yn bryd i ni bellach roddi pen ar hyn o erthygl; ond hwyrach na byddai yn anfuddiol rhoddi ychydig gynghorion er gwellhau y chwydd hwn; ac yn

1. Gwybydder nad oes modd myned trwy y porth cyfyng heb gael y chwydd hwn i lawr. Y mae y balch yn mhob oes yn cario ei ben yn rhy uchel, yn gystal ac yn cario gormod o gnawd i fyned trwodd.

2. Cofia, ddyn, mai creadur cyfrifol ydwyt i'r Duw mawr am bob peth, ac nad oes na thalent na chyfoeth, na dawn wedi eu rhoddi i ymfalchïo ynddynt, ond i'w defnyddio; ac y byddi yn fuan yn cael dy obrwyo am yr iawn ddefnydd, neu dy gosbi am y cam ddefnydd o'r cyfan.

3. Ystyria dy fod yn euog o flaen Duw, ac nad oes ond rhad drugaredd Duw am dy fywyd. Os mŷn, fe all dy iachau; ond nid oes rhwymau arno i wneyd hyny; ac nid oes dim oddiar y ffordd oddieithr balchder dy galon. Na fydd, gan hyny, heb wybod cyfiawnder Duw, ac na chais osod i fyny dy gyfiawnder dy hunan, heb ymostwng i gyfiawnder Duw.

4. Cofia dy ymddibyniad ar y Duw mawr am bob peth. Y mae dy anadl yn ei law, ac einioes pob math ar ddyn. Dyfodiad pob trugaredd bob boreu oddiwrtho ef. "Bob boreu y deuant o newydd, a mawr yw ei ffyddlondeb."

5. Ystyr fawredd Duw; yr hwn sydd yn lledu y nefoedd fel llen, ac fel pabell i breswylio ynddi—yr hwn y mae pob dyn yn wagedd o'i gymharu âg ef, ïe, yn ddim, yn llai na dim. Efe sydd o dragywyddoldeb a hyd dragywyddoldeb, a thithau er doe, ac heb wybod, mewn cymhariaeth, ddim. Yn ymyl y Duw mawr hwn pa beth yw dyn? Gwagedd yn ddïau yw pob dyn pan fo ar y goreu. Nid yw ei nerth ond gwendid, na'i oleuni ond tywyllwch, na'i ddoethineb ond ynfydrwydd; ac fe dybygid fod yn annaturiol i hwn fod yn falch! Saf, ddyn, balch, edrych ar ryfeddodau Duw, ac ymbwylla. Nid ydwyt ond bychan a gwan o'th gymharu â rhai o greaduriaid Duw, a llawer llai o'th gymharu a'r ddaear a greodd Duw i ti gael preswylfod, ac nid yw y ddaear ond

bechan iawn o'i chymharu â holl greadigaeth Duw, na'r greadigaeth i gyd ond fel dyrnaid o lwch wedi ei wasgar yn yr awyr o'i gymharu a'r Hwn a'i gwnaeth.

6. Myfyria ar gariad a haelfrydedd Duw, yr hwn, er ei fod yn uchel, a edrych ar yr isel; ac er ei fod yn fawr, eto ni ddïystyra neb. Y mae yn edrych ar y truan a'r cystuddiedig ag sydd yn crynu wrth ei air. Cofia hefyd ei fod wedi cymeryd y natur ddynol i undeb a'i natur ei hun yn mherson ei anwyl Fab, yn un peth, ysgatfydd, i ddysgu gostyngeiddrwydd i holl ddeiliaid ei lywodraeth, ymhlith llu y nef a thrigolion y ddaear.

7. Gwel brydferthwch y gras o ostyngeiddrwydd. Y mae yn deg odiaeth. Mor hawddgar yw ei wedd yn anad neb, mor foddlawn, mor siriol, fel y tybiech y byddai ddedwydd yn nghanol trallod a phob gorthrymderau. Edrycher arno yn Nghyfryngwr y Testament Newydd—yr hwn a dra-ddyrchafodd Duw, ac a roddes iddo enw yr hwn sydd goruwch pob enw yn y byd hwn a'r hwn a ddaw—yr hwn y darostyngwyd pob peth dan ei draed, ac y rhoddwyd iddo bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear—yr hwn sydd yn blaenori yn mhob peth; ïe yr hwn hefyd a wnaed yn etifedd pob peth—yr hwn y mae y tywysogaethau a'r awdurdodau wedi eu darostwng iddo,—yn Arglwydd y greadigaeth, er gogoniant Duw Dad,—mae efe ar yr un pryd yn addfwyn a gostyngedig o galon. Edrych ar y Person mawr hwn; ymbarotoa, a saf o'i flaen ef, yn yr hwn y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorphorol, a'i ddynoliaeth yn holl degwch ei hieuengctid, a'r cyfan yn cael eu haddurno â gostyngeiddrwydd. Golwg ar ogoniant Brenin Sïon a barai i falchder syrthio fel Dagon o flaen arch Duw Israel. "Yna yr iselir uchelder dyn, ac y gostyngir uchder dynion, a'r Arglwydd yn unig a ddyrchefir yn y dydd hwnw."—*Traethodydd*, Ion., 1851.

PRYDLONDEB.

Dywedir am y sant, y bydd "fel pren wedi ei blanu ar lan afonydd dyfroedd, yr hwn a rydd ei ffrwyth yn ei bryd;" ac ebai Solomon, "O mor dda yw gair yn ei amser." Ac yn esiampl i'w holl greaduriaid rhesymol, gwnaeth y Duw mawr "bob peth yn deg yn ei amser." Drachefn, dywedir fod "amser i bob peth, ac i bob amcan."

Yn gyffredinol, y mae rhyw adeg i wneuthur pob peth, yr hon, os esgeulusir hi, na ddychwel eilwaith. Ymddengys fod mwy na haner plant Adda yn ddifeddwl am yr adeg hon; tybiant, os gwnant eu dyledswydd rywbryd, fod pob peth yn dda, heb ymsynied fod peidio ei gwneyd yn ei phryd mewn rhai amgylchiadau cynddrwg a pheidio ei gwneyd oll. Efallai fod y diffyg hwn yn gymaint ag un arall yn mhlith y Cymry, ac ysgatfydd yn fwy nag ydyw yn mysg y cenedloedd eraill a breswyliant yr ynysoedd Prydeinaidd. Mae gan y Saeson a'r Ysgotiaid yn gyffredin "le i bob peth, a phob peth yn ei le." Mae cadw pob peth yn eu lleoedd eu hunain ar ol bod yn eu defnyddio yn llawer llai o drafferth na chwilio pob man am danynt pan y byddo eu heisieu, ac wedi yr holl chwilio a chwalu, methu eu cael yn y diwedd; pan y gallai manylrwydd prydlawn alluogi y dyn i roddi ei law arnynt ar y cynyg cyntaf.

Mae bod yn anmhrydlawn yn cyflawni ein hamodau yn fai. Pan yr addawom fod mewn rhyw fan ar ryw bryd, dylem fod yn brydlawn yno yn ol ein haddewid. Dywedir fod Arglwydd Nelson yn cael dodrefn newyddion i'w *gabin* un tro, a dywedai wrth y gŵr oedd yn eu gwerthu y byddai yn rhaid eu bod yn y fan a'r fan o'r hyn bellaf erbyn chwech o'r gloch y boreu; ac atebodd hwnw yr anfonai y cwbl erbyn chwech yn ddiffael. "Nage," ebe Nelson, "bydded eu bod yno chwarter awr cyn chwech, oblegyd i'r chwarter awr yn mlaen yr wyf fi yn ddyledwr am bob buddugoliaeth a enillais erioed." Marsiwndwr yn America unwaith a gytunai â phen-saer am wneyd rhyw gyfnewidiad yn ei swyddfa, a gofynai iddo pa bryd y gallai ddechreu ar y gwaith. Atebai y saer, y gallai ddyfod y pryd a'r pryd. "Nid oes dim brys," ebai y llall, "ond byddwch chwi yn sicr o ddyfod pryd yr addawoch." Ar hyn ystyriai y saer ei amgylchiad, a gosodai yr amser i ddechreu dipyn pellach. "Wel," meddai y marchnatawr, "a fyddwch chwi yn sicr o ddyfod y pryd yr enwasoch?" "Os byddaf byw," atebai y saer, "byddaf yma y pryd hwnw." Y marsiandwr a ddododd y dydd a'r mis penodedig ar lawr yn ei lyfr, ac aeth pob un i'w fan. Y diwrnod i ddechreu y *job* a ddaeth, ond nid oedd dim o'r saer i'w gael. Ar hyn, aeth y marsiandwr at gyhoeddwr y papyr newydd oedd yn y

dref, i ddymuno arno wneyd yn hysbys fod hwn a hwn o'r fan a'r fan wedi marw, ac felly y gwnaed. Tranoeth, fel yr oedd y saer anwadal yn edrych i'r papyr, yr hwn oedd ar y bwrdd yn y tŷ tafarn, gwelai hanes ei farwolaeth ef ei hun. Cyffröes hyn ef yn fawr, er iddo ddeall yn ebrwydd mai celwydd ydoedd. Aeth at gyhoeddwr y newyddiadur, a gofynai paham y dodai yn ei bapyr ei fod ef wedi marw, "a minau fel y'm gwelwch," meddai, "yn fyw?" "Mr. Hwn a Hwn, y *merchant*, yw fy ngarn i," ebai hwnw. Ymaith â'r saer, mor hyllig a phe buasai wedi gweled bwgan, at y marsiandwr, yr hwn pan y daeth ato a lygadrythai arno fel pe buasai wedi dyfod o blith y meirw. "Paham," ebe y saer, "y rhoddech yn y papyr fy mod i wedi marw, a minau yn fyw, *lysti*." "Yr wyf yn synu yn fawr eich gweled," meddai yntau, "canys dywedasoch, os byddech *byw*, y buasech yma er echdoe yn dechreu y gwaith y cytunasom am dano, a thybiais i eich bod yn ddyn i'ch gair; a chan na ddaethoch, cymerais nad oeddech yn fyw, ac felly bernais yn well hysbysu eich marwolaeth, rhag i neb arall gael ei siomi genych fel y cefais i." Erbyn hyn nid oedd gan y saer ddim i ateb, ond aeth ymaith gan benderfynu bod yn fwy prydlawn o hyny allan. Y wers yn yr hanesyn hwn ydyw, fod gan y rhai sydd yn derbyn addewidion well cof na'r rhai sydd yn eu gwneuthur. Cynyrch naturiol anmhrydlonrwydd fel hyn ydyw anymddiried yn y rhai a wnant y cyfryw addewidion.

Mae dyn o'i air yn sicr o fod yn ddyn parchus, boed ei sefyllfa y peth y byddo. Clybuwyd crydd yn dywedyd unwaith, "Pe byddai pawb fel Charles, ni byddai cadw llyfr o un defnydd i mi; gallwn ei roddi i'r siopwyr yn bapyr lapio *tobacco* y pryd y mynwn." Byddai Charles yn sicr o dalu pryd yr addawai. Nid oedd y gŵr gonest hwn yn enill ond swllt yn y dydd ar ei draul ei hun; ac nid oedd ei holl ddodrefn ond gwerth ychydig bunoedd; eto nid oedd dim yn eisieu arno ef, a'i hen wraig, i'w gwneyd, nid yn unig yn ddiwall, ond hefyd yn gysurus. Yr oedd mor brydlawn yn ei daliadau ag ydyw trai a llanw y môr; oblegyd hyn, cawsai ei goelio am ddigon i'w gynal, yn fwyd a dillad, am ddeng mlynedd, pe mynasai. Nid oedd yn nyled neb o ddim pan y bu farw, ond gadawai ryw gymaint ar ei ol i'w wraig; a chafodd hithau ddigon, a pheth yn ngweddill. Yr oeddynt ill dau yn

proffesu crefydd am amryw flynyddoedd cyn eu marw, ac ni welwyd casgl yn yr holl yspaid hwnw na byddai arnynt hwy ffrwyth yn ei bryd. Byddai chwe'cheiniog Charles mor sicr a machludiad haul yn yr hwyr, os byddai ef neu ei gymhares yn gallu codi a cherdded. Mae y ddau wedi marw er's tro mewn tangnefedd, ac mewn henaint teg. Cawsant eu bendithio gan ragluniaeth â'r fendith hono a ddymunai y duwiol Philip Henry i'w blant—y fendith sydd yn peri i ychydig bach fyned yn mhell.

Yr hanesyn uchod sydd wir hanes; a phe byddai yr esiampl yn cael ei dilyn, byddai gan agos bawb ddigon, a chan y rhan fwyaf beth i'w gyfranu i'r hwn y mae angen arno, a phob peth yn ei amser. Ond yn lle bod felly, mae, ysgatfydd, y rhan fwyaf yn talu eleni am yr hyn a fwytasant ac a yfasant y llynedd; a'r crydd, y saer, y gôf, a siopwr yn cwyno, y naill am yr uchaf a'r llall, eu bod y'rmethu cael eu harian er eu gofyn rifedi eu danedd o weithiau; a chyn y bydd yr ystori drosodd, odid na chaiff crefydd ergyd, trwy ddywedyd fod proffeswyr crefydd can waethed a'r gwaethaf, ac na thâl llawer o honynt dros eu blingo. Fel hyn, y mae teimladau drwg, beth afrifed, yn cael eu cynyrchu. Ystyrier fod arian yn rhy ddrud os rhaid rhoddi eu gwerth am danynt, ac wedi hyny cerdded a chrefu am danynt eu gwerth eilwaith, heblaw yr esgusodion celwyddog a wneir ar yr achlysuron hyn. Nid talu rywbryd cyn dydd y farn olaf sydd eisieu, ond talu yn yr amser a addawsom. Gall y talwr prydlawn gael llwyth llong ar goel os myn, a chael benthyg holl arian ei holl gydnabyddiaeth. Pa fodd y mae hyny yn bod? Gwobr ei brydlondeb ydyw, yr hyn na chaiff yr anwadal mwy na thamaid o'r lleuad. Prynu ac addaw tâl heb feddwl am gyflawni sydd cynddrwg mewn egwyddor a lladrata; ac y mae peidio talu yn yr amser a addewir, er bwriadu, weithiau bron cynddrwg a pheidio talu byth.

Yr oedd pedwar cymydog yn byw yn yr un ardal, ac mor agos at eu gilydd fel y gallai y naill weled mŵg y boreu o simdde pob un o'r tri eraill. Enwau y rhai hyn oeddynt, Elis Esgeulus, Dafydd Sion Ddiofal, Ifan Tranoeth-y-dy'-gwyl, a Huw Rhag-ll'w'gu. Tyddynwyr bychain oedd pob un o'r pedwar, ond bod Huw yn arfer prynu a gwerthu amryw nwyddau, ac nid anfynych yr âi y tri hen frawd arall at Huw mewn angen, o herwydd nid

oedd neb arall yn y gymydogaeth a werthai ddim iddynt ar goel, ac oblegyd hyn yr oedd yn rhaid myned at Huw rhag ll'w'gu. Addefir mai nid yr enwau yna oedd eu henwau bedydd, fel y dywedir. Cawsant eu bedyddio a'u galw wrth eu henwau priodol, fel plant a dynion ieuaingc eraill, am flynynyddoedd lawer; eto, am na wnaethpwyd hwynt yn blant i Dduw, ac yn aelodau o Grist, ac nad oedd arwydd arnynt eu bod yn debyg o fod yn etifeddion teyrnas nefoedd, a chyda hyny, am eu bod yn isel eu cymeriad yn eu hymdriniaethau â phethau y fuchedd hon, yr enwau a nodwyd a roddes y werin yn gyffredin arnynt yn mhen enyd wedi iddynt briodi, a dechreu trin y byd. Ië, mor gymhwys y ffitiai yr enwau hyn hwynt â'r cadnaw i Herod, ac nid oedd modd iddynt ymysgwyd oddiwrthynt trwy deg na hagr. Teimlai Elis, Ifan, a Huw, yn anesmwyth ddigon oblegyd y llysenwau hyn; ond am Dafydd Sion Ddiofal, yr oedd ef mor ddiofal am hyn ag yr oedd am bob peth arall.

Yr oedd tyddyn Elis Esgeulus yn dra annedwydd yr olwg arno, a'i dŷ heb ffenestr gyfan, na drws nad allai y cathod a'r perchyll fyned trwy ei ben isaf yn groeniach, yn ol ac yn mlaen, a'r ieir yr un modd. Yr oedd gwraig Elis, megys y dywed yr hen air, yn *drimings* at y lliw i'r dim; cadachau na wyddid pa nifer a amgylchai ei phen, heb un cewyn glân o'i choryn i'w sawdl, a phâr o glocsiau am ei thraed, a'r rhai hyny a'u pen ôl yn agored. Ar y fferm, nid oedd na chlawdd na chamfa ag ôl ymgeledd arnynt; ac ni welid na drws ar feudy, na llidiart ar adwy, ond pob peth draws eu gilydd. Ni welid byth gan Elis faes o lafur glân, ond byddai ei haner yn chwŷn. Mewn gair, ymddangosai y gwartheg, y ceffylau, a'r moch hefyd, fel pe buasent tan felldith. Er hyn oll yr oedd Elis yn rhyw lun o fyw er's blynyddau fel hyn, gan nofio rhwng deuddwr i'r lan y naill flwyddyn ar ol y llall; yr oedd angen yn ei orfodogi i fyw yn gynil, os nad yn galed weithiau. Yr oedd ei dyddyn hefyd am a dalai yn dda, a gwyddai Elis hyny; o ba herwydd, glynai wrtho fel y cranc wrth y gareg. Ond am Dafydd, yr oedd ei fferm ef yn well ei threfn o gryn lawer; gwelid ambell glwtyn o honi yn dda yr olwg arno. Yr oedd ganddo ef well gwraig; a byddai gan Ddafydd cystled pedwar mochyn â dim oedd yn y

gymydogaeth; ac yr oedd yn burion llaw at bob gorchwyl. Er hyn oll, a llawer o bethau da eraill, yr oedd diofalwch yn codi toll drom ar gymaint ag a feddai; byddai ychwaneg na degwm ei holl gynyrch yn myned yn ddiwerth bob blwyddyn. Byddai y troliau, yr erydr, a'r ogau, allan yn y gwlaw a'r gwres o fis bwy-gilydd. Gwelid weithiau y moch a'r gwyddau yn yr ŷd, a llawer gwaith y ceid y ceffylau a'r gwartheg yn y cae gwair am haner diwrnod; ac os byddai y gwynt mawr wedi tori tô y tŷ neu'r beudŷ, neu dô y gwair neu yr ŷd, felly y caent fod am fisoedd, er na chywilydd na cholled. Ac eto er hyn i gyd, a llawer o'r cyffelyb, am fod gan Ddafydd wraig dda, yr oedd yn gwneyd bywioliaeth yn lled ryfedd. Eithr am Ifan, yr oedd ef fel pe buasai wedi tyngu na wnai ef ddim yr un amser a phobl eraill. Gwelid ef yn fynych yn hau haidd, ac yn planu pytatws, am bythefnos neu dair wythnos o hâf; a phan y byddai ei gymydogion wedi darfod â'u cynhauaf, dyna y pryd yr oedd Ifan brysuraf. Byddai ei wair a'i ŷd heb eu troi hyd galangauaf, pan y byddai llawer o'r naill a'r llall wedi pydru; ac os dygwyddai iddi rewi yn gynar, rhewai llawer o'i bytatws cyn eu codi o'r ddaear.

Dyna i ti, ddarllenydd, gipolwg ar y tri wŷr hyn, ac y mae tro Huw i ddyfod ger bron bellach. Yr oedd Huw yn nodweddiad tra gwahanol i'r tri. Credai ef mai "Goreu cyfaill, ceiniog;" a mynai fwy na'i gwerth am dani, os byddai modd, a rhoddai lai na'i gwerth yn ei lle; ac am hyny nid âi neb ato ond rhag llewygu, ac felly y cafodd ei gyfenw. Gwerthai Huw i rai drwg am dalu, ond iddo ef gael uchelbris; a mynai yr arian os byddai dim y tu allan i groen y dyn; ac nid oedd wiw i neb feddwl byw a bod yn nyled Huw yn hir. Gwerthai bob peth braidd yn uwch na'r farchnad, ond ei gydwybod; cai hono weithiau fyned am ychydig, meddynt.

Am grefydd y pedwar, ni byddai yr un o honynt yn myned i lan nac i gapel yn gyson. Elis a'i gymhares a deimlent eu hunain islaw eu cymydogion pan mewn cynulleidfa, am eu bod yn aflêr eu gwisgoedd. Byddai Dafydd yn myned i bob tŷ addoliad yn y plwyf ar dro, ac nid oedd waeth ganddo pa le; er hyny byddai gartref lawer Sabbath. Pan y byddai y wraig yn pregethu iddo ei ddyledswydd o fyned i wrando, cychwynai i gael llonydd

ganddi; ond nid oedd dim ymddiried na thröai ef i rywle neu gilydd, ac na welai y wraig mo hono yn yr addoliad. Ond am Ifan, yr oedd ef yn rhy hunan-dybus i fyned, oddieithr yn anfynych, i le yn y byd. Nid oedd neb yn iawn yn ei olwg ef ond efe ei hunan, megys nad oedd ef ei hunan yn iawn yn ngolwg neb arall. Ni welwyd mo hono erioed yn nechreu un addoliad; os deuai ar ryw dro, byddai haner yr addoliad wedi pasio. Gwelwyd Huw, pan yn ieuangc, yn myned weithiau i'r capel newydd; ond wedi dechreu trin y byd, a chasglu tipyn o arian, a deall fod pawb yn ei gyfrif yn gybydd, aeth y capel yn annyoddefol iddo. Byd ac arian oedd ei holl feddylfryd.

Ond i ddybenu hyn o hanes can fyred ag y gallom—prynodd Elis Esgeulus fuwch gan Ifan Tranoeth-y-dy'-gwyl am ddeg punt, ac addawodd dalu am dani Galanmai, yn y ffair oedd yn y pentref cyfagos. Tua Gŵyl-fair, prynodd Dafydd Siôn Ddiofal geffyl gan Elis am ddeuddeg punt, ac addawodd yntau dalu "*can saffed â bank*," yn ffair Galanmai. Calanmai a ddaeth, ac aeth Ifan at Elis, ac Elis at Ddafydd, ond dim arian nid oedd i'w cael. Mae yn rhaid cyfaddef fod yn ddrwg dros ben gan Ddafydd hyn, er hyny, gan ei fod yn un mor ddiofal am dalu, nid oedd neb yn y ffair a roddai fenthyg deg punt iddo; ac nid oedd neb yn wir a roddai fenthyg i un o'r ddau eraill, oblegyd Dafydd oedd y goreu o'r tri, ond ei fod yn *ddiofal*. Pa fodd bynag, gorfu ar Ifan fod hebddynt. Erbyn hyn yr oedd hi yn *dranoeth y dy'gwyl* ar Ifan. Yr oedd ei feistr tir wedi myned yn mron ar ei lŵ, os na thalai ryw gymaint Galanmai, y gyrai failïaid i'w dŷ, ac y gwerthid y cwbl yn y tŷ ac allan, am yr uchaf ei geiniog. Ac felly bu; a phrynodd Huw Rhag-ll'w'gu y rhan fwyaf o'r eiddo am lai na haner a dalent. Erbyn i'r meistr tir gael ei ofyn, nid oedd gan Ifan ddim ei hunan, na dim i neb arall; ac y mae yn debyg y gorphena efe a'i wraig eu hoes yn nhŷ y tlodion. Ni a welwn mai diofalwch Dafydd oedd yr achos o hyn oll; oblegyd gwellâodd y byd yn fuan gwed'yn; ac y mae lle i feddwl, er diweddared oedd Ifan, y gallasai ddyfod i fyny, ac y buasai y boneddwr yn aros wrtho oni buasai iddo gael ei siomi. Pa sawl amgylchiad tebyg i hyn all fod! Dichon i un siomedigaeth gynyrchu llawer; ac nid oes na phen na pherchen a all ddywedyd pa faint o deimladau pechadurus

y mae y pechodau o anwadalwch yn eu hachosi. Llawer y sydd a addawant yn ddigon rhwydd, os byddant heb wybod *nad* allant gyflawni, er na wyddant *y* gallant. Esgor yr egwyddor hon ar liaws o siomedigaethau.

Mae anmhrydlondeb hefyd yn dra niweidiol mewn ymarferiadau crefyddol. Dylai pob casgliad at achos parhaus gael ei wneyd yn flynyddol neu yn fisol, ar yr un pryd, gan yr un gynulleidfa yn enwedig. Gellir dadleu, mae yn wir, eu bod weithiau yn annghyfleus, ond y mae felly o eisieu gofal prydlawn; a'r prawf o hyn ni a'i gwyddom—bod rhai o'r rhai isaf eu hamgylchiadau yn brydlawn, pan y mae lluaws o rai â moddion ganddynt, ac nid hwyrach calon hefyd, oblegyd dull diofal, yn anmharod ar y pryd, ac felly mae y peth yn myned yn ddiflas. Dechreu addoliad cyhoeddus yn brydlawn sydd hefyd o bwys. Dylai y pregethwr fod yn y fan erbyn yr amser, neu chwarter awr yn gynt, fel y dywedai Nelson; a dylai y gwrandawyr fod yr un modd yn brydlawn. Mae dyfod i mewn yn drystfawr, ar ol i'r addoliad ddechreu, yn anmharch i'r Duw a addolir, yn gystal ag yn aflonyddwch i'r dynion fyddo yn addoli. Llawer o eglwysydd a chapelydd yn Lloegr a lenwir bron mewn can lleied o amser ag yr â y dyrfa allan. Angenrheidiol yw bod cloc y capel yn ei le, mor agos ag y byddo modd, yn lle bod taeru rhwng y gweinidog a'r bobl. Dywedid gynt wrth Robert Jones, Rhoslan, sir Gaernarfon, fod yr oedfa wedi ei chyhoeddi am ddeg o'r gloch. Gofynai yntau, "Deg o'r gloch pwy? Mae gan bawb bron eu deg o'r gloch." Nid oes dim eisieu rhoddi at na thynu oddiwrth ddeddfau natur mewn dim. Y goleuad mawr a roddes Duw i lywodraethu y dydd—mae hwnw yn y dê am haner dydd yn mhob man; a dwy awr cyn hyny yw deg o'r gloch; a dwy awr gwedi yw dau o'r gloch; chwanegwch bedair drachefn, a thyna chwech o'r gloch brydnawn. Amser addoliad teuluaidd hefyd sydd deilwng o sylw. Mae ei fod yn rhy hwyr yn y prydnawn yn ei anfuddioli. Bod i ddynion fyned i addoli pan na fyddont gymhwys i ddim ond i gysgu, sydd yn gwbl annheilwng. Mae naw o'r gloch yn ddigon hwyr; a gwell dechreu yn gynt, fel y galler diweddu erbyn naw.

Rhywun, hwyrach, a ddywed, Pwy sydd ddigonol i'r pethau hyn? Atebwn eu bod yn bwysig; a chan hyny

cymerer pob mantais. Gwneler y cyfan yn brydlawn, oblegyd dyna yr amser hawsaf i gyflawni pob dyledswydd, a thyna y pryd mwyaf rhesymol ac ysgrythyrol i ni ddysgwyl cymhorth gan Dduw i gyflawni ein dyledswyddau pwysig. Wel ynte, pob peth yn ei le; hyd yn nod pob gair, bydded yn ei le; a phob dyledswydd yn ei hamser. Bydded ein ïe yn ïe, a'n nage yn nage. Rhodder yr eiddo Cæsar i Cæsar, a'r eiddo Duw i Dduw—a bydded y cyfan yn ffrwyth yn ei bryd.—*Y Traethodydd*, Gorph., 1846.

CAMGYHUDDIADAU.

Anhawdd penderfynu pa un fwyaf tueddol i ddyn syrthiedig ydyw cyhuddo ei gymydog o fai nad yw yn euog o hono mewn gwirionedd, ai ynte esgusodi ei hun mewn bai sydd yn gwbl hysbys iddo ei fod ynddo. Y mae hyn yn dra mynych yn dygwydd: weithiau fe gyhuddir ein cydddyn o fwy o fai nag sydd yn bod, neu o egwyddor adgasach na'r un y gweithredwyd oddiarni; ac yn fynych fynych darnguddir ein bai ein hunain, os bydd yn anmhosibl eu guddio i gyd, gan briodoli i ni ein hunain egwyddor a chalon dda,

> "Ac ni chlywir neb yn dadgan
> Fawr ei hynod feiau 'i hunan."

Ni ddichon sant na phechadur ddïanc rhag camgyhuddiadau. Dywed diareb, "Mwyaf cam, cam lleidr." Os bydd un mwy llawflewog na'i gilydd mewn cymydogaeth, cyfrifir pob lledrad iddo ef, pryd mewn gwirionedd fod aml un yn lladrata yn ei gysgod. Clywsom ddyn meddw unwaith yn dywedyd y cyhuddid ef o feddwi ambell dro pan na byddai wedi *gweled* dïod gref, rhagor yfed o honi. Er gwaethed yw yr yspryd drwg, y mae yntau yn cael cam aml waith; nid fod nemawr ddrwg yn cael ei gyflawni heb ei ddylanwad ef, ond y camwri yw, y rhoddir yr holl fai wrth ei ddrws ef, pryd y mae y dyn sydd yn ei gyhuddo yn euog o'r haner. Ni ddïanc y rhinwedd

mwyaf digymysg ychwaith rhag camgyhuddiadau. Cafodd y diwygwyr Protestanaidd eu rhan yn ehelaeth o hono gan y Pabyddion. Nid oedd fod gwirionedd o'u tu, cywirdeb eu dybenion, a sancteiddrwydd eu hymarweddiad, ond yn eu gwneyd yn fwy agored iddo. Pan oedd Mab y Goruchaf yn rhodio daear, a phob rhinwedd wedi ei bersonoli ynddo, dywedid am dano, "Wele un glwth ac yfwr gwin:" er ei fod trwy fŷs Duw yn bwrw allan gythreuliaid, cyhuddid ef gan ryw fath o ddynion o fod trwy Beelzebub yn eu bwrw hwynt allan. Ie, yn eu angeu, bu farw dan gamgyhuddiad. Ni ddïanc y Duw mawr sanctaidd ac ofnadwy, y Brenin tragywyddol ac anfarwol, rhag camgyhuddiadau ei greaduriaid anwybodus. Y mae fod Duw yn goddef i'w greadur wneyd rhyw gyflafan, yn cael ei roddi yn erbyn ei gynghor a'i arfaeth ef. "Paham y mae efe eto yn beïo, canys pwy a wrthwynebodd ei ewyllys ef?" Nid anfynych y clywir dynion yn rhoi trugareddau Duw yn esgus am bechu yn ei erbyn. "Y wraig (ebe Adda) a *roddaist* gyda mi, hi a roddodd i mi o'r pren, a bwyta a wneuthum;" ac y mae y byd yn llawn o'r un peth er dyddiau Adda hyd yn awr. Côf genym glywed am un, Roli y Wern ddu, fel ei gelwid; yr oedd yn byw yn agos i Lanelltyd yn swydd Feirion; ac yn ol y pwysau a'r mesur cyffredin sydd ymhlith dynolryw, yr oedd Roli dipyn yn fyr; ac eto medrai Roli ddyfod i dŷ y nos, cystal a'r goreu. Treuliai lawer o'i amser yn Abermaw, yn adeiladu ryw fân dai ar ystlys y graig yno. Dygwyddodd i ryw gadben llong ei ddigio yn enbyd; ac er dïal ei gam, aeth Roli âg ebill yn ei law, ac a dyllodd drwy waelod llong y cadben hwnw. Adroddai yr hanes wrth gymydog iddo, gan ddywedyd fod hwn a hwn wedi bod yn gâs iawn wrtho ef, "Ond, wel di, mi dyllais dwll dan waelod ei long ef; ac fel yr oedd *Duw yn mynu*, mi hitiais rhwng dau goedyn, ac ni chefais fawr drafferth; hi *sincith* càn gynted ag yr elo i'r môr."

"Gan y gwirion ceir y gwir."

Tybiai Roli iddo gael rhwydd hynt gydag ewyllys Duw i ddïal ar ei gyd-greadur; y mae llawer eto yn synio yn lled gyffelyb.

Yn awr, gan hyny, gan fod y byd yn llawn o gam-

gyhuddiadau, ac na ddïanc neb rhagddynt, a ydyw yn rheswm coelio y cyfan a glywir, mal y gwna ambell un? oblegyd os gwneir, teimlwn ein hunain yn nghanol ellyllon ac nid yn mhlith dynion. Y mae cenfigen a malais, bwriad drwg ac anghariadoldeb yn paentio y cwbl càn ddüed a'r cythraul. Os coelir y rhai hyn, y mae yn rhaid coelio nad oes menyw ddiwair yn yr holl wlad, ond y rhai sydd newydd eu geni; fod yr holl grefyddwyr yn rhagrithwyr, fod pob dyn cynil yn gybydd, a phob dyn hael yn afradlawn, bod pawb sydd yn trin y byd yn ei garu â'u holl galon, ac nad oes na doctor na thwrne gonest yn yr holl fyd; o bydd dyn neu ddynes yn gryno a glân eu trwsiad, y maent càn falched a Lucifer; ac os bydd un yn arfer anog ei gymydog yn lled fynych i haelioni gyda ag achos yr Arglwydd, bydd yn dra sicr o gael ei gyhuddo o ariangarwch. Clywsom fod y Dr. Chalmers wedi myned i un o ynysoedd Scotland, yn lled fuan ar ol yr ymraniad, i egluro i flaenoriaid yr Eglwys Rydd yn yr ynys hono ei gynllun tuag at gynal y weinidogaeth, a dangos iddynt y rhwymau oedd arnynt i gyfranu eu hunain, ac arfer eu holl ddylanwad tuag at gael y gwahanol gynulleidfâoedd i wneuthur yr un peth. Ar ol i'r cyfarfod fyned drosodd, gofynwyd i un o'r blaenoriaid hyn, beth oedd ei feddwl am y cyfarfod ac am y Doctor? "Dyn call dysgedig yw y Doctor (meddai), ond y mae yn *fydol iawn*;" pan mewn gwirionedd nad oes o fewn holl gylch yr eglwys Gristionogol yr un sydd wedi dangos ei hun yn fwy rhydd oddiwrth y bai hwn. Y mae wedi aberthu miloedd o bunau er mwyn cydwybod, ac y mae mor enwog am haelioni a chymwynasau ag ydyw am ei dalentau. Ond gwyddai y blaenor ei fod ef neu y Doctor yn feius; ac yn lle cyfrif y bai yn y lle y dylasai fod, barnai y diniwed yn euog, a gollyngai yr euog yn rhydd. Ac fel y mae gwaetha'r modd, y mae gan y blaenor hwn frodyr lawer yn Nghymru.

Wele, ddarllenwyr y "Traethodydd," gan fod o leiaf haner yr anair a glywn am eraill yn gelwydd, neu o'r hyn goreu yn anwiredd, anhawdd gwybod pa haner i'w goelio. Aroswn, gan hyny, heb goelio dim drwg am frawd neu gymydog oni bydd raid. Gwyddoch yn dda fod mwy na haner y drygair a gawsoch eich hunain yn ffrwyth malais rhywrai; ac nid yw tynged eraill ond lled debyg. Y mae cenfigen fel gwibed yn disgyn ar y briw sydd ar gefn yr

asyn, ac mor ddiwyd yn hel yr ysig ag ydyw y gwenyn yn casglu mêl Mawr dda iddynt ar yr ysnafedd!

"Rhyw bwnio bydd rhai beunydd,
A llunio bai lle na bydd."

Nid ydym yn cymeryd arnom gyfiawnhau dynolryw, ond addefwn fod beiau yn bod nid ychydig, a phob un a ddwg ei faich ei hun. Y mae yn dda *chwilio* am rinwedd, ond nid am fai, canys

"Pawb a'i cenfydd, o bydd bai,
A brawddyn lle ni byddai."

Ond dwbl wfft i genfigen! nis gall hi na gwneyd na dyoddef yr hyn sydd yn dda.

"Ni wna dda, y ddera ddall,
Ni erys a wna arall."

Ystyrier yn gyntaf fod dyweyd a chredu y gwaethaf am eraill yn fai yn ngwyneb yr holl ddeddf—yn wrthwyneb i yspryd y gyfraith sydd yn dywedyd, "Ti a geri yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, a'th gymydog fel tydi dy hun." "Cariad ni feddwl ddrwg." Lle y mae un yn meddwl drwg i'w gymydog, ac yntau yn trigo yn ddiofal yn ei ymyl, y mae ynddo ddiffyg cariad.

Yn ail, y mae yn peri teimlad drwg mewn cymydogaeth, ac yn achosi niwed. Gwreiddyn chwerwedd ydyw ag sydd yn llygru llawer, ac yn peri blinder. Os câ hwn wreiddio, fe wywa pob rhinwedd fyddo yn agos ato. Crëa anffyddlondeb ac anymddiried, a drygau eraill y pallai amser i'w henwi.

Yn drydydd, y mae yn annhraethol ei niwed yn yr eglwys. Gwnaeth yr hyn y methodd tân a ffagodau ei wneuthur, sef dinystrio eglwysi Crist. Am hyny y dywed Paul, "Eithr os cnoi a thraflyngcu eich gilydd yr ydych, gwyliwch na ddifether chwi gan eich gilydd." Y mae camgyhuddo brawd wedi bod yn dra niweidiol ei ganlyniadau. Odid y coelia pawb y camgyhuddiad; bob yn dipyn daw y gwirionedd allan (y mae rhywbeth yn natur pethau, fel pe mynai gwir a chelwydd ddyfod o'u tyllau, a'u gwneyd ei hun yn amlwg i bawb); a'r canlyniad fydd, pleidia rhai yr ochr hyn, ac eraill yr ochr arall; glŷn rhai wrth yr hen bwnc, a'r lleill wedi ildio i nerth gwirionedd ydynt yn synu nad ildiai pawb iddo.

Fel hyn y mae teimladau anfrawdol nid ychydig yn cael eu cynnyrchu.

Yn bedwerydd, nis gall lai nag archolli y camgyhuddedig yn ddirfawr. Y mae pob brawd neu chwaer fo dan ddysgyblaeth yn hysbys o'u hanes eu hunain, a gwyddant pa faint o'r cyhuddiâd sydd wirionedd, a pha faint sydd heb fod; ac os delir yn dŷn ar yr hyn sydd gam yn y cyhuddiad, y mae yn chwanog i'r cyfryw feddwl ei fod yn wrthddrych rhagfarn y swyddogion eglwysig yn y man y bo. Cyll yn ebrwydd bob parch iddynt, a phob ymddiried yn nghywirdeb eu dybenion; pa faint bynag oedd eu bri o'r blaen yn ei olwg, y mae yn ymado fel cwmwl y boreu. I wneuthur hyn yn fwy amlwg, adroddwn hen hanesyn. Clywsom am ferch ieuangc (o ran priodi) a ddaeth yn yr hen amser gynt o sir Fôn i wasanaethu i Glynnog, yn Arfon; ac wedi trigo yno am dro, meddyliodd rhyw ŵr ieuangc am wneuthur gwraig o honi, ond yr oedd yn arafu am na wyddai ei hanes, ac yn betrusgar am ei nodweddiad. Gwyddai y byddai yn arferedig y pryd hyny fyned o lawer o bobl at fedd St. Beuno, i gyfaddef eu pechodau, a byddai hithau yn arfer myned; a dëallodd yntau pa noswaith yr âi, ac aeth i eglwys y bedd o'i blaen, ac ymgudd-iodd. Yn mhen enyd, dyma hithau yno; a chan ddechreu ar ei defosiynau, a chyfaddef rhyw fân feiau, dywedai yntau mewn llais gwanaidd, megys o wlad angeu, "Fe fu genyt blentyn ordderch." Hithau, gan dybied mai St. Beuno oedd, a addefai fod hyny yn wir. "Mi welaf, Beuno, y gwyddost ti bob peth." "Bu genyt ddau," meddai llais gwanaidd. "Do, St. Beuno, fe fu genyf ddau; ni chymerais rybudd y tro cyntaf, fel y mae mwyaf fy nghywilydd; fe fu genyf ddau." "Bu genyt dri," meddai y llais. Ar hyn cyfododd y gyffes-ferch yn dra ffyrnig, ac a ddywedodd, "Celwydd Seintyn, yn dy feintyn; ni bu genyf *ond dau*, a dau fu genyf." Gwelwn yn yr hanesyn hwn fod y ddynes wedi colli pob hyder yn sanctiolwch Beuno wrth gael ei chamgyhuddo ganddo yn ol ei thyb. Cynhyrfodd y ddeddf o hunanamddiffyn, yr hon sydd ddeddf gref yn y natur ddynol, pa un bynag fyddo y dyn ai Protestant, Pabydd, Cristion, ai pagan. Gweithredodd y ddeddf hon ynddi mor rymus fel na theimlai ar y pryd oddiwrth ddim arall. Ac onid fel hyn y mae yn naturiol iddi fod mewn dysgyblaeth eglwysig, os bydd yr

aelod yn cael cam? Y mae natur, pa mor ddiniwed bynag y bo, yn teimlo yn gynhyrfus. Dywedodd aml un a gafodd ei gamgyhuddo, y buasai yn well ganddo gael profi ei fater yn y llŷs gwladol na chan swyddogion eglwysig sydd fel yr ehud yn coelio pob gair. Rhëol euraidd yr Ysgrythyr yw, "Ymofyned y barnwyr yn dda. A'r henuriad na dderbyn achwyn oddieithr dan ddau neu dri o dystion, fel y byddo safadwy pob gair." Nid digon yw dywedyd fod y bobl yn siarad—y wlad yn cablu yn enbyd—yr achos yn cael cam, a'r ddysgyblaeth yn myned i lawr. Y cwestiwn yw, A ydyw y brawd yn euog? ac os ydyw, i ba raddau y mae? ac wedi cael hyny allan, trinier ei fater yn ddidderbyn wyneb, ond nid yn haerllug, eithr mewn yspryd addfwynder. Gwaith llednais yw trin dysgyblaeth tŷ Dduw. Y mae ysprydoedd archolledig y cyfryw ag a oddiweddir gan ryw fai yn fynych yn galw am ffyddlondeb a thynerwch wedi eu cydgymysgu gyda doethineb. Cyfraith trugaredd sydd i fod ar wefusau yr eglwys a'i swyddogion. Nid ydym yn darllen yn y Testament Newydd am ddïarddeliad ond am bechodau ysgeler; ond yn rhywfodd, yn eglwysi Cymru, y mae dysgyblaeth mewn amgylchiadau amhëus yn gwneyd mwy o niwed na phan byddo y bai yn amlwg ac yn warthus. Tardd hyn, y mae yn debyg, o eisieu mwy o'r "yspryd addfwyn a llonydd, yr hwn sydd ger bron Duw yn werthfawr." "Na fernwch fel na'ch barner, canys â pha fesur y mesuroch, yr adfesurir i chwithau."

Bellach, frawd cyhuddedig, bydd ddyoddefgar. Nid tydi yw y cyntaf fu yn dyoddef cam: felly y cafodd Moses a'r prophwydi eu trin; a phe byddai Noah, Daniel, a Job, yn dyfod eto i breswylio y ddaear hon, caent ei bod yn lled gyffelyb i'r hyn oedd pan y buont ynddi gyntaf. Dywedai dynolryw y pryd hwnw, "Ein tafod sydd eiddom ni," ac felly eto. Os na ddïangodd yr Athraw mawr ei hunan, pa fodd y gall y dysgybl ddianc? Onid digon i'r gwas fod fel ei Arglwydd? Y mae y Barnwr wrth y drws; ger ei fron ef nid oes ond gwirionedd yn sefyll; ti elli fod yn gwbl ddibetrusgar y cei gyfiawnder ganddo ef, oblegyd nid yw ef yn "gweled yn dda wneuthur cam â neb yn ei fater."

Chwithau, y camgyhuddwyr, y mae diwrnod eich prawf chwithau yn agos. Nid rhoi barn ehud ar eraill fydd

eich gwaith yn dra hir; cewch ddëall rywbryd, os na wnewch gyfiawnder âg eraill, na wna Duw drugaredd â chwithau yn y dydd hwnw. Efallai fod llawer c honoch, heb fod yn llunwyr celwyddau, ac eto yn euog o dderbyn enllib yn erbyn eich cymydogion: cofiwch fod derbyn eiddo anonest (trwy wybod) cynddrwg a lladrata. Byddwch ofalus am wirionedd pob peth a gredoch. Cofiwch "am bob gair segur a ddywedo dynion, y rhoddant gyfrif." Meithrinwch gariad ac ewyllys da tuag at eich cyd-ddynion. Ni ddichon neb ddringo yn uchel mewn gwirionedd ar gôst tynu eraill i lawr trwy gelwydd. Er cynddrwg yw y byd, y dyn sydd yn parchu eraill sydd fwyaf ei barch ynddo. Nid oes un ffordd i fyned yn îs ein hunain nag wrth iselu eraill. Bydded i'ch gweddi gyffredin gynwys y deisyfiad yma, "Rhag pob deisyfiad drwg ac anghariadoldeb, gwared ni, Arglwydd daionus."—*Traethodydd*, Gorph., 1847.

BODDLONRWYDD.

Boddlonrwydd sydd rinwedd gwrthwyneb i duchan, grwgnach, ac anniddigrwydd—ysbryd pigog ac anhawdd rhyngu ei fodd, yr hwn ysbryd sydd barod i dori allan ar flyneddau fel y flwyddyn hon, ac nid hwyrach yr un a ganlyn.

Ni byddai yn briodol dyweyd fod angel yn anfoddlon, nac yn wirionedd pe dywedid fod cythraul yn foddlawn; oblegyd y mae angel yn cael pob peth at ei feddwl, heb ddim yn tynu yn groes iddo: ac o'r ochr arall nid oes dim wrth fodd y diafol, nac yntau wrth fodd neb arall. Nid boddlonrwydd y Cristion yw dedwyddwch yr angel—cael ei feddwl i gydymffurfiad â phob peth llywodraeth Duw yn y nef yw dedwyddwch yr angel, a chael ei feddwl i ymostyngiad tawel i lywodraeth Duw ar y ddaear yw y boddlonrwydd sydd yn mynwes y Cristion. Tybia rhai eu bod yn foddlawn pan nad ydynt ond yn ddifyr, neu yn llawen fwynhau eu pleserau anianol, am ryw hyd.

"Canu a wnant a bod yn llawen,
Fel y gog ar frig y gangen."

Eraill a gyfrifant eu hunain yn foddlawn dros ben, pan nad ydynt ond difater a dideimlad. Ni waeth ganddynt

hwy ar y ddaear ffordd y cerddo y byd, nid yw iselbris ac uchelbris nwyddau ac anifeiliaid ond yr un peth iddynt; y maent hwy fel Twm Dwncyn, yn gefnllwm ac esgeirnoeth, yr hwn, ar y diwrnod oeraf, a ddywedai nad oedd arno ef ddim anwyd, ac na byddai ar neb arall ddim pe rhoddent gymaint ag a feddent am danynt fel efe. Y mae rhai fel hyn, wedi ymfoddloni, yn tynu arnynt anfoddlonrwydd rhai eraill. Ond y boddlonrwydd sydd gysylltiedig â duwioldeb a gynwys yn

1. *Derbyniad diolchgar y duwiol o holl drugareddau Duw* yn ei iachawdwriaeth a'i ragluniaeth, ac ymostyngiad tan alluog law Duw yn ei geryddon, ac yn holl groesau ei daith trwy y byd.

2. *Cynwys ystyriaethau teilwng am lywodraeth y Duw mawr*—ei bod yn gyfiawn, yn ddoeth, ac yn dda. Dywed mai yr "Arglwydd sydd yn teyrnasu, gorfoledded y ddaear, llawenyched ynysoedd lawer."

3. *Gobaith gwastadol yn y meddwl y bydd i bob peth gydweithio er daioni yn y diwedd, pa un bynag ai hawddfyd ai adfyd.* Caiff y naill fel y llall wasanaethu yn eu tro i ddwyn oddiamgylch y lles mwyaf—y bydd i'r "byr ysgafn gystudd," tan fendith y nef, "weithredu tragwyddol bwys gogoniant i ni."

4. *Cynwysa yr ystyriaeth ei bod yn llawer gwell nag yr haeddasom ei bod*, ac yn llawer gwell nag yr ofnasom y byddai, ac ysgatfydd yn well nag y mae ar lawer o'n cydgreaduriaid. Ac megys y mae mesur helaeth o drueni yn yr ystyriaeth nad oes gofid neb fel ein gofid ni, felly y mae mesur o dawelwch yn yr ystyriaeth fod ein gofidiau yn llai na'r eiddo eraill.

5. *Cynwys duedd yn y meddwl i sylwi ar amlder a gwerth trugareddau Duw*, a gwel y sant eu bod yn amlach na gwallt ei ben, eu bod yn amlach nag y gellir eu rhifo, ac nas gellir bwrw eu gwerth, a bod y rhai mwyaf angenrheidiol yn fwyaf cyffredinol ac amlaf ar yr un pryd. O! mor lluosog yw gweithredoedd Duw, a'i drugaredd fel llen wedi ei thaenu arnynt oll. "Fy enaid bendithia yr Arglwydd, ac nac annghofia ei holl ddoniau ef."

6. *Y mae boddlonrwydd yn cynwys y gelfyddyd sanctaidd o gadw y dymuniadau am bethau y bywyd hwn o fewn terfynau priodol.* Nid yw yn bechadurus i ni ddymuno yn gymedrol bethau da y fuchedd hon, tra nad elom dros

derfynau cyfreithlondeb, ond pan y mae y dymuniadau yn ymhelaethu y tuhwnt i fesurau rhesymol, y canlyniad fydd siomedigaeth ac anfoddlonrwydd. Peidio rhoddi ein meddwl ar uchelbethau, na rhodio mewn pethau rhy uchel i ni, peidio ag ymgais at ddull rhy uchel o fyw, a gochel chwenych ychwaneg o barch, awdurdod, a lle, nag y mae Duw a dynion yn gweled yn dda eu rhoddi i ni, yn ddiau a gynyrchai y rhinwedd o foddlonrwydd yn doreithiog.

7. *Y mae yn angenrheidiol hefyd i foddlonrwydd fod ein cydwybod yn cymeradwyo ein holl ymarweddiad.* Er nad yw y goreu o ddynion ond anmherffaith, eto os ein cydwybod a'n condemnia, nis gallwn fod yn foddlawn. Er holl wendid y natur ddynol, ac er holl demtasiynau y byd, y cnawd, a'r diafol, a gwrthryfel deddf yr aelodau yn erbyn deddf y meddwl, gall y Cristion ddywedyd tua diwedd ei daith, pan y mae amser ei ymddattodiad wedi nesu, "Mi a ymdrechais ymdrech deg, mi a orphenais fy ngyrfa, mi a gedwais y ffydd. O hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi, yr hon a rydd yr Arglwydd, y Barnwr cyfiawn, i mi yn y dydd hwnw:" ac nid yn unig i Paul, "ond i bawb a garant ei ymddangosiad ef." Ac megys y dywed y ddïareb, "Asgre lân diogel ei pherchen," felly dywedaf finau, cydwybod lân boddlawn ei pherchen. Gwledd wastadol yw y galon lawen hon—y mae pryd o ddail gyda hi yn well nag ŷch pasgedig hebddi.

Bellach, rhaid rhoddi terfyn ar hyn o ysgrif, rhag na chynyrcha ddigon o foddlonrwydd yn narllenwyr y "*Geiniogwerth*," i foddloni i ddarllen rhyw druth maith, eto erfyniwn eu hamynedd i ystyried y gras o foddlonrwydd. Yn un peth, fe gynyrcha ddiolchgarwch, offryma yn wirfoddol yr aberth hwn yn wastadol, teimla yn ddedwydd wrth aberthu fel hyn, ïe, fel gŵr gonest wrth dalu ei ddyled.

Hefyd, y mae boddlonrwydd, nid yn unig yn lleihau ein gofid, ond hefyd yn mwyhau ein cysuron. Dywed y ddïareb fod yn rhaid i duchan gael y drydedd, sef o hyny o fwyniant sydd genym; felly y mae boddlonrwydd yn ychwanegu ato, ac yn ei wneuthur yn saith mwy. Y mae y dyn boddlawn yn gysur iddo ei hunan. Bydd yn byw yn llawen gyda'i wraig a'i blant anwyl holl ddyddiau ei

fywyd. Y mae boddlonrwydd yn fantais i'w iechyd ac i'w deulu, ac i bawb o'i gwmpas. Y mae yn fendigedig yn ei fynediad a'i ddyfodiad, yn ffrwyth ei fru, ac yn nghawell ei does, ac yn nghynyrch ei ddefaid a'i wartheg, ac yn llafur ei ddwylaw. Nid mynych y llafuria yn ofer, nac y cenedla i drallod, ond bydd ei hâd yn fendigedig gan yr Arglwydd.

Yn olaf y mae yn ddifyr i'r boddlawn wneyd ei ddyledswydd, ac y mae ganddo fantais i'w llwyr wneyd, am fod ei ddyledswyddau yn ei olwg ef yn freintiau—efe a'u cyflawna yn brydlawn ac yn llwyr. Hysbys yw fod dedwyddwch pob sefyllfa yn y byd hwn yn ymddibynu ar gyflawniad dyledswyddau y sefyllfa hono: pa beth bynag fyddo y rhai, os gadewir heb eu gwneyd, neu ar haner eu cyflawni, rhaid dwyn y canlyniad.

"Gan fod yn foddlawn i'r hyn sydd genych."—*Y Geiniogwerth*, 1850.

SIAMPL A DYNWAREDIAD.

Er's ychwaneg na chan' mlynedd yn ol, yr oedd eglwys o Fedyddwyr yn Llundain wedi colli ei gweinidog, oherwydd lluddio iddo (fel miloedd o'i flaen ac ar ei ol) gan farwolaeth barhau. Yr oedd bywyd crefydd, tebygid, yn yr eglwys hon; ac yr oedd llwyddiant yr achos goreu yn ddwys ar eu meddyliau; ac am y teimlent eu bod o'r sect fanylaf o'r grefydd Gristionogol, ystyrient fod dewis gweinidog yn waith pwysig. Pa fodd bynag, wrth edrych o'u hamgylch, nis gallent ganfod neb yn mhlith y rhai a allent eu cael ag oedd yn ymddangos yn addas i'r lle, ac felly barnasant fod yn well cymeryd pwyll, ac aros i rywbeth mwy gobeithiol droi allan, a chymeryd rhyw frodyr cymeradwy i'w gwasanaethu hyd oni syrthient yn lled unfrydol ar olynwr addas i'w hen weinidog parchus, yr hwn yn ddiweddar a orphwysasai oddiwrth ei lafur. Fel hyn y buont am ryw hyd; ond dygwyddodd gweinidog newydd ddyfod adref o'r Cyfandir, yr hwn a aethai yno rhag erledigaeth, neu er mwyn gweled ansawdd y wlad a moesau y trigolion; ac am fod y gweinidog heb eglwys, a hwythau yn eglwys heb weinidog, cytunasant ar gynyg eu pulpud iddo am dymhor; cydsyniodd yntau dderbyn y

cynygiad. Clywsent ei fod yn ŵr da, llawn o ffydd ac o'r Yspryd Glân; eithr nid oedd yn ail-fedyddio neb, ac oblegyd hyny, nid ystyrid ef ganddynt hwy yn Fedyddiwr oll. Pa fodd bynag, trodd allan yn bregethwr da, (digynyg, fel y dywed pobl y Dê), yn llon'd eu pulpud, a'i weinidogaeth yn gwneyd argraff dda ar yr eglwys a'r gynulleidfa. Wedi parhau fel hyn am rai misoedd yn hynod gymeradwy, annghofiai rhai eu colled am eu hen weinidog, ac nid oedd rhyw drafferth fawr arnynt am gael neb yn ei le. Eithr nid oedd y gweinidog cynorthwyol yn gweinyddu yr ordinhadau o fedydd a swper yr Arglwydd; gwyddent mai bedyddio trwy daenelliad y byddai efe; ond am swper yr Arglwydd, nad oedd llawer o wahaniaeth rhyngddynt yn y gweinyddiad. Ac ar brydnawn-gwaith, dyma ddiacon yr eglwys yn dyfod at y gweinidog, ac yn dywedyd wrtho fod ei weinidogaeth yn dra derbyniol, ond ar yr un pryd fod ymddifadrwydd o swper yr Arglwydd yn cael ei deimlo yn ddwys ganddynt. "Yr wyf gan hyny," meddai, "yn gofyn i chwi dros yr eglwys, a fyddwch chwi yn rhydd i gyfranu i ni yn y dull a'r modd sydd wedi bod yn arferol yn ein plith? Yr ydym bob amser wedi bod yn gydwybodol yn ein hamcan i ddilyn y Pen Mawr, gan wneuthur, hyd y gallom, mal y gwnaeth yntau gyda'r deuddeg y nos y bradychwyd ef; a gobeithiwn na bydd yn un dolur i'ch teimlad gydymffurfio â ni yn ein gwaith yn dilyn yr hwn sydd ben uwchlaw pob peth i'r eglwys."

Gweinidog.—"Oh, na fydd mewn modd yn y byd, yr wyf fi yn caru yn fawr bod yn mhob peth yn debyg iddo Ef; ond os cywir yr hanes a glywais, nid ydych hyd yma wedi cydymffurfio yn mhob peth. Ai nid eistedd ar feinciau yr ydych amser cyfranu?"

Diacon—"Ie, ac onid eistedd yw yr agwedd mwyaf priodol wrth y fath wledd."

Gweinidog.—"Gallai hyny fod, ond nid felly yr oeddynt hwy, y mae yn amlwg, canys eisteddent yn ol arfer y dwyreiniaid, ar wely-faingc ar eu lledorwedd."

Diacon.—"Digon gwir, Syr, darllenais mai dyna y modd yr eisteddai y dwyreinwyr wrth eu byrddau, pa un bynag ai pryd cyffredin ai gwledd a fyddai; ond y mae pob peth i'w gael yn Llundain am arian; gellir cael y nifer a fynoch o'r gwely-feinciau hyn ar ychydig rybydd."

Gweinidog.—"O'r goreu, y mae hyna yn burion."

Diacon.—"Ond, Anwyl Syr, a ellwch chwi feddwl am ryw beth arall, yn yr hwn y gallwn fod yn fwy tebyg i'r Iesu a'i ddysgyblion?"

Gweinidog.—"Ni synwn ddim llawer os oes pethau eraill. Ai nid ar lawr y capel y byddech yn arfer bob amser cyfranu?"

Diacon.—"Ie, bydded sicr."

Gweinidog.—"Nid felly hwy, ond mewn goruwchystafell wedi ei thaenu yn barod."

Diacon.—"Gwir iawn, Anwyl Syr; ond y mae ystafell ëang uwch ben y capel, gallwn barotoi hòno a myned iddi."

Gweinidog.—"Da iawn."

Diacon.—"A dybiech chwi y gall fod rhyw beth yn mhellach yn niffyg ynom?"

Gweinidog.—"Ai nid ydych wedi arfer cymuno y gwragedd a'r merched cyn gystled a'r gwŷr a'r meibion, pan y mae yn amlwg nad oedd yn yr oruwchystafell ond meibion yn unig?"

Diacon.—"Gwir iawn, yr ydym yn mhellach yn ol nag y tybiasom. Os da yn eich golwg, ni gymunwn y meibion yn gyntaf a'r merched wedi hyny; nis gallwn eu hesgeuluso hwy, canys y mae llawer o honynt yn caru yr Iesu."

Gweinidog.—"Chwi ddaethoch yn gampus cyn belled a hyny."

Diacon.—"Ai tybaid fod genych ryw annghydffurfiad yn mhellach?"

Gweinidog.—"Ai nid yw eich nifer chwi yn ugeiniau os nad yn gannoedd?"

Diacon.—"Ydyw."

Gweinidog.—"Nid oeddynt hwy onid deuddeg heblaw yr Athraw."

Diacon.—"Wel, ni a'u cymerwn bob yn ddeuddeg, y mae yn anhawdd genyf goelio fod dim annghydffurfiad eto."

Gweinidog.—"Oes y mae. Yr oedd Judas yn eu plith hwy, ac a glywech chwi ar eich calon gadw lle hwnw?"

Diacoa.—"Os drwg gynt, gwaeth gwed'yn; na ni fynwn ni er fy mywyd gadw lle hwnw, ac mi welaf nad yw yn bosibl dilyn pethau yn mhob rhyw fan, gan fod yr amgylchiadau wedi newid cymaint, fel y gellid barnu yn gydwybodol na buasai Crist a'i Apostolion yn gwneyd fel y gwnaethant tan amgylchiadau eraill."

Nid yw ysgrifenydd y llinellau hyn yn gwybod a ydyw yr hanesyn uchod yn argraffedig ai peidio, oblegyd adroddiad o hono a glywodd fel ffaith, gan un o weinidogion parchus Llundain. Pa fodd bynag, y mae yn eglur fod gwahaniaeth rhwng cymeryd Crist a'i apostolion yn esiampl i'w dilyn, a'u cymeryd yn wrthddrychau i'w dynwared—y mae bod i'r *da* gymeryd ei *well* yn esiampl yn deilwng o ddyn, pan nad yw dynwared ond prin yn deilwng o blentyn.—Buasai darpar esmwyth-feinciau erbyn y Sabbath cyfranu yn ddynwarediad, a dim arall; nis gallasai fod yn foddion tawelwch i gydwybod neb, oddieithr ei fod yn blentyn, neu yn dra phlentynaidd—yr un modd, buasai eu gweled yn dringo yr ystafell uwchben y capel (er cydymffurfio a'r oruwchystafell), buasai hyn yn eu gwneyd yn wrthddrychau dirmyg *rhai* a thosturi y *lleill*; ac nid llawer gwell a fuasai cymuno y meibion o flaen y merched, oblegyd buasai hyn yn peri i'r ferch deimlo ei darostyngiad yn ormod, yn fwy nag ydyw mewn pethau eraill—gallai y wraig ddywedyd, Yr wyf yn cael bwyta ar yr un bwrdd ac ar yr un pryd a'm priod a'm teulu, a phaham y gwarafunir i mi gyd-fwyta âg ef yn yr eglwys? Cyfodai hyn hefyd deimlad cyffredinol y ddynoliaeth yn ffafr y menywaid—ïe, byddai synwyr cyffredin yn sicr o gondemnio yr arferiad—ac nid gwell fuasai yr un o'r amgylchiadau eraill pe eu rhoddid mewn ymarferiad. Gwir yw fod rhagrithwyr yn yr eglwys weledig yn y byd hwn, eto nid oes iddynt na lle na swydd fel y cyfryw—cymerwn sylwedd esiamplau Crist a'i apostolion i'w dilyn ac nid y llythyren. Llanwer ni hefyd âg yspryd Crist, oblegyd od oes neb heb yspryd Crist ganddo, nid yw hwnw yn eiddo ef.—O'r *Methodist*, Tachwedd, 1854.

WREXHAM: ARGRAFFWYD GAN HUGHES A'I FAB, HOPE STREET.